

UCH-HOLWY@@ORY@@ @IWINY@@OL.

0

UCH-HOLWYDDORYDD DIWINYDDOL

GAN Y PARCHEDIG
WILLIAM BURT POPE, D.D. (EDIN.),
Cyn-Athraw Diwinyddol Coleg Didsbury, Manchester.

CYFIEITHEDIG, GYDAG AMRYW NODIADAU

GAN
Y PARCH. T. J. PRITCHARD.

Greffynnon:
ARGRAFFWYD GAN W. WILLIAMS A'I FAB, HEOL FAWR.
1905.

Call 5259.90.30

HARVARD COLLEGE LIBRARY
GIFT OF
HUMPHREY RICHARDS
NOV 30 1934

AT Y DARLLENNYDD.

Y MAE dwthwn o amser bellach er pan y rhoddes yr Awdwr Hybarch, coffa da am dano, ganiatâd i'r Cyfieithydd i osod mewn diwyg Gymreig "rannau, neu yr oll," o'i weithiau diwinyddol. Cyfieithwyd rhan helaeth o'r COMPENDIUM OF CHRISTIAN THEOLOGY gyda'r bwriad o'i gyhoeddi, ond llesteiriwyd fy amcan ar y pryd, oherwydd rhybuddion daroganus ond caredig amrai o'm cyfeillion. Pa un a gyhoeddir hwnnw ai peidio, amser a ddaw a ddengys. Yn y cyfamser ymddanghosodd HIGHER CATECHISM OF THEOLOGY yr Awdwr, a rhedodd ei glôd yn agos ac ym mhell. Wele hwnnw yr awrhon yn nwylo y Cymro, ac yn ei iaith ei hun.

Fod angen am y fath lyfr yn y Gymraeg sy' ddiamheuol. Ystyrir yr Holwyddorydd yn waith safonol yn y Cyfundeb Wesleyaidd trwy'r byd Seisnig; gallwn dybio y dylai hynny ei argymhell i sylw ac efrydiaeth y Trefnydd Cymreig, ac yn wir, ereill nad ydynt yn hollol o'r un golygiadau diwinyddol ar rai o'r pyngciau yr ymdrinnir â hwynt.

Ystyriaf fod y fraint a gefais o dreulio fy nghwrs Diwinyddol wrth draed fy hen athraw edmygus, wedi profi yn fantais, heb yr hon, nis meiddiwn â'r gorchwyl o gyfieithu y Gyfrol hon. Beiddiaf gredu ddarfod i mi lwyddo i osod ger bron y darlennnydd wir feddwl yr Awdwr. Y tri phrif bethau y cadwyd golwg arnynt trwy gydol y Gyfrol ydoedd, cywirdeb, eglurdeb, a symledd. Diau y canfyddir diffygion. Bid a fynno, gwnaethum fy ngoreu i'w hosgoi.

Gan y defnyddia yr Awdwr y Cyfieithiad Diwygiedig yn ei gyfeiriadau Ysgrhythrol, mi fernaist mai doeth fai ei ddilyn yn hynny o beth, pan hynny o bwys.

Er hyfforddiant i'r Efridydd, bernais mai mantais fyddai ychwanegu Nodiadau Eglurhâol fel y codai yr angen am hynny y'nghorff y llyfr. I'r perwyl hwn ymgynghorais âg amryw weithiau pwysig, yn enwedig eiddo Dorner, Schaff, Hodge, a Pope, i'r oll o'r rhai yr wyf i ryw fesur yn ddyledus.

Dymunwn gydnabod yn ddiolchus hir-ymaros rhagorol y tanysgrifwyr, gan ymddiheuro iddynt am eu cadw cŷd yn disgwyl. Nis gallaf ddatgan fy nyled i'r Argraffwyr am eu gofal, eu hynawsedd, a'u boneddigeiddrwydd yn eu rhan hwythau.

Gosodaf hyn o offrwm, gydag yspryd diolchgar, ar yr ALLOR a sancteiddia pa rodd bynnag a osodir arni yn yr yspryd priodol. Gan ddeisyf ar i Dduw pob Dawn ogoneddu Ei Enw Mawr yn hyn o ymgais i lesoli Pobl fy Ffydd, a'm Cenedl yn ol y cnawd,

Y Gorffwysaf, &c.,

T. J. PRITCHARD.

MERTHYR TYDFIL,

Gwyliau'r Nadolig, 1904.

Y CYNHWYSIAD.

RHAGARWEINIAD.

	TU DAL-
I. DIWINYDDIAETH	3
II. DIWINYDDIAETH GRISTIONOGOL	6
III. DIWINYDDIAETH YN YR EGLWYS	7
IV. DIWINYDDIAETH FEL GWYDDOREG.. .. .	13

Y LLYFR I.

Y DATGUDDIAD CRISTIONOGOL A RHEOL FFYDD.

PENNOD I.

DATGUDDIAD A'R FFYDD GRISTIONOGOL	19
---	----

PENNOD II.

CREDEBAU NEU BROFION DATGUDDIAD	29
---	----

PENNOD III.

YR YSGRYPHYRAU YSPRYDOLEDIG	54
-------------------------------------	----

PENNOD IV.

CANON YR YSGRYTHUR	65
----------------------------	----

PENNOD V.

DWYFOL REOL FFYDD	71
---------------------------	----

LLYFR II

DUW.

PENNOD I.

Y DRINDOD SANCTAIDD	TU DAL.	78
-----------------------------	---------	----

PENNOD II.

Y PRIODOLEDDAU DWYFOL	86
-------------------------------	----

PENNOD III.

YMDRINIAETH HANESIOL	94
------------------------------	----

LLYFR III.

DUW A'R CREADUR.

PENNOD I.

Y GREADIGAETH	105
-----------------------	-----

PENNOD II.

Y BYDYSAWD CREEDIG	109
----------------------------	-----

PENNOD III.

RHAGLUNIAETH	118
----------------------	-----

PENNOD IV.

YMDRINIAETH HANESIOL	122
------------------------------	-----

LLYFR IV.

PECHOD.

PENNOD I.

PECHOD, EUOGRWYDD, COSP	129
---------------------------------	-----

PENNOD II.

Y PECHOD GWREIDDIOL	136
-----------------------------	-----

PENNOD III.

YMDRINIAETH HANESIOL	TU DAL- .. 152
------------------------------	-------------------

LLYFR V.

GWAITH CYFRYNGOL Y GWAREDWR.

PENNOD I.

BWRIAD GWAREDIGOL Y TRI-UN-DUW	162
--	-----

PENNOD II.

PERSON CRIST.. .. .	172
---------------------	-----

PENNOD III.

HANES Y GYFRYNGWRIAETH	181
--------------------------------	-----

PENNOD IV.

YR IAWN GORFFENEDIG	201
-----------------------------	-----

LLYFR VI.

CYMHWYSIAD Y PRYNEDIGAETH.

PENNOD I.

YR YSPRYD GLÂN FEL GWEINYDDWR	218
---------------------------------------	-----

PENNOD II.

GALWAD YR EFENGYL	225
---------------------------	-----

PENNOD III.

GRÂS RHAGFYNEDOL AC AMODAU YR IECHYDWRIAETH	231
---	-----

PENNOD IV.

Y CYFLWR O RÂS	246
------------------------	-----

PENNOD V.

CYFLWR PRAWF YR EFENGYL	304
---------------------------------	-----

PENNOD VI.

MOESAU Y PRYNEDIGAETH.. .. .	TU DAL.
	321

PENNOD VII.

YR EGLWYS GRISTIONOGOL	353
--------------------------------	-----

LLYFR VII.

Y PETHAU DIWEDDAF.

PENNOD I.

MARWOLAETH A'R SEFYLLFA GANOL	394
---------------------------------------	-----

PENNOD II.

AIL-DDYFODIAD CRIST: ADGYFODIAD A BARN	402
--	-----

PENNOD III.

Y CYFLAWNIAD, NEU DDIWEDD POB PETH	422
--	-----

NODIADAU	429—494
------------------	---------

GWELLIANT GWALLAU.

—

Er arfer pob gofal, gwelaf ddarhod i'r gwallau isod llithro i mewn:—

Yn lle “Yr Efrdydd a adolyga,”	Darlennen, yr efrdydd a adolyga yn [barhaus, t.d. 16, llin. 9 o'r gwaelod.
“Ohono wybodseth,”	Darlennen, ohono i wybodaeth, t.d. 19, [llin 7 o'r gwaelod.
“Mynedol,”	Darlennen, gorffennol, t.d. 56, llin. 6 o'r gwaelod.
“Cyhoedus,”	,, cyhoeddus, t.d. 68, llin. 18 o'r gwaelod.
“Yw dweud,”	,, iw dweud, t.d. 74, llin. 7 o pen y ddalen.
“Wahanaeth,”	,, wahaniaeth, t.d. 77, llin. 8 o pen y ddalen.
“Yndynt,”	,, ydynt, t.d. 77, llin. 16 o pen y ddalen.
“Ar bath,”	,, ar ba, t.d. 78, llin. 3 o pen y ddalen.
“Ymsyniad,”	,, ymsyniad, t.d. 95, llin. 12 o'r gwaelod.
“Ddiwynyddol,”	,, ddiwynyddol, t.d. 96, llin. 1 o'r gwaelod.
“Cyfamod,”	,, cyfamod, t.d. 116, llin. 5 o pen y ddalen.
“Yn glych,”	,, ynghylich, t.d. 126, llin. 3 o pen y ddalen.
“Gwahanaeth,”	,, gwahaniaeth, t.d. 131, llin. 8 o pen y [ddalen.
“ <i>Paratoma</i> ,”	,, <i>paraptoma</i> , t.d. 141, llin. 10 o'r gwaelod.
“Chosg,”	,, chosp, t.d. 151, llin. 14 o pen y ddalen.
“Terfynol,”	,, derfynol, t.d. 156, llin. 18 o pen y ddalen.
“Olrhain,”	,, olrhain, t.d. 156, llin. 12 o'r gwaelod.
“Gwirionedd,”	,, gwirioneddol,” t.d. 157, llin. 11 o'r [gwaelod.
“O'r hyn oedd,”	,, o'r hyn yr oedd, t.d. 190, llin. 15 o pen y [ddalen.
“Ad,”	,, ac, t.d. 207, llin. 5 o pen y ddalen.
“A'r hwn,”	,, a'r hyn, t.d. 226, llin. 10 o'r gwaelod.
“Gyfiawnhâd,”	,, gyfiawnhâd, t.d. 278, llin. 2 o'r gwaelod.
“Nac,”	,, nag, t.d. 301, llin. 14 o pen y ddalen.
“Naill o,”	,, naill ai o, t.d. 305, llin. 13 o pen y ddalen.
“Rhaid,”	,, rhai, t.d. 336, llin. 1 o'r gwaelod.
“Mwen,”	,, mewn, t.d. 336, llin. 1 o'r gwaelod.
“Bydydd,”	,, bedydd, t.d. 371, llin. 15 o'r gwaelod.
“Ac yr,”	,, ac yn, t.d. 372, llin. 7 o pen y ddalen.
“Farn,”	,, farn, t.d. 400, llin. 4 o pen y ddalen.
“O'i câos,”	,, o'r câos,” t.d. 451 llin. 17 o'r gwaelod.

NODYN.

D.S.—Er diogeli unffurfiaeth yn yr Orgraff, dymunwn ar i'r geiriau a ganlyn gael eu sillebu megis isod, lle bynnag y digwyddont fod yn wahanol :—Amheuaeth, anhawster, anhepgorol, Apocriffa,—aidd, bid a synno, cynneddf, cynheddfau, cynnwys, cynhwysiad,—edig, cynhennid, cynnydd, cynhyddol, cyrraedd, cymwys, cymhwysiad—wy, diffyniad, diffynnol, dibynnol, dyfynnu, ffynnu—ai—odd, gyrru, hyd yn oed, hanner, presennol, ysgrifenwyr, ysgrifennu—odd—ydd, ymdrinnir.

T. J. P.

RHAGARWEINIAD.

- I. DIWINYDDIAETH.**
- II. DIWINYDDIAETH GRISTIONOGOL.**
- III. DIWINYDDIAETH YN YR EGLWYS.**
- IV. DIWINYDDIAETH FEL GWYDDOR.**

RHAGARWEINIAD.

1. Beth yw diwinyddiaeth Gristionogol?

Y wyddor, neu y wybodaeth am Ddaw a phethau Dwyfol; neu grefydd, fel y mae yn sylfaenedig ar y datguddiad a wnaed i ddynolryw yn Iesu Grist; ac fel ei cyfundrefnwyd yn yr Eglwys Gristionogol.

2. Beth sydd gynwysedig yn y darnodiad hwn?

(1) Cynhwysa yn gyffredinol holl gylch gwybodaeth ddiwinyddol, neu holl gyfanswm llenyddiaeth Gristionogol.

(2) Ond cyfyngir ef yn arbennig i'r hyn a ymdrinia â ffydd, ymarferiad, ac addoliad y cymundeb a sylfaenwyd gan ein Harglwydd.

3. Pa fodd y gallwn ddosrannu y pwngc mewn ffordd o ragarweiniad?

Trwy ystyried prif egwyddorion (1) diwinyddiaeth a chrefydd; (2) diwinyddiaeth Gristionogol a chrefydd fel y cyfryw; ac yn (3) y dehongliad gwyddorol ohonynt yn yr Eglwys.

§ 1. Diwinyddiaeth a Gbrefydd.

1. Beth yw diwinyddiaeth briodol?

Yr Athrawiaeth am Dduw. Tardda y gair Saesneg *Theology* o'r Roeg (*theos*=Duw, a *logos*=traethawd.) Tardda y gair Saesneg *divinity*, fel y gair Cymraeg diwinyddiaeth o'r Lladin (*divinus*), a chynhwysa y gair hwn yn fwy cyffredinol, bob peth Dwyfol.

2. Y'mha ystyr y cynhwysa y gair hwn bob peth?

Oblegid nad oes dim y'ngwybodaeth dyn am dano ei hun, na'r bydysawd, ar nad yw yn perthyn i Dduw; ac yn fwy penodol, oblegid mai Duw yw y gwrthddrych mawr, a'r pennaf y'mhob dosran o lenyddiaeth ddiwinyddol.

3. Beth, mewn dyn, y mae yr athrawlaeth am Dduw yn ei ragdybio?

Cynneddf i dderbyn y wybodaeth a gyfranna Duw am dano Ei Hun; neu ei fod yn alluog o grefydd.

4. Beth yw Crefydd?

(1) Dyna ydyw, yn fanwl, yr ymrwymeb (*religere*) sydd y'nghyfansoddiad natur dyn yn ei uno â Duw; ffydd xi fod (Heb. xi. 6), ac ymwybodaeth o ddibynniad a rhwymedigaeth.

(2) Mewn ystyr eangach, y ffurf honno ydyw yn yr hon y mynega y teimlad crefyddol ei hun mewn addoliad, dyletswydd, a chymunndeb.

5. Pa fodd y cysylltir y geiriau crefydd a diwinyddiaeth?

(1) Ar y naill law y mae crefydd yn eangach na diwinyddiaeth. Agwedd yr holl ddyn tuag at Dduw ydyw'r flaenaf; ond âg ymofyniadau a barnau ei feddwl yn unig y mae a wnelo yr olaf. (2) Ar y llaw arall, y mae diwinyddiaeth yn llawer eangach na chrefydd, gan mai at berthynasau dynol yn unig y cyfeiria y gair olaf, tra yr amgryhaedda y blaenaf dros berthynas pob peth â Duw. Ond (3) y mae eu dylanwad ar eu gilydd yn bwysig. Cymera crefydd dyn ei nodwedd oddiwrth ei ddiwinyddiaeth, ond y mae y gwrthol hefyd yn wir, sef mai fel y bo addoliad dyn, felly y bydd ei gredo.

6. Beth y mae y cyfyngiad hwn i ddyn yn ei awgrymu?

(1) Mai y gwrthddrych canolog, mewn rhyw ystyr, yw dyn; yn brin yr ymdrinir â pherthynas pob bôd, a phopeth arall, ond nis gadewir allan ddim ar sydd yn dal perthynas hanfodol â natur a thynged dynolryw.

(2) Fod yr hyn a ddysgir am Dduw yn gyfaddasol i gynheddfau dyn, cysys dynweddol (*anthropomorphic*), fel ei gelwir, yw y drefn Ddwyfol; yr hyn sydd ymostyngiad i ddefnyddio iaith dyn am Dduw.

(3) Gan hynny fod efrydu diwinyddiaeth yn yr oll ohoni yn awgrymu urddas a gwerth anrhaethadwy y natur ddynol y'ngolwg y Duw a greodd ddyn ar Ei ddelw Ei Hun.

7. A awgrymir dim arall drwy undeb y geiriau hyn?

(1) Mai Duw yw yr unig Ddysgawdwr am y pethau am dano Ei Hun; Efe yn unig, yr hwn a roddes y gynneddff, a'r reddff, a all ymateb iddi.

(2) Mai hanfod diwinyddiaeth yw gwybodaeth ymarferol o Dduw, fel ei datguddir yn Ei Fab trwy yr Ysryd.

(3) Mai mewn ysryd parchedig a duwiolfrydig yn unig y gellir cario y'mlaen yr efrydiaeth hon yn llwyddiannus. Am Dduw y mae yr oll ohoni, oddiwrth Dduw y deillia, ac at Dduw yr arweinia.

8. I ba gyfeiriad yr edrychwn am y brif dystiolaeth ddarfod i Dduw ymddarostwng i ddysgu i ddyn ei ddiwinyddiaeth a'i grefydd?

I Ymgnawdoliad y Mab Tragwyddol, yr Hwn yw Duw, yn dysgu i ddyn ei grefydd yn ei natur ddynol ei hun.

§ 2. Diwinyddiaeth Gristionogol.**1. Mynegwch yn fwy penodol berthynas diwinyddiaeth a Iesu Grist.**

Efe yw Pen-Dysgawdwr diwinyddiaeth a chrefydd; un ydynt ynddo Ef.

2. Y'mha ystyr y maent yn un ynddo Ef?

Y mae Efe wedi datguddio Duw yn Ei berson Ei Hun, gan wneuthur y datguddiad hwnnw yn ganolbwynt pob gwirionedd; ac ar yr hwn y sefydlodd Efe y Grefydd Gristionogol, sydd yn cyfarfod â holl hawliau perthynas dyn a'i Grëwr.

3. A oedd dim crefydd yn y byd cyn ei ddyfodiad Ef?

Oedd, crefydd natur, heb un datguddiad penodol, ac yr oedd crefydd ddatguddiedig y'mhlith yr Iddewon; a'r ddwy yn rhagddarparu, er mewn ystyr dra gwahanol, ar gyfer y Datguddiwr mawr a therfynol.

4. Beth yw perthynas Cristionogaeth a chrefydd natur?

(1) Yr oedd diwinyddiaeth oreu crefydd natur yn gyn-wysedig mewn egwyddorion anysgrifenedig o wirionedd, a gaed

mewn dynion yn gyffredinol; apeliodd y Gwaredwr at y rhai'n, gan eu cadarnhau.

(2) Bu i lygriadau o'r egwyddorion hyn ymfurfio i chwedl-oniaeth, ar y naill law, neu athroniaeth ar y llaw arall. Condemniodd Cristionogaeth y cyfeiliornadau y'nglyn â'r rhai'n, a chywirodd hwynt.

(3) Ei chrefyddau oeddynt y cyfundrefnau mawrion a gaed dros yr holl ddaear, yn enwedig yn y Dwyrain; y rhai, eto, y daeth Crefydd Crist i wneud i fwrdd â hwynt, a'u di-ddymu.

5. Beth yw yr hyn a elwir yn ddiweddar yn Grefydddeg?

Efrydiaeth a dosparthiad o'r amrywiol ddadblygiadau o'r reddf grefyddol yn yr hil ddynol, a'r hyn a ddygir y'mlaen heb gyfeiriad at ddatguddiad goruwch-naturiol.

6. Beth yw perthynas diwinyddiaeth Gristionogol a'r wyddoreg hon?

Hi a fabwysiaida ddefnyddiau y wyddoreg hon at ei phwrpas ei hun, er amlygu angen y byd am un grefydd berffaith. Ond tra y dechreuâ Crefydddeg gyda dyn, gan wneud Cristionogaeth yn ddim amgen nag un o ffurfiau y reddf grefyddol, fe ddechreuâ diwinyddiaeth Gristionogol gyda Duw, yr Hwn a ddyry un datguddiad mawr trwy Ei Fab, eiddo yr Hwn yn anuniongyrchol, yw pob amlygiad arall o wirionedd.

7. Beth yw perthynas diwinyddiaeth Gristionogol, a'r un Iddewig?

Bu i ddiwinyddiaeth yr Hen Destament, y ddiwinyddiaeth Batriarchaidd, y Foesenaidd, a'r Broffwydol gael eu cyflawni a'u perffeithio trwy ddydsgeidiaeth Crist. Megis y condemnir gŵyriadau crefydd naturiol, felly hefyd y condemnir ei gŵyriadau hithau yn niwinyddiaeth y Rabbinniaid, neu y Talmud.

8. Y'mha le y mae elfennau y ddiwinyddiaeth hon y'ngwadw?

Yn Ysgrhythrau y Testament Newydd, y rhai ydynt fynegiad o sefydliad y Grefydd Gristionogol ac ysgrifeniadau y ffydd Gristionogol.

9. Pa fodd y cysylltir diwinyddiaeth Gristionogol a'r elfennau hyn?

Amcenir pob egwyddorion cyntaf er eu cymhwysiad at fywyd; ac y mae Sylfaenydd Cristionogaeth wedi gadael egwyddorion Ei ddiwinyddiaeth i'w hëangu gyda thyfiant Ei grefydd, nes iddi yn y cyfryw fodd gyrraedd ei dadblygiad llawn; mewn geiriau ereill, gadawodd iddi ymddadblygu y'nghynulleidfa ei bobl.

10. Yn y cyfamser, pa rwymedigaeth a argreffir gan Ei enw Ef?

Y rhaid i'r efrydiaeth o ddiwinyddiaeth, yn ei holl gylch, dalu ei theyrnged i urddas ac awdurdod Ei Berson Ef.

§ 3. Diwinyddiaeth yn yr Eglwys.

1. Pa berthynas sydd rhwng diwinyddiaeth a'r Eglwys?

(1) Yn gyffredinol, diwinyddiaeth yw cyfanswm y lenyddiaeth honno y rhoddwyd bôd iddi gan Gristionogaeth.

(2) Yn neulltuol, diwinyddiaeth yw y trefniant ffurfiol o'r moddau y darfu i'r Eglwys ddadlenni, hyfforddi, ac amddiffyn egwyddorion y ffydd Gristionogol.

2. Beth y mae hyn yn ei ragdybio?

(1) Ddarfod i'n Harglwydd gyflwyno yr Ysgrythyrau i'w bobl i fod yn rheol ffydd ac ymarweddiad am byth.

(2) Ei fod Ef yn bresennol trwy Ei Yspryd, a'i fod yn gwylio dros ddadblygiant graddol hyfforddiant a gwybodaeth grefyddol.

3. Pa ffurfiau o hyfforddiant sydd wedi bod yn yr Eglwys?

(1) Y ffurf gyntaf a'r fwyaf gyffredinol ydoedd agoriad yr Ysgrythyrau er adeiladaeth credinwyr. O hyn y tarddodd diwinyddiaeth ymarferol, yr hon sydd swyddogaethol yn y swydd weinidogaethol, a mwy cyffredinol y'mhob llenyddiaeth grefyddol ddefosiynol.

(2) Hyfforddiant holwyddorol gan holwyddorwyr; gwaith y rhai oedd darparu hyfforddiaid (*catechumens*) am fedydd: rhai mewn oed cyn eu bedyddio, a phlant wedi hynny. O hyn y cyfododd diwinyddiaeth gyffredinol yr hyfforddych.

(3) Deffiniadau o'r ffydd, megis yn erbyn heresiaü, y rhai a draethir mewn Dogma,* neu benderfyniadau awdurdodedig ar bwngc o athrawiaeth. O hyn y cyfododd yr hyn a elwir, yn ei ystyr fanol yn ddiwinyddiaeth ddogmataidd, neu athrawol, sef dehongliad o'r credôau, a'r cyffesiâu ffydd.

(4) Rhoddodd diffyniad o'r ffydd yn erbyn ymosodiadau achlysur i ddiwinyddiaeth ddiffynnol, yr hon fel ei dygir y'mlaen yn yr Eglwys, a elwir yn Ddiwinyddiaeth Ddadleuol, ond yr hon, fel ei chymhwysir yn erbyn gelynion allanol a elwir yn Ddiwinyddiaeth Ddiffynnol, neu, Y Profion. Y mae hon wedi profi yn gangen ffrwythlon o lenyddiaeth Gristionogol.

4. Beth yw y gwahaniaeth rhwng Credoau a Chyffesiâu?

A siarad yn gyffredinol, y credôau oeddynt osodaethau awdurdodedig o'r ffydd yn yr Eglwys gyntefig, cyn ymrannu ohoni; y cyffesiâu, y safonau, yr erthyglau, neu y ffurf-reolau, eiddo yr Eglwys ymranedig ydynt, yn ei chymundebau unigol.

5. Pa rai oeddynt y Credoau cyntefig?

Credo'r Apostolion,† yr hon sydd eangiad graddol ar ffurf-reol y bedydd; (2) Credo Nicea;‡ yr unrhyw a'r un flaenorol, ond gyda deffiniad croewach o'r Fabolaeth Dragywyddol; (3) Credo Athanasius,|| yr hon a wahaniaetha yn ei dehongliad cyflawnach o'r Drindod a'r Ymgnawdoliad.

6. Beth ydoedd diwinyddiaeth y cyfwng rhwng y Credoau a'r Cyffesiâu?

Gellir ei galw yn Ddiwinyddiaeth y Canol-Oesoedd. Yn ystod y Canol-Oesoedd yr oedd tywyllwch a goleuni mewn gwrthymdrech â'u gilydd. Cymharol ddigwyfro ydoedd diwinyddiaeth yn y Dwyrain; ond fe'i hefrydid yn egnïol yn y Gorllewin, yn Ysgolion, neu Brif-Ysgolion Ewrob, oddiwrth yr hyn y tarddodd yr enw Diwinyddiaeth Athrofaol, neu Dduwinyddiaeth yr Ysgolwyr. Bu i hon gymeryd dwy ffurf; dadblygodd

* Bernais mai gwell fai defnyddio y gair *dogma* er gochelyd yr amwysedd sydd yn y gair athrawiaeth. Athrawiaeth yn briodol yw a ddysgir yn y Beibl; dogma yr hyn a ddysgir yn yr Eglwys.—T. J. P.

† ‡ || Gwel y Nodiad I. yn niwedd y Llyfr.

y naill yr egwyddorion a gorfforwyd ar ol hynny yn y ffurf derfynol o Babyddiaeth; darparodd y llall, yr hon oedd yn fwy Efengylaidd, a chyfrinaidd, y ffordd mewn amrywiol foddau i'r Diwygiad Protestanaidd.

7. Beth y gellir galw Diwinyddiaeth Gyffesiol?

Diwinyddiaeth Gyffesiol sydd gyfryw a gynrychiola amrywiol olygiadau y fydd Gristionogol a ddêlir gan bleidiau Crêd er yr unfed-ganrif-ar-bymtheg; tystiolaeth a dysgeidiaeth athrawiaethol a dadleuol pob cymundeb ar wahân, a'i ystyried yn ei berthynas â'r rhai ereill.

8. Ennwch brif Ganghennau hon.

(1) Diwinyddiaeth Brotestanaidd yn gyffredinol yw dysgeidiaeth yr holl gymundebau a ymwahanasant oddiwrth Undeb Pabaidd Eglwys y Gorllewin. Yr oedd hon yn wrthwynebol i'r Eglwys Babaidd, yr hon hithau, yn ol dysgeidiaeth Trent, ydoedd brotest yn erbyn Protestaniaeth.

(2) Dwy brif ffurf Protestaniaeth Ewropeaidd ydoedd yr un Lutheraidd, neu Efengylaidd; a'r un Ddiwygiedig neu Galfinaidd. Yr oedd y flaenaf yn fwy Sacramentaidd yn ei thuedd, a'r olaf yn fwy rhagarfaethol: ond y naill a'r llall, yr un oeddynt, yn hanfodol.

(3) Cododd y Ddiwinyddiaeth Arminaidd, neu Wrthdystiol (*Remonstrant*) i fyny yn Holland, fel gwrthdystiad yn erbyn Rhagarfaethiad.

(4) Poland ydoedd cartrefle y ddysgeidiaeth Sosinaidd, yr hon hithau oedd seiliedig ar wrth-dystiad anysgrhythrol yn erbyn gwahaniaeth y Personau yn y Duwdod, a'r hon a raddol-dreiglodd i lawr i Undodiaeth ddiweddar.

9. Paham y gelwir diwinyddiaeth gyffesiol weithiau yn ddiwinyddiaeth symbolaidd, neu arwyddlun- iol?

Gelwir hi felly oddiwrth y gair *symbolôn*, y gair celf am gredo, neu ffurfreol cyffes.

10. Pa rai ydynt y prif symbolau neu gyffesiâu?

Gwedi amser y Diwygiad, ac fel ei ffrwyth, bu i'r prif gymundebau ddwyn allan olyniaeth o ffurfreolau a hyfforddïau.

(1) Prif safon Lutheriaeth ydoedd Cyffes Augsburg (1530), a Holwyddorydd Luther, a ddilynwyd tua hanner canrif yn ddiweddarach gan y FORMULA CONCORDIÆ.*

(2) Cychwynodd yr Eglwys Ddiwygiedig, neu Galfinaidd, allan gyda Chyffes Helvetia (1564), a Holwyddorydd Heidelberg (1563) a ddilynwyd gan ereill yn Ffraingc, a mannau ereill. Fel cangen o'r Eglwys Ddiwygiedig dygodd Presbyteriaeth allan Gyffes Westminster, yr hon fel y mae wedi ei chymedroli yng Nghyffes Savoy, ac ereill, a erys hyd heddyw mewn ystyr, y Safon gydnabyddedig yn Eglwysi Presbyteriaidd, a Chynulleidfaoel Lloeger a'r Amerig.

(3) Cafodd Eglwys Loeger ei phrif safon yn y Deugain-erthygl-namyn-un, gan gyfuno ohoni brif elfennau y ddwy Gyffes flaenorol.

(4) Darfu i Arminiaeth, a gododd i fyny yn Holland, fel gwrth-dystiad yn erbyn Calfiniaeth, ddwyn allan Gyffes Wrth-dystiol (1620), yn benodol mewn Pum' Pwngc Gwahaniaethol; † nid yw hon, serch hynny, yn Gyffes fyw, ac nid yw Arminiaeth, chwaith, yn gorff ar wahân.

(5) Ni chydnebydd Cymdeithas y Cyfeillion, neu y Crynwyr, unrhyw safon ddynol, er hynny, y mae Diffyniad Barclay o'r un natur a Chyffes Ffydd.

(6) Nid yw Trefnyddiaeth Wesleyaidd wedi dwyn allan unrhyw gyffes ffurfiol a chyffredinol. Ond hi a ddeil gan mwyaf y Tri Chredo, a ffurfreol athrawiaethol Eglwys Loeger. Ond ceir ei safonau, yn fwyaf neulltuol mewn ysgrifeniadau penodol o eiddo Sylfaenydd y Gymdeithas. Amcana Trefnyddiaeth Americanaidd at gyffes fwy gwahaniaethol.

(7) Y mae y Gyfundrefn Sosinaidd hefyd wedi colli ei gafael; a chymerir ei lle gan Undodiaeth ddiweddar; ond gyda dysgeidiaeth llawer is am Berson Crist, Ei gymundeb a'r Tad, yn y nefoedd, a'i Arglwyddiaeth dros bob peth.

(8) Fe gafodd hen gymundebau y Dwyrain, a'r Gorllewin hefyd, eu Cyffesiadau newydd. Arfaethau Cymanfa Trent, a Holwyddorydd Pius y V. oeddynt athrawiaethau diffinedig

* Gwel Nodiad I. † Gwel Nodiad II.

Eglwys Rhufain, y rhai yr ychwanegwyd atynt yn yr oes bresennol, benderfyniadau y Vatican yn 1854 a 1870. Y mae Eglwys Groeg wedi ymgadw ohoni at y Credôau Cyntaf, er wedi ychwanegu atynt amryw gyffesiâu diweddar.

11. A ellir olrhain diwinyddiaeth gyffredinol neu gatholig, trwy yr oll o'r rhai'n?

Gellir, canys y mae tystiolaeth ddball i wirioneddau sylfaenol yr Efengyl wedi ffynnu, o'r pryd y dechreuodd yr Eglwys Gristionogol ddadblygu dysgeidiaeth Ysgrythyrol hyd heddyw; yr hyn sy' ddiwinyddiaeth gatholig yn yr ystyr gywiraf, ac un na lwyddodd unrhyw gyfeiliornad, yn unrhyw gymundeb, nac hyd yn oed, yn yr oes dywyllaf, i'w chwbl guddio.

12. Beth a ddeallir yma wrth ddadblygiad?

Y mae i'r gair dadblygiad ddau feddylddrych, sef amlygiad yr hyn sydd eisoes yn guddiedig, ac estyniad cyfle tyfiant i hedyn a ddisgwyliai am ei adeg. Ymddadblygodd dysgeidiaeth yr Yspryd Glân, yn y ddwy ystyr a nodwyd, yn nysgeidiaeth ddogmataidd yr Eglwysi, ond yn yr olaf, pa fodd bynnag, nid yn ddiberygl.*

13. Pa berthynas ynte, sydd rhwng athrawiaeth a dogma?

A siarad yn fanwl, o Dduw yn unig y tardd athrawiaeth, ond opiniwn sefydledig dyn, yw dogma. Fithr mewn arferiad cyffredin athrawiaeth yw dysgeidiaeth dderbyniedig, a dogma yw y mynegiad sefydledig ohoni mewn cyffesiâu Eglwysig.

14. Pa egwyddorion cyffredinol sydd wedi arwain rhagddo y dadblygiad, yn ol y darnodiad uchod?

Canfyddir rhai tueddiadau penodol yn hanes yr Eglwys:—

(1) Yr oedd diwinyddiaeth y Tadau (i lawr i o.c. 600) yn ddostranedig i ddwy gangen; y naill yn fwy ffyddlon i lythyren yr Ysgrythur, a'r llall yn fwy athronyddol, cyfriniol a damcanol. Y mae y ddwy hyn wedi parhau yn sefydlog i raddau mwy neu lai hyd yn bresennol.

* Gwel Nodiad III.

(2) Elfen amlwg yn nabblygiad y rhan helaethaf o ddiwinyddiaeth yr Eglwys yw y duedd sydd wedi ffynnu i lygru sylmrwydd y ffydd er mantais i au-ddamcaniaeth am undeb yr Eglwys, a'i chyd-gysylltiad â'r syniad o ddehongliad traddodiadol anffaeledig. Hwn yw y dylanwad sydd wedi ffynnu eangaf.

(3) Ceir hefyd duedd gyfriniol sydd wedi taflu ei llewyrch ar ddiwinyddiaeth o'r dechreuad,—llewyrch sydd mewn rhan yn gau, ac mewn rhan yn ddilys. Nid yw y duedd hon wedi ei chyfyngu i unrhyw adran benigol o'r Eglwys, ac nis cauwyd mo honi allan o gymaint ag un. Nid oes yr un elfen wedi bod yn fwy treiddiol na hon.

(4) Dylanwadodd yspryd Eang-grededd, neu yr yspryd Eclectaidd* (*Latitudinarian or Eclectic Spirit*) ar ddysgeidiaeth ddiwinyddol yn neulltuol yn yr adegau boreol a'r rhai mwy diweddar o hanes Cristionogaeth. Egwyddor yr yspryd hwn yw ymddwyn yn ddifater tuag at bob traethiad neu benderfyniad dogmataidd.

(5) Y mae Rhesymolaeth wedi chwareu ei rhan y'mhob oes, yn arbennig felly yn yr oes ddiweddaf. Ei hyspryd hi, diffyg ymddiriedaeth drwgdybus yw, yn y ffydd ddiffuant, gyda thalu gwarogaeth ormodol i reswm noeth yn nerbyniad pob gwirionedd a broffesir sydd ddatguddiedig.

15. Pa obaith a ellir ei feithrin am y dyfodol?

Y bydd i'r holl gymundebau gael eu dwyn yn nes-nes i *undeb y ffydd* (Eph. iv. 13); o'r hyn nid ydys heb luaws o arwyddion. A dyletswydd pob diwinydd yw hyrwyddo hyn y'mlaen.

16. Yn y cyfamser, beth yw dyletswydd yr Efrydydd?

Efrydu diwinyddiaeth yn hanesiol megis y'i cynrychiolir gan bob cymundeb crefyddol, canys heb hyn, nis gall ymsymud rhagddo gyda sicrwydd tuag at ddiogelu yr undeb cyffredinol a nodwyd. Ond, ei ddyletswydd, ar yr un pryd, yw dal gafael yn y gyffes y creda efe ddarford i Ragluniaeth ei hymddiried iddo; ac y'ngoleuni honno efrydu gyda hyder gostyngedig, holl gylch diwinyddiaeth. Y'mhob peth, ac uwchlaw popeth, rhaid yw iddo wneud yr Ysgrythur ei egwyddor, ei arweinydd a'i apêl terfynol.

* Gwel Nodiad IV.

§ 4. Diwinyddiaeth fel Gwyddoreg.

1. Pa hawl sydd gan Ddiwinyddiaeth i'r enw o Wyddoreg?

Gwyddoreg yw y trefniant rhesymegol o wirionedd profedig; a dengys diwinyddiaeth, y'ngwyneb pob prawf fod ganddi hawl i fod yr hyn a nodir.

2. Y'mha ystyr y mae yn wirionedd profedig?

Gwirionedd diwinyddol yw cydymffurfiad ein gwybodaeth a'r ffeithiau (*realities*) am Dduw a'r byd anweledig. Y gwiriant o'r rhai'n yw y ffydd sydd yn derbyn ac yn ymddiried yn y dystiolaeth a ddygir i'r cyfryw gan Dduw Ei Hun.

3. Oni phenderfynir gwiriant gwyddoreg fel y gyfryw gan reswm yn unig?

Y'ngosodiad i lawr seiliau pob gwyddoreg, rhaid yw i reswm fod yn ffydd, neu rhaid iddo ddod i hynny. Crediniaethau nas gellir mo'u dinystrio yw egwyddorion cyntaf gwybodaeth, y rhai ydynt wiriadau, neu brofion, er nas gellir eu profi gan reswm fel y mae i'w wahaniaethu oddiwrth ffydd.

4. Beth yw perthynas ddiwinyddol rheswm a ffydd?

Tra y gwna athroniaeth i ffydd ymgolli mewn rheswm, ceidw diwinyddiaeth hwy ar wahan: ffydd yw y prawf o'r pethau nid ydys yn eu gweled, derbynnir y prawf gan reswm, a ffurfia yntau mewn trefn resymegol holl ddefnyddiau y wybodaeth hon, i wyddoreg reolaidd a chyfundrefnus.

5. Y'mha le y cesglir defnyddiau y wyddoreg hon?

Y'mhob cylch: yn ymwybyddiaeth dyn; yn y byd allanol; yn ysgrhythrau datguddiad; ac y'mhrofiad cyffredinol dynolryw.

6. Onid yw hyn yn gwneud diwinyddiaeth yn wyddoreg gyffredinol?

Ydyw, a hynny hefyd mewn ystyr nad yw briodol i un wyddoreg arall: ond mewn diwinyddiaeth y mae y wyddoreg yn israddol i'r bywyd ymarferol. Gellir cymhwyso pob gwyddoreg wirioneddol at leshâd y dyn, ond yn arbennig felly, diwinyddiaeth yn ei pherthynas â moeseg.

7. Beth yw ei pherthynas hanfodol a gwyddorau ereill?

Yn wir, y mae a ymwna y gwyddorau am fodaeth, a gwybodaeth, megis Bodeg,* Meddyleg, ac Athroniaeth briodol ag un gangen o ddiwinyddiaeth, sef Duw, a pherthynas y bydysawd âg Ef. Ac nis gellir efrydu Eneideg† gyda chywirdeb, ynghyd a'r holl ymofyniadau a ymgodant y'ngylch dyn fel corff ac enaid ar wahân i ddiwinyddiaeth. Ni pherthyn y gwyddoregau naturiol, fel y cyfryw, yn uniongyrchol iddi; ond dylid eu gwerthfawrogi fel efrydiaeth o arddangosion (*phenomena*) a deddfau, yn ol y deyrnged a dalant, neu a ballant ei dalu, i Awdwr Goruchel y bydysawd a'i ddeddfau.

8. Pa fodd yr ydym i ddeall trefniant rhesymegol ein gwyddoreg?

(1) Defnyddia diwinyddiaeth y rheolau trwy y rhai y gwneir feithiau yn wyddoreg; sef trwy gyfosodaeth, yr hyn sydd gwrswethrediad ymresymiadol a grynhoâ y neulltuol i'r cyffredinol; a chasgliadaeth (*deduction*),‡ yr hyn a garia wirionedd cyffredinol i'w luaws gymhwysiadau. Trwy y blaenaf, a siarad yn gyffredinol, y deuir o hyd i ddefiniadau dogma ddiwinyddol; yr olaf yn swyaf penigol a reola foeseg ddiwinyddol.

(2) Y canlyniad yw diwinyddiaeth gyfundrefnol, yr hon sydd gyflwyniad trefnus o'r holl bwngc yn ei holl ganghennau, ynghyd â pherthynas y canghennau hyn â'u gilydd.

9. Pa rai ydynt ganghennau diwinyddiaeth gyfundrefnol?

Tair ydynt yn bennaf, sef

(1) Diwinyddiaeth Feiblaidd, gwaith yr hon yw ymchwilio i'r Ysgrhythrau, a'u hamddiffyn, gan osod allan eu hamrywiol hyfforddiadau yn gyfundrefnol.

(2) Diwinyddiaeth Hanesiol, yr hon a gysyllta ddiwinyddiaeth â'i dadblygiadau mewn defion Eglwysig, a dadleuon.

(3) Diwinyddiaeth ddogmataidd, neu athrawol, gwaith yr hon yw dadansoddi a chyfuno y casgliadau y deuir iddynt, mewn athrawiaeth ffurfiol a ystyrir yn awdurdodedig.

* Bodeg sydd air cyfystrol â'r celfair ONTOLOGY, tarddedig o'r Roeg *Ontos*=bod, a *logos*=traethawd; h.y., Traethawd ar Fôd.

† Eneideg, Gr. *Psyches*=enaid, a *logos*=Traethawd ar Enaid.—T. J. P.

‡ Gwel Nodiad V.

10. Beth yw lle y rhai hyn yng nghwrs efrydiaeth ddiwinyddol?

Gellir eu hystyried fel yn hollol ar wahân, a'u cyflwyno fel y cyfryw. Neu ynte, gellir eu cymeryd yn gyfredol: gellir gosod i lawr egwyddorion ysgrythyrol athrawiaeth; yna y dadleuon hanesiol perthynol iddi, a'r osodaeth ddogmataidd, fel ei derbyniwyd yn derfynol. Ond y drefn semlaf a'r hon a ddilynir yn y cwrs presennol, yw cyfuno yr un Feiblaidd a'r un ddogmataidd; gan ychwanegu, pan hynny yn angenrheidiol, adolygiad hanesiol.

11. Pa egwyddorion yn gyfiredin a lywodraethant y trefniant?

Weithiau, fe wneir Erthyglau y Credo, ac weithiau pwyntiau mewn Cyffes, yn sail i gyfundrefn, ond tuedda hynny at gynllun cyfyng. Neu, gellir dosrannu yr holl gwrs i brofion, athrawiaethau, moesau, a sefydliadau Cristionogaeth; gyda hyn o anfantais, fodd bynnag, fod y ddwy adran olaf yn agored i gael eu hysgaru oddiwrth yr ail. Ein cynllun presennol fydd crynhoi yr oll i undeb, trwy gymeryd:—(1) Datguddiad, yr Ysgrythyrau, a Rheol Ffydd; (2) Yr Athrawiaeth am Dduw; (3) Y Creadur, Creadigaeth, a Rhagluniaeth; (4) Pechod; (5) Gwaith Cyfryngol y Gwaredwr; (6) Ei Weinyddiad gan yr Yspryd yn Eglwys Crist; ac yn (7) Y Pethau Diweddfaf.

12. Yn ddiweddfaf, o dan ba reolau a diffyniadau y rhaid i efrydiaeth ddiwinyddol gael ei chario y'mlaen?

Rhaid yw cofio yn wastadol:—

(1) Fod trefniant manwl yn hyn o beth yn dra phwysig; fod gan yr Efrdydd a adolyga, yn barhaus gyfeiriadau a chysylltiadau ei bwngc, fantais fawr; ac na ddylid gwrandao am foment ar unrhyw achwynion yn erbyn dogma, o ba gyfeiriad bynnag y delont.

(2) Y dylai termau diwinyddiaeth, a sefydlwyd trwy arferiad, gael eu diogelu a'u cadw yn gysegredig yn eu hystyron; er engraifft, rhaid fod gan y fath eiriau ag ysprydoliaeth, sylwedd, a pherson, eu hystyron penigol yn y wyddoreg hon, a dylai gadw atynt bob amser.

(3) Y rhaid disgwyl am ddirgeledigaethau, eu derbyn, i.e., ac ymfrostio ynddynt. Y mae yr oll o ddatguddiad yn ddadleniad o ddirgelwch yn yr ystyr ddiwinyddol o ddirgelwch a ddatguddiwyd; ac y mae pob athrawiaeth yn amdöedig â dirgelwch yn ystyr fwy cyffredin y gair.

(4) Mai unoliaeth yr oll yw presenoldeb y GAIR yn y gair; a'r Ysgrythur yn brif arweinydd.

(5) Mai yr Ysryd Glân yw yr unig Ddehonglydd; ac y bydd iddo Ef arwain y sawl a oddefant eu harwain ganddo i LAWN SICRWYDD DEALL (Col. ii. 2).

Y LLYFR I.

Y Datguddiad Cristionogol a Rheol y Ffydd.

- I. DATGUDDIAD A'R FFYDD GRISTIONOGOL.
- II. CREDEBAU NEU BROFION DATGUDDIAD.
- III. YR YSGRYTHYRAU YSPRYDOLEDIG.
- IV. CANON YR YSGRYTHUR.
- V. DWYFOL REOL Y FFYDD.

Y LLYFR I.

Y Datguddiad Cristionogol a Rheol Ffydd.

Abagarmeiniad.

1. Ar ba seiliau yr ydym yn dechreu yn y modd hwn?

(1) Am y rhagdybia holl byngciau diwinyddiaeth ddatguddiad oddiwrth Dduw i ddyn, yr hwn fel yr honnwn ni a berffeithiwyd mewn Cristionogaeth. (2) Dygir tystiolaeth i hyn gan ei chredebau dros ffydd, a'i phroffion i reswm. (3) Y mae Cristionogaeth ei hun, i ni yn seiliedig ar ei hysgrifeniadau ysprydoledig. (4) Cynhwysir y rhai hyn yn yr Ysgrythyrau Canonaidd; ac yn (5) gan hynny y Canon Ysgrythyrol ydyw Dwyfol Reol Ffydd i ni.

2. Traethwch hyn mewn un darnodiad.

Cristionogaeth yw y datguddiad perffaith, ac anffaeledig yn ei gredebau, a'r hwn sydd gydrwymedig âg ysgrifeniadau sydd i'r Eglwys Cristionogol yn Rheol Ganonaidd a Dwyfol Ffydd.

PENNOD I.

Datguddiad a'r Ffydd Cristionogol.

§ 1. Datguddiad.

1. Beth yw ystyr y gair hwn yn yr Ysgrythur?

Datgenir ef yn gyffredin gan ddau brif air: *apokalupsis*, yr hyn yw y dadleniad Dwyfol o'r hyn oedd guddiedig; a *phanerōsis*, sef yr amlygiad ohono wybodaeth ddynol.

2. A ddefnyddir y termau a nodwyd gyda chymwys-ladau gwahanol?

(1) Fe gymhwysir y gair olaf o'r ddau, sef amlygiad, fel ag i gynnwys pob datguddiad: y naturiol a'r goruwchnaturiol. (2) Ceir nad yw y blaenaf,—datguddiad priodol, pan ei profir, i'w ddefnyddio un amser ond am y trefniant goruwchnaturiol.

3. Pa fodd y sefydlir y gwahaniaeth rhwng y naturiol a'r goruwchnaturiol?

(1) Ni a ddarlennwn trwy gydol yr Ysgrythur am ddatguddiad cyffredinol mewn natur. *Yr hyn a ellir ei wybod am Dduw sydd amlwg*, ac yng nghyfanwaith y bydysawd, *ei anweledig bethau Ef er creadigaeth y byd, a welir yn amlwg*; canfyddir megis *Ei dragwyddol allu Ef*, a chesglir fod *Ei Dduwdod o'r tu cefn i'r cyfan* (Rhuf. i. 19, 20).

(2) Ond mewn cysylltiad â hyn, ni a ddarlennwn hefyd am ddatguddiad neulltuol, oddiar ac uwchlaw yr un cyffredinol: goleuni a ddisgleiria yn danbeidiach na goleuni yr haul yn y byd naturiol, ynddo Ef, yr Hwn a *ymddangosodd yn y cnaud* (1 Tim. iii. 16), a'r hwn hefyd a welir yn amlwg *yn ol datguddiad y dirgelwch* (Rhuf. xvi. 25).

4. Pa berthynas sydd rhwng y ddau?

(1) Y blaenaf, neu ddatguddiad naturiol yw sail yr olaf: y'nghyntaf, y mae y Mab *yn goleuo pob dyn*; ac yna fel y mae Efe *yn dyfod i'r byd*, Efe a ddadlenna y Duwdod mewn modd arbennig *i'r sawl yr ewyllysia Efe ei ddatguddio iddo* (Ioan i. 9).

(2) Y mae diffygion y blaenaf hefyd yn rheswm dros yr olaf. *F byd trwy ddoethineb ni adnabu mo Dduw*; ac yna ei ewyllys Ef ydoedd danton y Gwaredwr, *yr Hwn a wnaethpwyd i ni yn ddoethineb oddiwrth Dduw* (Matth. ii. 27; 1 Cor. i. 21, 30).

5. Beth yw y rheswm dros gyfyngu ohonom y gair datguddiad i'r goruwchnaturiol?

(1) Am y rheswm y cyfyngir ef felly, bob amser yn yr Ysgrythur. Ymhob arferiad ohono, y mae y gair Datguddiad (*apocalypse*) yn cyfeirio at yr amlygiadau uchaf. Y mae hyd yn oed y cymhwysiaid hynny o hono a ymddangasant yn llai pwysig, yn gyfeiriedig at y prynedigaeth, megis, *Ac mi a aethum i syny yn ol datguddiad* (Gal. ii. 2), yr hyn a ddeil rhyw gysylltiad â'r ffaith ddarfod i Dduw weled yn dda i *ddatguddio Ei Fab* yn yr Apostol (Gal. i. 16).

(2) Oherwydd fod gwrthddrychau, neu ddeiliaid y datguddiad hwn o'r fath natur oruchel fel y priodolir y gair gennym ni iddynt hwy. Gwedi cyfodi o'r haul nis gall fod goleuni arall mwyach.

6. Gyda hyn o gyfyngiad pa wahaniaeth pellach y rhaid i ni ei wneuthur o angenrheidrwydd?

Y mae datguddiad goruwchnaturiol naill ai yn wrthddrychol, sef yr hyn a ddatguddir i'r derbynydd; neu ynte yn ddeiliadol, sef y modd ei datguddir yn y dyn.

7. Pa rai ydynt brif ddibenion y datguddiad hwn?

(1) Yn bennaf, bodolaeth Duw, a gwir berthynas dyn âg Ef. Y mae y dwyfoldeb sydd yn amlygedig yn y byd naturiol yn briodol i'r Tad, a'r Mab, a'r Yspryd Glân.

(2) Mawr ddirgelwch Crist, a phrynedigaeth dyn; *y dirgelwch yr hwn ni soniwyd am dano, trwy amserau tragwyddol* (Rhuf. xvi. 25).

(3) Natur Crefydd a'i chanlyniadau tragwyddol.

8. Beth yw datguddiad fel y mae yn y dyn, neu ddatguddiad deiliadol?

(1) Yn ei berthynas âg offerynau sanctaidd y genadwri nefol y mae yn ddigyfrwng neu uniongyrchol. Ac iddynt hwy yr oedd yn uniongyrchol, mewn gweledigaethau allanol, neu fewnol, trwy y Llais o'r nef, a thrwy awgrymiadau dirgelaidd o eiddo y Meddwl Dwyfol i'r un dynol.

(2) Rhoddir ef trwy gyfrwng hefyd, sef trwy y sawl a'i derbyniasent gan Dduw, i'r sawl a'i derbynient Ef ganddynt hwythau.

(3) Unwaith eto, a chyfuno y rhai'n, y mae yn uniongyrchol, i'r sawl a dderbyniant eu tystiolaeth hwy, trwy ddatguddiad mewdol a digyfrwng yr Yspryd Glân.

9. Yna, ynte, y'mhob ystyr, erys datguddiad yr un ac yn Ddwylol?

(1) Y mae yn Ddwylol: canys ni all dyn greu gwirionedd, neu wybodaeth, o ddim allanol, yn ei feddwl ei hun.

(2) Un ydyw hefyd: oblegid cyfeiria cynllun eang ddatguddiad, a phob manylbwynt ohono, at y datguddiad perffaith yng Nghrist.

(3) Yr ydym yn deall, oddiwrth hyn, beth a feddylir wrth Ddatguddiad Dwyfol, perffaith; a hwnnw fel y mae wedi ei sylweddoli yn y ffydd Gristionogol, at yr hwn y tröwn bellach.

§ 2. Datguddiad yng Nghrist, neu y Ffydd Cristionogol.

1. Beth yw perthynas yr ymadroddion hyn?

Swm pob datguddiad, mewn gwirionedd, yw dirgelwch Crist, ymddangosiad Duw yn Ei Fab, yr Hwn Ei Hun, yw y Datguddiad, a'r Datguddiwr ohono.

2. Eglurwch y ddau ymadrodd hyn yn fanylach.

(1) Crist, yn Ei Berson fel Duw a dyn, yw swm a sylwedd pob datguddiad. Y GWIRIONEDD (Ioan xiv. 6).

(2) Dyry ein Harglwydd i ni yn Ei ddysgeidiaeth bob gwirionedd: gan wneuthur pob datguddiad blaenorol ac israddol yn eiddo iddo Ei Hun, trwy eu cynnwys yn ei gyfathrach-iadau personol, ac ychwanegu atynt yr oll ag sydd angenrheidiol i ddyn fel deilydd prawf.

3. Onid canghen o ddatguddiad cyffredinol yw y Datguddiad Cristionogol yn fwy priodol felly?

Y mae lluwys o ddatguddiadau wedi bod, ond i ni, nid oes dim ond un. Nid yw y Datguddiad Dwyfol amgen na Christionogaeth, neu y Ffydd Cristionogol.

4. Beth yw ystyr fanol yr ymadrodd olaf hwn?

Dynoda y gwneir i fyny ddysgeidiaeth Crist o'r *petbau a gredir yn ddiameu*, neu sydd *gyflawn sefydledig* (Luc i. 1) gan Cristionogion; mai nid rhyw athroniaeth Cristionogol a all fod yn sail damcaniaeth yw, nac ychwaith adroddiad hanesiol o ddigwyddiadau yn unig.

5. Ond diau y'i derbynir fel adroddiad hanesiol?

Gwneir: ond ni wna hynny egluro yn gyflawn Y FFYDD Cristionogol, yn llawn ystyr y gair hwnnw.

6. Pa beth, ynte, yw y ffydd honno, y mae y Datguddiad hwn yng Nghrist yn gyfeiriedig ati?

Y mae yn driphlyg: yr egwyddor, neu y gyngreddf honno mewn natur ddynol sydd yn dirlad yr anweledig: yr hon a dderbynnia ffeithiau ar dystiolaeth ddigonol; ac yn derfynol, yr hon a gyfatha, ac a ymddirieda yn y gwrthddrych a ddatguddir. Apelir at y rhai'n yn y cyfuniad ohonynt gan y datguddiad Cristionogol, a hwy a'i derbyniant.

7. Oni all y diweddaf o'r rhai'n fod yn ddiffygiol mewn derbyniad o Gristionogaeth?

Y mae hyn yn gwestiwn dyrus: canys megis y daliwyd datguddiad naturiol mewn anghyfiawnder, felly hefyd y gellir dal yr un goruwchnaturiol. Ond gellir ateb y cwestiwn trwy wahaniaethu rhwng y ffydd Gristionogol fel y mae yn wrth-ddrychol ac yn ddeiliadol.

8. Rhoddwch engraffft o'r cyfryw wahaniaethiad.

(1) Ni a ddarlennwn ar brydiau yn y Testament Newydd am y *ffydd yr hon* UNWAITH AM BYTH a rodded i'r Saint (Judas iii.): fe ellir derbyn hon, ac hyd yn nod ei thros-glwyddo yn etifeddol.

(2) Ond yn y cyffredin fe ystyrir y ffydd fel egwyddor fewnol, yn rhinwedd yr hon y dywed y credadyn,—*Iesu sydd Arglwydd* (1 Cor. xii. 3).

(3) Y derbyniad perffaith o Ddatguddiad Dwyfol yw y cyfuniad o'r rhai'n. Daw y gwirionedd i fod *Eich Sancteiddiaf Ffydd* (Judas 20).

§ 3. Datguddiad o'r Beibl.

1. Beth sydd i'w ddeall wrth gyfuno y termau hyn?

Fod pob datguddiad, yn yr ystyr uchaf ohono, yn gynnwysedig yn yr Ysgrthyrau Sanctaidd, y rhai y maes wedi llefaru am danynt yn gyffredinol, ac yn gywir hefyd, trwy arallenwad fel Dwyfol ddatguddiad.

2. A olyga hyn fod pob rhan o'r Beibl yn Ddatguddiad uniongyrchol a phriodol?

Na wna, mewn un modd: nid yw y rhan helaethaf ohono o'r cymeriad hwnnw. Ond nid oes cymaint a rhan ohono ar nad yw yn gysylltiedig, mewn modd uniongyrchol neu anuniongyrchol âg un trefniant mawr hanesiol.

3. Beth a ddeallir wrth Ddatguddiad Hanesiol?

Y mae y datganiad hwn yn unoli datguddiad â Christ, a dynoda gynydd y gwirionedd tuag ato Ef ei Ddiben; cynhwysa hefyd y moddau trwy y rhai y gwnaethpwyd Datguddiad yn arhosol mewn ysgrifeniadau a sefydliadau.

4. Fel eu cymhwysir at yr ysgrifeniadau, beth yw y gwahaniaeth rhwng datguddiad ac ysprydoliaeth?

(1) Yn y cylch uchaf ohono y mae datguddiad yn cyd-daro âg ysprydoliaeth. (2) Ond, yn gyffredinol, datguddiad yw y canlyniad, yn y cyfan ohono, ac ysprydoliaeth y moddion. (3) Y mae yn arferedig i ddefnyddio y gair ysprydoliaeth i ddynodi swyddogaeth yr Yspryd yn y darpariad ohono ar gyfer datguddiad parhaol yn yr Ysgrythyrau Sanctaidd.

§ 4. Adolpgiad Ganesiol.

1. Pa ddadleuon sydd wedi codi ar y materion hyn?

Cyfododd tri dosparth: (1) Parthed y posiblwydd o unrhyw ddatguddiad. (2) Parthed yr angenrheidrwydd am ddatguddiad goruwchnaturiol; ac yn (3), a chaniatáu y cyfryw ddatguddiad, yna perthynas rheswm â ffydd parthed y derbyniad ohono.

2. Pwy a gynrychiola y dosparth cyntaf?

Yr An-nuwiad, yr Oll-dduwiad, a'r Materolwr* yn unig. Os oes Duw yn bôd, a hwnnw yn Dduw personol, ac ar wahân i ddyn, yna y mae hyd yn nod y derbyniad yn unig o'r gwirionedd yma yn golygu datguddiad; canys meddylddrych yw a roddwyd i'r meddwl, pa un bynnag ai cyngreddfol, neu, yn ddilynol i hynny cyfraniadol. A phâr hynny drachefn fod pob datguddiad pellach yn beth posibl.

3. Ond pe y dywedid na all fod unrhyw wahaniaeth rhwng ymwybyddiaeth y meddwl a datguddiad o'r tu allan iddo?

Yna, rhaid i ni ateb fod hyd yn nod yr ymwybyddiaeth yn ddatguddiad o'r tu allan; nid oes unrhyw wybodaeth o'r pethau a welir ond trwyddo Ef, yr Hwn yw *Goleuni y byd* (Ioan ix. 5). Drachefn, y mae yr un peth yn wirionedd am y pethau ni welir. Ond digon yw dweud, mai megis y dichon dyn, delw Duw, weithredu ar feddwl ei gyd-ddyn, felly hefyd y gall y Meddwl anfeidrol weithredu ar bawb fel y mynno.

* Gwel Nodiad V.

4. Pwy a gynrychiola yr ail ddosparth?

Y sawl a addefant y dysgir pob crefydd gan Dduw, ond a dybiant er hynny y dysgir hi yn unig ac yn ddigonol gan oleuni natur. Iddynt hwy nid y ddiwygiedig yw natur, ond, y diwygydd.

5. Pa fodd y gwahaniaetha y rhai'n y'mhlith eu hunain?

Gelwir hwy wrth yr enw cyffredinol Theistiaid, sef Credinwyr yn Nuw; Deistiaid* yw yr enw a roddid yn fwyaf arbennig i amddiffynwyr Seisnig crefydd natur yn y ganrif ddiweddaf. Tra yn un yn eu gwrthodiad o ddatguddiad goruwchnaturiol, hwy a ymrannant i ddwy linell: sef y sawl ohonynt a barchant yr Ysgrhythrau fel y ffurf uchaf o grefydd natur, a'r rhai hynny ohonynt a'u gwrthodant fel dirywiad o'r grefydd naturiol honno.

6. Pa dir a gymera y rhai blaenaf?

Hwy a ystyriant yr arddangosiad (*phenomenon*) o'r reddf grefyddol mewn dynolryw fel pwngc o wyddoriaeth,—Crefydddeg, neu Ddiwinyddiaeth Gymhariaethol; a dosparthant yr hiliogaethau dynol yn ol eu crediniaethau a'u hymarferion crefyddol. Daliant fod i grefyddau eu sylfaenwyr, y'mhlith y rhai yr honnant mai Moses ydoedd y cyntaf, a Iesu Grist yr olaf ond un; fod llyfrau cysegredig gan y cyfryw, y'mhlith y rhai y gosodant y rhai Iddewig a Christionogol, fel mewn llyfr aml-ieithog; ac fod iddynt eu hamrywiol ddefodau cyfaddasedig i'w hamrywiol amgylchiadau, a'u cymeriadau.

7. Beth yw ein dadl yn erbyn y wyddor hon?

(1) Yr un negyddol, yr hon a ddengys trwy gymhariaeth o'r crefyddau hyn âg eiddo y Beibl fod crefydd oruwchnaturiol yn angenrheidiol er eu cywiro hwynt.

(2) Yr un gadarnhaol, sef os mai Mab Duw yw y Datguddiwr, nas gall fod dim ond un grefydd, a hono yn un berffaith a thragwyddol.

8. Onid dadleu mewn cylch yw peth fel hyn?

Iê, ar ein rhan ni, ac o du ein gwrthwynebwyr. Y mae y Theistiaid yn cymeryd yn ganiatâol y pwngc o fodolaeth Duw; a chymer Cristionogaeth yn ganiatâol parthed ei Phen Dwyfol a'i oruchafiaeth o angenrheidrwydd.

* Gwel Nodiad VI.

9. Pa dir a gymer y dosparth diweddaf?

Nad yw pob daioni sydd yn y datguddiad Beiblaidd yn ddim amgen nag adgyhoeddiad o grefydd natur, ac fod yr hyn a ddysg uwchlaw a thros ben hynny i'w wrthod gan reswm dyn.

10. Pa fodd y mae cyfarfod â hyn yna?

(1) Trwy addef fod y datguddiad Goruwchnaturiol, yn wir, yn seiliedig ar y naturiol, y cadarnhâ ei holl egwyddorion mawrion, gan ei anrhydeddu drwyddo: trwy adwirio ei grediniaethau, a hynny yn ei eiriau ei hun.

(2) Trwy brofi, allan o'i choflyfrau a'i hanes ei hun, ddarfod i grefydd natur fethu yn hollol yn rhwymedigaethau blaenaf pob crefydd; ac na ddarfu iddi yn unman ddangos yr osgo leiaf at ddiwygiad.

(3) Trwy osod pwys ar hyn, sef os caniatëir Rheolydd i'r bydysawd, y galleid disgwyl y buasai iddo gyfyngu o'r dechreuad, er cywiro y diffyg a nodwyd.

(4) Trwy ddangos, y proffesa crefydd oruwchnaturiol, y'mhob pwynt ohoni, i ddwyn oddiamgylch y cywiriad hwnnw, ac y gwna hynny mewn gwirionedd, fel y ceir gweled yn y bennod nesaf.

(5) Trwy apelio at gyngreddfau crefydd natur, yr hon, yn ei hymdeimlad o bechod, ei dyhêad am ddyhuddiant, a'i disgyblaeth foesegol athronyddol, a ragflaenasai yr unrhyw atebion yn union ag a ddry y Testament Newydd.

11. A yw yr ymresymiad hwn yn dihysbyddu ymosodiad crefydd natur, a'n diffyniad ninnau?

Nac ydyw: erys dwy wrthddadl o gryn rym, y rhai a ddefnyddir ganddi; tardda y naill oddiar nodwedd uwch-arbrofol (*transcendent*) rhai o wirioneddau newyddion y Beibl; a'r llall oddiar oediad dyfodiad crefydd oruwchnaturiol, ac arafwch ei gwasgariad ar ol dyfod ohoni.

12. Pa fodd y mae i ni gyfarfod â'r ddau anhawster difrifol hyn?

Perthyna y blaenaf i gredebau Cristionogaeth, a gallwn ei ohirio hyd y bennod nesaf, gyda rhagnodi yma fod crefydd natur

wedi derbyn rhyfeddod ar ben rhyfeddod, ac na ddylai ymgilio, gyda'r fath brofiad ganddi, oddiwrth unrhyw beth ar nad yw groes i reswm.

13. Ond parthed dadblygiad arafaidd y Cyngor Dwyfol mewn Datguddiad Goruwchnaturiol?

Dirgelwch mawr ydyw hyn. Ond fe ddylai y gair dirgelwch fel ei dehonglir gan ddadblygiad bledio fel diffyniad. Y mae crefydd natur yn credu mewn Duw, yr Hwn, fel y tybia hi, yn ei dyddiau diweddaf hyn o leiaf, y darfu iddo ddadblygu ei gynlluniau gydag amynedd anfeidrol trwy oesau diderfyn. Bid sicr, nis gall gydag unrhyw gysondeb wrthod crefydd oruwchnaturiol ar y tir mai ymddadblygiad arafaidd oesolynol (*secular*) o alluoedd ysprydol yw, y rhai a raddol ddarostyngant bob gwrthymgeisydd, gan brofi eu hunain y goreu oherwydd goroesi ohonynt y lleill i gyd.

14. Awgrymir meddylddrych arall gan y gair dad-blygiad: onis gall mai dadblygiad naturiol o grefydd natur yw yr hyn a elwir yn ddat-guddiad goruwchnaturiol?

Y mae naturiol a goruwchnaturiol yn ol y termau eu hunain mor wahanredol ag yw meidrol ac anfeidrol. Heblaw hynny, ceir rhai gwirioneddau yn yr adran ddiweddaf o'r Beibl, y rhai, prin y gellir dweud ddarfod iddynt gael eu hedyn yng nghrefydd natur. Ond yn derfynol ac yn bennaf rhaid i grefydd oruwchnaturiol, fel y gyfryw, sefyll neu syrthio gyda yr honiad a wna o fod wedi dyfod oddiuchod, ac nid ei bod yn ddadblygedig oddi isod. Nis gall fod ymgymodiad cydrhyngddi a dad-blygiaeth.

15. Oni amheuir egwyddorion crefydd naturiol yn ogymaint gan ddadblygiaeth, ag yr amheuir eiddo crefydd oruwchnaturiol?

Gwneir, yn ddiau. Y mae diwinyddiaeth naturiol a chrefydd natur yn seiliedig ar y sylfaen o fodolaeth Duw, creadigaeth dyn, a chyfrifoldeb moesol, ac am hynny, ar natur ysprydol dyn. Hi a ddeil yr oll o'r pethau hyn yn gyffredin gyda Datguddiad Goruwchnaturiol. Ond tuedd dadblygiaeth ddiweddar yw gwneud pob syniadau crefyddol, teimladau

ysprydol, a dedfrydau cydwybod yn effaith terfynol (cyn belled ag y gall dim fod yn derfynol), dadblygiadau, cwrswethrediaidau y rhai a ganfyddir gennym yn eu hamrywiol raddegau yn y creaduriaid islaw i ni.

16. Onid yw arafwch datguddiad, wedi'r cyfan, yn ffurfio cryn rwystr ar ffordd derbyniad ewyll-ysgar ohono?

Ydyw, yn ddiau. Gallwn ddefnyddio y ddadl oddiwrth gyfatebiaeth yn erbyn ein gwrthwynebydd dadblygol; eithr nid yw ond diffynol yn unig. Y mae dadleniad arafaid amcanion Duw yn ddirgelwch anchwiliadwy, a pharhâ felly byth.

17. Crybwyllwyd trydydd math o wrthddadl o berth-ynas i hawliau rheswm fel barnydd a dehonglydd datguddiad.

Gellir dweud am hon yn gyffredinol, fod datguddiad goruwchnaturiol, a fe'nir gan reswm yn wrthddywediad mewn iaith. Ar y llaw arall, byddai datguddiad dwyfol nas gellid ei ddehongli gan reswm yr un mor wrthun; ond, daw y mater dan ystyriaeth yn ei le priodol dan Reol Ffydd.

PENNOD II.

**Greddebau, neu Brofion y Datguddiad
Gristionogol.**

§ 1. **Abagarmeiniad.**

1. A oes unrhyw wahaniaeth rhwng creddebau a phroffion?

Nid oes wahaniaeth hanfodol rhyngddynt, ond awgryma y y gair Creddebau yn hytrach : (1) Gymeriad mewnol datguddiad, fel yr argymhella ei hun i ffydd, ac i dderbyniad dynion ohono ; (2) y tystiolaethau Dwyfol a roddir i offerynnau ac ysgrifeniadau y Ffydd ; (3) felly y mae y creddebau yn fewnol, a'r profion yn fewnol ac yn allanol.

2. Beth a olygir yma wrth y Ffydd ?

Rhaid yw edrych ar y Ffydd, y Ffydd Gristionogol a Dwyfol Ddatguddiad, fel yn golygu yr un peth. Y cyntaf yw gair y Testament Newydd am y datguddiad Cristionogol. Cyfeirir ef at ffydd ddeiliadol ; gelwir y sawl ar a'i derbyniant yn gredinwyr, a gelwir yr hyn a dderbyniant, eu ffydd, mewn ystyr wrthddrychol,—eu *sancteiddiaf ffydd* (Judas 20).

3. Pa fodd y dosperthir dynion yn eu perthynas â'r profion hyn ?

(1) Ni a ddarllennwn yn gyffredin yn y Testament Newydd am gredinwyr, ac anghredinwyr ; yn yr Efengylau yn unig y crybwyllir am amheuwyr.

(2) Yn yr amserau diweddar hyn, fe ddosrennir anghredinwyr i anffyddwyr neu wrthgredwyr ; i ddigredwyr, y rhai, yn wirfoddol, ac amheuwyr, y rhai yn anwirfoddol a arhosant mewn petruster ; ac i anwybodwyr neu agnosticiaid a ddyfeisiasant yr enw hwn i ddynodi nid y ffaith o'u hanwybodaeth yn gymaint a'r anichonolrwydd i wybod dim y tu allan i natur.

4. Pa enwau a roddir i brofion, yn y datguddiad ei hun?

Fe'u gelwir yn y cyffredin yn **ARWYDDION**, neu dystiolaethau oddiwrth Dduw; yna **PROFION** neu arddangosion, megis o'r athrawiaeth; a **SELIAU**, i'r meddwl a'u derbyniant gyda llawn sicrwydd.

5. Beth sydd i'w gasglu oddiwrth hyn?

Yr ystyrir y profion yn angenrheidiol ac yn ddigonol i anesgusodi anghrediniaeth.

6. Beth a ddysgir i ni am wir gymeriad cuddiedig anghrediniaeth ei hun?

Fod duw y byd hwn wedi *tywyllu meddyliau y rhai digred* (2 Cor. iv. 4); fod ganddynt *galon ddrwg anghrediniaeth* (Heb. iii. 12); a'u bod yn *annghymeradwy o ran y ffydd* (2 Tim. iii. 8). Y mae anghrediniaeth, fel rheol, yn gysylltiedig â dirywiad moesol.

7. Pa fodd yr effeithia hyn ar werth y profion?

Dylai ein harwain i beidio a disgwyl gormod oddiwrthynt ar wahan i ddylanwad moesol yr Yspryd Glân.

8. Pa un yw y drefn oraf i efrydu profion Cristionogaeth?

(1) Gellir eu gosod allan fel yn fewnol ac allanol: mewnol oddiwrth gymeriad y datguddiad ei hun; allanol megis eu dysgir oddiwrth hanes o'r tu allan. Ond, a siarad yn fanwl, nis gellir ysgaru y rhai'n, gan nad yw y rhan luosocaf o'r profion allanol amgen na chadarnhâd ar y rhai mewnol.

(2) Y mae y profion, mewn gwirionedd, i'w cydgorffori â'r athrawiaethau; a rhaid yw i bob gwirionedd o nodwedd sylfaenol feddu ar ei gredeb ei hun.

(3) Y mae yn bod ddosparth penigol o brofion a sefydlant ddilysrwydd llyfrau a sefydliadau Cristionogaeth.

(4) Rhed y rhai hyn oll y naill i'r llall, ac y mae yn ofynol efrydu pob pwnge diwinyddol mewn trefn ddiffynnol. Y mae i weithiau anibynnol ar y profion, yn y cyfangorff ohonynt, eu gwerth, ond ceir y profion goreu yn wasgaredig ar hyd yr holl gwrs.

9. Beth sydd a fynno y profion hyn â ni yn ein safbwynt presennol?

Y mae a fynnon â ni fel credebau mewnol y ffydd Gristionogol, fel y cyfryw; hynny yw, yr hawl anwrthwynebadwy a fedd ar ein hystyriaeth.

10. Y'mha fodd y gellir dosparthu y credebau hyn?

Gellir arddangos mewn modd cyd-gasgledig (*cumulative*):—

(1) Fod y datguddiad Cristionogol yn atebiad perffaith i anghenion a disgwyliadau dyn, ac oblegid hynny yr hawlia wrandawriad.

(2) Fod y Llaw Ddwyl yn amlwg yn ei holl hanes o'r dechreuad i lawr i'w berffeithiad yng Nghrist.

(3) Mai cymeriad Iesu, y Datguddiwr, ydyw y gredeb bennaf, a'r hon sydd lwyr-ddigonol dros ei honiadau.

(4) Fod hanes ac effeithiau Cristionogaeth y fath a gyfiawnha ei honiadau o fod yr unig grefydd sydd i barhau ac i orchfygu; ac yn ddiweddaf,

(5) Y trig yr Yspryd Glân yn y datguddiad Cristionogol, fel ei arbrawf ordeiniedig, digonol, a diball.

I.

Yr Atebiad Perffaith i Ddisgwyliadau Ddynoliaeth.

1. Beth yw ergyd y gredeb hon?

Mai y Datguddiad Cristionogol yn unig sydd yn atebiad i ymofyniadau dyfnaf a chyffredinolaf y natur ddynol o barthed i wirioneddau ysprydol, a'r cysylltiad sydd cyd-rhwng amser a thragwyddoldeb.

2. A honnir hyn gan y Grefydd Gristionogol ei hun?

Hi a broffesa y'mhobman, yn uniongyrchol, neu yn an-uniongyrchol, i hyfforddi dyn yn yr oll a ddichon efe wybod am dano ei hun, am ei Dduw, am ei brynedigaeth, am ei ddyletswyddau, ac am ei ffordd i'r nef; hynny yw, i gyfarfod â phob hawl greddfoll o eiddo calon dyn. A hi a gyfiawnhâ y cyfryw honiad, gan nad crys un cwestiwn, er da neu er ddrwg, heb ei ateb.

3. Ond a ellir dweud mai Cristionogaeth yn unig a wna hyn?

Gellir, a dim ond y hi; oblegid (1) yr oedd llawys o wirioneddau mawrion yn aros heb eu datguddio hyd onis datguddiwyd hwynt gan Grist; (2) a'r rhai oeddynt wybyddedig o'r blaen, nid oeddynt ond yn rhannol felly; ac yn (3) yr oedd hyd yn oed y wybodaeth rannol hono yn gymysgedig â diryw- iadau, drwyddi.

4. Awgryma y gredeb hon, ynte, ddatguddiad graddol, a thra araf yn ei berffeithiad?

Hyn yw egwyddor sylfaenol y ffydd Gristionogol.

5. Beth yw grym y gredeb hon?

Gorffwysa ei nerth ar yr egwyddorion anorchfygol a ganlyn:—

(1) Fod Awdwr natur ddynol wedi bwriadu i'r reddf gyffred- inol hon gael ei diwallu, fel pob un arall. (2) Na cheir yn unman y tu allan i Gristionogaeth gymaint a phroffes i gynnyg at y diwalliant hwn. (3) Fod yng nghrefydd Iesu atebiad i ymofyniad dyn, a dynoliaeth ar bob pwngc dichonadwy a ber- thyn i'n tynged, mewn amser a thragwyddoldeb; ac o ganlyniad, yn (4) yr hawlia, hyd yn oed ar y cyfryw gyfrifon, ystyriaeth ddifrifol.

6. A ydyw y geiriau diweddaf hyn yn cyrraedd yn ddigon pell?

Nac ydynt, i'r Cristion ei hun. Ond fel dadl dros Grist- ionogaeth, digon yw y sefydla hawl cryf dros ei derbyniad: a'r hwn a drŷ ymaith oddiwrthi, efe a wna hynny ar ei berygl ofnadwy.

Si Diffyniad.

7. Pa wrthddadleuon a ddygir yn erbyn y gredeb hon?

Dygir dau ddosparth: (1) y rhai a haerant yr atebir yn ddigonol ddyhêad crefyddol yr hiliogaeth gan bob crefydd, o'r rhai nid yw Cristionogaeth amgen un o'r cyfryw: (2) y rhai a wadant yr etyb datguddiad Iesu Grist yn wirioneddol ymofyn- iadau crefyddol yr hiliogaeth, am ba herwydd y gwrthodant hi ar unwaith.

8. Beth sydd yn gyffredin i'r rhai'n, a pheth sydd neulltuol i bob un?

(1) Hwy a gydunant i nacâu ei lle i Gristionogaeth fel yr unig grefydd berffaith, ac y maent yn un yn eu gwrthwynebiad i'w neulltuoledh hi. O barthed y Ffydd Gristionogol y maent yn un mewn Anuwiaeth.

(2) Hwy a wahaniaethant, yn ogymaint ag y rhydd y flaenaf le uchel i'r Gyfndrefn Gristionogol yn nadblygiad crefydd gyffredinol, er yr ystyria y cynwysa, fel pob crefydd arall, ddirywiadau o feddylddrychau crefyddol cyntefig: tra y deil yr olaf mai ofergoeliaeth yw Cristionogaeth, wrthgyferbyniol i grefydd gywirach natur.

9. A wrthodir Cristionogaeth gan y ddwy ar y tir eu bod yn oruwchnaturiol?

A siarad yn fanol, felly y gwneir. Ystyrir gan grefydddeg ddiweddar yr ymwisga y reddf grefyddol neu y gynneddf am yr Anfeidrol gryn amrywiaeth o ffurfiau, ac yn wir, hi a edrycha ar yr amrywiaeth hwnnw fel y dirgelwch dyfnaf a berthyn i wahaniaethau hiliogaethol (*race distinction*). Gan hynny, hi a dybia nas gall unrhyw grefydd unigol roddi yr atebiad cyffredinol hwnnw sydd gyfaddas i bob cenedl o ddynion fel eu gilydd.

10. Y'mha fodd y cyferfydd ein credeb â hyn?

Trwy ddal yn gadarn y rhaid fod un grefydd berffaith; a chan osod pwys ar y gwahaniaeth mawr sydd rhwng y dadblygiad uchaf o unrhyw grefydd naturiol, a hyd yn oed elfennau cyntaf datguddiad Dwyfol, neu y Ffydd Gristionogol.

11. Oni addefir yr oruchafiaeth hon gan Grefydddeg?

Na wneir. Hi a ddeil nad yw athrawiaethau penigol Cristionogaeth, megis yr ymgawdoliad, yr Iawn, a thynged dragwyddol dynion, yn ddim amgen na dadblygiadau clafaid o gyn-egwyddorion sydd i'w cael mewn crefyddau ereill. Ond, tra y gwrthoda yr athrawiaethau hyn, hi a eddyf, serch hynny, mai moesddysg Cristionogaeth yw yr uchaf, ar y cyfan.

12. Beth yw tuedd anffyddiaeth ddiweddar, fel gwrthwynebydd addefedig i'r Ffydd Gristionogol?

Tuedda yn gyflym tuag at wadu ein natur ysprydol ac

34 Y Datguddiad Cristionogol a Rheol Ffydd.

anfarwoldeb. Myn anffyddiaeth Bositifyddol* nad yw cyng-reddfau ysprydol dyn amgen na damweiniau ei natur, y rhai y dyfeisia efe grefydd er ymateb iddynt. Goblyga Agnostic-iaeth,† hithau, yr ymofyniad a'r ymatebiad mewn cwmwl o dywyllwch. Am hynny, nid oes gan ein credeb hon, o angen-rheidrwydd, ddim grym o gwbl gyda'r rhai'n.

13. Ac eto medda rhyw gymaint o rym yn eu herbryn?

Gwir: canys nis gellir diddymu yr apêl cyffredinol at y goruwchnaturiol. Y mae hyd yn oed Theistiaeth ddiweddar yn wrthdystiad o'i phlaid. Ond, fel Deistiaeth y ganrif ddiweddar, felly Theistiaeth, hi a nacâ i'r Iesu yr awdurdod uchaf, a hyn yw ei gwendid fel gwrthdystiad. Ni etyb Duw gri dynoliaeth ond yn Ei Fab Ymgawdoledig: natur, a hi yn unig, ni all na dysgu nac achub natur.

II.

Slaw Duw yn y Datguddiad Cristionogol.

1. Beth a olygir wrth y gredeb hon?

Y ceir profion amlwg trwy holl gwrs datguddiad, fel y mae yn berffeithiedig yng Nghrist, ac yn ysgrifeniadau y Ffydd Gristionogol, o'r presenoldeb Dwyfol yn y trefniant goruwchnaturiol: o allu Duw mewn gwyrthiau; o'i wybodaeth mewn proffwydoliaeth; ac o'i ddoethineb yn unoliaeth yr holl ddatguddiad. Y mae y prawf olaf hwn yn bwysig fel perffeithiad y lleill.

2. Y'mha fodd y mae y trefniant goruwchnaturiol yn cynnwys hyn oll?

Y mae gallu uwchlaw i natur arddangosol (*phenomenal*) wedi bod ar waith bob amser y'mhlith dynion, arwyddion digwyddiadol yr hwn a elwir gennym ni yn wyrthiau; y mae arweiniad uwchlaw goleuni rheswm wedi bod yn bresennol yn wastadol, amlygiadau yr hwn a elwir gennym ni yn broffwydoliaeth; ac y mae y naill a'r llall wedi eu sefydlu a'u gwneuthur yn bethau parhaol yn amgylchiadau dyn, trwy ysgrifeniadau datguddiad, fel y mae yn berffeithiedig yn y ffydd Gristionogol. Nid yw yr olaf amgen na ffurf wahanol i'r lleill, yn unig.

* Gwel Nodiad VI. † Gwel Nodiad VII.

3. Beth yw grym y gredeb hon?

I'r sawl a roddant ffordd i hawliau rhagarweiniol y gyntaf, hi ddaw ger bron gyda phrawf anwrthwynebadwy.

§ 1. Gwprif.

1. Pa ystyr sydd i wyrth fel credeb?

(1) Dynoda unrhyw weithred o eiddo Duw, a wahaniaetha oddiwrth y gweithrediadau Dwyfol arferol hynny, deddfau y rhai sydd adnabyddus i ni; ac yn (2) dynoda unrhyw weithred o eiddo Duw, a gyflawnir er cadarnhau Ei air. Y mae gwyrrth yn y ddwy ystyr hyn, yn gyfrodeddig â holl gyfanwaith datguddiad.

2. Beth yw perthynas y ddwy ystyr hyn â'u gilydd?

Y flaenaf, a'r hon a adnabyddir fel nerthoedd—*dunamis*, neu weithredoedd, *erga*, neu ryfeddodau, *megaleia*, yn gyffredin, yw hanfod datguddiad ei hun. Yr olaf, *semeia*, cybelled ag y gwahaniaethir hwy oddiwrth y flaenaf, ydynt arwyddion achlysurol, trwy y rhai y gwel Duw yn dda i gyffroi ac i galonogi ffydd.

3. Pa fodd y gallwn egluro y gwahaniaeth yr ymgeisir ato, o'r Ysgrythyrau?

Gall y gwna y ddwy brif engrafft y tro. Y wyrth bennaf ydoedd Ymgawdoliad Mab Duw, yr hyn oedd, ynddo ei hun, yn ddatguddiad; yr arwydd ydoedd y cenhedliad gwyrrthiol. Rhyfeddol weithredoedd Duw, a'r datguddiad ei hun ydoedd dawn yr Yspryd, a'i ddylanwad; a gwyrrth, fel arwydd ydoedd y llefaru â thafodau. Ond ceir engreiffiau trwy gydol y ddwy dystiolaeth, sef yr Hen Destament a'r Newydd.

§i Diffyniad.

4. Beth a ellir ei godi yn erbyn y gredeb hon?

(1) Fe wrthddadleuir yn erbyn y posibilrwydd o wyrth yn gyffredinol; (2) Fe ellir dwyn y'mlaen gyhuddiad yn erbyn y dystiolaeth gyffredinol dros wyrthiau; (3) Fe droir cymeriad rhai gwyrrthiau arbennig yn ddifriad ar yr oll; (4) Fe ddyfynnir tystiolaeth y Testament Newydd, ar brydiau, fel yn erbyn grym y prawf hwn; (5) Dygir y'mlaen fel gwrthddadl wyrthiau o'r tu allan i'r Beibl, a rhyfeddodau a gyflawnwyd gan allu nid

Dwyfol mo hono;—gwrthddadleuon y rhai prin y gellir dyfalu ddarfod eu bwriadu i ddim amgen na chynyrchu rhagfarn.

5. Pa fodd y gellir cyfarfod â'r gyntaf?

Trwy ddim ond haeru yn syml, os oes Duw yn bod, y gall Efe wneuthur a ewyllysia. Nis gellir profi ddarfod iddo yn unrhyw fodd ymrwymo i'r hyn a elwir yn ddeddfau naturiol.

6. Beth ellir ei ddweud parthed y prawf cyffredinol dros wyrthiau?

Eu bod, fel digwyddiadau ereill, yn fater o dystiolaeth. Fe dderbyniwyd y gwyrtiau Beiblaidd gan y sawl oedd dystion ohonynt ar dystiolaeth eu synhwyrâu; a derbynnir hwy gan genedlaethau dilynol ar dystiolaeth hanesiol ddigonol i hawlio cred ynddynt, gan yr haeddant bob derbyniad, wrth ystyried pa un bynnag ai cymeriad y cofnodwyr ohonynt, urddas y cyflawnwyr, neu ynte y rhesymau dros eu cyflawniad.

7. A oes rhyw faint o rym yn y drydedd wrthddadl?

Nac oes: canys cyflëir yn wir, gan yr ychydig wyrthiau hynny a ymddangosant yn anheilwng o ymyriad Dwyfol, wersi pwysig parthed gallu a rhagluniaeth neulltuol Duw: yn wir, ni chofnodir cymaint ag un wyrth, a fetha ei hun ddysgu yn ogystal ag amddiffyn y dysgawdwr. Y mae hyn yn gymwysadwy at y rhyfeddod a dybir sydd ormodol yn ogystal ag at yr un sydd ry fychan (Jos. x. 13; 2 Bren. vi. 6).

8. Eithr onid yw y Beibl, mewn rhyw ystyr, yn diystyru gwyrtiau?

Rhaid gochelyd yma ddau gyfeiliornad:—

(1) Gwir yw y diystyrir yr arwyddion o'u cymharu â'r peth a arwyddoceir. Am hynny, peidiodd y gwyrtiau arddangosiadol (*phenomenal*) i raddau ar ol gwyrt barhaol adgyfodiad Crist, a phresenoldeb parhaol yr Yspryd Glân.

(2) Dibrisir dibynniad gormodol ar wyrthiau: *Oni welwch arwyddion a rhyfeddodau, ni chredwch!* (Ioan iv. 48; xx. 29; ii. 23, 24).

(3) Ond tra yr oedd y datguddiad yng Nghrist mewn cwrs-weithrediad, fe ddynodid pob argyfwng pwysig gan wyrthiau. Cawn fod yr amserau Patriarchaidd, y sefydliad Moesenaidd, yr adferiad dan Elias, y caethiwed, dyfodiad, bywyd,

ac adgyfodiad Iesu, sefydliad Pentecostaidd yr Eglwys, y Pentecostau llai, a chyhoeddiad yr Efengyl gan yr Apostolion,—cawn fod y rhai'n oll yn egluro ac yn dyrchafu amcan neulltuol ymyriadau gwyρθiol.

9. Pa fodd yr effeithir ar y cwestiwn gan y gwyρθiau hynny nad ydynt gydgorfforedig â datguddiad?

(1) Yr oedd yr argoelion a gyflawnid,—os yn wir y cyflawnwyd hwynt, trwy ganiatad Duw yn eiddo anuniongyrchol, iddo Ef Ei Hun.

(2) Rhaid yw i'r gwyρθiau hynny yr honnir ddarfod eu cyflawni yn ddilynol i amserau perffeithiad y ffydd, sefyll neu syrthio ar eu tystiolaeth eu hunain. Nid oes na deddf na phroffwydoliaeth o eiddo datguddiad a wrthwynebir o angenrheidrwydd ganddynt.

§ 2. Broffwydoliaetβ.

1. Pa ystyr sydd i broffwydoliaeth fel credeb?

(1) Dynoda drefn y Dwyfol gyhoeddiad trwy oruchwylwyr a ysprydolasiad mewn modd arbennig; (2) Y rhagfynegiad gan y goruchwylwyr hyn am gyflawniad dyfodol y bwriadau Dwyfol. Y mae proffwydoliaeth yn y ddwy ystyr hyn, yn elfen hanfodol a threiddiol mewn datguddiad; ond ni cheir y naill heb y llall.

2. Treiddiol, y'mha ystyr gyda golwg ar y gyntaf?

Ni lefarodd Duw erioed o'r nefoedd wrth ddynion, ond trwy ddynion, am y rhai y mynegir,—*Efe a roddes ei Yspryd arnynt* (Num. xi. 29). Y mae hyn yn wir am bob un ohonynt o Foses hyd at ein Harglwydd. Golyga y gair proffwyd yma un sydd yn datgan neu yn llefaru ger bron ereill.

(3.) Beth, ynte, oeddynt gredebau y proffwyd ei hun?

Y fath arwyddion o bresenoldeb yr Yspryd Dwyfol gydag Ef, ac o ddwyfoldeb ei genadwri ag oedd ddigonol i'r sawl a wrandawent arno; ac fel yn achos cyflawnwyr gwyρθiau, felly yma, rhaid yw i ni farnu gwerth y naill a'r llall ohonynt, yn ol tystiolaeth eu gweinidogaeth (Deut. xviii. 23; Ioan vii. 18).

4. Y'mha ystyr yn dreiddiol yn ei pherthynas â'r olaf?

Rhyngodd bodd i Dduw o'i ragfynegiad cyntaf, *Efe a ysiga dy ben di* (Gen. iii. 15), i lawr hyd *Yr wyf yn dyfod ar frys*

38 *Y Datguddiad Cristionogol a Rheol Ffydd.*

(Dat. xxii. 20), i ragfynegu y dyfodol; a thrwy ddigwyddiadau amserau dyfodol cyfagos, i ragfynegu digwyddiadau amserau pellach hwnt.

5. Pa rai ydynt brif ddeddfau rhagfynegiant proffwydol?

(1) Y Crist sydd ar ddyfod yw ei phwngc a'i gwrthddrych canolog. Tuedda pob datganiad proffwydol ato Ef yn uniongyrchol neu yn anuniongyrchol.

(2) Fe geir proffwydoliaeth am ei ddyfodiad cyntaf, yr hon a ddilynir gan broffwydoliaeth am Ei ail-ddyfodiad, gan barthu yr oesau yn ddwy ran.

(3) Yn y proffwydoliaethau ailraddol, fe geir amlinelliad, mwy neu lai clir, o'r dyfodol.

(4) Goblygir pob gris broffwydol i raddau mwy neu lai, dan len, hyd onis teifi y cyflawniad ei lewyrch arni.

(5) Megis y gwyर्थiau, felly y proffwydoliaethau, hwy fuant, ar yr un pryd, yn gyfryngau hyfforddiant cyffredinol.

6. Beth yw cymeriad cyffredinol y gredeb hon?

Tra mai gan y genhedlaeth oedd ar y pryd yn dyst ohoni y teimlid gwerth profiadol gwyर्थ, fe gedwir eiddo proffwydoliaeth yn bennaf i'r genhedlaeth honno fydd yn dyst o'i chyflawniad.

7. Oni chyfunid proffwydoliaeth a gwyर्थ fel credebau?

(1) Fe gyflawnid gwyर्थiau gan y proffwydi, ar brydian, er awdurdodi ac egluro eu cenadwri, pob un o'r ddau.

(2) Yr oedd eu hysprydoliaeth broffwydol ynddi ei hun yn wyrth.

(3) Fe gyd-reda proffwydoliaeth a gwyर्थ trwy gydol hanes datguddiad hyd nes sefydlu yr Eglwys, ac yna, graddol beidiant gyda'u gilydd.

8. A ydynt hwy wedi peldio ynte?

Yn amser y diwedd fe fydd i wyrth ddirwyn i fyny hanes y byd, fel y cyflawniad olaf a'r mwyaf o broffwydoliaeth.

Si Diffyniad.

9. Beth yw maen prawf y gredeb hon?

Rhaid profi mai Dwyfol, ac mai nid ffrwyth rhagwelediad dynol ydoedd rhagfynegiant proffwydol; ddarfod ei gyflawni

yn unig gan allu Dwyfol; a darfod iddo, wrth gwrs, gael ei fynegi cyn y digwyddiad.

10. A ddeil holl ragfynegiadau datguddiad y maen prawf hwn?

Gwnant, cybelled ag yr ydym ni yn alluog i'w cymhwyso. Nis gellir hynny mewn rhai engreiffiau, oherwydd prinder adnoddau hanesiol. Ond yn yr oll a berthyn i'r datguddiad Cristionogol sefydledig, nid erys cymaint a chysgod amhueaeth.

11. Pa fodd y gellir egluro hyn?

(1) Yr oedd Ffurf broffwydol y Messiah dyfodol, a bortreadasid gan lu o ysgrif-binnau trwy gydol mil o flynyddoedd: gwasgariad y genedl henafol y rhagddywedasid am dano yn y ddau Destament,—yr oedd y rhai'n yn broffwydoliaethau perthynol i hollwybodaeth: nis gallesid dwyn oddiamgylch y cyflawniad ohonynt trwy ddyfeisiau dynol; ac yn sicr, yr oedd y rhagfynegiad yn flaenorol i'r digwyddiad.

(2) Nifer fechan allan o luaws o engreiffiau y rhaid eu hefrydu ydynt; gorchfygiad Israel gan Asyria, dinystr Nineveh, ac wedi hynny Babilon, a'r caethiwed Babilonaidd, yn yr Hen Destament, a dinystr Jerusalem yn y Newydd.

(3) Ond y fath yw y gredeb hon, fel nas teimlir ei chyflawn rym hyd oni wneler archwiliad i holl gyfres y proffwydoliaethau yng ngoleuni y cyflawniad ohonynt.

12. Oni thybir ddarfod ysgrifennu rhai o'r rhagfynegiadau gynt yn ddilynol i'r digwyddiadau?

Y mae hyn wedi bod yn bwngec o ddadl, bob amser, yn enwedig gyda golwg ar Daniel. Ei Lyfr ef yw maes y frwydyr parthed gwyrrth a phroffwydoliaeth. Mewn amseroedd diweddar, pa fodd bynnag, fe briodolir dyddiad tra diweddar i Bum' Llyfr Moses, y Salmau Messianaidd, y'nghyd a'r mwyafrif o rannau proffwydol yr Hen Destament.

13. Pa fodd y mae cyfarfod â'r ymosodiadau hyn ar y gredeb?

Trwy efrydiaeth fanwl o'r prawf, yr hwn, gan ddarfod iddo foddloni yr Eglwysi cyntefig, yn Iddewig a Christionogol, efe

40 *Y Datguddiad Cristionogol a Rheol Ffydd.*

a'n boddllona ninnau hefyd. Yn y cyfamser, digon yw ddarfod i Grist dafu tarian Ei amddiffyniad dros y llyfrau penodol hynny yr ymosodir bennaf arnynt.

§ 3. *Unoliaeth Datguddiad.*

1. *Beth a olygir wrth y gredeb hon?*

Fod unoliaeth datguddiad fel cyfangorff y'nghyd âg eiddo Ei ysgrifeniadau, fel tystiolaeth a roddasid mewn llawer oes a chan llawer llaw yn fforddio prawf cyd-redol cryf ei fod yn dyfod oddiwrth Dduw.

2. *Y'mha ystyr y gellir golygu y gredeb hon?*

Gellir ei golygu yn gyffredinol ac yn neulltuol: Yn gyffredinol, nid oes yn bod yn hanes y byd a ddichon gystadlu âg unoliaeth aruchel, ac arbenigrwydd datguddiad Duw fel ei hamlygir yn y gyfundrefn Gristionogol berffeithiedig. Yn neulltuol, y mae cydgordiad cynifer o awduron, a ysgrifenasant mewn amrywiol oesau a gwledydd, mewn un cynllun mawreddog, a chysondeb organaidd yr un Beibl fel ffrwyth yr oll, yn fforddio engraifft ddi-ddiwedd o ddadl a fedd y gwerth moesol cryfaf.

3. *Onid oes yna ochr arall i'r ddadl hon?*

Oes. A thröir hi yn ein herbyn gan ddau ddosparth o wrthddadleuwyr: sef y sawl a dybiant fod dadblygiad arafaidd y drefn fawreddog yn ddinystr i'w dwyfoldeb; a'r sawl a haerant wahaniaethau mewnol y datguddiad ei hun.

4. *Pa fodd y cyfarfyddwn â'r flaenaf?*

Trwy syrthio yn ol ar yr egwyddor y gorffwysa Cristionogaeth arni, sef mai cynllun graddol-berffeithiedig yw. Ac ni ddylai y rhai hynny a ddaliant afael mewn dadblygiaeth y'mhob canghen o'u hathroniaeth ei gwrthwynebu yn hyn o beth.

5. *A pha fodd â'r olaf?*

Trwy haeru a phrofi y cysonir yr anghysonderau ymddangosiadol hyn trwy eu hunoliaeth yng Nghrist, Pen-Diffynydd crefydd yr Hwn yw Efe Ei Hun.

III.

Y Gredeb Bennaf: Sylfaenydd Cristionogaeth.**§ 1. Y Gredeb ei Hun.****1. Beth a olygir wrth hyn?**

Nad oes un dadl, na mewnlol nac allanol, yn ffafr Cristionogaeth, mor rymus a chymeriad ei Sylfaenydd.

2. Beth a olygir yma wrth gymeriad? ai rhagoriaeth yn unig?

Yn hytrach Ei Berson, Ei ymddangosiad a'i fywyd yn y cyfan ohonynt; ond yn neulltuol y cysondeb perffaith sydd cyd-rhwng Ei honiadau ag Ef Ei Hun. Bydd i hyn, fodd bynnag, gynnwys llawer yn ychwanegol.

3. Pa rym sydd yn hyn fel credeb?

Amlwg yw ei bod yn dra chadarn, os gellir ei phrofi. Y mae Cristionogaeth ym Mherson Iesu yn gwneud yr honiad goruchelaf; fel mater o ffaith, y pwngc anhawsaf a berthyna iddi yw honiad ei Sylfaenydd. Gan hynny, byddai yr anghyd-weddoldeb lleiaf rhwng y modd y gesyd Efe Ei Hun allan, a'r honiad hwnnw yn ddinystriol.

4. Ai digon yw dangos nad oes dim anghysondeb?

Nage; ni fyddai hynny ond nacâol. Ni a ddylem ddangos mewn modd cadarnhaol fod yr oll a wyddom am Iesu yn ategu Ei honiad. Eithr amlwg yw, nad yw yr oll a wyddom ni am dano Ef ond ychydig; a chan hynny fod grym ein credeb yn gorffwys yn bennaf ar yr arbrawf negyddol, yr hwn, bid a fynno, a dreigla yn rhwydd i'r un cadarnhaol.

5. Oni charia rhagoriaeth foesol ein Harglwydd, yn unig, bopeth o'i blaen?

Hi wna hynny yn ddiau i'r eiddo Ef. Iddynt hwy, cymeriad personol Iesu yw y gredeb ddigonol drosto Ef Ei Hun, Ei athrawiaeth, a'r holl Ysgrythyrau. Ond i'r byd yn gyffredinol rhaid yw cymeryd golwg eangach, gan yr honnir rhywbeth amgenach na rhagoriaeth ddynol yn unig am Awdwr Dwyfol-ddynol Cristionogaeth.

6. Pa fodd, ynte, y mae i ni fyned rhagom?

Trwy ystyried Ei honiadau, y'nghyd a'r gredeb o gysondeb Ei gymeriad gyda'r cyfryw honiadau; ac yna, trwy brofi geudeb pob gwrth-ddadl.

§ 2. Soniad yr Iesu.

1. Pa wedd y gellir dangos honiad yr Iesu gryfaf?

Trwy ei gosod ger bron mewn ychydig o gyferbyniadau amlwg:—

(1) Efe a broffesa mai Ef yn Ei Berson Ei Hun yw Duw Ei Hunan yn hyfforddi dynolryw, ac er hynny i gyd mai dysgawdwr dynol ydyw.

(2) Efe a ddaw gyda darpariaeth ar gyfer iechydwrïaeth gyffredinol dyn, yr hon er hynny y rhaid i'r dyn ei hun ei cheisio a'i chymhwyso.

(3) Efe a gyflwyno Ei Hun ger bron fel Mab dibechod Duw, ac eto, nad yw ar gyfrif hynny, yn ddim llai o esiampl ddynol o berffeithrwydd.

(4) Efe a addefa Ei fwriad o sefydlu teyrnas gyffredinol, yr hon, er hynny, nid yw i ymddangos hyd ddiwedd y byd.

(5) Efe a wna Ei ymadawïad yn rhan hanfodol o'i gynllun, ac eto, Efe a addawa Ei bresennoldeb gwastadol.

2. A yw yn ofynol cynnwys hyn oll yn honiadau yr Iesu?

Ydyw, yr oll yn ddieithriad. Nis gellir deall ac amddiffyn na Christ na'i grefydd pe y gadewid allan gymaint ag un.

3. A yw yr Arglwydd Ei Hun yn cyfuno y rhai'n yn Ei apeliadau?

Dim ond yn raddol y darfu iddo Ef, na'i apostolion eu cyfuno; ond yn yr Efengyl derfynol sydd gennym i'w hamddiffyn hwy a gyfunir yn eu hunoliaeth.

4. Ai nid doethach fyddai cymeryd tir is?

Odditan amgylchiadau gwahanol gallai hynny brofi yn fan-teisiol; felly y bu, a gall fod felly eto yn y dynesiadau cyntaf at y Paganïaid; ac os mai dadleu yr ydym dros y safle uchelaf i'r Arglwydd Iesu mewn crefydddeg, fe ellir myntumio ei oruchafiaeth y'mhlith dysgawdwyr dynol. Ond, gwir ddiffyniad Cristion-

ogaeth yw diffyniad y Crist perffaith: IMMANUEL, DUW GYDA NI (Matth. i. 23).

5. A gynwysa hyn yr ymwrthodir â diffyniad y ffydd Gristionogol a wneir gan gyfeillion Theistaidd ac Undodaidd?

Gwna, yn ddiau: tra y cydnabyddir pa mor argyhoeddiadol y mae cyn belled ag yr ä. Nid sylfaenydd dynol o'r ffydd a ddiffynnir gennym ni.

6. Ond tra yn son am Ei honiad, yr hyn a goleddir fel credeb, gyda chysondeb, pa fodd y mae i ni symleiddio y pwyntiau hyn?

Trwy efrydu ar wahan a chydag unoledd hunangyflwyniad yr Arglwydd gerbron fel un Dwyfol-ddynol; y'nghyd a pherffeithrwydd dibechod ei gymeriad. Dyma y ddau brif bwynt.

Gysondeb ei Soniad.

7. Sut y gellir olrhain hyn?

Fe ellir dweud fod holl rediad hunan-amlygiad ein Harglwydd, yn berffaith esboniadwy trwy ei gydgordiad a'r honiadau hyn; gyda y rhai hyn yn unig, ond yn ddiau gyda'r rhai'n.

8. Oni saif honiad o'r fath oherwydd ei arbenigrwydd goruchel yn hunangondemniedig?

Dylai effeithio i'r gwrthwyneb: y mae y ffaith na ddarfu i neb erioed wneud honiadau cyffelyb, yn wirionedd ynddo ei hun, o'r fath rhyfeddaf; tra y dygir ei ardderchogrwydd i fwy o amlygrwydd pan yr ystyrir y rhagddisgwyliadau pell am dano yn y byd Iddewig, a'r byd Paganaidd.

9. Pa fodd yr ategir yr honiadau pwysig hyn?

Trwy y cysondeb rhyfeddol gyda'r hwn y llefara ein Harglwydd am bob gair a glybu Efe gan y Tad, fel yn meddu ar awdurdod terfynol, a'r hwn, er hynny, a lefarasid megis dan gomisiwn. Nis ceir mohono byth yn cyd-ddosbarthu Ei Hun gyda dysgawdwy'r dynol, nac yn wir gyda dynion.

10. Ond beth yn yr honiad hwn a'i gwna yn un o gredebau Cristionogaeth?

Ei gwneir, a hynny gyda chysondeb, gan Un ag y mae Ei sancteiddrwydd dilychwin, a'i hunanaberth perffaith yn

44 Y Datguddiad Cristionogol a Rheol Ffydd.

hawlio ein ffydd ynddo. Ymddengys peidio ag ymddiried ynddo Ef yn hunan-gondemniad.

11. Ond, a ellir profi y cymeriad perffaith hwnnw?

Y mae yn ddiamheuol yr hōna yr Arglwydd ei fod yn rhydd oddiwrth bechod. Ni a'i canfyddwn ger ein bron y'nghlaerwyndeb pob defosiwn i Dduw ac i ddyn. Ac yr ydym yn rhwym o dderbyn Ei esboniad Ef ac eiddo Ei Efengyllydd; yr hwn a welasai ynddo *ogoniant megis yr Uniganedig oddiwrth y Tad* (Ioan i. 14).

12. Pa un yw y gredeb, ynte, ai yr Ymgnawdoliad, neu yr anmhechadurusrwydd?

Y maent yn anwahanadwy unedig; y mae y naill yn cadarnhau y llall.

13. Ond tybier fod y ddwy yn cael eu gwadu?

Yna, ni a syrthiwn yn ol ar y ragoriaeth ddynol, a gofynnwn, A yw yn ddichonadwy i un a feddai ar y fath fesur uchel o ddaioni ag yr addefa pawb fod Crist yn feddiannol arno, fod yn alluog o'r fath honiad ofnadwy a digymar ag fod y Tad ynddo, yn un ág Ef, ac yn weladwy ynddo Ef, fel nad oedd yn neb arall? (Ioan xiv. 10; x. 30; xiv. 9).

14. Beth yw grym y gredeb i'r sawl a'i derbyniant hi?

Hon yw credeb yr holl gredebau ereill; a hi a rŷdd i'r Efengylau urddas nefol a sancteiddrwydd; awdurdod cyflawn i'r holl Ysgrhythrau fel eu nawddogir ac fel eu hamddiffynnir gan eu Harglwydd; a sefydlogrwydd i'r holl gyfundrefn Gristionogol.

§ 3. Diffyniad y Gredeb hon.

1. Beth a olygir wrth y diffyniad hwn?

Profi yn syml nas gellir ategu unrhyw dybiaeth wrthwynebol am Sylfaenydd Cristionogaeth.

2. Pa fodd y gellir dosbarthu y cyfryw dybiaethau?

Trwy ddilyn, mewn ffordd hanesiol, y ffurfiau a ymgymerasant; ond daw hyn dan sylw yn ddiweddarach, pan y rhoddir ystyriaeth i fuddugoliaethau Cristionogaeth. Am y presennol digon yw ystyried y ddwy ddamcaniaeth i'r rhai y gellir crynhoi pob un arall.

3. Pa rai ydynt?

Yr oedd yr Iesu naill ai yn benboethyn, a chydgyfranogai Ei ddisgyblion o'i benboethni; neu ynte, yr oedd yn dwyllwr; a bu i'w ganlynwyr, yn ymwybodol, neu yn anymwybodol, gyduno â'r twyll. Gellir gosod y mater ger bron mewn amrywiol ffurfiau, ond rhaid yw iddo, yn y pen draw, dd'od i un o'r ddwy osodaeth hyn.

4. A ydyw yn ofynnol cysylltu y disgyblion mor agos â'u Hathraw yn y ddadl?

Nis gellir eu gwahanu. Ni wyddom ni ddim, neu y nesaf peth i ddim, am yr Iesu, ar wahan i dystiolaeth ei ganlynwyr. Efe a'u gwnaeth hwy yr hyn oeddynt, a hwythau drachefn a'u gwnaethant yntau yr hyn a dderbynnir gennym ni.

5. A fuwyd rywbyrd, yn dal, mewn gwirionedd y ddamcaniaeth o dwyll?

Diameu mai dyna ydoedd damcaniaeth ei elynion Iddewig, fel y ceir hi yn yr Efengylau, yn ogystal ag eiddo gelynyion maleisus Cristionogaeth yn yr oesau boreuol. Bu iddi gael ei hadfywio yn y ganrif ddiweddaf, ond prin y gellir dweud ei bod yn fyw yn y dyddiau presennol.

6. Beth yw y gwrthbrawf digonol iddi?

Rhoddwyd ef unwaith am byth yn nau ymadrodd ein Har-glwydd: *Pa fodd y gall Satan furw allan Satan* (Marc iii. 23); ac eto, *Yr hwn sydd yn llefaru am dano ei hun sydd yn ceisio ei ogoniant ei hun* (Ioan vii. 18). Yn ol y ddau safon hyn, a bwyswyd yn fanwl cyn eu cymhwyso, fe gyfiawnheir yr Iesu a'i ddisgyblion am byth. Mynegodd yr effaith dilynol mewn trydydd ymadrodd,—*Chwi a'm hadweinoch i, ac a wyddoch o ba le yr ydwyf fi!* (Ioan vii. 28).

7. Pa le y gorffwysa grym y diffyniad hwn?

Ni bu gwrthwynebiad sefydlog i bob drwg, ac apsenoldeb hollol o amcanion personol yn nodweddiadol o dwyll erioed, er pan y byd mewn bod.

8. Yna, y mae yn aros eto y ddamcaniaeth o benboethni hunandwyllledig?

Nid oedd honno yn adnabyddus yn yr amseroedd boreuol, nac ychwaith i gydoeswyr yr Iesu na'i apostolion: Y'ngwyneb

eu symledd ymarferol hwy, a chydunedd rhesymegol y gyfundrefn a ddysgent, nis gallasai godi. Ond y mae wedi ymddangos ohoni yn yr amserau diweddar hyn mewn lluwys o ffurfiau.

9. Y'mha fodd y darfu i hyn effeithio ar y farn parthed gwerth cymeriad personol ein Harglwydd?

(1) Tybiodd rhai na ddarfu iddo Ef erioed hŏni amhechadurusrwydd; ac na wnaeth amgen na herio Ei withwynebwyf fel nas meiddiai ond dyn ymwybodol o amcan aruchel yn unig, eu herio.

(2) Tybiodd ereill ddarfod iddo ymlithro yn ymwybodol i ofn anwraidd rhag marwolaeth, a digofaint yn erbyn pechaduriaid, yr hyn, er hynny, ni ystyriant yn gwbl anghyson â'i gywirdeb uchel.

(3) Mŷn ereill, eto, ddarfod iddo ddechreu gydag amcan pur, ond iddo roddi ffordd i demtasiwn a wrthsafasai Efe unwaith, y'mha achos yr ymunodd penboethni a thwyll â'u gilydd. Hon ydoedd dadl anffyddwyr Ewrob, yn nechreu y ddeunawfed ganrif, a'r hon y gorfodwyd hwy i'w derbyn fel y llwybr rhwyddaf i ymgytundeb.

10. A pheth yw diffyniad cymeriad personol ein Harglwydd?

Cysondeb perffaith Ei gymeriad â'i berthynas ymgawdol-edig â Duw a dyn. Y mae Ei Sancteiddrwydd yn Ddwylol, ond y mae felly mewn natur ddynol. Llymder y Jehofa gynt ydoedd Ei lymder, ac i Dduw yn unig y gweddai. Perthynai ei ymdrech â dioddefaint i ddirgelwch Ei ing prynedigol ac anghyfranogol. Llewyrcha Ei berffeithrwydd pur a hanfodol trwy y cyfan.

11. I ba ffurfiau yr ymwedda y damcaniaethau mwyaf neulltuol?

Hwy a ymweddant i dair ffurf, y rhai ydynt gyfeiriedig at yr Arglwydd Ei Hun, at Ei ddisgyblion, ac at Ysgrifeniadau y Testament Newydd. Ac nid oes eisieu ond eu henwi bob yn un ac un er canfod fod hynny yn ddigon o wrthbrawf iddynt.

12. Y'mha fodd y mae hyn yn gymwysiadol at Ein Harglwydd?

Gofynnir gan anffyddiaeth i ni gredu ddarfod iddo ffurfio y bwriad o ffugio y cymeriad o Fessiah; ddarfod iddo efrydu y proffwydi i'r perwyl hwnnw; ddarfod iddo ffurfio Ei gynllun yn yr anialwch; ddarfod iddo hŏni yn wastadol yr hyfforddied Ef

gan Dduw ; a darfod iddo yn y diwedd dalu dirwy Ei hunan-dwyll trwy farwolaeth ; ond darfod iddo, serch hynny, adael ar Ei ol i'w ddilynwyr y gymunrodd o'i amryfusedd aruchel. Digon yw gofyn : A ddichon unrhyw un ddarllen yr Efengylau a chredu y fath druth ?

13. Pa fodd y mae yn gymwysiadol at y disgyblion ?

Mynnir ddarfod iddynt wneud Arwr o'u Hathraw ; ac fel y fugwr canolog, neu fug-honiad (*myth*) Messianaidd y gobaith Iddewig, ddarfod iddynt wau o'i amgylch hanesion rhyfeddol yr Efengylau, a Llyfr yr Actau. Gelwir hon weithiau, y ddamcaniaeth Ffug-hanesiol, neu Chwedlonol, ac ysgubir hi i ffwrdd gan dair o ystyriaethau : Yn gyntaf,—Symledd y dynion hyn ; yna eu hargyhoeddiad cadarn o adgyfodiad gwirioneddol yr Arglwydd ; ac yn ddiweddaraf, yr aberth arwrol, i.e. o'u bywydau dros eu Harglwydd personol.

14. Pa fodd y mae yn gymwysiadol at yr ysgrifeniadau ?

Yr ymgais ddiweddaraf a'r mwyaf llafurfawr o eiddo anffyddiaeth ydoedd ceisio dangos nad yw Cristionogaeth yn ddim ond Sect Iddewig yn unig, yr hon, yn ol pob tebyg, a gafodd ei tharddiad mewn Esseniaeth ; a'r hon, ar ol merthyrdod ei Sylfaenydd a ymrannodd i gyfundeb Iddewig manylach, ac un a fynasai ddiddymu y ddeddf seremonïol, a derbyn ohoni y byd : ddarfod cyfansoddi rhai o ysgrifeniadau y Testament Newydd y'mhlaid y naill, a rhai y'mhlaid y llall, ac yr amcanai y rhelyw ohonynt at unoli y ddwy duedd hyn.

15. Y'mha olygwedd yr arddangosir St. Paul yn ol y gyfryw ddamcaniaeth ?

Fel Sylfaenydd Cristionogaeth mewn gwirionedd, gan i'w ddisgeidiaeth drawsffurfio Crist o fod y Rabbi Iddewig uchaf, yr hyn oedd, i fod yn ddiddymydd Iddewiaeth, yr hyn nad oedd.

16. Beth yw y gwrthatebiad i hyn ?

(1) Unoliaeth perffaith yr holl ysgrifeniadau hyn, pan y cymherir eu cyfeiriadau at y Crist.

(2) Tystiolaeth St. Paul ei hun am ei dröedigaeth,—dadl o gryn rym yn ffafr Cristionogaeth,—ac am ei berthynas â'r Arglwydd Iesu, ac ereill o'r apostolion.

IV.

Dylanmað a Pharhauster Cristionogaeth.

1. Beth yw cyfeiriad cyffredinol y gredeb hon?

Hi a gymer yn ganiataol fod crefydd Crist yn y byd, ac y dadlenna o oes i oes ei chyfaddaster cwbl-berffaith ei hun at anghenion dyn, y'ng hyd a chyflawniad o'i hamcanion professedig ei hun fel yr unig allu achubol y'mhlith plant dynion.

2. O dan ba ddeddfau y mae yn angenrheidiol i ni ei hefrydu a'i dehongli?

Rhaid yw i ni ystyried yn (1) Pa beth y proflesa y Grefydd hon ei wneuthur; yn (2) o dan ba amodau, ac yn (3) yn erbyn pa ryw wrthwynebiadau.

3. Beth ydyw ei grym fel credeb?

A'i chymeryd ar ei phen ei hun, nis gall fyned y'mhellach na hawlio parch i Gristionogaeth, gan ei wneud yn beth tebygol ei bod o Ddwylf darddiad. Ond, a dilyn y ddadl oddiwrth gymeriad yr Iesu, pa fodd bynnag, fe berthyna iddi rym anwrthwynebadwy.

4. A yw hi byth yn llythrennol anwrthwynebadwy?

Nac ydyw ar un cyfrif, oblegid fe wedir yn bendant gan lawer y gwaith daionus a gyflewnir gan Gristionogaeth yn y byd, a'i thuedd amlwg i ddyfod y prif allu ym mysg dynion; neu ynte, ceisir rhoddi cyfrif am hynny ar egwyddorion naturiol.

5. Beth ynte, yw profles fawr gyntaf yr Efengyl?

Y dug i bob dyn ar a'i cofleidia hi gymod a Duw trwy y groes, cyflawn sancteiddhad ei natur, a buddugoliaeth ar bob ofn am y dyfodol

6. Pa fodd y cyflawnheir y gyfryw broffes?

Trwy brofiad tyrfa ddirifedi, yn erbyn yr hwn nis gellir, yn rhesymol, ar y naill law, ddwyn unrhyw gyhuddiad, i.e. hyd yn oed anghysonder lluaus o broffeswyr Cristionogaeth; er, ar y llaw arall, y rhaid addef, mai dadl yw nas gall fod yn brofadwy i anffyddiaeth.

7. Beth a broffesa y'mhellach ?

Hi a broffesa gyflwyno ohoni, y'mhlith dynion, deyrnas nefoedd, galluoedd yr hon sydd i raddol symud ymaith bob iau o eiddo anwybodaeth a chreulondeb, a thrueni a drygioni.

8. Onid yw Cristionogaeth wedi methu yn amlwg yng nghyflawniad y cyfryw ymrwymiad ?

(1) Cyn ateb hyn, y mae dau beth i'w cymeryd i ystyriaeth. Rhaid peidio ag unrhywio teyrnas Dduw â'r Eglwys weledig, yr hon ei hun sydd wedi dirywio; ac addewid ein Harglwydd ydoedd mai yn araf y tyfai y pren, ac mai yn raddol y lefeiniau y surdoes yr holl glamp. Nid yw yr Efengyl yn proffesu bod yn allu anwrthwynebadwy a gormesol.

(2) Gyda hyn o ocheliadau, gallwn apelio at y gwahaniaeth rhwng y byd Paganaid a'r un Cristionogol; at gydrediad Cristionogaeth a gwareiddiad; dyrchafiad y rhyw fenywaidd; darostyngiad graddol caethwasiaeth; lliniariad rhyfel, yng nghyd â'r bendithion afrifed a estynna crefydd Crist i fyd sydd yn graddol ymgodi i ymwybodaeth o'r fantais o hynny.

Sunan-Idiffnniad Buddugoliaethus Cristionogaeth.**9. A ydyw llwyddiant Cristionogaeth dros ei gwrthwynebwyr wedi bod yn gyfryw fel ag i gyflawnhau ei honiadau ?**

Ydyw, yn ddiameu: ond cymeryd i ystyriaeth yn wastad ysprydolrwydd ei honiadau; a'i rhagfynegiadau hi ei hun parthed y llwyddiant hwnnw. Rhaid yw i ni gofio yn wastad ei phroffes hi ei hun.

10. A oddefa y ddadl i gymeryd y rha'n i gyfrif ?

Yn ddiameuol: canys yn (1) ni phroffesodd amgen na bod yn allu ysprydol, yr hwn a ddygai gerbron ac a orchfygai ei elynion drwy argyhoeddiad; ac yn (2) y mae rhagfynegiadau Cristionogaeth yn rhan ohoni ei hun, a dysgant ni i ddisgwyl am olyniant arafaidd o fuddugoliaethau.

11. Eithr onid yw sefyllfa bresennol Cred yn ei pherthynas â'r byd yn gyffredinol yn gryn rwystr rhagarweiniol ?

Diameu ei fod. Nid oes ddadl, fodd bynnag, nad yw Cristionogaeth yn graddol ddarostwng pob ffurf o Baganiaeth

ac ofergoeledd. Nid yw ei chyffredinolrwydd terfynol, a siarad yn ddynol, ond mater o amser.

12. A ydyw y Ffydd wedi gorchfygu ei gelyn cyntaf, Iddewlaeth?

Yn yr oes a ddilynodd ymadawiad yr Arglwydd,—dros yr Iddewon, y rhai oeddynt ac ydynt ei gelynion chwerwaf, y bu i Gristionogaeth ennill ei phrif fuddugoliaethau. Crefydd yr Iesu, yn ddiddadl, sydd yr awr hon yn dal y safle a feddiennid unwaith gan Iddewiaeth. Ac y mae parhad yr hen genedl gynt, gyda'i Hen Destament gorchuddiedig yn ei llaw, yn fuddugoliaeth arhosol i Gristionogaeth; megis hefyd, yn wir, y bydd ei dychweliad.

13. A ellir dweud ei bod wedi gorchfygu Paganiaeth?

Y mae bob amser wedi gorchfygu drosti fel ei gwrthwyn-ebydd; pa le bynnag y gwrthsafodd Paganiaeth bu iddi roddi ffordd, neu ynte, y mae yn rhoddi ffordd.

14. Oni orchfygydd ei gorchfygydd, ar rai prydiau, gan Baganiaeth?

Do: trwy gydol ei hanes. Bu i Baganiaeth yr Ymerodraeth Rufeinig, athroniaeth Ddwyreiniol, ac Iddewiaeth—yr oll wedi eu gorchfygu, adael eu hargraff ar Gristionogaeth; a'i diryw-iaidau dilynol ydoedd y canlyniad o hynny. Eithr ni chollwyd o gwbl ddylanwad diffuant y Ffydd, ac ni bu erioed heb ei phroffion amlwg.

15. Onid buddugoliaeth rannol yw hyn ar y goreu?

Gwir, os mai yn ol egwyddorion dynol y mae cyfrif gwerth buddugoliaeth. Ond i feddwl ystyriol, y mae y ffaith ddarfod i Gristionogaeth, ar ol ei lluddias i'r fath raddau, wneuthur cymaint o ddaioni yn ddadl gref o'i phlaidd. A'i barnu fel cyfundrefn ddynol yn unig, y mae wedi bod yn elynes iddi ei hun.

16. Ond, a oes mewn gwlrionedd unrhyw ffurf o Baganiaeth ag sydd wedi ei diddymu?

Oes. Diflanodd Chwedl-draethau Groeg a Rhufain; yr ofergoelion Scandinafiaidd a Gothaidd, yn nghyd â lluwys ereill mewn amserau borenol. Y mae yn wybyddus ddarfod symud ymaith lawer o ffurfiau mwyaf aflednais Paganiaeth mewn amserau diweddarach. Ac y mae cyfundrefnau hynach a chadarnach y Dwyrain, er yn arafaidd, eto, yn sicr roddi ffordd.

17. Os dywedir ddarfod i rai o'r cyfundrefnau dadfeilliedig hyn orchfygu ereill, megis y darfu i Gristionogaeth wneud : beth wedi'n ?

Y casgliad a awgrymir yw y gall dylanwad y Ffydd Gristionogol ddiiflannu hefyd : eithr digon yw dweud, nad oes ynddi hyd yma ddim arwyddion o hynny. Y'mhellach, gallwn olrhain y'mhob symudiad crefyddol pwysig a gariodd ddylanwad dros yspaid o amser ar y byd, y rheswm dros eu dihoeniant : sef diffyg gwirionedd, neu ddiffyg proffes o gyflwyno gwirionedd, mewn rhai ohonynt : dibynniad ar y clêdd, a hunan-fodddhad anianol yn ereill ; a diffyg cenadwri gyffredinol yn y rhai goreu ohonynt. Cyhoedda Cristionogaeth ryfel yn erbyn pob crefydd arall ; ni ymgymoda âg un math o ddrwg mewn dyn ; a disgwylia am ei hadeg, yn amyneddgar, eto yn hyderus.

18. Ond, i derfynu, onid yw athroniaeth a gwyddoreg ddiweddar yn ennill goruchafiaeth ar y ffydd Gristionogol ?

Nis gall fod dim yn llai gwir. Fe dâl athroniaeth yn y ffurf oreu ohoni, ei theyrned i athrawiaethau hanfodol y Ffydd. Ac y mae gwyddoreg, hithau, er ymwrthod ohoni â hualau tybiedig yr Ysgrythur, o gredu yn Nuw, yn dyfod i gredu yn gyflawnach yng Nghrist hefyd. Nid yw Atheistiaeth Agnostigaidd nac athroniaeth na gwyddoreg. Bid a fynno, nis gellir dywedyd fod athroniaeth feddyliol nac anianeg ychwaith yn llesteirio na gorchfygu y Grefydd Gristionogol.

V.

Yr Yspryd Glân.

1. Y'mha ystyr y mae gennym gredeb yma ?

Seilia y datguddiad Cristionogol ei ddiffyniad yn ddiamheuol ar bresennoldeb yr Yspryd Glân ; gan ar y naill law argymhell ei hawliau, ac ar y llaw arall lwyf foddioni y sawl nas gwrthodir mohono ganddynt.

2. Onid gormod anturiaeth yw cyfyngu fel hyn y derbyniad o Gristionogaeth i'r sawl a feddant brofiad personol ?

Fe gaur allan y posibilrwydd o hynny gan y rhan flaenaf o'n gosodaeth, canys rhoddir yr Yspryd Glân i egluro hawliau

52 Y Datguddiad Cristionogol a Rheol Ffydd.

yr Efengyl hyd yn oed i'r sawl a'i gwrthodant hi, ac a ymddanghosant fel pe yn ei anghredu.

3. Gan hynny, y mae y Testament Newydd, mewn gwirionedd, yn dwyn tystiolaeth iddo ei hun?

Dyna ergyd ei ddadl. Daw atom gyda'r addewid am allu Dwyfol, a boddlon yw i gael ei wrthod os na theimlir hwnnw : gwir mai *Petilio Principii*, h.y. cymryd peth yn ganiatâol yw hyn, yn ymddangosiadol, a thyna yn y pen draw, yw pob dadl am Dduw a chrefydd.

4. Ond dilys yw fod y profion allanol o Gristionogaeth yn ddigonol i hawlio cydsyniad?

Y mae iddynt eu grym; ond nid atynt hwy yn unig yr apelia yr Efengyl ei hun. *A nyny ydym Ei dystion Ef o'r pethau hyn, a'r Yspryd Glân hefyd, yr hun a roddes Duw i'r rhai sydd yn ufuddhau iddo Ef* (Act. v. 32). Cyd-gyferfydd yma dystiolaethau Duw a'r eiddo dyn.

5. Pa dystiolaeth allanol o eiddo dyn a olygir yma?

Y dystiolaeth a ddygir i adgyfodiad yr Iesu, megis y dilyna ei farwolaeth iawnol, ac y rhagflaena yr esgyniad.

6. Y'mha fodd y dug yr Yspryd y gyfryw dystiolaeth?

(1) Trwy ymbabellu ohono yn dragywydd yn llyfr y dystiolaeth, a thrwy amddiffyn ac argymell ohono dderbyniad o'r *llawer o brofion* (Act. i. 3), o'r adgyfodiad a roddwyd i luaws mawr o dystion gonest a theilwng-o-ymddiriedaeth; tystiolaeth y rhai, ond ei hystyried yn bwyllog, sy'n gyson ac uwchlaw amheuaeth.

(2) Trwy gadarnhau ohono y dystiolaeth dros fywyd adgyfodedig ein Harglwydd yn y profiad, trwy gyflawniad o'i addewid o ddylanwad ysprydol parhaus fel ffrwyth hynny.

(3) Trwy gyfodi, ar sail y ffydd yn Ei adgyfodiad Ef, yr Eglwys Gristionogol, gyda'i hordinhadau, Dydd yr Arglwydd, a'i haddoliad parhâol.

7. Sut yr erys, ynte, i oleuni hunan-eglur fethu ohono ag argyhoeddi llawer o amheuwyr gonest?

Nis gall ond hollwybodaeth yn unig olrhain y cwrswethrediad yr ä argyhoeddiad o wirionedd trwyddo o gydsyniad i ymddiriedaeth hyderus. Os yw yr enaid yn ddiidwyll ger bron Duw, rhaid yw i'r ymofyniad arwain at Grist; os metha yn hynny,

rhaid fod rhyw ddiffyg marwol yn rhywle, er nas canfyddir mohono gan ddyn. Canys y mae Efe Ei Hun wedi dweud:—*Pob un a'r sydd o'r gwirionedd sydd yn gwranddo fy lleferydd I* (Ioan xviii. 37). A thrachefn, *Os ewyllysia neb wneuthur Ei ewyllys Ef, efe a gaiff wybod am y ddysgeidiaeth, pa un ai o Dduw y mae hi, ai Myfi ohonof fy hun sydd yn llefaru* (Ioan vii. 17).

8. Onid yw gwrthddadl y Phariseaid yn erbyn hyn yn reddf anwrthwynebadwy o eiddo y deall rhesymegol?

Felly y mae o barth i bob honiad ond eiddo Crist. Ond pan y dywedent,—*Tydi sydd yn tystiolaethu am danat dy hun, nid yw dy dystiolaeth di wir*, hwy a lefarent felly tra'i eiriau Ef eto yn eu clustiau,—*Goleuni y byd ydwyf fi, yr hun a'm dilyno i, ni rodia mewn tywyllhuch*. Ac y mae Efe yn llefaru eto, **MYFI YW YR HWN SYDD YN TYSTIOLAETHU AM DANAF FY HUN** (Ioan xviii. 13, 12, 18).

9. Beth yw tystiolaeth arbennig ein Harglwydd am yr Yspryd?

Ar ol dywedyd ohono uchod, *Pob un a glywodd gan y Tad, ac a ddysgodd, sydd yn dyfod ataf fi* (Ioan vi. 45). Efe a derfynodd trwy ddywedyd y bydd i'r Dyddanydd, yr Yspryd, *pan ddel, argyhoeddi y byd o berthynas i bechod, a chyfiawnder a barn, o bechod am nad ydynt yn credu ynof Fi* (Ioan xvi. 8, 9). Ni apelia Cristionogaeth byth at undyn gan ei adael heb ei euogfarnu, er y gall ei adael heb ei argyhoeddi, yn ymddangosiadol.

PENNOD III.

Ysprydoliaeth yr Ysgrifur Lân.

§ 1. Ysprydoliaeth.

1. Beth yw ystyr y gair Ysprydoliaeth?

Mewn-anadliad Duw (*theos, pned*), a'r canlyniad o hynny. Defnyddir y gair yn y Clasuron am ddoethineb a breuddwydion a roddir i ddyn. Nis ceir mohono ond unwaith yn ein hysgrifeniadau sanctaidd ni: lle y rhydd yr ymadrodd *pasa graphe theopneustos, pob Ysgrhythur rhoddedig-gan-ysprydoliaeth-Duw*, ei ddatganiad terfynol i wirionedd pwysig (2 Tim. iii. 16).

2. A ddarnodir y gair yn yr Ysgrhythur?

(1) Ni ddarnodir yn unman na'i natur na'i fodd o weithredu na'i derfynau: ffaith o gryn bwys yn ein hymchwil.

(2) Ond ceir yno luaws o ymadroddion a'n cynorthwya i'w ddeall. Er engraifft, o barthed i'w ddylanwad ar y meddwl dywedir ddarod i'r proffwydi *lefaru megis eu cynhyrfwyd gan yr Ysryd Glân*; a dywedir ddarod i *law*, neu *air*, neu *Ysryd yr Arglwydd ddyfod ar ddynion*; a Dafydd *yn yr Ysryd* a alwodd y Mab ei Arglwydd (2 Petr i. 21; Num. xxiv. 2; 2 Chron. xv. 1; 1 Sam. x. 6; Matth. xxii. 43).

3. A yw yr ymadroddion hyn yn cyfyngu ysprydoliaeth i fynegiadau swyddogol?

Nid yn gwbl felly, ond ni a gasglwn y gwahaniaethir yn eglur rhwng dylanwad yr Ysryd ar lefarwyr ac ysgrifennwyr ewyllys Duw, a'i ddylanwad, ei ddyfodiad i mewn, a'i breswiliad yn y dyn er iechydwrïaeth bersonol. Y mae rhywbeth neulltuol ynddo bob amser.

4. A allwn ni, ynte, gymhwyso ysprydoliaeth at y llefaru, a'r ysgrifennu, pob un o'r ddau?

Y mae y ddau yn fanwl-gysylltiedig. Eglura ein Harglwydd hyn pan y llefara Efe mewn brawddeg am *Eich cyfraith chwi*, ac y dywed, *at y rhai y daeth Gair Duw*, a thrachefn, *a'r*

Ysgrythur nis gellir ei thorri (Ioan 10, 34, 35). Felly y gwna y ddau brif destun diweddarach. Llefara St. Paul am yr *holl Ysgrythur*, a *phob Ysgrythur*, fel yn *ysprydolelig gan Dduw*, gan gyfeirio ohono at *Ysgrythur lân* yr adnod flaenorol, ac felly osod allan fod yn rhaid, yn wir, i'r *HOLL Ysgrythur*, a *PHOB Ysgrythur*, olygu yr un peth. Gwna St. Petr (2 Petr i. 20, 21), *un broffwydoliaeth o'r Ysgrythur a phroffwydoliaeth yr un*: effaith cyffroad grymus yr Yspryd ydoedd y rhagfynegiadau a'r llyfrau a'u cynhwysent, y naill fel y llall.

5. Ai iawn ein gwaith, ynte, o gysylltu ysprydoliaeth mewn modd neualltuol â'r Ysgrythur?

Y mae tystiolaeth derfynol St. Paul wedi arwain i'r defnyddiad arferol o'r gair yn yr ystyr honno a ddynoda ddylanwad arbennig yr Yspryd Glân yn nghyfansoddiant a pharhad yr Ysgrythyrau Sanctaidd.

§ 2. Yr Yspryd Ysprydoliaethol, a'r Ysgrifennwyr Ysprydolebig.

1. Beth yw swyddogaeth neualltuol yr Yspryd Glân yma?

(1) Yn undeb, a chyd-gymundeb y Drindod Sanctaidd, yr Ysprydolydd yw Duw. *Pob Ysgrythur ysprydolebig gan Dduw*. Bu i *ddynion lefaru oddiwrth Dduw*, er cael ohonynt eu *cynhyrfu gan yr Yspryd Glân* (2 Tim. iii. 16; 2 Petr i. 20). Gweithrediadau a swyddogaethau y Tri Pherson ar wahan, nid amgen ydynt na gweithrediadau a swyddogaethau yr Un Duw.

(2) Y Mab yw ffinhonnell a therfynau pob datguddiad; ac eto yr oedd *Yspryd Crist* (1 Petr i. 11), yn y proffwydi cyntefig, ac Efe yw *Yspryd y Gwirionedd yn yr Apostolion* (Ioan xiv. 13).

(3) Am hynny, fel gweinyddwr y Prynedigaeth y'mhob oes, yr Yspryd Glân yw cyfrwng y Cymundebau Dwyfol ac ysprydolydd yr ysgrifennwyr, neu yr Ysgrythyrau a'u cofnoda.

2. Pa fodd y llefara y Testament Newydd am ysprydoliaeth yr Yspryd yn yr Hen Destament?

Mewn arddull a gymer yn ganiataol y llefara ac yr ysgrifenna Efe yn yr oraclau cyntefig:

(1) Unig dystiolaeth ein Harglwydd i'r llefaru yw, *Pa fodd, gan hynny, y mae Dafydd yn yr Yspryd, yn ei ahw Ef yn*

56 Y Datguddiad Cristionogol a Rheol Ffydd.

Arglwydd? Ond rhaid yw cysylltu â hyn, *A'r Ysgrythur nis gellir ei thorri* (Matth. xii. 43); Ioan x. 35). Y mae pob llais a phob Ysgrythur yn gyd-gyfrannog o'r anhalogrwydd, neu y difethedd a berthyn i'r llais hwn, a'r Ysgrythur benodol hon.

(2) Y mae y rhan ddiweddaf o'r Testament Newydd yn fwy eglur fyth. Fe rëd y difynniad cyntaf ar ol y Pentecost fel hyn:—*Fel y cyflawnid yr Ysgrythur, yr hon a lefarodd yr Yspryd Glân o'r blaen* (Act. i. 16). Y mae yr Epistol at yr Hebreaid yn dra chyflawn ar y mater: *Ac y mae yr Yspryd Glân hefyd yn tystiolaethu i ni* (Heb. x. 15). Dywed St. Paul fod *yr Yspryd yn eglur yn dywedyd* (1 Tim. iv. 1); geiriau yw y rhai'n, fodd bynnag, a'n harweiniant yn naturiol i ofyn cwestiwn arall:—

3. Beth yw y prawf o ysprydoliaeth barhaol yr Yspryd, fel ei ceir yn wastadol yn y Testament Newydd?

Gorphwysa yn bennaf ar addewid swyddogol ein Harglwydd a lefarwyd wrth yr Apostolion fel tystion: *Yr Yspryd Glân, yr Hwn a enfynd y Tad yn fy Enw i, Efe a ddysg i chwi bob peth, ac a ddwg ar gof i chwi yr holl bethau a ddwyedais i chwi* (Ioan xiv. 26). *Efe a'ch tywys chwi i bob gwirionedd; a'r pethau sydd i ddysfod a fynega Efe i chwi* (Ioan xvi. 13). Yng nghyntaf am y gorffennol, yna am y presennol parhaol, ac yn ddiweddaf am yr holl ddyfodol.

4. A yw yr ymadroddion hyn heb dreisio eu hystyr, yn ategu ysprydoliaeth Ysgrythyrau y Testament Newydd?

Pan y cymerir i ystyriaeth bwysigrwydd dwfn yr achlysur o'u llefariad, sef y llefarai ein Harglwydd am dystiolaeth barhaol, ac fod ysgrifeniadau y Cyfamod Newydd yn cwbl gyfateb i'r rhannau priodol yn yr addewid deir-plyg, gallwn fod yn sicr y gwnant hynny heb hawlio unrhyw brawf pellach.

5. Y'mha fodd y cyfatebant felly i'r addewid deir-plyg?

(1) Ceir yr adgofiad am y mynedol yn yr Efengylau.

(2) Y tywysiad i bob gwirionedd ydyw eu harweiniad rhagddynt (*hodegeser*) yng Nghrist, Y Ffordd (*hodos*) i holl ddadblygiadau y gwirionedd hwnnw, *fel y mae yn yr Iesu* (Eph. iv. 21): danghosir hyn mewn modd manwl yn nysgeidiaeth lefaredig ac ysgrifenedig yr Apostolion.

(3) Cofnodir y pethau sydd i ddyfod yn rhannau proffwydol y Testament Newydd, y rhai ydynt yn gyd-wëedig â'r cyfan: sonnir am ddatguddiad y dirgelwch a eglurwyd. . . trwy *Ysgrythyrau y proffwydi* (Rhuf. xvi. 26). Yn y dyddiau diweddaf hefyd *tystiolaeth Crist yw yspryd* (megis pe o'r *Yspryd*) *proffwydoliaeth* (Dat. xix. 10).

6. Pa gyfatebiaeth sydd rhwng moddau ysprydoliaeth yn y ddwy Oruchwyliaeth,—yr Hen a'r Newydd?

Yr un yn y ddwy, yn y cyfangorff ac ar wahan ydyw y cyfrinachau uniongyrchol oddiwrth y Gair, awgrymiadau yr Yspryd, y breuddwydion a'r gweledigaethau, a'r gorchymyn,—YSGRIFENNA; (Ex. xvii. 14; Dat. i. 19).

7. A gynorthwya yr holl dystiolaethau hyn tuag at ffurfio damcaniaeth?

Dim ond i fesur cyfyng. Hwy a ddysgant, pa fodd bynnag, na ddarfu i ysprydoliaeth wneud y llefarwyr a'r ysgrifenywyr yn ddim ond offerynnau peiriannol; dysgant ddarfod mewn lluaaws o engreiftiau i hyd yn oed y geiriau gael eu rhoddi; ac ym mhob achos ddarfod i ddylanwad yr Yspryd dywys rhesymiaidau yr Apostolion, a'u cymhwysiad cyffredinol o'r gwirionedd; a ddarfod i'r dystiolaeth i fywyd ein Harglwydd, neu yr Efengylau gwahanredol borëol gael eu trefnu o dan arolygiaeth arbennig yr Yspryd, yr hon, fel y gallwn ddyfalu, ydoedd fanwl neulltuol. Gellir dweud yr un peth yn hollol,—dim mwy na dim llai, am ffurfiad yr Hen Destament.

8. A yw ysgrifenywyr y Testament Newydd yn amlgu unrhyw ymwybodaeth â'r ysprydoliaeth hon?

Amylgir hi ganddynt yn hollol megis ei hamlygid gan yr ysgrifenywyr cyntefig: trwy honni fod yn eu geiriau awdurdod nad yw ddealladwy yn unrhyw fodd arall; trwy awgrymiadau, yma ac acw, llawn o arwyddocâd; a thrwy aruchedd cyson y cyfan.

9. Rhoddwch engreiftiau eglurhaol o hyn?

Cofnoda St. Luc yr addewid am ysprydoliaeth eiriol,—*Canys yr Yspryd Glân a ddyg i chwi yr awr honno pa beth a ddylech ei ddywedyd* (Luc xii. 12): cymharer â hyn yr ymadroddion a briodolir ganddo i St. Petr, St. Stephan, a St. Paul yn Llyfr yr Actau. Llefara St. Petr am y datguddiad newydd

fel yn gwneuthur yr hen yn *sicrach* (2 Petr i. 19), ac megis yn cynnwys *Gorchymyn yr Arglwydd a'r Iachawdwr trwy eich Apostolion* (iii. 2); un o'r rhai, sef St. Paul, y cymeradwyai y ddoethineb a rodded iddo *yn ei holl Epistolau* (iii. 16), y rhai a gyfrifir gyda'r *Ysgrythyrau creill*. Terfyna St. Ioan y Testament Newydd gyda dau nodiad:—*Yr oeddwn i yn yr Yspryd* (Dat. i. 10); yr un Ioan a *dystiolaethodd* (Dat. i. 2), y gorchymynnwyd iddo,—*Ysgrifennu* (Dat. i. 19); yr hwn gan gofio cyflawniad addewid yr Arglwydd ynddo ei hun, a roddes y dystiolaeth bwysig,—*A'r Ysbryd sydd yn tystiolaethu, canys yr Yspryd yw y Gwirionedd* (1 Ioan v. 5, 7).

10. Beth sydd i'w ddweud am ysprydoliaeth St. Paul, a gyfrannodd mor helaeth i'r Testament Newydd?

Tru na chymhwysa at ei ysgrifeniadau ei hun yr ymadrodd a gymhwysa efe at yr Ysgrythyrau cyntefig, efe a ysgrifenna gyda'r un awdurdod yn gywir a hwythau. Efe a safai mewn perthynas neulltuol â'r Datguddydd a'r Yspsyrdolydd. Efe a draddodes i'r Eglwysi yr hyn hefyd a *dderbyniodd gan yr Arglwydd* (1 Cor. xv. 3). A phan y llefarai am yr hyn nad oedd ganddo orchymyn gan yr Arglwydd am dano, gallai ddwend er hynny,—*Yr wyf yn tybio fod gennyf finnau hefyd Yspryd Duw* (1 Cor. vii. 40). Os bu erioed unrhyw ysgrifennydd yr anadlasai Duw iddo, efe yn bennaf.

11. A rydd St. Paul unrhyw gymborth tuag at ffurfio damcaniaeth?

Efe a eglura ym mhobman yr egwyddorion a osodwyd i lawr eisoes. Canfyddwn ddarfod iddo gael cyd-gymundeb neulltuol a mynych o awgrymiadau uniongyrchol, yn y rhai y mae datguddiad ac ysprydoliaeth yn un; ac y defnyddia *nid y geiriau a ddefnyddir gan ddoethineb ddynol, ond a ddysgir gan yr Yspryd Glân* (1. Cor. ii. 13), pan yn dadlenni y dirgelwch cuddiedig a *eglurodd Duw trwy yr Yspryd* (1 Cor. ii. 6, 10); a darfod iddo bob amser gadw ei wahanfodaeth mewn pwynt o feddwl, a ieithwedd, ac arddull.

12. Paham na chrybwyllir y ddawn ysprydoledig pan y dyrifir gweinidogaethau yr Yspryd? (1 Cor. xii.).

Am na pherthynai yn arbenigol i'r oruchwyliaeth Gristionogol.

13. Ond, ar y cyfan, oni pharwn i'r Beibl brofi ei ysprydoliaeth ei hun yn y mynegiad ohono?

Gwnawn, yn ddian. Ond fe gyfiawnheir ei PETITIO PRINCIPII (*cymeryd hynny yn ganiataol*), yn ddigonol gan ddylanwad yr Yspryd Sanctaidd ar bob un a wrandawo ar y llefarwyr, ac a ddarllenna yr ysgrifenywyr hyn, gyda'r dymuniad o wybod a gwneuthur ewyllys Duw. NI LEFARODD DYN FELLY, ERIOED.

§ 3. Pr Ysgrhythrau Ysprydoledig.

1. Pa enwau a roddir i'r ysgrifeniadau i ddynodi y meddylddrych o'u hysprydoli?

(1) Y cyfryw a gyfeiria atynt fel yn eneuol neu lefaredig : yn y cyffredin *oracau Duw* (Rhuf. iii. 2), y rhai gan ddarfod eu hymddiried i'r genedl henafol y rhaid y golygant yr Hen Destament; yn neulltuol, fel eu defnyddir am rannau unigol yr enwau a arferir yw yr *oracau bywiol*, neu *Air Duw* (Act. vii. 38; 2 Cor. ii. 17).

(2) Fel y maent yn ysgrifenedig, gelwir hwy yr *Ysgrhythur*, yr *Ysgrhythur lân* (2 Tim. iii. 15, 16). Hwn yw gair olaf St. Paul; ond efe a lefarasai am yr hen Gyfamod yn cael ei ddarllen, ac o hyn y cododd y gwahaniaethiad diweddar am y ddau Destament : yr un ydynt y ddau air yn y Roeg (2 Cor. iii. 14).

2. Y'mha ystyr y cymhwysir atynt y term ysprydoledig?

Fel y maent yn ysgrifenedig gan ddynion ysprydoledig; ac hefyd fel y mae ynddynt allu bywyd mewn-anadledig, a pharhaol.

3. A ddug y gair a ddefnyddir gan St. Paul y ddwy ystyr hyn?

Gallai ymddangos fod y gair Duw-a-anadlodd-i (*theopneustos*) wedi ei ddewis yn fwiadol er eu cyfuno.

4. Gan fod yr Ysgrhythrau, felly, yn ysprydoledig, pa nodwedd, o angenrheidrwydd, a argreffir arnynt o'r herwydd?

(1) Rhaid y meddant awdurdod cyflawn fel cyfrwng datguddiad Dwyfol a digonol, hynny yw ym mhob tiriogaeth.

(2) Nis gallant chwaith fod yn ddim llai na safon penodol o ffydd, ac ymarweddiad, a gobaith.

(3) Rhaid yw eu harnodi fel yn wahanol i bob llenyddiaeth arall, fel yr unig rai a gynwysant eiriau Dwyfol ac Ysgrifeniadau Dwyfol.

(4) Ac yn derfynol, gellir disgwyl i'w hysprydoliaeth gymeradwyo ei hun fel tystiolaeth yr Yspryd, yr Hwn sydd fyth yn byw, yn ymsymud ac yn bod ynddynt.

5. Gan mai am ysprydoliaeth yr Hen Destament yn unig y sonnir, a ellir cynnwys ysgrifenywyr y Testament Newydd hefyd?

Ag ysprydoliaeth yn unig yr ymwnawn ar hyn o bryd, a gwelwyd eisoes ddarod i'r Arglwydd addaw y ddawn arbennig hon i'w apostolion. Gyda golwg ar lyfrau y Testament Newydd a allant ei honni, cwestiwn yw hwnnw a berthyn i Ganon yr Ysgrythur.

§ 4. Rddolngiad Sonesiol.

1. A yw y meddylddrych o ysprydoliaeth yn gyfyngedig i'n llyfrau ysprydoledig ni?

Perthynna i luaws o grefyddau y byd lyfrau cysegredig; a chofnodir ganddynt ffydd gyffredinol yn ysprydoliaeth galluoedd uwchraddol fel y gweithreda ar feddyliau beirdd, dewiniaid, a deddf-roddwyr. Eithr nid yw y meddylddrych ysgrythyrol yn ei burdeb a'i arucheldd yn adnabyddus iddynt, ac nid oes berthynas cyd-rhyngddynt amgen na chyfatebiaeth egwan.

2. Beth ydoedd cred Iddewiaeth ar y pwngc?

Tra yn addef graddegau o ysprydoliaeth, fe ddelid gan yr Iddewon cyntefig, a'r rhai diweddarach, ddamcaniaeth uchel o ysprydoliaeth gyflawn a geiriol o'u hysgrifeniadau cysegrlân.

3. A ddelid hon gan yr Eglwys Gristionogol foreuol?

(1) Yr un yn hollol oedd y golygiad llywodraethol trwy gydol oes y tadau ag eiddo yr Iddewon, oddiwrth y rhai y derbyniasent ef.

(2) Ond gwna hedyn damcaniaeth fwy llac ei ymddangosiad; canys dyrchafasid ysprydoliaeth y proffwydi ar draul darostwng eiddo rhai llyfrau nad ysgrifenasid mo honynt gan y proffwydi; ac o radd i radd fe ddygwyd yr elfen ddynol sydd yn y Beibl i fwy-fwy o amlygrwydd.

4. Pa fodd y trafodid y pwngc yn y canol-oesoedd?

(1) Yn raddol, bu i ddwy ysprydoliaeth gyd-redol gael eu sefydlu, sef eiddo yr Ysgrythyrau ac eiddo traddodiad; * y flaenaf yn y Beibl a'r olaf yn nysgeidiaeth yr Eglwys. Bu i Gynghorfa Trent ordeinio fod y rhai'n i feddu ar awdurdod cyfartal a chyfunol.

(2) Yn y cyfamser, cododd i amlygrwydd ddwy duedd wrthgyferbyniol. Bu i nifer bychan o'r diwinyddion Athrofaol* ddwyn allan ddamcaniaeth a ymlai ar fod yn beiriannol; tra y mynnai y Cyfrinwyr Athrofaol, fel Cyfrinwyr pob oes, lyncu i fyny ddylanwad uniongyrchol yr Ysryd a ysprydolai, yn yr ymwybyddiaeth uchel o ffydd ymsonol (*contemplative faith*).

5. Beth ydoedd y safle yn amser y Diwygiad?

(1) Awdurdod yr Ysgrythyrau, yn hytrach na'u hysbrydoliaeth a reolai ar y cychwyn. Yr oedd Luther a Calfin yn llac parthed y cymysgedd o elfennau ysprydoledig ac anysprydoledig: mantolai y Ffurf-reolau Lutheraidd cydrhwng golygiad tra uchel ac un cymharol isel; yr oedd y Ffurf-reolau Calфинаidd, sef eiddo yr Eglwys Ddiwygiedig, pa fodd bynnag, yn fwy manwl yn eu damcaniaeth.

(2) Cyfyngid ysprydoliaeth gan y diwinyddion Arminaidd i faterion o ffydd; hwy a'i gwneient, mewn gwirionedd, yn un â datguddiad priodol, gan adael yr oll ag oedd weddill i gyfarwyddyd neu arolygaeth gyffredinol.

(3) Ni ddarfu i un o Ffurf-reolau y Diwygiad benderfynu ar y cwestiwn o ysprydoliaeth eiriol, neu ysprydoliaeth a hyfforddai hyd yn oed y geiriau.

6. Pa ffurf a gymerodd y cwestiwn olaf hwn mewn diwinyddiaeth?

Tra yr addefid gan y mwyafrif, yr awgrymid hyd yn oed y geiriau, ar brydiau, cododd i fyny y syniad, mai gwell, a chymeryd yr holl ffeithiau i gyfrif, fyddai ymgymeryd at ysprydoliaeth gyflawn yn hytrach nag at un eiriol, yr hon, fodd bynnag, a gynwysai luaws o wahanol raddegau.

7. Beth fu dylanwad y ddamcaniaeth o raddegau o ysprydoliaeth ar yr athrawiaeth?

Bu yn fawr yn ei holl hanes, er fod y ddamcaniaeth ei hun, fel y cymhwysiad, ohoni yn amhenodol:—

* Gwel Nodiad VIII.

62 *Y Datguddiad Cristionogol a Rheol Ffydd.*

(1) Dalai yr Iddewon hynafol wahaniaeth rhwng ysprydoliaeth Moses, yr hwn a ymddiddanai â Jehosa wyneb yn wyneb, âg eiddo y proffwydi diweddarach, ac ysgrifenywyr y rhannau defosiynol o'r Ysgrythur, ond ni ddarfu iddynt wneud unrhyw wahaniaeth yn yr effaith o hynny, megis y gwnaed gan eu digynyddion diweddarach, fel eu cynrychiolir gan Maimonides.*

(2) Y mae ysgrifenywyr Cristionogol perthynol i bob cymuned wedi mabwysiadu, i fesur mwy lai, yr un syniad: sef ysbrydoliaeth mewn ffordd o awgrymiad gogyfer a datguddiad arbennig; ysbrydoliaeth ddyrchafol fel cymwysder priodol i'r derbynwyr a'r ysgrifenywyr; ac ysprydoliaeth o arolygaeth gyffredinol gogyfer ag ad-drefniad, a golygyddiaeth megis o'r cyfan.

(3) Ond yn gymaint a bod ffrwyth holl foddau yr Yspryd o weithredu wedi ei gorphori mewn un gyfrol, amlwg yw mai Ei feddwl Ef yw nas medrir gwireddu unrhyw wahaniaethau o'r fath.

(4) Yn y cyfamser, yr Hwn a ddywedodd mai yr YSPRYD yw yr *Hwn sydd yn bywchau* (Ioan vi. 63); a dywedodd hefyd mai y *GEIRIAU a leferais i wrthyich, yspryd a bywyd ydynt* (Ioan vi. 63). Nis gellir na rhoddi na derbyn gwirionedd yn llwyr ac yn llythrennol heb eiriau.

8. Pa fodd yr ymdrinia yr Yspryd beirniadol diweddar â'r pwngc?

Ymesyd ar yr athrawiaeth mewn dwy ffordd: yng nghyntaf, trwy ganiatau ysprydoliaeth, ond cymer ymaith ei nodwedd hanfodol wahaniaethol; yn ail, trwy wadu ysprydoliaeth, ar y tir o anheilyngdod mewnol yng nghyfansoddiad yr ysgrifeniadau.

9. Y'mha fodd y gellir cyfarfod â'r ymosodiad blaenaf?

(1) Trwy apelio at yr Ysgrythur ei hun, yr hon, er nas deffinia ysprydoliaeth, a ddatgana, er hynny, yn groyw, neu hi a awgryma ei fod yn ddylanwad arbennig o eiddo yr Yspryd ar y rhai hynny a lefarasant neu a ysgrifenasant yr oraclau Dwyfol. Nis gall YSPRYDOLIAETH DUW (*Duw a anadlodd*) olygu dim llai na hyn.

(2) A hyn hefyd yw yr unig atebiad i'r anghredinnwyr hynny a fynnant ddarostwng ysprydoliaeth i'r un tir ag arddanghosiad o athrylith ddynol. Ond awgryma y dylai diffynwyr y wir

* Gwel Nodiad IX.

athrawiaeth ei wneyd yn arferiad i gyfyngu y term yn benodol i'r defnyddiad priodol ohono.

(3) Deil hefyd yn erbyn dosparth lluosog o Gristionogion a fynnant wneuthur ysprydoliaeth yn ddim amgen na goleuni arferol yr Ysryd, wedi ei ddyrchafu i ryw rym uwch a phurach.

10. O ba nodwedd yw yr wrthddadl ddiweddaf?

Haera naill ai fod cynnwys yr Ysgrythyrau yn annheilwng o ysprydoliaeth Duw, neu fod y ffurfiau y cyflwynir y cyfryw, trwy ei anghysonderau mewnol, yn tasfu anfri ar yr athrawiaeth.

11. Amlwg yw mai â'r Ysgrythur, fel rheol ffydd, y mae a wnelo y flaenaf; sut y gellir cyfarfod â'r olaf?

Trwy ddadansoddi pob gwrthddadl ar ei phen ei hun, a'i hystyried yn ofalus, yr hyn sydd ddyledswydd orffwysedig ar ddysgeidiaeth Gristionogol, ac un y pár llenyddiaeth Feiblaidd ei bod yn hawddach a buddiolach beunydd. Y mae yn bod ddiffyniad arbennig o'r Beibl.

12. Pe, er engrafft, y dywedid nas gall Cyfrol Ysprydol-edig wrthddweud Gwyddor?

Yr atebiad yw, nad yw byth yn gwrthddweud Gwyddor feddyliol nac anianol. Pan yr ymddanghosant fel pe yn gwrthdaraw, y dehongliad o'r naill neu'r llall sy'n anghywir.

13. Pe y dywedid na ddyfynnir Ysgrythur gan yr Ysgrythur, fel pe y geiriau eu hunain yn ysprydoledig?

(1) Yr atebiad yw, na chyffyrdda hynny yn unig ond â damcaniaeth eithafol o ysprydoliaeth eiriol; un a ddeil afael mor gyndyn yn y llythren a phe y geiriau mor dragwyddol a'r gwirioneddau a gyfleant.

(2) Dilys yw y gall yr Ysryd Dwyfol newid Ei eiriau Ei Hun.

(3) Diau y dyfynnir y Deg-a-thrigain weithiau gan yr Arglwydd a'i Apostolion, fel y cyfieithiad arferedig ac awdurdodedig. I awdurdod yr Hwn y rhaid i ninnau ymostwng yn ddiôs.

(4) Ond ceir llawys o ddyfyniadau a ddanghosant y fath fwriad yn y cyfnewidiad a wnaed arnynt, ag a gadarnha y wir athrawiaeth. Er engrafft, dywedodd y proffwyd,—*Arglwydd y lluoedd ei Hun a sancteiddiuch* (Esaiah viii. 13); ond dywed yr Apostol,—*Sancteiddiuch Grist megis Arglwydd yn eich calonnau* (1 Petr iii. 15).

64 Y Datguddiad Cristionogol a Rheol Ffydd.

(5) Pe yr haerem ddarfod gweled o'r Yspryd yn dda i dros-glwyddo ohono wahanol gyfieithiadau o'r unrhyw frawddegau a adawsid ar y pryd i ofal amser ac amrywiol ad-ysgrifiadau, nis gallesid dwyn y cyhuddiad o afresymoldeb yn erbyn hyd yn oed hynny.

14. Pa mor belled yr esponir yr anhawsderau hyn gan y termau diweddar* am ysprydoliaeth, megis Ysprydoliaeth Gyflawn, ac Ysprydoliaeth Allofyddol (*Dynamical*)?

Yn dra amherffaith. Y mae y ddau air yn rhai amwys, ac ni pherthyna iddynt amgen na rhith darnodiad yn hytrach na'i sylwedd. Os mai a olyga Ysprydoliaeth Gyflawn yw fod nerth yr yspryd ym mhob rhan o'r Beibl, gan gymhwyso ohono ei hun i'r testun, a diogelu drwy hynny iachusrwydd yr athrawiaeth a geirwiredd yr hanes, fe ellir ei dderbyn fel teyrnged i'r elfen Ddwyfol. Os mai yr hyn a olyga Ysprydoliaeth Allofyddol yw yr ysgogid yr ysgrifenydd yn wastadol gan yr Yspryd fel dynion a feddylent, a archwiliant, a gymharent, a dystiolaethent, ac a ymresymant, yna gellir ei derbyn fel teyrnged i'r elfen ddynol. Peth anhawdd, eithr nid peth amhosibl, yw cyfuno y termau Cyflawn a Gallofyddol.

15. Beth yw swm y cwbl?

(1) Y derbynir gan y Cristion yr hyn a elwir yn gyffredin yn Llyfrau Canonaid yr Hen Destament a'r Newydd, fel meddwl a Gair Duw, yr hyn a roddwyd trwy ei Yspryd Sanctaidd, trwy offeryniaeth dynion sanctaidd.

(2) Rhaid yw iddo feddu ar ffydd gref yn rhagluniaeth arolygol yr Yspryd dros waith Ei ddwyllaw Ei Hun: pa un bynnag ai parthed hanes anadnabyddus oesau a fu; y presennol gyda'i ymosodiadau a'i wrthddadleuon afried; neu ddyfodol anhysbys gwirionedd yn y byd.

(3) Rhaid yw iddo ddisgwyl ar i'r Yspryd hwnnw anadlu trwy yr oraclau i fewn i'w enaid, Ei brofion effeithiol Ei Hun o allu bywiol a bywyd-gyfrannol yr oraclau sanctaidd.

(4) Ac i'r graddau y bydd i'w ffydd ffurfio erddo ddamcaniaeth uchel am ysprydoliaeth yr ysgrifenydd sanctaidd y bydd ei ymhyfrydedd yntau ynddynt, a'i ymsancteiddiad trwy eu dylanwad.

Gwel Nodiad X.

PENNOD IV.

Canon yr Ysgrythur.

1. Beth a gynhwysa y mater hwn?

Cynwysa yr ymofyniad am a gyfansodda y casgliad o lyfrau sanctaidd datguddiad: sef yr Hen Destament a'r Newydd.

2. Y'mha ystyr y defnyddir y gair Canon yr Ysgrythur?

Golyga y gair Canon (Gr. *Kanon*) gwialen fesur, neu brawflath. Y llyfrau Ysgrythyrol ydynt y cyfryw y cymhwyswyd y prawf hwn atynt. Hwynthwy hefyd yw Canon, neu brawfreol Ffydd; ond yr ystyr flaenaf sydd dan ystyriaeth yn bresennol. Yr oedd y llyfrau yn ganonaidd, neu yn ganonedig cyn dyfod ohonynt yn ganon neu reol ffydd.

3. Pa berthynas sydd rhwng y Canon ag ysprydoliaeth?

Âr dylanwad Dwyfol ar yr ysgrifenwyr y mae a wnelo ysprydoliaeth; eithr penderfyniad y canon, yng nghylch nifer yr ysgrifenwyr y mae, a'u honiad i gael eu hystyried yn ysprydol-edig.

4. Ai ymholiad yw hwn o'r tu allan i'r llyfrau eu hunain?

Nid yn hollol felly. Pa safonau bynnag a gymhwyswyd atynt, o'r llyfrau y tarddasant i ddechreu, ac y mae y naill ran o'r Ysgrythur yn gynorthwy mawr i roddi awdurdod canonaidd i ran arall.

§ 1. Canon yr Hen Destament.

1. Beth a ddealla Cristionogion wrth y Canon hwn?

Testun Hebreig y Gyfraith, y Proffwydi, a'r Hagiographa, neu'r Ysgrifeniadau Sanctaidd, megis eu derbynnid ac eu cymeradwyid gan ein Harglwydd, ac megis y rhoddes Efe hwynt i'w ddisgylbion, ac i'r Eglwys ddyfodol.

2. Ai hyn yw unig sail ein derbyniad ohono?

Y mae yr amgylchiadau y cwblhawyd Canon yr Hen Destament o danynt yn dra thywyll mewn hanesiaeth. Digon

yw awdurdod ein Gwaredwr i'r sawl na fedrant efrydu y pwngc, a dyna y dystiolaeth oreu hyd yn oed i'r sawl a fedrant.

3. Oddiwrth pa beth y mae y Canon Hebreig i'w wahaniaethu?

(1) Oddiwrth ganon Alexandriaidd y Deg-a-thrigain; cyfieithiad a wnaed i'r Roeg yn y drydedd ganrif cyn Crist,—a'r hwn a gynhwysa rhai llyfrau nad ydynt yn y Canon Hebreig; ac yn (2) oddiwrth yr Apocrypha, fel y gelwir yr ychwanegiadau diweddaf hyn yn bresennol; dynoda y gair apocrypha, beth "cuddiedig," mewn ystyr ddifriol.

4. A ddarfu i'r Gwaredwr awdurdodi pob llyfr yn unigol?

Nid pob llyfr fel y cyfryw: ond darfu iddo ddyfynnu yr Ysgrhythrau megis y'i dyfynnid yn gyffredin. Fe gyfeirir at yr holl lyfrau, ag eithrio pedwar, yn y Testament Newydd, fel llyfrau sanctaidd.

5. A ddarfu iddo Ef gadarnhau awdurdod y canon fel y cyfryw, yn uniongyrchol neu anuniongyrchol?

Awgryma y tri phrif raniad,—*Cyfraith Moses, y Proffwydi, a'r Sulmau*, yr hyn a olygir wrth y Canon (Luc xxiv. 44). Ac ni ddarfu iddo Ef gyhuddo llygrwyr y dehongliad o fod wedi llygru y testun fel y cyfryw (Matth. xv. 16). Er y defnyddir y Deg-a-thrigain yn fynych, ni ddyfynnir byth yn uniongyrchol o'r llyfrau Apocryphaidd.

6. A estynnir unrhyw gynorthwy gan yr Hen Testament ei hun?

O'r cyfeiriad cyntaf at *Lyfr y Gyfraith* (Deut. xxxi. 26), ac y'mlaen, fe geir cyfeiriad at un *Lyfr yr Arghwydd* (Esai. xxxiv. 16), a wahaniaetha oddiwrth pob llenyddiaeth arall. Gwedi terfynu y caethgludau bu i derfynau hwn gael ei ddarnodi (C.C. 450—300), yn debygol, gan gynghorfa o Ysgrifenyddion.

§ 2. Canon y Testament Newydd.

1. Pa gyferbyniad sydd rhwng canon yr Hen Testament, a chanon y Newydd?

Fel yr oedd gan yr hen gyfamod ei ysgrifeniadau, felly y mae gan y newydd hefyd. Megis y dechreuasai datguddiad y gwirionedd trwy oraclau ac ysgrifeniadau, felly y gallesid disgwyl

iddo ddibennu. Megis yr oedd gan yr Eglwys Gyntefig ei ddeddf-lyfrau, ei llyfrau defosiynol, a'i llyfrau proffwydol, gallem ragdybied y byddai i'r newydd yr un peth. Mewn llawer ystyr, y Testament Newydd yw cyfatebydd yr Hen Destament.

2. A broffesa y Testament Newydd ei hun, y ffurfia ail gorff o ysgrifeniadau sanctaidd?

Na wna, yn uniongyrchol. Ceir llawys o arwyddion, er hynny, yn bron yr holl ysgrifeniadau yr ysgrifennai yr ysgrifenyddwyr yn awdurdodedig ac yn barhâol: arwyddion gyn amlyced a dim a geir yn yr Hen Destament.

3. Beth yw dylanwad hyn ar ystyr y gair Canon?

(1) Apelia yr ysgrifenyddwyr at eu credebau, gan wahodd y cymhwysiad o'r Canon, neu'r brawf-reol, atynt eu hunain.

(2) Hwyl a ysgrifennant hefyd fel dyfarnwyr, ac awdurdodau terfynol mewn materion o athrawiaeth; gan ddefnyddio ohonynt eu hysgrifeniadau fel y Canon neu y brawf-reol yng nglyn â phob peth, a hynny gydag awdurdod, oddiwrth yr hwn ni chaniatânt unrhyw apêl.

(3) Y mae y ddwy ystyr hon o'r gair Canon yn cyfeirio rhagddynt at Reol Ffydd.

§ 3. Adolngiad Sanesiol.

1. Pa fodd yr ymddygid at yr Hen Destament yn yr Eglwys Gristionogol foreuol?

Gwnai ein Harglwydd a'i Apostolion ddefnydd helaeth o'r Cyfieithiad Groeg, yr hyn a ymddangosai fel pe yr Ysgrythyrau Hebreig, fel y deml, wedi colli eu blaenoriaeth. Eithr ni ddifynnent byth yr ychwanegiadau Apocryphâaidd; ac nid heb gryn betruster y bu i'r rhai'n gael eu derbyn i'r cyfryw gofrestrau boreuol lle y crybwyllir am danynt.

2. Beth ydoedd hanes ffurfiad Canon y Testament Newydd?

Buwyd am ystod tair canrif yn darnodi ei wir derfynau, er ddarfod i'r gyfrol, ar y cyfan, megis y rhoddid iddi gennym ni yn bresennol, gael derbyniad a pharch yn yr ail ganrif. Ffynnai amheuaeth yng nghylch nifer bychan o lyfrau a dderbynnid gan rai, a pharthed rhai llyfrau a wrthodid gan ereill.

3. Pa safonau a gymhwyswyd atynt, a chan pwy?

(1) Y safonau oeddynt awduraeth neu awdurdod apostolaidd; ac o berthynas i'r Homologoumena,* yr oedd yr holl Eglwysi yn dyst-lythyrâu hanesiol drostynt, a hynny megis yn unllais.

(2) O berthynas i'r Antilegomena,* cyfododd anhawsterau sydd wedi cael eu teimlo i raddau mwy neu lai o hynny hyd yr awrhon. Y safon, yma, yn bennaf ydoedd, "Rheol gyffredin Ffydd," yn ol yr hon y penderfynid gwrthodiad graddol rhai llyfrau Apocryphâaidd; yng nghyd âg ysgrifeniadau rhai tadau apostolaidd: a bu i'r prawf hwn, yn gyfunedg â thystiolaeth Eglwysi unigol, ddiogelu derbyniad graddol yr Epistolau hynny y buwyd yn eu drwg-dybio.

4. Beth ydoedd safle cwestiwn y Canon yn amser y Diwygiad?

(1) Rhoddasai Eglwysi y Canol-oesau dderbyniad i Apocrypha yr Hen Destament: corphorwyd hwynt gan Gynghorfa Trent, a thrwy benderfyniad diweddarach o eiddo Eglwys Groeg. Derbyniwyd rhannau ohonynt gan yr Eglwys Lutheraidd, megis y gwnaed gan Eglwys Loegr, er eu darllen yn gyhoedus; ond, am na bu iddynt erioed le yn y Canon Hebreig, a chan yr hyfforddiant brawf mewnol o fod yn anysprydoledig, ac nad oes iddynt le yn hanes trefn y prynedigaeth, gwrthodwyd eu hawdurdod Canonaidd gan yr Eglwys Brotestanaidd.

(2) Gosodai Eglwysi y Diwygiad gryn bwys ar dystiolaeth fewnol yr Yspryd, yn eu penderfyniad parthed yr hyn oedd i fod yn gynwysedig yn yr Ysgrhyth Lân. Bu i'r llyfrau hynny y ffynnai amheuaeth yn eu cylch gael eu galw yn ail-ganonaidd, a gosodwyd hwy ar ddiwedd y Testament Newydd.

(3) Derbynnid y Beibl gan yr Arminiaid, megis y gwnai yr Eglwysi Diwygiedig, fel y mae gennym ni: a hynny i fesur helaeth ar egwyddor gyffredinol ac amhenodol yr Erthygl yn Eglwys Loegr, yr hon a ddatgana yn ofalus, eto yn wirioneddol a doeth, "am y cyfryw lyfrau Canonaidd o'r Hen Destament a'r Newydd, ac ni bu erioed ddim amheu yn yr Eglwys am eu hawduraeth." Nid amheuid y llyfrau amheus yn gyffredinol.

* Gwel Nodiad XI.

5. Beth ydynt y cwestiynau sydd gynhwysedig yn y ddadl ddiweddar parthed y Canon?

(1) Penderfyniad DILYSRWYDD y llyfr: sef, ei fod yr unrhyw ysgrifen ag oedd dderbyniedig o'r dechreuad, a hynny oddiwrth ei hawdwr proffesedig.

(2) Yr ymchwiliad pwyllog i AWDURDOD y tystiolaethau, neu eu teilyngdod o ymddiriedaeth fel mynegiad geirwir o'r hyn y proffesant ei drosglwyddo i ni.

(3) Dim ond y blaenaf, yn fanol felly, a berthyn i bwngc y Canon : i Reol Ffydd y perthyna yr olaf.

6. A oes unrhyw wahaniaeth gwirioneddol rhwng y y rhai'n?

Ni wneir, ond un ymfyniad, mewn gwirionedd, mewn amseroedd diweddar, parthed unrhyw ysgrifen, sef ei theilyngdod o ymddiriedaeth. Myntumir fod llawer o'r Beibl yn anheilwng o ymddiriedaeth, neu yn ffugiol; am, er engraffit, y proffesa y cyfryw rannau ddyfod ohonynt oddiwrth Moses, Esaiah, Dafydd, Ioan yr Apostol, a Simon Petr,—a'i fod yn anheilwng o ymddiriedaeth neu yn ffugiol yn ei osodiad allan o ffeithiau. Nid yw y cyfan amgen nag un cyhuddiad, yr hwn a amheua awdurdod datguddiad yn gyffredinol.

7. Pa fodd yr effeithir ar y pwngc oherwydd ansicrwydd y testun?

Rhaid yw i ni addef y ffeithiau canlynol:—(1) nas gwelodd Awdwr yr Ysgrythur yn dda i ddiogelu y llawysgrifau; (2) ddar-fod iddo Ef gyflwyno ei Lyfrau i ofal Ei Eglwys, yr hon, mewn oesau Iddewig a Christionogol a warchaeodd drostynt gyda gofal mawr; (3) fod yr Yspryd Glân Ei Hun wedi arfer arol-ygaeth neulltuol dros eu trosglwyddiad, eu cyfieithiad, a'u dehongliad; ac yn (4) fod i'r Wyddor o Feirniadaeth Feiblaidd swyddogaeth lwyddiannus mewn penderfynu parthed y llygriadau mynych, a'r amrywiadau llai mynych a geir yn y testun.

8. Ond, diau y teifl ansicrwydd parthed y testun, ryw gymaint o sarhad ar y Canon, a'i ysprydoliad?

Y mae yn bwysig i ni yma wneud rhai gwahaniaethau.

(1) Pan y cyffyrdda y cwestiwn â chyfansoddiad cyfan yr Hen Destament, ac y gwneir ymgais i osod allan nad yw Pum'

70 Y Datguddiad Cristionogol a Rheol Ffydd.

Llyfr Moses a llyfrau dilynol yr Hen Destament, megis llyfrau hyd yn oed y Proffwydi, yn ddim amgen na chynrychion oes ddiweddarach, a chofnodion o hanesiaeth ddychymybol, yna y mae yn dyfod yn fater o bwysigrwydd hanfodol. Oddigerth yr anghoelir y fath feirniadaeth a hon, rhaid yw tafu y Canon i fyny. Yr un peth y gellir ei ddweud am yr ymgais a wneir i gwtogi y Testament Newydd dilwgr i ychydig iawn o ysgrifeniadau gwreiddiol. Parthed yr ymosodiadau hyn ar y Canon, gall yr efrydydd fod yn sicr mai po bellaf yr â rhagddo yn ei efrydiaeth, mai sicraf yn y byd y bydd *y caiff wybod sicrwydd am y pethau hynny* a berthyn i'r ffydd, yn yr hon ei meithrinwyd (Luc i. 4).

(2) Perthyna i'r Canon rai pwyntiau amheus,—rhai nas effeithiant ar ysprydoliaeth, nac awdurdod canonaidd yr Ysgrythur yn gyffredinol, pwyntiau y rhaid, neu o leiaf y gellir eu gadael i farn bersonol gydwybodol yr ymofynydd.

(3) O berthynas i destun manwl y ddau Destament, nid oes ond gobaith gwan yr adferir ef, hyd nes na bydd angen mwyach am dano. Yn y cyfamser, yr ydym yn raddol, ond yn sicr ddyfod yn nes at fanlirwydd, ac nid yw yr amrywiaethau hynny a barhant i herio penderfyniad arnynt, ddim yn effeithio yn unrhyw radd ar hanfodolion y Gwirionedd.

PENNOD V.

X Canon fel Rheol Ffydd.

1. Beth a olygir wrth y cymhwysiad hwn o'r gair?

Golygir yma mai yr Ysgrythur Ganonaidd ei hun yw y Canon wrth yr hwn y mesurir ac y penderfynir gwerth pob gwybodaeth a phob llenyddiaeth Cristionogol arall.

2. Pa gylch o byngciau a gynhwysir?

Y mae gennym i ymofyn y'mha ystyr, ac o dan ba amodau y mae yr Ysgrythur yn awdurdod terfynol; ac yna i ystyried perthynas hyn â dadleuaeth hanesiol.

§ 1. Rheol y Ffydd, y Brif a'r Xig Rheol.

1. Gyda pha ryw ryddid y dylid derbyn hyn?

(1) Y Beibl yw safon yr hyn sydd i'w gredu; hyfforddydd dyledswydd; a breintlen yr addewidion Cristionogol: mewn geiriau ereill, breintlen ffydd, moesau, a rhagorfreintiau Cristionogaeth.

(2) Ond fel y cyfansodda y rhai'n yng nghyd sylwedd y Gwirionedd Cristionogol sydd i'w dderbyn, gellir symio i fyny yr oll o dan un pennawd cyffredinol, sef Rheol Ffydd.

2. Beth yw tystiolaeth yr Ysgrythur ei hun?

Ymhonna yr Ysgrythur drwyddi mai hi yw yr awdurdod terfynol. *At y gyfraith ac at y dystiolaeth!* (Esai. viii. 20). *Onid ydych chiwi GAN HYNFY yn cyfeiliorni, am nad ydych yn gwybod yr Ysgrythyrau* (Marc xii. 24). Apelia yr Ysgrythur ati ei hun yn wastad; eithr ni wna hynny byth, at ddim arall amgen nag er cadarnhad i'w geiriau ei hun.

3. Oni chyfeiria hyn oll at yr Hen Destament, a goruchwyliaeth y llythyren?

(1) Y mae yr un rheswm a hawliai safon terfynol yn yr Hen oruchwyliaeth, yn ei hawlio hefyd yn y Newydd: gan y cynhwysa y Newydd, nid yn unig y dehongliad anffaeledig o'r Hen, ond ei wirionedd newydd ei hun hefyd, a'r hwn sydd o'r pwys mwyaf.

72 Y Datguddiad Cristionogol a Rheol Ffydd.

(2) Am hynny, proffesir gan Ysgrifeniadau y Testament Newydd i roddi *meddwl Crist* (1 Cor. ii. 16), a hwnnw *wedi ei sicrhau i ni gan y rhai a glywsant* (Heb. ii. 3). Hwy a ychwanegir at yr *Ysgrhythrau ereill* (2 Petr. iii. 16).

4. Wedi'r cyfan, nid yw hyn oll amgen na'u tystiolaeth iddynt eu hunain?

Tystiolaeth yw, er hynny a gymeradwya ei hun i'n rheswm, yr hwn a eddyf pe y rhoddai Duw ddatguddiad i ddyn, y byddai i'r cyfryw lefaru yn AWDURDODEDIG, yn EGLUR, ac, yn fuan neu yn hwyr, WRTH BAWB.

§ 2. Adolygiad Sanctiof.

1. Pa wrthwynebwyr sydd gan yr Egwyddor hon i'w gwrthsefyll?

Dau ddosparth, os gadewir allan y sawl a wadant y datguddiad Dwyfol yn gyfangwbl, sef, cefnogwyr Rhesymolaeth* yn y naill eithafion, ac eiddo Traddodiad yn y llall.

2. Beth yw gwrthddadl Rhesymolaeth?

Naill ai hi a wna reswm yn sail i grefydd gyffredinol dynolaeth, ac felly, hi a wâd nad yw bosibl i ddim ond un dosparth o lyfrau cysegredig fod yn safon i honno; neu ynte, trwy gydnabod mai Cristionogaeth yw y grefydd berffaith, hi a wna reswm yr unig ddyfarnydd ar yr hyn a olyga yr Ysgrhythur neu yr hyn y rhaid iddi olygu, ac felly hi a gloddia odditan wraidd ei hawdurdod terfynol.

3. Pa fodd y cyferfydd ein Rheol Ffydd â hyn?

(1) Trwy ganiatâu i reswm ei diriogaeth ei hun, fel gweinidog ffydd; tiriogaeth a ganiatâ ddehongliad priod i'r *dyn ysprydol* (1 Cor. ii. 15). (2) Trwy ragnodi ei derfynnau: *Eithr dyn anianol nid yw yn derbyn y pethau sydd o Yspryd Duw* (1 Cor. ii. 14). (3) Trwy apelio at reswm ei hun, yr hwn a ddylai addef y rhaid fod y gwirioneddau pwysicaf mewn datguddiad a roddwyd o'r nefoedd am sylweddau ysprydol a thragywyddol ym mhell uwchlaw terfynau rheswm, pa un bynnag ai fel darganfydd-ydd neu ynte ddehonglydd.

* Gwel Nodiad XII.

4. Beth yw Traddodiad ?

Y gyfundrefn honno sydd yn derbyn yr Ysgrhythur fel rheol ffydd, ond a gymedrola hynny mewn dwy ffordd. Yng nghyntaf, trwy wneud y dehongliad ohoni yn ddibynnol ar lais anffaeledig yr Eglwys, yr hon a lefara trwy ei chynrychiolwyr ; * yn (2) trwy sefydlu awdurdod cyfochrog traddodiad llefaledig a drosglwyddwyd i lawr er dechreuad yr Eglwys.

5. Pa fodd y cyferfydd Rheol Ffydd â hyn ?

Fel yn achos Rhesymolaeth. (1) Trwy ganiatau pwysig-rydd mawr traddodiad, yn ei le ei hun, fel y trosglwydda dystiolaeth yr Eglwys am lyfrau yr Ysgrhythur, ac am y dehongliad borëol ohonynt. (2) Trwy wadu ddarvoud caniatâu yn unrhyw adeg, i draddodiad, safle gyd-raddol â'r Ysgrhythyrau Ysprydol-edig. *Gan ddysgu fel eu hathrawiaethau orchymynion dynion* (Matth. xv. 9). Y mae y frawddeg hon o eiddo ein Harglwydd yn condemnio yr hyn a dyfodd ar ol hynny i gyfundrefn fawreddog y Talmud Iddewig, gan wahardd unrhyw efelychiad Cristionogol ohono. (3) Ei gondemniad mwyaf effeithiol yw ei apeliad at ganlyniadau yr egwyddor o safon deu-blyg a geir yn hanes yr Eglwys Gyntefig : ceir yma ddigonedd o benderfyniadau, croes i Air Duw, a chroes i'w gilydd.

6. Beth yw perthynas damcaniaeth dadblygiad * â hon ?

Ychwanegiad diweddar yw y ddamcaniaeth hon at yr athrawiaeth hyn o barhâd llais awdurdodedig yn yr Eglwys ; a chymer yn ganiatâol fod y Gwirioneddau hynny, hedyn (*germ*) y rhai a geir yn yr Ysgrhythur, i ymddadblygu, trwy ewyllys Duw fel y cerdd yr oesau rhagddynt. Ond ni adawai safon anffaeledig byth i erthyglau angenrheidiol o ffydd fod mewn dim ond hedyn : y mae tybiaeth o'r fath yn groes i egwyddor Rheol.

7. Beth yw y dadblygiad diweddar o hon ?

Arfaethiad Eglwys Rhufain, 1870, trwy yr hon y penodwyd y Pab, neu Esgob Rhufain, yn ddedfrydydd anffaeledig ar bob achos a ddygir ger ei fron er cael ei farn personol arno Ex CATHEDRA—o'r Gadair, hynny yw, yn awdurdodedig.

* Cyfeiriad sydd yma at Ddamcaniaeth Ddadblygol Eglwys Rhufain. Gwel Nodiad XIII.

74 *Y Datguddiad Cristionogol a Rheol Ffydd.*

8. Pa wrthddadleuon y gellir eu dwyn yn erbyn yr egwyddor gyffredinol mai y Beibl yw unig Reol Fydd?

Nis gellir dwyn unrhyw amgen na'r cyfryw y gellir eu troi yn hytrach, i ocheliadau, megis y rhai parthed y gwahaniaethau yng Nghyffesiadau yr Eglwysi, ac afreoleidd-dra barn bersonol.

9. A beth sydd yw ddweud am y rhai'n?

(1) Mae Rheol Ffydd yn unig yw y safon wrth yr hon y dygir pob cyffes at y maen prawf.

(2) Y bodola unoliaeth Efengylaidd éang o barthed hanfodolion Cristionogaeth.

(3) Fod y dyn unigol yn gyfrifol am ei farn bersonol, ac fod ganddo addewid yr Yspryd Hyfforddiadol.

LLYFR II.

Duw.

- I. Y DRINDOD SANCTAIDD.
- II. Y PRIODOLEDDAU DWYFOL.
- III. YMDRINIAETHAU HANESIOL.

LLYFR II.

Dum.

Sŵmabau Abagarweiniol.

1. Pa beth yw Duw, yn ol Ysgrythrau Datguddiad?

Yr Unig Fod, Ffynhonnell pob bodolaeth, yr Hwn a ddatguddia Ei Hun trwy enwau, priodoledau a gweithredoedd a berthyn iddo Ef yn unig.

2. A oes unrhyw wahanaeth rhwng yr enwau a'r priodoledau?

(1) Gan nas gellir adnabod Duw ond yn unig fel y datguddia Efe Ei Hun, y mae Ei Enwau Ef mewn rhyw ystyr yn briodoledau iddo. Elohim yw Duw fel llawnder gallu; El-Shaddai yw yr Hollalluog; El-Elyon yw y Goruchaf—y Pennaf; Adonai yw yr Arglwydd fel Llywodraethydd: a Iehofah yw y Bôd Perffaith a Hunanfodol (Gen. xvii. 1; xiv. 18).

(2) Ond prif Enwau Duw fel y cyfryw yndynt Elohim, *Theos* = Duw; Iehofah, *Kurios* = Arglwydd.

(3) Y priodoledau ydynt y perffeithderau hynny pa un bynnag a'i unigol a'i lluosog, a briodolir gan Dduw iddo Ei Hun fel y gallom ni, trwyddynt, reoleiddio ein meddyliau yng nghylch Ei natur anfeidrol ac anamgyffredadwy Ef.

3. Onid yw y prawf o fodolaeth Duw yn fater rhagarweiniol?

Nac ydyw. Gellir ystyried hwnnw yn yr Adolygiad Hanesiol: ond yma RHAIID yw i ni GREDU Ei FOD Ef (Heb. xi. 6.).

4. A oes gennym i olrhain datguddiad graddol.

(1) Ni a'i cawn yn yr Enw: daw Duw a Iehofah yr Hen Destament yn Dri-Un,—y Drindod Lân Sancteiddiaf, yn y Testament Newydd. Nis adnabuesid Ef o'r blaen wrth yr Enw Hwn (Matth. xxviii. 19; Ex. vi. 3).

(2) Ni pherthyn dadblygiad i'r priodoledau, ond datguddir rhai ohonynt, er hynny mewn ffurfiau ac amlygiadau newyddion, megis cyfiawnder a chariad.

(3) Y mae y datguddiad cyflawn o enwau a phriodoledau Duw yn gysylltiedig â'r datguddiad cyflawn o'i weithredoedd mewn creadigaeth, rhagluniaeth a phrynedigaeth.

I.

Y Tri-Mn Dum.

1. Ar bath gyfrif yr ydym yn dechreu yr athrawiaeth am Dduw yn y cyfryw fodd?

Da yw i ni ddechreu lle y dibenna ein Harglwydd, yr Hwn a orchymynna ar fod i'r holl genhedloedd gael ei bedyddio I ENW y *Tad, a'r Mab, a'r Ysryd Glân* (Matth. xxviii. 19).

2. Ai dyma ynte ei ddatguddiad terfynol Ef o Dduw?

Dyma fel y mŷn ein Harglwydd ddysgu yr *holl genhedloedd*, gan berffeithio ohono bob hyforddiant, blaenorol a rhannol. Dynoda yr ymadrodd *Gan ei bedyddio i (into)* gyffesiad o'r Tri Pherson yn y Duwdod, yng nghyd a'r addoliad a'r wasanaeth a gyflwynir iddynt; a sicrheir ni y'mhellach gan yr ENW o unoliaeth y Tri Pherson hynny, neu unoliaeth hanfodol Duw.

3. Oni ddylid gohirio dirgelwch y Drindod, hyd onis efryder yr ymofyniadau yng nghylch y syniad am Dduw, a'i briodoleddau?

Duw yw dirgelwch y Trindod i ni. Ni a ddylem gario y Gwirionedd hwn at y priodoleddau a'r datguddiadau ereill fel safon yr oll; a bydd i'r canlyniad ein cyfiawnhau yn hynny o beth.

4. Y'mha fodd, gan hynny, y gallwn efrydu yr athrawiaeth?

Trwy dafu llewyrch datguddiad ein Harglwydd ar y gorffennol: trwy ei hystyried ynddi ei hun fel yr athrawiaeth derfynol am y Tri-undod Sanctaidd; a thrwy olrhain y datguddiad prunedigol ohoni trwy yr Ysgrhythrau Cristionogol dilynol.

§ 1. Y Tri-Mn Dum yn y Datguddiad Boreuacſ.

1. Y'mha ystyr y mae yn rhydd i ni geisio olrhain y gwirionedd hwn?

Trwy nodi allan ryw awgrymiadau dirgelaid yn yr Enwau Dwyfol, a'r amlygiadau, a'r addoliad, a'r proffwydoliaethau, a ddatguddiant eu hystyr yng ngoleuni dysgeidiaeth lawnach y Testament Newydd.

2. Pa rai ydynt y rhai'n yn yr Enwau Dwyfol?

Yr enw cyntaf a'r mwyaf cyffredinol yw ELOHIM, gair yn y rhif lluosog, yr hyn sydd nodwedd berthynol i ffurf Hebreig y gair. JEHOFAH yw yr Enw trwy yr hwn y Datguddiodd Duw Ei Hun i ddyn pechadurus ac adferedig: yn Genesis i ddyn fel hiliogaeth; yn Exodus, i bobl y Cyfamod Moesenaidd; ac yn y Testament Newydd fel y Tri-un Jehofah. Gorphwysai dirgelwch y Drindod, fe ddichon, yn ffurf y gair Elohim; ac yn nehongliad Dwyfol y gair Jehofah, yr hwn yw YDWYF, ac YDWYF I FOD YR HYN YDWYF I FOD (Ex. iii. 14). Hyn a ddywed Duw am dano Ei Hun, ond dedy dyn ef yn y ffurf o Yahveh, EFE SYDD, Jehofah, neu Arglwydd.

3. Pa rai ydynt yr awgrymiadau yn yr amlygiadau Dwyfol?

Yn llyfrau boreuaf y Beibl, yr oedd ymddangosiadau Duw, neu Jehofah; y Dwyf-amlygiadau (*Theophanies*), fel eu gelwid, ar brydiau, ar ffurf angelion neu ddynion. Bu i Foses ymddiddan â Jehofah WYNEB YN WYNEB (Deut. xxxiv. 10). Ymddanghosodd tri wŷr i Abraham ar wastadedd Mamre, tra mai un Arglwydd a ymddiddanodd âg ef; i un Angel yn unig, ac i un Dyn, yn unig, y rhoddir y flaenoriaeth (Gen. xviii.). Am dano Ef y dywedodd Jehofah, *Y mae Fy Enw ynddo Ef* (Ex. xxiii. 21). Angel Jehofah ydoedd a roddes yr addewid gyntaf i Abraham, gan dyngu, i MI FY HUN (Gen. xxii. 15, 16). Gydag Ef yr ymdrechodd Jacob; a dywed Hosea am y Bôd Hwn, mai Efe ydoedd ARGLWYDD (*Jehofah*) DDUW Y LLUOEDD (Hos. xii. 4, 5).

4. Pa fodd ei hamlygir yn yr addoliad cyntefig?

Yr oedd y gogoniant o'r tu fewn i'r llen, a'r canhwylbren saith-canghennog yn y deml yn aros cyfle eu dehongliad. Rhennid yr Enw hwn yn y fendith Lefiaidd, lle y gosodir FY ENW ar *feibion Israel* (Num. xvi. 27) i ffurf deirplyg. A'r fawldraeth yw *Sanct, Sanct, Sanct yw Arglwydd y lluoedd* (Esai. vi. 3).

5. A pha fodd yn ddiweddaf yn yr awgrymiadau profwydol?

Ceir llawys o'r rhai'n. Ni a ddarllennwn yn Esai. (xlvi. 16), *Yr Arglwydd Dduw a'i Yspryd a'm hanfonodd I*—sef Pryniaidwr dyfodol dyn. Ac yn Zechariah (xii. 10), fe addewir

Yspryd y Grás, gan Jehofah, i dywys y bobl i *edrych arnaf fi yr Hwn a wanasant.* Y mae y ddau gyfeiriad hyn yn engrafft o ddull o ymadroddi a awgrymodd i'r dehonglwyr Iddewig cyntefig amlinellad gwan o'n hathrawiaeth ni am y Drindod; ond yr hon ydoedd hollol anamgyffredadwy, hyd onis eglurwyd hi yng ngoleuni y Testament Newydd.

§ 2. *Y Drindod yn Ffurfi-reol y Bedydd.*

1. Beth a olygir wrth Dri-Undod yma?

Fod ein Harglwydd, y Datguddiwr terfynol, yn cyflwyno i'n ffydd fyth yr Un Enw cyntefig, ond fel Tri-yn-Un.

2. Y mae y dystiolaeth i'r Drindod ynte, yn dystiolaeth i'r Undod hefyd?

Gosodir pwyslais ar yr ymadrodd I ENW. Ar yr enw hwnnw, Iehofah, yr oedd cyffes Un-dduwaidd Iddewiaeth yn seiliedig: *Clyw O Israel, Jehofah ein Duw ni sydd un Iehofah,* neu ydyw ein hunig Dduw (Deut. vi. 4). Adwaenir yr ymadrodd hwn fel y SHEMA, neu YR ENW mewn ystyr oruchel, a'r ymadrodd hwn sydd wedi bod yn gyffes ffydd yr Iddew erioedd; ac ni ddaeth ein Harglwydd i *dorri* y gyfraith *ond i'w chyflawni* (Matth. v. 17). Un-dduwiaeth hefyd yw y gyffes Gristionogol.

3. Eglurwch y'mhellach berthynas tystiolaeth ein Harglwydd ag undod Duw.

(1) Dysgid undod y Duwdod yn yr Hen Destament mewn dwy ffordd: yng nghyntaf fel sail addoliad diwahân, ac yn ail fel gwrthdystiad yn erbyn eilun-dduwiaeth. Yng ngholeuni hyn y rhaid i ni dderbyn cyffes y bedydd (Deut. iv. 39; Esai. xlv. 8).

(2) Os yw y Tri Enw yn yr Un Enw yn wrthrych yr unrhyw addoliad, ac os erys hyn fyth yn wrthdystiad yn erbyn eilun-addoliaeth, yna rhaid ei bod yn gyfartal Ddwylol. Pe mai dim ond y creadur uchaf yn unig fuasai y Mab, a'r Yspryd y nesaf ato, neu yn ddim amgen na dylanwad personoledig, yna byddai i'n Harglwydd mewn effaith wrthddweud athrawiaeth yr Hen Destament.

4. Ond gellir dadlau trwy ddweud tra yr haera ein Harglwydd Undod Duw, na olyga y bedydd ond cydnabyddiaeth israddol i ddau berson yn nhrefn y prynedigaeth.

Rhaid yw i'r Drindod brynedigol hon fod yn seiliedig a'r Drindod yn yr hanfod perffaith. Y mae yr holl genedloedd i

gael eu tynnu oddiwrth eilunod i wasanaethu y *bywiol a'r gwir Dduw* (1 Thes. i. 9). Golyga y term I ENW i ddatguddiad terfynol Iehofah; a'r Tri phersonau, ystyr y Testament Newydd ydynt o YDWYF YR HYN FYDDWYF.

5. Beth y dysgir ni ynddo yma parthed perthynas y Tri Enw?

Y bodola rhwng y Tad a'r Mab yn dragwyddol y gyfryw berthynas a fynegir, fel hyn, yn iaith dyn; ac mai enw tarddedig o iaith dyn yw yr Ysryd hefyd, yr hwn a roddir i Berson tragwyddol. Geiriau ydynt Fab, ac Ysryd, a ddefnyddir gan Dduw Ei Hun.

6. Beth a ddysgir yn y lle cyntaf am y Tad?

Datguddir Ef fel Tad yn Ei berthynas â dynion, yn enwedig credinwyr. Ond seilir hyn ar berthynas neu lltuol â'i Fab Tra-gwyddol Ef, Ei Unig-anedig Fab (1 Petr i. 3). Nid *Tad ein Harghwydd Iesu Grist* ar gyfrif Ei Ymgawdoliad yn unig yw Efe, canys yr oedd y Mab *ym mynwes y Tad*, a danfonwyd Ef ganddo fel y cyfryw. *Nid edwyn neb y Tad ond y Mab* (Ioan i. 18; iii. 16, 17; Matth. xi. 27).

7. O dan ba amodau y defnyddir y gair Tad yn y cyffredin?

Defnyddir ef rai prydiau gyda chyfeiriad penodol at y Mab; ac weithiau saif am Dduw yn gyffredinol, fel Pen y Drindod Bryn-edigol. Ni a gawn y ddau yn nhystiolaeth derfynol St. Ioan (1 Ioan iv. 9, 10, 14). *Oblegid danfon o Dduw Ei Unig-anedig Fab i'r byd*, a thrachefn, *yr ydym yn tystiolaethu ddarfod i'r Tad ddanfon y Mab i fod yn Iachawdwr i'r byd*; a dichon hefyd yn nhystiolaeth St. Paul, *Yr Hwn sydd goruwch oll, a thrwy oll, ac yn yr oll* (Eph. iv. 6).

8. Y mae i'r Dragwyddol Fabolaeth, ynte, berthynas hanfodol âg athrawiaeth y Drindod?

Oes: ac nid oes dim yn bwysicach na gwahaniaethu rhwng y berthynas hon a'r cymhwysiaid hynny o'r term Mab a gyfeiriant at y cyflwr ymgawdoledig, *Fy Mab ydwyf Ti*; *Myfi heddyw a'th genhedlais* (Psalm ii. 7), sydd ymadrodd a gymhwysir yn y Testament Newydd at amlygiad cyflawn y Mab fel Cyfryngwr; ond dysga St. Paul fod y Mab fel y cyfryw yn *ddelw y Duw*

G

amweledig, y cyntafanedig cyn pob creadur; Yr Hwn sydd cyn pob peth (Act. xiii. 33; Heb. i. 5; Col. i. 15—17).

9. Pa dermau ereill a ddatganant Dduwdod yr all Berson?

Gelwir Ef y LOGOS, neu y GA'R, y Datguddiwr tragwyddol, yr Hwn ei Hun sy' DDUW (Ioan i. 1). Mynegir ei berthynas â'r Tad fel un a fuasai yn flaenorol i'r ymgawdoliad *yn ffurf Duw, yn ddisgleirdeb ei ogoniant Ef, a Gwir Lun Ei sylwedd* Ef (Phil. ii. 6; Heb. i. 3).

10. Beth yw perthynas benodol y Trydydd Person?

Rhoddir Tri Enw arbennig i'r Yspryd gan y Datguddiwr Mawr. Dynoda dau ohonynt, sef y *Diddanydd* ac *Yspryd y Gwirionedd*, Ei berthynas â ni (Ioan xv. 26): dynoda y trydedd *Yr Hwn sydd yn deilliaw oddiwrth y Tad* Ei berthynas dragwyddol â Duw ac yn Nuw. Yn y gyfryw berthynas Ei Enw yn wastad yw YR YSPRYD, neu YR YSPRYD GLÂN, YSPRYD DUW.

11. Beth yw y prawf Ysgrythyrol o hyn?

Y mae y ddau bwynt o Bersonoliaeth a Dwysfoldeb yr Yspryd yn cydfyned â'u gilydd.

(1). Yr unrhyw yw Duw ac Yspryd Duw trwy gydol y Beibl. Gan nad pwy yw yr Yspryd nid oes dim gwahaniaeth rhyngddo a Duw. Tŷn St. Paul gyfatebiaeth rhwng yr Yspryd Dwysfol ac *Yspryd dyn yr hun sydd ynddo ef* (1 Cor. ii. 11).

(2) Y mae personoliaeth wahaniaethol yr Yspryd y'mhlith datguddiadau ein Harglwydd, yr Hwn a atoda mewn modd arbennig Ei dystiolaeth i'r ddeilliadaeth dragwyddol trwy yr ymadroddion hyn *Yr Hwn a anfonaf Fi i chwï, a thrachefn Efe a dystiolaetha* (Ioan xv. 26). Yn gyffelyb y cyfunir y ddwy gan rediad cyffredinol yr Ysgrythur: y mae y ddeilliadaeth dragwyddol a'r weinidogaeth dymhorol wedi eu cyfuno bron yn un (Gal. iv. 6).

12. Pa resymau ereill a brofant y Drindod Sanctaidd?

Y priodoleddau a gyfrifir i'r Ddau Berson: ac iddynt Hwyl yn wir yn benodol, fel y ceir gweled eto. Gan nad beth a ddywedir yn erbyn Dwysfoldeb yr Enwau Mab ac Yspryd, fel eu defnyddir weithiau mewn ystyr gyfyngach, y mae cyfrif unrhyw briodoledd Ddwyfol i'r naill neu'r llall yn brawf digonol: I Dduw yn unig y dichon perffeithderau Dwysfol berthyn.

13. Sut y medrwn symio i fyny ar y pwngc hwn?

(1) Rhaid yw cofio mai y prif ddatguddiad i Ffydd yw dirgelwch y Drindod, yr hwn, mewn ystyr, a gynhwysa bob dirgelwch arall.

(2) Rhoddir y termau Cenhedledig am y Mab a Deilliedig am yr Yspryd gan ein Harglwydd i osod allan israddoldeb tragwyddol yn y Duwdod, yr hwn, er hynny, na olyga unrhyw israddoldeb mewn hanfod yn y Ddau Berson.

(3) Mai yr israddoldeb hwn yn y Drindod hanfodol yw sail ddirgeledig y Drindod Brynedigol neu Drefnidol.

§ 3. Y Drindod yn er Hysgrifysrau Diweddaracß.

1. A yw y Datguddiad o'r Drindod Sanctaidd a roddwyd gan ein Harglwydd yn llywodraethu yr athrawiaeth ddiweddarach am Dduw?

Fe erys undeb hanfodol y Duwdod fyth fel y meddylddrych mawr llywodraethol, gan drefnu o hono yr eiriadaeth. Ond ymddengys y Drindod yn barhaus yn ei pherthynas a'r gwaith prynedigol yn ol fel ein darparwyd gan ein Harglwydd i ddisgwyl y byddai.

2. Y'mha fodd y darfu iddo Ef ein darparu felly?

Drwy y mynegiadau athrawiaethol arbennig hynny a draddodes Efe yn ystafell y Pasg, y rhai oeddynt, yn wir, ei dystiolaeth derfynol Ef i'r Drindod, a'r rhai hefyd a flaenorent ac a eglurent rhagllaw ffurf-reol y bedydd. Efe a lefarai ynddynt am dano Ei Hun fel ar yr un pryd yn ddatguddiad a'r Tad ac hefyd yn israddol iddo, trwy yr ymgawdoliad; a llefara am yr Yspryd yr Hwn tra y deillia oddiwrth y Tad, a ddanfonid ar yr un pryd gan y Mab ymgawdoledig (Ioan xiv. 19, 28; xv. 26).

3. Onid yw yr hanes boreuol am ledaeniad yr Efengyl yn llyfr yr Actau, yn siomi ein disgwyliadau yng nghylch y Drindod?

(1) Rhaid yw i ni gofio mai undeb hanfodol Duw a bregethid fel y prif wirionedd, ac fel y sylfaen anhepgorol, wrth efengyleiddio yr Iddewon a'r Cenhedloedd.

(2) Y golygai *bedyddio i Enw yr Arghwydd Iesu* (Act. xix. 5) yn unig, fedydd ein Harglwydd fel y gwahaniaetha oddiwrth bob bedydd arall: ni olyga na ddefnyddid Enw y Tri-Un-Duw. Y'mhellach, dilynid bedydd â hyfforddiant llawnach.

(3) Y cynhwysa hanes lledaeniad yr Efengyl doraeth o ddefnyddiau ar gyfer yr athrawiaeth Dri-Undodaidd.

4. Y'mha fodd y medrir dangos hyn?

Medrir gwneud hynny mewn modd arbennig trwy gyfuno y Tri Pherson yn yr hyfforddiant a roddir i'r Eglwysi.

5. A pha sut y canfyddir y cyfuniad hwn?

Ni a ganfyddwn y'mhob man y Tri Enw, sef eiddo y Tad, a'r Mab, a'r Yspryd Glân yn gydrwymedig a'r trefniant prynedigol, a hynny mewn modd ag sydd yn gwbl anesponiadwy, ond ar y tir o'u cydraddoldeb Dwyfol.

6. A ellir dosparthu yr ymadroddion hyn?

Byddai eu dosparthu yn efrydiaeth eang a buddiol. Cymerer y tair engraifft a ganlyn fel cynllun:—

(1) Yng ngweinidogaeth gras. *Trwyddo Ef y mae i ni ein dau ddyfodfa mewn un Yspryd at y Tad* (Eph. ii. 18). Yn yr amrywiaeth doniau, y gweinidogaethau, a'r gweithrediadau, fe geir yr un *Arghwydd, yr un Yspryd, a'r un Duw* (1 Cor. xii. 4, 5, 6).

(2) Yn nhrefniant mewnol crefydd fe weddiir ar y Tad am *ymgadarnhad mewn nerth trwy Ei Yspryd Ef, yn y dyn oddi-mewn; fel y trigo Crist yn eich calonnau chwi trwy ffydd, a hynny, fel y'ch cyflawner & holl gyflawnder Duw* (Eph. iii. 14—19).

(3) Fe geir tystiolaethau digonol pellach yn addoliad yr Eglwys, yn y Fendith Apostolaidd, mewn galw ar Enw ein Harglwydd Iesu Grist, mewn gweddio *yn yr Yspryd Glân* ac mewn priodoli gogoniant i Grist. Yn y byd arall, daw galwadau gras oddiwrth y Tri Pherson, a chyflwynir y gogoniant uchaf i Iesu fel Gwaredwr dynolryw (2 Cor. xiii. 14; 1 Cor. i. 2; Judas 20; 2 Tim. iv. 18; Dat. i. 4, 5, 6).

7. Parthed y pwynt diweddfaf hwn, onid oes ddiffyg amlwg mewn addoliad cyflwynedig i'r Drindod mewn Undod?

Rhaid yw cofio yn (1) mai addoli Duw yw addoli y Drindod; ac yn (2) fod y ddau Berson yn israddol yn nhrefn y prynedig-aeth, y Naill fel Cyfryngwr, a'r Llall fel Ysprydolydd addoliad; ac yn (3) y parhâ yr israddoliaeth honno hyd oni fyddo Duw yn OLL YN OLL (1 Cor. xv. 28).

II.

Priodoleddau Dum.

1. Beth yw y gwahaniaeth rhwng yr Enwau a'r priodoleddau Dwyfol?

Dynoda pob un o Enwau Duw Ei holl fodaeth, ond dynoda y priodoleddau amrywiol agweddau y cymeriad Dwyfol, ac nid oes cymaint ag un o honynt yn anibynnol ar y lleill.

2. Y'mha fodd y llefara datguddiad am danynt?

Trwy ddatganiad (1) megis oddiwrth Dduw Ei Hun o'r hyn ydyw yn Ei Hunan-berffeithrwydd; (2) Yr hyn nad yw, neu nacâu amherffeithrwydd iddo; ac yn (3) y perthyna iddo yr ansoddau hynny a rydd gyfrif am hyn oll. Yn y cyfryw fodd y dilynai yr hen ddiwinyddion yr Ysgrhythur pan y sonient am gyrraedd syniadau addas am y priodoleddau Dwyfol trwy y tair ffordd a alwent yn VIA EMINENTIÆ, VIA NEGATIONIS a VIA CAUSALITATIS,* hynny yw,—trwy Oruchafiaeth, trwy Negyddiaeth a thrwy Achosiaeth.

3. Y'mha ystyr y mae y termau priodoleddau perffeithderau, gogoniant, a chyneddfau i'w defnyddio am Dduw?

Y gogoniant—nid gogoniannau—ydyw yr amlygiad o'r Natur Ddwylol i lygad corfforol neu ysprydol Ei creaduriaid. Dynoda cyneddf† neu briodoraeth yr hyn a berthyn i Dduw pan ei golygir fel Person, neu fel Personolaeth deir-plŷg. Pan y defnyddir y gair perffeithderau, yr hyn a olygwn yw y cyd-gasgliad hwnnw o briodoleddau, pob un o'r rhai, fel y mae yn berffaith, sydd hefyd yn berffeithder. Ond y term cyfaddasaf yw priodoleddau, gan yr osgöa y meddylldrych o wahaniaethiad yn y natur Ddwylol, a golyga yn unig yr hyn a ganiata Duw i ni ei briodoli idd Ei Hanfod Anamgyffredadwy.

4. A oes yna unrhyw ddosparthiad o'r priodoleddau yn yr Ysgrhythur?

Ffe geir yno amlygiadau cyson o hynny. Er engraifft, lleferir weithiau am Dduw fel yn anibynnol ar fodolaeth grëedig, a'r priodoleddau, y syniad negyddol (*negative*) ydynt am derfynau mater ac amser a lle: yn fynychaf, y cyfryw ydynt y priodoleddau fel yr hawlant y bydysawd er eu bodolaeth; a mynychaf

* Gwel Nodiad XIV.

† Gwel Nodiad XV.

oll y cyfryw ydynt fel y cysylltant Ef â bodau moesol, ac â dyn yn arbennig. Rhaid yw i ninnau ddilyn y trefniant Ysgrythyrol hwn, gan roddi y flaenoriaeth iddo ar unrhyw ddosparthiad arall megis naturiol a moesol, cyfranogol ac anghyfranogol, a'r cyffelyb.

§ 1. Y Priodoleddau Amherthynasol.

1. Beth yw grym y gair amherthynasol?

Golyga mai urddas y meddwl dynol yw ei fod yn alluog, i feddwl o leiaf am Dduw fel yr Unig Fôd. Ond rhaid i bob gair, neu yn agos bob term a ddefnyddir gennym, i fynegu y cyfryw syniad fod yn perthyn i'r creadur, gan ddim ond ymddangos ohono yn unig i wadu yr hyn sydd derfynol.

2. Pa gymedroliad sydd angenrheidiol yma?

Dylid cofio fod yr unrhyw ddatguddiad a lefara am Dduw fel y mae ynddo Ei Hun, yn anamodol* (*absolute*) neu hollol, neu uwchlaw perthynas â phethau allanol, yn llefaru am dano hefyd fel yn meddu ar berthynasau mewnol. Ond, cyneddffau (*properties*) mewnol yr hanfod Dwyfol,—ei undod, a'i hanfodau personol (*subsistences*) tri-unol, nid priodoleddau mo honynt. Yr unig eithriad debygol yw cariad; ond gelwir cariad yn wir natur Duw; *Duw, Cariad yw*, ac eto, *Cariad o (ek) Dduw y mae* (1 Ioan iv. 8, 7).

3. Pa rai ynte ydynt y priodoleddau hanfodol?

Dwy ydynt: a'r naill a'r llall ohonynt yn llywodraethu dosparth, sef ysprydolrwydd, ac anfeidroldeb, Duw yw yr Yspryd Anfeidrol.

4. Beth yw perthynas y rhai hyn?

Gyda eu gilydd, hwy a ddynodant mewn iaith ddynol ein syniad ni am hanfod sydd anirnadwy. Yspryd anfeidrol yw Duw. Y mae y cyntaf yn gadarnhâol: yr ydym ni yn credu mai YSPRYD YW DUW. Y mae yr olaf yn negyddol: yr ydym ni credu ei fod yn ANFEIDROL; Bôd, nad oes iddo yr un tertyn dichonadwy neu ddirnadwy.

5. Pa fodd y dysgir ysprydolrwydd Duw?

Fe'u dysgir yn yr Hen Destament fel yn gyferbyniol i faterolrwydd. Datguddiad newydd ein Harglwydd yw mai *Yspryd yw Duw* (Ioan iv. 24). Ei unig ddarnodiad.

* Gwel Nodiad XVI.

6. Pa briodoleddau a ddibynnant ar hyn?

(1) Personoliaeth :—Yspryd yw Duw, yr Hwn y rhaid i ni ei addoli mewn yspryd, *fel Tad* (Ioan iv. 23); a *Thad yr ysprydoedd* yw Efe (Heb. xii. 9). (2) Anghyfnawidiolrwydd neu symledd natur: *Gan yr hwn yn unig y mae anfarwoldeb* (1 Tim. vi. 16). Ond yma nid yw y term NATUR mor briodol a Hanfod.

7. Pa fodd y dysgir anfeidroldeb Duw?

Dysgir ef yn yr Ysgrhythur mewn perthynas, neu yn hytrach allan o berthynas â lle, fel anherfynolrwydd: *Wele y nefoedd, a nefoedd y nefoedd ni allant dy amgyffred* (2 Chron. vi. 18); ac mewn perthynas, neu yn hytrach allan o berthynas âg amser,—tragwyddolrwydd. Efe yw yr *Arghwydd Dduw tragwyddol*, neu *Dduw tragwyddoldeb* (Gen. xxi. 23). Oddiyma y tardd hunanddigonedd yr Hanfod Dwyfol, fel y mae yn anibynnol; *Myfi yw y Cyntaf, Diweddasf ydwyf Fi hefyd; ac nid oes Dduw ond Myfi* (Esai xlii 6). Y mae Ei fodolaeth, gan hynny, yn un o angenrheidrwydd. Ac oddiwrth hyn oll y dilyna yr Undod Dwyfol, fel priodoledd: nis gall fod ond un Bôd o'r fath.

8. Ai meddylddrych negyddol yn unig, ynte, yw anfeidroldeb Duw?

Y mae i'r gair anfeidrol ffurf negyddol, ond yn y meddwl dynol anfeidroldeb yw ei feddylddrych cadarnhâol uchaf, ni a fesurwn y terfynol wrtho ef, ac nid efe wrth y terfynol. *Efe a osododd dragwyddoldeb yn eu calonnau hwy* (Preg. iii. 11): hwn yw y dirgelwch dyfnaf yn ein natur.

9. A roddir y priodoleddau hyn i'r Drindod?

Y Mab yw yr *Arghwydd, yr Yspryd* (2 Cor. iii. 18). *Yr Hwn, trwy yr Yspryd Tragwyddol, a'i hoffrymodd Ei Hun* (Heb. ix. 14). Datguddir y Trydydd Person yn enwedig wrth yr Enw hwn. Ac am y Mab y dywedir mai gwaith Ei ddwyllaw Ef yw pob peth o'r tu allan i'r hanfod Dwyfol: *Hwy a newidir: ond Tydi yr un ydwyf* (Heb. i. 12). Hunanddigonedd Duw, eiddo y Tri Pherson yw, mewn cymundeb tragwyddol: a chanddynt ynddynt Eu Hunain y dichonoldeb ar i'r bydysawd crëedig a'r priodoleddau HANFODOL i ddyfod yn briodoleddau PERTHYNASOL.

10. Beth yw swm y cwbl ar y pwngc hwn?

Fod y priodoleddau hyn yn anolrheinadwy; mai ein anrhydedd uchaf ni yw eu hadlewyrchu yn y cyfryw fodd yn ein natur derfynol fel ag i fod yn alluog o'u dirnad, er nas gallwn eu

hamgyffred hwy; mai y rhai'n ydynt sail dragwyddol yr holl briodoleddau ereill; ac y mynega yr oll ohonynt, yng nghyd, ac ar wahan, hanfod y Duwdod yn hytrach na'i wahanol berffeithderau.

§ 2. Y Priodoleddau Berthynol i'r Creadur.

1. Beth a olygir wrth yr ymadrodd hwn?

Y priodolir lluwys o ansoddau i Ddw, nad oes ystyr iddynt ond fel y daliant berthynas â bodaeth grëedig.

2. Beth yw eu perthynas â'r priodoleddau hanfodol?

Ceir gweled fod pob un ohonynt yn seiliedig ar briodoledd hanfodol, o dan gyfyngiad dwyfol-apwyntiedig, eu bod yn sylweddol ac nid ffugrol, i amser a phethau.

3. Beth yr amcenir ato trwy y fath wahaniaethiad?

Y pwysigrwydd o gofio, y rhaid i ni y'mhob ymdriniaeth, gadw y ddau ddosparth yma ar wahan tra heb ddeall pa fodd y gall hynny fod. Er engraifft, i'r Un Tragwyddol, fel y mae uwchlaw amser, y mae yr oll yn un PRESENNOL digyfnawid; ond gwedi creu ohono amser, fe berthyna i'w hollwybodaeth, orffennol a phresennol, a dyfodol gwirioneddol mewn amser.

4. Pa rai ydynt y priodoleddau hyn?

Y rhai a ganlyn, yn ol trefn dyn o feddwl, sef Rhyddid, Hollalluogrwydd, Hollbresenoldeb, Doethineb, a Daioni: yr oll ohonynt, o angenrheidrwydd, yn rhagdybio cylch creadigol.

5. A ydym ni yma yn cau allan yr hyn a elwir y priodoleddau moesol?

Tardda yr rhai'n mewn gwirionedd o'r cyntaf a'r olaf, sef rhyddid a daioni. Ond yma, cyfyngir ni at y creadur fel y cyfryw, mewn ystyr gyffredinol. Cyfeiria y priodoleddau moesol at ran yn unig, y rhan oreu o'r creadur; a rhaid eu cadw yn ol am y presennol.

6. Beth yw rhyddid fel un o briodoleddau Ddw?

Golyga rhyddid ewyllys gweithredydd personol ymwybodol o fod yn hunan-gynrychyd ei weithred. Nid oes ond Ddw yn unig yn weithredydd personol perffaith: y mae dechreuad gweithred bôd crëedig yn beth gwirioneddol (*real*), ond mai tarddiadol, dibynol, a chyfrifol yw.

7. Beth yw pwysigrwydd y briodoledd hon mewn diwinyddiaeth?

Hi sy'n blaenori mewn creadigaeth, fel ewyllys y Tri-yn-Un; hi sy'n gwrthbrofi Olldduwiaeth: hi sy'n cyhoeddi yr arfaeth brynedigol, ac yn rheoli llywodraethiad y byd moesol. Y mae yn arfaethol ac yn ddiamodol hefyd. Neu, os mai goddefiadol yw y mae felly mewn cysondeb â phriodoleddau ereill, megis daioni, er nas cyfyngir arni ganddynt.

8. Beth yw perthynas hollalluogrwydd â hon?

Mynegir ef fel y canlyn: *Efe a wnaeth yr hyn a fynnodd oll* (Ps. cxv. 3); ond nid yr oll a all Efe ei wneuthur yw ewyllys Duw i'w wneuthur (Jer. xxxii. 17). Priodolir Hollalluogrwydd i'r *Viâ Causalitatis*—i'r Achosyddiaeth Oruchel; hi a ddry gyfrif, yn syml, am yr oll y sydd. O ba herwydd y mae hi yn argraffedig ar ein meddwl, yn ein syniad am achosiaeth;—y mae i bob peth ei achos, a'r ACHOS CYNTAF yw ewyllys Duw fel ei gweinyddir gan Hollalluogrwydd; y briodoledd sydd yn gwasanaethu i'w ewyllys Ef. Am hynny, ac y'mhellach, rhaid yw i bob anhawster a ddichon godi yma gael ei gario yn uwch; sef at y hyn a alwn yn fwriad yn Nuw, fel y mae Efe yn Drindod Sanct-aidd.

9. Pa fodd yr ymdrinia yr Ysgrythur â'r Hollbresen-oldeb Dwyfol?

Y mae Duw yn bresennol yn Ei holl Ddwyloldeb y'mhob man, *Onid ydwyf Fi yn llenwi y nefoedd a'r ddaear?* (Jer. xxiii. 34). Ond gwell f'ai dweud fod pob peth yn bresennol i Dduw. *Ynddo Ef yr ydym ni yn byw, yn symud ac yn bod* (Act. xvii. 28).

10. Pa berthynas sydd rhwng ei Hollwybodaeth â hon?

(1) Presenoldeb cyffredinol Duw yw Ei wybodaeth gyffredinol, yn hanfodol felly; *Y mae pob peth yn agored i'w lygaid Ef* (Heb. iv. 13). (2) Y mae Duw tragwyddoldeb trwy ddyfod yn Dduw mewn amser yn gwybod y gorffennol a'r dyfodol, fel y cyfryw: perthyna côf, sylwadaeth, a rhagwybodaeth i'r Hwn sydd *a'i ddeall yn ancirif*, neu uwchlaw cyfrif (Ps. cxlvii. 5). (3) Yr agwedd fwyaf ddifrifol ar y briodoledd hon yw y rhagwybodaeth sydd yn gyfrodeddig â'r hyn a cilw dyn yn ddamweiniol neu ddigwyddiadol.

11. Beth yw Doethineb, fel un o Briodoleddau Duw ?

Fel'i priodolir gan Dduw iddo'i Hun fel yr ymarferiad o'i ddealltwriaeth anfeidrol mewn iawnddefnyddiad moddion er cyrraedd Ei amcanion yn y greadigaeth, yn anianol ac yn ysprydol.

12. A pha beth yw Daioni ?

Y drugaredd sydd yn ewyllysio daioni y creadur fel y cyfryw: *O drugaredd yr Arglwydd, y mae y ddaciar yn gyflawn* (Ps. xxxiii. 5). Y mae iddo luaws o enwau a ddynodant y cared-igrwydd sydd wasgaredig *dros Ei holl weithredoedd* (Ps. cxlv. 9). Gellid tybio fod bodolaeth drygioni yn anghydweddol â hyn. Ond heb reswm; canys *y mae trugaredd Duw yn parhau yn wastadol* (Ps. lii. 1) mewn ymdrech yn erbyn pechod a'i ganlyniadau. Y mae dechreuad drygioni yn seliedig oddiwrthym ni.

13. A gyfrifir yr holl briodoleddau hyn i'r Tri Person ?

Yn yr Hen Destament, cynrychiola y Gair neu Ddoethineb Duw a'i Yspryd yr holl briodoleddau Dwysol yn y cyd-fyd crëedig. Yn y Testament Newydd, Crist ydyw *gallu Duw a doethineb Duw* (1 Cor. i. 24); tra y mae *yr Yspryd yn chwilio pob peth, ie, dyfnion bethau Duw hefyd* (1 Cor. ii. 10). Ond fe ystyrir y Mab a'r Yspryd, y ddau fel eu gilydd, yn y trefniant creadigol a'r un prynedigol yn hytrach fel y gweithredyddion yr ymarferir y priodoleddau trwyddynt. Er hynny nis amlygir hwy yn y Mab yn ei gyflwr darostyngol y'mhellach nag y maent yn alluog o amlygiad mewn natur ddynol. Er y medda Efe, fel y mae yn Ddwysol, ar holl berffeithderau Duwdod, eto fe gyfyngir ar Ei hollalluogrwydd, Ei hollbresenoldeb, a'i hollwybodaeth gan glych Ei waith ymgawdoledig.

§ 3. **X** Priodoleddau Moesol: neu Briodoleddau perthynol i'r Greadur Moesol.

1. Ar ba egwyddor y gwahaniaethir y rhai'n ?

Fel yr oedd Duw yn cyfyngu arno Ei Hun yn ei berthynas â'r greadigaeth, wrth ei chreu, felly hefyd, fel Creawdwr bodau moesol a rhydd, Efe a gymhwysa ato Ei Hun briodoleddau moesol perthynol i'r berthynas honno.

2. Onid yw egwyddorion moesol yn Nuw yn dragwyddol?

Yr un, wrth gwrs, yw y Duw sydd yn anibynnol ac heb un creadur, a'r Duw sydd yn creu ac yn llywodraethu y byd. Eithr oni bydd i ni dybio bodau crëedig, nis gallwn ychwaith dybio na sancteiddrwydd, na chyfiawnder, na grâs, na thrugaredd, neu wirionedd yn Nuw.

3. Onid ymddengys yr awgrymir drwy hyn mai Duw a greodd foesolrwydd?

A diau mai gwir yw hynny, nid oes creadur yn bod heb rwymedigaeth, na rhwymedigaeth heb creadur. Am yr Un Tragwyddol nis gellir dweud ei fod Ef na rhwymedig na chyfrifol.

4. Onid yw Duw yn dragwyddol sanctaidd a chyfiawn, a chywir a da?

Gan mai ymneulluad oddiwrth ddrygoni sydd mewn bod neu yn ddichonadwy yw sancteiddrwydd, gan y tybia cyfiawnder ddeddf weinyddiedig, gan y golygya y gwirionedd rwymedigaeth a chyfrifoldeb, a chan y gwerthfawrogir daioni naill ai er ei fwyn ei hun, neu fel ei derbynnir gan y creadur, dynoda yr oll ohonynt ddealltwriaethau crëedig.

5. Y'mhla le y medrwn dd'od o hyd i'r ddolen-gydiol cyd-rhwng yr hanfod tragwyddol ac egwyddorion moesol perthynas Duw â'i creadur?

Mewn cariad, yr hwn yw cynneddf dragwyddol y Tri-Un-Duw, yng nghyd-gymundeb y Tad, a'r Mab, a'r Yspryd Glân: yr hyn yw sail fewnol derfynol yr oll sydd allanol.

6. Ai cariad, ynte, yw swm priodoleddau moesol Duw?

Felly y byddai, pe pob creadur yn dda o angenrheidrwydd; ond y mae rhyddid y creadur yn ei gyflwr prawf yn gwneud drygioni yn beth posibl; o'r hyn y cyfyd priodoleddau ereill yn Nuw.

7. Pa briodoleddau ereill?

Yr oll o'r rheini a warchodant yn erbyn drygioni, a sancteiddrwydd ar y blaen: yn cyfateb i gariad, yr hwn yw pen y priodoleddau cyfranogol.

8. Y mae cariad, a sancteiddrwydd ynte, yn eu rhannu i gyd?

Ydynt, eithr nid ar wahân. Un yw Duw; ac un yw ei briodoleddau ynddo Ef, a cheir y bydd y cyfuniad o gariad a sancteiddrwydd o gryn bwysigrwydd trwy holl gwrs diwinyddiaeth.

Sancteiddrwydd a'r Briodoleddau Diffynnol.

1. Pa fodd yr ymdrinir â Sancteiddrwydd Duw yn yr Ysgrhythur?

Mewn dwy ffordd. (1) Fel y briodoledd sydd yn dynodi neulltuaeth Duw oddiwrth bob drwg; (2) a'r perfeithrwydd hwnnw yn y cymundeb Dwyfol y gelwir ar ddyn i ymgyraedd ato.

2. Onid yw y rhai'n yn wrth-ddywediad?

(1) Yn achos yr rhai ni chwympasant, fe edrychir ar sancteiddrwydd Duw fel neulltuad oddiwrth ddrygioni dichonadwy.

(2) Y mae y rhai syrthiedig yn ysgaredig oddiwrth Dduw trwy bechod, am byth. Ni wnai Ei sancteiddrwydd Ef yn unig, eu galw hwy byth; eithr nid yw yn unig.

3. Pa fodd ynte y mae pechaduriaid yn gydgyfranogion o'i Sancteiddrwydd Ef?

Trwy gyfryngiad yr Iawn yn unig. *Chwi a fyddwch sanctaidd, canys sanctaidd ydyw fi* yw yr hyn a ddywedir wrth y sawl a burasant eu heneidiau yn y ffordd a ordeiniwyd gan Dduw (1 Petr i. 16, 22). Y mae yr Iawn ar unwaith yn amddifyniad i'r sancteiddrwydd Dwyfol, ac yn adferiad o hono i ddyn.

4. Beth yw perthynas cyfiawnder Duw â hyn?

Yr hyn yw sancteiddrwydd i'r Natur Ddwylol yw cyfiawnder i'r Llywodraeth Ddwylol:—

(1) Cyfiawnder llywodraethol Duw yw a sicrhâ berffeithrwydd Ei ddeddfau, a'u gweinyddiad.

(2) Cyfiawnder barnol Duw yw y briodoledd a sicrhâ berffaith gyfiawnder yng ngweinyddiad gwobr a chosp.

5 A ydyw yn gyson â uwchafiaeth cariad Duw ac â mawrhydi Ei Enw y priodolir iddo gyfiawnder gweinyddol a chospol?

(1) Mawrhydi ydyw y briodoledd a esyd Duw uwchben y byd crëedig; ac nis gall dim a duedda tuag at Ei ogoniant Ef fod yn anghyson â'i amrywiol berffeithderau.

(2) Cariad yw y pennaf y'mhlith, nid uwchlaw, perffeithderau moesol y natur Ddwyfol.

(3) Ond yn ddiweddfaf, y mae gogoniant y Llywodraethwr Moesol, a daioni y deiliaid yn hawlio a'r fod i gyfiawnder, yn Nuw, gael ei lawn gymeriad a'i ddefiniad naturiol.

6. Y'mha fodd ei difuddir o hynny?

Trwy ddamcaniaethau am gyfiawnder, a'i gwna yn ddim amgen na chydymffurfiad Duw â'i drefn sefydledig Ei Hun, beth bynnag y dichon honno fod; yr hyn a'i gwna yn gyfystyrol â daioni.

7. Beth yw ei diffyniad?

(1) Ni wna y dybiaeth dderbyniedig hon am gyfiawnder gyd-ymwedu â lluwys o ymadroddion Ysgrythyrol, yn enwedig yr ymadrodd hwnnw am *gyfiawn farn Duw, yr Hwn a dâl i bob un yn ol ei weithredoedd* (Rhuf. ii. 5, 6).

(2) Ceir priodoleddau ereill, ac enwau priodoleddau a ddatganant y syniad mwy cymedrol hwn o gyfiawnder.

8. Pa rai ydynt?

Gwirionedd a Ffyddlondeb: y mae Duw yn gywir yn Ei ddatguddiadau, ac yn ffyddlon yn Ei addewidion a'i fygythion, er na roddir y fath amlygrwydd i'r olaf ag a wneir i'r blaenaf.

Gariad a'r Priodoleddau Acŷubol.

1. Pa fodd yr ymdrinnir â'r cariad Dwyfol tuag at fodau moesol?

Mewn dwy ffordd:—(1) fel y briodoledd sydd yn darparu iechydwrïaeth; a'r hon (2) a weinydda yr iechydwrïaeth honno dan luaws o enwau.

2. Ai cariad yn Nuw yn bennaf, sy'n darparu ac yn gweinyddu iechydwrïaeth?

(1) Nid o angenrheidrwydd; canys ar amodau yn unig ei

harddanghosir. *Yn hyn y mae cariad iddo Ef ein caru ni, ac anfon Ei Fab i fod yn Iawn dros ein pechodau ni* (1 Ioan iv. 10). Gan hynny, yng Nghrist yn unig ei danghosir i ddyn. Caiff sylw pellach dan bennawd yr Iawn.

(2) Ond cariad sydd bennaf: megis trwy anfon ohono y Rhodd Fwyaf; a chan daflu ohono bob amser atalfeydd trugaredd ar draws barn Duw: yn y cyfryw fodd y llywodraetha cariad dros ddechreuad a dibenniad y drefn brynedigol, er nad trwy ddistewi Cyfiawnder (Iago ii. 13).

3. O dan ba ffurfiau yr ymddengys Cariad?

Ymddanghosa yn Iesu fel Gras yn gorffwys ar yr anheilwng; fel Tosturi neu resyni yn sylwi ar drueni; ac fel Trugaredd yn maddeu y gosp. Ond, y mae ei enwau gyn luosoced ag yw agweddau drygioni dyn.

III.

Ymdriniaeth Sanesiol.

1. Beth a berthyn i adolygiad hanesiol o'r holl bwngc dan sylw?

Ni a welwn fod un athrawiaeth yn yr Ysgrythur, sef fod Duw yn bod, ac mai dadblygiad parhâol o'i Enw Ef a'i briodol-eddau fel y Drindod brynedigol yw datguddiad. Pob damcaniaeth anibynnol ar y ddau fater hyn, i hanes y meddwl dynol y perthynant.

2. Beth yw cylch damcaniaeth anibynnol ar y materion hyn wedi bod?

O dan y pennawd cyntaf, cyfyd i fyny resymau dros ac yn erbyn y bôd o Dduw; yng nghyd ag ymosyniadan o barthed i bosibilrwydd, a therfynau y wybodaeth am yr Anfeidrol. O dan yr ail bennawd cynhwysir yr holl ddamcaniaethau o barthed i luosogrwydd mewnol y Duwdod.

§ 1. Y Bôd o Dduw fel Ymosyniad.

1. A fuwyd rywbyrd yn ameu hyn mewn gwirionedd?

Do, mewn rhyw ystyr; os iawn y barnwn oddiwrth y rhesymau a ddefnyddiwyd y'mhob oes i'w brofi.

2. Paham "mewn rhyw ystyr?"

Oblegid yr ymddengys y cymer yr ymresymiaeth yn ganiatâol yr hyn yr ymresyma yn ei gylch.

3. Pa fodd y gellir egluro hyn?

Fe grëwyd dyn ar ddelw Duw, ac yn ol cyfansoddiad ei natur, efe a ymofynna am y Bôd o'r Hwn y daeth, ar yr Hwn y dibynna, ac i'r Hwn y mae efe yn gyfrifol.

4. A olyga hyn fod y syniad am Dduw yn un cyngreddfol?

Y mae yn gyngreddfol ond ei iawn-ddeall. Fel y daw dyn, yn sicr i ymwybodaeth o hunan a'r byd allanol, sef y nid hunan, felly hefyd y daw i ymwybodaeth o Fôd uwchlaw pob un o'r ddau; yr hyn oll sydd gyngreddfol neu gynhenid, er yn anad-blygedig ar y cyntaf. Y mae hon yn enedig mewn dyn, neu gyda dyn, fel cynneddf i geisio, a chyfaddaster i dderbyn gwybodaeth a mwynhad o'r Duw a'i gwnaeth.

5. Pa dystiolaeth a ddug datguddiad i hyn?

Nid yw byth yn profi bod Duw, eithr moesol yn wastad ac y'mhobman yw yr anuwiaeth a gerydda (Ps. xiv. 1; Eph. ii. 12).

6. Oni ddefnyddia dadguddiad resymau yn y cyfryw apel?

Dim ond i galonogi ac i gadarnhau y grediniaeth a honna, gwanychiad o'r hon a briodolir ganddo i bechod (Rhuf. i. 28).

7. Beth yw llinell y ddadl Ysgrythyrol?

Apelia yn barhaus fel y canlyn:—(1) At yr ymsymiad o Dduw sydd y'mhob yspryd dyn; (2) At resymeg pob meddwl, gan ymresymu ohono oddiwrth y greadigaeth at yr achos digonol ohoni; (3) At nodau cyffredinol bwriad; (4) At gydwybod dyn fel pechadur; (5) At gydsyniad pob cenedl a ddysgwyd gan Dduw ei Hun *os gallent ymbalfalu am dano a'i gael* (Act. xvii. 27, 28; Is. xl. 21; Ps. xix. 1—3; xciv. 9; Rhuf. i. 18; ii. 15; Act. xvii. 26—29).

8. Ond ymddengys hon fel llinell y ddadl ddiwinyddol?

Dyna ydyw, ond gyda gwahaniaeth. Llefara yr Ysgrythur i geryddu dyn am gellwair gyda'i argyhoeddiadau. Proffes y ddadl ddiwinyddol yw argyhoeddi anghredinwyr fel y cyfryw.

9. Pwy gan hynny yw yr anghredinwyr ar y cwestiwn hwn?

Yr ydys yn arferedig o'u galw yn Anuwiaid, eithr gair amwys yw hwn, ac un sy'n gofyn elfeniad a dosparthiad. A siarad yn fanwl nid oes yn bod ond un ffurf resymegol o anghrediniaeth, sef GWRTH-DDUWIAETH, yr hon a ddadleua yn erbyn y posibilrwydd i Dduw fedru a bod. Nis gwedy Oll-dduwiaeth y bôd o Dduw, eithr mŷn nad yw wahaniaethadwy oddiwrth y greadigaeth.—Ni wna Agnosticiaeth * amgen na gwadu ei fod yn wrthddrych i'r meddwl.

10. Pa fodd y dygir y'mlaen yr arbroffion dros fodolaeth Duw?

Yn y fath fodd fel ag i gyfarfod y rhai'n gyda'u gilydd. Ond rhaid cofio nad yw eu gwerth arbrofol yn ddim mwy, na dim llai, nag a briodola yr Ysgrythur iddynt. Yn ol eu geiriadaeth newydd gellir eu cyflwyno ger bron fel y canlyn:—

(1) Y ddadl oddiwrth Fodeg (*the Ontological Argument*): sef, fod y syniad am yr Anfeidrol, neu Dduw, yn y meddwl, yn tybio A PRIORI, † wrthddrych cyferbyniol.

(2) Y ddadl Drefnegol (*the Cosmological Argument*): sef fod Achos Cyntaf pob peth yn aneurheidrwydd meddyliol.

(3) Y ddadl Ddiben-draethol (*Teleological*), sef y ceir nodau bwriad, y rhai er yn aneirif mewn amrywiaeth a gyd-dueddant er hynny tuag at amcanion terfynol, gan hawlio ohonynt Greawdydd sydd yn Gynlluniwr.

(4) Y ddadl Foesol; sef fod ymdeimlad anilëadwy dyn o ddibyniad, cyfrifoldeb, a dyhead yn cyfeirio at Oruchel Dad, Rheolydd, a Diben ei fodolaeth.

(5) Cyd-syniad yr holl Genhedloedd: y'mhob oes, y'mhlith pob cenedl o ddynion, fe ddeuir o hyd i ryw ymdeimlad o'r Goruwchnaturiol, er yr amrywia yn ei ffurfiau cyfeiliornus o'r eilundduwiaeth ffieiddiaf i fyny hyd at yr Oll-dduwiaeth uchaf.

§ 2. Posingiondd y Dybiaeth am Dduw.

1. Beth yw ystyr yr ymofyniad hwn?

Buwyd yn dadleu nas gall y meddwl terfynol amgyffred neu ddeffinio gwrthddrych anfeidrol; hynny yw nas gall ffurfio syniad

* Gwel Nodiad XVII.

† Ymresymu oddiwrth yr achos at yr effaith; oddiwrth egwyddor gyfredinol at ei chanlyniadau.—T. J. P.

cymesurol, na datgan darnodiad cyflawn ohono ; gan hynny nad yw pob arbrawf (*demonstration*) o fodolaeth Duw yn ddim amgen nag ymdrech i brofi fod Rhywbeth yn bodoli o'r tu ol i bob arddanghosiad, i'r hyn nid oes yr un arbrawf a'n gwaranta i roddi iddo enw a'i darnoda.

2. Beth ydynt gyfeiriadau y cwestiwn hwn?

Y mae iddo bwysigrwydd pell-gyrhaeddol a sylfaenol, deil berthynas hanfodol, yn wir, a phob cyfeiliornad parthed y bôd o Dduw, pa un bynnag ai eiddo yr anuwiad* neu y duwiad (*theist*).

3. Beth yw ei berthynas â Gwrth-dduwiaeth?

Y mae mewn gwirionedd yn symud i ffwrd y sylfaen oddi tani. Tra y dysga Agnosticiaeth nas gellir adnabod y Gallu sydd o'r tu cefn i'r bydysawd, proffesa Gwrth-dduwiaeth fod ganddi y gyfryw wybodaeth am Ei briodoleddau angenrheidiol fel ag i fod yn sicr nad all Efe fodoli : yr hyn sydd engrafft o'r fath ryfeddaf o brofi y negyddol.

4. Beth yw ei hagwedd tuag at Oll-dduwiaeth?

Datgana y term mai yr hyn a alwn ni yn Dduw yw swm pob peth, y sylwedd cyffredinol fel ei hamlygir trwy yr hyn a elwir gennym yn briodoleddau yspryd a defnydd. Gellir dweud nad all Agnosticiaeth ar dir tég a bod yn oll-dduwaidd, am y gwad, wrth gwrs, bosibilrwydd y fath syniad clir o'r hyn yw Duw.

5. Pa gyfeiliornadau ereill a wrthwyneba?

Nid oes ereill i'w cael : y mae pob cyfeiliornad sylfaenol am Dduw yn gynhwysedig yn y ddau hyn, Gwrth-Dduwiaeth ac Oll-dduwiaeth. A golyga pob un o'r ddwy pan eu gwesgir i'w terfynau eithaf, nad yw yr hyn nas gall y deall dynol ei ddarnodi yn Bod. Rhaid yw i Agnosticiaeth ar ei thir ei hun wadu hynyna ; gan y tybia hi Rhywbeth y SYDD.

6. Ond, nid ydym eto wedi ateb ei dadl hi ei hun?

Y mae wedi ei hateb yn anuniongyrchol, ond gellir cymeryd y gosodiadau canlynol yn fwy cadarnhaol :—

(1) Gwrthddrych, nid o ddarnodiad ond o wybodaeth yw Duw.

(2) Gwybodaeth yw iawn berthynas y meddwl â gwirionedd ei wrthddrych. Ac fe ddeil hyn am y Gwrthddrych Goruchel.

* Gwel Nodiad XVIII.

H

(3) Y mae darnodiad o'r hyn sydd yn wrthddrych gwybodaeth yn golygu llawer mwy o'r hyn na chynhwysa, nag o'r hyn a gynhwysa; o ran yn unig y gwyddom bron yr oll a wyddom.

(4) Y mae llawer o bethau sydd yn ymarferol ansicr ac anherfynol, er hynny, yn bethau a wyddom; ac y mae y meidrol, yr hwn sydd mewn cyffyrddiad cyson â'r Anfeidrol yn Ei adnabod, a hynny gyda gwybodaeth wirioneddol, a'r hon, er yn derfynol, sydd eto yn ddigonol i bob amcan ymarferol.

7. Ai hon yw y "wybodaeth reoleiddiol,"* a addeffir gan y rhai a wadant y gellir adnabod y Bôd Anfeidrol?

Nage; hwy a addefant yr ail a'r trydydd o'r gosodiadau hyn, ond hwy a wrthodant y cyntaf. Rhaid i ni fyntumio fod ein gwybodaeth derfynol nid yn unig yn DDIGONOL, ond yn un WIRIONEDDOL hefyd: ac nad oes wybodaeth mwy sylweddol na hon mewn bod.

8. Beth yw tystiolaeth yr Ysgrythur ar y pwngc hwn?

(1) Fod Duw yn anwybyddadwy ac yn ddatguddiadwy hefyd. *Ni welodd neb Dduw erioed; yr unig-anedig Fab yr hwn sydd yn mymves y Tad, Efe a'i hyspysodd Ef* (Ioan i. 18). *Yr Hwn yr ydych chiwi heb Ei adnabod, yn Ei addoli, Hwnnw yr wyf fi yn Ei fynegu i chiwi* (Act. xvii. 23). Y mae yr ymadrodd hwn o eiddo St. Paul, ond ei efrydu gyda'r cyd-destynau, yn cadarnhau ein cymhwysiad ohono.

(2) Fod gwybodaeth o Dduw i'w chael, yr hon sydd nid yn unig yn un wirioneddol, ond yn un sydd hefyd yn gyfystyrol a bywyd uchaf yr enaid: *A hyn yw bywyd tragwyddol iddynt Dy adnabod Di* (Ioan xvii. 3).

§ 3. ❧ Drindod.

1. Pa mor bell y mae y dirgelwch hwn wedi treiddio i mewn i ddamcaniaeth ddynol?

I raddau llawer helaethach nag y tybir weithiau. Ceir math o driawd yn y rhan amlaf o grefyddau cyntefig Asia a'r Aifft, ac yn Athroniaeth grefyddol Plato. Ond nis gellir olrhain ynddynt gymaint a dynesiad at Drindod mewn Undod.

* Gwel Nodiad XIX.

2. Oni ddarfu i Iddewiaeth ddiweddar dd'od o hyd i'r athrawiaeth yn eu llyfrau henafol?

Bu i ysgrifenywyr Rabinnaidd oesau boreuol Cristionogaeth gasglu allan o esponiadaeth lefaredig o'u hysgrythyrau, luaws o dystiolaethau a honnont oeddynt yn sail i'r athrawiaeth Gristionogol am y Drindod. Pa un a oedd rhai o'r cyfryw yn ddyledus eu hunain i'r Testament Newydd, ai nad oeddynt, hwy a ddygant dystiolaeth werthfawr i opiniwn Iddewig a thraddodiad dirgel-aidd.

3. A yw yr Efengylau yn dangos ddarfod i'n Harglwydd apelio at unrhyw feddylddrych Trindodaidd oedd yng nghudd (*latent*)?

Yr oedd Efe yn wastadol yn darparu Ei wrandawyr ar gyfer y datguddiad cyflawn hwnnw ag oedd yn ogystal ag iechydwrïaeth dynion, yn amcan Ei weinidogaeth. Ond, gan na ddarfu iddo godi y llen oddiar Ei lawn hyd nes dioddef ohono, felly hefyd ni hyspysodd Efe y Drindod, hyd nes darfod i'r Yspryd Glân ddyfod. Rhoddwyd Ei dystiolaeth gyflawn Ef i'r Trydydd Person yn Ei bregeth ddiweddaf, ond yr oedd Ei holl weinidogaeth yn apeliad parhâol at ffydd y bobl gyfamodol mewn un ag oedd yn Fab Tragwyddol Duw.

4. A rydd yr Ysgrythyrau unrhyw awgrymiad fel rhag-ddarpariaeth ar gyfer esponiadaeth athawiaethol o'r Drindod yn y dyfodol.

Pur ychydig, os dim. Hyfforddir Ysgrifenywyr y Testament Newydd, a gadwent mewn golwg Un-dduwiaeth Iddewig ac Aml-dduwiaeth Genhedlig, i beidio gwneud amgen na darparu llaws o dystiolaethau i bersonoliaeth, Dwysoldeb, a pherthynas y Tri Pherson. Byddai i hyn hawlio, gwedi llawn sefydlu teyrnas Dduw, yr eiriadaeth a ddefnyddir gennym ni yr awrhon.

5. Trwy pa raddegau y cyrhaeddwyd yr eiriadaeth hon?

Trwy eangiad Ffurf-reol y Bedydd; trwy ddosparthiad Tri-Unol o Fawl-odlau a Bendithion yr Ysgrythur; trwy gyflwyniad i sylw, yn yr ail ganrif, y gair TRIAS neu TRINITAS,—Trindod; a thwy fabwysiadu y gwahaniaethiad cymanfâol rhwng *ousia* am y NATUR sydd gyffredin i'r Tri Pherson, a *hupostasis* am y BERSONOLIAETH a berthyn i bob un ohonynt.

6. Beth ydoedd y dadblygiad cynaraf yn yr athrawiaeth fel y cyfryw?

Yr hyn a alwyd mewn amserau diweddarach yn Israddol-aeth; yn hyn yw y datganiad rhesymegol o'r gwirionedd datguddiedig mai y Mab ydoedd yr Uniganedig Dduw; ac fod yr Yspryd yn deilliaw o'r Tad (Ioan i. 18; xv. 26). TREFN Y Drindod, a pherthynas hyn â Chenhedliad y Mab, ac a Deilliad-aeth yr Yspryd.

7. Beth ydoedd yr heresi Sabellaidd?

Gwaith Sabellius, yn y drydedd ganrif, yn gwadu y Tri Sylweddau Personol yn yr Un Duw. Tri modd, yn syml, ydoedd Trindod yr heresi hon, yn yr rhai yr amlygai yr Un Duw Ei Hun i ddyn; y'nghyntaf fel Jehofah, yna fel Mab, ac yna fel yr Yspryd Glân.

8. Beth, yn ei pherthynas â'r Drindod, ydoedd Ariaeth?

Yr athrawiaeth fod y Mab yn genhedledig o ewyllys y Tad, a chan hynny er Ei fod Ef cyn yr holl fydoedd, nad ydoedd yn dragwyddol. Dysgai hefyd ddarfod i'r Yspryd ddyfod i fôd yn Nuw, ac oddiwrth Dduw, mewn trefn i greu.

9. Pa fodd y medrwn ddangos perthynas y tair heresi hyn?

Hwy a brofant ynghyd mai y Drindod mewn Undod ydoedd yr athrawiaeth foreuaf. Cododd yr heresi gyntaf, sef Sabeliaeth, trwy osod gormod pwys ar yr Undod sydd yn gwahardd unrhyw israddoliaeth; rhoddodd Ariaeth y fath bwys eithafol ar y meddylddrych o israddoliaeth, fel y collwyd yr Undod. Ond yr oedd y ddwy yn wrthdystiad yn erbyn amrywiol ffurfiau o Undodaeth neu Fonarchiaeth,* a ddyfeisiesid gan hereticiaid, yn enwedig yn yr ail ganrif.

10. Pa fodd y dadblygwyd yr athrawiaeth o israddol-aeth?

Yn awdurdodedig, yng Nghredöau Nicea a Chaercystenyn, Duw o DDUW yn ei pherthynas â'r Mab; YR HWN SYDD YN DEILLIAW O'R TAD, A'R MAB, yn ei pherthynas â'r Yspryd Glân.

* Gwel Nodiad XX.

11. Beth ydoedd cyfeiriad y ddadl parthed deillladaeth yr Yspryd?

Bu i ychwanegiad yr ymadrodd FILIOQUE, "Ac o'r Mab," at y Gredo Nicëaidd, gael ei wrthod gan Eglwys y Dwyrain; a phrofodd yn un o'r rhesymau dros y rhwyg rhwng y Dwyrain a'r Gorllewin.

12. Beth ydoedd nodweddau damcaniaeth y Canol-oesoedd?

Treulid cryn amser i geisio d'od o hyd i gyfatebiaethau o'r Drindod yng nghyfansoddiad natur ddynol, a gweithrediadau y meddwl; yn ogystal ag mewn cyfansoddi geiriadaeth hefyd, i osod allan berthynas fewnol ac allanol y Tri Pherson.

13. A oedd unrhyw werth yn hyn oll?

Oedd, gwerth mawr mewn rhagflaenu gwrthddadleuon; ac yr oeddynt yn ddefnyddiol mewn amddiffyn yr athrawiaeth, yn enwedig fel ei parhêir yn athrawiaethau y Diwygiad. Ond fel ymgais at esponio y dirgelwch anirnadwy, nid oeddynt o ddim gwerth.

14. Beth ydoedd y dadblygiad diweddarach parth trefn neu israddolaeth Personau yn y Drindod?

(1) Bu i adweithiad yn ei herbyn rod di bodolaeth i athrawiaeth na wahaniaetha ond o'r braidd oddiwrth Dri-dduwiaeth, h.y., Tri Duw gwahanol.

(2) Ar ol y Diwygiad bu i'r diwinyddion Arminaid boreuaf ei wneud yn fater tra phendant; ond profodd eu disgyblion y perygl o ddarnodi yn rhy fanol, trwy ymylu ohonynt ar Ariaeth.

(3) Mewn amserau diweddar arferwyd llawer ar gyfrwysedd dynol yn yr ymgais i olrhain cyfatebiaethau, rhwng bywyd mewnol y Drindod, ac amlygiadau gweledig Duw yn y bydysawd. Bu i hyn hefyd ei adweithiad niweidiol.

(4) Yn ystod yr unfed-ganrif-ar-bymtheg bu i Sosiniaeth adfywio Monarchiaeth gyntefig, neu yr athrawiaeth o undeb hanfodol Duw: ond gyda rhyw gymaint o ddylanwad israddolaeth Ariaidd yng nglŷn â hi, yr hyn a ddyrchafai ei syniadau am y Mab a'r Yspryd yn llawer uwch nag eiddo Undodiaeth ddiweddar.

15. Beth fu cyfeiriadau diweddar y pwngc?

(1) Bu iddo gael ei gysylltu yn agos â dadl y Fabolaeth Dragwyddol; athrawiaeth y gellir edrych arni fel elfen ganolog dysgeidiaeth Ein Harglwydd am dano Ei Hun drwy yr Efengylau.

(2) Cafwyd ei fod yn dra phwysig hefyd fel tarddiad tragwyddol israddoldeb tymhorol y Ddau Berson yng ngwaith y Prynedigaeth.

16. Pa wersi a hyfforddir gan hanes y dadleuon ar y pwngc hwn?

(1) Y pwys o gofio y rhaid derbyn y dirgelwch terfynol hwn o eiddo Cristionogaeth trwy ffydd, gan dalu iddo y warogaeth fwyaf ostyngedig. (2) Mai hon yw athrawiaeth reoleiddiol holl gyfundrefn y Gwirionedd Cristionogol; ac yn (3) Y dylai y dysgawdwr neu y pregethwr ofalu yn ddibaid ar drefnu ohono ei iaith fel ag i osgoi y tri phrif gyfeiliornad, sef, Tri-Dduwiaeth, Sabeliaeth, ac Ariaeth.

LLYFR III.

Duw a'r Creadur.

- I. CREADIGAETH.**
- II. Y BYDYSAWD CREEDIG.**
- III. RHAGLUNIAETH.**
- IV. YMDRINIAETHAU HANESIOL.**

LLYFR III.

Duw a'r Creadur.**Abagarmeniad.**

1. **Paham nad awn rhagom ar unwaith at y Greadigaeth a'r creadur?**

Oherwydd fod yr athrawiaeth am Dduw, ac am y bydysawd crëedig yn meddu ar y cysylltiad agosaf. Perthyna llawer o'r hyn yr ymdrinnir yn gyffredin âg ef o dan y blaenaf yn gyfartal i'r olaf: er engraifft, Oll-dduwiaeth, Aml-dduwiaeth, a Deuol-aeth,* y rhai ydynt, mewn gwirionedd, ymofyniadau a gynhwysant berthynas y creadur â'r Creawdwr. A diameu na efrdyr o gwbl, gyda diogelwch, y pyngciau sydd yn awr dan sylw ond mewn cysylltiad manwl â'r wir athrawiaeth am Dduw.

2. **Gan gadw ohonom at y cyfuniad hwn, pa fodd y mae i ni fyned rhagom?**

Trwy ystyried, y'nghyntaf, Dduw Creadigaeth, ac yna Dduw Rhagluniaeth.

3. **Beth yw y ddolen gydiol rhwng y rhai'n?**

Ymwnâ y cyntaf â Pha fodd, ac â Pha beth Creadigaeth; ymwnâ yr ail â'r Pa fodd a'r Paham.

I.

Greadigaetf.

1. **Pa faterion a ymgyflwynant i'n sylw yma?**

Dau yn bennaf; sef cysylltiad y greadigaeth â Duw a'i briodoleddau, a'r actau, neu'r cwrsweithrediadau creadigol eu hunain.

2. **Y'mha fodd y mae ymdrin â'r cwestiwn hwn?**

Y'nghyntaf fel mater o ddatguddiad, lle y rhoddir iddo le helaeth, ac yna y'mherthynas â golygiadau a damcaniaethau dynol.

• Gwel Nodiad XXI.

3. Onid yw hwn yn faes ymchwil rhy eang?

Fe a'n ceuir i fyny i ychydig o egwyddorion syml: yng nghyntaf, rhaid cofio yr edrycha diwinyddiaeth ar y mater fel un a berthyn i ffydd yn gyfangwbl. *Trwy ffydd yr ydym yn deall* (Heb. xi. 3). Yn ail, rhaid yw cofio fod gennym i ymwneud â'r bydysawd creedig, yn bennaf fel maes gweinyddiad y Prynedigaeth.

4. Oni wrth-dery gwyddoriaeth yn erbyn datguddiad yn hyn?

Nid oes gan wyddoreg ddim o gwbl i'w ddweud yng nghylch creadigaeth yn ei hystyr briodol. Perthyna ei hymresymiau hi i gwrswethrediadau natur, neu Dduw mewn natur yng nghyfansoddiad y bydysawd, neu yr hyn a ellir ei alw yn greadigaeth eilraddol. Ac yng ngwyneb hyn, nid yw ein dyletswydd amgen na diffynol yn unig; sef dangos nad yw gwyddoreg yn dymchwelyd dysgeidiaeth gyffredinol Gair Duw.

§ 1. Duw fel y Creawdwr.

1. Y'mha fodd y llefara datguddiad am Dduw fel Creawdwr?

Dechreu a gyda'r gwirionedd mai *Yn y dechreuad y creodd Duw y nefoedd a'r ddaear* (Gen. i. 1). Ond y mae Tri Pherson y Duwdod yn gysylltiedig â threfniad y greadigaeth. Yr oedd *Yspryd Duw yn ymsymud ar wyneb y dyfroedd* (Gen. i. 2). Ac am y Mab y dywedir mai *hebdo Ef ni wnaethpwyd dim ar a wnaethpwyd* (Ioan i. 3).

2. Beth yw perthynas neulltuol y Tri Pherson â'r creadur, fel ei hamlygir yn yr Ysgrhythur ddiweddarach?

Rhywbeth cyffelyb i'r hon sydd cydrhwng y Tri a Phrynedigaeth. Y mae eu perthynas â'r olaf mewn cylch cyfyngach, ac mewn modd gwahanol.

3. Beth yw perthynas y priodoleddau Dwyfol â chreadigaeth?

(1) Fe amlygir yr holl briodoleddau perthynasol yn y bydysawd, ac y maent i'w deall yn ei ddeddfau: gallu a doethineb yn bennaf. (2) Ond rhyddid yr ewyllys Ddwylol, neu Ei

ewyllys da Ef, a gynyrchodd y cyfan: *Oherwydd Dy ewyllys Di y maent, ac y crëwyd hwynt* (Dat. iv. 11). (3) Y mae Mawredd, a thermau ereill a ddynodant uchafiaeth neu arglwyddiaeth y Creawdwr, yn priodoli iddo Ef Ei ogoniant.

4. Onid yw gogoniant y priodoledau Dwyfol i'w ystyried fel diben y greadigaeth?

Nid yr unig achos terfynol, yn diau: nid oes ar y Goruchaf angen am hynny. Y canlyniad yn hytrach na'r diben yw Ei ogoniant Ef.

§ 2. Greadigaeth Æriodol.

1. Beth y mae hyn yn ei gynnwys?

Darfod galw pob peth i fôd gan Dduw.

2. A yw datguddiad yn dysgu ddarfod gwneuthur hyn allan ddim?

Nid oes ystyr i'r ymadrodd "allan o ddim." Dywed yr Ysgrythur fod y Mab *cyn pob peth*, ysprydol neu faterol; fod Duw yn *galw y pethau nad ydynt, fe pe byddent; ac mae nid o bethau gweledig y gwnaed y pethau a welir* (Col. i. 16, 17; Rhuf. iv. 17; Heb. xi. 3).

3. Beth yw ystyr lawn yr ymadroddion hyn?

Dengys y cyntaf y cynhwysa "pob peth" holl fydsawd yspryd a defnydd; dengys yr ail ddarfod i'r hyn nad yw yn bôd ddyfod i fôd i ewyllys Duw; a gesyd y trydydd ymadrodd y pwys ar ffydd fel ei buddugoliaeth gyntaf-gofnodedig, er deall mai nid o bethau cyn-fodol oeddynt ar ddyfod yn ymddanghosion y tarddodd y greadigaeth weledig.

4. Pa fodd y medrwn symio i fyny yr hyn a ddysgir?

Trwy sicrwydd ffydd ddarfod i'r greadigaeth ddyfod i fôd trwy ewyllys Duw; mae Ei ddoethineb Ef yn y byd trefnedig sy'n llywodraethu dros air Ei nerth; mai y Mab ydoedd ffynhonnell bodolaeth megis o'r tu allan i Dduw; ac mai yr Yspryd Glân ydoedd ac ydyw Cyfrwng a Gweinyddwr pob bywyd.

§ 3. Æ Greadigaeth fel Æfurfiad.

1. Y'mha ystyr y terfynola hyn ein pwngc?

Trwy ei gyfyngu, yn bennaf i'r Cosmos, neu y bydysawd rheolaidd.

2. A geir y gwahaniaethiad hwn yn yr Ysgrhythur?

Pan y dywedir mai *trwy ffydd yr ydym yn deall ffurfio y bydoedd trwy air Duw* (Heb. xi. 3), fe a'n dysgir ddarfon i oesau olynol y bydysawd gael eu dwyn i drefn drwy eirchion creadigol. Y greadigaeth eilraddol hon y sonnir yn bennaf am dani.

3. Ffurfiad y byd, mater o ffydd yw?

Ië, ffydd yn y cofnodiad a rydd ar ddeall i ni y pa fodd y daeth yr hollfyd gweledig i fodolaeth. Rhaid yw i bob cyfnewidiad mawr gael ei ystyried gan ffydd fel effaith Dwyfol yr Ewyllys creadigol.

4. Beth ynte yw y cofnodiad y cyfeirir ato?

Yr hanes Moesenaidd am y greadigaeth, yr hwn fel y digwyddiadau a gofnoda, a dderbynnir gennym ni trwy ffydd fel datguddiad Dwyfol a wnaed i'n rhieni cyntaf, trwy y rhai y'i trosglwyddwyd i Moses.

5. A yw y cofnodiad a ddyry Moses, a siarad yn fanwl, yn hanes?

Hanes o'r fath ydyw y rhyngodd fodd i Dduw ei roddi er cynorthwyo ffydd pan y disgrifia Efe ymddanghosiad gweledig *Ei amweledig bethau Ef*, i.e., *Ei dragwyddol allu Ef a'i Dduwdod* (Rhuf. i. 20). Yr oedd hanes llythrennol yn beth anichonadwy; yr hyn a feddwn ni, hyfforddiad arwyddluniol Dwyfol yw o rai gwersi mawrion.

**6. A yw yr hyfforddiant hwn yn anibynnol ar wir-
eddiad gwyddorol?**

Y mae yn rhaid ei fod felly, mewn un ystyr, canys trwy *ffydd yr ydym yn deall* (Heb. xi. 3). Ond mewn ystyr arall nid yw yn anibynnol: bydd i wyddoreg mewn amser cyfaddas fyned y'mhell tuag at egluro deddfau y dechreuad, a gweithrediad y deddfau hynny a ddwg oddiamgylch y terfyn.

7. Yn y cyfamser, beth yw dysgeidiaeth hanes Moses?

(1) Dysga ddarfon creu popeth gan Un Duw; (2) ddarfon creu popeth yn ol deddfau, dadblygiad y rhai a weithredai, o'r is i'r uwch; ac yn (3) ddarfon i'r oll gael eu trefnu mewn cyfnodau crëedigol a beidiasant gyda chreadigaeth dyn.

8. Ai hyn yw ystyr y chwe' niwrnod?

Cysylltir y cyfnodau hyn â saith niwrnod cyfrifedig yn ol ewyllys y Creawdwr: a phob dydd yn cynrychioli i ni gyfnod o barhâd amhenodol. Â y Sabboth, Ei orffwysfa Ef oddiwrth weithgarwch crëedigol, rhagddo hyd yr awrhon; a choffheir ef yn wythnosol.

9. A yw hyn yn gyfrif digonol yng ngoleuni gwyddoreg?

Emyn grëedigol yw yr hanes Dwyfol, ac erys, yn syml oddiar ac uwchlaw beirniadaeth wyddoregol. Erys dau beth yn wirionedd anwadadwy; yng nghyntaf, dysga ymddadblygiad a gerdd rhagddo o fewn terfynau RHYWOGAETHOL, hyd yn oed yn y seithfed oes, a hynny tra ymyriadau crëedigol wedi pallu; ac, yn ail, y cynrychiola ddyn fel diben yr oll, yr hyn hefyd a wna gwyddoreg, er na fÿn addef hynny.

II.

Y Bp̄dpsawb Grëedig.

1. Y'mha fodd y disgrifir hwn?

Fel *y nefoedd a'r ddatar, Popeth, y greadigaeth neu y Creadur, y Byd, y Bydredd, Popeth gweledig ac anweledig* (Gen. i. 1; Ioan i. 3; Dat. iii. 14; Ioan xvii. 5; Heb. i. 2; Col. i. 16).

2. Oddi tan ba berthynasau y cyflwynir y rhai'n?

Yn bennaf y'mherthynas â Phrynedigaeth. Ond gwneir hyn yn y fath fodd fel ag i fforddio defnyddiau a rydd i ni olygfa gyflawn ar y bydysawd.

3. Beth a olygir yma wrth y bydysawd?

Cyfanswm popeth, a'i olygu fel un: undeb pob bodaeth yn Nuw, yn yr ystyr uchaf; ac mewn ystyr is yn y meddwl dynol.

4. Pa fodd y medrwn ddosparthu y Cread yn gyson â hyn?

Fel byd yr ysprydoedd, y byd materol, a dyn.

5. A ellir ystyried y rhai'n fel yn hollol ar wahân.

Ni wyddom ni beth yw perthynas ysprydion â'r bydysawd materol; ac y mae dyn yn gyfansoddedig o ddefnydd ac yspryd. Ond gallwn ystyried y tair rhan o'r greadigaeth megis ar wahân, gan mai safle yr athrawiaeth am y creadur, yma, cydrhwng creadigaeth a rhagluniaeth y mae.

I. Bp̃b yr Yspr̃doedd.

1. Sut y medrir cyflawnhau y datganiad hwn?

Dysgeidiaeth eglur datguddiad yw y bodolai byd o fodau ysprydol cyn creadigaeth y byd gweledig; yn aneirif mewn rhifedi, a chyn drefnused yn eu graddau ag yw y trefniant gwelwedig. Yr un Enw, sef *Arglwydd y Lluedd* a roddir i Jehofah fel Creawdydd y cyrff nefol, a'r ysprydoedd (Esai. ii. 12; 1 Bren. xxii. 19; Jer. xxxiii. 22; Deut. xxxiii. 2).

2. Pa beth a gofnodir am eu creadigaeth a'u hanes?

(1) Rhoddir iddynt le amlwg yn yr Hen Destament; eithr rhagdybir eu creadigaeth. Yn y Testament Newydd fe briodolir eu creadigaeth i'r Mab, a hynny yn ol eu hurrdd a'u trefn, megis yn gyfatebol i'r hyn yw y Cosmos, neu y bydysawd rheolaidd yn y creadigaeth faterol (Dan. vii 10; Col. i. 16).

(2) Eto, rhagdybir yn yr Hen Destament fod iddynt, cyn dechreu hanes dyn, ddau gyflwr, sef syrthiedig ac ansyrthiedig; y syrthiedig yn cael ei gynrychioli gan Satan, yr ansyrthiedig gan osgordd-luoedd, a gweinidogion Jehofah. Ceir cyfeiriad aneglur yn y Testament Newydd at eu cwmp, fel yn flaenorol i gwmp dyn (1 Tim. iii. 6; Judas 6 ad.)

3. Pa olygiad a gyflwynir am eu perthynas â'r bydysawd?

Disgrifir hwy yn wastad fel ysprydion o ran eu natur, ac fel angylion, y rhai a safant yn ganolog cydrhwng y Drindod Sanctaidd a phethau crëedig. Ond un ddeddf a lywodraetha y datguddiad, sef eu bod yn gyd-gysylltiedig â llywodraeth ragluniaethol dynolryw.

4. Beth yw eu perthynas fel ysprydion ac fel angylion?

(1) Fel ysprydion, *Meibion Duw* ydynt (Job i. 6), a chyferchir hwy fel *duwiau* (Ps. xcvi. 7). Erys y rhai syrthiedig yn eu plith, yn eu trefn fyth yn *lluedd ysprydol drygioni yn y nefolion leoedd* (Eph. vi. 12). Hynny yw, *tywysogaethau, awdurdodau, a byd-lywiawduwyr* yn y trefniant goruchnaturol. Yn eu perthynas â dynion, y maent o dan un pennaeth, y diafol, a hwy a'i gwasanaethant ef fel *demoniaid* neu *ysprydion aflan* (Marc v. 12, 13), gan y rhai y mae gallu dros gyrff ac eneidiau dynion (Job ii. 7): parthed cyrff dynion y maent yn offerynnau i ddwyn afiech-

ydon (Luc xiii. 16); parthed eneidiau dynion, y maent yn offerynnau i dwyllo ac i demtio, er y priodolir hyn yn gyffredin i Satan (1 Tim. iii. 7).

(2) Fel angylion, fe'u canfyddir bron yn wastadol yn gweini mewn modd sanctaidd i'r ewyllys Ddwylol: o'r *archangel* i lawr hyd at gynrychiolwyr neu warch-geidwaid rhai bychain Crist, ac a elwir *eu hangylion hwy* (1 Thes. iv. 16; Matth. xviii. 10).

5. Pa uwchafiaeth a roddir i Satan mewn Angyl-draeth?*

Nodir ef allan fel gweithredydd personol, y pechadur gwreiddiol, a phennaeth pob gwrthwynebiad yn erbyn yr Ewyllys Ddwylol. Y mae ei luaws enwau fel pe byddent yn rhai swyddogol, megis, *duw y byd hwn*, gan yr hwn y mae *ei deyrnas* a'i *angylion* (2 Cor. iv. 4; Matth. xii. 26; xxv. 41); *Satan* neu y gwrthwynebydd; *yr un drug*; y temtiwr; *y diafol*, neu y cyhuddwr, yr hwn yw ei enw olaf a'r un parhâol (1 Ioan iii. 12).

6. Pa awgrymau o bwys a ymgynygiant yma?

(1) Fod dysgeidiaeth yr Ysgrythyrau mor gyson ac arbennig, fel nad oes angen ceisio engraifft mewn ffynhonnellau o'r tuallan i'r Beibl.

(2) Y byddai y golygiad a roddwyd o'r bydysawd yn anghyflawn heb athrawiaeth yr ysprydion, yn eu graddau a'u trefn.

(3) Fod personoliaeth Satan, ac ysprydion aflan yn dra chysylltiedig â holl hanes y Prynedigaeth.

(4) Y gallwn ystyried yr angylion fel ein cyd-addolwyr yng nghymundeb y Saint, gan osgoi y ddau eithafion: sef *addoliad* angylion (Col. ii. 18), ar y naill law; ac anghof o'r lle amlwg a roddir iddynt yn y bydysawd, ar y llaw arall.

II. Y Bpopsawb Materol.

1. A oes dim yn yr Ysgrythur a gyfetyb i'r ymadrodd hwn?

Ni chrybwyllir yno am na mater na'i ansoddau. Y golygiad cyffredin yw ddarford i *bethau gweledig* a *phethau amueledig* gael eu creu yn y Mab, a'u bod ynddo Ef yn *cydsefyll*, neu yn *dal wrth*

* Angyl-draeth—Yr Athrawiaeth am Angylion, yn dilyn y gair *Angelology*, o'r Groeg *Angelos* a *Logos*, traethiad ar angylion.—T. J. P.

eu gilydd (Col. i. 16, 17). Trwyddo Ef y *gwnaeth Duw y bydoedd*; ac *Efe a apwyntiwyd yn Etifedd pob peth*: y Mab Tragwyddol, Etifedd yw ar Ei gread Ei Hun (Heb. i. 2).

2. A gyfeirir o gwbl at unrhyw gynllun o greadigaeth?

Y mae y bydoedd yn datgan y Gogoniant Dwyfol, ond hynny yn wastad mewn cysylltiad â'r Mab a thynged dynolryw. Fel Diben a Phen y greadigaeth, Efe yw *Dechreuad* (*Arché*) creadigaeth Duw (Dat. iii. 14); fel ei Diben, *Popeth a grewyd trwyddo Ef* ac erddo Ef fel eu Diben (*têlos*) (Col. i. 16).

3. Ai yng ngoleuni y Prynedigaeth yn unig y golygir y bydysawd?

Nage, mewn un modd: (1) Y mae y Mab yn rhywbeth mwy na'r Gwaredwr. Ond cyfyngir Ei berthynas Ef â'r bydoedd i fydd dyn; fel y deil berthynas â'i darddiad a'i ddiben.

4. Beth yw perthynas y gwirionedd hwn â'r damcanion gwyddoregol am y rhai'n?

(1) Gedy wyddoreg at ei pherffaith ryddid i wneud ymchwil i'r deddfau y gweithredai y GAIR trwyddynt, o'r pryd yr archodd Efe *Bydded goleuni* (Gen. i. 3) tuag y'mlaen: yn ol fel y golyga, naill ai gwneuthuriad cyfundrefnau cosmigaidd,* neu ddarpariad y ddaear ar gyfer hanes dyn.

(2) Rhagfynegir mai diwedd y ddeseb faterol, gyn belled ag yr ymwnâ dyn â hi, fydd drwy dân, trwy yr hwn yr *elfennau gan wir wres a doddant*; mewn geiriau ereill, hwy a *newidir* (2 Petr iii. 10; Heb. i. 12); ac ategir y cyfryw ragfynegiad yn ddigonol gan wyddoreg, gan ddangos ohoni sut y'i cyflew'nir.

5. Y'mha ystyr arall yr effeithia y cyfyngiad hwn ar ddiwinyddiaeth?

(1) Dysga y wers o dra-rhagoriaeth goruchel y byd ysprydol ar yr un materol. Mesurir yr olaf wrth fydoedd, a chysawdiau diderfyn o fydoedd; ond y blaenaf wrth Ymgnewdoliad Mab Duw.

(2) Y mae gan ddyn i geisio ei iechydwriaeth, fel pe yn anwybodol o bob bodau ereill, ond gyn belled ag yr effeithir arno ef gan fodaeth y cyfryw.

* O'r Gr. *Cosmos*—y Cyfanfyd rheolaidd, a *threus*: y gwrthgyferbyniol i *chaos*.—T. J. P.

(3) Bydd i hyn agor o'n blaen weledigaeth o'r datguddiadau sydd i ddilyn yn y dyfodol. Gweinydda dysgeidiaeth bresennol gwyddoreg i'r gobaith Cristionogol.

III. Dŷn.

§ 1. Gi Greadigaeth.

1. Pa fodd y disgrifir tarddiad dyn?

Fel diben creadigaeth. Yng nghyntaf, fel dynoliaeth, ac mewn perthynas â'r creadur, *yn wryw ac yn fennyw y crëodd Efe hwynt*, (Gen. i. 27). Yn ail, fel y *dyn* mewn ystyr uwchafol, yn ei berthynas â'i hanes ac a'i dynged ei hun : allan o'r hwn, ISH, y *cwymerwyd* gwraig, ISHA (Gen. ii. 7, 23).

2. Y'mha fodd y gwahaniaethai oddiwrth anifeiliaid ereill?

Yn y weithred o'i ffurfiad allan o bridd y ddaear, anadlasai Duw iddo *anadl bywydau* (Gen. ii. 7). Yr oedd y bywyd yn gyffredin iddo ef a'r dosparthiadau is law iddo; ond anadlwyd ef iddo ef gan yr Yspryd fel bywyd neulltuol. Ac yn ei bersonoliaeth, fel dyn, fe'i crewyd gan y Drindod Lân *ar ein delw Ni, wrth ein llun ein Hunain* (Gen. i. 26).

3. A yw y ddau hanes am greadigaeth dyn yn cyduno?

Yn berffaith os telir sylw i'w gwahanol amcanion. Yn yr ail hanes, daw Elohim yn Iehofah Elohim; eithr nid ysgrifeniadau anibynnol oeddynt er hynny, ond cyflwynir Iehofah fel Duw y cyfamod seiliedig ar y prynedigaeth,—ac y mae yr ail gofnodiad am greadigaeth dyn yn rhagarweiniol idd ei gwmp.

§ 2. Delw Dŷn.

1. Pa bwysigrwydd sydd yn hyn?

Delw Duw, trwy gydol yr Ysgrhythur, yw unig nòd urddas hanfodol, cynhennid, ac anileadwy dynolryw : hanfodol fel y cyfansodda ddyn yn weithredydd personol rhydd ac ysprydol; cynhennid, megis na chyfyd oddiar unrhyw beth a ychwanegwyd yn ddilynol i'w greadigaeth; ac anileadwy, fel nodwedd berthynol i'r natur ddynol.

2. A oes unrhyw wahaniaeth rhwng delw a llun?

Gall y cyfeiria y ddelw at y cynllun yn Nuw, a'r llun at yr eilun mewn dyn. Ond ni awgrymir hyn gan y geiriau gwreiddiol, eithr dynodant drwy ail-adroddiad bwysigrwydd y ffaith.

3. A wneir unrhyw wananiaeth rhwng y ddelw naturiol a'r un foesol?

(1) Ni chyfeirir at y gwahaniaethiad yn y greadigaeth gyntaf; a'r un geiriau ddefnyddir am ddelw Adda yn ei fab (Gen. v. 3).

(2) Gwneir cyfeiriad anuniongyrchol yn y Testament Newydd at ddelw foesol Duw fel wedi ei cholli yn Adda a'i hadferyd yng Nghrist. Y mae y dyn newydd yn cael ei adnewyddu *mewn gwybodaeth yn ol delw yr Hwn a'i creodd ef* (Col. iii. 10); neu *yr hwn yn ol Duw a grëwyd mewn cyfiawnder a gwir sancteiddrwydd* (Eph. iv. 24).

4. Beth a ddysga hyn am berthynas y rhai'n?

(1) Mae y ddelw naturiol ydoedd y bersonoliaeth rydd, a feddai gymhwyster i adlewyrchu y cymeriad Dwyfol.

(2) Mai y ddelw foesol ydoedd perchenogaeth dyn o wirionedd, a chyfiawnder, a sancteiddrwydd, yn eu hegwyddorion.

(3) Mai disgyniad o sefyllfa uchel ydoedd y cwmp, y'nghyd ag ymataliad ar ddadblygiad gogoneddus.

5. Pa berthynas sydd rhwng hyn a'r Mab?

Y Mab fel y cyfryw yw *Dehw* uchaf y *Duw anweledig* (Col. i. 15), yr Hwn a ddatguddia i'r bydysawd crëedig *Ei sylwedd Ef* (Ei berson yn ol y Gymraeg, Heb. i. 3), a'i briodoleddau moesol. Yn nelw y Ddelw honno y crewyd dyn.

6. Pa berthynas â'r Yspryd Glân?

Bu i'r Yspryd gael ei *anadlu* i ddyn, fel ei fywyd anfarwol a sanctaidd (Gen. ii. 7). Nis gallwn ddweud pa mor bell y bu i'r cwmp amddifadu dyn o'r Yspryd hwnnw, ond gwyddom iddo barhâu Ei ddylanwad yn enaid dyn; a darfod i'r Gwaredwyr, ar ol Ei adgyfodiad *anadlu* yr unrhyw Yspryd i Ei bobl. Dim ond yn y ddwy engraifft a nodwyd yn unig y defnyddir y gair *enphusêse*,—*Efe a anadlodd iddyni* (Ioan xx. 22).

§ 3. Ffertynas Dyn â'r Bnd.

1. Beth y mae yr adroddiad cyntaf yn ei ddysgu ar y pwngc hwn?

Ddarfod i ddyn, fel y dŵg efe ddelw ei Greawdwr, gael ei osod mewn awdurdod dros y ddaear, a'r holl greaduriaid sydd arni: nid yr arglwyddiaeth oedd y ddelw, ond rhagorfraint berthynol i'r ddelw ydoedd.

2. A deifl yr adroddiad unrhyw oleuni pellach arni?

Fe apwyntiwyd y dyn, ac efe eto heb syrthio, i lafurio y ddaear (Gen. ii. 15), i'w darostwng at ei wasanaeth, ac felly i ennill llywodraeth drosti (Gen. i. 28). Ar yr un pryd medrai adnabod y creaduriaid oedd is law iddo, a rhoddi iddynt eu henwau (Gen. ii. 20).

3. Pa fodd y cyfeiria yr Ysgrythyrau diweddarach at hyn?

(1) Fod y ddedfryd ar ol y cwmp yn rhoddi cryn bwys ar anallu dyn yn y byd (Gen. iii. 17, 19).

(2) Fod dyn yn yr Ail Adda wedi ennill yn ol ei arglwyddiaeth: meddiennir hi yn berffaith gan Fab y Dyn, a chaiff Ei bobl gyd-gyfranogi ohoni.

(3) Y bydd i ddyn â'r ddaear gael eu hadferyd i'w pherthynas briodol.

§ 4. Si Brawf, a'i Bencysamodaeth.

1. Y'mha fodd yr ydym i ddeall prawf Adda?

Golyga prawf y gosodir bodau deallol rhydd ar brawf neu dreial, yr hyn a ddilynr gan gadarnhâd cymeriad, da neu ddrwg. Ni wyddom ni beth yw prawf, fel y cyfryw, ond fel y mae yn gyfeiriedig at y da a'r drwg sydd yn ein natur, ac nis gallwn ddeall ei gymhwysiad at fodau ansyrthiedig. Disgrifir ef gan ddatguddiad yn y termau sydd adnabyddus i ni. Byd y teimlad ydoedd cylch y demtasiwn, cymhwyswyd hi gan yspryd aflan; a'r canlyniad oedd,—y cwmp; ond ofer yw yr ymchwil am y dirgelwch mewnol.

2. Beth ydoedd ei bencyfamodaeth?

Cyfeiria cyfamodaeth at gyfamod (*foedus*=*cytundeb*, *cyfamod*); a'r meddylrych yw y cynrychiolai Adda ei ddisgynyddion mewn cyfamod. Ond gwell yw ystyried Adda fel pen naturiol yr hiliogaeth, un ynddo ef; a gadael y cyfamod i'r Ail Ben, yr Ail Adda.

§ 5. Greadigaeth a Gbrynedigaeth.**1. Y'mha ystyr y cysylltir y rhai'n?**

Tra y rhydd yr hanes i ni gofnodiad am y greadigaeth fel y cyfryw, y mae creadigaeth dyn yn gydwëedig â hanes ei brynedigaeth.

2. A grewyd dyn ynte, er mwyn ei waredu?

Fe a'n cerrir gan y fath ymofyniad uwchlaw ein galluoedd. Ond y mae St. Paul, tra na lefara byth am greadigaeth dyn fel bwriad tragwyddol, yn llefaru felly am ei brynedigaeth; yn neulltuol felly mewn perthynas â'r hiliogaeth honno y mae Crist i fod yn Ben iddi (Eph. iv. 5; Rhuf. xvi. 25).

§ 6. Rddolngiad Sanesiol.**1. Pa rai ydynt y prif byngciau dadleuol ar y penawd hwn?**

Y mae lluwys mawr o bwyntiau ar y rhai y daw Dyneg i wrthdarawiad â'r hanes Beiblaidd. Â'r cwestiynau megis yr ymdrinir â hwynt y'mhlith credinwyr mewn datguddiad y mae a wnelom ni.

2. Pa fodd y cyflawnheir y fath gyfyngiad?

Perthyna y damcaniaethau a geuir allan i'r pwngc eangach o greadigaeth yn ei pherthynas â Duw. Y mae yr Ysgrythur yn dra phendant parthed lle dyn yn y bydysawd, fel cynnyrch bwriad a gweithrediad Dwyfol; ond gedy le i ymchwiliad ar rai materion o ddyddordeb. Er engrafft, parthed unoliaeth ac hynafiaeth yr hiliogaeth ac elfennau hanfodol natur ddynol.

3. Beth yw pwysigrwydd y cwestiwn parthed unolaeth?

Y mae unolaeth yr hiliogaeth yn ei dau Ben yn fater hanfodol

(Act. xvii. 26), ac y mae o gryn bwys i ymdrin yn drwyadl â'r amrywiol seiliau, ar y rhai y sylfaena y wyddoreg ddiweddaraf ei chasgliad, fod yr amrywiaethau sydd y'mhlith dynolryw—amrywiaeth llwythau,—yn gyson âg un tarddiad cyffredin. Yn y fan hon wrth gwrs, y daw i mewn y cwestiwn o amser digonol.

4. A yw y Beibl yn cydgordio â hynafiaeth dyn?

Ydyw, yn berffaith, ond peidio gwithio yr hynafiaeth honno yn rhy bell yn ol. Llefara y Testament Newydd yn gyffredin am oesau mynedol hirfeithion, ac am Grist fel wedi dyfod ohono ar ddiwedd y byd. Rhêd yr Hen Destament trwy yr oesau hyn; ond y mae ei amseryddiaeth yn dra aneglur, yn enwedig am yr amser cyn y diluw. Yn y cyfamser, ni phrofir hynafiaeth eithafol ar y naill law gan unrhyw ffeithiau sefydledig, ac ar y llaw arall, fe fyddai hynny yn anghyson â dechreuad diweddar hanes, a gwasgariad presennol, cymharol gyfyng, dynolryw tros wyneb y ddaear.

5. Pa ddadleuon a godir parthed natur ddynol?

Y mae yr ymofyniad parthed ystyr yr ymadrodd *enaid byw*, megis ei defnyddir am Adda, a'r hwn a gyferbynnir gan St. Paul gyda'r *Yspryd yn byw* (1 Cor. xv. 45), wedi cymeryd llauws o ffurfiau. Yr un yw natur ddynol drwyddi draw; tra mai corff ac enaid yw y gwahaniaethiad arferedig rhwng ei elfennau corfforol a'i rai ysprydol: datgenir yr un peth trwy y geiriau corff, enaid, ac yspryd, mewn perthynas â gweithrediad crefydd.

6. Pa fodd yr ategir hyn oll gan yr Ysgrhythur?

(1) Datgana y cofnodiad cyntaf, yr hwn sydd yn sail i'r oll, ddarod i ddyn gael ei greu yn y ddelw Ddwylol: a chan hynny, yn yspryd personol (Gen. i. 26).

(2) Pan y crybyyllir am ei berthynas â'r ddaear, dywedir ddarod iddo *ddyfod yn enaid byw* (Gen. ii. 7). Yr oedd ei yspryd, oedd yn nelw Duw yn enaid megis y defnyddiai offeryn (*organ*) corfforol: yr enaid yw ei hunan priodol.

(3) Golygir enaid dyn, fel y mae yn ailenedig yn hytrach fel yspryd; *Yr hyn a aned o'r Yspryd sydd yspryd* (Ioan iii. 6). A golygir yr yspryd nad yw feddianedig gan yr Yspryd Glân yn hytrach fel enaid: *yn anianol, neu anifeilaidd, heb fod yr Yspryd ganddyni* (Judas 16).

III.

Æðagfuniaeth.**1. Pa ystyr sydd i Ragluniaeth?**

Datgana y gwirionedd fod Duw yn trefnu ac yn llywodraethu popeth er cyrraidd ohonynt ddiben eu creadigaeth.

2. Pa fodd y deuir o hyd i'r ystyr hon yn y gair?

Golyga y gair Rhagluniaeth ragwelediad a rhagddarpariaeth. Ymgyferfydd yma dri meddylddrych:—sef *prothesis*, bwriad; *pronoia*, rhagddarpariaeth, neu rhagfeddyliad er cyflawni bwriad; a *prognosis*, yr hyn a olyga y bwriad fel wedi ei gyflawni; a chan hynny megis y rhaid fod pob bwriad o eiddo Duw, yn rhagwybodol.

3. Pa fodd y disgrifir rhagluniaeth Duw?

Yn gywir fel y disgrifir Ei weithred greadigol; a chyda'r un berthynas â'r Drindod Sanctaidd. Megis y cydsyniai y Tri Pherson yn y dechreuad, felly hefyd y cytunant i ddwyn popeth i'w ddibeniad.

4. Beth yw cylch gweithrediad rhagluniaeth?

Yn yr ystyr eangaf, cynhwysa gadwraeth popeth i'w ddiben: yna, yn fwy neulltuol, gadwraeth bywyd creedig; ac, yn yr ystyr uwchaf oll, llywodraethiad bodau moesol.

§ 1. Gadwraeth Æðagfuniaethol.**1. Beth a olygir wrth gadwraeth?**

Nid yn unig ddiogeliad rhag perygl, ond parhâd popeth mewn bodolaeth, yn eu trefniant a'u cydgordiad.

2. Y'mha ystyr y priodolir hyn i Dduw?

Y sail, bob amser, yw yr hollalluogrwydd Dwysol: canys Duw sydd yn *gadarn Ei allu, ni phalla un* (Esa. xl. 26). Ond trwy y Mab yr amlgyir y gallu hwnnw, *yr Hwn sydd yn cynnal popeth trwy air Ei nerth* (Heb. i. 3). Os mai eiddo y Tad yw'r gallu hwn, y Mab Ei Hun sydd yn ei arfer, canys *ynddo Ef y mae popeth yn cydsefyll*, neu *yn dal wrth eu gilydd* (Col. i. 17).

3. Onid yw hyn yr un peth a Chreadigaeth bârhaus?

Nac ydyw yn ddiau: canys daughosir y gwahaniaeth yn yr

ymadrodd sydd newydd ei ddyfynnu. Felly hefyd yn y geiriau : *Pan ollyngych Dy Yspryd y crëir hwynt : a Thi a adnewyddi wyneb y ddaear* (Ps. civ. 30).

4. Pa fodd y mae rhagluniaeth yn gymhwysadwy at gynhalliad popeth?

Am nad oes ddim yn bod heb fwriad iddo, neu *yn ofer* (Esa. xlv. 18). Y mae popeth yn iswasanaethgar i amcan Dwyfol terfynol, er cyrraedd yr hwn y cedwir hwynt *wrth ei gilydd* (Col. i. 17).

5. Pa fodd y gellir egluro hyn?

(1) Yn ei berthynas â threfniant cyffredinol natur grëedig, y mae cyngor tragwyddol rhagluniaeth yn guddiedig oddi-wrthym ni. Ond dywedir am y Mab, *pob dim a grëwyd ynddo Ef, a thrwyddo Ef, ac ERDDO EF, yr Hwn sydd cyn popeth* (Col. i. 16, 17).

(2) Yn ei pherthynas â'n daear ni y mae amcan rhagluniaeth yn amlwg : fe barotöasid y ddaear am oesau olynol i fod yn gartrefle bywyd ; fe ordeiniasid ar fod i'r bywyd is roddi cynhaliaeth i'r bywyd uwch ; a chynhelir y bywyd uwchaf i ddibenion ysprydol.

6. A yw yn ofynnol ini gredu fod cadwraeth natur grëedig yn gynhaledig gan weithrediad uniongyrchol Duw?

Ydyw ; canys nid oes yn bod yr un gallu ond y Dwyfol. *Ynddo Ef y mae popeth yn cydsefyll* (Col. i. 17), ac *ynddo Ef yr ydym ni yn byw, yn symud, ac yn bôd* (Act. xvii 28).

7. Oni chyfyd cryn anhawsterau yma?

Nid oes anhawster o gwbl yn y meddylddrych fod y Bôd a rydd fodolaeth i bopeth yn bresennol iddynt, yn Ei allu. Cyfyd yr anhawster pan y gwnawn i gynhaliaeth pethau gan Dduw orffwys wrth wraidd pethau drwg, ac wrth dardell gweithrediau drygionus.

8. Pa fodd y cyfarfyddir â'r anhawsterau hyn?

Gwnaed ymgais i'w cyfarfod ar dir Ail Achosion yn yr ystyr o *Concursus* * neu gydweithrediad naturiol y Goruchaf ar wahân

* Gwel Nodiad XXII.

i'r moesol. Ond ein hunig noddfa yw ymostyngiad i'r dirgelwch cuddiedig.

§ 2. Gofal Rhagluniaethol.

1. Beth a olygir wrth hyn?

Y ddarpariaeth neulltuol a wnaed gan ddoethineb a daioni Duw er cynhaliaeth, cadwraeth, a pharhâd pob bywyd cyflunol: hynny yw, y creaduriaid hynny o eiddo Duw o fewn cylch allanol y bydysawd ag ydynt ddibynol am gynhaliaeth nad yw yn dod mewn ffordd naturiol, ac amddifadrwydd o'r hon sydd yn achosi dioddefaint. Nid yw y ddau amod hyn yn gymhwysadwy at fater difwyd.

2. A yw yr ymadrodd "rhagluniaeth Duw" yn cyfeirio at hyn?

Ydyw, fel ei defnyddir yn gyffredin i wahaniaethu Ei ofal cyffredinol dros Ei greaduriaid: yng nghyntaf oddiwrth gadwraeth popeth: ac yn ail oddiwrth lywodraethiad y Cyfryngwr yn nheyrnas grâs, ac arweiniad neulltuol credinwyr gan yr Yspryd.

3. Beth am y termau rhagluniaeth gyffredinol, a rhagluniaeth neulltuol?

A siarad yn fanwl, nid oes ystyr iddynt. Darpara Duw yn gyfartal ar gyfer Ei holl greaduriaid fel y cyfryw. Y mae *ni syrth yr un ohonynt ar y ddaear heb eich Tad chwi*, a lefarir am adar y tô, a'r ymadrodd *Ac y mae, ië, holl wallt eich pen wedi eu cyfrif*, a lefarir am ddynion, yn ymadroddion cyfochrog, er fod yr *Ond* rhyngddynt (Matth. x. 29, 30).

4. Pa wahaniaeth a ddynoda yr *Ond*?

(1) Fod dynion yn fwy pwysig nag adar y tô; ac yn (2) fod y saint yn wrthddrychau hawddgarwch a gofal neulltuol i'r Duw, nad yw yn gymaint felly o Dduw rhagluniaeth ac yw o Dduw grâs.

5. Pa anhawsterau a gyfyd yma?

(1) Fod rhadlonedd Duw, sydd *dros Ei holl weithredoedd* (Ps. cxlv. 9). yn darostwng y greadigaeth is, i ddeddf cadwraeth trwy gyd-ysglyfaethu, ac i resyni mawr oddiar law dyn.

(2) Nad yw gofal Duw am Ei saint yng nghyfraniadau rhagluniaeth, yn eu gwahaniaethu oddiwrth yr anuwiol.

6. Pa fodd y mae yr anhawsterau hyn i'w golygu?

(1) Gyrrir rhai o'u herwydd i Wrth-dduwiaeth; o leiaf yn y ffurf o Ddeuolaeth; * yr hyn yw atheistiaeth rheswm dall.

(2) Cymer ereill noddfa mewn tyngedfen ddi-dostur yr hon a ffugwedda fel Rhagluniaethiad.

(3) Ond hyfforddir y sawl a dderbyniant yr Ysgrythyrau i ddisgwyl am esponiad o'r ail anhawster yn y byd a ddaw, ac yn nydd y farn. Ni wneir cymaint a chrybwyll am yr anhawster blaenaf yn y Beibl, yr hwn a lefara am y bwystfilod gwylltion a ruant am ysglyfaeth, ac a geisiant eu bwyd gan Dduw (Mal. iii. 14—18; Ps. civ. 21).

§ 3. Llywodraeth a Rhagluniaethol.

1. Beth y mae yr ymadrodd hwn yn ei arwyddocâu?

Y bodola cylch o ragluniaeth i'r hwn yn unig y mae y gair llywodraeth yn gymhwysadwy. Y mae yr Hwn sydd yn cynnal popeth, ac yn gofalu am Ei greaduriaid fel y cyfryw, yn llywodraethu bodau moesol, ac yn eu llywodraethu yn rhagluniaethol, neu yn ol trefniant moesol gosodedig.

2. Yna, cynhwysa hyn bob bodau deallol?

Gwna: Canys ni a ganfyddwn fod ysprydion a dynion yr un mewn prawf, a deddf, a barn. Ond â llywodraethiad rhagluniaethol ein hiliogaeth ein hunain y mae a wnelom ni yn bennaf: a hynny fel y mae hi yn bechadurus, yn brynedigol, ac megis o dan gwrswethrediad gwahanfodol o iechydwrïaeth.

3. Ymestynna yr athrawiaeth hon, ynte, dros faes eang?

Hi a gynhwysa yu llythrennol bopeth: sef y Cyngor a ordeiniodd sefyllfa prawf, a ganiatâodd bechod, a ragddarparodd ar gyfer ei ddiddymiad trwy Waredwr, a ragddarparodd y byd ar gyfer Ei ddyfodiad, a drefnodd foddion adferiad dyn, a oruwchlywia bopeth er lledaeniad yr Eglwys, ac er daioni credinwyr, ac

• Gwel Nodiad XXIII.

a ddiogela diffyniad terfynol y Sancteiddrwydd Dwyfol. Mewn cyfeiriad at hyn oll, y geiriau a ddynodant ragluniaeth a ddefnyddir, yn uniongyrchol neu yn anuniongyrchol.

4. A yw yn ofynol i ni, ynte, i ymdrin â'r rhai'n i gyd?

Nac ydyw: ond darparu ar eu cyfer fel yr ymgodant ger bron, trwy arfogi ein meddyliau â'r argyhoeddiad fod cyngor doeth Duw Personol, er yn anolrheinadwy, mewn cwrs o gyflawniad er hynny.

5. Paham y defnyddir y gair Cyngor, yn hytrach nag Arfaeth?

Am nad yw y meddylddrych o arfaeth ragderfynedig yn gyson â'r syniad o ragluniaeth, fel y deallir hi gennym ni. Fe dderbynnid y gair Arfaeth oddiar barch, pe ei defnyddid gan y Goruchaf; eithr nid yw Efe yn ei ddefnyddio, ac nid yw yn perthyn, chwaith, i'r tri gair etholedig a wnant i tyny ein hathrawiaeth. Y mae cynrychiolwyr Duw ar y ddaear yn anfon allan arfaethau, ac y mae Duw Ei Hun hefyd yn eu hanfon allan i rymusderau ac ordeiniadau y bydysawd. Ond defnyddia ei fwriad eiriau ereill pan yr cyfarcha Efe ddeiliaid Ei lywodraeth foesol.

IV.

Ymdriniaethau Hanesiol.

1. Beth yw cylch damcaniaeth ddynol ar y materion hyn?

Cynhwysa ymfyniadau pwysicaf pob oes; perthynas Duw â chreadigaeth a rhagluniaeth sydd wedi bod yn brif bwngc gwyddoreg ac athroniaeth er eu cychwyniad.

2. Pa fodd y gallwn ymgeisio at ddosparthu y damcaniaethau hyn?

Nid trwy eu holrhain yn hanesiol: gan yr ymddengys yr un cyfeiliornadau yn hollol, y'mhob oes, gydag enwau ac mewn ffurfiau gwahanol. Gellir eu cyfyngu i dair:—(1) y rhai hynny, y darfu iddynt haeru math o ragluniaeth heb greadigaeth; (2)

y rhai hynny y darfu iddynt haeru fôd creadigaeth, gan wrthod ohonynt ragluniaeth; ac yn (3) y rhai hynny y darfu iddynt anwybyddu creadigaeth a rhagluniaeth, y ddwy fel eu gilydd.

3. Pa gyfundrefnau meddyliol a gynrychiolasant y gyntaf?

(1) Y rhai a berthynant i'r hyn a elwir DEUOLAETH. Yn y grefydd Iraniaidd neu Bersiaidd, fe lywodraethai y meddylddrych o ddwy egwyddor anibynnol a thragwyddol; y rhai a lywyddent dros y ddau fyd o yspïyd a defnydd. Ond gorffwysai y syniad o ragluniaeth yng ngwrthdarawiad y galluedd hyn, yr hon a reolai y drwg.

(2) Perthyn i'r un dosparth y mae AML-DDUWIAETH. Personoliad o rymusderau natur ydoedd duwiau aneirif bron bob cyfundrefn a fyynnai yr amseroedd gynt; gan ddatgan yn y cyfryw fodd y syniad o ragluniaeth aml-weddog un Duw dros bopeth.

(3) Cynrychiolai Plato ac Aristotle, yn athroniaeth goeth Groeg, y syniad o ragluniaeth Ddwyfol, neu enaid yn y byd, yr hwn a roddai ffurf i ddefnydd anghrëedig.

(4) Y mae cryn lawer o feddwl gwyddonol diweddar yn rhedeg i'r cyfeiriad yna; gan osod yn lle creadigaeth, rhywbeth tragwyddol, heb enw iddo; ac yn lle rhagluniaeth, rym cynhennid (*immanent*) heb reswm. Gellir cyfrif y Positifiaid* a'r Agnostic-iaid yn eu plith gyn belled y gwadant greadigaeth, trwy ddatgan ohonynt fod dechreuad pob dim yn anfeddyladwy, tra y coled-
dant y syniad am fath o ragluniaeth a ffugia ei hun o dan y syniad afresymol o achos cynhennid (*immanent cause*). †

4. Oni wrthoda y rhai'n greadigaeth a rhagluniaeth?

Rhaid addef y gwadant y naill a'r llall yn yr ystyr Gristion-ogol ohonynt. Ond tra y gwadant y dichon unrhyw beth dd'od o ddim, y mae yn rhaid iddynt gyfaddef, yn ol trefniant pethau, bob syniad a berthyn i ragluniaeth: dibenion bwiariedig: dibenion y darperir ar eu cyfer, a dibenion sydd yn sicr o gael eu cyrraedd. Hwy a wadant ein gair ni, eithr hwy a addolant y peth, "yn ddiarwybod."

* Gwel Nodiad XXIV.

† Gwel Nodiad XXV.

5. Beth sydd yn afresymol yn yr ymadrodd "achos cynhennid" (*immanent cause*)?

Rhaid yw i achos fod yn anibynnol ar y peth yr effeithir arno ganddo, ac nis gall fod yn gynhennid. Yn gyffelyb i hynny, nis gall deddf fodoli heb fôd anibynnol a weithreda yn unol â hi.

6. Y'mha fodd y cynrychiolir creadigaeth heb ragluniaeth?

Gan y cyfundrefnau hynny, hen a diweddar, a addefant fodolaeth Duw fel Achos a Tharddiad popeth, ond a wadant y syniad priodol am Ei ragluniaeth.

(1) Gwadau Epicurius, gynt, y pryderai y duwiau o gwbl am lywodraethiad y byd a greasid ganddynt.

(2) Dysgid yr un peth gan y Deistiaid Seisnig, pan yr haerent na ddatguddiai Duw Ei hun ond mewn deddfau cyffredinol.

(3) Y mae lluwys o gefnogwyr Cristionogol Dadblygiaeth mewn perygl oddiwrth yr un cyfeiliornad. Mynnant mai mwy anrhydeddus i'r Creawdwr fyddai Ei gynrychioli fel gwedi argraffu ohono ar yr eginyn gwreiddiol ogwyddiad i ymddadblygu yn unol â rhyw ddeddfau penderfynedig, gweithrediad arafaid y rhai a gynyrchai yr holl amrywiaethau sydd yn y bydysawd, yn hytrach na pheri fod ei allu yn fath o rym a gyfryngai yn achlysurol. Yn y ddamcaniaeth hon, fe wneir i ffwrdd â therm canolog Rhagluniaeth; tra y diogelir y bwriad a'r cyflawniad, fe adewir allan y ddoethineb ganolog.

7. A ellir cysoni dadblygiaeth gyda'n hathrawiaeth?

Y mae yr hanes Ysgrythyrol am y greadigaeth eilraddol (*secondary*), neu ffurfiad popeth, yn cyfuno creadigaeth â rhagluniaeth; ceir yno y cyfnodau creadigol, yn yr ysbeidiau rhwng y rhai y gweithia rhagluniaeth yn ddiymaros trwy ddadblygiad cynddelwau (*types*). Termau y gwneir popeth ond eu defnyddio yn yr Ysgrythyrau, ydynt "ddetholiad naturiol," "etifeddiaeth" (*heredity*), a "goroesiad y cynddelwau goraf;" ac fe ddefnyddir yr un canol ohonynt. Yr ydym ni yn byw yn bresennol dan Seithfed dydd-gwaith Moses: nid oes ymyriadau creadigol yn

bod mwyach; eithr y mae y Creawdwr yn gweithio o hyd mewn dadblygiad rheolaidd a ddiogela y cynddelwau gwreiddiol (Ioan v. 17).

8. Oni hawlia Gwyddoreg lawer mwy na hyn?

Gwna, ond heb eto gyfiawnhau ei honiad. Y mae pob tystiolaeth (*evidence*) yn ffafrio toriadau yn y parhâd, a gwna dim ond un toriad wrthbrofi y ddamcaniaeth, cyn belled ag y priodola bob ymddanghosion (*phenomena*) i ddadblygiaeth. Tair ffaith at y rhai nid oes yr un pont yn arwain, ydynt drefniad mymrynnol gronynnau (*molecular arrangement of atoms*); fod y dyn presennol yr hyn y bu erioed: a dyfalwch (*persistence*) y myfi meddyliol hunanymwybodol.

9. Pa ddamcaniaethau ydynt a wnant i ffwrdd â chreadigaeth ac â rhagluniaeth?

Dim ond dwy yn unig, yn hollol a chyfangwbl, sef Oll-dduwiaeth,—y fwyaf addurnol, a Materolaeth y fwyaf distadl o hudoliaethau y meddwl dynol.

10. Beth yw agweddiad Oll-dduwiaeth yn ei pherthynas a'r pwngc?

Hi a erys yn noddfa rhag yr anhawster o dybio y bodola dim y tu allan i'r Bôd Anfeidrol: am hynny hi a wna Dduw yr Oll. Ni chaniatâ y SYDD—(*Is*) tragwyddol na chreadigaeth na rhagluniaeth.

(1) Syrthiai cyfundrefnau Oll-dduwaidd hynafiaeth yn dra byr o'r meddylddrych hwn: hwy a dybient am UN anfeidrol o'r Hwn y deilliasai y bydysawd megis lledrith diflanedig i ddychwelyd ohono i'w anoddyfn.

(2) Tyfiant amserau diweddar yw Oll-dduwiaeth briodol. Yng Nghyfriniaeth y Canol-oesoedd, ac yn Nelfrydiaeth * ddi-amodol ddiweddar (*modern absolute idealism*) hi a ail-edrydd y ffurf ddwyreiniol gyntefig. Ond yn SPINOZA † y cymera y ffurf gysonaf; yr hon er yn brofedig yn ol deddf rhif a mesur a wrthbrofir, er hynny gan reddfau gwreiddiol ymwybodaeth.

* Gwel Nodiad XXVI.

Gwel Nodiad XXVII.

11. Beth yw agweddiad Materolaeth at y pwngc?

Megis y gwna Oll-dduwiaeth Dduw yn bopeth, felly y gwna Materolaeth ddefnydd yn bopeth. Nid yw damcanu y'nglych y greadigaeth a'i hachosydd, am feddwl a'i urddas,—am bopeth o'r tu allan i ddyn, ynddo ei hun, yn ddim amgen na defnydd,—mater mewn amlygwedd neulltuol. Nid oes dadl i fod yn erbyn cyfundrefn a ddiddyma amodau cyntaf dadl.

LLYFR IV.

Pechod.

- I. PECHOD, EUOGRWYDD, COSP.**
- II. PECHOD GWREIDDIOL.**
- III. DAMCANIAETHAU HANESIOL.**

PENNOD I.

Ƴecþod, Euogrwydd, Cosp.

§ 1. Ƴecþod.

1. Pa beth yw Pechod?

Ysgariad gwirfoddol yr enaid neu yr hunan oddiwrth Dduw. Hynyna yw dirgelwch eithaf pechod; ond tra y gedy y darnodiad Ysgrythyrol y dirgelwch dwfn heb ei gyffwrdd, disgrifia ef yn y cyffredin yn ei amlygiadau, fel anufudd-dod i'r Ewyllys Ddwyfol.

2. Beth a ragdybia hyn yn y creadur?

Personoliaeth, yr hyn a olyga oruchwylydd hunan-ymwybodol, a hunan-benderfynol; ac yn y creadur oruchwylydd cyfrifol.

3. Beth a ragdybia hyn yn y Creawdwr?

Y gesyd Ef Ei creadur mewn cyflwr o brawf, neu wrth sâf-reol, gydar hyddid ewyllys: yr hyn nid yw ryddid o ddiofalwch, megis pe y cyhwfannai rhwng dau wrthddrych o ddewisiad; ond y rhyddid perffaith hwnnw o undeb âg ewyllys Duw, y'nglyd â'r posibilrwydd dirgelaidd i ddyfod ohono yn darddle gweithrediad anibynnol.

4. Beth yw perthynas neulltuol pechod â Duw?

Yn ei berthynas â llywodraeth foesol Duw, a'i ddeddf, anufudd-dod yw; yn ei berthynas â natur Duw, anuwioledeb, neu ansanteiddrwydd yw. Nid yw y fath beth a thrydedd perthynas â Duw yn ddirnadwy.

5. A yw y gwahaniaeth hwn yn ganfyddadwy yn yr enwau a roddir i bechod?

Perthyna i'r dosparth blaenaf un gyfres o enwau, megis trosedd, gwrthryfel, anghyfraith, ac anwiredd; ac i'r olaf gyfres arall megis anuwioledeb, halogrwydd, hunanoldeb, neu hunaniaeth, a drygioni yn gyffredinol. Rhêd y rhai'n fel dwy ffrydlif drwy y Beibl.

6. A oes i bechod berthynas gyfatebol â'r creadur?

Fel y mae pechod yn wrthdarawiad yn erbyn cyfraith Ddwyfol, gweithred o eiddo ei ewyllys greadurol ydyw; fel y

K

mae yn ysgariad oddiwrth Dduw Ei Hun, daw i fod yn gyflwr natur bechadurus y dyn. Am hynny yr adroddir am bechod yn wastad fel yn perthyn i weithred neu gymeriad.

7. Beth yw y prif ddarnodiad o bechod dyn yn yr Ysgrythur?

Y gair terfynol, ac fel pe bae, yr un rhywogaethol (*generic*) yw *hamartia*, sef, pechod fel y mae yn fyr o gyrraedd y nôd gosodedig. *Pawb a bechasant, ac a syrthiasant yn ol o ogoniant Duw* (Rhuf. iii. 23). Ond y darnodiad olaf yw mai *anghyfraith yw pechod*; ac mai *pob un a'r sydd yn gwneuthur pechod, sydd hefyd yn gwneuthur anghyfraith (lên anomian)* (1 Ioan iii. 4). Yma, bod heb ddeddf yw bod yn erbyn deddf.

8. Y'mha le ynte y rhaid celsio yn gyntaf, am eisteddle pechod?

Yn yr ewyllys a lywodraetha weithred y person.

9. A yw hyn yn gyfrif llawn am eisteddle pechod?

Nac ydyw: nid yw yr ewyllys amgen na'r gweinydd yn unig i bersonoliaeth y dyn: Efe yw y pechadur; *y pethau a ddeuant allan o'r genau, a'r ewyllys hefyd,—sydd yn dyfod allan o'r galon, o'r hon y tardd holl amlygiadau drygioni, yn y meddwl a'r serch-iadau, yn ogystal ag yn yr ewyllys* (Matth. v. 18).

10. Pa ddylanwad sydd gan hyn ar yr athrawiaeth am bechod?

Adgofia ni y gall, heblaw y gweithrediad uniongyrchol sydd yn bechod, fod natur y dyn sydd yn pechu yn bechadurus ar wahân i'r weithred.

11. Beth yw y berthynas rhwng y weithred a'r cymeriad mewn pechod?

Y weithred a ffurfia y cymeriad, eto, allan o'r cymeriad y tardda y weithred. Gan hynny, fe fodola cyd-berthynas rhyngddynt. Ond y mae yn bwysig cofio y gall pechod fodoli heb un weithred amlwg. Duw yn unig sydd yn canfod y gwahaniaeth, ac yn adnabod y pechod cuddiedig.

12. Ond, pa fodd y gallasai pechod gyfodi yng nghalon creadur a ffurfiasid gan Dduw ar Ei ddelw Ei Hun?

Hyn yw dirgelwch tarddiad y drwg, a'r hyn nad yw ddichonadwy i'r meddwl meidrol ei ddirnad.

13. A oes unrhyw wahaniaeth rhwng pechod a drwg?

Pechod yw yr achosydd o'r drwg; ond y mae yr effaith yn eangach na'r achos ohono. Drwg yw y gwrthgyferbyniol i'r da hwnnw a ffurfia gydgordeadigaeth gyffredinol Duw a gwynfyddedd y creadur deallgar. Bodolai drwg yn flaenorol i bechod dyn: pechod dyn a roddodd iddo *wybodaeth am dda a drwg* (Gen. ii. 17), fel gwahaniaeth a fodolai eisoes.

14. Pa fodd y gellir cymhwyso y gwanhaniaeth at bechod dyn?

Fel mae ysgariad oddiwrth Dduw yw pechod dyn, ei effeithiau dynt ddrwg neu drueni; fel y mae yn droseddiad o'i gyfraith Ef, yr euogrwydd sydd yn achosi y drwg, neu yn hytrach sydd yn egluro ac yn cyfiawnhau ei gospedigaeth.

§ 2. Euogrwydd.

1. Beth yw euogrwydd?

Pechod fel ei cyfrifir yn wrthddrychol gan Dduw i'r pechadur, ac fel ei cyfrifir yn ddeiliadol neu yn ymwybodol gan y pechadur iddo'i hun.

2. Beth yw perthynas hyn â'r gydwybod?

Y gydwybod yw y gynneddf honno a gysyllta gyfrifiad Duw o bechod âg eiddo y dyn, yn un. "Myf i a'i gwneuthum," yn gyntaf, ac yna, "Rhaid i mi fod yn atebol am dano:" gan fod y ddau hyn yn anwahaniaethadwy.

3. Beth y mae cydwybod, neu ymwybodaeth foesol yn ei ragdybio?

Fod yn argraffedig ar feddwl, neu reswm y bersonoliaeth a grëwyd yn nelf Duw egwyddor dragwyddol o rwymedigaeth i'r ddeddf Ddwyfol.

4. Onid hyn yw cydwybod ei hunan?

Nage: a siarad yn fanwl, nid y gallu sydd yn gwahaniaethu rhwng da a drwg yw y gydwybod, er y cysylltir yr ystyr hon â'r gair yn gyffredin. Cyfrinach y dyn iddo ei hun, neu gydag ef ei hun yw *suneidēsis* (o *sun* ac *ideo*; bod yn ymwybodol), parthed ei gydymffurfiaid â'r ddeddf a roddasid fel arall. *Hwy a ddanghosant weithred y ddeddf yn ysgrifenedig yn eu calonau, a'u cydwybod yn cyd-dystiolaethu â'u meddyliau, y naill gyda y llall yn cyhuddo neu ynte yn esgusodi* (Rhuf. ii. 15).

5. A yw pechod ac euogrwydd, neu gydwytbod pechod yn anwahanadwy?

Y mae y rhai'n wedi eu huno yn ol ordinhâd Duw: ond y mae i euogrwydd wahaniaethiad ag sydd yn cymedroli y berthynas.

6. Beth yw y gwahaniaethiad hwnnw?

Euogrwydd yw cyfrifiad y weithred, a'r pechadur yn euog o'r bai, yr hyn yw REATUS CULPÆ: * y mae hefyd yn gyfrifiad y canlyniadau, a'r pechadur yn euog parthed y canlyniadau, yr hyn yw REATUS PŒNÆ.*

7. Pa fodd y diogelir y gwahaniaethiad hwn yn yr eir-ladaeth?

(1) Y mae y pechadur yn euog, neu *aitios*, gan y medda ynddo ei hun yr *aitia*, neu yr achosydd o'i bechod:—*Ni chawsant ynddo Ef ddim achos*, neu *gyhuddiad*, neu *euogrwydd marwolaeth* (Act. xiii. 28). (2) Y mae y pechadur yn euog, neu *enochos*,—yn ddarostyngedig i farn: megis yn yr ymadroddion, *euogo bechod tragwyddol* (Marc iii. 29), neu *yn euog o gondemniad tragwyddol*, neu *yn euog o farn* (Matth. v. 21).

8. A yw euogrwydd y weithred, ac euogrwydd y canlyniadau yn unedig, bob amser?

Ydynt, ar wahân i drefn yr iechydwriaeth; ond pâr y drefn honno gryn gymedroliad.

9. Y'mha fodd y canfyddir hynny?

Yn athrawiaeth y Pechod Gwreiddiol, lle y ceir rhai yn euog o ganlyniadau y weithred, nad oeddynt yn euog o weithred Adda. Yn athrawiaeth yr Iawn, lle y ceir Un yn euog o farwolaeth, nad oedd yn euog o bechod. Ac yn athrawiaeth Cyfiawnhâd, lle na chyfrifir euogrwydd y pechod mwyach, er y dilyna rhai o'r canlyniadau, er hynny.

§ 3. Gosp.

1. Beth yw Cosp yn ei pherthynas a drwgweithrediad neu bechod?

Gweinyddiad penneyd ar y pechadur er amdiffyniad i'r ddeddf; hynny yw, er ategu anrhydedd Deddf Duw.

Gwel Nodiad XXIX.

2. Pa egwyddorion a ddiogelir trwy hyn ?

Y gweinyddir cosp yn daledigaeth am drosedd, ac mai nid canlyniad naturiol pechod yn unig ydyw; mai diffyniad, neu ddialeddiad yw, am y dianrhydedd a wnaed i'r Deddfroddwr, ac nid yn unig er diffyniad iawndrefn moesol yn y bydysawd.

3. Pa fodd y datgana yr Ysgrythur y ddau bwynt hyn ?

I Mi y mae dial (ekdikêsis); Myfi a dalaf (antapôdōso) medd yr Arglwydd (Rhuf. xii. 19). Y blaenaf am Dduw, a'r olaf am ddyn, a'r ddau y'nghyd yn llefaru am daledigaeth fanol.

4. Ai nid ysgariad oddiwrth Dduw ydyw yr unig a'r ddigonol gosp am bechod ?

Ie; canys fel mae gwaith yr ewyllys yn ysgaru y dyn oddiwrth Dduw yw pechod, felly, cospedigaeth pechod yw gwaith ewyllys Duw yn ysgaru y dyn oddiwrtho Yntau, ond nid yw hynyna yn gyfrif cyflawn am y mater.

5. Beth, ynte, sydd yn ddiffygiol ynddo ?

Anghofir ynddo fod Duw yn rhywbeth mwy na'r Daioni Pennaf, ysgariad oddiwrth yr Hwn sydd ganlyniad i bechod. Efe hefyd yw Llywydd Moesol y cydfyd, trefn sanctaidd yr Hwn y mae yn rhaid ei hategu. Perthyna y gair cosp, fel y gair euogrwydd, yn fanwl felly, i diriogaeth cyfiawnder llywodraethol Duw.

6. Onid digon yw dweud fod pechod yn hunangospol ?

Gwir yw fod truenusrwydd pechod a chydwybod euog yn gosp, ond nid yw wir y cospa Duw bechod â phechod pellach. Y mae y fath dybiaeth, ar y naill law yn anghyson â'r priodol-ddau Dwyfol, ac ar y llaw arall yn cymysgu pethau sydd a gwahaniaeth rhyngddynt, sef pechod a'r gosp sydd yn dilyn.

7. Beth yw yr eithafion arall ?

Dweud mai dim ond cerydd yn unig, neu yn bennaf yw cosp.

8. Pa fodd ein diogelir rhag y cyfryw gyfeiliornad ?

Y mae y gair *paideia*, cywiriad, diwygiad, neu gerydd (Heb. xii. 7), bob amser yn dynodi yr amcan o ddwyn y pechadur i edifeirwch, neu o ddisgyblu plant Duw nad ydynt eto wedi eu cwbl ryddhau oddiwrth bechod. Nid oes i gosp, fel y gyfryw y fath

amcan. Dynoda y geiriau a'i gesyd allan, megis marwolaeth, a distryw, bwrpas hollol wahanol.

9. Beth, ynte, yw cosp yn ol dysgeidiaeth y Beibl?

Yr amlygiad o ddigofaint Duw, yr hyn sydd fynegiant o'i sancteiddrwydd a'i gyfiawnder; nid er gwellhâd y pechadur, ond er diffyniad i'r ddeddf sydd yn ei erbyn, *yn erbyn pob anuwioldeb ac anghyfiawnder dynion* (Rhuf. i. 18).

10. Beth yw cosp briodol pechod, a weinyddir gan y digofaint Dwyfol?

Y gosp fwyaf, a'r unig un a fygythir yn erbyn pechod yw marwolaeth: marwolaeth yr enaid sydd yn pechu.

11. Ai difodiad yr enaid yw y farwolaeth hon?

Nage, yn ddios; parhâ yr ysprydoedd colledig i fod am byth; a *chospedigaeth dragwyddol* (Matth. xxv. 46), yw yr un a fygythir yn erbyn pechaduriaid cyndyn ar y dddear. Nid oes yr un gair am ddifodiad yn y Beibl.

12. Oni ddarlennwn mai marwolaeth naturiol ac amserol oedd y bygythiad cyntaf?

Gwnawn, ond nid am honno yn unig. Ffurf israddol o'r gosp yw marwolaeth naturiol, yn perthyn yn unig i ysprydoedd yn y cnawd; ac nid oes a wnelo â chospedigaeth pechod ynddo ei hun (*in the abstract*), mewn geiriau ereill nid yw amgen un o ddigwyddiadau cosp.

13. Beth, ynte, a olygir wrth ddosparthiad marwolaeth i'r tymhorol, yr ysprydol, a'r tragwyddol?

Perthyna y dosparthiad hwn i'r athrawiaeth am bechod fel y deil gysylltiad â threfn prynedigaeth dyn, hynny yw, â Phechod Gwreiddiol.

14. Oni raid i ni feddwl am raddau o bechod ac o gosp?

Rhaid hefyd yw gadael y rhai'n, i ddyfod atynt yn nes y'mlaen; nid oes a wnelom yn bresennol, ond â phechod a marwolaeth yn eu hegwyddorion.

15. Onid yw yr holl athrawiaeth hon yn anghyson â Chariad anfeidrol Duw?

Duw yn unig all ddweud beth sydd yn gyson â'i gariad Ef. Ond, rhaid yw ini gofio, (1) Y rhêd yr egwyddorion hyn trwy

ddatguddiad; (2) yr adlewyrchir hwy yng nghyfansoddiad natur, ac yng nghydwbybod dyn, megis y gwneir hefyd mewn llysoedd barn dynol, yr rhai ydynt eilun o'r Dwyfol, *Myfi a ddywodais Duwiau ydych chwi* (Ps. lxxxii. 6); ac yn (3) y rhaid eu hefrydu gyn belled ag y mae yr hil ddynol yn y cwestiwn, wrth droed y groes, *Pwy a edwyn nerth dy soriant?* (Ps. xc. 11).

16. Beth yw pwys y testun a ddyfynnwyd olaf ar yr holl bwngc?

Mai gallu (*orge*) ydyw digofaint Duw sydd mor anfeidrol a'i fodaeth; ac nad yw anffodion marwolion ond amlygiadau meidrol yn unig o'i rym anwrthwynebadwy Ef. Eithr nis adwaenir byth lawnder Ei soriant Ef gan y rhai a ofnant Dduw. I'r cyfryw y mae pechod a chospedigaeth pechod wedi eu dilëu.

17. Beth yw perthynas y Groes â'r pwngc?

(1) Dyry y prawf mwyaf ofnadwy o lymder a digofaint Duw yn erbyn pechod.

(2) Hi a brawf hefyd mai nid er cerydd neu ddiwygiad yn unig yr amlygir y digofaint hwnnw: nid oedd dichon i hwn fod yn ddirprwyol, er y gall cosp mewn ystyr arbennig fod felly.

(3) Y datganiad difrifol yw, *Crist a'n llwyr brynodd oddiwrth fellidith y ddeddf gan Ei wneuthur yn felldith trosom* (Gal. iii. 13). Hefyd, *Yr Hwn nid adnabu bechod a wnaeth Efe yn bechod trosom ni; fel yn gwnelid ni yn gyfiawnder Duw ynddo Ef* (2 Cor. v. 21). Gyda y rhai'n rhaid ini gymharu y ddau ddatguddiad cyfochrog o ddigofaint a chyfiawnder a geir yn nechreu yr Epistol at y Rhufeiniaid (i. 18).

18. Pa fodd ei heglurir y'ngghyfansoddiant natur?

Tystiolaeth trychinebau afrifed yw fod yna ddigofaint yn wasgaredig dros yr hollfyd, yr hwn a amcenir nid er cerydd yn unig.

19. Pa fodd ei heglurir gan y gydwybod ddynol?

Trwy yr ymdeimlad aniffoddol a gysyllta ddrwgweithrediad â haeddiant o gosp ddyledus. Gellir dweud fod y digofaint hwnnw a ddatguddir o'r nef (Rhuf. i. 18), yn cael ei ddatguddio hefyd yng nghalon dyn. Fe gydnebydd gwir lais cydwybod dyn am byth, gyfiawnder y digofaint Dwyfol.

PENNOD II.

Pechod Gwreiddiol.**1. Beth a olygir wrth Bechod Gwreiddiol?**

Deffinia yr ymadrodd hwn,—un, nas ceir mohono yn yr Ysgrythur—bechod yn ei berthynas â'r hiliogaeth ddynol fel y cyfryw. Pechod gwreiddiol yw y camwedd a'r llygredd hwnnw o eiddo dynolryw, o'r hwn y mae pob person a enir yn naturiol iddo yn gyfrannog ohono. Cyfeiria y gair "naturiol" at Un eithriad yn unig.

2. Beth yw ystyr y gair Gwreiddiol?

Cyfeiria yn syml ac yn unig at darddiad dynolryw o un cyff cyffredin. Bu i'n rhieni cyntaf, a greasid yn ddi-bechod, er hynny, drosglwyddo pechod i'w hiliogaeth, y rhai a etifeddant ganlyn-iaidau eu camwedd cyntaf hwy.

3. Y'mha ystyr y gellir trosglwyddo pechod?

Y mae y natur ddynol luosogedig yn bechadurus megis y mae wedi ymddieithrio oddiwrth y Ddeddf Ddwylol ac oddiwrth y sancteiddrwydd Dwylol.

4. Y'mha ystyr y trosglwyddir y camwedd, neu y *Culpa*?

Dim ond yn yr ail ystyr o euogrwydd: sef y REATUS PÆNÆ neu y rwymedigaeth i ddioddef canlyniadau pechod.

5. Y'mha ystyr y trosglwyddir y llygredd?

Dim ond yn yr ail ystyr o natur, neu ei thueddfryd foesol: yr hyn sydd yn wrthwynebol i'r natur Ddwylol.

6. Pa ddarnodiad o bechod gwreiddiol a geir yn y cyfryw fodd?

Mai trosglwyddiad yw o euogrwydd a llygredd etifeddol oddiwrth Adda i'w holl hiliogaeth.

7. Ond a ddarfu i'r Duw cyflawn a thrugarog ganiatau na chawsai hil Adda barhau ond o dan yr amodau celyd hyn yn unig?

Naddo: Bu iddo osod dynolryw dan gyfamod o rās trwy Gyfyngwr oedd i gael ei ddatguddio yng nghyflawnder yr amser.

8. Y'mha fodd yr effeithia hyn ar ein darnodiad?

Pechod Gwreiddiol sydd drosglwyddiad o euogrwydd a llygredd dan drefniant o rās.

9. A hyn yn ddealledig, beth ydynt elfennau ein hathrawlaeth?

(1) Y pechod gwreiddiol; (2) y pechod gwreiddiol dan gyfamod o rās; ac yn (3) y pechod gwreiddiol yn ei ddadblygiadau fel pechod gweithredol.

§ 1. Y Pechod Gwreiddiol.

1. Beth a olygir wrth y gair a'r ymadrodd hwn?

Pechod cyntaf Adda a chwypm dyn.

2. Y'mha fodd y cyfunir y ddau feddylddrych hyn?

Adda ydoedd ben naturiol a chynrychiolydd, a chyfanswm neu sylwedd dynolryw: fel ag yr oedd ei bechod a'i gwypm ef yn bechod ac yn gwypm i'r hiliogaeth ddynol.

3. Y'mha ystyr yr oedd hyn trwy gyfrifiad?

Y mae i gyfrifiad ddwy ystyr: sef, cyfrifiad ei weithred ei hun i'r gweithredydd, ac yn yr ystyr hon fe gyfrifwyd ei bechod i Adda; hefyd, cyfrifiad i arall ganlyniadau gweithred nad yw eiddo ei hun, ac yn yr ystyr hon fe gyfrifir gweithred Adda i'w ddisgynyddion, yn gyffredin gydag ef ei hun.

4. Sut y gallwn gyfarfod â gwrthddadl ragarweiniol rheswm yn erbyn y fath drosglwyddiad?

Mewn tair ffordd: (1) y mae holl drefn y prynedigaeth yn seiliedig ar yr ail fath hwn o gyfrifiad; (2) y mae iddo ei gyfatebiaeth yn holl ymwneud rhagluniaethol Duw â dyn: ac yn (3) yn y dirgelwch dwfn o'n perthynas âg Adda nid yw ein personoliaeth wahanfodol yn ddidoledig mewn gwirionedd oddiwrth yr eiddo ef.

5. Beth yw yr ymadrodd diwinyddol am hyn?

Mai Adda ydoedd ben naturiol a chyfamodol yr hiliogaeth.

6. Pa fodd yr ydym i ddeall y cytundeb pen-cyfamodol hwn?

(1) Golyga y gair cyfamod yn gyffredin osodiad, neu ddosparthiad, neu drefniad Dwyfol; ac yn yr ystyr hon yr oedd Adda

yn greadur a osodasid o dan gyfamod a gynhwysai ei hiliogaeth ynddo ef. Ond yn (2) y mae y gair cyfamod, drwy'r holl Ysgrythur, yn gysylltiol âg aberth ac â Chyfyngwr; ni osodasid Adda dan gyfamod yn yr ystyr hon.

7. Gan hynny, nid y Cyfamod Gweithredoedd Paraddwysaidd a olygir?

Ni wneir gymaint a chrybwylliad yn yr Ysgrythur am y fath gyfamod âg Adda fel meichniydd ei hiliogaeth. Ar wahân i'r Cyfyngwr ag oedd eto heb ei ddatguddio, fel creadur personol i Dduw yr ymwneir âg ef. Y cyfamod cyntaf oll, yng Nghrist y mae.

8. A yw yr adroddiad yn Genesis yn ategu y golygiad hwn?

(1) Y mae y cofnodiad ei hun yn ei awgrymu yn anuniongyrchol mewn dwy ffordd. Y mae yr enw Adda yn arwyddocâu Dyn: cyfeiria y gosp yn benodol at gystuddiau y'nglyn a genedigaeth dyn; ac y mae yr addewid gysylltiedig â hi yn cynnwys hâd ac eppil y wraig. Fel hyn y mae unioliaeth yr hiliogaeth âg Adda wedi ei chysylltu yn y modd mwyaf tosturiol â phrynedigaeth oedd i ddyfod.

(2) Ond teflir goleuni y Testament Newydd ar yr adroddiad; ac yn y goleuni hwnnw ni a ganfyddwn ddarod i Arall ymuno âg ef mewn meichniaeth ar ran yr hiliogaeth oedd i ddyfod.

9. Beth yw dylanwad hyn ar brawf dyn?

Disgrifir yn hanes y cwmp ganlyniadau y prawf y methodd Adda dano. Ond disgrifir hefyd gwrs y prawf fel ei parheir o dan amodau gwahanol dros ddynoliaeth. Prawf Adda yw prawf parhaus dyn: yn ei achos ef, fe'i dygwyd y'mlaen yn y rhagolwg ar Waredwr dyfodol, yn ein hachos ni fe'i dygir y'mlaen gyda chyfeiriad at Un yr Hwn sydd wedi dyfod.

10. Pa fodd y disgrifir cwrsweithrediad y cwmp?

Rhoddwyd deddf bendant, y'ng hyd â'r awdurdod drosti; ordeiniwyd gan Dduw, a chaniatâwyd i Satan i arfer temtasiwn allanol, neu i osod dyn ar ei brawf; yr oedd yr ewyllys ddibechod yn rhydd, neu, nid oedd dan unrhyw orfodaeth; ac ymddanghosodd pechod yn y natur ddynol fel anufudd-dod.

11. Beth a olygir yma wrth fod yr ewyllys ddibechod yn rhydd?

Amhechadurusrwydd yr ewyllys ydoedd ei bod yn un ág ewyllys Duw, ac o ganlyniad nad ydoedd eto yn hunanbenderfyniad personol. Ond yr oedd ynddi y dichonolrwydd i ddyfod yn ewyllys yr hunan, yn anibynnol ar Dduw.

12. Pa egwyddorion y rhaid i ni eu hystyried wrth efrydu y pwyntiau hyn?

Rhaid cofio yn (1) y disgrifir y fath gyflwr ar bethau nad oes gan y darlennydd brofiad ohono, a'r oll ohono, i ni, yn ddatguddiad o ddirgelwch anchwiliadwy; (2) y gosodir allan y cyfan mewn iaith gyda'r hon y mae ein profiad wedi ein gwneud yn gynefin; a chyflwynir y ddau bechadur cyntaf ger ein bron, fel pe wedi eu temtio, ac wedi syrthio o honynt fel ni ein hunain; (3) fod dawn y prynedigaeth a phrawf dyfodol agoshâol yn gyd-gysylltiedig â'r holl adroddiad; ac yn (4) mai hanes ffeithiau gwirioneddol yw hanes ffeithiau arwyddluniol hefyd: y mae pob digwyddiad yn y cofnodiad yn gysylltiedig ág arwyddion allanol, i'r rhai y perthyna ystyr ysprydol.

13. Onid yw hyn yn dra thebyg i'r dehongliad arall-egol neu chwedlonol am bechod?

Dysga aralleg wirionedd trwy ddameg nad yw yn seiliedig ar ffaith. Dyfeisia chwedloniaeth y gwirionedd a ddysgir, a'r hanes a'i dysga. Yma y mae gennym wir hanes yn gyd-wëedig ág arwyddluniau y rhaid synied am danynt yn ysprydol.

14. Beth yw a'n rhwyma i ddal gafael y'ngwirionedd yr hanes?

(1) Y mae yr adroddiad am Ddechreuad Pethau yn Genesis yn gofyn hynny: fel y mae dysgeidiaeth arwyddluniol yn seiliedig ar hanes yn y bennod gyntaf, felly hefyd y mae yn yr ail.

(2) Y mae y Testament Newydd yn ymdrin â'r adroddiad fel pe byddai yn hanesyddol. Cymer ein Harglwydd hyn yn ganiatâol pan y dywed, *Oni ddarllenasoch, i'r hwn a'u gwnaeth o'r dechreu eu gwneuthur hwy yn wrryw a benyw* (Matth. xix. 4); a phan y dywed mai *lleiddiad dyn oedd efe o'r dechreuad* (Ioan viii. 44). Felly y gwna St. Paul pan yr edrydd ddarfod i'r *sarff dwyllo Efa trwy ei chyfrwystra* (2 Cor. xi. 3), ac felly y llefara

eife trwy gydol ei athrawiaeth am y pechod gwreiddiol a marwol-aeth.

15. Y'mha fodd y mae ini ddeall y ddeddf bendant a'r awdurdod drosti?

(1) Yr oedd deddf Duw yn argraffedig ar galon dyn, ond nid fel deddf yn briodol felly; ac yr oedd yr un gorchymyn pendant, neu arbennig yn safon ufudd-dod. Felly y rhyngodd fodd i Dduw ar i'w creadur gael ohono wybod eisoes, mewn ystyr, y gwahaniaeth rhwng da a drwg.

(2) Yr oedd *pren gwybodaeth da a drwg* (Gen. ii. 17), yn ddeddf ac yn awdurdod deddf, pob un o'r ddau. Golyga awdurdod (*sanction*) y diffyniad a deflir o amgylch gorchymyn, pa un bynnag ai trwy addewid neu fygythiad; ond yr awdurdod gwarafunol yn unig oedd yn augenrheidiol, a chymres hwnnw y ffurf o ragfynegiad; *Gan farw, y byddi farw* (Gen. ii. 17).

(3) Ymgadw oddiwrth y pren fyddai ufudd-dod, sef y wybodaeth am y da, fel da. Bwyta ohono fyddai anufudd-dod a ddygai gydag ef wybodaeth ymwybodol o ddrwg hefyd. Cyn bwyta, damcanol ydoedd y wybodaeth; gwedi hynny ymarferol.

16. Y'mha fodd y disgrifir temtasiwn o'r tu allan?

(1) Nid oedd gan ddyn chwant (*epithumia*) pechadurus, gan yr hwn y'i *tynnid ymaith ac y llithid ef* (Iago i. 14), dim ond dymuniad, diniwed yn unig, am fwynhâd ysprydol ac anian-aidd (*sensuous*) a allasai droi yn bechadurus,—y chwant naturiol a allasai droi yn ddrygchwant, (*epithumian kakên* (Col. iii. 5).

(2) Caniatawyd i'r temtiwr, Satan, yr hwn ei hun ydoedd y pechadur dechreuol, i ymosod ar y dymuniad diniwed hwnnw, pa un bynnag ai ysprydol ai anianaid: ar y blaenaf trwy eu hannog y byddent *megis duwiau* (Gen. iii. 5); ar yr olaf trwy weithredu ohono ar y dymuniad i fwyta o'r ffrwyth gwahardd-edig.

17. A allwn ni ddeall cwrsweithrediad temtasiwn fewnol?

Na allwn. Yn gymaint ag yr ymesyd pob temtasiwn y mae gennym ni brofiad ohoni, y'ng hyntaf ar fam-chwant ag sydd eisoes mewn dyn, *ei chwant ei hun* (Iago i. 14). Cafodd ein Harglwydd, heb y cyfryw chwant, Ei demtio; ond nis gallai Efe bechu am Ei fod yn Fab Duw. Ofer, gan hynny, yw ceisio damcanu parthed dirgelwch sydd yn anolrheinadwy. Digon yw

y saif y dirgelwch ger ein bron yn ddatguddiedig. Dengys ffeithiau y gall y creadur ddyfod i ymwybodaeth euog o hunan ag sydd yn ysgaredig oddiwrth Dduw.

18. Beth ydoedd y pechod a ganlynodd?

(1) Dechreuodd y pechod yn ei gudd-gyfrinach mewn rhoddi gwrandawriad i arall yn hytrach na Duw; ac o'r foment honno allan, daeth Satan, mewn effaith, yn dduw y byd hwn.

(2) Fel y canfyddwn ef yn ei weithrediad, anianol ydoedd ar y cyntaf, *da oedd ffrwyth y pren yn fwyd, a thêg mewn golwg* (Gen. iii. 6): Yna ysprydol, yr oedd yn *ddymunol i beri deall*, neu yr oedd yn *ddymunol er gwneuthur un yn ddoeth* (C.D.)

(3) Ond yn y naill achos a'r llall, rhaid mai *yspryd y meddwl* (Eph. iv. 23), y pryd hwnnw, fel bob amser arall, ydoedd eisteddle y camwedd.

19. Y'mha ystyr yr ydoedd hyn yn gwypm dyn?

(1) Yr oedd yn weithredol, yn nghyntaf yn fewnol, ac yna yn allanol: *parakoē*, anufudd-dod. Yr oedd yn oddefol, sef yn gwypm o gyflwr o fywyd i gyflwr o farwolaeth: yr oedd yn *parapiōma*, yn gwypmiad yn ystyr wreiddiol y gair.

20. A yw dechreuad pechod dynol yn cael ei alw yn gwypm yn yr Ysgrythur?

Ydyw, yn anuniongyrchol. Dysga St. Paul mai *trwy gamwedd un y bu feirw llaweroedd* (Rhuf. v. 15). Yn llyfr Apocryph-äaidd Doethineb, fe gyfieithir y gair hwn yn gwypm: mynegir i Doethineb "gadw tad cyntaf-ffurfiedig (neu *protoplast*) y byd a'i ddwyn allan o'i gwypm." Yn y ddau le y gair a ddefnyddir yw *paratōma* (Doeth. x. 1.)

21. Paham, ynte, y darfu i ni lefaru am gwypm dyn neu ddynolryw?

(1) Am mai Adda, y dyn cyntaf, ydoedd pen naturiol yr hil ddynol; fel y mae Crist, yr Adda diweddaf, yn ben ysprydol iddi.

(2) Efa, *yr hon wedi ei thwylo, oedd yn y camwedd* (1 Tim. ii. 14) a dderbyniodd y ddedfryd gyntaf, a'r addewid gyntaf. Nid oedd hi ond *mam pob dyn byw* (Gen. iii. 20) yn unig, ond yr oedd Adda yn dad ac yn gynrychiolydd pawb.

22. Beth ydoedd canlyniad uniongyrchol y cwmp?

(1) Bu farw dyn, trwy ysgariad oddiwrth Dduw; yr hyn sydd ddirgelwch a adnabyddir yn ei effeithiau; (2) teimlodd *golyn angau* (1 Cor. xv. 56) yr hyn yw cydwybod pechod; (3) syrthiodd dan gaethiwed Satan, gan yr hwn yr oedd *nerth marwolaeth* (Heb. ii. 14); ac yn (4) daeth ei natur foesol yn andwyedig: felly daeth ei yspryd yn gaeth i'r cnawd, a dechreuodd y byd yr oedd efe i'w lywodraethu, lywodraethu drosto Ef.

§ 2. Y Pechod Gwreiddiol dan y Spsamob Gras.

1. Beth a gyfleir gan y pwngc hwn?

Y rhaid efrydu trosglwyddiad pechod i'r hiliogaeth ar bob pwynt mewn cysylltiad â'r ddarpariaeth fawr a wnaed er ei ddilêad, ei wrthweithiad, neu ei liniariad.

2. Pa fodd y mae sefydlu egwyddorion cyffredinol y cysylltiad hwn?

Trwy gyfuno a phwyso lluaws o neulltuolion, yng nghyntaf, yn hanes y cwmp, ac yn ail yn eglurhad y Testament Newydd ohono; gan roddi y flaenoriaeth i'r olaf.

3. Pa arwyddion sydd gennym yn yr adroddiad boreuol?

(1) Amlwg yw ddarfod cadw yn ol y barnau bygythiedig neu y rhai a ragfynegasid. Er fod corff y dyn yn *farw oherwydd pechod* (Rhuf. viii. 10), nid oedd y farwolaeth honno amgen na drwg oedd i ddyfod; er fod ei enaid *wedi ymddiithrio oddiwrth fywyd Duw* (Eph. xiv. 18), daeth Duw hyd at y pechadur serch hynny, gan ymgymundebu âg ef fyth; er iddo syrthio dan gaethiwed Satan, efe a glybu lais yn llefaru wrth y gelyn, *Efe*,—had y wraig—*a ysiga dy ben di* (Gen. iii. 15); er iddo gael fod y ddaear o'r tu allan yn wahanol i'r Ardd y gyrasid ef allan ohoni, y ddaear serch hynny, oedd i gynnal y bywyd ag oedd eisoes wedi ei bwrcasu.

(2) Tra yr eir heibio i hanes crefyddol Adda ac Efa, ni a ganfyddwn y cyfiwynir addoliad Duw trwy aberth, i'r adroddiad, fel ffaith sefydledig, a'r hon a rêd rhagddi yn ddidor. Yn fyr, fe lithra i fewn, mewn modd bendigedig, i fyd allanol dyn alltudiedig, drefn newydd i agoshau at y Bôd Dwyfol.

(3) Fel hyn, ymddengys fel pe y torasid ar draws effeithiau cyflawn pechod, gan Waredwr nad oedd eto wedi Ei ddatguddio; yr Hwn a gyflwynwyd gerbron megis rhwng y cwmp a gwasgariad yr hil syrthiedig.

4. Beth yw dysgeidiaeth y Testament Newydd?

(1) Yn gyffredin, mai Adda ydoedd ffurf (*type*) yr Hwn oedd ar ddyfod (Rhuf. v. 14): nid ffurf o'r Hwn a ddeuai i'w ddisgynyddion, ond ffurf bersonol o Gyn-ffurf bersonol (*personal Antitype*).

(2) Datguddir y trosedd dechreuol, a marwolaeth, sef ei gospedigaeth yn ei ystyr ysprydol gyflawn.

(3) Fe gysylltir pob disgrifiad o bechod gwreiddiol, fel y cyfryw, a phob cyfeiriad ato, yn ddieithriad, i raddau mwy neu lai uniongyrchol, a graslonrwydd yr lawn.

(4) Y mae i iaith arwyddluniol yr ardd lle y profwyd dyn, ei dehongliad; yn enwedig *Pren y bywyd*, a'r *hen sarff*, yr *hon a chwir diafol a Satan* (Dat. ii. 7; xii. 9). Ni a gasglwn mai arwyddlun, neu sacrament o anfarwoldeb ydoedd pren y bywyd; a darfod i alltudiaeth yr hil ddynol oddiwrtho, eu cau i fyny i ffordd arall o fyw.

5. Beth yw yr athrawiaeth am y ddau Adda?

A siarad yn fanwl, nid oes y fath athrawiaeth yn yr Ysgrythur. Gelwir y Gwaredwr unwaith gan St. Paul yn *Adda diweddaf*, fel ei gwahaniaethir oddiwrth y *dyn cyntaf Adda*: ac hyd yn oed hynny, gan gyfeirio at yr adgyfodiad (1 Cor. xv. 45, 47). *Y dyn cyntaf sydd o'r ddaear yn ddaearol, yr ail ddyn sydd o'r nef*. Wrth gymharu hyn â dysgeidiaeth arall, fe welir fod diwinyddiaeth wedi gwneud Adda a Christ yn ddau ben gwahanol.

6. Pa mor bell y deil y gyfochraeth?

(1) *Os yng Nghrist* (1 Cor. xv. 22), yr Adda diweddaf, yn niwedd yr hiliogaeth, y *bywheir pawb*, megis yn yr Adda ar ddechreuad yr hiliogaeth, y *mae pawb yn meirw*; yna rhaid y cynhwysa pob un o'r ddau ben holl ddynolryw.

(2) Ond tra y derbynia yr hiliogaeth rhyw fudd oddiwrth ei Phen Rhagorach, dim ond i ddynoliaeth newydd, mewn gwirionedd, y mae Efe yn Dad, yr hon yn ysprydol, ac nid yn anianol, a dderbynia ei bywyd oddiwrtho Ef. A'r berthynas rhwng y

buddiant cyffredinol hwnnw, a'r un cyfyngach dan sylw ydyw sydd yn bwysig i athrawiaeth y pechod gwreiddiol.

Y Gondemniad Gwreiddiol, Megis Dan Blas.

7. Y'mha fodd y mae y Pechod Gwreiddiol fel condemniad cyffredinol yn dal cysylltiad â'r dyn cyntaf, ac a'r Ail ddyn?

Y mae St. Paul, yn y bennod honno y gellir ei galw yr un glasurol gyda golwg ar y pwngc o bechod, yn dadleni ei ddechreuad yn y ffordd a ganlyn:—

(1) Mewn graddegaeth bum-plŷg, efe a'i holrheinia i Adda. *Trwy un dyn y daeth pechod i'r byd, a marwolaeth trwy bechod, ac felly yr aeth marwolaeth ar bob dyn, yn gymaint a phechu o bawb (neu ar y tir i bawb bechu).* Ni fuant feirw am eu pechod eu hunain, eto cyfrifwyd pechod iddynt yn ei ganlyniadau o Adda hyd Moses, i.e., arnynt hwy, y rhai ni phechasant yn ol cyffelybiaeth camwedd Adda. Yn fwy arbennig, *trwy gamwedd un y bu feirw llaweroedd; a mwy arbennig eto, trwy gamwedd un y daeth barn ar bob dyn i gondemniad.* A'r condemniad hwnnw ydoedd marwolaeth yn ei lawn rwyg: *trwy gamwedd un y teyrnasodd marwolaeth trwy un.* A hynny ar yr holl hiliogaeth; *trwy gamwedd un y daeth y farw ar bob dyn i gondemniad; a gwnaed llaweroedd yn bechaduriaid* (Rhuf. v. 12—19).

(2) Gan ddechreu gyda'r ail o'r pump, y mae St. Paul yn Ei gyflwyno Ef, yr Hwn oedd ar ddysod, a'r Dawn trwy rās yr UN DYN Iesu Grist, yr Hwn a ddaeth o gamweddau lawer i gyfiawnhâd (Rhuf. v. 14—19): neu weithred o gyfiawnder (*righteousness*) gwreiddiol cyfochrog â'r condemniad gwreiddiol; trwy yr hyn y bydd i'r sawl a'i gwnant yr eiddynt gael *teyrnasu mewn bywyd trwy Un Iesu Grist.* Canys trwy ufudd-dod Un, y gwneir, yn yr ystyr uchaf hon, llawer yn gyfiawn.

(3) A dilyn hyn oll ddisgrifiad pedwar-plŷg o gymeriad pechod cyffredinol, fel y mae mewn dyn, a phob disgrifiad yn dal cysylltiad â'r lawn, canys *Crist pan oeddym ni eto yn WEINLAID, mewn pryd a fu farw dros yr ANUWIOL. A nynt eto yn BECHADURIAID i Grist farw trosom ni.* Canys os pan oeddym yn ELYNION yn heddychwyd â Duw (Rhuf. v. 6, 8, 10). Y mae y Groes yng nghanol y pedwar.

(4) Trwy yr oll y mae y DAWN trwy ras yr Un Dyn yn teyrnasu ac yn llywodraethu dros yr athrawiaeth: Y GRAS yw y ffynnon a agorwyd i bechod ac i aflendid yn nechreuad y byd; a'r DAWN, y Dawn Rhâd yw y grâs hwnnw yn ei ffurf gyntaf a mwyaf cyffredinol (Rhuf. v. 15).

8. Ai dim ond gan St. Paul ac yn y bennod hon yn unig y dysgir yr athrawiaeth hon o gondemniad gwreiddiol a grâs?

Yn ffurfiol yma yn unig ei ceir, ond dysgir hi felly fel sail i holl gyfanwaith yr Iawn.

9. Pa effaith a garia y fath gyfuniad ar ein hathrawiaeth?

Diogelir hi rhag bod yn ymddanghosiadol anghyson â'r cyfiawnder Dwyfol. Nid yw condemniad i ddrygau bywyd marwol yn gysylltiedig â'r condemniad terfynol; nis canfyddir Duw yn cymodi Ei Hun â'r byd, ond y byd âg Ef Ei Hun; ni chospir neb yn dragwyddol am bechod Adda; a sicrheir i bob credadyn edifeiriol dra-helaethach bendith nag a gollwyd gan ei rieni cyntaf.

10. Am ba herwydd ynte y rhaid i'r darnodiad o'r pechod gwreiddiol ddiogelu yr elfen o gondemniad etifeddol oedd wedi ei dirymu?

Am yr hawlia cymeriad dirprwyol a chyffredinol gwaith adferol Crist honiad clir ohono.

Y Llygredd Gwreiddiol, Megis Dan Blas.

11. Y'mha fodd y mae y Pechod Gwreiddiol fel llygredd yn gysylltiedig â'r dyn cyntaf, ac â'r ail ddyn?

Nid yw mor uniongyrchol â'r condemniad ohono; ond rhagdybir trwy yr holl Ysgrhythur ddarfod i effaith yr Iawn gadw natur dyn rhag llwyr ddinystro.

12. Pa rai ydynt y tystiolaethau Ysgrhythyrol a arweiniant i'r casgliad hwn?

Gellir eu dosparthu o dan dri phen: (1) y rhai hynny a gynrychiolant fuddiant yr Iawn fel yr oedd wedi ei rag-ddarparu cyn i bechod ddechreu; (2) y rhai hynny a fynegant am Grist fel Goleuni pob dyn: ac yn (3) y rhai hynny a gyfeiriant yn arbennig at ddylanwad yr Yspryd Glân fel yn ymryson â dyn o'r dechreuad.

13. Danghoswch gyfeiriad y cyntaf?

Mynegir fod yr Oen aberthol wedi ei *ragordeinio cyn sylfaenu y byd*, ac eto *Yn hwn a laddwyd er dechreuad y byd*, (1 Petr i. 20; Dat. xiii. 8). Y mae buddiant yr Iawn yn ddeublyg yn ei berthynas â'r byd: fel dyhuddiant, darfu iddo ddilëu condemniad yr hiliogaeth, ac fel Iawn neu Gymod sicrhaodd Ysryd y Grâs.

14. Ai priodol galw hyn yn adferiad yr Ysryd?

Gwell fyddai dyweud na lwyr gymerwyd ymaith yr Ysryd. Ni ddarfu i'r Mab, yn nelw yr Hwn y crewyd dyn, ymadael â'r hiliogaeth, er y dywedir am dano mai Dawn i ddyn ydoedd. Ac mewn cyffelyb fodd ni ddarfu i'r Ysryd adael yr hiliogaeth, er y dywedir am dano Yntau hefyd, mai Dawn ydyw (Ioan iii. 6; iv. 10; vii. 39). Y mae y Dawn (*dorea*) yn gymhwysadwy at y ddau, er y cyfeiria, yn hytrach, yn yr ymadrodd hwn (Rhuf. v. 15, 17), at ryddhad oddiwrth gondemniad.

15. Pa dystiolaeth y deuwn o hyd iddi yn hanes y cwmp?

Fod yr ymwybodaeth o euogrwydd yn ein rhieni cyntaf yn ymdeimlad o gywilydd hefyd, a *hwy a wybuant eu bod yn noethion* (Gen. iii. 7, 8), ac *ymguddiodd Adda a'i wraig o olwg yr Arglwydd*. Ni chaniatâ hyn y syniad o farwolaeth lwyr y natur ysprydol; torriad gwawr edifeirwch yw cywilydd.

16. Pa dystiolaeth yn nadblygiad boreol pechod?

Ni a welwn er fod, *holl fwriad meddylfryd ei galon yn unig yn ddrygionus bob amser* (Gen. vi. 5, 3): eto fod Ysryd Duw yn ymryson â'r pechadur. *Ni farna fy Ysryd mewn dyn yn dragwydd oblegid cnawd yw efe* (neu yn eu gŵyriadau cnawd ydynt, Gen. vi. 35). Tebygol yw fod i'r gair cnawd, yma, yr ystyr gyflawn a roddes ein Gwaredwr iddo.

17. Pa dystiolaeth yn y cyfeiriadau cyffredinol a geir at lygredd gwreiddiol yn yr Hen Destament?

Gall dau gyfeiriad wasanaethu yma dros luaws; sef eiddo Job (xiv. 4), *Pwy a ddry beth glân allan o beth aflan?* *Neb.* Ac eiddo Dafydd,—*Mewn pechod y beichiogodd fy mam arnaf* (Ps. li. 5). Ond gwna y cyfeiriadau hyn a phob rhai cyffelyb, bechod mewnol y galon yn sail i apelio at drugaredd Duw, fel pe byddai gan hyd yn oed y llygredd ei hun hawl ar dosturi.

18. Beth yw y dystiolaeth o elddo y Gwardwr y cyfeiriwyd ati?

(1) *Yr hyn a aned o'r cnawd, sydd gnawd* (Ioan iii. 6). Rhaid yw i ni yma nodi allan ddau beth, sef, y gelwir llygredd gwreiddiol yn gnawd, megis y gwneir yn nechreuad hanes dyn; ac y cyflwyna ein Harglwydd ger bron y dueddfryd etifeddol hon yn unig er mwyn ei chyferbynnu â'r enedigaeth newydd: *Yr hyn a aned o'r yspryd, sydd yspryd*. Felly, fel y gwelsom fod y tystiolaethau i gondemniad gwreiddiol yn gyd-wëedig â'r cyfryw a ddynodant waredigaeth wreiddiol; felly hefyd y mae y llygredd gwreiddiol yn gyd-wëedig â darpariaeth wreiddiol trwy yr hon yr aneffeithiolir y cyfryw lygredd. (2) Pan y dywedodd ein Harglwydd, *Os chwychwï gan hynny, a chwï yn ddrwg, a fedrwrch roddi rhoddion da i'ch plant* (Matth. vii. 11), Efe a ddysgodd yn y modd mwyaf croyw bechod gwreiddiol a grâs gwreiddiol mewn natur ddynol.

19. Pa ddylanwad a garia hyn dros yr athrawiaeth?

Dengys ddarfod gadael rhywbeth ar ol yn y dyn i'r drefn brynedigol weithredu arno; ac na lwyr ddilëwyd delw Duw; a chan hynny, na ddylid ystyried natur ddynol fel yn anobeithiol o lygredd; ac fod ewyllys y dyn cyffredinol dan fesur o râs ataliol, cymhelliadol, a chynhorthwyol.

20. Beth a'n cyflawnha i briodoli ohonom hyn i ddy-lanwad yr Yspryd?

Mai Efe yw yr Hwn sydd, ac a fu erioed yn Weinydd gwaith Cyfryngol Crist; a chan mai Efe yw *Yspryd y grâs* (Heb. x. 29), rhaid yw i bob tuedd at ddaioni ddyfod oddiwrtho Ef.

21. Pa oleuni a deifl hyn ar natur ddynol?

Dengys nad ydoedd wedi ei chwbl lygru, ac eglura y pa fodd yr oedd y *dyn mewonol* yn aros (Rhuf. vii. 22), ac nid heb rhyw hedyn o ddaioni ynddo. Rhydd hyn gyfrif hefyd dros fod gan y Cenhedloedd, *weithred y ddeddf yn ysgrifenedig yn eu calonnau* (Rhuf. ii. 15), a rhydd eu hystyr gywiraf i ymadroddion St. Paul,—*Er nad yw Efe yn ddiau nepell oddiwrth bob un ohonom* (Act. xvii. 27, 22).

22. Beth yw ei berthynas â rhyddid yr ewyllys?

A siarad yn fanwl, ni effeithiwyd gan y cwmp ar ryddid yr ewyllys, er i'r rhyddid hwnnw beidio fel ymogyddiad yr ewyllys

tuag at ddaioni. Ond bu i'r adferiad oedd ar ddyfod roddi i'r ewylllys duedd ddirgelaidd tuag at y da fel peth oedd wedi ei golli; argraffodd arni ymataliad arbennig rhag ddrwg, a gweinyddodd iddi fesur o allu i geisio adferiad.

23. Pa ymadroddion a ddefnyddir yn y Testament Newydd i ddarnodi y Pechod Gwreiddiol fel llygredd?

Yn y cyffredin, pechod, megis pan y dywedir ddarfod iddo *deyrnasu mewn marwolaeth* (Rhuf. v. 21). Ond fe sonnir am dano gan St. Paul fel *Fy nghnawd i* (Rhuf. vii. 23), neu *Deddfyn yr aelodau*, syniad neu *feddwl y cnawd* (Rhuf. viii. 7). Nid hunanaeth, yw na'r hen ddynd chwaith;—amlygiad o'r cnawd yw y blaenaf; ond dynoda yn olaf mewn ystyr ffugyrol ei dyfiant hyd addfedrwydd.

24. Y cnawd, ynte, yw y prif ddarnodiad?

Ie: y mae i'r gair cnawd ddwy ystyr yn yr Ysgrhythur: sef y natur ddynol fel y mae yng nghorff cyfnewidioldeb, a bu ein Gwaredwr yn yr ystyr honno yn *gyfrannog o'r un pethau* (Heb. ii. 14); a natur ddynol fel y dylanwedir arni gan bechod, ac ni ddaeth ein Harglwydd ond yn unig *yng nghyffelybiaeth cnawd pechadurus* (Rhuf. viii. 3).

§ 3. Pechod, Gwreiddiol a Gweithredol.

1. Pa berthynas sydd rhwng y rhai'n?

Pechod Gwreiddiol, fel y mae'n dueddfryd fewnol, yw ffynhonnell holl bechodau neualltuol dynolryw, a phob ffurf ar arferion pechadurus.

2. Pa fodd y'n dysgir i ddeall y Pechod Gwreiddiol fel y bodolai yn rhagflaenorol i bechod gweithredol?

Mynegir ei fod yn bresennol, ond mai gallu cuddiedig yw hyd onis deffröer gan y ddeddf: y mae adeg yn bod pryd y cydddeffry yr ymwybyddiaeth foesol o bersonoliaeth a phechadurusrwydd, ni ystyrir y bodola y naill heb y llall, byth. Tardd i fyny y Myfi a fy euogrwydd megis un.

3. Y'mha fodd y cadarnheir hyn gan St. Paul?

Yn y seithfed bennod o'r Rhufeiniaid, a gynhwysa megis hanes pechod yn y dyn, efe a edrydd ei fod yn *fyw heb y ddeddf* unwaith, ond *adfywiodd pechod, a minnau a fûm farw.* Canys trwy y *ddeddf y daw yr adnabyddiaeth o bechod* (Rhuf. vii. 9; iii. 20): mewn rhyw ystyr y mae hyn gynwired y'mhob dyn o hil Adda ag ydoedd yn Adda ei hun.

4. Oni wna hyn mai ymddanghosiad pechod yn y dyn unigol yw ei gwmp ef?

Nid ydym i dybio gan ddarford dilëu condemnïad y pechod gwreiddiol trwy'r Iawn, ddarford hefyd ddinystrio ei dueddfryd. Hyn yw ei ddirgelwch y llecha yn y natur yn barod i'w ddat-guddio. Nis gellir meddwl am unrhyw gwmp newydd.

5. Gan mai hyn yw egwyddor derfynol y dueddfryd bechadurus, pa egwyddorion a lywodraetha yr amrywiol amlygiadau ohoni?

Cyfododd y rhai'n oddi tan luaws o ddylanwadau. Fel y daw y dueddfryd ddofn at bechod oddiwrth ben cyntefig yr hiliogaeth, felly y gellir etifeddu ffurfiau o'r dueddfryd honno oddiwrth gyn-dad mwy uniongyrchol. Dyry cyfansoddiad gwanfodol nodweddiad i bechadurusrwydd gwanfodol. Ac felly yr effeithia pob sefyllfa neu gws mewn bywyd ar yr amlygiadau ohono, gan roddi cyfeiriad iddynt.

6. Pa rai ydynt y prif ddosparthiadau ar bechod gweithredol?

Nid yw bywyd ei hun yn fwy amrywiaethol na'r pechod sydd mewn bywyd. Ond y mae yn bod egwyddorion penodol o drefniant.

(1). Yn ei berthynas â'r pechadur ei hun, y mae ei bechod yn gynhwysedig mewn meddwl, neu air neu weithred; y mae hefyd bechod y cnawd, trwy ddefnyddiad o'r corff, ac eiddo yr yspryd fel y mae yn anibynnol ar y corff.

(2) Yn ei berthynas â'r gwrthddrych; yn erbyn Duw y mae pechod yn bennaf; y mae pechod hefyd yn erbyn y cymydog ac yn erbyn y dyn ei hunan.

(3) Yn ei berthynas â deddf, y mae pechod o gyflawniad ac o omeddiad; y mae hefyd yn wirfoddol ac yn anwirfoddol:

adrennir yr olaf hwn i bechodau o anwybodaeth, ac o fyrbwyll-dra ac o wendid.

(4) Yn ei berthynas â themtasiwn, pechod yw *chwant* y *cnauld*, neu *chwant* y *llygaid*, neu *falchder* y *bywyd* (1 Ioan ii. 16).

7. Beth ellir ei ddweud am y fath ddosparthiad?

Mai amlygiad o'r un a'r unrhyw egwyddor yw pob pechod; y rhaid barnu y gwahanol ddosparthiadau o bechod yn ol yr egwyddor yna, ac nid yn ol eu hamrywiaeth ymddangosiadol mewn drygdedd; ac yn olaf, fod y fath ddadansoddiad yn ddefnyddiol yn bennaf mewn moeseg Gristionogol.

8. Beth yw yr athrawiaeth Ysgrythyrol am raddau mewn pechod?

Fe gydnabyddir graddau mewn euogrwydd yn y ddau Destament: (1) yn yr Hen Destament ni a ddarlennwn am ddirgel bechodau, a phechodau rhyfygus; am bechodau y derbynnid dyhuddiant drostynt, ac am bechodau nad oedd gan y trefniant Lefeticaidd ddarpariaeth er eu maddeu. (2) Llefara ein Harglwydd yn y Testament Newydd am y dyledwr o *bum cân ceiniog* ac arall am *ddeg a deugain* (Luc vii. 41), ac yn fwy penodol fyth am yr hwn oedd *fwy ei bechod* (Ioan xix. 11).

9. Pa fodd y cymhwysir y gwirionedd hwn gan y Testament Newydd?

(1) Fe'i cymhwysir er dangos fod trugaredd Duw, trwy yr Iawn mawr, yn estynedig at bob camwedd: ac er arddangos y cariad dwyfol a *guddia luaws o bechodau* (Iago v. 20), fel esiampl i'r dynol.

(2) Er cyfeirio ein meddwl at unig ganolbwynt a tharddle drygioni; y ffynhonnell sy' raid ei glanháu.

(3) Er argraffu arnom, gan nad pa mor ymarhous yw Duw, mai *pwys bynnag a gadwo y gyfraith i gyd oll, ac a ballo mwyn un pnwgc*, ei fod yn *euog o'r cwbl* (Iago ii. 10).

10. Beth a ddysgir parthed cynnydd a graddau pechod?

(1) Y ffurfia gweithredoedd o drosedd y cymeriad cyffredinol ac arferion penodol: cyfranna pob gweithred tuag at hyn, pa mor ddiarwybod bynnag y cyflawniad ohoni, yn y sawl a *gynefinwyd â gwneuthur drwg* (Jer. xiii. 23).

(2) Fod gwrthwynebu grâs yn cryfhâu y gallu i'w wrthwynebu; hyd onis del dynion i fod a'u *cydwybodau wedi eu serio* ac i *wrthwynebu yr Yspryd Glân yn wastadol* (1 Tim. iv. 2; Act. vii. 51).

(3) Yna trydd pechod naill ai yn ddideimladrwydd, neu ragrith, neu gabledd: tair sefyllfa, neu wahanol ffurfiau o'r sefyllfa derfynol, a wahaniaethir yn yr Ysgrythur. Dynoda y gyntaf galon-galedwch *trwy dwyll pechod* (Heb. iii. 13); dynoda yr ail yr esgora difaterwch am bethau Dwyfol a'r ffug-anrhydeddiad ohonynt; tra y datgana y trydydd deimlad y galon mewn dirmyg anuwiol o Dduw a chrefydd.

(4) Ffrwyth yr oll yw yr hyn a eilw yr Ysgrythur yn ymgalediad neu wrthodedigaeth, yr hyn sydd flaenbrawf yn y byd hwn o'r ddedfryd derfynol: pechod a chosg yn gyfunedig.

11. Beth yw y ffurf eithafol o wrthodedigaeth?

Y ddedfryd a gyhoeddwyd eisoes ar y pechod yn erbyn yr Yspryd Glân, fel y gelwir y pechod hwnnw yn gyffredin, a'r hwn deirgwaith y gedy y Testament Newydd ef o'r tu allan i gylch gobaith, sef

(1) Gan ein Hiachawdwr, yr Hwn a ddywed mai *Pwy bynnag a becho yn erbyn yr Yspryd Glân ni faddeuir iddo, ond y mae efe yn euog o bechod tragwyddol* (Marc iii. 21). Ymwrthodiad yw hyn o'r amlygiad diweddaf a chliriaf o'r Tri-Un-Duw.

(2) Yn yr Epistol at yr Hebreaid, y mae y rhai nad ydynt yn *ymestyn at berffeithrwydd*, ond a wrthodant yr Iachawdwr, gan *Ei osod yn watwar*, yn gyfryw nas maddeuir iddynt byth, am *nad oes aberth dros bechodau wedi ei adael mwyach* (Heb. vi. 1, 6; x. 26); hwy a wrthodant yr unig noddfa.

(3) Am hynny, yn iaith St. Ioan, cyflawni y maent y *pechod i farwolaeth* (Ioan i. 5, 16), dros y rhai nis anogir ni gan yr Apostol i weddio.

12. A yw y fath bechod yn gyson a chyflwr o brawf dan drugaredd anfeidrol Duw?

Rhagdybir y'mhob engrafft y caua y pechod ei hun allan oddiwrth drugaredd. Ond cyflawni y trosedd diweddaf hwn nis gall neb sy'n arswydo rhagddo, neu a ofna ddarfod iddo ei gyflawni.

13. Beth yw nodweddiad pechod yn yr ail-enedig?

A siarad yn fanwl, y mae wedi ei ddarostwng i bechod gwreiddiol; *Canys pob un a aned o Dduw, nid yw yn gruneuthur pechod* (1 Ioan iii. 9). Y pechod gwreiddiol, dywededig yw'r CNAWD, yr hwn yn yr hunanfyneigiant cyntaf ohono a *chwenycha yn erbyn yr Yspryd*; ond y mae y rhai ailenedig wedi *croes-hoelio* ohonynt y *cnawd*, a'i *wyniau*, a'i *chwantau* (Gal. v. 17, 24); a dyry hyn nodwedd neulltuol a chythruddol i'w pechod. Ond y mae eiriolaeth arbennig ar gyfer y cyfryw bechodau: *Y mae i ni Eiriolwr gyda'r Tad* (1 Ioan ii. 1).

14. Y'mha fodd y gwneir i ffwrdd yn effeithiol â phechodau gweithredol?

Yr unig ffordd yw trwy symud ymaith y pechod sydd o'r tu cefn i'r oll.

15. Yn y cyfamser, a gyfrifir pechod i'r ailenedig?

Nid oes gan hynny yn awr ddim damnedigaeth i'r rhai sydd yng Nghrist Iesu (Rhuf. viii. 1). Ond am y drwg sydd yng ngweddill "y mae ganddo ohono ei hun natur pechod," ac y mae mewn angen parhâs am rinwedd y gwaed sydd yn *glanhâu oddiwrth bob pechod*, ac o'r ymarferiad parhâs o edifeirwch (1 Ioan i. 7).

§ 4. Ymddriniaeth Ganesiol.**1. Beth yw rhediad meddwl wedi bod o berthynas i bechod?**

(1) Gellir dweud am y drwg a ddylanwada ar ddynolryw ddarfod iddo gael ei deimlo bron yn gyffredinol fel ymwybyddiaeth o euogrwydd: ac fod y'mhob iaith rywbeth sydd yn cyfateb i'n gair ni am bechod. (2) Darfod i feddyliau dynion droi i ffurf ymofynol o barth i ddirgelwch ei darddiad, a'i gyffredinolrwydd: mewn gair y'nghylch yr hyn a elwir gennym yn Bechod Gwreiddiol.

2. Y'mha fodd yr eglurir hyn gan y prif ddamcaniaethau am bechod?

(1) Yn y cyfundrefnau hynny o'r tu allan i ddatguddiad, ac mewn damcanion anibynnol ar ddysgeidiaeth Gristionogol, y mae dau fodd amlwg o feddwl wedi ffynnu, gelwir un, yn y

cyffredin, yn Oll-dduwaidd, a'r llall yn Ddeulaidd:* dyry y ddeufodd gyfrif am darddiad drygioni.

(2) A'r pwngc yr ymdriniodd y rhan fwyaf o'r dadleuon a fu yn yr Eglwys Gristionogol âg ef, yw perthynas trosedd cyntaf Adda â chamweddau ei olafiaid.

3. Beth ellir ei ddweud am y syniadau Dwyreiniol am bechod?

Nid yw y crefyddau Indiaidd yn fanwl Oll-dduwaidd yn eu syniadau; gan yr ystyrir y drwg fel rhywbeth sydd yn y creadur yn ei ysgaru oddiwrth Dduw, a'r hwn y rhaid ei glirio allan mewn cyflyrau olynol o fodolaeth. Dysgai crefydd y Zend,† neu y Ddeulaeth Bersiaidd a haerai ddwy egwyddor dragwyddol, gorfforedig yn Ormuzd—(Ahura-Mazda) ac Ahriman (Angro-Mainyus), ddrwg pechod yn y modd llymaf, ac mewn rhyw ystyr ei ddiddymiad terfynol.

4. Pa olygwedd a gymer Oll-Dduwiaeth ddiweddar ar bechod?

Deil mai ymddadbygiad naturiol o'r unig sylwedd tragwyddol yw y drwg; y tardda oddiwrth derfynolder y creadur fel rhyw amlygiad diflanedig o'r anfeidrol; a dysg nad euogrwydd personol yw, ond ymsymudiad tuag at y da.

5. Y'mha agwedd y darfu i'r olygwedd Ddeulaidd ymddangos yn y grefydd Gristionogol?

(1) Yn yr heresiau Gnostigiaidd, a haerent mai defnydd yw eisteddle y drwg; ffurf ddiweddaf yr hon ydoedd Manichêaeth.‡

(2) Yn yr holl ddamcaniaethau hynny, hen a ddiweddar a syniasant mai natur anianaidd || (*sensuos*) dyn yw eisteddle pechod.

(3) Mewn tybiadau penodol y'ngghylch trosglwyddiad y duedd ddrwg i'r enaid yn unig, tra y cynysgaethir yr yspryd difrycheulyd gan Dduw.

(4) Ac yn y dybiaeth dra chyffredinol honno, mai angenrhaidd yw i'r corff, hyd awr angau, fod yn gorff pechod; yr hyn sydd yn un o weddillion Gnostigiaeth.

* Gwel Nodiad XXX.

† Gwel Nodiad XXXI.

‡ Gwel Nodiad XXXII.

|| Gwel Nodiad XXXIII.

6. Beth ydoedd tystiolaeth gyffredinol ysgrifenywyr paganauidd?

Fe geir yn yr oll o ysgrifeniadau goreu yr hynafiaid yr addefiad "na enir neb yn ddibechod," na neb ychwaith heb rhyw hedyn o ddaioni ynddo. Er hynny traethir y syniad yn fynych ddarfod i ddyn ymddirwio oddiwrth gyflwr uwch.

7. Beth ydoedd tystiolaeth Iddewiaeth y cyfwng?

Diogelodd y traddodiad "mai y dyn cyntaf ydoedd yr achos o farwolaeth i'w holl ddisgynyddion:" yn ol y Rabiniaeth ddiweddarach "*Adam postremus est Messias*—yr Adda diweddaf yw y Messiah.

8. Y'mha fodd y coleddid yr athrawiaeth am bechod yn yr Eglwys foreuol?

Nid oedd wahaniaeth barn yn y tair canrif gyntaf am gyffredinolrwydd pechod. Ni ymdrinid llawer â pherthynas pechod gwreiddiol âg Adda; ond dechreuodd dwy ffrwd o feddwl daro i fewn parthed llygredd cynhennid.

9. Pa ffurf a gymerth y gŵyriad hwn?

Daliai yr eglwysi bron yn gyffredinol ddarfod i'r cwmpy adael ar ol rhyw weddillion o ddaioni, ar y rhai y gallasai "grâs mewnol rhagfynedol" weithredu. Ystyrrid y diogelai hyn ewyllys rydd: heb ymdrin â natur yr ewyllys a'i rhyddid. Daliai Eglwysi y Dwyrain yn gryfach yn hytrach nag Eglwysi y Gorllewin fod y gallu gan ddyn i gydweithredru â grâs. Bu i'r ddwy duedd gyrraedd eu heithafion yn y ddadl Belagiaidd.*

10. Yn y cyfamser, pa ymdriniaethau ereill a dueddai i'r casgliad hwn?

Ffynnai tair damcaniaeth parthed tarddiad yspryd dyn: sef

(1) Rhaghanfodiad ysprydoedd, eu cwmpy cyn Adda, a'u dyfodiad i fywyd daearol er ymbureiddiad, megis y dysgir gan Origen mewn cysylltiad âg adferiad cyffredinol.

(2) Crëedigaeth: hynny yw, fod pob yspryd yn grëedig ac yn osodedig mewn enaid dynol, gan dderbyn ohono naws lygredig trwy yr undeb hwnnw.

* Gwel Nodiad XXXIV.

(3) Damcaniaeth Trosglwyddiant: sef cenhedliad yr holl ddyn, corff ac enaid ac yspryd, yn ol deddf ddirgeledig Duw, dan yr hon y ffurfiwyd y dyn cyntaf.

11. Pa ddylanwad a gariodd y rhai'n dros ein hathrawiaeth?

(1) Gwnelai y gyntaf bob pechadur yn y byd yn gyfrifol am ei bechod gwreiddiol. (2) Ffafiai yr ail y damcanion esmwythach o lygredd; gan ei wneud yn ddrwg yn hytrach na phechod. Ond cynhwysa ar y llaw arall gyhuddiad pur erwin yn erbyn y Cyfiawnder Dwyfol. (3) Y drydedd yw yr unig un a rydd le i'r syniad o hiliogaeth ddynol, neu ddynolryw, yr hon a olygir fel undod cyfamodol ac a lygrwyd unwaith am byth.

12. Beth ydoedd canlyniadau y ddadl Belagiaidd?

(1) Dysgai Pelagius y genid dynion yn yr un cyflwr y crëwyd eu tad cyntaf; ond fod ganddynt i ymdrechu yn erbyn esiampl ddrwg, a chymhelliadau y cnawd; nad yw grâs yn ddim amgen na'r dueddfryd naturiol at y da, yr hon y gweithredir arni gan y ddeddf ac esiampl Crist; ac y gall dyn ddewis y da ohono ei hun, ac y medr trwy ddisgyblaeth gyrraedd perffeithrwydd.

(2) Dysgai Awstin, ar y llaw arall, ddarfod i bawb "bechu yn Adda," yn neu gyda yr hwn y collasant eu rhyddid ewyllys, hynny yw, daeth yr ewyllys yn benderfynadwy yn unig ac o angenrheidrwydd tuag at y drwg, yr hyn sydd fel eu gilydd yn euogrwydd ac yn llwyr lygredigaeth.

(3) Cadwai Hanner-Pelagiaeth dir canol: a chyflwynodd ohoni y syniad na ddarfu y cwmp amgen na gwanychu yr ewyllys a gallu dynion; ac fod y daioni sydd yng ngweddill yn ddigonol i ddechreu yr hyn a ddwg grâs i addfedrwydd. Hi a ystyriai, serch hynny, fod y grâs hwn yn un cyffredinol.

13. A fu i'r tair ffurf o athrawiaeth a nodwyd barhau?

Y mae y gyntaf, dichon, wedi marw, gan nas delir hi, ond yn unig, gan y sawl fel Pelagius yntau a wadant ac a wrthodant yr angenrheidrwydd am Iawn. Delir yr ail gan yr Eglwys Calfniaidd. Y drydedd, gyda gwahaniaethau, yw yr un a ffynna yn bresennol.

14. Pa wahaniaethau?

Bu raid i bob athrawiaeth am y pechod gwreiddiol gymeryd i ystyriaeth y rhywbeth hwnnw sydd yn natur dyn syrthiedig a

ddengys nad yw yn gwbl a hollol farw mewn ysgariad oddiwrth Dduw. Hanner-Pelagiaeth a wnaeth yr ymgais gyntaf; ac y mae pob damcaniaeth ddilynol wedi ceisio deffinio i raddau mwy neu lai, tarddiad, gwerth a therfynau y gweddill daioni crybwyll-edig.—Olrhain y cyfryw fyddai olrhain hanes meddwl diweddar ar y pwngc o bechod.

15. Beth ydoedd rhediad y duedd honno o feddwl yn flaenorol i'r Diwygiad?

(1) Dysgai y mwyafrif o'r Ysgolwyr, yn ystod y canol-oesoedd, fod uniawnder gwreiddiol dyn yn ddawn oruwchnaturiol er ei alluogi i fedru ohono gadw dymuniadau naturiol y cnawd o dan reolaeth yr yspryd; ddarfod i'r atalfa hon gael ei cholli trwy bechod; mae y golled hon ydoedd y pechod gwreiddiol fel condemnïad, ac fel gwanychïad y gallu naturiol; y cymerir yr euogrwydd ymaith yn y bedydd, ac er yr erys chwant, nas cyfrifir fel pechod; ac y rhoddir grâs yn flaenorol i fedydd, trwy yr hwn y gall y pechadur ddarparu ei hun am gyfiawnhâd.

(2) Rhoddes Cymanfa Trent i hyn ei ffurf terfynol.

16. Beth oedd tueddiad meddwl y Cyffesiadau Luther-aidd a Chalfinaidd?

Bu iddynt gydsynio ar y cyntaf i gyflwyno ger bron ddogma eithafol am y pechod gwreiddiol: megis condemnïad yr hiliogaeth, a llwyr ddilëad gwir fywyd ysprydol.

17. Pa ddadl a gododd parthed trosglwyddiad euog-rwydd?

Y ddadl am a raid ei olrhain yn UNIONGYRCHOL i bechod Adda, a'i i dir CANOLOG, ar y dybiaeth mai y llygredd sydd yn achlysuero ac yn rhoddi bôd i'r euogrwydd.

18. Sut y cydwedda hyn â'n hathrawiaeth?

(1) Yn athrawiaeth y Rhagarfaethiad a haera nad oedd prynedigaeth yn ddarparedig ar gyfer rhan o'r hiliogaeth, y mae y ddysgeidiaeth o gyfrifiad Uniongyrchol yn hollol wrthwynebol i drugaredd Duw.

(2) Fel y mae yn gysylltiedig â'r athrawiaeth o bryn-edigaeth gyffredinol, y mae cyfrifiad uniongyrchol yn sail angenrheidiol i fuddiant gwreiddiol cyffredinol yr Iawn. Y mae cyfrifiad digyfrwng ac un canolog yn cydweddu yn dda;

cymesurir y blaenaf gan y ddawn râd o gyfiawnder i ddynolryw; a'r olaf, pechod ei natur yw a gyfrifir ar yr hwn a'i gwnêl yn eiddo ei hun.

19. Y'mha beth y cymedrolodd Lutheriaeth ?

Yn yr hyn a elwir Synergiaeth,* hynny yw yr athrawiaeth o gyd-weithrediad, neu Hanner-Pelagiaeth, gydag un gwahaniaeth tarawiadol; sef y penna yr olaf i'r ewyllys ddynol y symudiad cyntaf, yr hwn gwedi hynny a gynorthwyir gan râs; ond honna y flaenaf mai grâs sy'n dechreu yr hyn y rhaid i ddyn ar ol hynny gydweithredu âg ef. Condemniwyd y golygiad hwn, ond fyynnodd yn ddilynol i hynny fel protest yn erbyn golygiad eithafol Flacius, sef ddarfod i bechod ddyfod yn rhan o wir natur y dyn.

20. Pa fodd y bu i Arminiaeth ysgafnhau yr athrawiaeth yn fwy fyth ?

Bu i'r Gyffes Wrthdystiol ddeffinio yn ofalus drosglwyddiad euogrwydd fel peth gweithredol gyfyngedig i ganlyniadau pechod Adda; gwahaniaethai rhwng llygredd a phechod ei hun; a phriodolai yr ymdrechfa rhwng da a drwg yn y dyn anianol i râs cyffredinol Yspryd Duw.

21. A yw athrawiaeth y Methodistiaid Wesleyaidd yn hollol yr un a hon ?

Ydyw, ar y pwynt diweddaf. Ond y mae yn fwy gwahanredol ar y ddau gyntaf: gan ddal ohoni drosglwyddiad yr euogrwydd yn gyflawn, ond hynny, fel ei gwrthweithir gan gyfiawnder Iawnol Adda yr Ail; gan fyntumio ohoni mai chwant y pechod gwreiddiol pechod gwirionedd yw, yr hwn y rhaid ei addef fel y cyfryw, a'i ddilêu gan râs.

22. Pa ddadblygiadau llai cymhedrol o Hanner-Pelagiaeth a ganfyddir mewn diwinyddiaeth ddiweddar ?

Dysgir athrawiaeth gan ysgol Americanaidd gysylltiedig â Phrif-Ysgol Oberlin, yn bennaf, a wâd bechod gwreiddiol yn gyfan-gwbl. Haera nad oes bechod yn bod ond mewn anufuddod i ddeddf adnabyddus, a rhydd gyfrif am ddirywiad a chaniatau yn wir ei fod yn gyffredinol ar y tir y penderfynir ymarferion cyntaf yr ewyllys gan y teimladrwydd.

• Gwel Nodiad XXXV.

23. Pa rai ydynt brif gyfeiliornadau y golygiad hwn?

(1) Yr amlygrwydd gormodol a rydd i'r ewyllys ddynol fel y mae yn wahaniaethadwy oddiwrth y bersonoliaeth sydd o'r tu cefn iddi.

(2) Y modd y cymysga allu naturiol â gallu moesol.

(3) Ei wadiad Pelagiaidd o gysylltiad cyfamodol yr hiliogaeth â'i dau ben—y ddau Adda.

24. Beth yw y cyfeiliornad parthed yr ail o'r rhai'n?

Deil, a hynny yn gywir, nad oes ryddid o anhueddgarwch yn yr ewyllys, yr hon sydd rwymedig i benderfynu y da neu y drwg; ond yn anghyson â hyn, tybia mai dechreuad pechod yw etholiad hunan fel y dewisiad terfynol, ac mai dechreuad yr ail-enedigaeth yw ei dewisiad terfynol o ddaioni cyffredinol.

25. Beth yw ein diogeliadau wrth efrydu yr athrawiaeth hon?

(1) Da fyddai cofio fod ffeithiau y bywyd dynol, a hanes yn cadarnhau y ddwy athrawiaeth o gondemniad a orffwys ar yr hiliogaeth, a'r llygredd y cyd-gyfranogir ohono gan bob dyn,—y ddwy fel ei gilydd.

(2) Nas enillir dim wrth gyfyngu y pechod gwreiddiol i ddim ond tuedd etifeddedig yn unig at y drwg: nis gellir a gwahanu yr lawn fel y mae yn waredigaeth oddiwrth euogrwydd, ac fel y mae yn achubiaeth rhag anallu ysprydol.

(3) Nid ydys i dybio mai rhyw fodaeth newydd (*new entity*) yn yr enaid yw pechod: y mae hanfodion y natur ddynol heb eu amharu.

(4) Prynedigaeth yr holl hiliogaeth, megis yr oedd hynny yn rhagluniedig cyn bod pechod, ac yn gyd-ddechreuedig âg ef, yw yr unig esponiad a roddir dros ein sefyllfa bresennol o brawf. Gellir rhoddi dwy ystyr hanesiol i'r *Ffynnon a agorwyd*, i.e. ym Mharadwys ei hun i *bechod ac i aflendid* (Zech. xiii. 1): y naill i gyfarfod â tharddiad y drwg, a'r llall i gyfarfod â tharddiad y feddyginiaeth. Ond arweinia hyn i'r Llyfr nesaf.

LLYFR V.

Gwaith Cyfryngol y Gwaredwr.

- I. BWRIAD GWAREDIGOL Y TRI-UN-DUW.
- II. PERSON CRIST.
- III. HANES Y GYFRYNGWRIAETH.
- IV. YR IAWN.

LLYFR V.

Gwaith Gyfryngol a Gwaredwr.

1. Beth yw pwngc cyffredinol y Llyfr hwn?

Holl weinidogaeth y Mab ymgawdoledig fel yr ymgymeres Efe â hi yn wrthddrychol, ac fel y'i cyflawnwyd er adferiad dynolryw.

2. Beth a nodir allan gan y gair Gwrthddrychol yn y lle hwn?

Fod a wnelom â gwaith ein Hiachawdwr fel y mae yn offenedig unwaith am byth ar ran yr hil ddynol, heb gyfeiriad at y bendithion a ddiogelir trwy y cymhwysiad ohono. Eithr amlwg yw nas gellir cau allan y rhain yn llwyr.

3. Danghoswch briodoldeb y gair Gweinidogaeth?

Gweinidogaeth (Cymraeg, gwasanaeth) yw y gair a ddefnyddir gan yr Arglwydd Ei Hun: *Mab y dyn a ddaeth nid i'w wasanaethu, ond i wasanaethu, ac i roddi ei einioes yn bridwerth dros lawer* (Matth. xx. 28). Cynhwysa, yr hyn na wneir gan un gair arall, wneuthur a dioddef ar y ddaear ac yn y nefoedd hefyd. Ond ymadrodd mwy arferedig yw y Gwaith Cyfryngol.

4. A beth am y gair Cyfryngol?

Dynoda y rhaid ystyried holl ymyriadau Crist ar ran dyn fel eiddo Cyfryngwr: Un, serch hynny nad yw drydydd person rhwng dau ereill, ond yr Hwn Ei Hun sydd Dduw a dyn mewn undeb. Y mae yn bod ystyr gyfyng i gyfryngwriaeth, yr hon a gyfeiria at y ran iawnol o waith Crist, ond yr ystyr eangaf a ddynodir yma.

5. Pa sut y mae rhannu y pwngc?

Y drafodaeth oreu arno tyddai yr un fwyaf gyfundrefnol. Gallwn symud rhagom o bwynt i bwynt fel y canlyn: (1) y bwriad tragwyddol yn y Drindod, a olygir yma yn un brynedigol, ynghyd a'i berffeithiad graddol hyd at gyflawniad yr amser; (2) Person y Crist a ymddanghosodd y pryd hwnnw; (3) cyflyrau, a swyddau y Gwaredwr hanesiol; yn (4) yr Iawn Gorffenedig.

M

PENNOD I.

Bwriad Gwaredigol y Tri-Hun-Dum.**1. Beth yw ystyr yr ymadrodd hwn?**

Bwriedir ef i ddynodi mai cyflawniad ydoedd holl waith Crist o arfaeth a hysbysai fwriad y Tad a'r Mab a'r Yspryd Glân i waredu y byd: bwriad yr hyspysir ddarfod iddo ragflaenu pechod dyn, a darfod ei ddatguddio yn raddol.

2. Ond ai gweddus yw ymdrin â'r mater hwn ar wahân i'r cyflawniad ohono?

Nid oes bwngc a berthyn i Ddiwinyddiaeth y rhydd yr Ysgrhythur fwy o amlygrwydd a phwysigrwydd iddo.

3. Pa fodd y danghosir hyn?

Mewn tair ffordd: disgrifir y bwriad gan amrywiol dermau; cysylltir hyn â'r Tri Pherson yn y Duwdod; a thraethir yn barhâus ar ei dragwyddolrwydd, neu yn hytrach, ar ei fod cyn bod amser, ond a amlygwyd mewn amser.

§ 1. Y Bwriad, neu yr Arfaeth Dragwyddol.**1. Pa un o'r ddau air hyn sydd raid ei ddefnyddio?**

Pob un o'r ddau gan ychwanegu trydydd yn cynnwys cyngor. *Yn ol arfaeth yr Hun sydd yn gweithio popeth wrth gyngor Ei ewyllys Ei Hun* (Eph. i. 11): yma y mae gennym *thelêma*, arfaeth; *boulé*, cyngor ystyrbwyll; a *prothesis*, bwriad ger bron y meddwl. Gallwn ad-drefnu a thrawsnewid y termau hyn: y mae eu hystyr ddofn gyfunol yn anhyspydd, a'r hyn sy' ddiffygiol yn y naill, fe'i cyflenwir gan y lleill.

2. Beth yw y ffrwyth o hyn ar ein hathrawiaeth?

Y rhaid golygu prynedigaeth, yn ogystal a chreadigaeth, fel mynegiant pur o fwriad Dwyfol; bwriad ydoedd a ddatganwyd mewn arfaethiad, ac a gyflawnwyd trwy gyngor.

3. A gyfeiria yr olaf hwn at gynllun prynedigol?

Na wna: dyna y meddylldrych y ceisia ei osgoi. Gellir siarad am gynllun iechydwrïaeth, hynny yw, am ORDO SALUTIS, trefn iechydwriaeth, neu y drefn o gadw personau unigol; ond

nis gellir llefaru gyda'r un priodoldeb am drefn neu gynllun er achub dynolryw.

4. Oni wna hyn y bwriad yn rhy hollol yn fater o ewylllys?

(1) Ond ewylllys cariad yw; *Duw cariad yw*, ac eto *Felly y carodd Duw y byd, fel y rhoddodd Efe Ei Unig-anedig Fab* (1 Ioan iv. 8; Ioan iii. 16).

(2) Ni wnaeth *terfynedig gyngor a rhagwybodaeth Duw* amgen na chyflawni *Ei foddlonrwydd Ei Hun* er iechydwrïaeth dyn (Act. ii. 23; Eph. i. 9). Nid oes iddo yn unman y nodwedd o arfaethiad anibynnol; ond am y gair hwn *eudokia*, boddlonrwydd, rhed rhagddo o'r dechreuad hyd ddibenïad yr hanes efengylaidd, gan dafu ohono fath o gydymdeimlad tyner dros y meddylddrych.

5. A yw y pwynt olaf hwn yn wirionedd llythyrennol a chyffredinol?

Nid oes gymaint ag engraffit i'r gwrthwyneb. Y mae pob cyfeiriad at y cyngor tragwyddol yn gysylltiedig â'i gariad Ef at y rhai cadwedig fel dynion a phersonau. Arfaeth ddiamodol nid oes.

6. Oni phenderfyna hyn yr arfaeth dragwyddol yn hytrach fel bwriad grasol tuag at yr etholed-igion nag fel bwriad o iechydwrïaeth i bawb?

Y mae yn bod fwriad o amcan (*ina*), a bwriad o effaith (*hôte*). Defnyddir y ddau am hilgaredd Duw, neu Ei gariad at yr hiliogaeth. Ond nid oes amheuaeth na leferir yn gyffredin am yr **EFFAITH** yng nghynulleidfya y brodyr sydd wedi eu casglu o amgylch y Mab Tragwyddol fel yr **AMCAN**: y mae credinwyr wedi eu *rhagordeinio i fod yr un ffurf a delw Ei Fab Ef* (Rhuf. viii. 29).

§ 2. Y Drindod Brwnedigol.

1. Beth a olyga yr ymadrodd hwn, yma?

Y datguddir i ni y Drindod haufodol fel yn dal perthynas enwedig â phrynedigaeth dynolryw; perthynas sydd a'i dechreuad yn y bwriad gwreiddiol, a'r amlygiad cyflawn ohoni yn y cyflawniad terfynol ohono.

2. Ei dechreuad yn y bwriad gwreiddiol. Pa fodd?

Bodolai, ond ei iawn-ddeall, yn hanfod sancteiddiol y Tri Pherson, gyngor prunedigol: yn yr hwn y mae ewyllys y Tad yn gyfryw foddlonrwydd a dderbynnir gan y Mab, ac yn fwiad idd ei gyflawni gan yr Ysryd Glân.

3. Beth a olygir yma wrth "iawn-ddeall"?

Nid yw yr Ysgrhythrau yn llefaru yn uniongyrchol am y Cyngor Trindodol hwn yn yr ystyr honno o Gyfamod prunedigol yn ol yr hwn y bu i'r Mab ymgymeryd â gwaredu rhan o'r hiliogaeth y rhai a gafodd Efe yn eiddo fel Ei wobrw y: Cyfamod, Dechreuydd yr hwn yw y Tad, a Thyst a Gweinyddwr yr hwn yw yr Ysryd Glân.

4. Pa fodd y mae osgoi y cyfeiliornad hwn?

Trwy gadw mewn golwg yn wastad, dri pheth: (1) Mai Un yw Duw mewn ewyllys bwriad a gweithrediad; y mae y Tad, a'r Mab, a'r Ysryd Glân, pob un ohonynt, ac ar wahan yn cynrychioli y Duwdod perffaith; (2) mai gwrthddrych y bwriad Dwyfol mewn prunedigaeth yw yr un a'r unrhyw ddyn ar a grewyd gan y Drindod Sanctaidd; (3) fod perthynas fewnol ddirgeledig y Tri-Un Duw, yr hon sydd anirnadwy i ni am byth, yn ei gwneud yn beth posibl i bob un o'r Personau feddu ar Ei swyddogaeth enwedig Ei Hun yn iechydwr iaeth dynolryw.

5. Onid anturia ddiwinyddiaeth yn rhy uchel yn hyn o beth?

Na wna, mewn un modd, gan y nodir allan y gwahaniaethau hyn yn y modd egluraf gan holl ddatguddiad yr Ysgrhythur.

6. Y'mha iaith ynte y beiddiwn eu datgan?

Y gallai Personoliaeth Ddwyfol y Mab, gan ei bod yn dragwyddol darddedig o'r Tad fel Ffynhonnell y Duwdod, gyflawni ohoni ewyllys y Tad, neu ewyllys Duw trwy ymgnaidoli; ac y gallai yr Ysryd Glân, yr Hwn sydd yn deilliaw o'r Tad a'r Mab gyflawni ohono ewyllys y Ddau, neu ewyllys y Tri-Un Duw.

7. Oni ddynoda hyn âsraddoldeb yn y Ddau Berson Tragwyddol?

Meddylddrych o eiddo dyn yw âsraddoldeb, ac y mae iddo mewn iaith ddynol gysylltiadau a'i gwna yn air peryglus i osod

allan y dirgelwch aruchel hwn. Yn unrhyw achos rhaid defnyddio y gair yn gyson âg undeb tragwyddol yr hanfod dwyfol.

8. Sut yr ategir yr athrawiaeth hon yn iaith yr Ysgrythur?

Caiff un ymadrodd wasanaethu fel allwedd i luaws; dywed St. Ioan am Dduw ddarford iddo *ein caru ni*, gan ychwanegu *i'r Tad anfon ei Fab i fod yn Iachawdwr i'r byd* (Ioan iv. 10—14). Felly, y mae Duw a'r Tad yn dermau cyd-gyfnawidiedig; ac megis yma, felly hefyd yn gyffredinol yn y Testament Newydd. Eto, y mae yr un Iachawdwr yn *Dduw a'n Hiachawdwr* yn yr Epistol hwnnw a wahaniaetha *Dduw Dad* a'r *Arghwydd Iesu Grist ein Hiachawdwr*, ac a lefara am y *Duw Mawr a'n Hiachawdwr Iesu Grist* (Tit. ii. 10; i. 4; ii. 13). A'r Yspryd Glân yw yr *Yspryd yr Hwn yw yr Arghwydd* (2 Cor. iii. 18).

§ 3. Y Bwriad Tragwyddol Gynflawnedig Mewn Amser.

1. Sut, yn yr Ysgrythur, y cerrir y bwriad tragwyddol i fyny i dragwyddoldeb?

Trwy amrywiol ymadroddion, y rhai i fesur mwy neu lai a fenthycant iaith amser.

(1) Dywedir fod yr Efengyl yn *ddatguddiad y dirgelwch, yr hwn ni soniwyd am dano trwy amseroedd tragwyddol* (Rhuf. xvi. 25), am y rhai nis gallwn ond dweud fod yr amseroedd megis wedi ymgolli ohonynt yn nhragwyddoldeb, ond er hynny y pery eu henwau.

(2) Dywedir fod y cyngor wedi ei gyd-rwymo â'r ddawn dragwyddol o Grist, yr hon *a arfaethasai ynddo Ef* (Eph. i. 10), yr Hwn oedd yr *Anwylyd* yn y nef, ac ar y ddaear: y Mab ymgnaudoledig ydoedd *dirgelwch Duw*, nid yn wir o'i hanfod yma, ond o'i ewyllys tuag at ddyn.

(3) Cyflwynir y bwriad hwn gerbron fel rhagwybodaeth. Yr oedd y Gwaredwr yn *rhagordeiniedig* (rhagwybyddedig) *cyn sylfaenu y byd* (1 Petr i. 20). Ceir St. Petr yma, yn rhedeg o'r blaen y'nghynt na'r disgybl arall, yr hwn a lefara yn unig am yr *Oen a laddwyd er cyn seiliad y byd* (Dat. xiii. 8). Y mae cyfuno y ddau o grynn bwysigrwydd.

2. Beth yw tarawriad yr holl dystiolaethau hyn?

Fod y bwriad tragwyddol yn ffaith, yr hon a fodolai ac a fodola o'r tu allan i ymddanghosiad dyn a'i bechod, ac y cynhwysa y cyfan : gwirionedd o anrhaethol bwys i ddiwinyddiaeth, a gobaith dynoliaeth.

3. Beth yw gwerth arbennig tystiolaeth olaf St. Ioan uchod?

Arddengys y pwynt lle yr ymuna tragwyddoldeb ac amser : yr oedd y bwriad tragwyddol yn bod yn weithredol yn nechreuad hanes dynoliaeth, ac yr oedd cyflawnder yr amser wedi dyfod ohono eisoes yn rhinweddol ym Mharadwys ei hun.

4. Ond beth yw Cyflawnder yr Amser, yn ei ystyr Ysgrhythol (Gal. iv. 4)?

Y cyfnod pryd y cyflawnwyd bwriad y prynedigaeth yn ymgawdoliad Mab Duw; yr hwn a olygir yn (1) fel y cyfnod penodedig gan y cyngor ei hun; ac yn (2) fel y cyfnod pryd yr oedd y byd ei hun yn addfed am dano.

5. Y'mha wedd y golygir y bwriad yn ei berthynas â'r blaenaf?

Fel dibeniad cyfres o oruchwyliaethau cyfamodol rhag-ddarparol a roddasid mewn amlygiadau graddol: yr hyn ydoedd y ddarpariaeth ddwyfol a phendant gan y Genedl Ddewisedig.

6. A pha wedd yn ei berthynas â'r olaf?

Fel dibeniad prawf hir ar ymgais dynolryw: yr hyn ydoedd y ddarpariaeth nacôl yn y byd cenhedlig *nad adnabu trwy ddoethineb mo Dduw* (1 Cor. i. 21).

7. Beth oeddynt nodweddion y rag-ddarpariaeth Ddwylol?

Yn y cyffredin, rhag-hysbysiadau graddol mewn proffwydoliaeth a chysgodau; yn neullduol cyfres o gyfamodau neu oruchwyliaethau, a gyfeirient yn enwedig at yr Iachawdwr oedd ar ddyfod.

8. Deffiniwch broffwydoliaeth a chysgodau yn eu cyd-berthynas â'u gilydd?

Proffwydoliaeth oedd y rhagfynegiad mewn gair am y Gwaredwr dyfodol; y cysgodau oeddynt rhagfynegiad mewn

gweithred. Y mae y cysgodau a'r proffwydoliaethau am Grist yn cyd-fyned â'u gilydd drwy yr holl Hen Destament. Hwy a ddechreuant hanesiaeth ddynol: Adda ydoedd y cysgod cyntaf neu *ffurf yr un oedd ar ddydd* (Rhuf. v. 14): a'r broffwydoliaeth gyntaf oedd: *Efe—Hâd y Wraig—a ysiga dy ben di* (Gen iii. 15). Yr oedd Isaac yn gysgod, a'r broffwydoliaeth oedd, *Yn dy hâd di y bendithir holl genhedloedd y ddatar* (Gen. xxii. 18). Yr oedd Solomon yn gysgod, a'r broffwydoliaeth oedd, *Myfi a gyfodaf dy Hâd di ar dy ol. . . . Myfi a gadarnhâf orseddfaingc ei Ei frenhiniaeth Ef byth* (2 Sam. vii. 13). Y mae y cyfeiriad triphlyg hwn at Un Hâd,—Hâd y wraig, Hâd Abraham, a Hâd Dafydd, a'r oll yn egluro deddf.

9. Beth yw y cysylltiad rhwng y rhagfynegiadau cyffredinol a'r goruchwyliaethau neulltuol?

Bu i'r addewidion y'nghylch y Crist oedd ar ddyfod gael eu rhoddi a'u diogelu mewn datguddiadau olynol cyfyngedig i bobl ddewisedig *llawer gwaith*, neu *mewn amrywiol rannau* (Heb. i. 1); a'r mesurau yn ol y rhai y cyfrennid neu y gweinyddid y rhai'n gan Dduw yw yr hyn a ddynodir gan y gair Ysgrythyrol goruchwyliaethau.

10. A nodir hyn allan gan y gair Ysgrythyrol am oruchwyliaeth?

Nid yn hollol; y mae un gair Ysgrythyrol, *oikonomia* a gyfieithir yn oruchwyliaeth ac yn drefniant. Arwydda y gair diweddaf hwn yn hytrach drefniant tŷ Dduw neu Ei Eglwys, megis yn y ffurf o drefniant teuluol: er engraffit o dan yr oruchwyliaeth Batriarchaidd, yr un Foesenaidd, a'r un Gristionogol.

11. Eithr oni ddynoda trefniant (*economy*) oruchwyliaeth (*stewardship*)?

Gwna: ac yn yr ystyr hono ni lefara y Testament Newydd ond am ddau drefniant. Ymddiriedwyd i'r Israeliaid *am oraclau Duw* (Rhuf. iii. 2); a *Moses yn wir a fu ffyddlaw yn ei holl dy megis gwias* (Heb. iii. 5); yn y trefniant Cristionogol y mae *Crist megis Mab ar dŷ Dduw* (Heb. iii. 6), ac ymddiriedwyd i'r Apostolion oddi dano *oruchwyliaeth cyflawnder yr amseroedd* (Eph. i. 10).

12. Beth yw perthynas y gair cyfamod â hyn?

(1) Ystyr arferol y gair *diathêkê*, cyfamod, yw sefydliad Dwyfol er mwyn dyn, ac nid *sunthêkê* neu gytundeb rhwng dwy-blaid. Gan Dduw y mae trefniad y cyfan, a chan hynny, yr un peth mewn gwirionedd yw cyfamod a goruchwyliaeth.

(2) Ond neulltuolrwydd cyfamod yw y cadarnheir ef yn wastad âg aberth, ac y penna amodau er cydymffurfio â hwy mewn trefn i fwynhau rhagorffreintiau penodol.

13. Pa sawl Cyfamod y sonir am danynt?

Dim ond un, ond yn ddosranedig i dair cangen.

14. Beth ydoedd yr unig Gyfamod ?

Y Cyfamod grâs, a ordeiniwyd i'r hîl ddynol, yng Nghrist, yr Hwn a elwir yn *gyfamod y bobl* (Esai. xlix. 8); ei Gyfryngwr, yr addewid ohono, a'i Weinyddwr o'r dechreuad.

15. Y'mha fodd y dosrennid hwn i dair cangen?

Aethai Duw i Gyfamodau â dynolryw cyn rhoddiad y ddeddf; â'r bobl briodol o dan y ddeddf; ac â'r holl fyd eilwaith, ar ol y cyfamod cyfyngach hwnnw, yng Nghrist.

16. Beth ydoedd ei neulltuolrwydd cyn rhoddiad y ddeddf?

(1) Yr adnewyddid ef yn barhaus â phersonau unigol fel y cynrychiolent y byd: megis Adda, Noa, ac Abraham. (2) Y cadarnhawyd ef âg Abraham fel yn cynrychioli ar unwaith y byd a hiliogaeth ddewisedig ei ddisgynyddion. Fel hyn, megis yr olaf o'r cyfamodau cyffredinol, a'r cyntaf o'r rhai cyfyngedig, y'i cyflwynir gyda difrifoldeb dwfn y'm mhennod fawr y Cyfamod (Gen. xv. 18).

17. Beth ydoedd neulltuolrwydd y Cyfamod o dan y gyfraith?

Cyfamod cenedlaethol ydoedd: perthynai iddo yr enwaediad a'r Pâsg fel ei arwyddion a'i seliau; rhwymai y bobl i wasanaeth o ddefodaeth seremonïol a lluaws o rwymedigaethau gwladol; gwnelai ufudd-dod i'r gyfraith fel ordinhad allanol yn amod iddo; ac yn y cyfryw fodd fe gadwyd yn fyw ganddo yr ymdeimlad o gondemniad pechod, y'nghyda'r gobaith am Waredwr.

18. Y'mha le ei sefydlwyd, ac y'mha fodd?

Ar ol ymadawiad y genedl o'r Aifft; *a thrwy law Cyfryngwr*, —sef Moses (Gal. iii. 9).

19. Ai dim ond un Cyfamod oedd dan y Gyfraith?

(1) Dim ond un yn unig, yr hwn a elwir yn y Testament Newydd *y cynlaf a'r hen* (Heb. ix. 1, 8, 13). (2) Ond fynnai rhai cyfamodau israddol oddi tanodd i'r rhai yr elid iddynt gyda chysgodau o'r Messiah, ac a rag-gysgodent Ei swyddau Ef: er engraifft Aaron, a Samuel, a Dafydd.

20. Beth yw ei nodwedd o dan yr Efengyl?

(1) Y mae yn Gyfamod *newydd a gwell*, a digyfnewid neu yn un *tragwyddol* (Heb. viii. 8, 6; Esai. lv. 3). Gair yw yr un diweddaf o'r Hen Destament, ond a arall-eirir yn y Newydd.

(2) Y mae yn osodedig neu yn weinyddiedig ar *addewidion gwell*; sef addewidion o'r etifeddiaeth fabaidd (Heb. viii. 6).

(3) O ba herwydd y dyrchefir ef i safle *testament*; daw yr addewidion yn eiddo i ni *trwy farwolaeth y Testamentwr* (Heb. ix. 16).

(4) Mai marwolaeth yw cadarnhad yr holl gyfamodau mewn un cyfamod am byth: *y testament (neu gyfamod) newydd yn Fy ngwaed i* (1 Cor. xi. 25).

(5) Y mae yn un cyffredinol: hynny yw, cynygir ei ddarpariaethau i bawb, a gall pob dyn ddwyn tystiolaeth i hyn a *selio mai geirwir yw Duw* (Ioan iii. 33).

(6) Y mae yn gyfamod neulltuol hefyd. Efe yr Hwn yw yr unig Gyfryngwr (*mesitês*) rhwng Duw a dyn, fel *pridwerth dros bawb* yw y *Mechnïydd (egguos)* megis rhwng Duw a chredinwyr (1 Tim. ii. 6; Heb. vii. 22). Ond rhaid gadael hyn am y presennol.

21. Trwy ba dermau y disgrifir cyflawniad y bwriad tragwyddol?

(1) Fel *trefniant* neu *oruchwyliath cyflawnder yr amseroedd*, pryd y perffeithiwyd pob goruchwyliath flaenorol (Eph. i. 10; Rhuf. xvi. 25).

(2) Fel *datguddiad y dirgelwch yr hwn ni sionwyd am dano trwy amserau tragwyddol*, gan amlygu holl ddirgelion y nefoedd (Matth. xiii. 11, 35; Psal. lxxviii. 2; Heb. ix. 26). Y mae yr

olygwedd aruchel hon yn gyffredin i'n Harglwydd ac i St. Paul; tra y Salmydd wedi taraw ohono y cyweirnod.

(3) Fel dibeniad neu gyflawnder yr oesoedd, neu *gyflawnder yr amseroedd*, neu *y dyddiau diweddaf* (Gal. iv. 4; Act. ii. 17).

22. Pa bwys a roddir ar y "dyddiau diweddaf?"

Ni a gawn y'mron yn yr un ymadrodd dair nodwedd o'r un trefniant perffaith a ddisgrifir. (1) Datguddiad terfynol o'r Ewyllys Ddwylfol *yn Ei Fab* (Heb. i. 1). (2) Yr Iawn gorffenedig yn *Ei werthfawr waed Ef*, yr Hwn a eglurwyd *yn niwedd yr amseroedd* (1 Petr i. 20). (3) Tywalltiad yr Yspryd *ar bob cnawd* (Act. ii. 17).

23. Y'mha ystyr y gellir dweud ddarvoud cyflawni y bwriad?

Yn yr ystyr o gyflawniad arfaethiad iechydwrfaeth wrth-ddrychol, neu allanol, yn ol yr atebiad triphlyg uchod.

§ 4. Ymddriniaeth Sonesiol.

1. Pa ddadleuon a ymgodasant ar y pwngc cyffredinol hwn?

Ymgododd llawys ar bwyntiau israddol; dim ond un a gyfyngir mewn modd enwedig iddo, sef yr un y'nghylch yr arfaethau rhagluniadol.

2. A geir hedyn y ddadl hon yn yr Ysgrythur?

Yn yr Epistol at y Rhufeiniaid yn unig yr ymddengys fel mater o ymddriniaeth; ond ni cheir nac yno nac yn unrhyw fan arall y cerrir i syny i'r tragwyddol na'r etholedigaeth na'r caledu. Pwngc yr Epistol yw, Ffordd Duw gyda'r Iddew a'r Cenedl-ddyn mewn amser; a rhybuddir ni i gadw rhag ymddadleu parthed ei ffyrdd *anolrheinadwy Ef* (Rhuf. xi. 33).

3. Pa gwrs a gymerth dadleuaeth ar y pwngc mewn amseroedd Cristionogol?

Gan Awstin y cymerwyd y cam cyntaf, yr hwn a gyflwynodd i Eglwys y Tadau yr athrawiaeth o ragarfaethiad personau unigol i rās neulltuol ac anwrthwynebadwy. Yn y nawfed ganrif ffurfiodd Gottschalk yr athrawiaeth o ragarfaethiad i farwolaeth; ond arhosodd yr EFFEILLES RAGARFAETHOL hon yn amwys hyd

wawr y Diwygiad; canys nid ydoedd na Rhagarfaethiad diamodol i bechu, nag Iawn terfynol wedi eu dwyn allan o gwbl eto fel dogmâu. Ffafiai diwinyddiaeth y Canoloesoedd a Chymanfa Trent brynedigaeth gyffredinol. Felly y gwnai y ffurf-gyffesiâu Lutheraidd. Ond cariodd Calvin allan i'w eithafion yr hyn a ddechreuasid gan Awstin; gan seilio ohono räs cyfyngedig yn unig ar benarglwyddiaeth ddiamodol Duw.

4. A gadwyd y ffurf erwin hon i fyny?

Dim ond gan ychydig yn y ffurf uchaf o SUPRA-LAPSARIAETH* neu Uwchgwympyddiaeth, hynny yw, arfaethiad yn Nhragwyddoldeb yn cynnwys cwmp o angenrheidrwydd.

5. Pa wrthweithiad sydd wedi dyfod i mewn?

Y'mhith y Calfiniaid eu hunain y mae rhai ohonynt wedi dewis dyddio yr arfaeth ragbenderfynedig o'r tu yma i'r cwmp,—INFRA-LAPSARIAID,* neu Isgwympyddion. O dan y penawd olaf hwn y gellir dosparthu y cymedroliad hwnnw ar yr athrawiaeth yn Ffraingc a Lloeger, a gyfyngodd yr arfaethiad i'r etholedigion, gan ei wneuthur yn amodol (*hypothetical*). Mewn ystyr arall y mae coleddwyr prynedigaeth gyffredinol yn Infra-lapsariaid, gan yr addefa pawb, os caniateir y cwmp a'r prynedigaeth, fod y fath beth yn bod a rhagluniad y saint i fywyd, a rhagluniad pawb y rhagwelir y byddant wrthodedigion i farwolaeth.

6. Beth yw ffrwyth y ddadl hon?

Ni chaniateir i ni na llefaru na meddwl am yr arfaethau tragwyddol: i ni, y mae y bwriadau dwyfol wedi eu mynegu yn ymadroddion amser, ac amodol ydynt.

* Gwel Nodiad XXXVI.

PENNOD II.

Person Grist.**§ 1 X Person a'r Personoliaeth.****1. Beth yw ystyr ddiwinyddol y gair hwn ?**

Traetha y gwirionedd fod ein Harglwydd yn undeb anranadwy ac anwahanadwy Ei ddwy natur yn un person am byth.

2. Pa gyfeiliornadau a ochelir gan y darnodiad hwn ?

(1) Y cyfeiliornad o gyfrif i Grist ddwy bersonoliaeth, fel pe byddai Efe yn Fab personol Duw mewn ymuniad â Mab personol dyn. (2) Hefyd y cyfeiliornad o ystyried y ddwy natur,— y Ddwylol a'r ddynol y fath gyd-gymysgfa fel nad yw y Gwaredwr amgen nag un person mewn un natur gyfansawdd.

3. A yw y gwahaniaethau hyn yn rhesymegol ddirnadwy ?

Ydynt yn ddiamheuol, er eu bod uwchlaw gwybodaeth. Nid yn eu heglurhâd o'r dirgelwch y mae eu gwerth yn gynhwysedig ; ond yn eu diffyniad o'r athrawiaeth.

4. A yw eu pwysigrwydd mor hanfodol ?

Y mae y gwirionedd hwn wrth wraidd Cristionogaeth fel y datguddia Gyfryngwr a chyfryngwriaeth. Un a gynrychiola ddyn i Dduw a Duw i ddyn, yr Hwn sydd fel person ar wahan i'r ddau. Nid Ei Ddwyloldeb yn unig yw Ei Berson, na'i ddynoliaeth yn unig, ond y Bôd yr Hwn a eilw y ddwy natur fel eu gilydd yn eiddo iddo'i Hun.

5. Oni wnai dau berson, Dwyfol a dynol, mewn undeb ateb pob pwrpas cyfryngol ?

Rhaid yw i gyfryngwr fod yn un gweithredydd personol.

6. Traethwch yr osodaeth ddiwinyddol fanwl o hyn ?

Y mae Person Crist yn Ddwylol ac yn ddynol. Fel y mae yn Ddwylol Efe a gynrychiola Dduw i ddyn, fel y mae yn ddynol Efe a gynrychiola ddynolryw i Dduw. Y mae personoliaeth neu Myfi goruchel y person yn ddwyfol ; a chyfranna rinwedd y Duwdod i'r oll a berthyn i'w Gyfryngdod a'i waith.

7. Oni chyflwyna hyn wahaniaethiad hynod rhwng person a phersonoliaeth?

Mynega yn syml ddarfod i'r Person Dwyfol ymgymeryd â natur ddynol; gan barhau ohono fyth i fod yr un gweithredydd goruchel ar ol yr ymgnewdoliad ag ydoedd Efe cyn hynny.

8. Onid oes i'r natur ddynol bersonoliaeth o'i heiddo ei hun?

Nac oes, yn yr achos hwn. Meddiannai natur ddynol ein Harglwydd ewyllys, ond nid personoliaeth hanfodol yw ewyllys fel y cyfryw. Golyga personoliaeth weithredydd hunanymwybodol; a hwnnw yng Nghrist, bob amser, ydoedd Fab Duw.

9. Ond a fedrwn ni lefaru am natur ddynol amher-sonol?

Nid oes raid defnyddio y fath iaith, ond yr hyn a ddynoda yr ymadrodd yw gogoniant Cristionogaeth, a gwir ddirgelwch yr Iawn. Cynrychiolai ein Harglwydd nid dyn, ond dynion; Efe a gymerth arno ein natur ni, neu amodau ein bywyd ni, cyn i bersonoliaeth berthyn iddi; a chyfoethogodd Ei gyflwr dynol â phersonoliaeth Ddwylol a lwyr-lywodraethai yr ewyllys ddynol.

10. Pa fodd y gallwn olrhain dysgeidiaeth yr Ys-grythur?

Trwy ddangos fod yna un bersonoliaeth, sef eiddo y Mab Tragwyddol yn wastadol; a'r hon, er hynny, yn wastadol a fywiocâ natur ddynol berffaith.

§ 2. B Person Anwahanadwy, a Phersonoliaeth.

1. Y'mha fodd y gosodir allan Undeb Person ein Harglwydd?

Mewn dwy ffordd:—(1) Weithiau, disgrifir yn ffurfiol yr un a'r unrhyw berson fel yn meddu ar ddwy natur. (2) Un deiliad personol, neu bersonoliaeth sydd bob amser, i'r Hwn y perthyna mewn modd cyd-gyfnawidiol briodoleddau Dwyfol a dynol.

2. Rhoddwch engreiffitiau o'r flaenaf?

Fe elwir natur ddynol ein Harglwydd, mewn amrywiol ymadroddion Ysgrhythol, yn gnawd, a gwrthgyferbynnir â hi

mewn modd enwedig Ei natur Ddwyfol. Efe a hannai o *hâd Dafydd yn ol y cnawd, yr hwn a eglurwyd yn Fab Duw mewn gallu yn ol Yspryd sancteiddiad* (Rhuf. i. 3, 4). A thrachefn, o'r *rhai yr hannodd Crist yn ol y cnawd, yr Hwn sydd uwchlaw pawb yn Dduw bendigedig yn oesoesoedd* (Rhuf. ix. 5). Yr UNIG gyferbyniaeth o gnawd ac yspryd yng Nghrist, eiddo Ei ddwy natur yw. *Y Gair a wnaethpwyd (ddaeth) yn gnawd, ac a drigodd yn ein plith ni, neu a ddaeth yn y cnawd, neu a ddaeth yng nghyffelybiaeth cnawd pechadurus* (Ioan i. 14; 1 Ioan iv. 2; Rhuf. viii. 3).

3. A yw y cyferbyniad hwn mewn gwirionedd yn ddieithriad.

Anhawdd yw ameu hynny. Gellid cymeryd un ymadrodd, a draetha yn ymddanghosiadol felly, am gnawd ein Harglwydd, fel dim ond egwan gnawd, neu ddim ond cnawd ffaeleddus, *Yr Hwn yn nyddiau Ei gnawd wedi iddo offrymu . . . !* (Heb. v. 7, 8). Ond, fel y gwelir yn gynarach yn yr Epistol, mai Ei ymgawdoliad oedd ymgyfranogiad â rhai *cyfranog o gig a gwaed*, felly yma, dilyna yr ymadrodd *Er Ei fod yn Fab* (Heb. ii. 14). Y Cnawd yw yr unig ffurfreol er dehongli Ei natur ddynol; a chyfetyb y Ddwyfol natur mewn amrywiol dermau: megis Y Gair, Y Mab, Yspryd Sancteiddiad, neu yr Yspryd, neu yr Yspryd Tragwyddol, a Duw yr Hwn sydd uwchlaw pawb, y rhai a osodir yn gyferbyniol i'r Cnawd (1 Tim. iii. 16; 1 Petr iii. 19; Heb. ix. 14).

4. A ellir cymhwyso yr ymadroddion "Yspryd Sancteiddiad," a "Duw uwchlaw pawb," at natur Ddwyfol Crist?

Yspryd yw enw cyffredin Duw, a pherthyna i bob un o'r Tri Pherson fel eu gilydd. A'n Harglwydd, mewn ystyr gyfryngol yw y Duw'r Hwn sydd UWCHLAW PAWB. Y mae y geiriau hyn a'r cyffelyb yn anhawdd eu deall pa gynllun bynnag o ddehongliad a fabwysiedir; ond y ddamcaniaeth o gyferbyniad rhwng y ddwy natur a fforddia yr esponiad symlaf ohonynt.

5. Dygwch engreiffiau o'r ail reol a grybwyllir uchod (§ ii. 1)?

(1) Yr un MYFI tragwyddol a deyrnasa drwy yr Efengylau: a'r Hwn sydd Ddeiliad y perthyn iddo briodoleddau wedi eu

cymeryd o'r nef a'r ddaear, tragwyddoldeb ac amser, Dwyfoldeb a dynoldeb ; *A welaist Ti Abraham ? Cyn bod Abraham yr wyf Fi. Gogonedda Di Fyfi gyda Thi Dy Hun, a'r gogoniant oedd i Mi gyda Thi cyn bod y byd* (Ioan viii. 57, 58 ; xvii. 5).

(2) Medda yr un deiliad Hwn, Person Crist, luaws o enwau ; a chyfeirir ato mewn lluwys o foddau drwy y Testament Newydd : Duw y Mab, Mab y dyn, Iesu, Iesu Grist, yr Arglwydd, yr Iachawdwr, ac ereill. Ond cymerir yr adroddiadau am dano oddiwrth y ddwy natur, neu oddiwrth y naill neu'r llall ohonynt : er engraifft, *Mab y dyn yr Hwn sydd yn y nef ; Eglwys Dduw, yr hon a bwrcasodd Efe â'i waed ; Ni chroeshoeliascent Arglwydd y gogoniant* (Ioan iii. 13 ; Act. xx. 28 ; 1 Cor. ii. 8).

6. Traethwch yn fwy penodol rym y tystiolaethau hyn ?

Hwy a arweiniant trwy gyfosodaeth (*induction*) at y ddeddf fawr y perthynna i Un Person ddwy natur fel eu gilydd, anwahanadwy a digymysg. Hyn yw yr allwedd i brïodiaith y Testament Newydd.

7. Pa derm diwinyddol a ddatgana y cyfuniad hwn ? Yr Undeb Personol : (*Hypostatic Union*).

8. Beth a olygir wrth hyn ?

Cyfeiria yr Undeb at y ddwy natur : yma golyga y gair Groeg *Hypostasis* berson ; a dynoda nad undeb o ymdoddiad yw, eithr y canlyna mewn undeb personol.

9. Pa bedwarawd o dermau a ddifffynnant yr holl athrawiaeth hon ?

Y mae Crist yn WIR DDUW, yn BERFFAITH DDYN, yn Un Person ANWAHANADWY, ac yn ddwy natur DDIGYMSG. Dynodir y ddwy olaf gan yr Undeb personol ; rhaid ystyried y ddau flaenaf yn fanylach eto.

§ 3. Personoliaeth y Ddwysol y Mab Tragwyddol.

1. Beth yw ystyr gyffredin y ddosran hon ?

Y parhâ yr ail Berson yn y Duwdod, y Mab Tragwyddol, Ei Bersonoliaeth yn unigol ac yn bennaf yn holl ffeithiau a chanlyniadau yr ymgawdoliad.

2. **Gan hynny, y mae i'r gair person, fel ei cymhwysir at y Mab yn y Duwdod, ystyr wahanol i'r hyn a olyga yn y Crist ymgnawdoledig?**

Oes. Purion peth fyddai cofio fod yn y Duwdod Dri Pherson mewn un Natur; tra mai Un Person mewn dwy natur sydd yng Nghrist.

3. **Ond ai eiddo y Mab Tragwyddol yn wastad yw Dwyfoldeb y Gwaredwr?**

Nid yn hollol felly bob amser. Y mae Efe yn *Air*, ac yn *Dduw*, a gelwir Ef yn *Arglwydd* yn Ei ymgnawdoliad. Ond yn gyffredin ac fel rheol, Y MAB yw Efe (Ioan i. 14; Heb i. 8; Iago ii. 1).

4. **Sut, a thrwy ba foddau y cyfyngir ar y term Mab?**

Gwneir hynny mewn pedwar modd:—Efe yw yr Unig-anedig Fab, Mab Duw, y Mab yn hanfodol, a Mab y dyn.

5. **A yw y rhai'n i gyd yn gysylltiedig â'r ymgnawdoliad?**

Yr oll ohonynt, yn uniongyrchol neu yn anuniongyrchol; ond haera a chynhwysa y tri blaenaf, yn arbennig, fabolaeth dragwyddol yn flaenorol ac o'r tu cefn i'r ymgnawdoliad.

6. **Beth yw perthynas fanol y fabolaeth dragwyddol â'r ymgnawdoliad?**

Gellir ei golygu mewn dwy agwedd.

(1) O barthed i'r Drindod Sanctaidd: Dim ond y Mab, yn nirlgelwch anirnadwy y Duwdod, a allesid Ei anfon, ac a ddanfonwyd: nid y Tad, na'r Ysryd Glân.

(2) Dengys hyn, parthed dyn ei hun, y bodola cydrhwng y Mab, Delw dragwyddol Duw, a dyn, y ddelfw ddydol o'r Ddelfw honno, ryw undeb dirgelaidd a bendigaidd.

7. **A yw yr Ysgrythur yn gefnogol i ddamcaniaethu ar y fath bwnge?**

Awgryma yn barhâus feddyliau o nodwedd y rhai'n; yn enwedig, fel y cawn weled y'mhellach, pan y daw ymddarostyngiad y Mab, ac urddas ein hiliogaeth gadwedig dan sylw.

§ 4. D Ddndod Perffaith.

1. Beth a gynhwysa hyn mewn cyfeiriad at Berson Crist?

Ddarfod i bersonoliaeth Ddwyl y Mab Tragwyddol ymddangos ohoni mewn natur ddynol berffaith, yn yr hon y bodolai, y gweithredai, ac y dioddefai fel *Immanuel*, yr hyn o'i gyfeithu yw, *Duw gyda ni* (Matth. i. 23).

2. Beth yw ystyr yr ansoddair Perffaith?

Y mae iddo ystyr ddwyblyg: (1) yr oedd y ddynoliaeth a gymerth Efe, yn gorff, enaid, ac yspryd, heb unrhyw leihad; (2) yr oedd heb unrhyw ychwanegiad ati: rheolai y Logos Dwyfol yn y natur honno, ond ar wahân iddi, ac nid yn gymysgedig â hi.

3. Pa'm y gosodir pwys ar iddo gymeryd arno natur ddynol?

Er nodi allan nas darfu iddo Ef ymuno â dyn, a genhedlwyd gyda hedyn bodolaeth bersonol anibynnol; ond mai Mab Duw ydoedd, yn byw y'nghanol amodau dynol, yn y natur ddynol berffaith honno, ag oedd ym meddwl y Creawdydd pan y creodd Efe ddyn gyntaf.

4. Onid yw y dybiaeth hon am natur ddynol ar wahân i bersonoliaeth ddynol wahaniaethol yn ffug?

Gall ei bod felly mewn athroniaeth ddynol; ond nid yw felly yn athroniaeth Ddwyl yr Ysgrythur, yr hon a gymer hyn yn ganiatol heb ei egluro. Y Mab ymgawddedig ydoedd ein Harglwydd; nid dyn wedi ei uno â Duw, mewn unrhyw ystyr pa mor aruchel bynnag.

5. Oni allwn gynnwys ym mherffeithrwydd y natur hon ei amhechadurusrwydd?

Nid yn hollol felly. Dim ond yn ei helfennau cyfansoddol yn unig y mae y natur ddynol yn berffaith: yspryd yn gweithredu trwy y corff fel enaid. Fe nawddogid dyndod ein Harglwydd oddiwrth bechod mewn modd neulltuol.

✱

6. Y'mha fodd ei nawddogid mewn modd neulltuol?

Y oedd Ei natur ddynol yn genhedledig o'r wryf gan yr Yspryd Glân, trwy yr hyn y'i cadwyd rhag naws y pechod gwreiddiol yn ogystal a'i gondemniad. Nis gallai Efe bechu ar ol hynny, o herwydd mai Mab Duw ydoedd. Mewn geiriau ereill, yr oedd Ef yn ddibechod trwy Ei genhedliad Dwyfol; ac yr oedd Ef yn amhechadurus neu yn dragwyddol analluog i bechu, am nad oedd Ei bersonoliaeth Ef erioed yn unrhyw amgen nag eiddo y Mab Tragwyddol.

7. Pa fodd yr eglurir ac yr amddiffynnir hyn yn y Testament Newydd?

(1) Trwy dermau yr ymgawdoliad. Ein Harglwydd yw *y Dyn, Crist Iesu* (1 Tim. ii. 5); *Y Gair a wnaethpwyd yn gnawd* (Ioan i. 14); *Efe a fu gyfrannog o gig a gwad, fel y plant* (Heb. ii. 14); ond anfonwyd Ef a hynny dim ond *ynghyffelybiaeth cnawd pechadurus* (Rhuf. viii. 3); a'r dystiolaeth derfynol yw ddarfod i *Iesu Grist ddyfod yn y cnawd* (1 Ioan iv. 2).

(2) Trwy gynrychioli Mab Duw fel y meddai ar, y dadblygai, ac y defnyddiai bob elfen o eiddo natur ddynol trwy gydol Ei yrfa. Cyn yr adgyfodiad, *Yr Iesu a gynhyddodd mewn doethineb* (Luc ii. 52); *Efe a wybu yn yr Yspryd* (Marc ii. 8); a llefodd, *trist iawn yw fy enaid* (Matth. xxvi. 38. 39), ac *nid fel yr ydwyf fi yn ewyllysio, ond fel yr ydwyf Ti*. Ar ol yr adgyfodiad, *Efe a ddywedodd, Nid oes gan yspryd gnawd ac esgyrn, fel y gwelwch fod gennyf fi* (Luc xxiv. 39), gan wireddu ohono, yn y cyfryw fodd, y rhan iselaf o'i ddynoliaeth, yr hon ar y pryd a safai fwyaf yn yr angen am gadarnhâd a thystiolaeth o'i phlaid.

§ 5. Ymddriniaeth â Sanesiof.**1. Beth yw cyfeiriad dadleuaeth wedi bod ar y pwngc hwn?**

Ffynnodd gwahaniaethau hanfodol o berthynas i'r Ddw Natur fel y cyfryw, ac yna o barthed i natur eu Hundeb.

2. A chau allan y cyfeiliornadau parthed Dwyfoldeb Crist?

Nid oes gan y sawl a goledant y cyfeiliornad hwn unrhyw athrawiaeth am Berson y Gwaredwr ymgawdoledig, fel y'i deallir gennym ni.

3. Pa rai oeddynt yr heresiaïau boreuol parthed gwirdeb y ddwy natur, yr un pryd?

Eiddo y Gnosticiaid,* a ystyrient Dduwdod Crist fel math o ddylifiad allan (*emanation*) neu *æon*, a'r dyndod fel dim ond rhith-ymddanghosiad yn y cnawd; o'r hyn y cyfododd y Docetiaid* (o *dokein*, ymddanghosiad neu ffugiad).

4. Pa heresiaïau a ddianrhydeddodd y ddwy natur fel ei gilydd?

(1) Ymosododd yr Apollinariaid* ar y natur ddynol trwy wadu yspryd dynol i'n Harglwydd, gan wneuthur i'w Dduwdod gymeryd ei le, neu ei wneud yn ddianghenrhaid.

(2) Gwadaï yr Ariaïd* gyd-sylwedd-oldeb tragwyddol y Mab a'r Tad; hwy a ystyrient y Mab fel Duw cenhedledig o'i hanfod Ef trwy yr Ewyllys Ddwyfol, cyn bod y byd. Gwnaed ymgais gan yr hanner-Ariaïd i egluro ac i gysoni trwy newid *homoousion*, o'r UNRHYW sylwedd, i *homoiousion*, o GYFFELYB sylwedd. Ond nis gall fod y fath beth a Duwdod israddol.

5. Pa rai oeddynt y prif gyfeillorniadau o barthed i undeb y Ddwy Natur?

Dau: sef Nestoriaeth,* ac Eutycheaeth;* a gawsant eu henwau oddiwrth Nestorius, ac Eutyches; ond hwy a gynrychiolent ddwy linell o gyfeilliorniad na fuont byth wedi'n yn apsenol o'r ddadl.

6. Y'mha le y gorwedda perygl diwinyddol Nestoriaeth?

Cynrychiolai Grist fel yn meddu ar ddau berson mewn dwy natur; gwahanai y Person. A'i pherygl yw gwneuthur yr Unig Iachawdwr yn ddau weithredydd ar wahân, ac yn y cyfryw fodd gymeryd ymaith oddiwrth waith y Gwaredwr Ei Ddwyfoldeb goruchel.

7. Beth yw perygl Eutycheaeth?

Cynrychiolai Grist fel yn meddu ar un person, mewn un natur; cymysgai y ddwy natur. A'i pherygl yw symud ymaith o drefn y prynedigaeth ddynoliaeth bur y Gwaredwr, gan briodoli iddo natur nad yw na pherffaith Dduw na pherffaith ddyn.

* Gwel Nodiad XXXVII.

8. Pa bryd y condemnwyd yr amrywiol gyfeiliornadau hyn ?

(1) Yng Nghymanfa Nicêa (o.c. 325) sefydlwyd y gwirionedd o Dduwdod y Mab cŷd-sylweddol â'r Tad.

(2) Yng Nghymanfa Caercystenyn (o.c. 381) cadarnhawyd dilysrwydd yspryd dynol Crist; yn ogystal a Dwyfoldeb yr Yspryd Glân.

(3) Yng Nghymanfa Ephesus (o.c. 431) amddiffynwyd undeb Person ein Harglwydd.

(4) Ac yng Nghymanfa Chalcedon (o.c. 451) cadarnhawyd dilysrwydd Ei ddwy natur: pryd y dygpwyd allan ffurfreol gyffredinol o'r wir athrawiaeth, yr hon fyth yw y gair diweddaf ar y pwngc.

9. Pa bedwarawd o dermau a ddiffynnant y gwirionedd?

Cadarnhawyd yn y Gymanfa gyntaf, fod ein Harglwydd yn WIR DDUW; yn BERFFAITH DDYN yn yr ail; yn Un Person ANWAHANADWY yn y drydedd; ac yn Ddwy Natur DDIGYMYSG yn y bedwaredd.

10. Onid oedd gyfeiliornadau ereill ar y pwngc?

Nac oedd, a bod yn fanwl, am Berson Crist. Bydd i'r cyfeiliornadau diweddarach ar berthynas undeb y ddwy natur; a darostyngiad ein Harglwydd gael sylw yn y lle priodol.

PENNOD III.

Y Crist Hanesiol, neu Gwrs-weithbreidiad y Gwaith Gyfrngol.

1. Pa gylch o byngciau yr ymgymerwn â hwynt yn awr?

Gweinidogaeth ein Harglwydd megis y cyflawnwyd hi yn hanesiol: yn cynnwys Ei ymgnewdoliad fel sylfaen yr oll; Ei ddau gyflwr o ddarostyngiad a dyrchafiad; ynghyda pherthynas Ei dair swydd.

2. Ai hyn yw a olygir wrth "Fywyd Iesu"?

Nis gellir ysgrifennu bywyd Ein Harglwydd, fel y mae yn amlygiad o Fab Duw; neu, nis gellir gwneud hynny ond fel esponiad ar yr Efengylau.

I.

Ymgnewdoliad Mab Dum.

1. Paham yr ymdrinnir a'r ymgnewdoliad yn unig, ac megis ar wahan?

Am mai dyma yw sylfaen dau gyflwr a swyddau ein Harglwydd, a'r hyn a'u rhagflaena, a'u hatega, ac a'u goroesa oll.

2. Onid yr ymgnewdoliad, neu y disgyniad i'n natur ni yw dechreuad Ei gyflwr darostyngol?

Nage, a bod yn fanwl. Canys darfu iddo *Ef waghâu Ei Hun* fel y Mab cyn-amserol trwy ymddarostyngiad blaenorol o fod yn *ffurf Duw* (Phil. ii. 6, 7).

3. A yw yr ymgnewdoliad ynte, mewn unrhyw ystyr ddealladwy yn rhagflaenori yr ymddanghosiad yn y cnawd?

Y mae dau atebiad i hyn. (1) Cawsai y bwriad ei gyflawni, yn rhinweddol; ac yn yr ystyr hon ni a lefarwn am yr ymgnewdoliad fel ffaith Ddwyfol cyn bod amser: y mae yr Adda diweddaf mor wirioneddol ym mharadwys a'r Adda cyntaf. (2) Y mae yn rhaid i ni ystyried yr ymgymeriad â natur ddynol fel syniad diwinyddol a'i gwahaniaetha oddiwrth yr enedigaeth weithredol

o'r wryf, er nad oes air yn yr Ysgrythur i fynegu y meddyl-ddrych.

4. Sut y cydwedda priod-laith yr Ysgrythur â hyn?

(1) Ni lefara ein Harglwydd un amser ond am Ei ddyfodiad o'r nef: *Myfi sydd oddiuchod; canys oddiwrth Duw y deilliais ac y daethum I* (Ioan viii. 23, 42).

(2) Fe ddywed Ei Apostolion: *Y Gair a wnaethpwyd (a ddaeth) yn gnawd. Pob yspryd sydd yn cyffesu ddyfod Iesu Grist yn y cnawd. Efe yw y dyn Crist Iesu* (Ioan i. 14; 1 Ioan iv. 2; 1 Tim. ii. 5).

(3) Hwya a wnant yr ymgnawdoliad gweithredol yn amod o anghenraid i'r Iawn. Bu i'r Gwaredwr *ddyfod*, neu Efe a *wnaethpwyd* yn gnawd, fel y gwnelid Ef *yn bechod drosom ni* (Ioan i. 14; 2 Cor. v. 21.)

(4) Yr ymgnawdoliad, gan hynny, yn rhinweddol er nad yn weithredol, oedd iechydwrïaeth dynion.

II.

A Ddau Gyflwr.

1. Beth a ddynodir wrth yr ymadrodd hwn?

Gweinidogaeth ein Harglwydd; yng nghyntaf fel y mae yn ddarostyngol ar y ddaear, ac yna fel y mae yn ddyrchafedig yn y nefoedd.

2. A ellir deffinio yn fanwl derfynau gwahaniad y ddau gyflwr hyn?

Os ydym i ddeall y gair darostyngiad yn llythyrennol, fe ellir. Yn ffurfiol, dechreuodd Ei gyflwr darostyngol gyda'i genhedliad, a dibennodd gyda'i esgyniad. Yn gywir, dibennodd Ei ddarostyngiad gyda moment Ei farwolaeth, yr hyn oedd Ei fuddugoliaeth a'i ogoneddiad (Ioan xiii. 31; xvii. 1; Col. ii. 15).

3. A yw hanes y Cyfryngwr yn gyfyngedig i'r terfynau hyn?

Ydyw, fel y mae Efe yn Gyfryngwr. Ond mewn ystyr eangach rhed Ei hanes trwy bum' sefyllfa: Ei raghanfodiad tragwyddol fel y Mab; Ei bendod anatguddiedig dros yr hil ddynol; Ei amlygiad mewn amser; Ei deyrnasiad cyfryngol mewn gogoniant; a'i roddiad i fyny y deyrnas yn y diwedd.

I. Gysfwr y Darostyngiad.

1. Am ddarostyngiad pwy y llefarwn?

Am ddarostyngiad Crist yn Ei Berson ymg Nawdoledig, Duw a dyn : nid am Ei Dduwdod yn unig, na'i ddyndod yn unig.

2. Beth yw cyfeiriad y gwahaniaethiad hwn?

Y cynhwysai Ei Undeb â'n natur ni enhuddiad neu orchuddiad Ei Dduwdod ; ac y cynhwysai y weinidogaeth yr ymg ymerodd Efe â hi ddarostyngiad dwfn Ei natur ddynol.

3. A allwn ni wahaniaethu rhwng darostyngiad Ei Berson a darostyngiad Ei waith?

Y mae y fath wahaniaethiad yn ddichonadwy ; ond gogoniant ein pryndigaeth yw fod y ddau yn un mewn gwirionedd, ac fod y naill yn cymedroli y llall. Nid yw na'r Duw na'r Dyn byth yn ddidoledig (Col ii. 9).

4. Pa fodd y maent yn un?

Trwy Ei holl weinidogaeth bryndedigol fe gyflawna y Mab Ymg Nawdoledig, mewn sefyllfaoedd olynol, un weithred fawr o UFUDD-DOD dirprwyol. Dyna yw yr un gair sydd yn dynodi Ei ymddarostyngiad : *Efe a'i darostyngodd Ei Hun* yn dilyn *a'i gael mewn dull fel dyn* (Phil. ii. 7, 8). Yr oedd y Gweithredydd Dwyfol yn yr holl waith.

5. Y'mha fodd y cymedrolant y naill y llall?

Parai gwendid Ei gnawd dioddefus, gan mai Ei eiddo Ef Ei Hun ydoedd, fod ymddarostyngiad y Person Dwyfol yn un gwirioneddol ; ond diffynnid Ei Berson gan anghyfnewidiolrwydd Ei Natur Ddwylol rhag y posibilrwydd o unrhyw ddarostyngiad i bechod : yr oedd Ei ufudd-dod yn ddarostyngiad cyn belled yn unig ag yr oedd Efe yn Gynrychiolydd pechaduriaid.

6. Pa egwyddor a raid ein harwain yma?

Tra y gwahaniaethwn rhwng Person a gwaith y Gwaredwr, y mae yn rhaid i ni gadw mewn cof ym mhob gosodiad mai Efe yw y Cynrychiolydd, er hynny dim ond Cynrychiolydd cofier, i'r hiliogaeth bechadurus. Ei ddynoliaeth oedd cylch Ei ymddarostyngiad.

§ 1. **Y Ddarostyngiad Personol yn ei Sfyngwedd
Sanesiol.**

1. **Y'mha le y mae yn rhaid ini osod dechreuad hyn-
yma?**

Yn hanes sanctaidd y Cenhedliad: ymddarostyngodd Mab Tragwyddol Duw a *daeth yn gnawd* ym mru y wryf, gan gael Ei genhedlu trwy weithrediad uniongyrchol yr Yspryd Glân (Ioan i. 14; Heb. ii. 14). Efe a gymerodd arno, neu a dderbyniodd y natur ddynol.

2. **Sut y parhewn ef?**

Yn nadblygiad pur natur ddynol ein Harglwydd: corfforol, moesol, deallol ac ysprydol. Y dadblygiad dibechod hwn eiddo y Mab ymgnewdoledig ydoedd. A'i ddarostyngiad ydoedd ei fod Ef, er mai y Mab ydoedd, yn cael Ei arwain gan yr Yspryd fel Dyn (Matth. iv. 1).

3. **Oni ddynodai Ei enwaediad, Ei fedydd, a'i demtas-
iwn fod Ei ddarostyngiad yn gyfranogiad o'n
natur bechadurus ni?**

Na wnai: ymgymerodd ein Harglwydd a'r oll fel Cynrych-
iolydd dibechod pechaduriaid: enwaediad fel y daethai dan y
y gyfraith IDDEWIG; bedydd fel Oen Duw yr Hwn sydd yn
tynnu ymaith bechod y BYD; a'i demtasiwn er profi nas gallai
Ef, fel yr oedd yn Dduw, gael ei demtio gan ddrwg fel y llithir
dynion (Gal. iv. 4; Ioan i. 29; Iago i. 13).

4. **Oni wna y fath olygiad y demtasiwn yn ffug?**

Yr oedd temtasiwn ein Harglwydd yn gymhwysiad o brawf
gwirioneddol, mor wirioneddol a'r un a gymhwyswyd at Adda.
Ond profwyd mai Mab Duw ydoedd cryder Ei natur ddynol.
Profwyd Ef yn ystod y deugain niwrnod fel na phrofasid dyn
erioed gan demtasiynau priodol i'r Crist. Ar ol hynny, ymosod-
wyd arno gan dri math o demtasiwn *cyffredin i ddyn* (1 Cor. x. 13),
ac y mae Ei atebion Dwyfol-ddynol nid yn unig yn esponio y
temtasiynau, ond yn ein dysgu ni hefyd pa fodd i'w gwrth-
wynebu. Yr atebion hyn yw yr agoriad i'r cyfan.

5. **Pa nodau o ddarostyngiad a ganfyddir yn sefyllfâ-
oedd olynol bywyd yr Arglwydd?**

Efe a ymdrechodd ran y gŵr uniawn mewn byd anuwiol.
Y dioddefiadau hyn oedd Ei ogoniant; a'u dioddef fel Cynrych-

iolydd pechaduriaid a ddylent ymddarostwng o dan alluog law Duw ydoedd Ei ddarostyngiad.

6. Y'mha ystyr yr oedd ei farwolaeth Ef yn ddibeniad ar Ei ddarostyngiad?

(1) A siarad yn gyffredin, yr oedd yr holl fywyd prynedigol yn ddioddefaint *hyd angau*. *Efe a fu ufudd hyd angau* (Phil. ii. 8; Act. i. 3). Am hynny, er fod yr oll yn ddioddefaint, y dibeniad a elwir gennym Y DIODDEFAINT mewn ystyr uwchraddol.

(2) Yr oedd y fath farwolaeth yr un fwyaf waradwyddus y gallai dyn adael y byd trwyddi: *angau y groes* (Phil. ii. 8). Cysylltai hyn Ei farwolaeth â'r byd, megis y gwnai yr allor âg Iddewiaeth. Nid allor ydyw ond Croes. Dyry yr aberth ar yr allor bwys ar ewyllysgarwch Duw: dyry y Groes y pwys ar waradwydd pechod a ddioddefodd Ef pan yr aeth *Efe o'r tu allan i'r porth*, gan felly *ddwyn Ei waradwydd* a gadael y deml o'r tu cefn. Y mae Ei bobl yn *myned allan ato Ef*, gan ei dwyn hi hwythau hefyd (Heb. xiii. 12, 13).

§ 2. Y Darostyngiad Yrnedigol.

1. Y'mha wedd y golygir y cyflwr darostyngol yma?

Fel ufudd-dod perffaith, didor, hyd y diwedd.

2. A ddichon darostyngiad fod, mewn ufudd-dod o'r fath?

Dichon, fel y'i rhoddir gan Fab Duw, Cynrychiolydd pechaduriaid. Pe amgen nid oes ddarostyngiad mewn ufudd-dod fel y cyfryw.

3. Pa fodd y gosodir hyn allan yn yr Ysgrhythrau?

Mewn tri ymadrodd arbennig a thra phwysig.

(1) Bu i'r Iesu oll-sanctaid ac ymgawdoledig *er Ei fod yn Fab, eto ddysgu ufudd-dod* (Heb. v. 8): nid dysgu ufudd-hau, ond ymbrofodd, neu brofodd yr oll a osodai y gwaith Messianaid arno Ef.

(2) Yr oedd Ei holl ufudd-dod Ef yn ddioddefaint fel haeddiant pechod; ond ufudd-dod oedd Ei holl ddioddefaint Ef. Fel hyn yr oedd yn ddiddymiad pechod dynol: y cyferbyniol i'r trosedd mawr. *Oblegid megis trwy anufudd-dod un dyn y gwnaethpwyd llaweroedd yn bechaduriaid, felly hefyd*

trwy ufudd-dod yr Un y gwneir llawer yn gyfiawn (Rhuf. v. 19). Bu iddo Ef ar yr un pryd ddioddef am bechod a chadw ohono y gyfraith.

(3) *Gan ddyfod o hono yn ufudd hyd angau* (Phil. ii. 8). Dyna'r pryd y dibennodd; ond nid cyn hynny. Bu i angau ddibennu y wers oedd gan yr Ymgnawdoledig i'w ddysgu er gwrthbrofi anufudd-dod Adda.

4. A yw y gair ufudd-dod, gan hynny, yn amgynnwys holl ystyr gwaith y Gwaredwr?

Ydyw, os gwneir ufudd-dod i gynnwys holl ewyllys Duw er ein iechydwrïaeth megis ei gosodwyd ar ein Cynrychiolydd.

II. Cyflwr y Dyrchafiad.

1. Pa rai ydynt sefyllfaoedd a chwrsweithrediadau y dyrchafiad?

Gan ddechreu o honi gyda'r disgyniad i Hades (byd yr ysprydoedd), yr adgyfodiad, yr esgyniad a'r eisteddiad ar ddeheulaw Duw, parhâ i fyned rhagddi yn yr arglwyddiaeth nefol, a chyrrhaedda ei pherffeithrwydd ar ddibeniad y gyfryngwriaeth.

2. Pa berthynas sydd rhwng y cyflwr darostyngol a'r un dyrchafol?

Megis y bwriwyd golwg ar y darostyngiad y'mherthynas Person a gwaith Crist, felly hefyd y rhaid ystyried y dyrchafiad ar bob pwynt.

3. Beth yw perthynas hyn â'r disgyniad i Hades?

Hyn ydoedd gogoneddiad cyntaf Person y Gwaredwr. Bu i'r Hwn a *ymddanghosodd* yn y cnawd, fel yr oedd yn Dduw, gael Ei gyfiawnhau yn yr Yspryd (1 Tim. iii. 16). A hyn ydoedd buddugoliaeth gyntaf Ei waith prynedigol: Efe a'i profes Ei Hun yn *Arglwydd ar y meirw*, fel canlyniad Ei farwolaeth (Rhuf. xiv. 9).

4. A beth yw ei berthynas â'r adgyfodiad?

(1) Yn yr adgyfodiad Efe a *eglurwyd yn Fab Duw mewn gallu* (Rhuf. i. 4): ac yn (2) datganwyd fod Ei waith iawnol yn dderbyniol ac yn ddigonol erom ni: *Mi a roddaf i chiwi sicr drugareddau Dafydd*. Efe a *gyfodwyd i'n cyfiawnhau ni* (Act. xiii. 34; Rhuf. iv. 25).

5. Beth yw arbenigrwydd yr adgyfodiad?

(1) Y symia i fyny ynddo ei hun yr oll o ogoneddiad ein Harglwydd: fel mae y farwolaeth iawnol yw un o golofnau y ffydd, felly, yr adgyfodiad yw y llall.

(2) Yr adgyfodiad yw y prawf Dwysol o wirionedd y datguddiad Cristionogol. Hebddo, *ofer yw eich ffydd chwi* (1 Cor. xv. 17).

(3) Am hynny, y mae y profion ohono yn gyflawn. Ym mherthynas â hyn y ceir yr unig *brofion diamheuol* yn yr Ysgrhythur (Act. i. 3). Ac i archwiliad didwyll y maent yn brofion anffael-edig trwy yr Yspryd Glân (Act. v. 32).

6. Beth yw perthynas yr esgyniad a'r eisteddiad?

(1) Yr hyn oedd ddilynol i'w adgyfodiad ydoedd yr esgyniad—yn ei berthynas â Pherson yr Arglwydd, a dyna, gan hynny, ddibeniad Ei ymddangosiad ar y ddaear.

(2) Yr eisteddiad ydoedd yr esgyniad, a'i olygu yn ei berthynas â'r nefoedd yn hytrach na'r ddaear. Esgynnodd yr Arglwydd oddiar y ddaear, gan *ymadael ohono Ef* oddiwrth Ei ddisgyblion, *ac a eisteddodd ar ddeheulaw y Mawredd yn y goruwchleodedd* (Luc xxiv. 51; Heb. i. 3).

7. Pa urddas sydd iddo yn y Nefoedd?

(1) Fod pob tywysogaeth a gallu *wedi eu darostwng dan Ei draed Ef* (Eph. i. 22).

(2) Ei fod Ef yn cyflawni holl amcanion y Drindod Sanctaidd: *Yn Ben uwchlaw popeth i'r Eglwys* (Eph. i. 22).

8. Sut yr ydym i ddeall rhoddiad i fyny terfynol y gyfryngwriaeth?

O berthynas i waith y Gwaredwr bydd i hyn berthyn i'w ddyrchafiad; gan y datgana fod pob awdurdod arall *wedi ei ddarostwng iddo Ef* (1 Cor. xv. 28). O berthynas i'w Berson, bydd iddo fel Cyfryngwr beidio a bod rhwng y Drindod a'r Creadur: *fel y byddo Duw oll yn oll.*

III.

A Gair Swydd: A Crist fel Proffwyd, Offeiriad a Brenin.**1. Y'mha ystyr y mae y gair Swyddau yn briodol?**

Fel mai trefn y prynedigaeth yw gweinidogaeth y Mab

Ymgawdoledig, a elwir yn Ei gyflwr darostyngol yn Was Jehofah, perthyna i'r gair hwn ei briodoldeb; (Esai. lii. 13; Act. iii. 26). Eithr ni ddefnyddia yr Ysgrhythur un amser ddim ag sydd gyfystyrol âg ef; a chyda gofal mawr y dylem ninnau gymhwyso yr ymadrodd.

2. Pa berthynas a ffynna rhwng y Swyddau a'r Crist?

Y mae Crist, o'r Roeg, a Messiah o'r Hebreig yn arwyddo yr Eneiniog. Yn yr Hen Destament cysegrid y proffwydi, yr offeiriad, a brenhinoedd oeddynt gysgod o'r Gwaredwr dyfodol, i wasanaeth Duw, a chymhwysid hwy i hynny trwy i'r Yspryd Glân ddefnyddio yn arwyddlun dywalltiad yr *olew eneiniad sanctaidd* (Ex. xx. 22—33). Gan beidio ohono mwyach a defnyddio yr arwyddlun, darfu i'r Yspryd hwnnw ddisgyn ar Iesu, gan gysegru Ei Berson, a llenwi Ei Yspryd dynol â'r parotôad gofynnol ar gyfer Ei waith mawr prynedigol. Yn y cyfryw fodd Efe a ddaeth i fod YR ENEINIOG mewn ystyr arbennig, YR ENEINIOG, neu GRIST YR ARGLWYDD (Luc ii. 26).

3. Beth yw hanes yr Enw hwn yn yr Ysgrhythur?

Defnyddiwyd ef deirgwaith yn y broffwydoliaeth gyntefig (Ps. ii. 2; xlv. 7; Esai. lxi. 1; Dan. ix. 24.); daeth yn y Testament Newydd, i fod yn Enw dewisedig am y Gwaredwr, fel y cyfryw; rhoddes enw idd Ei grefydd; a dynoda sancteiddrwydd y sawl ag ydynt un âg Ef trwy dderbyn ohonynt Ei eneiniad Ef (1 Ioan ii. 27).

4. Y'mha fodd y gesyd y Testament Newydd allan gysegriad yr Iesu fel Crist?

Fel darpariad Ei natur ddynol yn y cenhedliad; ac fel Ei seliad i'w swydd Fessianyddol yn Ei fedydd (Luc ii. 26; Ioan i. 31). Y cyntaf ydoedd sail yr ail.

5. Y'mha fodd y gesyd allan ei ymgymeriad â'r gwa-hanol swyddau?

Er fod ein Harglwydd yn Grist perffaith o'i fedydd, ni a sylwn mai yn Nazareth yr ymgwymerodd Efe yn ffurfiol â'r swydd broffwydol (Luc iv. 21.); mai yn Ei weddi ymgysgrol yr ymgwymerodd â'i archoffeiriadaeth (Ioan xvii. 19.); ac mai ar ol Ei adgyfodiad, ar y mynydd yn Galilêa yr hyspysodd Ei ymgymeriad â phob gallu, megis y'i rhodded iddo mewn canlyniad i'w farwolaeth (Matth. xxviii. 18).

6. Y'mha fodd y gesyd allan Ei ymarferiad dilynol o'i swyddau?

Y mae Efe o hyd yn y nef, yr un Crist yn y tair swydd: y rhai y bydd iddo fel y Crist eu rhoddi i fyny yn y dydd diweddaf.

I. Y Crist fel Proffwyd.

1. Y'mha ystyr y defnyddir y gair hwn gennym?

Ni a'i defnyddiwn yn ei ystyr eangaf, gyflawnaf, ac anghyfranogol fel Datguddiwr pob gwybodaeth i ddyn. Ac hefyd, yn fwy penodol fel Dysgawdwr Mawr y datguddiad Cristionogol: Goleuni dynion, a Sylfaenydd Cristionogaeth.

2. Pa fodd y gellir ei ddadblygu yn yr ystyr ddiweddaf?

Bu ein Harglwydd yn Weinidog i'w genhedlaeth Ei Hun am dair blynedd; ac Efe Ei Hun y Gwirionedd i bob oes.

3. Sut i'w genhedlaeth Ei Hun?

Efe ydoedd y Proffwyd y dywedasai Moses am dano wrth ei bobl, y byddai i Dduw ei godi *o blith eich brodyr, fel y cyfododd Efe fi i fyny* (Act. vii. 37). O ba herwydd y mae Efe trwy Ei holl ddysgeidiaeth yn ddehonglydd o'r Hen Destament, yn broffwyd pethau sydd i ddyfod: *yn Weinidog yr enwaediad* (Rhuf. xiv. 8).

4. A sut i bob oes?

Fel y pen Deddf-roddwr, ac fel Pregethwr Ei Efengyl Ei Hun. Gellir, gan hynny, gadw y pyngciau hyn i drafodaeth ddiweddarach, pan y daw Galwedigaeth a Moeseg dan sylw.

II. Y Crist fel Offeiriad.

1. Beth sydd gynhwysedig yn y term hwn?

Holl waith y Gwaredwr fel yr offryma Efe yr aberth iawnol: yn y nef ac ar y ddaear.

2. Y'mha fodd y'i cyflwynir gerbron yn y Testament Newydd?

Fel y cyflawniad o holl wasanaeth aberthol y deml gyntefig, a'r Hen Destament yn gyffredinol.

3. Beth yw y berthynas yma rhwng cysgod a sylwedd?

Y mae hyn yn fater o gryn bwys. Ffynna dwy olygwedd gyferbyniol a gwrthwynebol.

(1) Dywedir nad yw gwaith prynedigol Crist amgen na'r hyn a ddisgrifir mewn termau tarddedig o'r hen drefniant, a chymhwysadwy ato. Y mae hon yn olygwedd hollol anghywir am y cysgod a'r sylwedd ym mherthynas â'r Gwaredwr oedd ar ddyfod.

(2) Y gwir yw fod yr hen drefniant wedi ei gyfansoddi yn y rhagolwg ar yr Iawn oedd ar ddyfod, yr hwn oedd y gwir borthrêd a ddanghoswyd ar y mynydd. Y syniadau aberthol sydd yn y Testament Newydd,—nid ffugyrau mo honynt: yn yr Hen Destament yn unig y maent yn ffugyrau (Heb. viii. 5).

4. Y'mha ystyr yr eneiniwyd Crist fel Offeiriad?

Fel y sylwedd o'r hyn oedd yr archoffeiriad yn gysgod ohono, yr hwn yn ei berthynas â Christ a gynrychiolai holl drefniant yr offeiriadaeth a'r aberthu a'r deml.

§ 1. Yr Archoffeiriad.

1. A oes gwahaniaeth yma rhwng offeiriad ac arch-offeiriad?

Y mae y ddau air yn cael eu defnyddio am ein Harglwydd.

(1) Y maent yn un yn y meddylddrych goruchel o gynrychioli dyn i Dduw a Duw i ddyn; (2) hwy a wahaniaethant yn hyn, sef y gweinyddai yr offeiriad ei swydd o'r tu allan; swyddogaeth aruchel yr archoffeiriad oedd myned i mewn i'r cysegr ger bron Duw; ond yr oedd Crist yn offeiriad ar y ddaear, er mai o *Judah y cododd* (Heb. vii. 14), ac y mae Efe yn archoffeiriad yn y nefoedd.

2. A oedd yr archoffeiriad yn gysgod o Grist y'mhob peth?

Oedd: yn yr hyn yr anhebygai, ac yn yr hyn y tebygai iddo, pob un o'r ddau. Parthed y blaenaf cafodd Aaron a'i olyniaeth eu cymeryd o *bliith dynion* (Heb. v. 1), yr oedd Crist yn *Ddidol-edig oddiwrth bechaduriaid* (Heb. vii. 26); offryment hwy *dros eu pechodau eu hunain* (Heb. vii. 27), ond Efe, *dros bechodau y bobl* yn unig; yr oeddynt hwy yn *llawer* (Heb. vii. 23), ond yr oedd ganddo Ef *Offeiriadaeth ddigyfnewid* (Heb. vii. 23—27).

3. Y'mha wedd arall y nodir allan uchafiaeth swyddogaeth Crist?

Trwy hyn, mai Efe yn unig a wir gyflawnodd swydd arch-offeiriad, trwy ddwyn dyn at Dduw a Duw at ddyn (Heb. ix. 12): gosodir pwys drachefn a thrachefn ar Ei fynediad Ef i mewn i'r Nefoedd un waith am byth, trwy yr un aberth, sef Ei waed Ei Hun. Tra y danghosai aberthiad mynych yr aberthau Lefiaidd ac arhosiad y llen o flaen y sancteiddiolaf nad oeddynt hwy yn effeithio y wir gyfryngwriaeth.

4. Oni chyrhaeddodd y gwasanaeth cyntefig ynte, unrhyw ddiben?

(1) Gwasanaeth *cysegr bydol* ydoedd (Heb. ix. 1): parthed perthynas ddaearol y bobl â'u Duw, yr oedd yn drwyadl effeithiol. Ond (2) nid oedd yn ddim ond gwasanaeth *cysegr bydol*; parthed gwir gymdeithas â Duw yn y cysegr nefol nid ydoedd ond *cysgod o'r daionus bethau a fyddent* (Heb. x. 1). (3) Er hynny i ffydd a phethau perthynol i gydwybod, yr oedd rhinwedd cyfryngiaeth Crist yn amgylchynu ac yn treiddio trwy y cyfan.

5. Pa arwyddion ereill a roddir o'r pwynt diweddaf hwn?

Yn yr Epistol at yr Hebreaid, a rydd yr hanes efengylaidd am y cysegr cyntefig, ceir tri phrawf arall, hynod, sef Melchizedec, y Llŵ, a'r Un Ffydd.

(1) Dywedir fod cysgod offeiriadol o Grist uwch nag Aaron, sef Melchizedec, *yr hwn oedd wedi ei wneuthur yn gyffelyb i Fab Duw* (Heb. vii. 3), ac a gynrychiolai ddwyfoldeb, unoliaeth, a pharhauster yr offeiriadaeth gyffredinol, a ragddanghosid gan yr un Lefiaidd mewn un gwlad ac am dymor cyfyngedig. Cynrychiolai Melchizedec offeiriadaeth ysprydol Crist.

(2) Hyspysir yn y modd difrifolaf, ddarfod sefydlu Arch-offeiriadaeth ein Harglwydd trwy lŵ Duw, yn hytrach nag ar ddeddf yr offeiriadaeth Lefiaidd (Heb. vii. 20): y LLW sydd yn cadarnhau yr ADDEWID a roddwyd drachefn a thrachefn o'r dechreuad, o'r tu allan i Iddewiaeth, a'r hwn hefyd a'i hamgylchyna hi; fel pe byddai yr Efengyl cyn bod y ddeddf.

(3) Danghosir fod ffydd mewn aberth mawr anweledig wedi llwyddo o ddyddiau Abel i lawr, ac y bydd iddi lwyddo fel ffydd yn yr aberth a ymddanghosodd hyd ddiwedd amser (Heb. ii).

§ 2. Yr Aberthau.

1. Y'mha berthynas y saif y rhai'n âg offeiriadaeth Crist?

Y mae popeth cysylltiedig â hwynt,—megis eu defodau, eu mathau, a'u hamserau yn taflu eglurhâd ar yr Iawn, ac am hynny dylid eu hefrydu yn ofalus.

2. Eglurwch hyn trwy ddefodau aberthu?

(1) Cyfeiriai cyflwyniad ac archwiliad yr offrwm, y'nghyd a gosodiad arno ddwyllaw yr offrymydd at yr Iachawdwr, yr Hwn Ei Hunan oedd Offeiriad ac Offrwm, a'r Hwn hefyd a gynrychiolai yr offrymydd: *Efe a'i hoffrymodd Ei Hun yn ddifai i Dduw* (Heb. ix. 14).

(2) Hefyd, y lladd a thaenelliad y gwaed. Oherwydd y *gwaed a wna gymod dros yr enaid*, oblegid, *einioes y cnawd sydd yn y gwaed* (Lef. xvii. 11). Taenellid gwaed y cymod ar yr allor yng nghyfeiriad y llen (Lef. xxi. 6). Enhuddai neu diddymai y pechod neu'r euogrwydd, fel dyhuddiant; ac felly dygai Dduw yn agos fel Cymod, neu Gymodfa: y mae y ddau syniad yn yr un gair (1 Cor. x. 17).

(3) Llosgi yr offrwm â than aberthol, gyda bwyta rhan ohono: hynny yw, Duw yn derbyn trwy dân, a dyn fel ymborth. Arwydda y naill a'r llall dderbyniad a chymodiad; a chant eu cyflawniad terfynol yn swper yr Arglwydd.

3. A berthynai yr holl ddeflon hyn i bob aberth?

Nid yn gyflawn yn un ohonynt. Ond ymuna yr oll yn offrymiad yr Arglwydd.

(1) Yr aberth cysgodol boreuaf a phennaf ydoedd y poeth-offrwm: yn cynnwys yr oll ond y bwyta (Gen. viii. 20, 21). Duw yn unig a'i derbyniai trwy dân: un waith am byth Efe a dderbyniodd offrwm perffaith Iesu, a phery o hyd i dderbyn yr eiddom ninnau er Ei fwyn Ef (Eph. v. 2).

(2) Yr oedd yr amrywiol ebyrth hedd yn seiliedig ar yr un blaenorol (Lef. vii. 11): yn y rhai y datgenid diolchgarwch personol a chyflwyniad rhoddion. *Efe ydyw ein heddwch ni* (Eph. ii. 14).

(3) Yr oedd y pech-offrwm cyflwynedig dan y gyfraith yn gysgod neulltuol o aberth Crist, yr Hwn a wnaeth *Efe yn bechod trosom ni* (2 Cor. v. 21).

§ 3. Tymhorau Aberthu.

1. Pa dymhorau aberthu oeddynt yn gysgod arbennig o'r Iawn Cristionogol?

(1) Y Pasg, gyda'i Bentecost dilynol, neu ŵyl yr wythnosau; yn y Gwanwyn (Ex. xii).

(2) Dydd y Cymod, yn yr Hydref; pryd y cyflwynai yr archoffeiriad waed y pech-offrwm o'r tu fewn i'r llen, dros gamweddau yr holl bobl (Lef. 16).

2. Beth yw perthynas y rhai'n â'u gilydd?

(1) Yr oedd y Pasg yn coffhâu gwaredigaeth yr Israeliaid o gaethiwed, yng nghyd a sefydliad Cyfamod Jehofah gyda hwynt trwy aberth. Gŵyl teuluoedd Israel fel y cyfryw ydoedd. Y Pasg Cristionogol yw Swper yr Arglwydd. *Canys Crist ein Pasg ni a aberthwyd drosom ni; am hynny cadwn wyl* (1 Cor. v. 7, 8), fel coffhad o'i aberth Ef.

(2) Dydd y Cymod ydoedd yr ŵyl fawr genedlaethol.

3. Beth ydoedd eu perthynas â'r tymhorau ereill o aberthu?

Y Pasg ydoedd y gyntaf o dair gŵyl genedlaethol; yr hon a ddilynid gan ŵyl yr wythnosau, a gŵyl y pebyll. Yr oedd dydd y Cymod yn gyd-grynhôad un waith yn y flwyddyn o'r pech-offrymau beunyddiol, a'r offrwm dros bechodau a chamweddau personau unigol.

4. Beth oedd eu perthynas â'r aberth Cristionogol?

Hwy a rag-gysgodent yr unig Iawn, fel dyhuddiant pechod a phrynedigaeth dyn. Yn y groes bu iddynt hwy a'r holl aberthau, yng nghyd â'u holl ddefodau gyrraedd eu diben.

III. Y Crist fel Brenin.

1. Y'mha wedd y cyflwynir y swydd hon gerbron yn yr Ysgrhythur?

Fel awdurdod cyfryngol Crist yn Ei Berson Dwyfol a dynol; seiliedig ar hynny ar Ei farwolaeth, yr hyn a sicrhâodd iddo arglwyddiaeth dros yr hiliogaeth a'r bydysawd er cyflawniad y Dwyfol a'r tragwyddol fwriad, a'r hon a ymarfera Efe hyd y dydd diweddaf oddiar Ei safle ar ddebenlaw Duw yn y nefoedd.

o

2. Beth yw ei pherthynas â'i swyddau ereill?

Dylid cofio na wahaniaethir y swyddau yn yr Ysgrythur, megis eu gwahaniaethir gennym ni.

(1) Y swydd broffwydol a'r un frenhinol un ydynt mewn gwirionedd: y mae yr ymadrodd *Gwrandewch arno Ef* yn eu huno am byth (Matth. xvii. 5).

(2) Y cysgod o Grist fel offeiriad a brenin ydoedd Melchizedec. Pan yr eisteddodd y Sylwedd yn dragywydd peidiodd y cysgodau a llyncwyd hwy yn Ei bresenoldeb achubol Ef yn y nefoedd.

(3) Gan hynny, y mae eiriolaeth a bendith yr Archoffeiriad yn y nefoedd yn rhan o'i uchafiaeth, ac nid yw i'w gwahaniaethu oddiwrthi. Y mae Efe yn bendithio fel yr Arglwydd dyrchafedig.

3. Beth yw ei pherthynas arbennig â'r eglwys?

Yr *Archoffeiriad mawr yr Hwn sydd ar dy Dduw* ydyw Pen yr eglwys, yr hon yw teyrnas Crist (Heb. x. 21). Nid Brenin Ei eglwys ond ei Phen y gelwir ein Harglwydd.

4. Beth yw ei pherthynas â diwinyddiaeth?

(1) Fel awdurdod goruchel y Deddfroddwr, fe a'i ceir ym moes-ddysgeidiaeth y drefn brynedigol ac yn athrawiaeth yr eglwys.

(2) Fel yr awdurdod archoffeiriadol, hi a ymddengys yng ngweinyddiad y drefn brynedigol gan yr Yspryd Glân.

(3) Fel y mae yn awdurdod brenhinol arbenigol, y mae yr ymarferiad ohoni yn ein dwyn at athrawiaeth y farn ddiweddaf.

IV.

Ymdriniaeth Sanesiol.**1. Beth fu cwrs dadleuaeth ar y pyngciau hyn?**

Gwedi penderfyniadau y pedair Cymanfa Gyffredinol o barthed i Berson Crist, parhawyd i ddadleu yn hytrach o berthynas i natur israddoldeb ein Harglwydd: mewn geiriau ereill gwnaed ymdrech parhâol i dreiddio i ddirgelwch anrheiddiadwy undeb y ddwy natur.

2. Pa ffurfiau oeddynt rai boreuaf y damcaniaethau hyn?

Datgenir hwy gan ddau gyfeiliornad: sef, yr un un-naturiaethol (*monophysite*), neu yr athrawiaeth o un natur yng Nghrist,

yr hon ydoedd adfywiad o'r heresi Eutycheaidd, ac un-ewyllysiaeth (*monothelite*), yr hon ydoedd fath o ymgytundeb a haerai nad oedd ond un ewyllys yng Nghrist. Condemniwyd y rhai'n yn y bumed a'r chweched Gymanfa Gyffredinol : ond erys cynrychiolwyr ohonynt yn y Dwyrain hyd y dydd hwn.

3. Pa ffurf a gymerth yn amser y Diwygiad?

(1) Mabwysiadodd y Lutheriaid yr egwyddor ddarfod i natur ddynol Crist gael ei gwisgo, ar ol yr esgyniad, â phriodoleddau Dwyfol :—gan fath o *Communicatio Idiomatum*,* neu perchenogiad cyffredin y cyneddfau Dwyfol rhwng y ddwy natur. Hyn a roddes y gair celf Holl-bresenolaeth† i'r ddynoliaeth ogoneddedig fel sail i athrawiaeth y Cyd-sylweddoliad.

(2) Gwrthodwyd hyn gan eglwys y Diwygiad ; ac ystyriai fod darostyngiad Person Crist yn perthyn am byth i'r ddwy natur ; a darfod i'r Ddwylol ymsuddo i fath o anamlygrwydd, neu enhuddiant yn unig o'i phriodoleddau, ac i'r ddynol gael ei dyrchafu i berffeithder dynoliaeth yn unig.

(3) Cadarnhâodd Cynghorfa Trent ddogma y canol-oesoedd a ddysgai ddarostyngiad adnewyddol a pharhâus trwy draws-sylweddoliad elfennau y cymun : trwy yr hon yn wir y cymysgir y Dwyfol a'r dynol, a gwneir hwy yn un.

4. Beth fu y dadblygiadau diweddarach?

Buwyd yn meddwl gan Ddiwinyddion, yn enwedig y Lutheriaid mai prif bwnge gwyddoreg ddiwinyddol yw datrys undod Person Crist megis y mae Efe ar unwaith yn Anfeidrol ac yn feidrol.

5. Pa fodd yr ymgeiswyd at hyn?

Tra y boddlonai Lutheriaeth foreuol ar ddyrchafu y ddynoliaeth i gyfranogiad o'r priodoleddau Dwyfol yn yr esgyniad, dechreu a meddwl diweddarach gyda'r ymgawdoliad, gan ymwneud ohono â damcanion y Kenosis, neu ymwaghad y Mab, a'i ymddihatriad, neu ei hunangyfngiad, a'i ymleihad o fewn i derfynau meidrol yr enaid dynol.

6. Pa ddedfryd a ellir ei datgan ar hyn?

Yr â uwchlaw terfynau yr ymchwil a ganiatêir gan ddatguddiad. Gosodir i lawr egwyddorion penigol yn yr Ysgrhythur

* Gwel Nodiad XXXIX. † Gwel Nodiad XL.

nid er eglurhâd ond er amddiffyniad i'r athrawiaeth anolrhein-iadwy hon. (1) Darostyngiad Mab Duw ydoedd Ei ymddiosgiad o'r amlygiad o'i briodoleddau: tra Ei Dduwdod hanfodol yn ddigyfnewid. (2) Ei ddarostyngiad,—eiddo Ei Berson ydoedd, hyd ddiwedd y byd. (3) Megis yr oedd yn y dechreu, felly y bydd yn y diwedd, sef ymostyngiad anarostyngol y Mab i breswyllo mewn natur ddynol yn oesoesoedd (Phil. ii. 7; Heb. xiii. 8; 1 Cor. xv. 24; xv. 28).

7. Oni ellir caniatâu i ddamcaniaeth fyned y'mhellach na hyn?

Na ellir byth gyda llwyddiant. *Dirgelwch Duw* yw Crist (Col. ii. 2): nid yn unig fel dirgelwch datguddiedig, ond fel dirgelwch ag sy'n dragwyddol anamgyffredadwy. A'r unig iaith y gellir yn ddiogel roddi ffurf i feddwl ar y pwngc hwn drwyddi yw eiddo yr Ysgrhythur ei hun.

8. Yn y cyfamser, onid yw y ddau gyflwr a'r tair swydd yn gyd-amddiffynnol i'w gilydd?

Y maent felly: oblegid hawlia swyddogaethau proffwydol, offeiriadol, a brenhinol y Crist wahaniaethiad manol y ddwy natur, pa un bynnag ai darostyngol ai dyrchafedig; tra y sicrhâ undod y Person yn y ddau gyflwr gyflawniad tragwyddol o'r oll a olyga y swyddau. Y mae y Dwyfol yn ategu y dynol y'mhob un ohonynt.

9. Pa ddiogelliadau cyffredinol a ellir eu gosod i lawr mewn perthynas i'r tair swydd?

(1) Y mae yn bwysig cofio, nad yw Crist ranedig yn yr ystyr hon chwaith: y mae Ei Berson a'i waith Ef fel eu gilydd yn un.

(2) Fod swydd aberthol yr Archoffeiriad yn wir yn hanfodol, ac y cynhwysa fêr a sylwedd prynedigaeth gyfryngol y Gwaredwr.

(3) Fod y mwyafrif o'r cyfeiliornadau sy'n blino yr eglwys Gristionogol wedi tarddu o'r angof o hyn. Am hynny ceir nifer lluosog a ddarostyngant berthynas y Gwaredwr â dynolryw i ddim ond dysgawdwr neu arglwydd mewn moesau, i'r Hwn y rhoddir y flaenoriaeth y'mhlith awdurdodau dynol, er nad yw ond dynol.

(4) Nis gellir ailadrodd yn rhy fynych y sylw a wnaed eisoes, fod dirgelwch ymostyngiad ein Harglwydd i ymddangos yn y

cnawd, yn gyfryw nas gellir gydag unrhyw lwyddiant ei olrhain, yn ein cyflwr presennol o leiaf, os byth.

(5) Y drefn Ysgrhythrol o osod y pwngc ger ein bron yw trwy roddi i'n Harglwydd rifes o ENWAU, y rhai ar wahân ac mewn undeb a'u gilydd, a fforddiant yr arddanghosiad goreu o'i gymeriad amryfath Ef. At yr enwau hyn, y rhai fel enwau Duw ydynt wrthddrychau i ffydd yn hytrach nag o ymchwiliad, y tröwn yn bresennol.

V.

Gnau'r Jesu.

1. Pa bwysigrwydd sydd yn enwau Ysgrhythrol ein Harglwydd?

Hwy a ymestynnant dros Berson, cyflyrau a swyddau Crist; a hwy ydynt y termau, megis, trwy y rhai y mae yr Yspryd Glân yn dysgu athrawiaethau yr Efengyl. Am hynny efrydiaeth o'r enwau hyn, bob un ar ei ben ei hun, ac yn gynulliadol, ydyw yr efrydiaeth o ddiwinyddiaeth Gristionogol.

2. Pa ddosparth o enwau a ddeffniant Berson ein Harglwydd?

Perthyna rhai i'r Gwaredwr cyn-amserol; rhai i'w gyflwr ymgnewdoledig; a thynnir rhai o'r ddau gyflwr hyn, neu, y maent yn gyffredin i'r Duwdod a'r dyndod.

3. A ellir gyda sicrwydd gymhwyso unrhyw enwau at Grist fel bôd, cyn yr ymgnewdoliad?

Gelwir Ef yn DDŴ (Ioan i. 1): a thrwy gymharu ymadroddion Ysgrhythrol y mae Efe yn JEHOFAH neu ARLWYDD (Mal. iii. 1); ond fel Y MAB (Luc i. 76), y dynodir Ei gyflwr cynamserol yn fwyaf uniongyrchol. A phan y llefarir am dano fel yr UNIG-ANEDIG (Ioan iii. 16), a hyn yn uwch na'i genhedliad gwrthiol: pwynt o'r pwysigrwydd mwyaf.

4. Pa enwau a fynegant yr ymgnewdoliad?

Fel y mae yn ymgnewdoledig gelwir ein Harglwydd unwaith yn IMANUEL, fel arwydd yn hytrach nag enw; yr enw a roddai Efe arno Ei Hun ydoedd MAB Y DYN. Nid oes gan ddiwinyddiaeth derm penodol am ddirgelwch yr Un Person yn cyfateb i'r hyn yw Trindod i osod allan ddirgelwch y Duwdod;

ond mabwysiaida ansoddeiriau megis YMGNAWDOLEDIG, a DWYFOL-DDYNOL (Matth. i. 23; Esai. vii. 14).

5. Pa enwau a gynhwysa y ddwy natur—y Ddwyfol a'r ddynol?

Y mae Y MAB yn y cymhwysiad cyffredin ohono yn cyfuno y ddwy; a dichon mai dyma yr unig enw a wna hynny.

6. Pa enwau y gellir eu galw yn rhai swyddogol?

Perthynant i ddau ddosparth: y cyfryw a roddant y pwys ar yr urddas yn y darostyngiad, a'r cyfryw a roddant y pwys ar y darostyngiad yn hytrach na'r urddas. Y mae yr rhai olaf hyn yn dra chyffredin.

7. Nodwch y rhai blaenaf?

Gelwir Ef YR ARGLWYDD, ARGLWYDD Y GOGONIAINT, fel y mae Efe yn groeshoeliedig (1 Cor. ii. 8). TYWYSOG Y BYWYD (Act. iii. 15); gallwn hefyd ychwanegu Y GAIR (Ioan i. 1); a'r UNIG-ANEDIG: *cyn pob creadur, ac oddiwrth y meirw* (Col. i. 15, 18). Eithr nid oes un o'r Enwau hyn wedi treiglo i arferiad cyffredin.

8. Pa rai ydynt yr olaf?

IESU, Y CRIST, GWAS (neu, megis yn flaenorol, *plentyn, pairs* Duw Act. iii. 26); a'r holl enwau hynny a dderbynia Efe oddiwrth Ei amrywiol swyddau: y rhai fodd bynnag nid ydynt yn gymaint o enwau ag ydynt o ddynodiadau diwinyddol am ein Harglwydd mewn perthynas â'i waith. Enw nas defnyddir mo hono yn yr Ysgrythur,—Y GWAREDWR* sydd wedi dyfod yr enw mwyaf arferedig yn yr Eglwys Gristionogol (Esai. lix. 20; Rhuf. xi. 26).

9. Pa rai ydynt enwau Ei swydd Broffwydol?

Yr oedd rhai ohonynt yn newidiol (*transitory*), a pherthynant i'w weinidogaeth ddacaeol: megis Rabbi, Proffwyd, Dysgawdwr, Gweinidog yr Enwaediad, ac Apostol (Rhuf. xv. 8). Eithr nid oes un ohonynt wedi bod yn arhosol, oddieithr, y gellir ystyried Y GAIR yn enw parhâol (Heb. iii. 1).

10. Pa enwau a ddyry Ei offeiriadaeth iddo?

Y maent yn dra lluosog: Archoffeiriad, Diddanydd, Oen Duw, y Cymod,—dyma y rhai amlycaf.

* Defnyddir y gair *Prynawdwr* yn fynych yn y Gymraeg, ond yr un mwyaf arferedig yn ddiau yw *Gwaredwr*.—T. J. P.

11. Pa rai a darddant oddiar Ei frenhiniaeth gyf-rngol?

Y pennaf yw YR ARLWYDD, yr hwn a lwnge ynddo ei hun bob un arall. Hwn o bosibl, yw yr enw a ddefnyddir yn fwyaf cyffredinol o'r holl enwau a roddes swyddau ein Gwaredwr iddo. Y mae yn cyfateb yn hytrach i Adonai nag i Jehofah yr Hen Destament; a gellir ei olrhain trwy gydol y Testament Newydd fel gair dynodol parch Ei ddisgyblion. Gan ddwyn ohono yr ystyr hon, y mae yn gyfunedig â phob un arall, bron.

12. Pa enwau amrywiaethol a gymhwysir at yr Arglwydd?

Y mae yr holl Ysgrythur yn gyflawn o ymadroddion ffugyrol, a gymerwyd o bob cylch i ddisgrifio cymeriad, trahagoriaeth, a gwerthfawredd diderfyn Crist. Bu i'n Harglwydd Ei Hun wneud defnydd helaeth ohonynt: ac y mae rhifres yr enwau ffugyrol a roddes Efe arno Ei Hun, yn un dra eang a thra addysgiadol. Perthyna y rhain yn hytrach i ddiwinyddiaeth ddefosiynol.

13. Y'mha fodd y cyfunir yr enwau hyn yn yr Ysgrythur?

Y mae y cyfuniadau yn dra amrywiaethol, a dylid eu hefrydu fel y digwyddant, ac yn y lle y digwyddant, gan gyfeirio at y rhesymau drostynt. Ceir ddarod i IESU yn raddol, ddyfod yn GRIST, gan dreiglo o bob un o'r geiriau yn raddol o fod yn ddynodiad swyddogol, i fod yn enw personol, ac yna yn IESU GRIST. Ni a gawn y cyfuniadau mwyaf aruchel yn epistolau St. Petr, a rhagora yr ail epistol ar y cyntaf. EIN DUW A'N HACHUBWR IESU GRIST (2 Petr i. 1); IESU EIN HARGLWYDD NI (adn. 2). EIN HARGLWYDD A'N HACHUBWR IESU GRIST (adn. 11). Ceir yn yr Apocriffa amrywiaeth o Enwau ffugyrol newydd, y'nghyda rhai a'i unrhywiant Ef â Jehofah.

14. Y'mha fodd yr ydym i ddeall y cymhwysiad anfynych o'r gair Duw at ein Hiachawdwr?

(1) Ar y tir o'i israddoldeb i'r Tâd yng ngwaith y prynedigaeth.

(2) Am mai Ei Dragwyddol Fabolaeth a hawliai amlygrwydd ym mhob man.

(3) Ond rhaid yw cofio y cymhwysid ato ar ddigwyddiadau penodol, pan yr hawlid hynny gan Ei urddas Ef, yr Enw goruchel mewn modd dibrin: er engraifft, *yr Hwn sydd DDUW UWCHLAW PAWB* (Rhuf, ix. 5).

15. Pa ystyriaethau a gyfyd oddiwrth y cyfan?

Gellir dweud yn gyffredin

(1) Mai enwau ein Harglwydd yw y testynau goreu, yn wir, ac ar adegau yr unig destynau arbrofol i'w dyfynnu mewn diwinyddiaeth Gristionogol. (2) Y dylai y cymhwysiad a wneir ohonynt yn y Testament Newydd reoleiddio yn fanwl y defnydd a wnawn ohonynt. (3) Y dylai yr efrydiaeth ohonynt argraffu arnom y parch dwfn sy' ddyledus i'r ENW YR HWN SYDD UWCHLAW POB ENW (1 Petr i. 8; Phil. ii. 9). Gyda gofal y dylid defnyddio ansoddeiriau o gynefindra ac anwylddeb, a hynny hyd yn oed yn iaith defosiwn Gristionogol.

PENNOD IV.

Yr Iawn Gorffenedig.

Abagarmeiniad.

1. Beth a olygir wrth Iawn Gorffenedig?

Ffrwyth yr ymyriad cyfryngol, cwrsweithrediad yr hwn, ar y ddaear ac yn y nefoedd a olrheiniwyd gennym eisoes.

2. Beth yw grym y gair gorffenedig?

Golyga yr ystyrir y ffaith fel un sydd yn wrthddrychol gyflawnedig: (1) gwahaniaethir hi felly oddiwrth ei chyflawniad RHINWEDDOL er seiliad y byd; ac yn (2) oddiwrth y budd DEILIADOL ohoni i ddynolryw a chredinwyr.

3. A'i olygu felly, pa fodd y mae deffinio yr Iawn?

Y mae i'r Iawn, a rhaid fod iddo, ddau ddeffiniad, yn ol yr ystyr fwyaf gyffredin, a'r un fwyaf gyfyng a roddir i'r gair Iawn: mewn geiriau ereill yn ol ei arwyddocâd yn yr Hen Destament a'r Newydd.

4. Beth yw y gwahaniaeth hwnnw?

Y syniad cyffredin am Iawn yw, mai yr hyn a offrymir er dyhuddo y digofaint Dwyfol ydyw, dyna yr ystyr lefeticaidd. Ei ystyr yn y Testament Newydd megis yr un a roddir yn y gair *Katallagê* gan St. Paul yw y cymodiad effeithiedig rhwng Duw â dyn. Gorffwysa y gwahaniaeth rhwng y MODDION a'r EFFAITH.

5. Beth ynte yw y gwir ddeffiniad, megis y cynhwysa y ddwy ystyr?

Yr ymgymodiad cydhwng Duw a'r hiliogaeth ddynol trwy gyfryngiad dirprwyol ac ufudd-dod aberthol Iesu Grist. Cyfuna hwn y ddwy ystyr.

6. Darnodwch dermau y deffiniad?

(1) Gesyd y rhan gyntaf ohono y pwys ar berthynas yr Iawn dirprwyol a'r HILIOGAETH; a siarad yn fanwl, nid oes dim dirprwyaeth yn ei gymhwysiad at y person unigol.

(2) Y mae yr ymgymodiad yn cynnwys Duw a dyn: cydrhwng y ddau hyn y mae. Nid oes y fath beth ag athrawiaeth YR IAWN* yn bod yn llythyrennol ar unrhyw dybiaeth arall. Y mae ymgymodiad dyn yn unig â Duw yn beth afreolaidd.

(3) Cyfeiria yr ufudd-dod aberthol at yr offrymiad gweithredol a goddefol ohono Ei Hun gan y Mab i'r Tad, megis yn lle dioddefaint goddefol ac ufudd-dod gweithredol dynolryw: y naill a'r llall yn ddirprwyol yn eu perthynas â'r hiliogaeth; tra rhinwedd neu werth yr undeb ohonynt yn effeithio y cymodiad.

(4) Ond rhaid cysylltu y gair TRWY â chyfryngwriaeth yn ogystal âg ufudd-dod aberthol. TRWY y gyfryngwriaeth ei hun y dengys Duw Ei fod wedi Ei gymodi, megis y darfu iddo Ef ddarparu ohono yr Iawn TRWY yr hwn yn unig y galledid datguddio Ei gariad.

(5) Dynoda y gair dirprwyol, fodd bynnag, brynedigaeth yr hiliogaeth: nid cyflwyniad dirprwyol i Dduw ydyw yn unig, ond un DROS ddyn hefyd: ac y mae yr hiliogaeth wedi ei rhyddhau.

7. Y'mha fodd y mae i ni ddosparthu a symleiddio hyn oll?

Y mae yr Iawn i'w ystyried, yng nghyntaf, yn ei hanfod, megis ei hoffrymwyd gan Grist, ac y'i derbyniwyd gan Dduw; yn ail, yn yr effaith triphlyg ohono, fel dyhuddiant pechod, fel ymgymodiad Duw â dyn, ac fel prynedigaeth dyn.

I.

Yr Iawn Gyflwynedig.

1. Pa agweddau o'n pwngc a berthyn i hyn?

Y cyfryw yn unig a berthyn i angenrheidrwydd, dilysrwydd a pherffeithrwydd offrymiad aberthol y Gwaredwr.

2. Sut y gellir dangos y rhain?

Gellir eu dangos ym mherthynas Duw a dyn, yr hon a hawliai Iawn; ym mherthynas Crist a dyn yr hon a wnelai Iawn yn ddichonadwy; a pherthynas Duw a Christ, yr hyn a barai ei fod yn Iawn perffaith.

* Yn y Saesneg ATONEMENT,—*at-one-ment*—o'r-un-farn, neu feddwl.

§ 1. Duw a'r Fecfabur.

1. Beth yw sail yr angenrheidrwydd am offrymiad Crist?

Y mae perthynas dyn â'i Greawdwr wedi ei dyrysus gan bechod; a'r Iawn yw trefn ei hadferiad.

2. A raid i hyn, o angenrheidrwydd fod trwy Iawn?

Paham y rhaid iddi fod felly sydd ymofyniad uwchlaw ein cyrhaeddiadau ni. Ac nid digonol yw cyfatebiaethau dynol i esponio hynny. Digon yw y clywir llais cydwybod yn gofyn *Pa fodd y cyfiawnheir dyn gyda Duw* (Job x. 2), ac un atebiad yn unig a rydd datguddiad.

3. Onid ymorffwysa calon dyn pechadurus ar dosturi penarglwyddol Duw tuag at ei drueni?

Na wna byth yn ei chynhyrfiadau dilwgr. Fe driga yn nyfnderoedd yspryd dyn arswyd y Duw y troseddwyd i'w erbyn, ac nid yn unig am Ei allu i gopsi. Yr ofn olaf hwn a ddeffröir yng nghyntaf yn yr argyhoeddiad o bechod, ond daw, gyda phardwn ac adnewyddiad yr ymwybodaeth ddofnach honno o ddrwg pechod ynddo ei hun.

4. Nid yw datguddiad ynte yn datgan yr angenrheidrwydd hwn?

Ni wna yn ffurfiol na'i ddatgan na'i brofi; eithr cymerir hynny yn ganiatâol ym mhobman, megis y gwneir â'r bôd o Dduw, a grym pechod. Dilynr *os yw bosibl* gan y Groes (Matth. xxvi. 39).

5. Pa fodd y golygir yr angenrheidrwydd am Iawn yn bennaf mewn ymdriniaeth ddiwinyddol?

Trwy ei gyfeirio at y ddeddf, ac at natur Duw.

6. Y'mha fodd at Ei ddeddf?

Amddiffynnir honno gan y cyfiawnder Dwyfol a hawlia daledigaeth i'r ddeddf ei hun ym mherson y Deddfroddwr, a'i hanrhydeddiad yn Ei lywodraeth gyffredinol Ef.

7. Y'mha fodd at Ei natur?

Amddiffynnir honno gan y Dwyfol sancteiddrwydd a hawlia fod pechod i gael ei dynnu ymaith mewn trefn i adferiad y

pechadur i gymdeithas â Duw. Y mae yr Iawn—*lynnu ymailh bechod—eis athetêsîn* (Heb. 10) yn effeithiol i'r amcan hwn a'r un blaenorol.

8. Onid ellir cyfarfod â'r ddau amcan hyn trwy faddeu oddiar hollalluowgrwydd noeth?

Dyna sy wedi bod y brif ddadl gan holl wrthwynebwyr athrawiaeth yr Iawn. Ond, hyd yn oed, pe byddai maddeuant diamodol yn gyson â Dwyfol gyfiawnder, fe hawliai y Dwyfol sancteiddrwydd gyfnewidiad yn natur y pechadur mewn trefn iddo gymdeithasu âg ef.

9. A yw iaith datguddiad yn gwahaniaethu rhwng y ddau fath hyn o angenrheidrwydd?

(1) Cyfiawnder Duw yn amddiffyn Ei ddeddf, a'i sancteiddrwydd yn amddiffyn Ei natur,—un ydynt yn Nuw Ei Hun: Efe yw a hawlia gyfryngiad Iawnol, yn ein dychweliad at Ei ddeddf, ac ato Ef Ei Hun; a diogelir pob un o'r ddau gan yr Iawn Cristionogol.

(2) Ond mabwysiaida yr Ysgrythur y ddwy drefn hon o ddysgu yr athrawiaeth, yr hon er yn un ynddi ei hun, a gerdd rhagddi, er hynny mewn dwy linell wahaniaethol o eiriadaeth; y naill yn dysgu ein hadsefydliad yn ffafwr Duw, a'r llall ein hadferiad i'w sancteiddrwydd Ef.

10. Beth yw ffurf ein deffiniad bellach?

Yr Iawn yw y ddarpariaeth Dwyfol er dilëu pechod dynol, fel halogrwydd a llygredd, pob un o'r ddau.

§ 2. Crist a'r Pechadur.

1. Pa berthynas y mae yr Iawn yn ei datguddio rhwng Crist a dyn, gwrthddrych ei gyfryngiad?

Y Mab ymgnewdoledig, er gyda gwahaniaeth penodol yw dirprwywr, cynrychiolydd, a hunan arall dynion.

2. Y'mha wedd y gellir golygu y gwahaniaeth penodol hwnnw?

Mewn perthynas â'r hiliogaeth, â'r eglwys, â'r person unigol; gwahaniaethiad er hynny, y rhaid ei ddefnyddio yn ochelgar.

3. Pa fodd yn ei berthynas â'r hil ddynol?

Crist yn yr ystyr fwyaf hanfodol yw Gwaredwr dirprwyedig y byd: cymerodd arno yr hyn a elwir yn awr gennym ni yn natur ddynol, ac achubodd hi. O barthed i hyn y mae y ddirprwyaeth yn bendant, ac *anti* (dros) yw y rhagddodair a ddefnyddir: *Yntau dyn Crist Iesu, yr Hwn a'i rhoddes Ei Hun yn bridwerth dros bawb* (1 Tim. ii. 5, 6). Yn Ei eiriau Ei Hun *pridwerth dros* (anti) *laweroedd* (Matth. xx. 28).

4. Pa wedd yn ei berthynas â'i gorff, yr eglwys?

Yma, o'r braidd na cheuir allan yr un trososodol gan yr un cynrychioliadol. *Os bu un farw dros bawb, yna meirw oedd pawb* (2 Cor. v. 14), a'r rhagddodair yw *huper*, ar ran. Ac yn yr ystyr hon y mae Efe wedi myned i *ymddangos ger bron Duw trosom ni* (Heb. xi. 24).

5. Pa wedd mewn perthynas â'r person unigol?

Ceir yma fwy na'r cymeriad dirprwyol na'r un cynrychioliadol: y mae y credadyn yn un â Christ trwy undeb cyfrinol. Megis yn St. Paul, *Myfi a groeshoeliwyd gyda Christ, a thrachefn fel yr adnabyddwyf Ef, a grym ei adgyfodiad Ef, a chymdeithas Ei ddioddefiadau Ef* (Gal. ii. 20; Phil. iii. 10).

§ 3. Duw yng Nghrist

1. Beth y mae hyn yn ei gynnwys?

Ddarfod i Dduwdod Person ein Harglwydd roddi anfeidrol werth ar yr offrmw a gyflwynodd Efe fel perffaith Ddyn dros ddynion. Gelwir Ei waed, a siarad yn barchus, gan Dduw yn anuniongyrchol trwy yr apostol *Ei briod waed Ei Hun* (Act. xx. 28).

2. Y'mha fodd y traethir hyn yn yr Ysgrythur?

Yn ystod cyflawniad y gwaith, iaith y Tad yw, *Hwn yw fy anwyl Fab yn yr Hwn y'm boddlonwyd* (Matth. xvii. 5). Ac ar ol cyflawniad y gwaith fe ddywedir fod *Duw yng Nghrist yn cymodi y byd âg Ef Ei Hun* (2 Cor. v. 19). Ond yn y cyffredin tybir fod y ffaith mai Mab Duw ydoedd yr Hwn a fu farw drosom ni yn llefaru digon: *Yr Hwn a'i rhoddes Ei Hunan* (1 Tim. ii. 6)! Ymddyrrha y gwaed a'r bywyd i fod yn EFE EI HUNAN.

3. Pa fodd y dylanwada gwahaniaethiad y ddwy natur yng Nghrist ar yr athrawiaeth?

Rhoddos Efe ufudd-dod perffaith yn ein natur syrthiedig ni, a chan hynny *Efe a gondemniodd bechod yn y cnawd* (Rhuf. viii. 3): nid yn unig fel *offrum dros bechod*, ond felly gan ddangos cariad perffaith tuag at Dduw a dyn mewn natur ddynol adferedig. Hyn, fodd bynnag ni wnaeth Efe drosto Ei Hun, ond fel Duw yn y cnawd. Er budd pwy, ond dyn?

4. Pa fodd y mae deall y gair Haeddiant?

(1) Dyma y term y mynega diwinyddiaeth trwyddo y gwerth a rodded ar offrymiad y Mab Ymgnaudoledig gan y Tad: gwerth a osodir yn gyferbyniol â phechod dyn. (2) Llefara yn gyffelyb hefyd am RINWEDD yr Iawn, yr hyn a gyfetyb i rinwedd personol yr Hwn a'i hoffrymodd. (3) Mynega diwinyddiaeth y ddau syniad weithiau, trwy yr ymadrodd ER MWYN CRIST, nas ceir mohono yn llythyrennol yn y Testament Newydd, mwy na'r ddau arall (1 Petr i. 19; Eph. v. 2; Eph. iv. 32).

I.

Yr Iawn a'i olgu yn Si Offeithiau.

1. Sut y gellir dadansoddi hyn?

Yn ei berthynas â Duw dynodir ef fel Iawn (*propitiation*); yn ei berthynas â Duw a dyn fel y cymod; yn ei berthynas a'r dyn ei hun prynedigaeth.

2. A ellir ysgaru y rhain?

Er y rhed y termau y naill i'r llall, bydd i'r gwahaniaethiad hwn brofi yn gryn gynorthwy i iawn-ddeall geiriadaeth y Testament Newydd, a chan hynny athrawiaeth yr Iawn a ddysgir ganddo.

§ 1. Iawn (*Propitiation*).

1. Beth yw ystyr y gair hwn?

Ymranna yr un gair Groeg *hilaskesthai* i ddau, yn y cyfieithiad ohono i'r Saesneg. Mewn Iawn tybir fod Duw yn cael Ei ddwyn yn agos drachefn (PROPE). Mewn dyhuddiant, fe guddir y pechod o'i olwg. Heddychir Duw; a dyhuddir, dirymir, neu dilëir pechod fel euogrwydd, trwy

gael ohono ei GUDDIO neu ei HUDDO allan o'i olwg, fel y dynoda y gair Hebreig am Iawn.

2. Y'mha gysylltiadau y defnyddir y gair?

Bob amser mewn perthynas agos â'r aberth Archoffeiriadol.

(1) Y mae Crist yn *drugarog*, ad Archoffeiriad ffyddlon mewn pethau yn perthyn i Dduw, i wneuthur Iawn dros bechodau y bobl (*hilaskesthai*, a gamgyfieithir yn gymod, Heb. ii. 17).

(2) Efe a *osodwyd allan yn iawn trwy ffydd yn Ei waed Ef* (*hilastêrion*, y dyhuddiant iawnol, neu y drugareddfa, Rhuf. iii. 25).

(3) Ac y mae Efe yr awrhon yn Ei Berson Ei Hun yr *Iawn dros ein pechodau ni* yn y nefoedd (*hilasmos* i Ioan ii. 2).

(4) Ailadroddir hyn, a'r hyn fe ddichon yw y gair diweddaſ ar y pwngc, am Ei holl weinidogaeth. *Ac a anfonodd Ei Fab i fod yn Iawn dros ein pechodau ni* (1, Ioan xiv. 10). Yn Ei holl waith Efe yw yr Iawn (*hilasmos*).

3. A ddywedir fod pechaduriaid yn ymgymodi (*propitiate*) a chyflawnder neu ddigofaint Duw?

(1) Nid â'i gyflawnder, yn sicr, yr hwn nis gellir Ei gymodi, ond rhaid iddo fel Ei gariad gael ei foddloni.

(2) Ac ni ddywedir ein bod ni pan yn derbyn y cymod yn cymodi neu yn heddychu y Dwyfol anfoddlonrwydd, ond y diogelwn i ni ein hunain y dyhuddiant sydd wedi ei ddarparu gan Dduw.

(3) Canys Duw Ei Hun, a Christ ein Harchoffeiriad ni ydynt, yn yr ymadroddion a ddyfynnwyd enwedigion personol y ferf rhoddi Iawn (*propitiate*). Yn hytrach Crist sydd yn rhoddi yr Iawn, a Duw yn cymodi âg Ef Ei Hun.

§ 2. X Gymod.

1. Pa fodd y cyflwynir i sylw y gair cymod?

A siarad yn fanwl dim ond gan St. Paul y cyflwynir ef i sylw, efe a'i defnyddia mewn tair perthynas y rhaid eu cymharu gyda gofal.

(1) Yr oedd Duw yng Nghrist yn cymodi y byd âg Ef Ei Hun heb gyfrif iddynt eu pechodau (2 Cor. v. 19). *Fe a'n cymodir â Duw trwy farwolaeth Ei Fab Ef* (Rhuf. v. 10).

Yma gweithred yn y gorffennol yw; ac effeithiwyd y cymod unwaith am byth trwy y groes.

(2) *Gweinidogaeth y cymod yw yr efengyl, a'i derbyn hi yw derbyn y cymod* (2 Cor. v. 18; Rhuf. v. 11).

(3) Y mae y cymod hwn megis y'i pregethir i'w wahan-iaethu oddiwrth yr heddwach, yr iechydwrïaeth a'r bywyd sydd yn dilyn y derbyniad ohono. Hwn yw sail yr apeliad: *cymoder chwi â Duw* (2 Cor. v. 20).

2. Ai nid y Cymodydd yn wastad, ac nid y Cymodedig yw Duw?

Datgenir Ei fod Ef *yn cymodi pob peth âg Ef Ei Hun*, ymadrodd sydd i'w ddechongli gan, *cymodi y byd âg Ef Ei Hun* (Col. i. 20; 2 Cor. v. 19),—oblegid fod ffordd adferiad yng Nghrist *ein Heddwch ni* ohono Ef (Eph. ii. 14). Canys *rhyngodd bodd i'r Tad* (Col. i. 19).

3. Gan hynny, pa ddefiniad o'r Iawn a gyfyd yma?

Yr Iawn sydd adferiad cymdeithas rhwng Duw a dyn trwy gyfryngiad Crist yr Hwn a *wnaethpwyd yn bechod trosom ni*, a'r Hwn a ddioddefodd, *fel y dygai ni at Dduw* (2 Cor. v. 21; 1 Petr. iii. 18).

4. Ond ymddengys hyn fel yn gwneud dim ond Duw yn unig yr un cymodedig?

A dyna yw y gwirionedd yn yr Iawn gwrthddrychol: y mae ein cymodiad personol ni yn perthyn i'r cymhwysiad ohono gan yr Ysryd.

5. A yw y defnyddiad ysgrythyrol o'r gair yn cadarnhau hyn?

Ni ddefnyddir ef am yr Iawn yn yr Hen Destament, ond ni a'i cawn yn Llyfr yr Apocriffa. *Hwy a ddeisyfasant ar i'r Arglwydd trugarog ymgymodi a'i weision* (2 Macc. viii. 29). Defnyddir gair perthynol am Dafydd, *Canys a pha beth y rhyngai hwn fodd* (yr ymgymodai) *i'w feistr?* (1 Sam. xxix. 4). A chan ein Harglwydd *Yng nghyntaf cymoder di a'th frawd* (Matth. v. 15). Defnyddir yr un gair yn union gan St. Paul, —*neu cymoder hi â'i gwr* (1 Cor. vii. 11). Yn awr yn yr holl engreiftiau hyn, rhaid i'r ymgymodiad fod o'r ddeutu, o leiaf, os nad mewn modd arbennig oddiwrth y blaid gyda'r hon y mae yr ymgymodiad i gymeryd lle.

§ 8. Prynedigaeth.

1. Pa berthynas sydd rhwng y gair hwn a'i ragflaenorion?

Cyfeiria y rhai blaenorol yn hytrach at y pechod sydd mewn dyn, a'r priodoleddau sydd yn Nuw a barânt fod Iawn yn angenrheidiol: cyfeiria y gair hwn yn hytrach at y pechaduriaid eu hunain, fel rhai a brynwyd.

2. Oni chyflwyna i'n sylw feddylddrych newydd?

Edrycha ar bechod fel caethiwed, ar Grist fel Gwardwr, ac ar Ei Iawn Ef fel taliad i lawr bridwerth.

3. A oes yn y gair hwn, gwerth gyfeiriad at bechod fel dyled?

Nid yn fanwl felly, pa le bynnag y gwneir crybwylliad am werth offrymiad ein Harglwydd, fe wneir hynny nid yn gyferbyniol i unrhyw swm dyledus oddiwrthym ni, ond fel y gwerth â'r hwn y prynwyd ni ein hunain (1 Petr xviii. 19).

4. Wedi ein prynu, neu ein rhyddhau, hynny yw o gaethiwed?

O gaethiwed pechod: yng nghyntaf fel cosp, ac yna fel gallu. Nid yw Satan a marwolaeth ond israddol.

5. Beth yw perthynas aberth ein Harglwydd â'r blaenaf?

(1) Efe a roddes Ei fywyd yn *bridwerth dros lawer* (Matth. xx. 28) ac *y mae i ni brynedigaeth trwy Ei waed Ef* (Eph. i. 7); ac *Efe a roddes Ei Hun yn bridwerth dros dawb* (1 Tim. ii. 6). Efe a aeth i mewn *gan gael i ni dragwyddol ryddhâd* (Heb. ix. 12).

(2) Ond danghosir fod y rhain yn gyfystyr â'r Iawn: *trwy y prynedigaeth sydd yng Nghrist Iesu, yr Hwn a osododd Duw yn Iawn* (Rhuf. iii. 25). Yn yr ymadrodd hwn ac eraill y mae y ddau feddylddrych o aberth a phrynedigaeth yn ymdoddi i'w gilydd.

(3) Ond y mae y prynedigaeth yn wastad yn cynnwys priddwerth neu *lutron* dros bersonau, neu dros y byd fel y golyga bawb.

6. Beth eto yw ei berthynas â'r olaf, sef gallu pechod?

(1) Yn yr Hen Destament ni a gawn y meddylddrych o GOEL neu gyfnesaf yr hwn sydd raid iddo ollwng *yr hyn a werthodd ei frawd* (Lef. xxv. 25).

(2) Yn y Testament Newydd, y mae ein Gwaredwr, nid yn unig yn rhyddhau oddiwrth gaethiwed, neu *felldith y ddeddf*, ond prynu yn ol hefyd, ein hetifeddiaeth golledig sef yr Yspryd Sanctaidd, neu *fendith Abraham* (Gal. iii. 13, 14). Y mae y ddwy agwedd hon o eiddo ein prynedigaeth yn anysgaradwy.

(3) A thrwy nerth Ei Yspryd bwriada Crist ein *prynu oddiwrth bob anwiredd, ac i'n puro ni iddo Ei Hun* (Tit. ii. 14).

7. A yw y prynedigaeth hon, mewn ystyr wrthddrychol dros bawb?

Prynedigaeth gyffredinol ydyw yn hanfodol felly.

(1) Fel pob gair sydd yn dwyn perthynas â'r Iawn, y mae hwn hefyd mor fawr a phechod, neu yr hiliogaeth bechadurus; y mae pechod a phrynedigaeth yn gyfochrog, a thrwy holl gydol yr athrawiaeth fe berthyna iddynt yr un eangrwydd.

(2) Y mae yr ymadroddion cyntaf a'r rhai diweddaf yn y Testament Newydd yn dra eglur. Y mae *daeth Mab y dyn i roddi Ei einioes yn bridwerth dros lawer* (Matth. xx. 28), yn cael ei ddyfynnu, megis, a'i gadarnhau gan St. Paul mewn ymadrodd arbennig, *yr Hun a'i rhoddes Ei Hun yn bridwerth dros bawb* (1 Tim. ii. 6). Yma, y mae y *pollôn*=llawer, yn dyfod yn *panton*=pawb, *psuchên*=einioes yn dyfod yn *heauton*=Ei Hun, a'r *lutron*=pridwerth yn dyfod yn *antilutron*=pridwerth dros.

8. Ond fe ddefnyddir y gair yn fynych mewn ystyr gyfyngach?

Gwneir: yn debyg i prynedigaeth yn yr un dan sylw. Ond yn anhebyg iddo yn gymaint ag y defnyddir dosparth arall o eiriau weithiau i ddynodi y cymhwysiad o'r prynedigaeth at yr eglwys a phersonau unigol.

9. Pa rai ydynt?

Y cyfryw eiriau nad yw y meddylddrych canolog o WERTH neu *lutron* ynddynt; megis gwaredu, pwrcasu, rhyddhau, ac achub, yr oll o'r rhai a gymhwysir at effaith cadwedigol y prynedigaeth (Gal. i. 4; Heb. ii. 15; 1 Thes. i. 10).

10. Yna, wedi'r cyfan, onid yw Prynedigaeth yn gyffredinol ac yn neulltuol?

Y mae yn bod, megis yr oedd yn arferiad i ddweud, brynedigaeth trwy werth, a thrwy nerth. *Y Duw byw . . . yw Achubydd pob dyn, yn enwedig y rhai sydd yn credu* (1 Tim. iv. 10). Yr un yn wir yw yr enwau Gwaredwr a Phrynwr: y blaenaf idd Ei bobl, yr olaf i'r byd.

III.

Ymdriniaeth Sonesiol.

1. Sut y gallwn olrhain cwrs yr athrawiaeth?

Trwy ddangos pa fodd y bu i'r deffiniadau o'r Iawn amrywio o oes i oes dan ddylanwad rhai syniadau arweiniol, a effeithient i raddau mwy neu lai ar holl drefn gras.

2. Beth ydoedd yn yr oes gyn-Niceaidd?

Nid oedd yr un deffiniad ffurfiol wedi ei osod i lawr; a cheir ymddangosiadau cyntaf cyfeiliornad. Ond yr athrawiaeth a dderbynnid yn gyffredin ydoedd mai aberth dirprwyol, neu drososodol oedd yr iawn a offrymwyd dros yr hil ddynol.

3. Sut y dechreuodd y cyfryw gyfeiliornadau ddad-blygu?

(1) Daliai rhai fod yr aberth a offrymwyd i Dduw yn bridwerth taledig i Satan hefyd: naill ai fel taledigaeth gyfiawn o'i hawl neu waredigaeth Ddwyfol yr hiliogaeth o'i allu cyfreithlawn ef. Llledaenwyd y dybiaeth hon am hir amser, ac y'mhell.

(2) Dechreuwyd ystyried yr aberth, gan Awstin yng nghyntaf, fel dim ond ar gyfer y rhai cadwedig: hynny yw, mewn gwirionedd, ar gyfer personau etholedig: ac nid ar gyfer yr hiliogaeth. Fel syniad cysylltiedig a gwrthgyferbyniol, dysgasai Origen yn foreu fod ei fuddiant yn estynedig at bob drwg yn y bydysawd. Efe a fynnai ddarllen Heb. ii. 9, nid *trwy ras Duw*, ond *o'r tu allan i Dduw* (choris) *y profai Efe farwolaeth dros bawb oll*, nid dros pob dyn.

(3) Y mae y syniadau Gnostigaidd am yr Iawn fel gwaredigaeth oddiwrth yr egwyddor ddrwg sydd mewn defnydd uwch-law cylch ein pwngc.

4. Pa fodd y delid y gwirionedd yn oes y tadau?

Bu iddo lwyddo dan ddylanwad iachus y credöau o barthed i Berson Crist. A gosodai y goreuon o'r tadau boreuol bwys ar fod cosp yn dileu euogrwydd; ar bosiblwydd dioddefaint dirprwyol cosp; ar y gwerth a roddid gan Ei Dduwdod ar y dioddefaint dynol a'r farwolaeth y galluogwyd y Gwaredwr trwy Ei ddynoliaeth i ymgymeryd â hwy.

5. Pa olygiad llac, nid cyfeillornad yn hollol a ddechreuodd ymddangos?

O amser Origen ac Awstin i lawr hyd at Anselm yn y ddeuddegfed ganrif, ffynai tuedd gref i ystyried yr iawn fel math o ddyfais (*expedient*) o eiddo ewylllys hollalluog Duw. Gyda golwg ar Awstin, yr oedd hyn mewn cydgordiad llwyr â'i athrawiaeth ragarfaethol ef am bechod a phrynedigaeth.

6. Beth ydoedd yr argyfwng Anselmaidd?

Bu i draethawd Anselm, CUR DEUS HOMO, nodi ar yr athrawiaeth y meddylddrych ddarfod i'r Gwaredwr roddi taliad gwirfoddol o rwymedigaeth angenrheidiol; ac fod yr angenrheidrwydd am foddlonrwydd i gyfiawnder Dwyfol yn Nuw Ei Hun; ac fod HAEDDIANT Crist yn fwy na digon ar gyfer unrhyw ddyled neu rwymedigaeth sy' ddichonadwy eu dwyn.

7. Pa effaith a gafodd y datganiad pendant hwn?

Dyma fu y brif elfen yn holl ffurfreolau Crêd: Cytunir gan mwyaf gan y ffurfreolau Trentaidd, Lutheraidd, a Diwygiedig parthed yr angenrheidrwydd hanfodol am foddlonrwydd iawnol, a digonolrwydd haeddiant Crist. Mesurid pechod wrth urddas Duw yn hytrach nag wrth ddistadlrwydd dyn.

8. Sut yr oedd dylanwad yr egwyddor hanfodol hon yn ganfyddadwy?

Gwedi sefydlu Iawn Crist fel taliad, neu ryddhâd o rwymedigaeth, ymrannodd damcaniaethau mewn amrywiol foddau:—

(1) Gall y tâl fod yn un manwl: yna dilyna athrawiaeth Galfinaidd yr Eglwys Ddiwygiedig, i Grist farw dros yr etholedigion, cospedigaeth fanol y rhai y bu iddo Ef ei dioddef, ac ufudd-dod diffygiol y rhai a gyflewnir ganddo Ef, yr Hwn a gyflawnodd y naill a'r llall mewn un aberth.

(2) Gall fod yn fwy na digon; ac yna dilyna y drysorfa ffurfiedig gan y gor-ddigonedd hwnnw er maddeuant pechodau personol, a'r gosp dymhorol dyledus iddynt; megis pe yr ychwanegid iawn at iawn.

(3) Gall fod yn amhenodol ddigonol: yna dilyna'r ddamcaniaeth a elwir yn iaith celf yn ACCEPTILATIO, tarddedig o air cyfreithiol Rhufeinig a ddynodai ryddhâd heb werth hollol gyfartal, ond ar sail a ystyrrid yn ddigonol. Yna y cyfododd yr athrawiaeth Arminiaidd a osodai bwys ar dosturi Duw yn derbyn hunan-aberth y Mab yn lle y gosp ddyledus.

(4) Gellir ei ystyried fel yn ofynol yn unig, neu yn bennaf er amddiffyniad y ddeddf. Daliai Grotius a'r Arminiaid diweddarach y golygiad hwn: a elwir y ddamcaniaeth reithorol neu lywodraethol.

9. Yn y cyfamser pa effaith pellach a gariodd?

Cynhyrfodd duedd wrthwynebol a gynrychiolid yng nghyntaf gan Abelard, a'r hon sydd yn parhau hyd y dydd hwn; sef yw honno, gwadu fod unrhyw angenrheidrwydd yn Nuw am iawn, neu daliad i'w ddeddf Ef; gan ddarostwng aberth Crist i fath o arddanghosiad o gariad Dwyfol yn ei ffurf fwyaf cyflawn a chynhyrffiol.

10. A goleddid y syniad hwn gan y Sosiniaid?

Nid yn gwbl: elai y rhai'n yn llawer pellach. Hwy a wadent Dduwdod Crist gan ddarostwng ohonynt y cymod (*reconciliation*) i ddim ond effaith moesol dysgeidiaeth Crist, a phrynedigaeth i ddim ond ymarferiad o'r ragorfraint o drugarhau a gyflwynwyd iddo Ef yn y nefoedd.

11. Beth yw argymhelliadau diwinyddiaeth Sosinaidd yn erbyn y gwirionedd?

(1) Na ddylid cyfyngu ewyllys Duw gan y syniad o iawn angenrheidiol. Ond y mae Duw Ei Hun wedi ateb hyn.

(2) Fod dirprwyaeth yn anfoesol. Eithr nid gwir hynny yn y trefniant naturiol; ac yn y trefniant goruwchnaturiol y mae dirprwyaeth yn cael ei gogoneddu mewn cymdeithas gyfrinol â Christ, ein Pen.

(3) Y dysga yr Ysgrythur fod edifeirwch yn ddigonol sail i faddeuant. Ond y mae efengyl yr oesau yn seiliedig ar gymod

sydd yn gorwedd o dani, trwy yr hwn yn unig y mae edifeirwch yn dderbyniol.

12. Beth ydynt ein diogeliadau?

(1) Nid oes yr un athrawiaeth iachus ar na fesura ddrwg pechod wrth werth anfeidrol Mab Duw.

(2) Nid yw y damcaniaethau lliniaredig hynny a wnant yr Iawn yn ddim amgen nag arddanghosiad o hunan-aberth yng Nghrist, ac o gyfiawnder rheithorol, neu lywodraethol yn Nuw, yn gwbl iach ond yn unig pan y gorffwysant ar y sail ddyfnach honno o angenrheidrwydd tragwyddol am Iawn.

(3) Y mae y cysylltiad manwl sydd rhwng offrymiad Crist a dyhuddiant pechod uwchlaw terfynau rheswm dynol : a chedwir ef i ymddiriedaeth ffydd.

(4) Yn ddiweddfar darpariaeth yr Iawn yw safon prawf pob dyn (2 Cor. ii. 16 ; Heb. x. 30).

LLYFR VI.

Cymhwysiad y Prynedigaeth.

- I. YR YSPRYD GLÂN FEL GWEINYDDWR.
- II. GALWAD YR EFENGYL.
- III. GRAS RHAGFYNEDOL AC AMODAU YR IECHYD-
WRIAETH.
- IV. Y CYFLWR O RAS.
- V. SEFYLLFA PRAWF YR EFENGYL.
- VI. MOESAU Y PRYNEDIGAETH.
- VII. YR EGLWYS GRISTIONOGOL.

LLYFR VI.

**Gweinpddiad y Cyfamod Cristionogol gan
yr Yspryd Glân.****Abagarweiniad.****1. Beth a ddynodir gan y pennawd cyffredinol hwn?**

Y symudwn rhagom bellach oddiwrth waith gorffenedig Crist at y cymhwysiad ohono gan yr Yspryd Glân trwy'r Efengyl.

2. Y'mha dermau ereill y gellid mynegu hyn?

Fe elwir holl athrawiaeth iechydwriaeth dyn weithiau gan ddiwinyddion yn **SOTERIOLAETH**:* yn wrthddrychol, megis y cynhwysa yr hyn a gyflawnodd Crist erom unwaith am byth; yn ddeiliadol, neu fewnol, megis y cynhwysa foddion a mesurau yr ymgyfathiad (*appropriation*) personol ohoni.

3. Nodwch allan briodoldeb yr ymadrodd a ddefnyddir yma?

Gwelwyd ddarford cyflawni bwriad Dwyfol y prynedigaeth yn raddol mewn sefydliad cyfamod i'r hwn yr oedd Iesu Grist yn Gyfryngwr. Gwedi cadarnhau ohono y cyfamod hwnnw trwy Ei waed, cyflwyna y Gwaredwr ef i'r Yspryd Glân modd y byddo iddo Ef gario allan ei holl ddarpariadau yn ol ewyllys ei Awdwr Dwyfol.

4. Sut y gellir dosparthu yr holl bwngc hwn?

- (1) Yr Yspryd Glân yn Ei oruchwyliaeth fel Gweinyddwr.
- (2) Ei gyhoeddiad i'r byd, neu, Ei alwad yn yr Efengyl.
- (3) Gras rhagfynedol ac amodau iechydwriaeth bersonol: tröedigaeth, edifeirwch, ffydd.
- (4) Bendithion y cyfamod Cristionogol yn y cyflwr o ras: cyfiawnder, mabolaeth, sancteiddhad.
- (5) Cymeriad prawf y cyfamod Cristionogol.
- (6) Moes-ddysg Efengyl y Cadw.
- (7) Yr Eglwys Gristionogol fel cylch gweinyddiad yr Yspryd.

* Gwel Nodiad XLI.

PENNOD I.

Yr Yspryd Glân fel Gweinïddwr.**1. Beth a ddysgasom eisoes am yr Yspryd Glân?**

Mai person Dwyfol yw, cydsylweddol â'r Tad a'r Mab; Ei fod, fel y Mab yn weithredydd mewn creadigaeth, ac y gweithreda yn barhaus yn llywodraethiad rhagluniaethol y byd; ddarfod iddo ddal cysylltiad arbennig â hanes y prynedigaeth, fel Yspryd Crist yn y proffwydi, fel awdwr a pherffeithydd natur ddynol ein Harglwydd, ac fel yr eneiniad a ddisgynnai ar y Gwaredwr modd y llifeiriai oddiwrtho Ef idd Ei bobl.

2. Y'mha berthynas yr ydym ni yn Ei ystyried Ef yn awr?

Fel person anfonedig oddiwrth y Tad trwy eiriolaeth y Mab i gario y'mlaen Ei waith Ef hyd ddiwedd amser.

§ 1. Si Genhadaeth Dymhorol.**1. Pa air a ddefnyddir gennym am yr oruchwyliaeth hon o eiddo yr Yspryd?**

Ei genhadaeth dymhorol fel y mae i'w gwahaniaethu oddiwrth Ei ddeilliadaeth dragwyddol: yn debyg fel y gwahaniaethwn rhwng cenedliad tragwyddol y Mab a'i ymgnawdoliad mewn amser. *Yr Hwn a anfonaf i chwi oddiwrth y Tad . . . yr Hwn sydd yn deilliau oddiwrth y Tad. Hôn ego pempo parà tou patròs . . . hò parà tou patròs ekporeuetai.* A'r rhagenw *ekinos* EFFE a ddefnyddir am y ddau (Ioan xv. 26).

2. Pa bryd y dechreuodd cenhadaeth dymhorol yr Yspryd?

Ar ddydd y Pentecost.

3. Eithr oni nodasom Ei bresenoldeb Ef, fel eiddo y Mab, yn yr Hen Destament?

Ffe ddatguddir y Tri Pherson i raddau mwy neu lai yn yr hen drefniant; eithr ni wahaniaethir Eu swyddau yn glir a llawn hyd y dyddiau diweddaf (Act. i. 4; xiii. 32, 33). Yn yr Hen Destament YR ADDEWID (*tén epaggelian yn y ddau*) oedd y Mab

a'r Yspryd, fel eu gilydd; a cheir hwy y naill fel y llall yn anfonedig, yn y Testament Newydd, fel cyflawniad yr addewid. *Onid pan ddaeth cyflawnder yr amser y danfonodd Duw Ei Fab Ac oherwydd eich bod yn feibion y DANFONODD Duw Yspryd Ei Fab i'n calonau ni* (edsapesteilen yn y ddau). Am y Mab dywedir, *ddarfod i Dduw gyflawni hon . . . gan iddo adgyfodi Iesu* (Act. xiii. 33) Am yr Yspryd,—*wedi iddo* (Dafydd) *dderbyn gan y Tad yr addewid o'r Yspryd Glân, Efe a dywalltodd y peth yma* (Act. ii. 33).

4. Oni leferir am yr Yspryd Glân trwy yr Efengylau?

(1) Yn ei berthynas â pherson Crist y mae Efe wedi dyfod eisoes: gan nad beth yw ein Harglwydd, neu a wnel Efe fel cynrychiolydd dyn, y mae Efe yn gyfryw, ac yn gwneud y cyfryw megis dan yr Yspryd; tra ar y llaw arall gan nad beth yw, ac a wnel fel cynrychiolydd Duw, y mae Efe y cyfryw, ac yn gwneud y cyfryw fel y Mab Tragwyddol. Yn yr Efengylau Yspryd Iesu yw yr Yspryd.

(2) Ond o barthed i weinyddiad y gwaith gorffenedig, fe lefarir yn wastadol am yr Yspryd fel un sydd eto i ddyfod. O holl ddatganiadau Iesu am dano Ef, deil ymadroddion Ioan yn dda: *A hyn a ddywedodd Efe am yr Yspryd, yr Hwn yr oedd y rhai a gredent ynddo Ef i'w dderbyn; canys ni roddasid yr Yspryd eto, oherwydd na ogoneddasid yr Iesu eto* (Ioan vii. 39). *Ni rhoddasid Ef eto*, fel rhodd fawr y nefoedd.

5. Paham yr oedd dyfodiad yr Yspryd yn ddibynedig ar ogoneddiad yr Arglwydd?

(1) Oblegid mai y pryd hwnnw oedd amser nodedig amlygiad Trydydd Person y Drindod Sanctaidd, gan berffeithio ohono ddatguddiad y Tri-Un-Duw: *Ac wedi dyfod dydd y Pentecost* (Act. ii. 1). Gwnaed y Duwdod yn adnabyddus yng ngwaith Crist.

(2) Oblegid mai gogoneddiad Crist oedd Ei farwolaeth. *Yn awr y gogonedduyd Mab y dyn* (Ioan xiii. 31). A rhaid oedd i farwolaeth Crist orffen Ei waith cyn y gallesid datguddio y gwaith hwnnw yn ei lawn ystyr, a'i gymhwyso at y byd gan yr Yspryd.

(3) Oblegid mai gogoneddiad Crist yn y nefoedd ydoedd a ddechreuodd yr eiriolaeth, o'r hon yr oedd cenhadaeth y Diddan-

ydd yn flaenffwrth : *Buddiol yw i chwi fy myned I ymaith ; eithr os Mi a âf, Mi a'i hanfonaf Ef atoch* (Ioan xvi. 7).

(4) Oblegid, yn wir, mai gogoneddlad yr Iesu, neu y datguddiad o'i wir gymeriad a'i ogoniant Ef oedd gwaith yr Yspryd i fod. *Efe a'm gogonedda I* (Ioan xvi. 14).

§ 2. Goruchwyliacth yr Yspryd.

1. Y'mha ystyr, os o gwbl, y mae y Cyfamod newydd yn oruchwyliacth yr Yspryd ?

Y gair a ddefnyddir gan St. Paul yw *gweinidogaeth yr Yspryd* (*diakonia*, nid *oikonomia* (2 Cor. iii. 8). Y meddwl yw nid fod yr Yspryd yn gweinyddu, ond y gweinyddir Ef. Nid ydym i ddeall wrth yr ymadrodd hwn mai dim ond trefniant dan reolaeth yr Yspryd yn unig yw y cyfamod newydd : goruchwyliacth wahanedig o eiddo y Tad, a'r Mab, a'r Yspryd Glân fel y cyfryw nid oes.

2. Y'mha ystyr y mae yn weinidogaeth yr Yspryd ?

Y mae felly megis y mae gweinidogaeth yr Efengyl yn gyfrwng gweithrediadau yr Yspryd ; gan roddi ohoni *fywyd* yr Yspryd mewn gwrthgyferbyniad i *gondemniad* a *marwolaeth* y ddeddf ; yr hon sydd gorff o reolau *mewn llythyrennau, ac wedi eu hargraffu ar gerrig*, rheolau nas gallai natur ddynol syrthiedig eu cadw (2 Cor. iii. 6, 9, 7).

3. Ai yr Yspryd, ynte, yw y Rhoddwr a'r Dawn yng ngoruchwyliacth yr Efengyl ?

Megis y Mab, felly y mae yntau yn Ei urddas Dwyfol yn Ben, ac y mae Efe yn gweini rhoddion. *A'r holl bethau hyn y mae yr un a'r unrhyw Yspryd yn eu gweithredu, gan rannu i bob un o'r neulltu* (1 Cor. xii. 11, 7). Ac megis y mae y Mab yn nhrefn gras, felly y mae Yntau yn is-raddol, ac yn cael ei roddi, *Eithr eglurhâd yr Yspryd a roddir i bob un er lleshâd*.

4. A ellir galw yr Yspryd yn ben yr oruchwyliacth Gristionogol yn ystod apsenoldeb Crist ?

Nid yw Crist byth yn apsenol : y mae *Yr wyf Fi gyda chwi bob amser* (Matth. xxviii. 20), mor bendant ag yw, *Os Myfi a âf, neu Yr Hwn y mae yn rhaid i'r nef ei dderbyn* (Ioan xvi. 7 ; Act. iii. 21). Ond yr Yspryd yw goruchwylydd Ei nerth trigfennol Ef.

5. Onid Efe yw cynrychiolydd Crist fel y mae Efe yn apsenol yn Ei natur ddynol ac yn bresennol yn Ei natur Ddwyfol?

Ni wneir y fath wahaniaethiad byth yn y Testament Newydd : yn yr ystyr hon hefyd, nid yw Crist wahanadwy. Gallwn ddweud, pa fodd bynnag y cyflewnir swyddau y Gwaredwr ar y ddaear gan yr Yspryd, a'i swyddau yn y nefoedd ganddo Ef Ei Hun.

§ 8. Yr Yspryd fel Gynrychiolydd Jesu.

1. Onid addawa y Gwaredwr ynte, yr Yspryd fel Ei ddirprwywr Ei Hun?

Na wna, mewn ymadroddion penodol. Er hynny, Efe a'i geilw y DIDDANYDD ARALL (Ioan xiv. 16), fel pe byddai goruchwyliaeth yr Yspryd i fod yn ychwanegol at yr eiddo Ef; ond nid yn ficer neu ddirprwywr, canys Efe a ychwanega *Myfi a ddeuas atoch* (Ioan xiv. 18). Gwna St. Paul yr Arglwydd a'r Yspryd yn Un mewn presenoldeb a gweithrediad: *Eithr yr Arglwydd yw yr Yspryd*; yn yr un ystyr a *Myfi a'r Tad un ydym* (2 Cor. iii. 17; Ioan x. 30).

2. Y'mha fodd ynte y mae yr Yspryd yn gynrychiolydd i'n Harglwydd?

Efe a ddatguddia yn gyffredin Ei Berson a'i waith Ef fel *Yspryd y gwirionedd* (Ioan xiv. 17), *y gwirionedd fel y mae yn yr Iesu* (Eph. iv. 21); trwy Ei rinwedd Ef y mae y Gwaredwr yn bresenoldeb mewnol i'r credadyn; ac Efe a bledia achos Crist, fel Ei Ddadleuydd yn erbyn neu ger bron y byd.

3. Parthed y cyntaf: Ai yr un yw datguddiad y person ac eiddo y gwaith?

Y mae ychydig wahaniaeth yn awr: dywedodd ein Harglwydd, *Efe a'm gogonedda I, canys Efe a gymer o'r eiddof, ac a'i mynega i chwi* (Ioan xvi. 14). Ar ol hyn Ei Berson yn unig a ddatguddia Efe, *megis ag y mae* (1 Ioan iii. 2).

4. Pa fodd y mae yr Yspryd yn ddatguddydd person Crist?

Trwy rododi ohono i ffydd yr argyhoeddiad neu y dystiolaeth mai Mab y dyn yw Mab Duw gyda gogoniant. *Ni all neb ddwywed yd mai Arglwydd yw Iesu, eithr yn yr Yspryd Glân* (1 Cor. xii. 3).

5. Pa fodd y mae Efe yn datguddio Ei waith?

(1) Trwy ddatlenni ohono trwy yr apostolion gyflawn bwysigrwydd y swyddau prynedigol: *Efe a'ch tywys i bob gwirionedd* (Ioan xvi. 3).

(2) Trwy ddatguddio ohono i'r credadyn ystyr Ei eiriau, rhinwedd Ei aberth, a gallu Ei ras Ef yn y galon. *A'r Yspryd yw yr Hwn sydd yn tystiolaethu* (1 Ioan v. 6).

(3) Trwy fod ohono y sêl, neu y sicrwydd mewnol o ffydd bersonol, *Yn yr Hwn y'ch seliwyd â Glân Yspryd yr addewid* (Eph. i. 13).

6. Ai trwy y sicrwydd mewnol hwn yn unig y mae yr Yspryd yn cynrychioli yr Iesu yn dufewnol?

Nage. Yn nirgelwch Ei breswiliad mewnol, Efe a wna y Gwaredwr Personol yn bresenoldeb trigfewnol: sef bywyd newydd yr enaid. Cymharer y ddau ymadrodd: *Yspryd y bywyd yng Nghrist Iesu, a yr hwn y mae y Mab ganddo, y mae y bywyd ganddo* (Rhuf. viii. 2; 1 Ioan v. 12).

7. Y'mha fodd y cynrychiola Efe Grist i'r byd?

Ei swydd yw *argyhoeddi y byd o bechod, o gyfiawnder, ac o farn* (Ioan xvi. 8—11). Ond y'mhob un o'r rhai'n Efe a ddadleua achos Crist, yr Hwn yntau trwyddo Ef a ddadleua Ei achos Ei Hun. *O bechod, am nad ydynt yn credu ynof Fi: y mae pechod yr awr hon yn wrthodiad o'r Iesu. O gyfiawnder, am fy mod yn myned at y Tad: cyfiawnder y Gwaredwr croeshoeliedig ac adgyfodedig yw unig sail gobaith dyn am gyfiawnder (righteousness). O farn, oblegid tywysog y byd hwn a farnwyd. Y mae yr Arglwydd, trwy Ei Yspryd, yn hawlio yr eiddo Ei Hun, ac yn tynnu pob dyn oddiwrth Satan ato'i Hun.*

§ 4. Ar Yspryd fel Person ac fel Dylanwad.

1. A yw y gwahaniaeth rhwng Person a dylanwad yr Yspryd yn amlwg bob amser?

Nid bob amser. Y mae yn eglur pan y mynegir Ei ddylanwadau mewn iaith arwydd-luniol a ffugryol, megis *tân*, *dwfr*, *eneinio*, *selio*; ond ar brydiau Ei weithrediadau a olygir pan y defnyddir y gair *Yspryd* yn unig.

2. Pa fodd y mynegir personollaeth Ddwylfol yr Yspryd mewn modd diamheuol ym mhriodiaeth y Testament Newydd?

Gwneir hynny yn yr ymadroddion a lefara am dano fel *Yspryd Duw*, neu *Yspryd Ei Fab*, neu *Yspryd Crist*; yn y cyfryw hefyd ag Ei gelwir *Yr Yspryd Glân*, neu *Yr Yspryd*, gyda pwyslais ar y fannod (Rhif. viii. 9; Gal. iv. 6; 1 Petr i. 11; Ioan xiv. 26; Act. xi.; ii. 4).

3. A yw *pneuma*, neu *pneuma hagion*,—Yspryd, neu Yspryd Sanctaidd yn cael eu ddefnyddio am ddylanwadau yr Yspryd yn unig?

Am Ei ddylanwadau, yn ddiau; eithr ni wneir hynny byth heb olygu Ei bresenoldeb Ef fel y ffynhonnell o honynt yn y galon. Nis gallwn ysgaru doniau ysprydol oddiwrth yr Yspryd. Megis y mae, fod gan yr hwn sydd ganddo y Mab fywyd, felly y mae fod gan yr hwn sydd ganddo yr Yspryd ddylanwadau ysprydol. Sylwer ar gyfuniad y ddau: *Hwy oll a lannwyd â'r Yspryd Glân, ac a ddechreuasant lefaru â thafodau ereill, megis y rhoddes yr Yspryd iddynt ymadrodd* (Act. ii. 4). Yma rhaid i ni feddwl am yr un Yspryd yn nwy ran yr adnod.

4. Pa mor bell y penderfynir y cwestiwn o'i bersonollaeth gan bresenoldeb, neu apsenoldeb y fannod Roeg?

Ni wna hynny yn ddieithriad; canys daeth y term Yspryd Glân i fod yn enw priodol, yn anibynnol ar y fannod. Gan fod ansoddeiriau i'w cael, y gellir eu defnyddio pryd bynnag nad yw y Person yn gynhwysedig,—megys yn yr ymadrodd *gan gymharu pethau ysprydol â phethau ysprydol* (1 Cor. ii. 13),—felly da ein gwaith f'ai cysylltu y Person a'i ddylanwad yn y fath ymadrodd a, *Llanwer chwi â'r Yspryd*; lle y cynhwysir y Person (Eph. v. 18).

5. Beth yw cyfeiriad hyn at amrywiol swyddau yr Yspryd yn Ei weinyddiad o'r Efengyl?

Rhydd ddilysrwydd a bywiogrwydd i'n golygiadau am Ei waith—fel eiddo'r Person sydd yn Un â'r Tad a'r Mab, ac eto yn wahaniaethadwy oddiwrth bob un o'r Ddau—yn holl drefn y prynedigaeth. Caiff hyn ymddangos dan yr amrywiol benawdau ar y pwngc hwnnw.

6. Pa un yw enw swyddogol mwyaf amlwg yr Ys- pryd?

PARACLETOS, yr hyn o'i gyfieithu yn llythyrennol, yw Advocatus, Dadleuydd neu Gynorthwy-ydd, yn enwedig yn y galon. Dyma yw Diddanydd yn yr ystyr gyntefig o Gyfnerthydd.

7. Beth yw neullduolrwydd yr enw hwn?

Ei neullduolrwydd yw y cysyllta swyddau y Mab â'r Yspryd mewn modd tra effeithiol. (1) Yr oedd ein Harglwydd wedi disgrifio Ei Hun fel cynrychiolydd o'r Tad ac Eiriolydd gydag Ef ar ran Ei bobl; pan ar ymadael o'r byd Efe a addawa *Diddanydd arall* (Ioan xiv. 16). (2) Efe Ei Hun yw ein *Heiriolwr* (*paracletos*) ni *gyda'r Tad* (1 Ioan iii. 1). (3) Y mae yr Yspryd yn Eiriolwr yng nghalonnau y saint. (4) Fel hyn, y mae llais yr Eiriolwr neu y Dadleuydd o'r tu fewn i lèn yr yspryd yn cyfateb i lais yr Eiriolwr neu y Dadleuydd o'r tu fewn i lèn y nefoedd; y mae Efe *yn erfyn* ynom ni, ac felly *yn cynorthwyo ein gwendid ni* (Rhuf. viii. 26, 27).

8. Beth a ddywedir am amlygiad yr Yspryd?

Fod pob un o'i ddoniau, megis y mae yn *phanerosis*, amlygiad, yn brawf ysprydol o'i breswiliad mewnol Ef: Duw ymddanghosedig yn yr yspryd.

PENNOD II.

Galwad yr Yspryd.

1. Beth sydd i'w ddeall wrth yr ymadrodd hwn?

Holl waith yr Yspryd megis yr hyspysa i ddyn y brynedig-aeth gyffredinol gan gynnwys iddo ei bendithion.

2. Sut y gallwn drefnu y pwngc?

Gallwn ystyried yr alwad fel yn gyffredinol ac anunion-gyrchol; yna, fel yn hanesiol yn y datguddiad cyn dyfodiad Crist; ac yn ddiweddar fel yn berffeithiedig yng nghyhoeddiad a chynygiad yr Efengyl.

§ 1. Yr Alwad Gyffredinol ac Anuniongyrchol.

1. A ellir ystyried yr alwad fel y brynedigaeth yn gyffredinol?

Yr ydym yn rhwym o gredu, yn unol â phob egwyddor, yr hyspysir i bawb a syrhiasant yn yr Adda cyntaf, trwy ryw ffordd, —pa un bynnag ai adnabyddus ai peidio,—fod Gwaredwr wedi Ei ddarparu iddynt yn yr Ail Adda.

2. Y'mha foddau y gellir dweud fod yr alwad yn un gyffredinol.

Mab Duw ydoedd *Y Gwir Oleuni yr Hwn sydd yn goleuo pob dyn a'r y sydd yn dyfod i'r byd* (Ioan i. 9). Dywedir am y Cenhedloedd eu bod *yn dangos gweithred y ddeddf yn ysgrifenedig yn eu calonnau* (Rhuf. ii. 15). Nis gadawodd Duw *mohono Ei Hun yn ddiidyst* (Act. xiv. 17). Yn y dechreuad, y broffwydoliaeth ddirgelaid, neu y bygythiad ydoedd, *Nid ymrysona fy Yspryd i â dyn yn dragywydd* (Gen. vi. 3): dywediad a led-fynega y gwirionedd diamheuol o ofwy cyffredinol, neu ataliad yr Yspryd Dwyfol. Yn ddiweddar oll, yr oedd traddodiadau toredig datguddiad cyntefig yn sŵn a aethai *i'r holl ddaear* (Rhuf. x. 18), yr hyn oedd adsain amrywiol y llais Dwyfol yn galw y bobloedd, *fel y ceisient Ef, os gallent ymbalfalu am dano a'i gael, er nad yw Efe yn ddiau nepell oddiwrth bob un ohonom* (Act. xvii. 27).

§ 2. Yr Alwad Hanesiol cyn Dofodiab Crist.

1. Beth yw ein hegwyddor sylfaenol yma?

Yr oedd y Datguddiad o'r bwriad Dwyfol yn un graddol, trwy linellau penodol o ddisgyniad, a thrwy bobl neulltuol. Gellir ystyried y rhedai yr alwad uniongyrchol yn gyfochrog â hyn. Gelwir y bwriad a'r datguddiad graddol ohono, fel eu gilydd, yn ddirgelwch.

2. Gan hynny, blaenorai yr etholedigaeth yr alwad?

Yn ddiamheuol, canys dewisodd Duw allan ddynion a phobl yng nghyntaf, a galwodd hwynt ar ol hynny. Y mae yn wahanol yn yr Efengyl, gelwir dynion yng nghyntaf, ac yna etholir hwynt.

3. A ydoedd y prif alwadau hanesiol yn anibynnol ar gymeriad?

Nac oeddynt ar un cyfrif, cymerer fel prawf o hynny yr engreiffiau boreuaf, Cain ac Abel; meibion Noa; Abraham a Jacob, ac ereill, y rhai oeddynt neu a ddaethant yn wir wasanaethwyr Duw.

4. Beth yw y gwahaniaeth penigol rhwng galwad yr Hen Destament ag eiddo y Newydd?

Galwad Cenedl neu bobl yn bennaf ydoedd yr un gyntefig, tra galwad personau unigol yn ail-raddol; ond galwad yr Efengyl ar y person unigol y mae, tra yr un genedlaethol yn ail-raddol.

5. Beth yw pwysigrwydd neulltuol galwad Abraham?

Galwad Abraham ydoedd yr argyfwng mawr mewn hanes, a benderfynodd gwrs datguddiad hanesiol i genedl neulltuol, a'r hwn ar yr un pryd oedd yn broffwydoliaeth o alwad ddyfodol a chyffredinol.

6. A gauwyd allan yn gyfangwbl y cenhedloedd hynny oeddynt o'r tu allan i'r cyfamod cyntaf?

Dim ond yn eu perthynas â datguddiad allanol. Ceir rhagfynegiad cynhyddol-gryfhâol am alwad ddyfodol y Cenhedloedd a ddibenna yn yr ymadrodd *Mawr fydd Fy Enw* ym mys y Cenhedloedd (Mal. i. 11). Yn y cyfamser megis y dywed St. Paul ar ol hynny, *yr Hwn* (Duw) *yn yr oesoedd gynt a oddefodd i'r holl genhedloedd fyned yn eu ffyrdd eu hunain* (Act. xiv. 16, 17).

Nis gallwn dreiddio i'r dirgelwch hwn, ond *Ni adawodd Ef mhono Ei Hun yn ddiyst.*

§ 8. Galwad yr Efengyl.

1. Beth yw priodol Alwad yr Efengyl, megis y dechreuau gyda gweinidogaeth bersonol yr Iesu?

Gellir ei hystyried fel yn deirplyg: sef cyhoeddiad y newyddion da; y gorchymyn i ymostwng i Grist fel Arglwydd; a'r cynnygiad o iechydwriaeth bersonol trwyddo Ef.

2. Y'mha wedd yr ymddengys y cyntaf yn y Testament Newydd.

Mewn amrywiol ffyrdd. Yng nghyntaf daeth *cyhoeddiad* (kerusseion) *teyrnas nefoedd*, neu *Efengyl y deyrnas*, gyda'r gorchymyn *edifarhau a chredwch yr Efengyl* (Matth. iii. 2; iv. 23; Marc i. 15); yna *pregethu yr Efengyl*, neu y *Gair*, neu'r *Iesu* (Act. viii. 25; viii. 4; v. 42); ac yn ddiweddar *gweinidogaeth y cymod* (2 Cor. v. 18).

3. Pa ystyron sydd i'r gair Efengyl?

Golyga y gair (*euaggelion*) yn y Testament Newydd gyhoeddiad llawen neu newyddion da yn gyffredin: *yr Efengyl* (Act. xv. 7), mewn lluwau o gysylltiadau, megis *Efengyl Duw* (Rhuf. xv. 16), *Efengyl Crist* (Rhuf. i. 16), *Efengyl ein Iechydwriaeth* (Eph. i. 13), ac *Efengyl gras Duw* (Act. xx. 24), y ferf efangylu (*euaggelidsein*) yw a ddefnyddir am y pregethiad a'r newyddion da hynny. Tybiwyd ddarfod defnyddio y gair unwaith am yr adroddiad o hanes ein Harglwydd fel Awdwr iechydwriaeth: *dechreuad Efengyl Iesu Grist* (Marc i. 1). Dilys yw ddarfod i'r gair gael ei ddefnyddio yn yr ystyr hon ar ol hynny; ac fel hyn y mae yr un gair hwn wedi dyfod i fod y teitl mwyaf canolog a mwyaf pwysig ar holl weinidogaeth a gwaith y Gwaredwr.

4. A yw ymostyngiad i Grist yn rhan o genadwri yr Efengyl?

Ydyw, yn rhan hanfodol: Efe yw *Awdwr iechydwriaeth dragwyddol i bawb a ufuddhant iddo* (Heb. v. 9). Cynhwysa edifeirwch tuag at Dduw, pan y mae ffordd iechydwriaeth yn hyspysedig, gydnabyddiaeth ostyngedig o awdurdod cyfryngol Crist.

5. Beth yw y cynygiad o iechydwriaeth bersonol?

Yr addewid o dderbyniad i bawb a gredant; cymeradwyaeth o Grist fel Gwardwr holl-ddigonol; yr anogaeth i'w dderbyn,—anogaeth a argymhellir gan luaws o resymau; ac yn ddiweddaf y cynygiad presennol o Ddwyfol rās i gynorthwyo yr edifeirwch a'r flydd,—y ddau fel eu gilydd.

6. A yw yr oll o'r rhain yn angenrheidiol i'r pregethiad o'r Efengyl?

Bydd i lawer o'r manylion gael eu cyflenwi yn yr hyfforddiant a ddilyna ar ol i'r pregethu wneud ei waith. Ond nis gellir gadael allan gymaint ag un o'r prif nodweddion hyn, mewn gweinidogaeth Efengylaidd iachus. Y mae'r oll ohonynt yn gynhwysedig mewn pregethu apostolaidd.

7. I bwy yr ymddiriedir y swydd bwysig hon?

I'r Gymdeithas Gristionogol yn gyffredinol, ond yn enwedig i ddynion a neulltuir i'r amcan hwnw. *Ewch gan hynny a gwnewch ddisgyblion o'r holl genhedloedd* (Matth. xxviii. 19). *Hwy a aethant o amgylch gan bregethu y gair* (Act. viii. 4). *Pa fodd y pregethant, onis danfonir hwynt?* (Rhuf. x. 15).

8. A yw galwad yr Efengyl yn effeithiol?

Y mae yn effeithiol ym mwriad Duw: hynny yw y mae yr Hwn a'i henfyn yn *ewyllysio fod pob dyn yn gadwedig a'u dyfod i wybodaeth o'r gwirionedd* (1 Tim. ii. 4). Y mae yn weithredol effeithiol hefyd, yn ogymaint ag y rhydd y grās cydfynedol a'r pregethiad ohoni argraff ar bob gwrandawr, a gallu i bob dyn ufuddhau. Ond y mae yn bosibl i'w gwrthwynebu. *Ni fynwch chwi ddyfod ataf Fi!* (Ioan v. 40). *Yr ydych chwi yn wastad yn gwrthwynebu yr Yspryd Glân* (Act. vii. 51).

9. Eithr onid oes yn bod bechaduriaid gwrthodedig wedi eu rhagddedfrydu i gael eu galw yn ofer?

Y gwrthodedigion *adôkimoi*, ydynt y cyfryw, a'r cyfryw yn unig nad oedd gymeradwy ganddynt gadw Duw yn eu gwybodaeth (Rhuf. i. 28): y cyfryw ag sydd yn *sefyll yn erbyn y gwirionedd* (2 Tim. iii. 8); y cyfryw a gollasant yr Arglwydd trig-fewnol: *Ai nid ydych yn eich adnabod eich hunain, sef bod Iesu Grist ynoch?*

oddieithr i chwî fod yn anghymeradwy (2 Cor. xiii. 5). Awgryma y gair fethiant o dan y prawf.

10. Oni ddywedir i'r sawl hynny yn Antiochia gredu, ag oeddynt wedi eu hordeinio i fywyd tragwyddol? (Act. xiii. 48).

Cymharer â hyn adn. 46: *Eithr oherwydd eich bod yn ei wrthod* (ei daflu oddiwrthych), *ac yn barnu eich hunain yn anheilwng o fywyd tragwyddol, wele, yr ydym yn troi at y Cenhedloedd* (Act. xiii. 46). Ar ol nacâd a gwrthodiad gwirfoddol ohono gan yr Iuddewon, cyfeirir at y rhai y'mhlith y Cenhedloedd *telagmënoi êsan, a drefnwyd yn briodol i, neu a dueddwyd at fywyd tragwyddol* (adn. 48).

11. Ai nid gwir Gristionogion yw y Galwedigion, gan awgrymu fod eu galwad o angenrheidrwydd yn effeithiol?

Defnyddir tri gair, a mabwysiedir pob un ohonynt i ddisgrifio y cyflwr Cristionogol yn gyffredinol: Galwedigion *klêtoi*; Dewisedigion neu Etholedigion, *eklektai*; a'r Ffyddloniaid, *pistoi*. Ond pan eu cysylltir hwy a eglurant ac a gyfyngant y naill y llall: ufuddhâodd yr etholedigion i'r alwad, *Canys llawer sydd wedi eu galw, ond ychydig wedi eu dewis* (Matth. xxii. 14); ac o'r cyfryw etholedigion ni fydd ohonynt cadwedig ond y sawl a brofant yn *ffyddlon hyd angau* (Dat. ii. 10). Y cyfryw, a orchfygant hyd y diwedd gyda'r Oen ydynt y rhai *galwedig, ac etholedig, a ffyddlawm* (Dat. xvii. 14).

12. A oes unrhyw wahaniaeth rhwng galwad allanol seml, a galwad fewnol effeithiol?

Nac oes dim, yn yr Ysgrythur: ond diau fod y fath beth a llais dirgelaidd yr Yspryd yr hwn a lefara oddifewn, yr hyn a glywir oddiallan. Er hynny i gyd, gellir gwrthod y naill alwad fel y llall.

13. Beth yw dysgeidiaeth St. Paul ar y pwngc dan sylw yn ei Dair Pennod yn ei Epistol at y Rhufelniaid?

Ymwna y rhai hyn â'r Iddewon, y rhai y bu iddynt wyro gwirionedd eu hetholiad cenhedlaethol cyntefig: gan wrthod ohonynt gredu y gallesid torri ymaith unrhyw rai o'u cenedl hwy,

ac y cawsai y Cenhedloedd eu derbyn i'w rhagorfreintiau hwynt. Am hynny :

(1) Yn y bennod ganol o'r tair, y ddegfed, danghosir nad oes yn yr Efengyl *wahaniaeth rhwng Iddew a Groegwr : oblegid yr un Arghwydd yw Arghwydd pawb* (Rhuf. x. 12).

(2) Y meddwl arweiniol yn y nawfed yw mai un peth yw etholedigaeth genedlaethol, a pheth arall etholedigaeth personau: *Eithr plant yr addewid a gyfrifir yn hâd* (adn. 8). Y mae Duw yn gyfiawn mewn barn ac mewn trugaredd y naill fel y llall : Efe a ymarfera y blaenaf ar ol *llawer o hirymaros* (adn. 22); a danghosodd yr olaf yn dra helaeth, trwy *alw* ohono, *nid o'r Iddewon yn unig, eithr hefyd o'r Cenhedloedd* (adn. 24), bersonau a gawsent dderbyn Ei Iechydwrïaeth Ef.

(3) Yn yr unfed-bennod-ar-ddeg, fe welir fod etholedigaeth genedlaethol ar goll yn yr un bersonol, *Canys Duw a'u cauodd hwynt oll mewn anufudd-dod, fel y trugarhâi wrth bawb* (adn. 32). *Holl Israel a fydd cadwedig* (adn. 26) : holl Israel wirioneddol, pa un bynnag ai Iddewon ai Cenhedloedd.

PENNOD III.

**Grâs Rhagfynedol ac Amodau
Iechydwrïaeth.**

1. Pa byngciau a gynhwysir dan y pennawd hwn?

Yr oll a berthyn i waith yr Ysryd mewn cynorthwyo dyn i ymddarparu er caffael ohono lawn dderbyniad yng Nghrist, neu iechydwrïaeth bersonol : yng nghyntedd allanol y deml megis.

2. Ai nid gwaith yr Ysryd yn unig yw y darpariadau hyn?

Y mae dechreuadau grâs yn blaenori unrhyw ewyllysiad dynol at ddaioni : ond rhaid yw i gydweithrediad dynol gydfyned â phob gradd o'r cwrswethrediad.

3. A yw cydweithrediad dyn â grâs yn fwy amlwg yn y cwrswethrediad hwn nag ar ol hynny?

(1) Pan y cyfrennir bendithion yr iechydwrïaeth, y mae y cyfryw a'u derbyniant yn gwbl oddefol : gweithredoedd a weinyddir yn unig gan yr Ysryd ydynt gyfiawnhâd, ailenedigaeth a sancteiddhâd. (2) Yn y cyflwr o iechydwrïaeth, rhaid yw i'r credadyn gyd-weithio â grâs mewn trefn i ddal gafael yn ei ragorfraint, ac i gyrraedd ohono berffeithrwydd. (3) Ond y gwahaniaeth yw hyn, fod gan ddyn ryw hunan o hyd yn y gwaith rhagddarparol, ac y gall gyd-weithredu ; tra yn y cyflwr ail-enedigol ei fywyd ef yw bywyd Crist yr hwn sydd ynddo, ac ni ddefnyddir y gair cydweithredu gyda'r un priodoldeb.

4. Beth yw y trefniad diwinyddol yn y ddosran hon?

Y mae gennym râs rhagfynedol a'i berthynas âg ewyllys rydd ; ac yna amodau neu delerau iechydwrïaeth a pha rai y cyd-synnir trwy y grâs hwnnw.

§ 1. Grâs Rhagfynedol.

1. Pa enw a gysyllta yr Ysryd Glân â'r pwngc hwn?

Gelwir Ef yn *Ysryd y Grâs*, megis y mae Efe hefyd yn *Ysryd y Gwirionedd* (Heb. x. 29 ; Ioan xvi. 13). Y mae y ddau gyfenwad yn fanol gyson â'u gilydd.

2. Beth yw grâs rhagfynedol (*prevenient grace*)?

Effaith ffiafr Duw tuag at ddyn anhaeddiannol a digynorthwy fel (1) y rhag-ddyfala neu y rhag-flaena ddymuniad dyn am dano; ac yn (2) fel y rhagflaena ac y rhagddarpara ar gyfer yr amlygiad llawnach hwnnw o râs mewn maddeuant ac yn y bywyd newydd.

3. Y'mha le y rhaid ceisio sail derfynol y grâs hwn?

Yn rhinwedd yr Iawn cyffredinol yr hwn a ddiogela fesur o ddylanwad yr Yspryd i bob un o blant Adda.

4. Y'mha fodd y gellir dweud y cydweithreda hwn?

(1) Parthed y gwrthddrych ar yr hwn ei harferir, ataliad yw ar ogwydd etifeddol at ddrwg, yng nghyd a chymhelliad dirgelaid tuag at y da. (2) Parthed y gweithrediad ei hun, dyna ydyw, sef at-dyniad yr ufudd, ac ymdrech gyda'r anufudd. (3) Parthed y moddion a ddefnyddir, yn gyffredin gweithrediad effeithiol y gwirionedd ydyw trwy *eglwys yr Yspryd* (Ioan vi. 44; Act. vii. 51; 1 Cor. ii. 4).

5. A olygir fod y dylanwadau hyn yn rhoddi cyfeiriad i amrywiol alluoedd dyn?

A siarad yn fanwl, fe roddir y grâs ei hun i'r pechadur o'r tu cefn i'r galluoedd hyn: grâs rhagfynedol yw, ac am hynny y mae yn gydfynedol âg ymarferion cyntaf meddwl, a chalon, ac ewyllys dyn.

6. A yw apeliad y gair yn dod o hyd i'r grâs hwn yn ogystal a'i ddwyn gydag ef?

Daw yr apêl o hyd iddo yn disgwyi yng ngwreiddiau y natur; ac y mae yn barod hefyd i gyffroi yr ewyllys trwy y teimladau a gynhyrfir gan y gwirioneddau a gymhwysir at y deall.

§ 2. Gras ac Gwyllys Fydd.

1. A yw Dwyfol râs a'r ewyllys ddynol yn cydweithredu?

I'mha ystyr bynnag y dichon fod cyd-weithrediad cymer hynny le rhwng yr Yspryd a'r pechadur sydd dan Ei ddylanwad Ef.

2. Yna, ynte, i râs y rhoddir y flaenoriaeth yn y cydweithrediad hwn?

Pe amgen ni byddai yn rhagfynedol. Y mae eisoes yn

nirgelwch natur ddynol, fel y mae yn brynedigol, wedi rhyddhau y pechadur oddiwrth unrhyw gaethiwed o'r fath i bechod ag a barai fod yr alwad Ddwyfol yn ddibwrpas.

3. Eglurwch y rhyddid a'r caethiwed hwn y'mhellach?

Y mae yr ewyllys o angenrheidrwydd yn rhydd yn ol ystyr y gair; a thystir hyn gan hunan-ymwybyddiaeth. Ystyr ddiwin-yddol caethiwed yw nad oes gan y dyn di-ail-enedig allu eto i wneud a ewyllysia. Am hynny y mae y dyn ag sydd ganddo ewyllys rydd yn gaeth.

4. Pa fodd yr ymofidia St Paul am y caethiwed hwn?

Arddengys ei ymofidiad effaith grâs rhagfynedol; a cheir fod ynddo rag-ddisgwyliad am waredigaeth sydd ar ddyfod.

5. Pa fodd yr esponia yr Ysgrythur yr anhawster o gysoni Dwyfol râs a rhyddid dyn?

Trwy edrych yn wastadol ar y *dyn mewmol*,—ton esô anthrôpon (Rhuf. vii. 22), megis dan râs, a thrwy apelio at ryw ddylanwad dirgelaidd o eiddo yr Yspryd sydd eisoes yn bresennol. Fel hyn y treiddia y llais allanol i glybod y dyn mewmol hwnnw, y llefarwyd wrtho eisoes fath o Ephphatha ragarweiniol.

6. A gydnabyddir unrhyw anhawster yn yr Ysgrythur?

Na wneir: ei arwyddair cyn a chwedi yr ail-enedigiaeth yw *Canys Duw yw yr Hwn sydd yn gweithio ynoch ewyllsio a gweithredu* (Phil. ii. 13).

§ 3. Amodau Iechydurriaeth.

1. Beth a olygir wrth amodau neu delerau Iechydurriaeth?

Yr hyn a ofynna Duw yn y dyn a dderbynia Efe er mwyn Crist, ac i'r hwn y rhydd Efe yn rhâd fendithion Efengyl y grâs.

2. Pa fodd y medrwn gysoni "Yr hyn a ofynna Duw" gyda "Rhoddi yn rhâd" ac "Er mwyn Crist?"

Trwy gofio: (1) nas gall fod haeddiant mewn dim a ddygir neu a gyflewnir gan ddyn; (2) fod y telerau wedi eu trefnu yn y fath fodd fel ag i hawlio yn unig ddim ond symudiad o'r ffordd yr hyn a rwystrai ei dderbyniad o fendithion sydd eisoes yn ddar-

paredig; ac yn (3) fod yr amodau eu hunain yn cynnwys Dwyfol rās a ddefnyddir er galluogi y pechadur i gydymffurfio â hwynt.

3. Beth ynte, ydynt yr amodau angenrheidiol hyn?

Gosodir hwy i lawr mewn amrywiol ffyrdd; ond cynhwysir hwy yn fyrr i gyd mewn un ymadrodd: *Edifeirwch tuag at Dduw a ffydd tuag at yr Arghwydd Iesu Grist* (Act. xx. 21).

4. A yw edifeirwch a ffydd yn gyfartal angenrheidiol?

Y mae y ddau yn amodau angenrheidiol yn yr un ystyr.

5. Beth yw y gwahaniaeth rhyngddynt?

Gellir eu cyfuno fel un amod; ond, fel y maent ar wahân, ffydd yw yr offeryn neu y moddion trwy yr hwn y derbyniwn iechydwriaeth, yr hyn nid yw edifeirwch,

6. Oni chynhwysa edifeirwch drugaredd yr Efengyl?

Am bechod yn unig y meddylia: ei euogrwydd, ei drueni, a'i berygl.

7. Oni lefara yr Ysgrythur weithiau am edifeirwch a diwygiad buchedd fel yr oll a ofynna Duw?

Gwna; ond tybia bob amser ymddiriedaeth yn addewidion Dwyfol drugaredd; addewidion ac ymddiriedaeth sydd o ddechreu y Beibl i'w ddiwedd yn seiliedig ar y Cyfamod Grās yng Nghrist.

8. Oni dderbyniwyd y pyblican pan y llefodd "O Dduw bydd drugarog wrthyf fi bechadur? A'r afradlon ar ei ddychweliad at ei dad?"

Rhaid cofio mai yn yr un Efengyl a gofnoda y damhegion hyn, y dywed ein Harglwydd, *Y cwpan hwn yw y cyfamod newydd yn fy ngwaed I, yr hwn a dywelltir dros och chwi* (Luc xxii. 20). Ym mhellach, cri y pyblican oedd, *Duw bydd gymodol â mi* (hilasthêti moi) *bechadur* (Luc xviii. 13); gan ddefnyddio ohono, yn ymyl yr allor, iaith aberth iawnol. Rhaid yw darllen yr Efengylau, a'r holl Ysgrythur yng ngolwg y groes: y mae yr unig lawn yn ategu y cyfan?

9. Sut y mae ffydd yn foddion neulltuol neu yn offeryn iechydwriaeth?

Oblegid y derbynia y credadyn Grist. mewn modd

edifeiriol, megis y'i cynygir yn yr Efengyl: oblegid yr hawlia ei ran yn Ei aberth a'i eiriolaeth Ef; ac oblegid y derbynia efe räs Ei Yspryd Ef.

10. A all y fath ffydd fod heb edifeirwch?

Yr edifeiriol yn unig sydd yn teimlo yr angen am Waredwr, ac yn dymuno iechydwrïaeth ei enaid.

11. Eithr, oni sonia y Gwaredwr am amodau ereill?

Gwna: *Oddieithr eich troi chwi, a dyfod ohonoch megis plant bychain, nid ewch chwi ddim i mewn i deyrnas nefoedd* (Matth. xviii. 3). *Os ewyllysia neb ddyfod ar fy ol I, ymwaded âg efe ei hun, a chyfoded ei groes, a chanlyned Fi* (xvi. 24). *Y neb a gredo ac a fedyddier, a fydd cadwedig* (Marc xvi. 16). Y rhai'n oll ydynt delerau disgyblaeth gan ein Harglwydd.

12. Sut y mae yn bod ynte, mai edifeirwch a ffydd ydynt yr unig amodau?

Nid yw y lleill mewn gwirionedd ond amrywiadau o'r ddau hyn. Troedigaeth yw, dychweliad oddiwrth bechod mewn edifeirwch tuag at Dduw, mewn ffydd. Cyd-gyfranoga hunan-ymwadiad a chyfodi i fyny y groes a dilyn Crist o wir hanfod edifeirwch a ffydd, a'u golygu yn eu perthynas â'r Arglwydd fel Athraw. A bedydd yw yr arwydd allanol a gweledig o ysgariad oddiwrth bechod a chrediniaeth yn yr Efengyl: amod trefnidol ac ordeiniedig nad yw ynddo ei hun yn hanfodol.

13. Pa gyfeillionadau y mae gennym i'w hosgol yma?

Dau, mewn cyfeiriadau gwrthgyferbyniol. (1) Rhaid i ni fod yn ofalus rhag dwyn ohonom i mewn y syniad o haeddiant i'r aberth o edifeirwch a hawlia Duw yn hollol. Dyfeiswyd math o haeddiant israddol gan ddiwinyddion y canoloesoedd—nid "haeddiant o deilyngdod" ond rhyw "haeddiant o briodoldeb (*congruity*)"—yr hwn fel y tybid a gymeradwyai i sylw Duw weithredoedd gwir edifeiriol. Ond yr amod mawr yw, ddyfod ohonom i dderbyn gras anhaeddiannol. (2) Rhaid yw i ni fod yr un mor wyliadwrus rhag ymyryd â'r meddylddrych manwl o amod; nid oes y fath beth yn bod yn yr Efengyl a rhadlonrwydd cwbl ddiamodol; a'r ffydd honno y gelwir ar bechaduriaid i'w harfer, heb edifeirwch gwirioneddol a dwfn, nid yw yn gyfryw a gydnebydd yr Yspryd. *Ffydd heb*

weithredoedd, marw yw (Iago ii. 26): pa un bynnag ai yng nghyntedd allanol grâs rhagfynedol, neu yng nghysegryn bywyd ail-enedig. Am hynny, dylid ei argraffu ar feddwl pob ymofynydd am iechydwrïaeth, yr hawlia Duw, yn wastadol y weithred neu y bwriad dwfn am ddiwygiad buchedd cyn y gweinydda Efe y budd a ddeillia trwy Iawn Crist.

§ 4. Tröedigaeth.

1. Beth yw pwysigrwydd Ysgrythyrol y gair hwn?

Rhed y gair trwy y ddau Destament gan ddynodi ohono gyfnod pwysig dychweliad pechadur oddiwrth ffyrdd pechod at Dduw: y cyfnewidiad mawr yn y bywyd moesol a chrefyddol.

2. Oni olyga y gair weithiau ddychwelliad oddiwrth wrthgiliad?

Felly y defnyddid ef dan yr hen oruchwyliaeth; yn gymaint ag yr ystyrid pob pechod mewn rhywystyr yn wrthgiliad oddiwrth Dduw oedd eisoes yn adnabyddus. Defnyddir ef felly hefyd yn ei berthynas âg adferiad Petr o'i gwmp, *Tithau pan y'th dröer* (Luc xxii. 32); ac felly hefyd yn yr anogaeth a roddir *i'r hwn a dry bechadur o gyfeiliorni ei ffordd* (Iago v. 20). Ond ar ol y Pentecost, defnyddir ef yn gyffredin i ddynodi yr ymwrthodiad cyntaf â phaganiaeth, ac â gwasanaeth Satan.

3. Beth a ddysga y gair gyda golwg ar gydweithrediad dyn?

Y ddau nodiad gwastadol yw, *dychwel Di fi, a mi a ddychwelir* (Jer. xxxi. 18); a *Dychwelwch, dychwelwch oddiwrth eich ffyrdd drygionus* (Ezec. xxxiii. 11). Nid oes yn yr Ysgrythur air a gynrychiola yn gysonach y gwaith Dwyfol a dynol yn rhagflaenorion Iechydwrïaeth.

4. Beth yw perthynas tröedigaeth âg edifeirwch a ffydd?

Fe saif y gair yn achlysurol am y naill neu y llall, neu am y ddau gyda'u gilydd, megis yn yr ymadroddion canlynol: *Edifarhëwch gan hynny, a dychwelwch* (Act. iii. 19). *A nifer mawr o'r rhai a gredasant a droisant at yr Arglwydd* (Act. xi. 21). *Eithr yn awr chwi a ddychwelyd at Fugail ac Escob eich encidiau* (1 Petr ii. 25).

5. Pa ddefnydd llac o'r gair sydd mewn arferiad ?

(1) Arferir ef weithiau i ddynodi holl gwrs crefydd i'r diwedd. (2) Myn y sawl a wnant ail-enedigaeth yn wir ddechreuad y bywyd ysprydol oddiwrth Dduw, mai tröedigaeth yw y mynegiad o'r bywyd hwnnw ar ran y dyn. (3) Myn y sawl a ddaliant ail-enedigaeth bedyddiadol gadw y gair i ddynodi yr adferiad i'r grâs bedyddiadol a fforfetiwyd trwy esgeulustra neu ddiofalwch. (4) Y mae yn arferiad tra chyffredin i siarad am droedigaeth fel yn golygu adeg derbyniad ymwybodol gyda Duw. (5) Yn achlysurol, defnyddir y gair mawr hwn i ddynodi dim mwy na chynnewidiad mewn opiniwn crefyddol.

6. Beth yw yr ystyr gywiraf a goraf?

Y cwrswethrediad hwnnw, hir neu fyr, ac a nodweddir gan raddau mwy neu lai o dristwch allanol, a ddynoda waith yr enaid yn troi ymaith oddiwrth bechod a Satan a hunan at Grist ei Waredwr. Ar ei fynediad i mewn i'r llys mewnol, ac wedi ei uno â'r Iesu, gellir dweud fod ei droedigaeth yn gwbledig.

§ 5. Edifeirwch.

1. Beth yw Edifeirwch?

Yr argyhoeddiad o euogrwydd a gynyrchir gan yr Yspryd Glân trwy y cymhwysiad ganddo o'r ddeddf Ddwyfol at y galon; yng nghyd ag effeithiau yr argyhoeddiad hwn ar y bywyd.

2. Trwy ba eiriau ei darnodir yn yr Ysgrhythur?

Defnyddir tri o dermau arweiniol: dynoda y cyntaf, a'r un a ddefnyddir fynychaf gyfnewidiad mewn bwriad; dynoda yr ail tristwch, neu gystudd mewnol; a chyflea y trydydd, gair a berthyn yn enwedig i'r Testament Newydd, y meddylddrych o argyhoeddiad neu gerydd, megis y mae yn effeithiol yn y gydwybod.

3. Eglurwch hyn o'r Testament Newydd?

Ond traws-ddodi y trefniant, estynnir i ni olygwedd gyfundrefnol o'r cwrswethrediad o'r argyhoeddiad trwy tristwch i fyny at ddiwygiad buchedd.

(1) *Ac Efe pan ddél a argyhoedda y byd o bechod* (Ioan xvi. 8). Yma y ceir dirgelwch dwfn gwir edifeirwch. *Trwy y ddeddf y mae adnabod pechod* (Rhuf. iii. 20).

(2) *Daw calon ddrylliog gystuddiedig* yr Hen Destament *yn tristwch duwiol*, =kata theòu lupe (Psalm li. 17; 2 Cor. vii.

10). Saif hyn am ei holl deimladau mewnol trwy bob cylch ohonynt.

(3) Archa y Bedyddiwr *ffrwythau addas i edifeirwch* (Matth. iii. 8). Cynhwysa y rhai'n bob dynodiant allanol o edifeirwch : dyma yw y *metamelesthai* (gwasgfa-meddwl), a'r *metanocin* (cyfnewidiad-meddwl), y rhai yng nghyd a olygant wir gyfnewidiad meddwl, a bwriad, a gweithred.

4. Eithr onid ffrwyth y bywyd adenedigol yw y rhai'n oll?

Nage : canys er fod bywyd ysprydol mewn gwir edifeirwch, nid y bywyd adenedigol yw hwn, eto.

5. Ai cyflwr canolog yw edifeirwch ynte, rhwng natur a grâs?

Dyna ydyw mewn rhyw ystyr : ceir ffrwythau pren llygredig a ffrwythau cyfiawnder yn y natur newydd ; eithr ni pherthynna ffrwythau tristwch, a siarad yn fanwl, i'r naill na'r llall o'r rhain.

6. Beth yw perthynas arbennig edifeirwch â'r ddeddf?

Megis yr anrhydedda ffydd yr Efengyl, felly yr anrhydedda edifeirwch y ddeddf. (1) Mewn cystudd yspryd galara oherwydd ei hymddieithriad oddiwrth y gorchymyn sanctaidd, ac am halogrydd personol megis ei datguddir yn ei goleuni hi ; (2) Mewn cyfaddefiad, cydnabyddia gyfiawnder y ddeddfryd ; (3) Mewn diwygiad buchedd, ymdrecha i wneuthur ad-daliad.

7. Beth sy' gynhwysedig yn yr ad-daliad hwn?

Cynhwysa yr ymdrechion manylaf i gadw y gorchymyn, ac i ymwrthod â phob rhyw bechod, ger bron Duw ; a cher bron dyn, cyfaddefiad o fai, ac ad-daliad am bob trosedd.

8. Y'mha le yn yr Efengylau y cawn yr athrawiaeth gyflawn am edifeirwch?

Y'mhregethu, a gweinidogaeth Ioan Fedyddiwr.

9. Y'mha ystyr y mae edifeirwch yn effaith grâs (Luc iii. 8, 9)?

Ffrwyth grâs rhagfynedol ydyw : (1) Yn cymhwyso y ddeddf a bregethir neu a ddarllennir at y gydwybod ; (2) Yn bendithio yr ystyriaeth bwyllog a anogir gan naill ai adfyd neu aflwydd ; ac yn (3), yn cryfhau yr ymdrech i droi ymaith oddiwrth bechod.

10. Y'mha le y disgrifir yn gyflawn y cyflwr o argyhoeddiad?

Yn y seithfed bennod o'r Epistol at yr Rhufeiniaid, lle y disgrifia St. Paul ei brofiad blaenorol, pan y'i dygwyd i adnabyddiaeth o'i bechod; ei gyflwr o gyfyngder mewnol; a'i ymdrech aflwyddiannus i gadw y gorchymyn perffaith: y rhai ydynt y tair elfen mewn edifeirwch yn ei phrethynas a deddf Duw.

11. Eithr oni ddisgrifia yr un Apostol, yn y bumed o'r Galatiaid, yr un ymdrech yn cymeryd lle yn yr allenedig?

Nid yr un ymdrech: rhwng y *cnawd* a'r *Yspryd* y mae yn y Galatiaid (v. 17), ond rhwng *fy nghnawd* i a *fy meddwl* i yn y Rhufeiniaid (vii. 18—23). Y'mhellach, disgrifio y mae yn y blaenaf y *cnawd* fel y mae yn groeshoeliedig, a dynion Cristionogol *a arweinir gan yr Yspryd* yn gyfryw na chyflawnant ei chwantau (Gal. v. 18). Y mae yn hollol wahanol yn yr olaf, lle y mae y pechadur argyhoeddedig yn *druan o ddyn* ac hyd yn hyn *wedi ei werthu dan bechod* (Rhuf. vii. 14—24).

§ 6. Ffridd fel Ddiffern Iechydwrriaeth.

1. Pa beth yw y ffydd sydd yn dwyn Iechydwrriaeth?

Y weithred neu yr agweddiad honno o eiddo yr edifeiriol trwy yr hon, o dan ddylanwad Dwyfol rās yr ymddirieda efe yng Nghrist, fel yr unig a'r digonol Waredwr.

2. Oni rydd y darnodiad hwn olygwedd gyfyng ar ffydd?

Fel amod er iechydwrriaeth rhaid yw ei chyfyngu fel hyn: ymarferiad o allu cyffredin yw a gyfeirir at wrthddrychau penodol; gweithred yr edifeiriol yn unig; megis y cynorthwyr hi mewn modd arbennig gan yr Yspryd; megis yr ymorffwysa ar Grist; ac megis y cynhwysa ymddiriedaeth ynddo Ef.

3. A oes yn bod olygwedd fwy cyffredinol o ffydd yn yr Ysgrhythur?

Oes: y'mhob un o'r pum agwedd a nodwyd, gellir nodi allan ffydd eangach, o'r hon y tardd ffydd gadwedigol.

4. Eglurwch hyn yn gyflawnach gyda golwg ar y gyntaf?

Un o gyngreddfau gwreiddiol y natur ddynol yw ffydd, yr

hon a ddirnad, a gred, ac a ymddirieda yn yr anweledig: fe rodia pob dyn i ryw fesur wrth ffydd, ac nid wrth olwg yn unig. Ond ffydd gadwedigol yw y gyngreddf honno yn gyfeiriedig at holl gylich datguddiad gwirionedd achubol.

5. Sut mai gweithred yr edifeiriol yn unig ydyw ?

Y mae math o grediniaeth ddeallol yn unig yn bod, i'r hon y mae gwirioneddau datguddiad yn wrthddrych: gall eu credebau allanol a mewnl ennill cydsyniad dynion tra heb ddenu eu calon. Caiff pob bôd deallol yn fuan neu yn hwyr feddiannu y ffydd hon. Ond perthyna i'r trefniant goruwchnaturiol Efengyl nas datguddir mohoni ond i ffydd yr edifeiriol yn unig: y mae hon yn gyfaddasedig i edifeirwch fel y mae y goleuni i'r llygad.

6. Beth yw ei pherthynas arbennig a Dwyfol răs ?

Ymarferir ffydd gadwedigol o dan ddylanwad y gräs rhagfynedol cyffredinol hwnnw nas gall dyn wneuthur dim sy' dda hebddo: gräs a gyrhaedda ei bwynt uchaf yma.

7. Eithr oni ddywedir mai ffydd, o weithrediad Duw y mae ?

Na wneir: fe ddywedir fod ffydd yng *ngweithrediad* y Duw a gyfododd Grist oddiwrth y meirw (Col. ii. 12): ni hyspysir yn unman y gweithredir hi ynom yn uniongyrchol ac anibynnol.

8. Onid un o firwythau ailenedigaeth, ac un o ddoniau yr Yspryd yw ffydd ?

Gräs arbennig o eiddo y bywyd newydd yw y flaenaf, a'r olaf un o ddoniau neulltuol yr Yspryd yw.

9. A wna ffydd gadwedigol Grist yr unig wrthddrych iddi ?

Crist yn ddiau yw y Gwrthddrych blaenaf ac agosaf pa le bynnag y pregethir yr Efengyl. Er hynny, Duw yn wastadol, ac o wir angenrheidrwydd yw gwrthddrych terfynol pob ffydd gadwedigol: *Oblegid rhaid yw i'r neb sydd yn dyfod at Dduw, gredu Ei fod Ef, a'i fod yn obrwywr i'r rhai sydd yn ei geisio Ef* (Heb. xi. 6). Ond y datguddiad o Grist yw y datguddiad o Dduw; ac felly, lle mai Duw yw y gwrthddrych—megis mewn ffydd gadwedigol—y mae Crist yn dybiedig: a, lle mai Crist yw y gwrthddrych, y mae Duw yn dybiedig.

10. Pa fesur o wybodaeth a raid flaenori y ffydd hon?

Crediniaeth sydd trwy wrandaw (Rhuf. x. 17): gan hynny nid rhyw grediniaeth wag-ymgeisiol yn enw yr Iesu yn unig mo honi. Ond fel unig amod ein cadwedigaeth ni chais ffydd ddim mwy na gwybodaeth am Grist fel y Cyfryngwr apwyntiedig rhwng Duw a dynion.

11. Paham y gosodir cymaint pwys ar ymddiriedaeth ffydd?

Oblegid y'nghyntaf mai Person Duw byw a Gwaredwr sydd o'r tu cefn i holl wrthddrychau cyfagosach ffydd; ac yn ail, am mai ymddiriedaeth syml y galon a wahaniaetha ffydd gadwedigol oddiwrth bob crediniaeth arall.

12. A yw y meddylddrych o ymddiriedaeth yn gysylltiedig â phob disgrifiad o ffydd gadwedigol?

Taw felly y mae a welir drwy ymholiad. Fe ddefnyddir y gair *pisteuein*, crediniaeth, mewn amrywiaeth penodol o eiriadaeth. (1) Pan ei dilynir gan y cyflwr rhoddedigol (*dative case*) golyga grediniaeth yng ngeiriau Duw, neu yn eiddo Ei Fab Ef, a hyn sydd ymddiriedaeth ar awdurdod Dwylol; (2) pan ei dilynir, gan *epi*, ar, neu *eis*,—*i*, arwyddnoda yn eglur y syniad o ymorffwysiad ar sylfaen ddiogel: (3) pan ei cysylltir yn anuniongyrchol âg *en*, yn, dynoda yr ymddiriedaeth honno sydd yn wir yn un a'i gwrthddrych. Cymerer y rhain yn eu trefn: *Abraham a gredodd i Dduw* (Gal. iii. 6). *Yr hwn sydd yn credu yn y Mab, y mae ganddo fywyd tragwyddol* (Ioan iii. 36). *Chwychwui oll ydych blant Duw yn Iesu Grist trwy ffydd* (Gal. iii. 26).

13. Pa fodd y canfyddir hyn yn y ffugyrau a ddefnyddir i ddisgrifio ffydd?

Ceisio noddfa ynddo Ef, dyfod ato Ef, Ei weled Ef; bwyta Ei gnawd Ef, ac yfed Ei waed Ef, Ei ddilyn Ef: medda yr oll eglurebau arferedig hyn, y rhai a beidiant a bod yn ffugyrau bron, ymddiriedaeth bersonol wrth eu gwraidd.

14. Onid llawn sicrwydd yw yr ymddiriedaeth hon?

Y mae yn ymddiriedaeth ddilys; eithr nid yw y sicrwydd o gaffael ei gwrthddrych yn perthyn i hanfod ffydd fel amod er iechydoriaeth. Ymddiried heb y sicrwydd hwn yw cryfder ffydd; ei dilyn hi gan sicrwydd yw ei rhagorfraint a'i gogoniant.

R

15. Sut y cydwedda hyn â'r deffiniad ohoni yn Heb. xi. 1?

Y mae y darnodiad hwnnw, a flaenora rifres o fuddugoliaethau ffydd, yn cynnwys, ac yn wir yn rhoddi blaenoriaeth i'r sicrwydd a fywiocâ weithredoedd ffydd. Y'mhellach nid y ffydd arbennig a flaenora iechydwriaeth yw, ond yr egwyddor gyffredinol o ffydd yn Nuw a olygir yno.

§ 7. Edifeiriwch a Ffydd.

1 Y'mha ystyr y mae edifeirwch yn rhagflaenori ffydd?

I'r edifeiriol hunan-ffieiddiol, hunan-ymwadol, a hunan-anobeithiol yn unig y mae ffydd gadwedigol yn ddichonadwy.

2. Y'mha ystyr y mae ffydd yn rhagflaenori edifeirwch?

Nis gall neb edifarhau fel hyn heb ffydd yn nhystiolaethau gair Duw am bechod, y'nghyd a'i gospedigaeth a'i feddyginiaeth.

3. Pa fodd y perthynant, yn yr undeb ohonynt, i gyflawnhad?

Profa yr edifeiriol argyhoeddedig yn euog, ymddirieda yn y Cymodwr iawnol : a'i ffydd a gyfrifir iddo yn gyflawnder.

4. Beth yw eu perthynas âg ail-enedigaeth?

Derbynia yr edifeiriol gan gyfaddef ohono ei farwolaeth ysprydol, Fab Duw fel bywyd newydd ei enaid.

5. Beth yw eu perthynas â sancteiddhâd?

Y mae yr edifeiriol gan gyfaddef ohono ei ansancteiddrwydd ger bron yr allor ac ymddiried ohono yn rhinwedd y gwaed a dywalltwyd, yn cael ei buro oddiwrth ei halogrwydd, ac yn cael ei dderbyn ar allor ymgysgriad.

7. Ai dim ond rhagddarparol yn unig i iechydwriaeth yw edifeirwch a ffydd?

Traidd y naill a'r llall ohonynt i mewn i'r bywyd ail-enedig a pherffeithir hwynt ynddo ; edifeirwch fel adgoffhad parhâus o bechod a faddeuwyd yn y gorfennol, y'nghyd ag ymarferiad selog o bob moddion er hunan-ddarostyngiad ; a ffydd fel y grâs sydd yn gweithio trwy gariad yn yr ymgais am berffeithrwydd, gan ddyfnhau ohoni bob amser yn ol fel yr ymëanga ei chylch.

§ 8. Ymbriniaeth Sanesiol.

- 1. Beth ydoedd athrawiaeth yr Eglwys foreuol ar y pyngciau hyn sef Galwad yr Yspryd, a Grâs Rhagfynedol?**

Fod y bwriad prynedigol yn un cyffredinol, effaith yr hwn fyddai gwaredu dynolryw rhag cwbl-gaethiwed i bechod: rhoddwyd amlygrwydd mawr i hyn mewn cyferbyniad i'r dybiaeth Fanichêaidd fod cysylltiad yr enaid â defnydd yn ei rwymo i ddrwg.

- 2. A ffynnai unrhyw wahaniaeth yng ngogwyddiadau diwinyddiaeth y Dwyrain ag eiddo y Gorllewin?**

Rhoddai Eglwys y Dwyrain, o'r dechrenad bwys gormodol ar swyddogaeth yr ewyllys ddynol yn iechydoriaeth dyn. Gosodai Eglwys y Gorllewin fwy o bwys ar ddylanwad Dwysol râs ar y pechadur yn nefnyddiad ei ewyllys. Ymddadblygodd y blaenafi Belagiaeth; a'r olaf i Awstinaeth, neu yr hyn a elwir mewn amserau diweddar yn Galfiniaeth, oddiwrth John Calfin ei ail-sefydlydd.

- 3. Beth oedd dysgeidiaeth Pelagius?**

Y medda pob dyn yr unrhyw allu i ddaioni ag oedd gan Adda pan ei crëwyd: yr hwn, o'i osod yn agored i esiampl ddrwg, ar y naill law, a arweinir ar gyfeiliorn; neu yr hwn o'i gyffroi gan ddysgeidiaeth ac esiampl dda Crist, ar y llaw arall, a ddiwygir drwy hynny.

- 4. Beth ydoedd dysgeidiaeth Awstin mewn gwrth-gyferbyniad?**

Fod pawb a brynodd Crist yn weithredol gadwedig; y rhoddir iddynt râs anwrthwynebol, ac effeithiol yn yr amser penodedig; fod dawn neulltuol o ddyfal-barhâd yn diogelu byth-barhâd y cyflwr o râs. Yr oedd y dybiaeth ddiweddar hon yn ofynnol yng nghynllun Awstin, oherwydd ei athrawiaeth o râs sacramentaidd yn y bedydd, grâs y gellir ei gollu. Ni lesteirid ei olynydd, Calfin, gan unrhyw olygiadau am râs sacramentaidd cyffredinol.

- 5. Beth ydoedd cyd-gytundeb Hanner-Pelagiaeth?**

Yr athrawiaeth y rhoddir grâs i bob dyn i wrthweithio effaith y cwmp; y medda pob dyn nerth ohono'i hun i droi at Dduw, er y gofynna cyflyrau dilynol y bywyd crefyddol râs uniongyrchol.

- 6. Pa ffurf a gymeres hyn yn Eglwys y Canol Oesoedd?**

Bu llawer o ddadleu yn y chweched a'r nawfed ganrif; ond

tueddai penderfyniadau y Cynghorau, ac opiniwn cyhoeddus tuag at Hanner-Pelagiaeth. Ffynnai cyd-syniad tra chyffredinol y gorweddai y rhagwybodaeth o ffydd neu anufudd-dod wrth wraidd yr athrawiaeth ddatguddiedig o etholedigaeth. Gesyd yr athrawiaeth o râs rhagarweiniol, a benderfynwyd yng Nghymanfa Trent bwys mawr ar fath o haeddiant o gymhwyster (*merit of congruity*) yng nghydweithrediad y pechadur â Dwyfol râs.

7. Sut y lluniarwyd hyn gan Lutheriaeth?

Trwy y ddamcaniaeth a elwir Synergiaeth, neu gydweithrediad, yr hon a ddysgai, ac yn gywir felly, y cydweithreda dyn â grâs Duw o ddechreuad ei iechydwriaeth; eithr nis olrheinai y gallu hwn, gyda gwahaniaethiad digonol, i râs neulltuol yr Yspryd, yr hwn a adferir mewn prynedigaeth. Bu i rai mewn amseroedd diweddar ei wneud yn rhy ddibynedig ar râs y bedydd. Tybiodd eraill fod grâs rhagfynedol yr Yspryd yn myned gyda'r ysprydoedd idd eu carchar; ac y deffröir ef gan y pregethu sydd yn Hades.

8. Sut y darfu i Calfin roddi ffurf i Athrawiaeth Awstin?

(1) Gosododd ei seiliau yn ddwfn ym mhenarglwyddiaeth ddiamodol Duw. (2) Haera nad yw galwad fewnol yr Efengyl, i'r rhai an-etholedig yn ddim ond "arwydd" yn unig, neu y mynegiad o "râs cyffredin" sydd i'w wahaniaethu oddiwrth "seliad ewyllys" a "grâs effeithiol" a roddir i'r etholedigion. (3) Efe a ymofidiai oherwydd rhwystro a ffugio y ddogma o wrthodedigaeth.

9. A yw Calfiniaeth wedi lluniaru dim ar ei daliadau?

Erys ei phrif safonau—a gynrychiolir yn Saesneg gan gyffes Westminster* yn ddigyfnewid. Ond bu i Amyraldus yn Ffraingc, a Baxter yn Lloeger, adael allan wrthodedigaeth o'r gyfundrefn, neu newid ohonynt ef i ddim ond ataliad yn unig o râs anwrthwynebol oddiwrth yr an-etholedig. Eto, yn gymaint ag fod yr arfaethau Dwyfol yn ddirgelaid, y mae pregethwyr rhagluniaethiad wedi teimlo gorfodaeth i gynnwys yr Efengyl i bob dyn, ac y mae rhai ohonynt wedi bod y'mhlith yr efengylwyr mwyaf catholig ac effeithiol.

10. Beth ydoedd ffurf Arminaidd yr athrawiaeth hon?

Y llwybr canol Hanner-Pelagiaidd rhwng Pelagiaeth ac Awstinaeth; ond gan osod ohoni ei phwyslais enwedig ei hun

* Gellir dweud yr un peth am y Gyffes Ffydd Gymreig seiliedig ar yr uchod.—T. J. P.

ar ddawn yr Yspryd megis y ceidw natur ddynol rhag ei llwyr ddinystrio gan bechod.

11. Beth a nodwedda y ddysgeidiaeth Drefnyddol Wesleyaidd oreu ar y mater hwn?

Parhâ i raddau mwy nag Arminiaeth (Holland) i ddadblygu yr athrawiaeth o râs rhagfynedol; haera nad yw dyn i'w gael yng nghyflwr syrthiedig natur, yn syml felly, eithr fod hyd yn oed y natur ei hun yn râs; y gweithreda yr Yspryd trwy y gair gyda'i ddylanwadau rhagflaenorol Ei Hun, gan eu dyfnhau a'u dwyn i berffeithrwydd; ac y perffeithir y grâs rhagfynedol parhâus hwn, yn nhrefn iechydwrïaeth a'r dawn o fywyd ail-enedig.

12. Pa ddrwg a osgoir trwy y fath ddysgeidiaeth?

Y drwg o gyfrif, gydag Awstin mai "crynswth o golledigiaeth" yw dynoliaeth; ac o ddal nad yw arwyddion bywyd rhagddarparol yn y pechadur argyhoeddedig yn ddim amgen na "drygau ysplenydd" neu ragrith; ac o ddinystrio yr unrhywiaeth sydd rhwng y pechadur argyhoeddedig a'r dyn ail-enedig yng Nghrist.

13. Onid yw y gyfundrefn wrthwynebol yn priodoli gormod i'r ewyllys ddynol?

(1) Hi a fabwysïada, yn fanwl, iaith a thôn y Testament Newydd; gan adael ohoni y dirgelwch anchwiliadwy gyda Duw.

(2) Hi a gytuna yn seml â phob damcaniaeth iachus o eiddo crefydd ac athroniaeth trwy wneuthur yr ewyllys yn rhydd o angenrheidrwydd, ond yr hon a ysgogir gan gymeriad y sawl a'i defnyddia.

(3) Hi a haera y rhoddir i'r pechadur râs, yr hwn sy' raid iddo ei wrthod os na ddychwel efe at Dduw.

14. Pa egwyddorion y dylid dal gafael diamheuol ynddynt yma, costied a gostio?

(1) Fod Duw yn gyfiawn, ac y bydd iddo yn y diwedd egluro Ei gyfiawnder yn Ei holl ddeliadau gyda'i greaduriaid.

(2) Y bydd Ef yn sicr o alw y rhai a brynodd Efe.

(3) Fod moddau Ei alwad Ef yn anchwiliadwy.

(4) Nas geilw Efe neb i ufuddhau, heb roddi iddynt râs digonol, ond ei iawn-ddefnyddio, i'w galluogi hwynt i ufuddhau.

(5) Mae gorchwyl anobeithiol, os nad amharchus yw ymgeisio at gysondeb rhwng pen-arglwyddiaeth ddiamheuol grâs, a'r hyn sy' r'un mor ddiamheuol, sef rhyddid a chyfrifoldeb dyn,

PENNOD IV.

Y Cyflwr o Râs, neu Iechydwmriaeth
Personol.

§ 1. Gi Amrwiaeth mewn Anoliaeth.

1. Beth yw ystyr yr ymadrodd hwn?

Arwyddoca y cyflwr Cristionogol yn ei gyflawn ragorfreintiau; fel y mae i'w wahaniaethu yn (1) oddiwrth y grâs rhagddarparol, ar y naill law, ac (2) oddiwrth ddyletswyddau y bywyd crefyddol ar y llaw arall.

2. Onid y term canolog rhwng cyflwr natur a'r cyflwr gogoneddedig yw?

Dyna ydyw: eithr gan gofio yn wastadol, fod cyflwr natur ei hun i raddau mwy neu lai yn gyflwr o râs.

3. Pa fodd y disgrifir y cyflwr hwn yn y Testament Newydd?

Fel y grâs yn yr hwn yr ydym yn sefyll (Rhuf. v. 2), neu yr iechydwmriaeth gyffredinol (Jud. 3), neu gymdeithas yr Yspryd Glân (1 Cor. xiii. 14) neu ein bod Yng Nghrist (2 Cor. v. 17).

4. Onid oes eiriau neu ymadroddion eraill a'i disgrifia?

Mewn ystyr lai uniongyrchol, ac mewn cysylltiadau mwy neulltuol fe ddywedir mai dyna yw, sef, *Derbyn y Cymod* (Rhuf. v. 11), neu, *Fod y bywyd ganddo* (1 Ioan v. 12) neu feddu *Blaenffruyth yr Yspryd* (Rhuf. viii. 23).

5. Beth yn arbennig a olygir wrth y cyflwr o râs?

Dywed St. Paul mai *trwy ffydd y cawsom ddysfodfa i'r grâs hwn, yn yr hwn yr ydym yn sefyll* (Rhuf. v. 2): y mae yr holl eiriau yn bwysleisio, a dysgant fod grâs yn gylch neu yn gyflwr i'r hwn y derbynnir credinwyr edifeiriol, yr hwn a gyd-feddiannant, ac yn yr hwn yr ymbarotânt ar gyfer y gogoniant. Rhoddwyd grâs o'r tu allan, pe amgen, ni allem fyned i mewn; ond y mae grâs yn *teyrnasu* oddifewn (Rhuf. v. 21). Am hyny y dywedir nad ydym ni *dan ddeddf, eithr dan râs* (Rhuf. v. 21). Yma, y mae y grâs a ddygodd Grist atom ni a ninnau at Grist yn gwisgo ei berffeithrwydd, a chyfranna ei ddoniau uchaf.

6. Beth yw y meddylddrych arweiniol yn y gair grâs?

Ffafr anhaeddiannol Duw yn gorffwys ar yr enaid: yr hyn yw ystyr bron yr oll o'r ymadroddion hynny lle y digwydda *charis* = rhodd neu ffafr. Yn achlysurol, pa fodd bynnag, daw y ffafr hon, fel pe bae, yn egwyddor fewnol. Yr un gair a ddefnyddir am y diolch a gyflwynir i Dduw.

7. Beth a olygir yma wrth unoliaeth ac amrywiaeth?

(1) Gellir golygu y cyflwr o râs neu iechydwrïaeth bersonol o dan wahanol agweddau: yn ei berthynas â deddf Duw, adferiad cyfiawnder (*righteousness*) yw; yn ei berthynas â marwolaeth yr enaid mewn pechod, adnewyddiad bywyd yng Nghrist Iesu, neu fabolaeth yw; yn ei berthynas â'n cymdeithas â Duw, sancteiddhâd yw.

(2) Ond nid bendithion a ddilyna y naill y llall yw y rhain: un ydynt oll, fel cymhwysiad o rinwedd yr Iawn gan yr Yspryd, ac un ydynt hefyd fel y tarddant allan oddiar undeb â Christ.

7. Pa fodd y mae y tair rhagorffraint hyn yn un yn yr Iawn?

Diogelir hwy trwy rinwedd marwolaeth Crist tuag at Dduw. Cyfrennir y rhinwedd hwnnw tuag at ddyn gan yr Yspryd Glân ar hyd tair llinell: fel ag y mae yr Iawn wedi boddloni hawliau deddf, y buddiant ohono yw ein pardwn a'n cyfiawnder (*righteousness*); fel y mae wedi di-ddymu angau gan symud ohono y llen oddi-rhwng Duw a dyn yn y cymod, y buddiant ohono yw ein bywyd newydd ail-enedig; fel y mae yn aberth dyhuddol, y buddiant ohono yw ein cysegriad i sancteiddrwydd. Eithr nid yw y rhain amgen na'r un a'r unrhyw fendith.

9. Pa fodd y maent yn un yn ein hundeb ni â Christ?

(1) Yr ydym ni i gael ein gwneud yn gyfiawnder Duw ynddo *Ef* (2 Cor. v. 21); a derbynnir ni trwy ei râs *Ef* yr hwn a râdroddes *Efe* i ni yn yr *Anwylid* (Eph. i. 6). (2) *Od oes neb yng Nghrist y mae efe yn greadur newydd* (2 Cor. v. 7); ac yn (3) rhai ydym ni a sancteiddiwyd yng Nghrist Iesu (1 Cor. i. 2).

10. A olyga hyn oll y rhoddir y bendithion hyn er mwyn Crist?

Ystyr seml "Er mwyn Crist" yn yr Ysgrhythur yw "yng Nghrist," *megis y madduodd Duw, er mwyn Crist i chwithau*

(Eph. iv. 32). Y mae y ddau feddylddrych yn rhai cysegredig; ond cynhwysa y meddylddrych o undeb â Christ fod y credadyn yn un â Christ, mewn gwirionedd, yn rhinwedd Ei farwolaeth Iawnol Ef i bechod, ac yn rhinwedd Ei Yspryd bywiocâol Ef. Hyn yw y dirgelwch dyfnaf o eiddo grâs ar y ddaear.

11. Onid oes drefniad olynol yng nghyfraniad y bendithion hyn?

Rhoddir hwy oll gyda'u gilydd; neu yn hytrach, golygir yr un iechydwriaeth gyffredin mewn tair golygwedd.

(1) Gallwn ddechreu gyda chyfiawnder: cymerir ymaith ddedfryd condemniad oddiar yr edifeiriol, yr hwn ar ol hynny a fabwysiedir, a ail-enir ac a gysegrir i Dduw.

(2) Gallwn ddechreu gyda mabolaeth: Yma rhyddhêir y bywyd newydd a roddir yng Nghrist oddiwrth ddedfryd y llys a gosodir ef ar yr allor yn y deml. Y mae hyn yn hanfodol yr un peth.

(3) Gallwn ddechreu gyda sancteiddhâd: yma, bendithir y pechadur halogedig a daenellwyd oddiwrth gydwybod pechod yn y deml, â bywyd newydd yng Nghrist, a'i bechodau ni chofir mo honynt mwyach. Cyd-gordia y trydydd cyfuniad hwn â'r rhai blaenorol.

12. Eithr onid oes wahaniaeth rhwng iechydwriaeth fewnol ac allanol?

Y mae y cyfiawnder, y fabolaeth, a'r sancteiddhâd, y tair hyn yn fewnol ac allanol, bob un o'r ddau: nid oes yr un ohonynt yn wahanol i'r lleill yn hyn o beth.

13. Onid gwaith a wneir erom ni yw cyfiawnhad, a sancteiddhâd yn waith a wneir ynom ni?

Prin y mae y gwahaniaethiad hwn yn un ysgrhythrol. Y mae yn bod gyfiawnder mewnol yn ogystal ag un allanol; ac y mae yn bod sancteiddrwydd allanol a mewnol, pob un o'r ddau.

14. Eithr onid parhâd a chynnydd ail-enedigaeth yw sancteiddhâd?

Nid mwy felly nag yw o gynnydd cyfiawnhâd. Perthyna y tri gair i dri dosparth o feddwl hollol wahanol i'w gilydd: golyga ail-enedigaeth fywyd newydd, sancteiddhâd gyflwyniad hwn i Dduw, a chyfiawnder ei gysondeb â'r ddeddf Ddwyfol.

15. Pa dermau a ddefnyddir i wahaniaethu rhwng bendithion allanol a rhai mewnol y cyflwr Cristionogol?

(1) Ni a lefarwn am gyfiawnder fel yn gyfrifedig neu yn gyfranedig. Gorwedda y gwahaniaeth ar brydiau rhwng yr ystyr gyfreithiol (*forensic*=datganiad llys barn), a'r un foesol, neu fewnol.

(2) Mwy priodol yw llefaru am fabolaeth fel mabwysiad datganiadol (*declaratory*), ac fel ail-enedigaeth fewnol.

(3) Ac am sancteiddhâd fel ymgysegrïad allanol, megis ar yr allor, ac fel puredigaeth mewnol.

16. A reoleiddir geiriadaeth yr Ysgrythur gan y gwahaniaethiad triphlyg hwn?

Gwneir: i lawr at wahaniaethau tra manwl: y mae tri dosparth o ymadroddion i'r rhai y gellir rhannu holl ddisgrifiadau y cyflwr Cristionogol. Ymadroddion perthynol i'r llys barn, i deulu Duw, ac i'r deml, pob un fel ei gilydd.

17. Eglurwch undeb amrywiaethol yr ymadroddion hyn?

(1) Fel y bodola y cyflwr Cristionogol yn ei berthynas a'r ddeddf. Duw yw y Barnwr, Crist yw y Dadleuydd a'r Meichniydd, pechod trosedd yw, yr Iawn boddlonrwydd yw, edifeirwch argyhoeddiad yw, derbyniad pardwn neu faddeuant yw, adnewyddiad cyfiawnder yw, tystiolaeth yr Yspryd, tystiolaeth o bardwn yw, a'r bywyd Cristionogol ufudd-dod yw: a'r perffeithiad ohono yw cyflawniad gofynion y ddeddf.

(2) Fel y mae yn fywyd newydd yng Nghrist, Tad yw Duw, y Brawd Hynaf, a'r Bywyd yw Crist; hunan-ewyllys a gwrth-ryfel yw pechod, cymod yw yr Iawn, afradlon yw yr edifeiriol, mabwysiad yw derbyniad, ail-enedigaeth yw adnewyddiad, tystiolaeth i fabwysiad yw tystiolaeth yr Yspryd, marweiddiad yr hen ddyn, ac adgyfodiad y newydd yw y bywyd Cristionogol; a'r perffeithiad ohono adlewyrchiad perffaith yw o ddelw Crist yr Uniganedig.

(3) Fel y mae yn fywyd cyflwynedig yn y deml, Duw sy' Dduw yn unig, yr Archoffeiriad yw Crist, halogrwydd yw pechod, aberth dyhuddol yw yr Iawn, ymwybodaeth o aflendid yw edifeirwch, ar yr allor y derbynnir yr enaid, seliad tawel y meddiant ohono yw tystiolaeth yr Yspryd, sancteiddrwydd yw

y bywyd Cristionogol; a'r perffeithiad ohono yw cwbl-sancteiddiad oddiwrth bechod, a thuag at Dduw.

18. Onid oes gynnydd graddol yn bod o gyflawnhâd trwy ail-enedigaeth, hyd at gwbl-sancteiddhâd?

Rhaid i'r tair bendith hyn ddechreu gyda'u gilydd; a pherthyna i bob un ei chynnydd sicr ei hun tuag at ei pherffeithiad ei hun.

19. A gedwir y termau y'mhob dosparth yn gwbl ar wahân?

Dyna sydd arferol; ond perthyna rhai, megis ffydd a chariad, i eiriadaeth pob dosparth fel eu gilydd.

I.

Gyflawnder Cristionogol.

§ 1. Aðagarweiniad.

1. Pa rai ydynt y prif dermau yn y pwngc hwn?

(1) Y cyfryw a berthynant i'r un trâs a *dike*, neu iawnder, a cheir y ceidw pob un ohonynt ei le ei hun yn yr athrawiaeth.

(2) Yr holl dermau hynny a ddefnyddiant iaith y llys barn: Cyflwynir ger bron bob term braidd a ddefnyddir mewn llysoedd barn dynol y'ng hyda'r ystyr Efengylaidd ohono.

(3) Defnyddir lluaws hefyd, a gadwant mewn golwg yn fwy uniongyrchol y meddylddrych o grefydd fel ufudd-dod i ddeddf, ac fel cyrhaeddiad cymeriad cyson âg iawnder.

2. Oni wneir Cristionogaeth, ar y cychwyn fel hyn, yn rhy gyfreithiol?

Daeth yr Iachawdwr nid i *dorri y gyfraith* (Matth. v. 17); Efe a'n hanoga i *geisio yn gyntaf deyrnas Dduw a'i gyflawnder Ef* (Matth. vi. 33). A dywed St. Paul ein bod trwy yr Efengyl yn *cadarnhau y ddeddf* (Rhuf. iii. 31). Sylwedd Cristionogaeth yw y *ddeddf berffaith, deddf rhyddid* (Iago i. 25).

3. Oni wna yr Efengyl. gwedi ohoni ein rhyddhau oddiwrth ddedfryd y ddeddf, ein hyfforddi i berffeithrwydd sydd anibynnol â'r ddeddf?

Na wna: canys holl waith crefydd o'i dechreu i'w diwedd, yn y llys cyfryngol ei gweinyddir; *fel y cyflawnid cyflawnder y*

ddeddf ynom ni (Rhuf. viii. 4). Gwna Cristionogaeth ei phlant yn *gaethweision i gyfiawnder* (Rhuf. vi. 18): er fod y wasanaeth yn berffaith ryddid.

§ 2. *Gyfiawnder.*

1. **Beth yw ystyr cyfiawnder (*righteousness*) yn yr Ys-grythur?**

Y cyflwr neu y cymeriad sy'n gydffurfiedig â safon y Gyfraith Ddwyfol. Dyna yw *dikaïosúnê*=cyfiawnder, neu unionder, a'r sawl a foddlonodd neu sydd yn boddloni y ddeddf *dikaïos*,=cyfiawn yw.

2. **A all dyn syrthiedig foddloni y ddeddf fel hyn?**

Nis gall efe ei boddloni ond trwy ddioddef ei chosp. Y mae efe wrth natur yn gondemniedig ac yn wan: *dan y ddeddf* (Rhuf. vi. 14).

3. **Y'mha fodd y defnyddir yr ymadrodd "cyfiawnder Duw" yn y Testament Newydd?**

I ddynodi y cyfiawnder newydd a neulltuol hwnnw a ddarperir ac a dderbynnir gan Dduw yn yr Efengyl. Gelwir "cyfiawnder Duw" hefyd yn gyfiawnder Crist, ac yn gyfiawnder ffydd, megis yn gyferbyniol i gyfiawnder dyn *EI HUN*, ac i *gyfiawnder y ddeddf*, neu gyfiawnder *gweithredoedd* (Rhuf. x. 3; Phil. iii. 9).

4. **Y'mha ystyr y mae yn gyfiawnder neulltuol?**

Am ei fod wedi ei ddarparu mewn modd neulltuol i gyfarfod âg achos pechaduriaid gan y Deddfroddwr *Ei Hun*.

5. **Sut y mae hyn yn cyfarfod a'u hachos?**

Trwy rinwedd boddlonrwydd iawnol Crist, y mae cyfiawnder yn gyfrifedig iddynt fel y maent yn allanol gondemniedig, ac yn gyfranedig iddynt fel y maent yn fewnol gyfiawn.

6. **A yw hwn, ynte yn gyfiawnder Crist yn ogystal a chyfiawnder Duw?**

Nis defnyddir byth mor ymadrodd "cyfiawnder Crist;" ac ni ddywedir y cyfrifir hwnnw. Eithr *Efe a wnaethpwyd i ni gan Dduw... yn gyfiawnder*, ac *fe a'n gwneir ninnau yn gyfiawnder Duw ynddo Ef* (1 Cor. i. 30, 2 Cor. v. 21).

7. A oes yma unrhyw wahaniaeth gwirioneddol?

Gall ymddangos yn beth anhawdd ei wadu y rhoddir cyfiawnder Crist i gyfrif y credadyn; ond dengys y wir athrawiaeth am gyfrifiad paham na ddywed yr Ysgrhythur y cyfrifir ef.

8. Beth yw y wir athrawiaeth am gyfrifiad?

Cyfrifiad yw y priodoliad o'i weithred ei hun i ddyn, y'ng hyd â'r canlyniadau ohoni: megis pan y cyfrifir pechod i bob enaid byw. Ond y mae cyfrifiad yn ei ystyr efengylaidd hefyd yn gyfrifiad i un o ganlyniadau gweithred rhywun arall: megis y cyfrifir canlyniadau pechod Adda i'w ddisgynyddion; y cyfrifwyd canlyniadau pechod dyn i Grist; ac y cyfrifir canlyniadau ufudd-dod Crist i'r credadyn.

9. Y'mha fodd ynte y cyfrifir cyfiawnder Crist i ddyn?

Y'ng hynaf, rhoddir ef i gyfrif yr holl fyd fel y mae Duw yn gymodedig â'r hil ddynol ac na chondemnia Efe neb am y pechod gwreiddiol. Yn ail, ac yn bennaf, rhoddir ef i gyfrif y credadyn trwy ei gyfrif, a thrwy ymwneud âg ef fel person cyfiawn yng Nghrist neu er Ei fwyn Ef.

10. Beth yw cyfiawnder Crist, buddiant yr hwn a gyfrifir i ni?

Ei unig ufudd-dod mawr, gweithredol a goddefol,—y rhai dydynt un, yn hantodol,—trwy yr hyn y mae Efe *yr Arglwydd ein cyfiawnder* (Jer. xxiii. 16).

11. A gyfrifir cyfiawnder personol Crist Ei Hun i'r credadyn fel ei eiddo'i hun?

Sicr yw na wneir; mwy nag y cyfrifwyd pechod personol y pechadur yn eiddo Crist. Y'mhellach, megis nas gallesid cyfrif ein pechodau personol ni i Fab Dwyfol Duw, felly hefyd yr oedd Ei ufudd-dod Dwyfol-ddynol Ef yn gwbl uwchlaw cylch ufudd-dod dyn i'r ddeddf. Trosglwyddiad personol o'r fath ni allasai fod.

12. Beth yw ystyr yr ymadrodd "cyfiawnder ffydd"?

Megis y disgrifia "cyfiawnder Duw" y drefn Efengylaidd yn ei tharddiad, ac megis y disgrifia "cyfiawnder Crist" hi yn ei seiliau, felly y disgrifia "cyfiawnder ffydd" hi yn ei hofferynoliaeth o du dyn. Derbynia ffydd hi megis yn allanol, a gweithia trwy gariad gyfiawnder mewnol; ac felly y mae yn wastad o **FFYDD**.

13. Gan hynny y mae "cyflawnder ffydd" yn cynnwys y cyflawnder mewnol?

Ydyw: dyna y drefn Ddwylf o osod dyn yn ei iawn berthynas â'r ddeddf dragwyddol ar bob pwynt, a hynny am byth.

14. Y'mha ystyr y galwyd y drefn hon yn newydd?

Am mai yn yr Efengyl yn unig y datguddir yn llawn ei seiliau a'i natur; eithr y mae y cyflawnder hwn yn unig wedi bod yn safadwy ac yn ddigonol y'mhob oes. Trwy gyfryngwriaeth yr Iesu nad oedd wedi Ei ddatguddio eto, y mae Duw wedi bod yn Gyfiawn ac yn Gyfiawnhâydd pawb a ymddiriedasant ynddo Ef, o'r dechreuad. Dywed St. Paul fod y drefn hon—*heb y ddeddf*, er hynny *yn cael tystiolaeth gan y ddeddf a'r proffwydi* (Rhuf. iii. 21): hynny yw, gan yr holl Ysgrythur. Ffydd yn y Gwaredwr, cyn neu gwedi Ei ddatguddio sydd wedi bod yn egwyddor derbyniad o'r cychwyn.

15. Pa brawf neulltuol o hyn a ddyry St. Paul?

Ei brif eglureb yw Abraham, *yr ydym yn dywedyd ddarfod cyfrif ffydd i Abraham yn gyfiawnder*; yr hwn a gymerth arwydd yr *Enwaediad*, yn *insel cyfiawnder y ffydd yr hon oedd ganddo yn y dienuaediad*; fel y byddai efe yn dad pawb a gredent (Rhuf. iv. 9—11). Defnyddir yr un eglureb gan St. Iago (ii. 23).

16. Onid oedd cyflawnder ffydd cyn bod Abraham?

Ffydd ydoedd amod derbyniad, a grym ufudd-dod o'r dechreuad. Noa a *wnaethpwyd yn etifedd y cyfiawnder sydd o ffydd* (Heb. xi. 7.)

17. Beth mewn amseroedd boreuol ydoedd wrthddrych arbennig ffydd?

Yr addewid gyffredinol am Grist, y Gwaredwr. Cyfeiriai ffydd Abraham at yr Hâd o'r Hwn yr oedd Isaac yn gysgod. Nid ffydd yn Nuw yn gyffredinol ydoedd, ond ffydd tuag at Dduw megis y datguddiai Efe yr addewid o Grist. Proffwydoliaeth benodol am Waredwr dyfodol a ddechreuodd hanes dynolryw syrthiedig.

18. Sut y symia St. Paul hyn oll i fyny?

Efe a wna hynny yn bennaf yn yr Epistol at y Rhufeiniaid, rhan helaeth o'r hwn a gymerir i fyny âg agwedd gyfreithiol yr

Efengyl; ac yn enwedig yn y frawddeg honno ar y cychwyn a esyd i lawr bwngc cyffredinol yr Epistol.

19. Rhoddwch ddadansoddiad o'r adnod honno?

Llefara yn (1) am *gyfiawnder Duw*; megis (2) y mae yn ddatguddiedig *yn yr Efengyl* fel cyfiawnder trwy Grist (Rhuf. i. 16, 17, 19); ac yn (3) fel cyfiawnder i gredinwyr yn unig, pa un bynnag ai i'r Iddew ai i'r Groegwr: yr hwn sydd gyfiawnder a dardda yn ei berthynas â Duw o ffydd, ac yn ei berthynas â dyn a weithia *trwy ffydd i ffydd*; a gadarnheir gan eiriau y proffwyd, *y cyfiawn a fydd byw trwy ffydd*; a'r hwn yn ddiweddaff sy' ddatguddiad nid o drugaredd yn unig, eithr o *allu Duw er iechydwriaeth*, i gyfiawnder mewnol ac allanol.

20. Ai a chyfiawnder yn unig yr ymwna yr Epistol hwn?

Dyna yw ei brif bwngc; ond fel y cerdd rhagddo cysyllta gyfiawnder Cristionogol â mabolaeth Gristionogol ac â sancteidd-hâd Cristionogol y ddau fel eu gilydd.

§ 3. Gyfiawnhâd trwy Ffydd: Gyfiawnder Gyfrifedig.

1. Y'mha fodd y datgenir perthynas cyfiawnder â ffydd?

Ni a ddarllennwn am (1) gyfiawnhâd *trwy (dia) ffydd* (Rhuf. iii. 22); yn (2) am gyfiawnder *o ffydd (ek)* (Rhuf. ix. 30); yn (3) am *gyfiawnder ffydd* (y cyflwr meddiannol) (Rhuf. iv. 11); yn (4) am y cyfiawnder *sydd o ffydd (kala)*: yn (5) cyfiawnder Duw *trwy (gr. ar epi)=ffydd* (Philip iii. 9). Byth, wrth gwrs, "ar gyfrif ffydd" (*dia* gyda'r gwrthddrychol): fel pe mai ffydd fyddai y sail.

2. Dynoda y rhain ffydd fel yr offeryn yn gyffredin; ond beth yw perthynas manylach ffydd a chyfiawnder?

Danghosir hi mewn dwy ffordd; (1) Fe gyfrifir ffydd yn gyfiawnder: *i'r neb nid yw yn gweithio, ond yn credu yn yr Hwn sydd yn cyfiawnhau yr anuwïol, ei ffydd a gyfrifir yn gyfiawnder* (Rhuf. iv. 5). Ymwneir â'r anuwïol sydd yn credu fel pe na byddai anuwïol: yr unig ufudd-dod a ddichon efe ei roddi yw ei ffydd, a saif ohoni yn lle pob cyfiawnder arall ar foment ei

dderbyniad. (2) Nid i'r ffydd, serch hynny y cyfrifir y cyfiawnder, ond i'r dyn sy'n credu: *Credodd Abraham i Dduw, a chyfrifwyd iddo yn gyfiawnder* (Rhuf. iv. 3). Y mae y ffordd olaf hon o osod yr un gwirionedd yn gwarchod y blaenaf.

3. Pa dermau a ddefnyddir am y cymhwysiad o'r fendith hon?

(1) Mynegir fod Duw yn cyfiawnhâu; hynny yw, yn datgan neu yn cyhoeddi yn gyfiawn, *dikaïoun*. *Duw yw yr hwn sydd yn cyfiawnhâu, pwy yw yr hwn sydd yn damnio?* (Rhuf. viii. 33). Yma, y mae cyfiawnhâu (*dikaïôn*) yn wrthgyferbyniol i damnio (*katakrînôn*) megis y mae yn arferol trwy'r Ysgrhythur. (2) Cyhoedda Duw ddefnydd o gyfiawnhâd, *dikaïôsis*. *Yr hwn a draddodwyd dros ein camweddau, ac a gyfodwyd i'n cyfiawnhau, dîa tén dikaïôsin hêmôn*,—(Rhuf. iv. 25); nid ddarfod cyfodi Crist i'n cyfiawnhâu ni; ond cyhoeddes Ei adgyfodiad Ef mai Ei farwolaeth ydoedd y sail haeddiannol a safadwy oedd yn ein cyfiawnhâu neu yn gwarantu y weithred o'n cyfiawnhâd ni. (3) Mynegir fod Duw yn pardynnu y pechadur, neu yn symud y gosp, neu yn peidio a chyfrif ei bechod, y rhai a olygant yr un peth. *Dedwydd yw y rhai y maddeuwyd eu hanwiredau. Dedwydd yw y gwr nid yw yr Arglwydd yn cyfrif pechod iddo* (Rhuf. iv. 7, 8).

4. Traethwch yn eglur y gwahaniaeth rhwng pardwn, maddeuant, a chyfiawnhâd?

(1) Gorffwysa pardwn ar y pechadur, a mynegir ef fel rhâd-roddiad grâs: *êcharísato*, *Efe a faddeuodd-yn-rhwydd* (Luc vii. 42). *Ei râs Ef, yr Hwn a râd-roddodd Efe i ni yn yr Amwylid*, (Eph. i. 6). Cyfeiria maddeuant at euogrwydd, neu ddyled, neu gospedigaeth pechod sydd eto heb ei rhoddi mewn grym: 'aphiênai (*maddeuant*) 'aphesis (*pardwn*) fynychaf oll. (3) Cyfiawnhâd yw yr edrychir ar y person maddeuedig, dyled yr hwn a gliriwyd, fel pe byddai hefyd yn safle dyn cyfiawn. Hyn ydyw ystyr fanol cyfrifiad cyfiawnder.

5. Pwy yw gweinyddwr cyfiawnhâd?

Duw yw yr Hwn sydd yn cyfiawnhâu (Rhuf. viii. 34), fel y Barnwr yn y llys cyfryngol. Fe faddeuai ein Harglwydd bechodau; ond pan y cyflawn ddatguddir y drefn gyfryngol, YNDDO EF, nid "ganddo Ef," y cyfiawnheir pob un sydd yn

credu (Act. xiii. 39); *megis y maddeuodd Duw* YNG NGRIST i *chwithau*,—brawddeg a gyfieithir ac a ddarllennir yn “er mwyn Crist” (Eph. iv. 32).

6. Beth yw y gwrthddrych penodol ar yr hwn y gorffwysa ffydd gyfiawnhâol?

(1) A'i draethu yn ffurfiol, ac yn ol damcaniaeth y cyfamod grâs, gorffwysa ar yr *Hwn a gyfododd Iesu ein Harglwydd ni o feirw, yr hwn a draddodwyd dros ein camweddau ni, ac a gyfodwyd i'n cyfiawnhau ni* (Rhuf. iv. 24, 25): derbynïa y Tad aberth Ei Fab drosom ni, profa hyn trwy adgyfodiad Ei Fab, ac fel y canlyniad cyfiawn o hynny Efe a ymarfera y weithred gyfreithiol o *dikaiôsis*=cyfiawnhâd. (2) Ond y gwrthddrych arferol yw *Iesu Grist* Ei Hun; ac unwaith mynegir mai *Duw sydd yn cyfiawnhau yr anuwïol*, yr hon “weithred ryfedd” yw Ei ogoniant Ef mewn prynedigaeth, a rhagorfraint y llys cyfryngol: Ei draddodiad hynaf a chysegredicaf.

7. Onid gwaed Crist yw gwrthddrych y ffydd hon?

Llefara St. Paul am ein bod wedi ein cyfiawnhau *trwy, neu yn ei waed Ef* (Rhuf. v. 9), fel y waredigaeth fawr gyntaf sydd yn sail i'r hyder yr achubir ni rhag y digofaint sydd ar ddyfod. Sicr yw, nad yw yr ymadrodd “Ffydd yn Ei waed Ef” yn un a ddigwydda; ni a ddylem ddarllen yn hytrach: *Yr hwn a osododd Duw yn iawn, trwy ffydd, i ddangos Ei gyfiawnder Ef* (Rhuf. ii. 25). Ar waed Crist y mae ein hymddiriedaeth, eithr yn fwy uniongyrchol fyth arno Ef Ei Hun: â ffydd heibio i bob gwrthddrych arall gan geisio ohoni yr Arglwydd yn unig.

§ 4. Gŵfiawnnâd trwy Ffydd: Gŵfiawnder Gŵfranedig.

1. Beth yw y berthynas rhwng cyfiawnder cyfrifedig, a chyfiawner cyfranedig?

(1) Y maent i'w gwahaniaethu yn ofalus: edrycha y blaenaf ar y presennol a'r gorffennol gan gyfrif cyfiawnder yn yr ystyr o beidio a chyfrif pechod; edrycha yr olaf ar y presennol a'r dyfodol gan wneuthur ohono ddarpariaeth ar gyfer ufudd-dod newydd. (2) Rhaid yw peidio a'u hysgaru byth; byddai i gyfrifiad ddianrhydeddu deddf oni bae ei fod yn gyd-rwymedig a diogelwch am gyfiawnder dyfodol; a rhaid yw i gyfiawnder

cyfranedig yn wastadol gael ei ddilyn gan gyfiawnder cyfrifedig yn achos pob pechadur maddeuedig.

2. Traethwch yn fanylach ar yr olygwedd olaf hon o'r berthynas ?

Gellir dweud y rhaid i gyfrifiad cyfiawnder neu anghyfrifiad o bechod gymeryd y flaenoriaeth; fe bardynnir dyn cyn yr â ac na phecha mwyach. Gellir dweud hefyd, gwedi cael ohono ei wneuthur yn berffaith gyfiawn, a hynny am dragwyddoldeb, y bydd i'w bechod yn y gorffennol aros am byth yn ffaith nas cyfrifir mohoni: fe barhâ, yn dragwydd, anghyfrifiad o'i euog-rwydd iddo ef.

3. Beth yw ystyr fanol cyfiawnder cyfranedig ?

Rhoddir ef yn iaith y cyfamod newydd: *Mi ddodaf fy nghyfreithiau yn eu meddwl, ac yn eu calonau yr ysgrifennaf hwynt* (Heb. viii. 10). A thrachefn, y mae y natur newydd *wedi ei chreu mewn cyfiawnder* (Eph. iv. 24).

4. Oni chysyllta hyn gyfiawnder â ail-enedigaeth ?

Gwna: Gwelasom eisoes mai yr enaid ail-enedig a gyfiawn-heir ac a sancteiddir. Dygir y Cristion bywiol i gyd-gordiad â deddf Duw: dyna yw ei gyfiawnder. Dygir ef i gymdeithas â sancteiddrwydd Duw: dyna yw ei sancteiddhâd.

5. Pa dermau a ddefnyddir am yr ymgais am y cyfiawnder hwn ?

Gelwir ef yn ufudd-dod i egwyddor: *Ac wrth hyn y gwyddom yr adwaenom Ef, os cadwn ei orchymynion Ef* (1 Ioan ii. 3). Swm a grym yr ufudd-dod hwn yw cariad: *Cyfiawnder y gyfraith yw cariad* (Rhuf. xiii. 10). A'r ffrwyth o hynny yw cyfiawnder ymarferol: *yr hwn sydd yn gweuthur cyfiawnder, sydd gyfiawn* (1 Ioan iii. 7).

6. Eithr onid rhag-ddyfalw moeseg Gristionogol yw hyn ?

Ie, i ryw fesur: â athrawiaeth a moesoldeb gyda'u gilydd. Gan yr Ysryd, pa fodd bynnag, y cyfrennir y cyfiawnder hwn, mewn gwirionedd, ac i ffydd y'i cyfrennir: am hynny, y mae yn gangen mor briodol o gyfiawnder ffydd ag yw cyfiawnder cyfrifol.

7. Pa fodd y canfyddir hyn ?

(1) Cofleidia ffydd yr addewid am rinwedd gwaed Iesu *fel y glanhâo oddiwrth bob anghyfiawnder* (1 Ioan i. 9); ac yn (2)

s

cyfrifir *ffydd sydd yn gweithio trwy gariad* (Gal. v. 6), am gyflawniad perffaith o bob deddf. Dengys yr ymadroddion hyn gyda'u gilydd, y rhoddir neu y gweinyddir y cyfiawnder mewnol gan yr Yspryd i ffydd.

8. Pa mor uchel y cyrhaeddiad caniatâedig i obaith a dymuniad ffydd?

Fel y cyflawnid cyfiawnder (neu ofynion) *y ddeddf ynom ni* (Rhuf. viii. 3), *Y safon yw megis y mae yntau yn gyfiawn* (1 Ioan iii. 7). Dengys yr ymadroddion clasurol hyn hefyd mai dawn ag sydd raid iddi ddyfod oddi uchod yw cyfiawnder y dyn mewnol.

§ 5. Ffydd a Gweithredoedd.

1. Y'mha fodd y danghosir perthynas ffydd a gweithredoedd?

(1) Cyferbynnir ffydd â haeddiant gweithredoedd, a'r reol yw *Nad ydys yn cyfiawnhau dyn trwy weithredoedd deddf, ond trwy ffydd yn unig yn Iesu Grist* (Gal. ii. 16).

(2) Yn ei gweithredoedd yn unig y mae ffydd yn byw, a'r reol yw, *Ffydd heb weithredoedd marw yw* (Iago ii. 26).

(3) Trwy weithredoedd y cyfiawnhêir ac y cymeradwyir ffydd, a'r reol yw: *A minau wrth fy ngweithredoedd i a ddanghosaf i ti fy ffydd innau* (Iago ii. 18).

(4) Trwy weithredoedd y perffeithir ffydd, a'r reol yw: *Trwy weithredoedd fod ffydd wedi ei pherffeithio* (Iago ii. 22).

2. Sut y gellir traethu hyn yn wahanol?

Fe'n cyfiawnheir gan y testynau a ddyfynnir uchod i ddweud mai gweithredoedd ydynt (1) ffrwyth ffydd, (2) prawf ffydd, (3) a pherffeithiad ffydd.

3. Pa weithredoedd a geuir allan rhag cyfiawnhâd, ac y'mha ystyr?

(1) Rhaid fod yr oll a dardd o'r pechadur a'i *gyfiawnder ei hun* (Phil. iii. 9) islaw gofynion y ddeddf, a rhaid o ganlyniad eu gwrthod fel sail cyfiawnhâd.

(2) Rhaid i *gyfiawnder y ddeddf* (Phil. iii. 9),—unrhyw ddeddf fod yn sail anigonol i gyfiawnhâd, ar gyfrif troseddau gorfennol nas anghofir byth mohonynt gan ddeddf.

4. Pa weithredoedd sy'n anghenrheidiol er cyflawnhâd, ac y'mha ystyr y maent yn anghenrheidiol?

(1) Yr oll o'r cyfryw a darddant o Grist a *grym ei adgyfodiad Ef* (Phil. iii. 10), neu rinwedd Ei fywyd Ef yn y credadyn.

(2) Yr oll o'r cyfryw a ddanghosant y math penodol hwnnw o ufudd-dod ag sydd yn amod presennol, dyfodol a therfynol derbyniad (Heb. v. 9).

5. Beth a olygir ynte wrth ddweud fod cyflawnhâd trwy ffydd yn unig?

(1) Fod ffydd yn cau allan gyfiawnder ein gweithredoedd ni ein hunain; (2) hi a gyfatha (*appropriates*) yn syml y cyfiawnder sy' ddarparedig yng Nghrist; ac yn (3) ffydd yw grym pob ufudd-dod dilynol i ddeddf, neu gyfiawnder mewnol.

6. Pa fodd y dengys gweithredoedd fywyd ffydd?

Mewn dwy ffordd: (1) ffydd fywiol yw ffydd enaid bywiol neu ad-enedig, ac yn *gweithio trwy gariad* (Gal. v. 6). (2) Ymunia ffydd fywiol â Christ a rhaid iddi gynrychu y ffrwythau hynny a ddanghosant Ei breswyliaid mewnol Ef. *Yr hwn sydd yn aros ynof Fi, a Minnau vnddo yntau, hwnnw sydd yn dwyn ffrwyth lawer* (Ioan xv. 5).

7. Onid anghefnoga hyn y syniad o gyfrifiad penodol o gyfiawnder gweithredol Crist?

Yn ddiamew. Yn flaenorol i fod mewn undeb âg Ef rhaid yw i ni beidio a meddwl am unrhyw ufudd-dod amgen na'r eiddo Ef; wedi hynny, trwy Ei Ysryd, fe gyflawnir y ddeddf ynom ni ganddo Ef, yr Hwn a'i chyflawnodd hi unwaith am byth drosom ni.

8. Pa fodd yr eglurir hyn oll yn Abraham, Tad a Chynllun credinwyr?

Gwneir hynny gan St. Paul a St. Iago, y ddau, ac yn anibynnol ar eu gilydd. (1) Gosodir allan gyfiawnhâd Abraham gan y ddau, fel cyhoeddiad neu gyfrifiad o gyfiawnder, gan ddyfynnu o honynt, yr un ymadrodd, er fod St. Iago yn llawnach: —*elogisthê 'autô eis dikaïosûnên*, = *a chyfrifwyd iddo yn gyflawnder* (Rhuf iv. 22; Iago ii. 23). (2) Cyfeiria St. Paul at yr amser pan nad oedd ffydd Abraham ond yn unig *yn edrych am addewid Duw* (Rhuf. iv. 20). Cyfeiria St. Iago at amser pan yr

oedd ffydd yn cydweithredu a'i weithredoedd ef (ii. 22). (3) Dyry St. Iago yr esponiad: sef, *trwy weithredoedd, fod ffydd wedi ei pherffeithio 'eteleiothê*. Dadblygwyd yr egwyddor o ffydd a geir yn Gen. xv. i'w diben eithaf yn Gen. xxii. 9. Ond yr un ffydd ydoedd, a'r un cyfiawnder ffydd.

9. Beth yw y gwahaniaeth rhwng y ddau apostol o berthynas i ffydd fywiol?

Gwna St. Paul ffydd fywiol yn enaid bywhâol gweithredoedd ag ydynt fel arall yn feirw; gwna St. Iago weithredoedd yn enaid bywhâol ffydd ag sydd heb hynny yn farw. Ond dengys ymholiad manwl y golygant yr un peth.

10. Sut y cysona St. Ioan y ddwy olygwedd?

Gwna hynny trwy rybudd: *Blant bychain, na thwyllled neb chwi: yr hwn sydd yn gwneuthur cyfiawnder sydd gyfiawn, megis y mae Yntau yn gyfiawn* (1 Ioan iii. 7).

§ 6. Ymbriniaeth Sanesiol.

1. Beth ydoedd dysgeidiaeth gyffredinol y Tadau boreuol am gyfiawnder ffydd?

(1) Hwyl a fuont ffyddlon i athrawiaeth ac ieithwedd apostolaidd; gan osod ohonynt, pa fodd bynnag, fwy o bwys ar y cyfiawnder mewnol, nag ar y cyfiawnder cyfrifedig.

(2) Yn raddol, yn y drydedd a'r bedwaredd ganrif, dechreuodd egin cyfeiliornad ymddangos: megis yr angenrheidrwydd am foddlonrwydd* trwy weithredoedd da er maddeuant o bechodau a gyflewnir ar ol bedydd; a'r uwch-gyfiawnder sydd i'w gael trwy gadw cynghorion perffeithrwydd †

2. Symiwch i fyny ogwyddiadau cyfeiliornus y canol-oesoedd?

Gellir eu mynegi ar fyr eiriau. Fe roddid gormod o bwys ar yr elfen gyfreithiol sydd mewn Cristionogaeth.

(1) Fe wnaed cyfiawnhâd i fod yn ddibeniad rhifres o ragddarpariadau, y rhai, er nas meddent wir haeddiant (*meritum de condigno**), a ystyririd er hynny yn teilyngu ohonynt dderbyniad ar y tir o briodoldeb (*meritum de congruo**). Bu i'r ddysgeidiaeth hon aflonyddu ar symledd yr Efengyl gan daenu ohoni fagl ar ffordd yr edifeiriol.

* Gwel Nodiad XLII. † Gwel Nodiad XLIII.

(2) Ystyrrid mai cyfiawnhâd, pan ei gweinid, oedd gwneuthur un yn gyfiawn trwy ei drwythiad â grâs naturiol (*inherent grace*). Fel hyn fe edrychid ar y tair grasusau diwinyddol, fydd, gobaith, a chariad, ynddynt eu hunain fel cyfiawnder.

(3) Yr oedd fydd, gan hynny, yn offeryn cyfiawnhâd, nid fel yr ymeifi yn yr addewid sydd yng Nghrist,—ond fel y mae yn hedyn pob daioni : “ffurfiedig gan gariad.*”

(4) Yr oedd cyfiawnhâd yn yr ystyr o gyfiawnder cyfrifedig yn ddibrisiedig i'r eithaf, os nad yngholl yn y ddysgeidiaeth honno a haerai mai dim ond “gwneuthur yn gyfiawn” yn UNIG yw cyfiawnhâd,—cyfiawnhâd a gyfranna gyfiawnder yn raddol.

3. Oni wrthdystiwyd yn erbyn y gogwyddiadau hyn?

Do : ni fuwyd mewn angen lleisiau rhybuddiol yn erbyn y syniad o haeddiant gweithredoedd da, gan wadu ohonynt ystorfa faddeuol yr Eglwys, a galaru ohonynt oherwydd yr sarhâd a dallai y fath ddysgeidiaeth ar RÂs yr Efengyl.

4. A brofodd y gwrthdystiadau hyn yn effeithiol?

Nid cyn y Diwygiad yn yr unfed-ganrif-ar-bymtheg,—sef Protestaniaeth briodol, yr hon a gafodd ei tharddiad yn y diffyniad o'r athrawiaeth o gyfiawnhâd trwy râs, neu gyfiawnder fydd yn wrthgyferbyniol i draddodiadau Rhufen.

5. Beth oeddynt nodweddion y diffyniad hwn?

(1) Datganwyd mai dyna yn bennaf ydoedd cyfiawnhâd trwy fydd, sef “rhyddhad oddiwrth bechod” trwy ddedfryd gyfreithiol, fanol felly, er mwyn cyfiawnder Crist yr hwn y cymer fydd afael ynddo.

(2) Argymhellid gweithredoedd da fel ffrwythau fydd, ond cymerid gofal i nacâu iddynt le o gwbl yn yr athrawiaeth o gyfiawnhâd.

(3) Bu i'r un gwirionedd hwn, a adferasid rhag dirywiad, yn naturiol ddigon, gael lle rhy amlwg dros amser, a chyfyngwyd ef yn ormodol i'r olygwedd gyfreithiol. Cyfrifiad cyfiawnder yn UNIG ydoedd cyfiawnhâd.

6. Y'mha beth y gwahaniaethai athrawiaeth y Diwygiad, neu'r un Galfinaidd oddiwrth yr un Lutheraidd neu Efengylaidd?

Tra y gosodai y ddwy bwys ar gyfrifiad cyfiawnder Crist, daliai y dysgawdwy'r Calfinaidd ei fod yn drosglwyddedig y'mhob

* Gwel Nodiad XLIV.

ystyr i'r cyfryw a etholasid yng Nghrist: cyfiawnhâd tragwyddol cymhwysedig yn unig mewn amser, a'r hwn nas collid mohono byth. Am hynny nid yw cyfiawnhâd, yn ol y ddysgeidiaeth Galfnaidd yn ddim amgen na chyhoeddiad y credadyn yn rhydd am byth oddiwrth y RWYMEDIGAETH o ufudd-dod fel y gyfryw.

7. Pa gyfeiliornad ynte y dylid gwylio rhagddo mewn perthynas i gyfrifiad cyfiawnder Crist?

(1) Y cyfeiliornad o wneuthur Ei holl gyfiawnder Ef yn gwbl dros-osodol (*'antî*) yn lle yn rhanol fuddiol (*hupér*): nid yw na'r naill na'r llall yn unig; eithr cynhwysa y ddau syniad, y naill bob amser yn gyd-fynedol a'r llall, ac yn ei ategu.

(2) Y cyfeiliornad o'i rannu yn ddau: y ran oddefol a gyfrifir i'r credadyn fel ei foddlonrwydd priodol ei hun i gyfiawnder cospol neu ddialedol; ar ran weithredol a gyfrifir i'r credadyn fel ei foddlonrwydd priodol ei hun i ofynion moesol. Y mae gwahaniaethiad o'r fath yn drais ar egwyddorion tragwyddol llywodraeth Duw; nis gellir byth a rhyddhau un creadur oddiwrth ufudd-dod.

(3) O ganlyniad, fel y canfyddwyd yn athrawiaeth yr Iawn, y mae yn anghywir son am gyfiawnder Crist, megis pe byddai yn uniongyrchol gyfrifedig. Dylid ei ystyried yn hytrach, fel sail holl-ddigonol trugaredd Duw i'r holl fyd ac i bob dyn.

8. Eithr onid oedd cyfiawnder Crist yn dros-osodol, pan y gwelir nad ydoedd fel y Duw-ddyn yn rhwymedig i unrhyw ufudd-dod drosto Ei Hun?

Gwir yw, yn ddiau, nad oedd Mab Ymgawdoledig Duw yn ufudd drosto Ei Hun: person Dwyfol ydoedd Ef yn wastadol, wrth fyw ac wrth farw. Ond dengys y cyfryw ffaith nas gallai Ei gyfiawnder Ef fod yn fanol ddirprwyol: nis gallai y Duw-ddyn gymeryd gwir le dyn mewn na dioddefaint nac ufudd-dod.

9. Pa olygiadau newydd a gyflwynes Arminiaeth?

Cymerodd safle ganolog rhwng dysgeidiaeth y canol-oesoedd a'r un Brotestanaidd: gan haeru ohoni fod y ffydd a gyfrifir yn gyfiawnder yn un sy'n cynnwys ufudd-dod, er na fedd haeddiant; ac y derbynia Duw gyfiawnder amherffraith ffydd fel pe byddai berffaith, er mwyn Crist. O ganlyniad, fe delid fod gofynion y ddeddf wedi eu lluniaru, mewn rhyw ystyr.

10. Pa gyfeiliornad sydd yma?

Gwell fyddai dweud y derbynia Duw y credadyn er mwyn Crist, ac yng Nghrist, y rhydd Efe bardwn i amherffeithrwydd ei gyfiawnder yn wastadol hyd nes y bydd i'w gydymffuriad â deddf gael ei berffeithio yn fewnol, yr hyn yn ddiau sy' raid iddo fod.

11. Beth yw dylanwad Meichnïaeth ein Harglwydd ar hyn?

Efe yw Cyfryngwr cyffredinol y cyfamod (*misils*); ond Efe hefyd yw y Meichniydd neullduol (*égguos*) y bydd i'w ddarpariadau gael eu cario allan er budd, mewn ffordd o siarad, y ddwyblaid. Dros Dduw Efe a rydd ernes maddeuant am y gorffennol; dros ddyn rhydd ernes o deymged perffaith i gyfiawnder y ddeddf am y dyfodol. Anghofir yr olaf yn rhy fynych.

12. Pa wahaniaeth oedd rhwng yr athrawiaeth Arminiaidd ag athrawiaeth Trent am gyfiawnder graddol?

(1) Daliai y ddwy, a hynny yn gywir fod cyfiawnhâd yn gyflwr o eiddo dyn yn ogystal a gweithred o eiddo Duw; ac y gwneir credinwyr yn fwy-fwy cyfiawn, mewn cydffuriad cynhyddol â deddf.

(2) Ond dalai yr Arminiaid y rhaid i'r cyfrifiad o gyfiawnder flaenori bob amser, fel y cymer ffydd afael yng Nghrist am bardwn: tra y dysgai Eglwys Rhufen mai gwneuthur yn gyfiawn yw cyfiawnhâd o'r dechreuad.

13. Beth yw perthynas Antinomiaeth,* a Gorhaeddiannaeth† â'r pwngc hwn?

(1) Dysga Antinomiaeth, fel athrawiaeth, ddarfod i Grist ddyfod yn ddiwedd y ddeddf. Ddarfod iddo Ef wneuthur Ei Hun yn gyfrifol am ei chosp a'i gofynion. Y gall fod rhesymau dros ufudd-dod yn y berthynas fabaidd, eithr nad oes dim yn y ddeddf fel amod bywyd.

(2) Gwna gweithredoedd gorhaeddiannol Grist yn ddiwedd i'r ddeddf mewn ystyr arall. Tra y rhoddant ormod pwys ar ufudd-dod fel amod bywyd, hwy a ddianrhydeddant ddeddf trwy ei rhannu i orchymynion rhwymedigol a chynghorion dewisiadol.

* Gwel Nodiad XLV.

† Gwel Nodiad XLVI.

14. Beth ydoedd y ddysgeidiaeth Sosinaidd neu Undodaidd?

Gan wadu o honi Dduwdod ac Iawn Crist, ni fynnai y golygai y term cyfrifiad amgen na chyfrifiad trugarog Duw o werth dymuniadau da a gweithredoedd da fel yr unig gyfiawnder a geisia Efe. Efe a gyfrifa mewn trugaredd i ddyn yr hyn nad oes gan ddyn mohono : gan ystyried mai digon yw edifeirwch ac ymdrech cywir.

15. Pa ddyfeisiadau a fabwysiadwyd gan ddiwinyddiaeth gyfrinol er lluniaru y meddylddrych o gyfrifiad?

Hi a ystyriai y Crist Trig-fewnol fel achos ffurfiol cyfiawnhâd : cyfiawnder yr Hwn a gyfrifid i'r credadyn fel yr eiddo ei hun, a'r hwn hefyd ar yr un pryd a lifeiriai i fywyd y credadyn. Eithr y mae y cyfrifiad o gyfiawnder ymron ar goll yn y caffaeliad o gyfiawnder.

16. Sut y gellir troi hyn o'r neilltu?

Trwy ddweud nad yw hynny o wirionedd a fedd amgen nag amrywiad neu ffugiad o'r egwyddor ddwyblyg o gyfiawnder ffydd : Crist EROM a Christ YNOM.

17. Beth yw y diffyniad goraf o gyfrifiad?

(1) Yr haeriad parhâus mai rhaid yw bod cyfrifiad o gyfiawnder, ac anghyfrifiad o bechod, am byth. Nis gall y ddeddf dragwyddol byth ag anghofio y gorffennol. (2) Nad yw y dybiaeth o gyfiawnder cyfrifedig i fod yn ysgaredig o gwbl, pa un bynag ai mewn athrawiaeth a'i buchedd, oddiwrth gyfiawnder cyfranedig; (3) fod cyfiawnhâd yn rhywbeth mwy na phardwn, sef cyfrifiad o gyfiawnder er mwyn Crist, ac un sydd yn flaenbrawf o sylweddoliad dyfodol a pherffaith o'r cyfiawnder a gyfrifa.

II.**Mabolaeth Cristionogol.****§ 1. Bbagarweiniad.****1. Beth yw ystyr gyflawn yr ymadrodd hwn?**

Golyga y cyflwr Cristionogol o râs fel y mae yn adferiad i fywyd yn Nuw a'r berthynas fabaidd âg Ef fel Tad.

2 Pa fodd ei cysylltir â chyflawnder (*righteousness*) a sancteiddhâd ?

Gellir mynegi y berthynas mewn dwy ffordd. (1) Gan mai yr un yn wastadol yw personoliaeth y pechadur, rhaid yw iddo ynghyntaf gael y ddedfryd wedi ei diddymu yn y cyflawnhâd cyn y gall ddyfod ohono yn blentyn mabwysiedig i Dduw, a bod yn gysegredig i'w wasanaeth Ef. Ond yn (2) y natur newydd a roddir iddo yn yr ail-enedigaeth yw a'i cyfaddasa i gael ei wneuthur yn gyflawn ac yn bur oddi mewn. (3) Fel hyn, fe gyfeiria y blaenaf at y ragorfraint allanol ; a'r drefn yw cyflawnhâd, mabwysiad, sancteiddiad. Cyfeiria yr olaf at y meddiant mewnol, a'r drefn yw ail-enedigaeth, cyflawnder, a sancteiddhâd. Ond a siarad yn fanwl yr un fendith o eiddo y cyfamod newydd yw y tair hyn mewn tair golygwedd arni.

3. Beth sydd gynhwysedig yng ngeiriadaeth y cyflwr mabol ?

Yr oll o'r geiriau hynny a gyflwynant i sylw fywyd, megis y mae yng Nghrist ; megis hefyd y gwna y cyfryw a ddarnodant foddion y cyfraniad ohono, y rhagorfreintiau a estynna, ei ymdrech â'r hen natur, a'r perffeithiad ohono fel y mae yn adferiad y ddelfw Ddwyfol.

4. Beth ynte ydynt ddwy gangen ein pwngc presennol ?

Mabwysiad fel y mae yn allanol a datganiadol ; ail-enedig-aeth fel y mae yn waith mewnol yn yr enaid.

§ 2. Mabwysiad ac Ail-enedigaeth.

1. Mynegwch unoliaeth a gwahaniaeth y termau hyn ?

Fel y fabolaeth Gristionogol, yr un fendith yw : ail-enedig-aeth y sylwedd mewnol ohoni a mabwysiad ei rhagorfraint allanol.

2. A gedwir yn fanwl at y gwahaniaethiad hwn yn y Testament Newydd ?

Na wneir : canys darnodir y fabolaeth gyffredin weithiau gan y gair meibion (*huioi*), yr hwn a orweddd wrth wraidd mabwysiad ; ac weithiau gan y gair plant (*tekna*) yr hwn a ddynoda ail-enedig-aeth.

3. Y'mha le y mae i sylwi arno ?

St. Paul yn unig a gyfuna y ddau feddylddrych :—*Eithr derbynniasoch yspryd mabwysiad, trwy yr hwn yr ydym yn llefain*

Abba, Dad. Y mae yr Yspryd Ei Hun yn cyd-dystiolaethu â'n hyspryd ni, ein bod yn blant i Dduw, ac os plant, etifeddion (Rhuf. viii. 15, 16). Ni a gawn y gwahaniaethiad yn St. Ioan heb y gair mabwysiad. *Efe a roddes iddynt ALLU (hawl) i fod yn feibion i Dduw . . . y rhai a aned, neu a GENHEDLWYD . . . o Dduw* (Ioan i. 12, 13). Ac eto, *fel y'n GELWID yn feibion i Dduw a'r cyfryw YDYM* (1 Ioan iii. 1). Llefara St. Petr am y Tad ddarfod iddo ein *hadgenhedlu* ni yn ein hail-enedigaeth *i etifeddiaeth* (1 Petr iii. 4), yr hon yw rhagorfraint y mabwysiad. Rhoddos ein Harglwydd y ddwy ystyr pan y dywedodd Efe wrth lefaru am fabolaeth, *Os gan hynny y Mab a'ch rhyddhâ chwi, rhyddion a fyddwch yn wir* (Ioan viii. 36—42). Y mabwysiad dyfodol ydoedd hyn; a phan yr ychwanegodd Efe ar ol hynny *Pe Duw fyddai eich Tad, chwi a'm carech I* (Ioan viii. 42), cyfeirio yr oedd at yr ail-enedigaeth ddyfodol. Efe a roddasai eisoes nodiad anuniongyrchol o'r gwahaniaethiad: *Oddieithr geni dyn o'r newydd, ni ddichon efe weled teyrnas Dduw* (Ioan iii. 3).

4. Eithr onid yw yr Yspryd yr Hwn a gyfranna yspryd mabwysiad gan dywallt ohono ar led yn y galon ymdeimlad o gariad y Tad, yn cynyrchu y bywyd newydd trwy hynny?

Ni sefydlir y gyfryw drefn gan St. Paul: efe a'i gwrth-drŷ yn hytrach. I'r ail-enedig y rhoddir yspryd mabwysiad.

5. Beth yw y deyrnged uchaf a delir i'r rhagorfraint ddwyblyg hon?

Mynegir am gredinwyr ddarfod i Dduw *eu rhaglunio i fod yn gyd-furf â delw Ei Fab Ef; fel y byddai Efe yn gyntaf-anedig y'mhlith brodyr lawer* (Rhuf. viii. 29); *ac wedi iddo ein rhagluniaethu ni i fabwysiad megis meibion trwy Iesu Grist iddo Ei Hun* (Eph. i. 5). Dywedir ein rhaglunio i'r gymdeithas hon yn unig gyda'r Mab Tragwyddol a chyda'r Unig-Anedig: rhagarfaethiad uwch, nac arall, nid oes yn bod.

§ 3. Ail-enedigaeth

1. Beth yw y gras o ail-enedigaeth?

Y weithred ddwyfol a gyfranna i'r credadyn edifeiriol y bywyd newydd ac uwch mewn undeb personol â Christ.

2. Sut y disgrifir y fendith hon o eiddo y cyfamod newydd?

Mewn amrywiaeth lluosog o ffyrdd, y rhai y mae yn angenrheidiol eu dosparthu a'u hefrydu. Fe gyfeiria yr amrywiol ddarnodiadau at y weithred Ddwyfol neu yr effaith ohoni; yn benodol, pa fodd bynnag fel y ddawn o fywyd yng Nghrist.

3. Pwy yw y Gweithredydd Dwyfol yn yr ail-enedig-aeth?

Yr Yspryd Glân yn enwedig. *Yr hyn a aned o'r Yspryd, sydd yspryd* (Ioan iii. 6). Ond mynegir fod pob un o Bersonau y Drindod, a Duw yn gyffredin, yn awdwr y bywyd newydd (Iago i. 18; Eph. ii. 1; Ioan v. 21).

4. Pa gyfatebiaeth a awgryma hyn rhwng yr ymgnawdoliad a'n hail-enedigaeth ni?

Mab Duw yw yr Iesu Ymgnawdoledig: er hynny, *Y Gair a wnaethpwyd (a ddaeth) yn gnawd, ac yn had Abraham* y cymerth Efe afael; tra y mynegwyd am fam ein Harglwydd, mai yr *hyn a genhedlwyd ynddi sydd o'r Yspryd Glân* (Luc i. 35; Ioan i. 14; Matth. i. 20; Heb. xi. 6). Y mae y Tri Pherson yma hefyd.

5. Y'mha fodd y disgrifir y weithred Ddwyfol fynychaf?

Yn bennaf tiwy eiriau a ddatganant genhedliad fywyd newydd, yr hwn weithiau yr edrychir arno fel creadigaeth newydd.

6. Pa fodd y gellir dosparthu y termau am genhedliad?

(1) Duw yw yr *Hwn a genhedlodd* (1 Ioan v. 1); yn yr ail-enedig y mae *Ei had Ef yn aros ynddo* (1 Ioan iii. 9); ac mewn un ymadrodd neulltuol, ni a ddarllennwn, *O'i wir ewyllys yr ymdug Efe ni*, neu *y ganodd Efe ni*, 'apekuûsen (Iago i. 18).

(2) I'r gwrthwyneb y mae y credadyn *wedi ei eni* neu yn *genhedledig o Dduw* (1 Ioan v. 1), neu yn *enedig o'r Yspryd* ('ek yn benodol yn y ddau ymadrodd), a'i eni *o'r newydd* (neu fel y gellid ei gyfieithu, *oddi uchod* (Ioan iii. 8; iii. 7).

(3) Eithr ni ddynoda yr ymadroddion hyn unrhyw wahan-iaeth amser rhwng y cenhedlu a'r geni; rhoddant ini yn gyffredin athrawiaeth yr enedigaeth newydd.

7. Beth yw pwysigrwydd neulltuol y tystiolaethau hyn?

Hwy a sefydlant y pwyntiau canlynol:—

(1) Gan nad pa faint o hunan-ddarpariaeth y dichon dyn ei harfer trwy râs rhagfynedol, mai gweithred o eiddo yr Hollalluogrwydd Dwyfol yw yr enedigaeth newydd: *O'i wir ewylllys a thrwy air y gwirionedd* (Iago i. 18).

(2) Mai yr enedigaeth newydd, gan ei bod o Dduw, a chan y gwna ni yn *gyfranogion o'r Ddwylol anian* yw yr urddas uchaf, ac yn wir unig neulltuolrwydd, y cyfamod Cristionogol (2 Petr i. 4).

(3) Ei bod yn hanfodol angenrheidiol, fel ei gwahaniaethir oddiwrth enedigaeth naturiol: *Nid o waed, nac o ewylllys y cnawd, eithr o Dduw* (Ioan i. 13); ac fel ei gwahaniaethir oddiwrth y natur bechadurus: *Yr hyn a aned o'r cnawd, sydd gnawd, a'r hyn a aned o'r Yspryd, sydd yspryd* (Ioan iii. 6).

(4) Gan hynny, mai dyma angen pob dyn. Gesyd tystiolaethau cyntaf ein Gwaredwr, a rhai diweddaif St. Ioan, y pwys fel eu gilydd ar y person unigol. *Felly y mae pob un ar a aned o'r Yspryd, a thrachefn, Rhaid eich geni chwi drachefn* (dei humâs) y'madrodd llawn o'r dwyster dyfnaf ymhob engraffit o'i ddefnyddiad gan y Gwaredwr (1 Ioan iii. 7, 8; 1 Ioan v. 12).

8. Eithr ni chysyllta yr un o'r ymadroddion uchod ail-enedigaeth yn uniongyrchol â Christ: beth yw perthynas y bywyd hwn âg Ef?

Perthyna iddo Ef ymhobman ac ar bob pwynt fel y cerdd datguddiad y Testament Newydd rhagddo. Galwai ein Harglwydd Ei Hun y *Bywyd* yn gyffredinol ac mewn modd neulltuol gyda chyfeiriad at yr adgyfodiad. Cysyllta Ef a'i Apostolion, pa fodd bynnag, fywyd yr ail-enedigaeth â'i Berson mewn amrywiol ffyrdd fel y canlyn:

(1) Dechreuir y bywyd newydd, meithrinnir ef, gwneir ef yn arhosol, a pherffeithir ef trwy undeb â Christ trwy ffydd, *Myfi yw y Winwydden, chwithau yw y canghennau* (Ioan xv. 5). *Oni fwytebwch gnawd Mab y dyn, ac oni yfwch Ei waed Ef, nid oes genynch fywyd ynoch* (Ioan vi. 53). *Yr hwn y mae y Mab ganddo, y mae bywyd ganddo* (1 Ioan v. 12). Undeb cyfrinol y Mab Ymgnawd-oledig âg yspryd y credadyn yw ei fywyd perffeithiedig: *Crist sydd yn byw ynof fi* (Gal. ii. 20), gan mai bywyd cyfiawnhâol yw hwn hefyd.

(2) Y mae y term bywhâu yn cysylltu y bywyd newydd âg adgytodiad ein Gwaredwr, a hynny mewn dwy ystyr: (1) fel y

meddai ein Harglwydd allu i adgyfodi Ei Hun o feirw, y mae Efe yn y gallu hwnnw *yn bywhâu y rhai a fynno* (Ioan v. 21): (2) gan fod credinwyr mewn undeb cyffredinol â Christ, y maent yn un âg Ef yn Ei farwolaeth a'i fywyd: *Os buom feirw gydag Ef yr ydym ni yn credu y byddwn byw hefyd gydag Ef* (Rhuf. vi. 8); (3) ond yn y bywhâd hwn, prin y gellir ysgaru y bywyd ail-enedigol yn unrhyw ymadrodd oddiwrth y bywyd cyfiawnhâol: *A chwithau a fywiocâ-odd Efe pan oeddych feirw trwy eich camweddau a'ch pechodau* (Eph. ii. 1). Am hynny israddol ydynt, fel deffiniadau.

(3) Y mae termau y greadigaeth newydd yn amrywio y meddylddrych: *Od oes neb yng Nghrist, y mae efe yn greadur newydd* (2 Cor v. 17). A Christionogion ydynt *waith Duw wedi eu creu yng Nghrist i weithredodd da* (Eph. ii. 10). Fel hyn fe grëir y person unigol yn un aelod megis o ddynoliaeth newydd.

(4) Cydffurfir goruchwyliaeth yr Yspryd Glân â'r gwirionedd hwn. Ni ddywedir un amser Ei fod Ef yn awdwr y bywyd newydd ond megis *yng Nghrist Iesu* (Rhuf. viii. 1), neu fel y datguddia Efe Grist yn yr enaid, *yr Arglwydd yr Hwn yw yr Yspryd*, a'r *Yspryd sy'n bywhâu* (2 Cor. iii. 17; 1 Cor. xv. 45).

(5) Yn ddiweddaf, preswyliaid mewnol y Mab, trwy yr Yspryd yw preswyliaid mewnol Duw; a hwn gan hynny yw y gair mwyaf am ail-enedigaeth, gan gyfuno ohono i un gair yr oll a ddywedwyd.—*Myfi ynddynt hwy, a Thithau ynof Fi*; yn ddilynol i'r hyn y mae *Duw yn aros ynddo Ef, ac Yntau yn Nuw*: Duw yn y Mab trwy yr Yspryd Glân (Ioan xvii. 23; 1 Ioan iv. 15).

9. Onid oes foddau ereill o ddarnodi ail-enedigaeth?

(1) Oes, luaws, a wasanaethant i egluro yn hytrach na darnodi y bywyd newydd, neu, a gyfeiriant yn hytrach at effeithiau ail-enedigaeth nag at yr ail-enedigaeth ei hun. Perthyn i'r cyfryw y mae goleuhâd yr enaid (2 Cor. iv. 6), enwaediad Crist (Col. ii. 11), ac mewn rhyw ystyr y greadigaeth newydd (2 Cor. v. 17). Yr unig wir ddarnodiad yw y bywyd newydd yng Nghrist Iesu, neu Grist yn fywyd newydd yr yspryd: arweinia pob un arall i syny at hwn, a hawlir ef ganddynt.

(2) Ceir rhai a gyfeiriant yn hytrach at gynnydd y natur newydd nag at y dechreuad hwnnw o'r eiddi yr hyn yw ail-enedigaeth briodol. *Y dyn oddimeun a adnewyddir o ddydd i ddydd yn nelw Duw, a gollasid* (2 Cor. iv. 16); *y dyn newydd yr hun a*

adnewyddir (Col. iii. 10). Rhaid yw gwahaniaethu yn y cyfryw fodd rhwng Ail-enedigaeth ac Adnewyddiad.

10. Beth yw perthynas y dyn oddimewn â'r dyn newydd yn yr ail-enedigaeth?

(1) Y blaenaf yw dyn yn ei berthynasau ysprydol fel y maent yn wahaniaethedig oddiwrth ei rai anianol, Llefara St. Paul am dano unwaith fel yn ddi-ailenedig: *Canys ymhyfrydu yr uyf yng nghyfraith Duw, yn ol y dyn oddimewn* (Rhuf. vii. 22). Eto efe a lefara am yr unrhyw megis yr adnewyddir ef yn raddol, neu yn gynefinol: *fod wedi ymgadarnhâu mewn nerth trwy Ei Yspryd Ef yn y dyn oddimewn* (Eph. iii. 16). Fel hyn, y dyn oddimewn yw y deiliad yn barhâus.

(2) *Y dyn newydd (kainós)* yw y natur ail-enedig, fel y gyfryw, pan unwaith y *gwisgir* hi ar ol diosg yr hen ddyn (Eph. iv. 24): yn bennaf er hynny, megis ei graddol *adnewyddir* (néos) *yn ol delw yr Hwn â'i creodd ef* (Col. iii. 10). Dynoda y blaenaf y CYFNEWIDIAD, a'r olaf y NEWYDD-DEB.

11. Beth yw perthynas ail-enedigaeth â threfn rhoddiad grâs a rhagorfreintiau ereill?

Cyfeiriwyd at y rhain eisoes, ond gellir ychwanegu rhai pethau o gryn bwysigrwydd.

(1) O barthed i'r bywyd Cristionogol yn gyffredinol, cymer ail-enedigaeth y lle canol rhwng rhyddhâd oddiwrth gondemniad a'r bywyd tragwyddol a ddilyna yr adgyfodiad.

(2) O barthed i râs rhagfynedol, nid dadblygiad llawn o'r cyfryw, a dim ond hynny yw ail-enedigaeth, ond dawn newydd o fywyd yng Nghrist, ar gyfer yr hwn nid yw y grâs hwnnw ond parotôad: gellir camgymeryd y parotôad am y ddawn, yn ogymaint ag yr arddengys luaws o arwyddion bywyd o'i eiddo'i hun.

(3) O barthed i bechod gwreiddiol, dug ail-enedigaeth ryddid cyflawn oddiwrth ei allu: *Canys deddf yspryd y bywyd yng Nghrist Iesu a'm rhyddhâodd i oddiwrth ddeddf pechod a marwol-aeth* (Rhuf. viii. 2).

(4) Perthyna i gyfiawnhâd a sancteiddhâd fel y perthyna bywyd newydd i gyfiawnder ac i sancteiddrwydd y bywyd hwnnw.

(5) Ail-enedigaeth yw sylfaen pob moesau y rhai yn y berthynas hon a olygir fel twf y dyn newydd, neu fel ffirwythau

natur newydd, neu yr adnewyddiad graddol i ddelw wreiddiol Duw, yr hon a gollwyd neu a ddifwynwyd trwy bechod.

12. Beth ydynt amodau, a chyfryngau ail-enedigaeth?

(1) Yr amod yw y grâs rhagarweiniol o edifeirwch a ffydd, a ddefnyddir dan ddylanwad yr Yspryd.

(2) Yr achos effeithiol yw y defnyddiad o Air Duw gan yr Yspryd.

(3) Seliau ac ernes (*pledges*) y bywyd newydd yw y sacramentau: y Bedydd o'r cyfraniad ohono, a'r Cymun o'r parhâd a'r cynnydd ohono. Cyfryngau, a siarad yn fanwl nid ydynt.

(4) Ond yr achos ffurfiol o ail-enedigaeth yw ffurfiad Crist yn yr enaid fel egwyddor a hanfod ei fywyd newydd.

§ 4. Mabwysiad.

1. Beth yw ystyr ddiwinyddol y gair hwn?

Defnyddir ef gan St. Paul i ddynodi y rhagorfreintiau hynny, o dan y cyfamod newydd, y cyflwyna yr ail-enedigaeth gredinwyr iddynt, fel y maent yn blant i Dduw.

2. Oni ddynoda y modd eu gwneir yn blant?

Golygai y term *huiiothesia*=adoptio=mabwysiadu yn y defnyddiad cyffredin ohono waith dyn yn cymeryd i'w deulu blant nas ganed ohono. Ond ymddengys yr ystyr hon fel ar goll yn eiddo y ragorffaint fabol. Y mae y sawl a fabwysiadwyd gan Dduw yn wirioneddol *enedig o Dduw* (1 Ioan v. 1), ac nid yn dybiedig felly yn unig; ac yn wir nis dywedir byth fod ein Tad yng Nghrist yn mabwysiadu; nid oes yr un ferf "mabwysiadu" yn cyfateb i "genhedlu."

3. Pa rai ydynt ragorfreintiau arbennig Mabwysiad?

Yr uchelffaint a wahaniaetha y rhai ydynt blant i Dduw trwy ffydd yn Iesu Grist oddiwrth y byd yn gyffredinol, ac oddiwrth aelodau yr hen gyfamod. Y rhai hyn ydynt:—

(1) Aelodaeth yn *Nheyrnas Dduw* (Ioan iii. 3—5), nas gall ond yr ail-enedig ei *gweled* a *myned i mewn* iddi. Hon yw *teulu Duw* (Eph. ii. 19). Yr oedd Israel y ddwyflywiaeth gyntefig yn etholedig iddi fel cenedl; ac am danynt hwy y dywed St. Paul, *eiddo y rhai yw y mabwysiad* (Rhuf. ix. 4), megis y dywedasai Jehofah *Fy Mab I, sef fy nghyntafanedig yw Israel*

(Ex. iv. 22). Eithr yr etholedigaeth o'r byd, yr awrhon personol yw:—*Canys chwi oll*—yn yr ystyr o bob un—*ydych blant* (meibion) *i Dduw trwy ffydd yn Iesu Grist* (Gal. iii. 26). Yr etholedigion, neb amgen na'r rhain ydynt.

(2) Y fendith o hyder mabol tuag at Dduw: *eithr derbynias-och Yspryd mabwysiad, trwy yr Hwn yr ydym yn llefain, Abba, Dad. Y mae yr Yspryd Ei Hun yn cyd-dystiolaethu â'n hyspryd ni, ein bod ni yn blant i Dduw* (Rhuf. viii. 15, 16). Y mae gan yr ail-enedig yspryd mabwysiad sydd yn dal cymundeb beunyddiol â'r Tad; a chadarnhâ yr Yspryd Sanctaidd hyn yn rheolaidd gan Ei dystiolaeth ddirgeledig.

(3) Rhyddid oddiwrth gaethiwed y ddeddf. Rhagorfraint *cyflawnder yr amser* yw ddarfod anfon y Mab *tel y prynai y rhai oedd dan y ddeddf, fel y derbyniem y mabwysiad* (Gal. iv. 4, 5). Y mae y cymhwysiad yn eangach na'r hen drefniant. Golyga ryddid oddiwrth gondemniad unrhyw ddeddf, a rhyddid oddiwrth gaethiwed ein hanallu ein hunain. Gwaredigaeth yw y rhyddid hwn o fod *dan y ddeddf* (Gal. v. 18), megis y mae yn ysgrifenedig o'r tu allan. Y mae Cristionogion dan *gyfraith berffaith, cyfraith rhyddid* (Iago i. 25), yr hon a *osodir yn eu calonau*, ac a ysgrifennir *yn eu meddyliau* (Heb. x. 16). Nid oes derfyn i'r rhyddid hwn.

(4) Y mae i feibion Duw berthynas arbennig â'r Mab Ymgnawdoledig, yr hon yw gogoniant eu stâd hwynt. Fel plant Ei Dad Ef *nid yw gywilyddus ganddo eu galw hwy yn frodyr* (Heb. ii. 11). Cysylltir hwy yn yr ail-enedigaeth â'r Unig-anedig; ac yn eu mabwysiad â'r Mab Tragwyddol. Y ragorfraint yw y meddiant o Yspryd Crist yn y bywyd hwn, yr hyn sy'n ernes ac yn foddion gwaredigaeth rhag pob pechod; ac yn y bywyd dyfodol drawsnewidiad eu cyrff, fel y byddont *gyd-ffurf â chorff Ei ogoniant Ef* (Phil. iii. 21): hynny yw, *y mabwysiad, sef prynedigaeth ein corff* (Rhuf. viii. 23).

(5) Rhydd y fabolaeth iddynt hawl i'r Etifeddiaeth, yr hon yn derfynol ac yn bennaf yw Duw Ei Hun,—*etifeddion i Dduw ydynt*,—a'r hon mewn ystyr is yw rhagorfreintiau amrywiol y cyfamod Cristionogol y rhai a berffeithir yn y nefoedd (1 Petr i. 4; Rhuf. viii. 17).

§ 5. Undriniaeth Sanesiol.**1. Beth fu rhediad athrawiaeth ar y pwngc hwn?**

Bu dysgeidiaeth yr Eglwys Gristionogol yn gyffredin yn ffyddlon i un egwyddor: sef ddarfod i Gristionogaeth ddwyn gyda hi fywyd newydd i ddyn, trwy Iesu Grist. Ond parthed natur a moddau cyfraniad y bywyd hwnnw y mae gwahaniaethau mawrion a pharhâus wedi ffynnu.

2. Symiwch i fyny y cyfeillornadau parthed ei natur?

Hwy a fuont ddau yn bennaf, sef yr un a'i hystyriai yn ddim amgen na diwygiad cyflwr naturiol y dyn ei hun, a'r un sydd wedi dal y cyfrennir ef heb gyfeiriad at unrhyw ddarpariaeth ddynol gyd-redol.

3. Pwy ydoedd cynrychiolydd eithaf y blaenaf?

Pelagiaeth, yr hon gan wadu ohoni y pechod gwreiddiol a haerai nad yw adnewyddiad y natur ddynol yn ddim amgen na disgyblaeth Gristionogol yn unig.

4. Beth fuont ei hagweddion lliniaredig?

Gellir olrhain y cyfeillornad trwy hanner-Pelagiaeth,* yr hon a ddysgai na wnaed ond gwanychu galluoedd dyn yn unig trwy y cwymp, i lawr hyd at ddysgawdwyr diweddar a haerant mai dewisiad yr ewyllys ddynol yw ail-enedigaeth yn gyfeiriedig at y da, a'r iawn-ymarferiad o'n galluoedd ein hunain o dan ddylanwad grâs.

5. Y'mha le y caed y cyfeillornad olaf?

Yn athrawiaeth Rhagluniaethiad o Awstin i lawr, yr hon a haerai mai yr ail-enedigaeth yw y weithred achubol gyntaf o eiddo yr Yspryd yn enaid dyn: gweithred benarglwyddiaethol; effeithiol yn ffrwythau edifeirwch, ffydd, a sancteiddrwydd; a'r hon nad yw byth i'w dad-wneud na'i cholli gwedi y profer hi unwaith yn wirioneddol.

6. Lle y ceir y tîr Ysgrythyrol canolog rhwng y rhain?

O ymbalfalu am dani yn hanner-Pelagiaeth fe ddeuwyd o hyd iddi yn Synergiaeth y ddiwinyddiaeth Lutheraidd, eithr yn fwy eglur fyth yn yr athrawiaeth o râs rhagfynedol yr Yspryd Glân a ddarpara ar gyfer bywyd perffaith yng Nghrist Iesu. Fe roddir y bywyd hwn, gan hynny, trwy yr un Yspryd i ffydd, yr

• Gwel Nodiad XLVII.

T

hon a weithredir gan, ac a orffwysa ar, *weithrediad Duw* (Col. ii. 12).

7. Pa gyfeiliornadau llai cyffredinol y gellir eu crybwyll ?

(1) Yr heresi Gnosticaidd gynt, a'r hon a ffynna fyth yn ei dylanwad ystrywgar,—sef nad effeithiwyd ar yr yspryd dynol gan bechod, ac mai yr enaid anianaidd (*sensuous*) yn unig a adnewyddir.

(2) Y ddamcaniaeth ddiweddar* mai y rhodd o yspryd trwy yr Yspryd yw ail-enedigaeth ei hun : yma yn wrthgyferbyniol i'r ddamcaniaeth flaenorol, delir mai effaith pechod yw colliant yr yspryd, yr hyn yn rhinweddol a ddarostyngai ddyn i ddim ond corff ac enaid yn unig.

8. Sut y gellir gwrthateb y rhain gyda'u gilydd?

Ail-enedigaeth sydd yspryd bywyd newydd a gyfrennir gan yr Yspryd Glân i bersonoliaeth gyflawn â natur dyn.

9. Onid oes gyfeiliornad arall perthynol i hwn ?

Oes, sef eiddo y rhai a dybiant y rhydd yr Yspryd Glân y fath ddrychafael i'r yspryd adnewyddedig nas gall pechod aros mwyach yn yr ail-enedig, yr hyn a dybir a ddiogela ei undeb â Christ.

10. Pa fodd y condemnir hwn ?

Gwneir hynny gan dystiolaeth yr Apostol fod y *cnauld yn chwenychu yn erbyn yr Yspryd, a'r Yspryd* (yr Yspryd Glân yn ein hyspryd ni, neu ein hyspryd ni o dan yr Yspryd Glân) [*yn chwenychu*] yn erbyn y *cnauld* (Gal. v. 17).

11. Oni wna yr atebiad hwn i ffwrdd â'r gwahaniaeth rhwng y cyflwr o argyhoeddiad neu droedigaeth a'r cyflwr o adenedigaeth ?

Na wna : yn y cyflwr o râs rhagarweiniol, rhwng y *cnauld* a *deddf fy meddwl* i sydd o hyd mewn caethiwd y mae yr ymdrech (Rhuf. vii. 23); yn y cyflwr ail-enedig, rhwng y *cnauld* a'r *Yspryd* yr Hwn sy'n fy rhyddhâu i *oddiwrth deddf pechod a marwolaeth* y mae (Rhuf. viii. 2).

12. Pa ddau gamgymeriad y rhaid gwyllto rhagddynt ?

Gosod safon yr ail-enedigaeth yn rhy uchel neu'n rhy isel.

* Gwel Nodiad XLVIII.

13. Sut y mae gochel y rhain?

(1) Trwy gofio y rhaid marweiddio o'r hen ddyn o hyd yn y bywyd ail-enedigol, a chynhyddu o'r dyn newydd i fyny hyd at berffeithrwydd; ac fod i'r bywyd hwn fel pob bywyd arall ei sefyllfaoedd (*stages*).

(2) Trwy gofio y disgrifir y bywyd ail-enedigol mewn nifer o ddarnodiadau y rhai oll ydynt un yn y Crist trigfewnol. Rhaid i'r cenhedlu, yr hâd, y bywhâd a'r geni, gael eu hegluro i gyd fel yr un fendith, sef *newydd-deb buchedd* yng nghymdeithas y Drindod Sanctaidd trwy y Mab (Rhuf. vi. 4). *Pan welodd Duw yn dda . . . i ddatguddio Ei Fab Ef ynof fi* (Gal. i. 15, 17).

14. Pa gyfeiliornadau a goleddwyd parthed cyfryngau neu offerynoliaethau yr ail-enedigaeth?

Yng nghyntaf oll yr un a wna yr ymgawdoliad fel y cyfryw y cyfrwng: nid athrawiaeth yr Ysgrythur yw y cyfiawnhêir, yr ail-enir, neu y sancteiddhêir disgynyddion yr Adda cyntaf trwy rinwedd yr Ail Adda, *Od oes neb yng Nghrist, y mae efe yn greadur newydd* (2 Cor. v. 17). Ymhelaetha y dawn i'r llaweroedd fel hiliogaeth, ond rhaid ei gymhwyso yn unigol—yn bersonol.

15. Pa gyfeiliornadau a ffynasant parthed ei gysylltiad â bedydd?

Y mae gormod o bwys wedi ei roddi ar yr ordinhâd hon fel moddion ordeiniedig, ac unig foddion grâs ail-enedigol: fe ganfyddir hedyn cyntaf y cyfeiliornad hwn yn y tadau boreuol, a'r dadblygiad cyflawn ohono yn eglwys y canoloesoedd, a cheir olion ohono yn lluwys o ffurfreolau y Diwygiad, yn enwedig y rhai Lutheraidd ac Anglicanaidd.

16. Beth yw y diffyniad yn erbyn y cyfeiliornad hwn, yn ei berthynas âg ail-enedigaeth yn enwedig?

(1) Dylid cofio mai bedydd yw sêl holl fendithion y cyfamod, ac nid eiddo yr enedigaeth newydd ar wahan ac yn unig; gellir yr un mor briodol gymhwyso y term bedyddiadol at gyfiawnhâd a sancteiddhâd ag at ail-enedigaeth.

(2) Cysyllta yr Ysgrythur yr enedigaeth newydd â bedydd yr hwn yw ei sêl a'i ernes; ond gall y sêl gyfamodol fod yn sicrwydd i'r credadyn o ffaith yn y gorfennol, o ddawn bresennol, neu o fendith sydd eto i dd'od. Undeb â Christ yw a arwyddocêir yn

yr ordinhâd hon, yr hon er hynny, fel enwaediad, nid yw o unrhyw leshâd ar wahân i ffydd. Ni pherthyn i Gristionogaeth unrhyw râs "ex opere operato,"* neu ddibynnol ar gyflawniadau swyddogol.

17. Beth yw yr esponiad Efengylaidd ar y ffurfreolau Lutheraidd, Anglicanaidd, a Henaduraidd, a haerant ail-enedigaeth babanod yn y bedydd ?

(1) Ymdaera rhai gan fod plant yn alluog o ddryg-naws y pechod gwreiddiol, eu bod yn alluog hefyd o râs yr Yspryd mewn babanod : gan fod y ddau hyn o angenrheidrwydd yn gyfochrog.

(2) Dadleua y Lutheriaid y'mhellach am ail-enedigaeth babanod mai y cenhedliad newydd yw, tra mai yr undeb gwirfoddol dyfodol â Christ yw yr enedigaeth newydd.

(3) Honna y sawl a goleddant Gyffes Westminster, parthed plant etholedig fod grâs y bywyd newydd yn seliedig ac yn gyflëedig yn yr ordinhâd o fedydd.

(4) Honnir yn dra chyffredin y cyfeiria y term ail-enedigaeth megis ei cymhwysir at fabanod, yn hytrach at rhagorfreintiau allanol mabolaeth nag at unrhyw râs ail-enedigol y cynesgaethir hwy âg ef. Ffynnai y golygiad hwn yn helaeth yn yr eglwys foreuol.

18. Ond a ellir dweud y dichon plant dderbyn grâs ail-enedigol ?

Digon yw dadleu drostynt y mabwysiedir hwy i deulu Duw ac eglwys Crist. Fe erys gwaith mewnol y Fabolaeth Gristionogol am eu derbyniad ymwybodol o'r Arglwydd. Hwy a dderbyniant y grâs a ddarpara ar gyfer ail-enedigaeth, megis y darpara ar gyfer cyfiawnder mewn undeb âg Ef.

III.

Sancteiddsbâd Gristionogol.

§ 1. Sancteiddsbâd.

1. Beth a olygwn wrth sancteiddhâd Cristionogol ?

Holl gyflwr credinwyr megis y maent yn gyfranogion o'r sancteiddrwydd Dwyfol ac yn gysegredig i gymdeithas a gwasanaeth Duw trwy y Cyfryngwr.

* Gwel Nodiad XLIX.

2. Beth yw perthynas hyn â'r ddau gyflwr blaenorol?

Golyga cyfiawnder yr ail-enedig fel yn gyd-ffurfiedig â deddf Duw, a sancteiddrwydd fel yn gydffurfiedig â'r natur Ddwyfol. Mewn geiriau ereill y mae y bywyd newydd yn y blaenaf wedi ei osod yn iawn gyda deddf, ac yn yr olaf y mae wedi ei uno â Duw Ei Hun.

3. Beth ynte, ai dim ond cangen wahanedig yn unig o'r ragorfraint Gristionogol gyffredin yw sancteiddhâd?

Mewn rhyw ystyr rhaid yw ei hefrydu fel y cyfryw. Ond mewn ystyr arall hi a orchuddia yr holl dir, a gellir mynegi yr oll o grefydd yn nhermau sancteiddhâd. Canys, beth yw y bywyd ail-enedig ond Ysryd sancteiddrwydd yn y natur? yr hyn a wna ail-enedigaeth a sancteiddhâd yn un, mewn gwirionedd; tra mai ein sancteiddhâd yw *ewyllys Duw* megis y mae yn ddatganedig mewn deddf, a'n glanhâd *oddiwrth bob anwiredd*, a'n cadw yn ddiargyhoedd (1 Thes. iv. 3; 1 Ioan i. 9). Y tair hyn un ydynt, yn yr ystyr ddyfnaf.

4. Pa fodd yr eglurir hyn y'mhellach gan yr eiriadaeth?

Fe ddefnyddid yr holl dermau am sancteiddhâd yn yr Hen Destament—megis ymgysegriad i Dduw, puredigaeth oddiwrth bechod, sancteiddrwydd y'nghyd â lluaws a ddynodent foddion cyrhaeddiad y rhain, a'u perthynas â'u gilydd—defnyddid hwynt i ddisgrifio perthynas gyfamodol gyflawn Jehofah â'i bobl, yn enwedig megis yr amlygid Ef yn Ei deml. Hwyl y gysegrir oll o'r newydd, yng Nghrist, gydag ystyr ddofnach a chyda'r un dosparthiad cynhwysfawr.

5. Sut, gydag ystyr ddofnach?

(1) Sancteiddiad—pa un bynag ai golchiad neu offrymiad ar yr allor—o dan yr oruchwyliaeth Lefaidd, allanol ydoedd, er nad yn hollol felly, er puredigaeth y cnawd a chadwraeth y bobl fel y cyfryw yn gysegredig i Dduw. Ond yn y Testament Newydd nid yw *Byddwch chwithau hefyd sanctaidd!* byth yn syrthio yn fyrr o undeb mewnol â Duw: *Megis y mae y neb a'ch galwodd chwi yn sanctaidd, byddwch chwithau hefyd sanctaidd y'mhob ymarweddiad* (1 Petr i. 15, 16). Y mae sancteiddrwydd yn argraffedig ar yr holl natur.

(2) Y'mhellach, yn y cyfamod newydd, fe deifl cyfiawnder a'r bywyd newydd yng Nghrist eu hystyr ddofn ar sanct-eiddhâd.

6. Pa rai ydynt y ddau brif feddylddrych mewn sanct-eiddrwydd?

Neulltuad **ODDIWRTH** bechod, a neulltuad **1 Dduw**; y rhai ydynt o angenrheidrwydd yn un, er eu golygir ar dir yr un mor angenrheidiol fel yn wahaniaethol, er nad ydynt i'w gwahanu mewn amser. Rhaid i'w i'r naill gynnwys y llall.

7. Ai nid yr ansawdd fewnol megis ei danghosir mewn buchedd a chymeriad sanctaidd, yw sancteiddrwydd?

Ie, pan ei golygir ym moesddysg Cristionogaeth; ni a'i hystyriwn yr awrhon yn unig, neu yn bennaf fel y cymhwysiad o'r lawn gan yr Yspryd.

8. Eithr onid y cymhwysiad allanol neu wrthddrychol o'r lawn yw ein cyfiawnhâd?

Ie, fel y mae yr lawn yn ufudd-dod offrymedig i gyfiawnder; ond fel y mae yn aberth dyhuddol, y cymhwysiad ohono yw ein sancteiddhâd allanol a mewmol—y ddau fel eu gilydd.

9. A oes yn bod ddau ddosparth o dermau am y sancteiddhâd allanol a mewmol hwn?

Nis darnodir y termau yn fanwl mwy nag a wneir mewn cyfiawnder a mabolaeth allanol a mewmol. Y mae y term *Hagiádzein*, sancteiddio, neu fendigo Duw, yn cynnwys y ddau; felly y gwna *katharídzein*, i lanhâu neu buro; ac y mae *hagiasmós*, sancteiddhâd, fel *hágios*, sanct, yn cyfuno y ddau. Ond y mae ystyron allanol a mewmol yr holl dermau hyn bron yn wastad yn weithredol neu rinweddol ymdoddi i'w gilydd.

10. Sut y medrwn symio i fyny hyn oll cyn myned rhagom?

Rhaid yw i ni gofio fod ystâd y Cristion yng nghysegr mewmol y cyfamod newydd yn safle neu sefyllfa allanol, ac yn gyflwr neu gymeriad mewmol bob un o'r ddwy. Fel y mae yn blentyn i Dduw, medda ar y bywyd newydd gwirioneddol, ac y mae mewn stâd fabol, fel un cyfiawn y mae yn y stâd o gyflawnhâd, a chanddo y ddeddf yn ysgrifenedig ar ei galon; fel y mae yn sancteiddiedig

i Dduw y mae yn y stâd o berson cysegredig, a'i ansawdd, neu ei gyflwr mewnol yw purdeb. Ond yn y rhain oll yr allanol yw a ddyry iddo ei enw: y mae efe yn fab cyfiawnedig a chysegr-edig i Dduw.

11. Y mae yn dilyn, gan hynny, fod pawb a'r sydd ail-enedig a chyfiawnedig yn sancteiddiedig hefyd?

Ydyw'n, ddilys ddigon. Y mae iddynt trwy y grâs cyffredinol hwnnw dderbyniad fel pardwn ger bron y frawdle, dderbyniad fel mabwysiad meibion, a derbyniad ar yr allor fel eiddo cysegr-edig a gwasanaethwyr Duw: yn yr holl ystyron hyn y mae ganddynt y *grâs a rad-rodde* *Efe i ni yn yr Anwylyd* (Eph. i. 6).

§ 2. Sancteiddôb yn Allanol.

1. A oes gennym unrhyw engreiffiau o'r cymhwysiad allanol neu wrthddrychol yn yr Ysgrhythur?

(1) Gan nad beth a neulltuir oddiwrth arferion cyffredin i rai cysegredig, dywedir ddarford ei sancteiddio: megis amser yn y Sabboth, lle yn nheml a dinas Seion; a phopeth a osodir ar yr allor *sydd yn sancteiddio y rhodd* (Matth. xxxii. 19). (2) Y mae yr enw sanctaidd, neu *Grist megis Arghwydd*, i'w fendigo, fel un sydd eisoes yn sanctaidd, yn y galon ddynol (Matth. xxxii. 19; Matth. vi. 9); 1 Petr iii. 15). (3) Y mae personau credinwyr yn sanctaidd megis y maent yn ddidoledig oddiwrth y byd (1 Petr ii. 9).

2. A yw yr eglureb ddiweddaf hon i ddibynnu arni?

Gelwir Cristionogion yn saint (*hagior*) megis yn union y'i gelwir yn blant Duw ac yn gyfiawnion, ar wahan i'w cymeriad mewnol, er mai y dybiaeth o'r cymeriad mewnol hwnnw a gyfiawnhâ yr enw. *Rhai a sancteiddiwyd yng Nghrist Iesu, a alwyd i fod yn saint* yw y Cristionogion (1 Cor. i. 2); nid yw yr ymadrodd i fod yn y testun, ond fe gynrychiola y gwirionedd. Gwna Duw ni yr hyn a gyfrifa Efe ein bod.

3. Gan mai sancteiddio i Dduw yw y term Dwyfol, beth yw yr un dynol cyferbyniol?

Yr ydym ni yn cyflwyno i Dduw, yn offrymu wrth yr allor, ac yn cysegru mewn bwriad yr hyn a sancteiddir i Dduw gan yr Yspryd Glân yn unig.

4. Yna sancteiddhâd allanol yw y cysegriad gan yr Yspryd o'r hyn a offryma dyn?

Offryma y pechadur, ymwybodol o lygredd, ei hun i Dduw a derbynnir ef er mwyn yr Iawn a ddadleua; y derbyniad hwnnw yw ei lanhâd ef oddiwrth bechod, neu ei sancteiddhâd.

5. Ai yr un yw hyn a phardwn a mabwysiad?

Ie: *dikaion* neu gyfiawnhâd, yn y llys, yw *katharidzein*, neu lanhâd, yn y deml. Felly y mae yr addolydd derbyniedig yn y deml yn fab yn y tŷ ac yn gyfiawnedig ger bron y frawdle.

6. Sut y golygir pechod yn y cysylltiad hwn?

Fel halogrwydd, neu frycheuyn (*macula*): yr aflendid a'r halogrwydd hwnnw a gashâ Duw, am nad yw gyffelyb i'w natur Ef Ei Hun. Yn y sancteiddhâd allanol nis gwel Ef y brycheuyn hwnnw, ac ni chymer Efe gyfrif ohono; megis mewn cyfiawnhâd nas cyfrifa Efe mo'r camwedd. Danghosodd yr Iawn pa'm.

7. Pa dermau a ddynodant y cymhwysiad o'r Iawn?

Termau tarddedig o'r hen drefniant: tywalltiad y gwaed, glanhâd y gydwybod, golchiad oddiwrth anwiredd, puredigaeth y galon neu lanhâd y gydwybod.

8. Gall taenellu a golchi fod yn allanol: a all glanhâu a phuro fod felly hefyd?

Yn y fath ymadroddion a *chan buro eu calonnau hwy trwy ffydd* (Act. xv. 9); *A gwaed Iesu Grist Ei Fab Ef sydd yn ein glanhâu ni oddiwrth bob pechod* (1 Ioan i. 7); *Glanheuwch eich dwylaw chwi bechaduriaid* (Iago iv. 8),—yr un gair *katharidzein* a ddefnyddir, a rhaid fod iddo ystyr allanol yn hytrach nag un fewnol. Ond glanhâu, a phuro a ddefnyddir yn gyffredin yn hytrach am y gwaith fewnol.

9. Y'mha ystyr y dywedir fod y gydwybod yn cael ei chlirio neu ei glanhâu?

Cydwybod euogrwydd yw cydwybod halogrwydd hefyd. Pan y dywedir fod offrymiad Crist yn *puro* (neu *lanhâu*) *ein cydwybod ni oddiwrth weithredoedd meirwon* (Heb. ix. 14), y meddwl yw y gwaredir calon y credadyn oddiwrth yr ymdeimlad o euogrwydd a halogrwydd oddiwrth y rhai nis gallai *gweithredoedd meirwon* waredu, *i wasanaethu y Duw byw*. Gellir ychwanegu

fod yr hen derm cyfreithiol—cliriad oddiwrth euogrwydd—yn gymorth i ni ddeall y glanhâd allanol hwn ar y gydwybod. Fe ddefnyddir gair arall, ac un cryfach, gan yr Apostol pan y golygir y glanhâd mewnol. *Certhwch (ekkathárate) allan yr hen lefain o'r eglwys* (1 Cor. v. 7).

10. Fe a'n sancteiddir gan hynny i wasanaeth Duw?

Sancteiddhâd, yn nacâol sydd ymlanhâd oddiwrth bechod, yn gadarnhâol ymgysgriad yw i'r cymundeb a'r mwynhâd o Dduw. Perthyna y blaenaf, sef cymundeb â Duw, yn hytrach i sancteiddhâd mewnol; a'r olaf, hynny yw neulltuad i wasanaeth Ddwyfol yn hytrach i sancteiddhâd allanol neu wrthddrychol.

11. Y'mha ystyr y gwneir Crist yn sancteiddhâd i ni?

Efe a wneir i ni yn sancteiddhâd (*hagiasmós*), nid *hagiosúné* = sancteiddrwydd: ein sancteiddhâd i Dduw ganddo Ef Ei Hun, nid ein sancteiddrwydd mewnol. Efe yw y flynhonnell anuniolgyrchol o'r sancteiddrwydd mewnol hwn, megis y perffeithia Efe ein sancteiddrwydd trwy Ei Yspryd, a chyda'n cydweithrediad ninnau; am y blaenaf, megis ym ein cyfiawnhâd, Efe yw y flynhonnell uniongyrchol a'r unig sail ohono. Felly, y mae gennym Dduw sydd yn ein cyfiawnhâu ac yn ein sancteiddio yng Nghrist yn unig.

§ 3. Sancteiddhâd yn Fewnol.

1. Pa rai ydynt y profion fod sancteiddhâd yn gwrsweithrediad mewnol yn rhedeg yn gyfochrog â'r un allanol?

Y cyfryw ymadroddion a'i cynrychiolant fel yn gynyddol ac yn berffeithiedig: a rhai geiriau sydd iddynt ystyr fewnol.

2. A leferir yn wahanol am gysegriad allanol?

Trwy yr Hen Destament a'r Newydd, fe ystyrir pethau a phersonau cyflwynedig i Dduw fel yn eiddo Ef trwy un weithred o rod-di derbyn ar yr allor, *yr allor sydd yn sancteiddio y rhodd* (Matth. xxiii. 19). Derbyniad yw unwaith am byth.

3. A oes gyfnewidiad ymadrodd yn bod i ddynodi y gwahaniaeth rhwng sancteiddhâd allanol a mewnol?

Nac oes, yn gyffredin; ond dengys ffurfiad y geiriau a'r cyddestun y gwahaniaeth yn eglur ddigon.

4. Rhoddwch rhai engreifftiau o hyn?

(1) Mynegir ddarfod i'n Harglwydd unwaith *buro ein pechodau ni* (Heb. i. 3), a darfod iddo *ddileu pechod trwy Ei aberth Ei Hun* (Heb. ix. 29). Cynhwysa y ddau derm hyn ddarpariaeth ar gyfer y cymhwysiad allanol a mewnol o'i aberth Ef.

(2) Am hynny, glanhâu, golchi, a phuro a ddefnyddir am y naill a'r llall; eithr cyfeiria yr ymadrodd *Golch ymaith dy bechodau* (Act. xxii. 16) yn hytrach at ddilëad allanol o bechod, tra yr ymddengys yr ymadrodd *Golch fi yn llwyr ddwys oddiwrth fy amwired* (Psalm li. 2), a'r un arall, *ac yn glanhâu oddiwrth bob anghyfiawnder* (1 Ioan i. 9), fel yn cario y cwrsweithrediad i'r dyn mewnol.

5. Y'mha le y cawn y cwrsweithrediad a'r diben o sancteiddhâd yn gyfunedig?

Ymlanhâwn oddiwrth bob halogrwydd cnawd ac yspryd, gan berffeithio sancteiddrwydd yn ofn Duw (2 Cor. vii. 1): yma, sancteiddrwydd yw y diben, neu y telos, a'r ymlanhâu yw y cwrsweithrediad, un er nad yn fanwl raddol yma, a amcana at hynny, a lleferir am y saint fel *hagiadzómenoí=rhai sydd mewn cwrs o sancteiddiad* (Heb. x. 14).

6. Oni chysyllta yr ymadroddion hyn sancteiddhâd â dyletswydd foesol â disgyblaeth bersonol?

Gwnant: y mae yn beth nodedig y cyfeirir y gair glanhâu neu buro,—gair priodol yn unig i waith yr Yspryd,—at weithrediad dyn. Ond felly y mae; ac ym mhobman y mae ein sancteiddhâd graddol ni yn gyd-rwymedig â'n disgyblaeth Gristionogol.

7. Eithr onid oes yn bod eiriau na pherthynant ond yn unig i sancteiddhâd mewnol neu ddeiliadol?

(1) Y mae i'r ansoddair pur, neu lân, ystyr fewnol: *Gwyn eu byd y rhai pur o galon* (Matth. v. 8). Fe ddefnyddir berf arall hefyd, yr hon a draidd i ddyfnderau y natur, sef *hagnîdzein*—ymbureiddiad: *Pob un sydd ganddo y gobaith hwn wedi ei osod arno Ef, sydd yn ymburo, megis y mae Efe yn bur* (1 Ioan iii. 3). Sylwer, na wneir byth gymhwyso at yr Arglwydd Ei Hun y geiriau hynny a ddynodant ymbureiddiad mewnol. Y mae *hagnos yma yn neulltuolrwydd*.

8. Beth a olygir wrth gwbl-sancteiddhâd ?

Gwaith yr Yspryd yn unig ydyw hyn, yn ei gymhwysiad o rinwedd yr Iawn er symud ymaith olion diweddf preswylïad neu lygredd pechod, gan gysegru natur gyflawn y credadyn i Dduw mewn cariad perffeithiedig.

9. Y'mha le yr addewir hyn ?

Yn gyffredin y'mhob sicrwydd a roddir o iechydwrïaeth neu waredigaeth oddiwrth bechod ; ond mewn cyfeiriad at sancteiddhâd ei hun, addewir ef yn enwedig y'ngweddi yr Apostol *A Dduw yr heddwrch Ei Hun a'ch sancteiddio chwi yn gwbl-oll* : gyda'r ernes o ffyddlondeb Dwyfol am lawn sicrwydd (1 Thes. v. 23, 24).

10. Beth yw grym yr ymadrodd hwn ?

Defnyddir ynddo ddau air a ddynodant gwblhâd : sef *holoteleis*, yr hyn a olyga fod deiliaid y sancteiddhâd hwn wedi eu perffaith sancteiddio : a *holôklêron* yr hwn a ddengys y cyfeiriai yr un blaenorol at y dyn unigol fel y mae yn gyfansoddedig o gorff ac enaid ac yspryd, *wedi eu cadw oll (wedi eu cwbl-gadw) yn ddiargyhoedd* (1 Thes. v. 23).

11. Pa ragoriaeth sydd yn ganfyddadwy yma mewn sancteiddhâd ?

Sancteiddiad yw o holl natur y dyn. Ein cyfiawnder ger bron Duw,—yn yr yspryd y mae : *y mae yr yspryd yn fywyd oherwydd cyfiawnder* (Rhuf. viii. 10). Gedy ein mabolaeth y corff yn *farw oherwydd pechod* (Rhuf. viii. 10) ; ond golyga ein sancteiddhâd fod hyd yn oed y corff darfodedig yn gwbl eiddo i'r Arglwydd : *Oni wyddoch chiwi fod eich corff yn deml i'r Yspryd Glân yr Hwn, sydd ynoch* (1 Cor. vi. 19).

12. Oni ddysga rhai ymadroddion eraill lwyryneb sancteiddhâd.

(1) Ceir rhai a gyfeiriant at groeshoeliad y cnawd a dinystrïad corff pechod ; ond perthyna y rhain mewn gwirionedd nid i sancteiddhâd ond i dyfiant y bywyd ail-enedig.

(2) Ceir ereill a gyfeiriant at y ddeddf fel yn gyflawnedig ynom ni yn perthyn i fywyd cyfiawnder.

(3) Â sancteiddhâd priodol, y mae a wnelom yn awr, yr hyn yn syml ac yn unig sydd symudiad ymaith y brycheuyn neu yr halogrwydd hwnnw sy'n wrthwynebol i sancteiddrwydd y natur Ddwylol.

13. Ond i ddychwelyd: Beth sydd i'w olygu wrth y cymhwysiad o rinwedd yr Iawn gan y Yspryd?

Y mae rhinwedd neu effeithiolrwydd yr Iawn yn naill ai uniongyrchol neu anuniongyrchol: uniongyrchol yn nilead y dieithrwch, neu ganolfur y gwahaniaeth rhwng dyn a Duw, yr hyn yw ei briodol rinwedd; ac yn anuniongyrchol trwy ddiogelu ohono nerth yr Yspryd Glân, yr hwn a garia ei rinwedd i'r dyn mewnol.

14. A yw dawn yr Yspryd, fel rhin yr Iawn, yn rhywbeth mwy na phuredigaeth oddiwrth bechod mewnol?

Ydyw: dyma yw dirgelwch cymundeb neu gymdeithas â Duw, o'r hyn y mae puredigaeth yn amod. Fe a'n graddol wneir trwy *gymdeithas yr Ysbyrd Glân* (2 Cor. 13, 14), *yn gyfranogion o'r Ddwylol anian*; ac *yn gyfranogion o'i sancteiddrwydd Ef* (2 Petr i. 4; Heb. xii. 10).

15. Pa foddion neu offerynoliaethau a gysylltir yn gyffredin a sancteiddhâd mewnol?

(1) Gair y gwirionedd: *Sancteiddia hwynt yn y gwirionedd; dy air sydd wirionedd* (Ioan xvii. 7). Ond y gwirionedd yw offeryn iechydwrïaeth dan bob agweddïad o'r cyflwr o râs.

(2) Rhoddir y sêl ar y cyfamad sancteiddhâol gan y cyfyngau sacramentaidd: a'r gair yw y rhain fyth fel ei mynegir mewn gweithred, a hwy fel y cyfryw a gyfleant y grâs o'r hwn y maent yn arwyddion. Rhaid i ni gofio yma hefyd fob pob bendith o eiddo y cyfamad newydd yn gynhwysedig.

(3) Os priodol defnyddio y fath iaith, presenoldeb bendigaid y Drindod Sanctaidd yng Nghrist yw moddion sancteiddhâd, a dyma o angenrheidrwydd yw moddion cwbl-sancteiddhâd. Dyma yw amcan y weddi am breswylïad mewnol Crist, *fel y cyflawner chwi â (i) holl gyflawnder Crist* (Eph. iii. 19).

(4) Mewn ystyr dra phwysig, grym y carïad Dwyfol yw yr offeryn yn hyn fel y'mhob effaith o eiddo Dwyfol râs: *Ac y mae Ei gariad Ef wedi ei berffeithio ynom* (1 Ioan iv. 12).

16. Beth yw perthynas edifeirwch a ffydd â chwbl sancteiddhâd?

Edifeirwch yn yr enaid ymgysgrol sydd ffeiddïad beunyddïol o bechod fel halogrwydd sydd y'ngweddïll; ffydd yw yr

argyhoeddiad y gellir ei gwbl symud ymaith, a'r offeryn hwnnw mewn dyn a ddiogela ei symudiad ymaith: gan yn weithredol gymeryd ohoni afael yn yr addewid, ac yn oddefol dderbyn y cyflawniad ohoni.

17. A anogir y ffydd hon gan unrhyw addewid?

(1) Pan, o dan ddylanwad yr Yspryd, y cenfydd ffydd Grist, yr Hwn *nad oes bechod* ynddo (1 Ioan iii. 5), ac fel y darfu iddo *ymddangos fel y dilëai bechodau*, y mae ganddi ddigon o addewid er ei hanogaeth.

(2) *Trwy räs yr ydych yn gadwedig, trwy ffydd* (Eph. ii. 8). Yr iechydwrïaeth sydd waredigaeth oddiwrth bob pechod yn y byd hwn, gan nad oes yn bod y fath beth a phureiddiad purdan-aid ar ol angau.

(3) Ffydd gan hynny, *yn gweithio trwy gariad* fel amod, yw yr offeryn terfynol, a'r unig offeryn mewn dyn er cyrraedd ohono drwyddo räs yr Yspryd er llwyr-ddinystrio drwg fel halogrwydd, a'r oll a elwir yn bechod.

§ 4. Ymbriniaeth Sanesiol.

1. Beth yw dysgeidiaeth yr Eglwys Gristionogol wedi bod am athrawiaeth sancteiddhâd?

Y mae hi i'w chael y'mhob cyfundrefn o ddysgeidiaeth; ond y maes wedi cymylu y dadblygiad ohoni gan luaws o gamsyniadau, ac fel athrawiaeth, nid ydyw wedi cael lle digon arbennig.

2. Beth ydoedd y cyfeiliornad cyntaf a ganfyddir?

(1) Mewn amserau boreuol nis gwahaniaethid hi oddiwrth berffeithrwydd Cristionogol yn gyffredin, o'r hyn pa fodd bynnag nid yw amgen un agweddiad yn unig. (2) Edrychid ar gyfiawnder (*righteousness*) mewnol a sancteiddhâd mewnol fel yr un a'r unrhyw beth. (3) Ceir y ffynna y ddau gyfeiliornad hyn mewn amrywiol ffurfiau i lawr hyd adeg y Diwygiad, ac ni fuont yn apsenol ar ol hynny.

3. Pa effaith y mae'r blaenaf wedi ei gael?

Heblaw taflu i ddryswch eiriadaeth y Testament Newydd, tueddodd mewn amserau boreuol i ddiddymu swyddogaeth sancteiddiol yr Yspryd, trwy wneuthur ohono sancteiddhâd yn ddim amgen na chynnydd yr enaid yng nghyfeiriad perffeithrwydd moesegol: ond mwy ar hyn eto.

4. Pa effeithiau sydd wedi dilyn yr olaf?

Gellir eu holrhain ar hyd tair llinell :

(1) Yn niwinyddiaeth y canoloesoedd, ac eiddo Trent, nid yw sancteiddhâd amgen na chyfiawnhâd cynhyddol. Ffynhonnell gyffredin y naill a'r llall yw y grâs cynhwynol a roddir, neu breswylid Crist trwy Ei Yspryd; ond heb gofio y denfyn y ffynhonnell gyffredin hon allan ffrydiau gwahanedig.

(2) Yn y ddiwinyddiaeth Lutheraidd, fe gyfyngir cyfiawnhâd yn bennaf i'r cyfrifiad o gyfiawnder Crist, a chyfyngir sancteiddhâd yn weithredol neu yn rhinweddol i weithredoedd da sydd yn ffrwyth y cyfiawnhâd. Am hynny nis rhoddir yn ei diwinyddiaeth gyfundrefnol a'i llyfrau esponiadol ond lle cyfyng i sancteiddhâd fel y cyfryw.

(3) Yn niwinyddiaeth y Diwygiad, neu yr un Galfnaidd, sancteiddhâd sydd naill ai dadblygiad graddol o'r tueddion sanctaidd a blennir yn yr enedigaeth newydd, a chan hynny ail-enedigaeth gynhyddol yw; neu ynte, cyfrifiad yw o sancteiddrwydd Crist fel Ei ufudd-dod perffaith Ef i'r ddeddf. Yn y ddau achos, fe gyll sancteiddhâd ei nodwedd arbennig fel symudydd ymaith ansancteiddrwydd.

5. Y'mha fodd ein diffynnir rhag yr amrywiol gyfeiliornadau hyn?

Fe a'n diogelir rhag yr oll fel eu gilydd trwy gofio fod Tri Chlyflwr* iechydwrïaeth gyfamodol yn gyflenwadol y naill i'r llall (*mutually complimentary*), gan fod pob un ohonynt yn berffaith ac yn gyflawn ynddo ei hun. Ond yn fwy neulltuol:

(1) Cyfiawnder (*righteousness*) yw ein cydymffurfiaid ni â chyfiawnder Duw a wylia ei ddeddf uniawn Ef; sancteiddhâd yw ein cydymffurfiaid a'i sancteiddrwydd Ef a warchoda Ei natur sanctaidd.

(2) Y bywyd newydd nis dadblygir mohono mewn sancteiddhâd. Efe a dŷf i fyny yn syml yng Nghrist: a sancteiddhâd nid dyfn-hâd y bywyd hwnnw mohono, ond ymgysegriad ohono i Dduw.

(3) Nid oes gan weithredoedd da, a osodir gan y cyfundrefnau hyn i gyd o dan y pennawd sancteiddhâd,—nid oes a fyfno y rhain âg ef fwy nag â chyfiawnder neu y bywyd newydd.

* Cyfiawnhâd, mabwysiad, a sancteiddhâd.—T. J. P.

I foesau y perthynant hwy, ac i'r rhai hefyd y maent yn amod cyffredin ac yn ffrwyth o'r oll.

6. Eithr onid â y Testament Newydd rhagddo yn ddieithriad o gyfiawnhâd, trwy y bywyd newydd at weithredoedd da sancteiddrwydd?

Fe deithia cryn lawer o ddiwinyddiaeth yn y cyfeiriad a nodwyd; ond ni wna y Testament Newydd hynny byth. Y prif feddylddrych yn yr Epistol at y Rhufeiniaid yw deddf; yn yr Epistol at yr Hebreaid sancteiddrwydd, ond fe berthyna gweithredoedd da, yn ad-newydd-deb y bywyd i'r ddau. Gweithredoedd da *ffrwythau cyfiawnder* ydynt (Phil. i. 2); yr ydym ni *wedi ein creu yng Nghrist Iesu i weithredoedd da* (Eph. ii. 10); a'r profion uniawn hyn o Yspryd y bywyd *ffrwyth i sancteiddrwydd* ydynt (Rhuf. vi. 22): nid yn gymaint o ffrwythau sancteiddrwydd ag ydynt eu hunain yn ffrwythau i'w sancteiddio, *eis hagianmon*. Sylwer fel y cyfunir y tri chyflwr: Anogir ni i *wisgo y dyn newydd, yr hwn yn ol Duw a grewyd mewn cyfiawnder a sancteiddrwydd gwirionedd* (Eph. iv. 24).

7. Beth ydoedd athrawiaeth foreuol yr Arminiaid ar y pwngc hwn?

Arminius ydoedd y cyntaf i wahaniaethu yn eglur rhwng sancteiddhâd a chyfiawnhâd: gan ddysgu ohono mai puredigiaeth graddol oddiwrth bechod yw y blaenaf. Ond efe a'i cymysgodd hefyd â marwolaeth graddol yr hen ddyd; gan ei adael yn beth ansicr pa un ai marwolaeth y corff ai nage yw terfyn pechod yn y natur. Ac ni phenderfynwyd y pwynt hwn ychwaith gan ei ddilynwyr.

8. Y'mha le arall y canfyddir yr un cymysgedd?

Yn y ddiwinyddiaeth Lutheraidd a Diwygiedig, ill dwy, y rhai a ystyrient farwolaeth fel y sancteiddydd, gan ddal ohonynt fod y *cnaud yn chwenychu yn erbyn yr Yspryd i'r diwedd* (Gal. v. 17); yr hyn sydd un o weddillion ystrywgar Gnosticiaeth.

9. Eithr oni red dysgeidiaeth St. Paul yn yr un cyfeiriad?

Efe a gyflwyno ger bron yr ymdrechfa yn unig i ddangos allan ei heffeithiau yn hyn, *fel na alloch wneuthur beth bynnag a ewyllsioch*. Yn y cyfamser, *A'r rhai sydd yn eiddo Crist Iesu a*

groeshoeliasant y cnawd (Gal. v. 17, 24); a chroeshoeliad i farwolaeth y mae. Ond âg ail-enedigaeth y mae a wnelo hyn yn uniongyrchol, ac â sancteiddhâd yn anuniongyrchol: hynny yw, cyn belled ag nas gall y cnawd sy'n llwgr gan bechod fyned i mewn i'r nefoedd, mwy na chig a gwaed.

10. A ddysgwyd erioed yn yr Eglwys Gristionogol y ragorfraint o waredigaeth bresennol oddiwrth olion olaf llygredd neu nodau pechod?

Ni ddysgwyd hynny yn groyw gan unrhyw gangen ohoni hyd nes i ddiwinyddiaeth Trefnyddiaeth Wesleyaidd ddwyn i amlygrwydd yr athrawiaeth o gwbl-sancteiddhâd.

11. A ddysgid hi mewn effaith ynte gan unrhyw rai?

Gwnaed, gan bawb; ond nid fel rhagorfraint gyrhaeddwyd yn ystod y bywyd o brawf. Datgenid yn ochelgar gan y ddysgeidiaeth uchaf o Awstin i lawr fod yr ymdrechfa yn erbyn gweddi-illion llygredd, pa mor eiddil bynnag, yn rhan angenrheidiol o brawf y credadyn yn ei gyflwr darostynol.

12. Pa fodd yr ymdrefid diwinyddiaeth Wesleyaidd â hyn?

(1) Trwy osod pwys ar fod cariad Duw wedi ei dywallt ar lêd yn y galon, yr hwn sydd raid iddo ddiffoddi hyd yn oed yr egwyddor o hunan, yr hyn yw gwir halogrwydd y pechod gwreiddiol. (2) Gwna hynny yn gyffredin trwy ei hathrawiaeth am Berffeithrwydd Cristionogol.

13. Beth yw yr athrawiaeth hon?

Y gwna y cyfamad Cristionogol ddarpariaeth tuag at berffeithiad cyflwr y credinwyr y'mhob perthynas, o'r rhai nid yw cwbl-sancteiddhâd ond un yn unig. Hyn fydd ein pwngc nesaf: canys y perffeithiad hwn yw perffeithrwydd Cristionogol.

14. Yn y cyfamser, pa dueddiadau at gyfeiliornad y mae gennym fyth i'w gochel yn yr athrawiaeth o gwbl-sancteiddhâd?

(1) Honnir weithiau mai cwbl-ymgysegrïad i Dduw yw yr oll o sancteiddhâd, tra mai gweithred allanol o eiddo yr Yspryd ydyw, a'r hon, pa mor fendigaidd bynnag ynddi ei hun y rhaid ei dilyn â phureiddiad mewnol oddiwrth weddillion diweddaf y meddwl cnawdol.

(2) Er mai gweithred ddisyfyd a phendant o eiddo yr unrhyw Yspryd yw y pureiddiad mewnol hwn, yn y perffeithiad ohono, dyna hefyd yw coron ffydd yr edifeiriol. Rhaid yw i edifeirwch y credadyn ddwyn ei ffrwythau ei hun ym marweiddiad pechod trigfewnol, *ffrwyth o sancteiddrwydd* (Rhuf. vi. 22). Y mae perygl i esgeuluso yr amod hwn er diogeli y rhodd bennaf.

(3) Gellir ychwanegu, fod perygl hefyd o anghofio y gwanhaniaeth rhwng sancteiddhâd a chwbl sancteiddhâd: megis pe mai ail fendith fyddai sancteiddrwydd neu ymgysgriad i Dduw, estynedig mewn rhyw yspaid o amser ar ol credu. Gellir galw y cyflawnder (*entireness*) ohoni yn ail fendith, ond sancteiddrwydd ei hun yw a ddechreuwa y bywyd o dderbyniad. Fe roddir yr Yspryd Glân fel sancteiddydd, nid ar ol yspaid o amser, ond pan y credwn. *Yn yr Hwn hefyd, wedi i chwi gredu y'ch seliwyd â Glân Yspryd yr addewid, yr Hwn yw ernes ein hetifeddiaeth ni*, fel yr ydym yn blant, ac fel yr ydym wedi ein sancteiddio, *hyd bryniad purcas Duw Ei Hun* (Eph. i. 13, 14).

(4) Edrychir weithiau am sicrwydd pendant, cysylltiedig â moment y waredigaeth derfynol oddiwrth bechod, ac fel pe ar wahân i seliad distaw yr Yspryd trigfewnol, ond heb unrhyw awdurdod o'r Ysgrythur.

(5) Arweinir ni gan ddiogeliadau ereill at y pwngc nesaf, sef athrawiaeth Perffeithrwydd Cristionogol.

IV.

Perffeithrwydd Cristionogol.

1. Beth yw ystyr y gair Perffeithrwydd?

(1) Yn gadarnhaol, dyna y perffaith sef yr hyn sydd wedi cyrraidd ohono y diben bwriadedig (*télos*). (2) Yn nacâol, yr hyn nad yw ddiffygiol mewn dim ar sydd yn gynhwysedig yn y cyfryw ddiben.

2. Sut y'i cymhwysir at y Bôd Goruchel?

Nis gall y darnodiad hwn fod yn gymhwysadwy at Dduw. Y mae Efe yn hanfodol berffaith, heb na diben na chyrhaeddiad yn ddichonadwy iddo. Ond yn Ei berthynas â'r creadur fe briodolir iddo berffeithrwydd, fel y safon moesol terfynol. *Bydduch chwi gan hynny yn berffaith, fel y mae eich Tad nefol yn berffaith* (Matth. v. 48).

3. Sut y'i cymhwysir at greaduriaid?

Gallant fod yn berthynasol berffaith, naill a'i megis yr atebant i'r amcan Dwyfol yn eu creadigaeth, neu fel gwedi ohonynt at ol methiant ei gyrraedd drachefn.

4. Sut y'i cymhwysir at ddynion yn enwedig?

- (1) Perffeithrwydd dyn yw ei unig adferiad iddo ef; a hynny
(2) megis dan drefn grâs.

5. Beth ydoedd perffeithrwydd gwreiddiol dyn, ac y'mha ystyr y darfu iddo ei golli?

Efe a grëwyd mewn undeb â Duw, gan feddu ohono yn ei natur yr oll ag oedd yn angenrheidiol er dechreu cwrs perffaith o ddadblygiad. Fel yr ysgarwyd ef oddiwrth Dduw gan bechod fe ataliwyd ei gwrs naturiol o berffeithrwydd, a rhaid yw ei ddechreu eto yn ol trefn oruwchnaturiol.

6. Beth yw perthynas grâs â pherffeithrwydd dyn?

Trwy gyfryngiad Gwaredwr perffaith fe edfryd dyn ei berffeithrwydd gwreiddiol a mwy na hynny.

7. Sut y gellir golygu perffeithrwydd y Cyfryngwr?

Dan amrywiol agweddau tra phwysig.

(1) Yr oedd Efe yn ddyn perffaith yn yr ymgawdoliad: perffaith, hynny yw trwy undeb ysprydol, neu yn hytrach trwy unoliaeth â Duw, ond a gyd-gyfranogodd, er mwyn y prynedig-aeth o wendidau dyn syrthiedig.

(2) Efe ydoedd *Awdwr eu hiechydwrïaeth* yr hwn a berffeithiwyd trwy *ddioddefiadau* (Heb. ii. 10): hynny yw, a berffeithiwyd yn yr oll ag oedd yn ofynnol i lanw i fyny y meddylldrych o Waredwr iawnol.

(3) Cyflwynodd Ei Iawn Ef drefn berffaith o adferiad y'mherthynas â'r trefniant cyfreithiol na *pherffeithiodd ddim* (Heb. vii. 19).

(4) Ac Efe Ei Hun wedi Ei berffeithio, *Ag un offrwm y perffeithiodd Efe yn dragwyddol y rhai a sancteiddir* (Heb. x. 14); hynny yw, darfu iddo Ef wneuthur darpariaeth dragwyddol am eu hadferiad cyflawn.

(5) Efe Ei Hun ydyw y cynllun yn ol yr hwn y mae eu perffeithrwydd hwynt i fod yn gyd-furfiedig.

8. O dan pa agweddion yr edrychir ar berffeithrwydd Ei bobl Ef?

Y mae y rhain eto yn amrywiol, a dylid eu hefrydu mewn trefn :

(1) Y mae yn bod berffeithrwydd perthynasol mewn troedigaeth, neu ddechreuad y ddisgyblaeth Gristionogol. Cyfeiria yr ymadrodd *Os mynni fod yn berffaith* (Matth. xix. 21), at barododrwydd rhagddarparedig a llawn i fyned o dan ddisgyblaeth er cyrraedd perffeithrwydd pellach.

(2) Fe dderbynia y credadyn iechydwrïaeth berffaith fel y mae yn fwynhâd o ragorfaint allanol. Gosodir ef y'mhob ystyr mewn perthynas berffaith â Duw trwy râs.

(3) Addfedrwydd perffaith yn y Ffydd ydyw, fel y mae yn gyferbyniol i fabanoed y Ddeddf. *A doethineb yr ydym ni yn ei llefaru y'mysg y rhai perffaith* (1 Cor. ii. 6).

(4) Cyflwynir i ffydd berffeithrwydd mewnol o iechydwrïaeth oddiwrth bechod, a chydymffurfiad â chyfiawnder a sancteiddrwydd Duw : ar yr hyn y sylwir eto.

(5) Y mae yn bod safon o berffeithrwydd moesol a red yn gyfochrog â hyn ar bob pwynt.

(6) Yna daw y cyflawniad perffaith i gorff ac enaid mewn cyflwr arall : yn y cyfamser fe berffeithir *ysprydoedd y cyflawn* yn angau (Heb. xii. 23).

(7) Perffeithrwydd terfynol sydd sylweddoliad cynhyddol gan ddyn, am dragwyddoldeb, o fwriad gwreiddiol y Creawdwr.

9. Beth a olygir gennym wrth yr ail o'r rhain?

Y cymhwysa yr Yspryd Glân y gwaith iawnol at y credinwyr sydd mewn undeb â Christ fel y'i perffeithier, ac megis y perffeithir hwyt yn yr adferiad o'u perthynas ffordiedig â Duw.

10. Beth yw perthynas hyn âg undeb â Christ?

Ynddo Ef yn unig, trwy undeb âg Ef trwy ffydd, y mae i ni dderbyniad, mewn amser ac i dragwyddoldeb : *yn berffaith yng Nghrist* ; ac *ynddo Ef yn gyflawn* (Col. i. 28 ; ii. 10) ; *Yr Hwn a wnaethpwyd i ni yn ddoethineb oddiwrth Dduw, ac yn gyfiawnder, ac yn sancteiddhâd, ac yn brynedigaeth* (1 Cor. i. 30).

(1) Am hynny y mae credinwyr wedi dyfod yn *gyfiawnder Duw ynddo Ef* (2 Cor. v. 21) ; (2) Ynddo Ef, y maent yn feibion

i Dduw; *Canys chwi oll ydych blant i Dduw, trwy ffydd, yng Nghrist Iesu* (Gal. iii. 26; 1 Cor. i. 2); ac yn (3) y maent ar unwaith *wedi eu sancteiddio yng Nghrist Iesu* (1 Cor. i. 2); wedi eu sancteiddio *unwaith am byth* (Heb. x. 10).

11. Beth yw tystiolaeth yr Ysgrythur i berffeithrwydd mewnol?

Fe a'n dysgir y'mhob disgrifiad o'r cyflwr o rās i ddisgwyl am waith gorfenedig yn y byd hwn: mewn geiriau ereill am berffeithrwydd moesol Cristionogol: hynny yw, cyflwr nad yw yn ddiffygiol mewn dim.

(1) Parthed ein cyfiawnder: rhoddir grās yr Yspryd er cynorthwyo ein cydymffurfiad moesol âg ewyllys a natur Duw: *fel y cyflawnid gorchymyn, neu hawl y ddeddf ynnom ni* (Rhuf. viii. 4). *Yr hwn sydd yn gwneuthur cyfiawnder sydd gyfiawn, megis y mae Efe yn gyfiawn* (1 Ioan iii. 7). Rhaid peidio a chyfyngu yr ymadroddion hyn.

(2) Parthed ein Mabolaeth: *wedi ein rhagordeinio i fod yn gydfurf â delw Ei Fab Ef*, bu i'n hen ddyn ni gael ei groeshoelio gydag *Ef, fel y diddymer corff pechod, gan gynhyddu ohonom iddo Ef y'mhob peth*; gan hynny megis y mae *Efe yr ydym ninnau hefyd yn y byd hwn* (Rhuf. viii. 4; 1 Ioan iii. 7; Rhuf. viii. 29; Rhuf. vi. 6; Eph. iv. 15; 1 Ioan iv. 17). Ac ni ddylid cyfyngu yr ymadroddion hyn ychwaith.

(3) Parthed ein sancteiddhâd: y mae darpariaeth grās yn ddigonol er symud ymaith bob halogrwydd, *Chwi a fyddwch sanctaidd, canys sanctaidd ydwyf Fi*; ac hefyd, *cadwch eich yspryd oll a'ch enaid a'ch corff yn ddiargyhoedd* (1 Petr i. 16; 1 Thes. v. 23).

12. Pa fodd y mae cariad Duw yn gysylltiedig â hyn?

(1) Y mae y cariad hwnnw yng Nghrist wedi ei wystlo' er ein hiechydwrriaeth ni. Megis mai y cariad hwn yw y ffynhonnell, dyma hefyd yw gweithredydd a chwblhâdd yr oll. *Y mae Ei gariad Ef yn berffeithiedig ynom* (1 Ioan iv. 12).

(2) Dyma'r gallu sydd yn gorchfygu ac yn bwrw allan bechod, fel offeryn *Yspryd y bywyd* (Rhuf. viii. 2).

(3) Y cariad hwn yn ei ddychweliad yn ol at Dduw, yw *rhwymyn perffeithrwydd ynom ni* (Col. iii. 14).

13. Cariad, gan hynny, yw y rhwymyn a una waith yr Yspryd â'r eiddom ni?

Ie: Perffeithiad cariad Duw ynom ni, gweithrediad o eiddo yr Yspryd yw, a pherffeithiad ein cariad ninnau mewn ad-daliad yw yr oll o'n perffeithrwydd. Cariad yw y gair pennaf yn y nefoedd a'r ddaear.

14. Beth yw y gwahaniaeth rhwng y perffeithrwydd a roddir i ni, a'r perffeithrwydd a weithredir ynom?

Rhaid yw i ni ystyried perffeithrwydd moesol cymeriad fel (1) yr amod ar yr hwn y mae gweithrediad effeithiol grâs yn ddibynnol, ac yn (2) fel effaith hanfodol ac arddanghosiad o'r grâs hwnnw. Yn y naill achos a'r llall rhaid yw rhoddi y flaenoriaeth i waith perffaith grâs.

15. Sut y disgrifir y perffeithrwydd moesol hwn yn gyffredin?

(1) Fel cyflawniad cymeriad moesol, a ffurfir o dan ddylanwad Dwyfol râs. *A Duw yr heddwch . . . a'ch perffeithio ym mhob gweithred dda i wneuthur Ei ewyllys Ef* (Heb. xiii. 20, 21). (2) Fel y tyfiant o bob grâs unigol i berffeithrwydd: er engraifft, *A chaffed amynedd ei pherffaith waith, fel y byddoch yn berffaith ac yn gyfan heb ddiffygio mewn dim* (Iago i. 4). *Eithr y mae perffaith gariad yn bwrw allan ofn* (1 Ioan iv. 18).

16. Er hynny, gweinyddiad yr Yspryd yw perffeithrwydd?

Ie: *Canys pob rhoddiad daionus, a phob rhodd berffaith, oddiuchod y mae* (Iago i. 17). Perthyna disgyblaeth bywyd sanctaidd i foesddysg Gristionogol, ond ei pherffeithiad i'r adran dan sylw.

17. Sut y gallwn ei chysoni âg amherffeithrwydd dynol?

Trwy gofio yn (1) mai perffeithrwydd y rhai a brynwyd yw, y'nganol holl gyfyngiadau dirnadaeth (*sense*) a gwendid; ac yn (2) mai perffeithrwydd Cristionogol neu Efengylaidd yw, hynny yw, perffeithrwydd megis ei cyfrifir yn nhrefn grâs, yr hwn a ddiogelir ynom, megis y'i cyfrennir, yn unig trwy ein ffydd yn yr Iawn; ac yn (3) fod yna ddyfodol o gynnydd anherfynol, *pan ddelo yn hynsydd berffaith* (1 Cor. xiii. 10).

§ 2. Ymbriniaeth Santesiol.

1. Pa safle a roddwyd i'r athrawiaeth o berffeithrwydd Cristionogol mewn diwinyddiaeth Gristionogol?

Y mae pob cyfundrefn athrawiaethol wedi ei chynnwys, ond y mwyafrif ohonynt heb roddi iddi le ffurfiol a phenodol. Nid oes gwestiwn diwinyddol yn bod a drafodwyd gyda mwy o amrywiaeth, ac a dywyllwyd gyda mwy o ddyfalgch.

2. Sut y mae dosparthu y cyfeiliornadau ar y pwngc hwn?

Dan ddau bennawd: (1) y cyfryw ddamcaniaethau am berffeithrwydd ag a'i hysgarant oddiwrth hanfodion Cristionogaeth: (2) y cyfryw ohonynt a gyfeiliornasant parthed y gwahaniaeth rhwng perffeithrwydd fel dawn o rês a pherffeithrwydd megis y'i gweithredir yn y credadyn.

3. Y'mha le y cawn y blaenaf?

Y'mhob dysgeidiaeth Belagiaidd a wâd bechod gwreiddiol mewn dyn, a gwaredigaeth oddiwrth bechod yng Nghrist.

4. Pa ffurfiau a gymerodd y cyfeiliornad hwn?

(1) Daliai Pelagius ei hun athrawiaeth dra chyson: yn ol ei gyfundrefn ef, y mae yr ewyllys y'mhob dyn yr hyn ydoedd yn Adda, a gall gyrraedd perffeithrwydd megis y gallasai fod yr eiddo yntau fod wedi ei gyrraedd: fod dysgeidiaeth y ddeddf ac esiampl Crist yn ddigonol.

(2) Y mae yn bod athroniaeth Belagiaidd o gynnydd dynol, yr hwn a esyd fel ei arwyddair berffeithiolrwydd dynoliaeth fel cyfangorff: nis medd hon, fodd bynnag, y cyfryw berthynas â Christionogaeth ag a feddai hyd yn oed Pelagius.

(3) Ac mewn cyfundrefnau Undodaidd, a ddaliant mai yr Efengyl yw y moddion uchaf er disgyblaeth ddynol, trwy yr hon y gall dyn gyrraedd yn unig berffeithrwydd dichonadwy i greadur egwan, y'nghanol temtasiwn.

5. Pa gyfeiliornadau sydd ganfyddadwy mewn dysgeidiaeth mwy Gristionogol o barthed i'r berthynas rhwng perffeithrwydd fel dawn o rês ac fel gweithred yn y credadyn?

Gellir dosparthu y rhain eto dan ddau bennawd: y'nghyntaf, y cyfryw, gan wneuthur ohono brynedigaeth yn bennaf yn ddar-

pariaeth i ryddhau dyn oddiwrth anallu, a ystyria berffeithrwydd yn hytrach fel cyrhaeddiad o'i eiddo ei hun, ac yn ail, eiddo y cyfryw a'i gwnant yn syml ac yn unig yn ddim amgen na dawn mewn undeb a Christ.

6. Pa dir sydd yn gyffredin i'r rhain?

Hwy a gyd-olygant mewn ystyried gwaith Crist fel sail terfynol perffeithrwydd; a chytunant hefyd mewn gwneuthur perffeithrwydd yn y dyn ei hun yn anghyraeddadwy yn y byd hwn.

7. Y'mha le y gorwedda y gwirionedd Ysgrythyrol megis cyd-rhwng y rhain?

Mewn dal fod gwaith perffaith Crist EROM, i gael ei weithio allan yn berffaith YNOM.

8. Beth yw nodwedd cyffredinol y cyfeiliornad blaenaf wedi bod?

Darfu iddo wneuthur perffeithrwydd Cristionogol yn ddisgyblaeth feudwyaidd (*asceticism*) gyda grâs yr Efengyl o'r tu cefn iddi.

9. Beth yw Meudwyaeth?

Y datganiad Ysgrythyrol ohono yw, *Ymarfer dy hun i dduwioldeb* (1 Tim. iv. 7). St. Paul a roddes y gair, gan ei egluro trwy ei esiampl: *Yr wyf fi yn cospi fy nghorff, ac yn ei dduwn yn gaeth* (1 Cor. ix. 27); ac hefyd, *Yn hyn yr ydwyf fi fy hun yn ymarfer (asko) i gael cydwybod ddirwysr tuag at Dduw a dynion yn wastadol* (Act. xxiv. 16). Yn y cyfryw fodd y mae yr Apostol yn cymeradwyo meudwyaeth, ond diogela arno rhag cyfeiliornad: yn ol ei ddysgeidiaeth ef gofal parhaus o hunan yw, mewn trefn i dduwioldeb, a chyflawniad pob dyletswydd tuag at ddyn.

10. I ba gyfeiliornad y syrthiodd meudwyaeth yn ei hymgais am berffeithrwydd Cristionogol?

(1) Y mae ei hamcan wedi bod yn gywir: sef buddugoliaeth lwyr yr yspryd dros y cnawd, cyraeddadwy trwy ymptydio, a marwâd y chwantau; cwbl ymneulltuad o'r byd; darostyngiad hollol yr ewyllys, neu ei diddymiad yn ewyllys Duw; ac y'mhob peth rhodio *nid megis ar amcan* (1 Cor. ix. 26).

(2) Ond bu y moddion arteredig yn fynych yn rhy erwin, gan wanychu a dianrhydeddu ohono y corff fel offeryn gwasanaeth Duw.

(3) Ac yn bennaf ni ddarfu iddo gydnabod yn ddyladwy Ysryd sancteiddrwydd fel Pen-Weinyddwr, ac yn wir unig Weinyddwr perffeithrwydd Cristionogol.

11. Y'mha beth y gwahaniaetha y ddamcaniaeth gyfrinol am berffeithrwydd oddiwrth hyn ?

Y mae dau fath o gyfriniaeth wedi ffynnu ; sef gâu-gyfriniaeth yn tueddu i Oll-dduwiaeth, ac un wirioneddol, ymlenwedig âg Ysryd cariad.

(1) Darfu i âu-gyfriniaeth dafu pob moddion o'r neulltu gan geisio fod ohoni yn anibynnol ar ddisgyblaeth feudwyaidd, ac ar rinwedd yr lawn, y ddwy fel eu gilydd ; gan amcanu ohoni at lynciad ymlonyddol ac uniongyrchol yr enaid mewn dwfn-fyfyrdod am Dduw.

(2) Y mae gwir gyfriniaeth y'mhob cymundeb, wedi gwneud ymgais at uno meudwyaeth a dibyniad ar yr Ysryd, trwy y tair egwyddor o buredigaeth, goleuni ysprydol, ac undeb â Duw.

12. Pa gyfeiliornad ellir ei ganfod yma ?

Yn syml, fod y tair sefyllfa wedi eu nodi yn rhy amlwg a'u gwneud yn rhy wahanedig. Nid yw darostyngiad y drwg yn arwain i oleuni yr Ysryd ac i undeb â Duw : eithr hwy a gyddeithiant gyda chynnydd anwahaniaethadwy tuag at berffeithrwydd. Y'mhellach, ni ddarfu i gyfriniaeth erioed mwy na meudwyaeth gynnwys yn ei hathrawiaeth nerth yr Ysryd y'n symudiad ymaith bob pechod.

13. Tueddai y damcaniaethau hyn am berffeithrwydd Cristionogol at iselhâu gweinyddiad yr Ysryd : onid oedd a'i mawrhâau yn ormodol ?

Y mae yna rhyw ffrydlif o dueddgarwch wedi ffynnu bron er dyddiau yr Apostolion, i ystyried ddarfod i Ysryd Glân gael Ei addaw a'i roddi mewn goruchwyliaeth wahanol i oruchwyliaeth arferol y ragorfraint Gristionogol.

(1) Canfyddid hyn yn y Gnosticiaid yn yr ail ganrif, a gyfenwent eu hunain "y rhai perffaith," fel gwedi eu gwaredu oddiwrth ddefnydd a'r cnawd.

(2) Hefyd yn y Montaniaid, a wahaniaethent eu hunain fel "Y rhai Ysrydol" oddiwrth "Y rhai Cnawdol," megis eu bod o dan yr oruchwyliaeth olaf a phennaf o eiddo yr Ysryd.

(3) Darfu i'r "Perffeithedigion,"* neu y "Catharistiaid,"† yn y canol-oesoedd hawlio yr un peth o dan luaws o wahanol enwan.

(4) Erys ryw gymaint o weddillion y cyfeiliornad hynafol hwn yn y cyfryw a ystyriant Yspryd y nerth oddiuchod fel dawn ychwanegol at y ffydd gyntaf yng Nghrist a ddug dderbyniad, ac yn angenrheidiol er ei pherffeithiad.

14. Beth yw y gwrthbrawf cyfredinol i'r holl gyfeiliornadau hyn?

Disgyniad yr Yspryd Glân ar yr Eglwys ac ar bob aelod unigol ohoni ar ddydd y Pentecost. *Yn yr Hwn hefyd wedi i chwi gredu y'ch seiliwyd â Glân Yspryd yr addewid* (Eph. i. 13). *Gwedi i chwi ddechreu yn yr Yspryd, a berffeithir chwi yr awr hon yn y cnaud* (Gal. iii. 3).

15. Beth yw tarawiad yr ymadrodd dyfynedig ar ein hadolygiad presennol?

Dengys mai yr Yspryd, cyfraniad o'r Hwn a ddechreua deyrnasiad grâs ynom ni, yw a'i perffeithia hefyd. Ei weinyddiad Ef ydyw o'r dechreu i'r diwedd. Efe yw insel gynaraf pob rhagorfraint, ac Efe, yn Enw Iesu, yw perffeithydd ein Hiechydwrïaeth: ni a allwn gael ein perffeithio yn yr Yspryd.

16. Beth ydynt neulltuolion dysgeidiaeth Eglwys Rhufen?

Perthyna iddi amrywiaeth mawr: ond ei hegwyddorion megis y'i gosodir i lawr yn awdurdodedig ydynt y rhai hyn:

(1) Parthed y ddeddf: ei fod yn beth dichonadwy i ddyn roddi ufudd-dod perffaith i yspryd a hanfod y ddeddf foesol, fel y mae y ddeddf honno yn gymhwysiadwy at ddyn "yng nghyflwr presennol bywyd."

(2) Parthed rhyddhâd oddiwrth bechod: dysga fod chwant fel y mae'n bechod yn cael ei symud ymaith; ond fel "tannwydd posibl pechod," nas dygir ef ymaith byth. Nad yw pechodau maddeuol‡ neu bechodau o ddifffyg a ddichon darddu ohono, yn effeithio ar y cyflwr o râs neu gyfiawnder. Ymhellach y gall y pechodau maddeuol hyn beidio yn llwyr, ac yna nad yw y chwant yddo'i hun yn fwy o bechod nag ydoedd yn Adda.

* Gwel Nodiad L.

† Gwel Nodiad LI.

‡ Gwel Nodiad LII.

(3) Y gall cariad, trwy ei ddidoli oddiwrth ddeddf, gyfodi uwchlaw ufudd-dod syml, gan gyflawni ohono weithredoedd o or-deilyngdod : gan ddilyn cynghorion perffeithrwydd arbennig.

17. Beth a olygir wrth gynghorion perffeithrwydd ?

Gorchmynion penodol o eiddo ein Harglwydd a roddasid ar achlysuron neulltuol, a'r rhai yr honnir y nodant allan y ffordd at berffeithrwydd arbennig ac uwchraddol—gorchymynion y cynghorir neu y cymeradwyir eu cyflawni, ond y rhai nad ydynt rwymedig. Fel hyn, y mae hollol dlodi, diweirdeb, ac ufudd-dod neu roddiad i fynw ewyllys bersonol, wedi eu sefydlu fel tri arwyddair tiriogaeth uwch y bywyd “crefyddol.”

18. Y'mha le yr erys y cyfeiliornad yn hyn ?

Gesyd i fynw ddau safon o dduwiolfrydedd perffaith, lle nas gall fod ond un ; anghofia mai yspryd tlodi, diweirdeb, ac ufudd-dod yw nŏd pob Cristion, y rhai sydd i'w hamlygu y'mhob math o fywyd ; ac fel y mae y ddamcaniaeth yn gyfunedig â'r meddyl-ddrych o haeddiant a ddiogelir uwchlaw cwsr arferol ufudd-dod, y'nghyd â'r gyfundrefn o faddeuant (*indulgencies*) seiliedig ami, hi a wrth-dery yn erbyn athrawiaethau grâs ; ac y mae wedi dwyn i fewn i'r Eglwys ddrygau mawrion.

19. Pa elfennau daionus a erys yn nysgeidiaeth y canol-oesoedd, ac eiddo Cymanfa Trent ?

Haerai y ddysgeidiaeth honno yn rymus y posibilrwydd o gyflwyno i Dduw ufudd-dod a gyfrifa Efe yn berffaith ; arddengys hedyn y gwahaniaeth cywir hwnnw rhwng y pechod â'r hwn y cytuna yr ewyllys, a'r olion hynny o bechod nas cyfrifir fel y cyfryw ; bu iddi gadw yn fyw y syniad iachus o hunan-ddisgyblaeth barhâus yr hon a gydweithia â grâs Duw.

20. Y'mha fodd yr aneffeithiolwyd y daioni hwn ?

Aneffeithiolwyd y cyntaf, trwy ddarfod i'r ufudd-dod perffaith hwn gael ei ystyried fel rhodd arbenigol Duw ar amodau efengylaidd penodol ; yr ail trwy ddarfod cyfrif nad oedd chwant yn bechod yn unrhyw ystyr ; a'r trydydd trwy adeiladu arno gorff o weithredoedd haeddiannol. Yn gylfredinol, ni rydd holl athrawiaeth perffeithrwydd Cristionogol, yn ol y gyfundrefn hon ei flaenoriaeth i'r Yspryd Glân fel yr unig Weinyddwr i bawb ar a gredant o berffeithiad gwrthddrychol a deiliadol yng Nghrist.

21. Sut y mae i ni ddarnodi yr ail-ddosparth o gyfeiliornadau ar y pwngc hwn?

Ei wreiddyn yw yr honiad mai yr unig berffeithrwydd Cristionogol yw gwaith yr Yspryd yn cymhwyso at yr enaid waith gorffonedig Crist, sef yr Iawn: Ei gyfiawnder goddefol Ef er ei waredigaeth rhag condemnïad mewn amser a thragwyddoldeb; Ei gyfiawnder gweithredol Ef er ei gyflwyniad ger bron Duw yn berffaith a chyfan, fel wedi cadw ohono y ddeddf yn berffaith ynddo Ef.

22. Beth, yn gyffredin, yw y prif gyfeiliornad yma?

Gor-wneud perthynas ddirprwyol ein Harglwydd yn yr Iawn.

23. Sut y gallwn olrhain ei weithrediad?

(1) Gedy allan un gangen o ddysgeidiaeth Ysgrythyrol o barthed i undeb â Christ, sef *yr hwn a gysylltir â'r Arglwydd, un yspryd yw* (1 Cor. vi. 17); cynyrcha Yspryd undeb yspryd sydd yn un yn hollol ag eiddo'r Arglwydd. (2) Tra y proffesa fawrhau y gyfraith, megis y'i cadwyd yn berffaith gan Grist yn unig, ond yr hon nad yw i'w chadw byth gan ddyn syrthiedig, ac anghofia mai ufudd-dod cariad perffaith ydoedd ufudd-dod ein Harglwydd, ac y cyfrifir perffaith gariad i ni am ein hufudd-dod; (3) gyda dyfalwch, efe a dan-brisia ac a gam-ddehongla y llawys ymadroddion hynny a anogant ac a ddeisyfant am y cyflwr o berffeithrwydd Cristionogol yn y credadyn ei hun.

24. Beth yw y perygl amlwg o hyn?

Antinomïaeth, megis y rhŷdd bwys gormodol, yn ddamcaniaethol ac yn ymarferol ar ryddid efengylaidd oddiwrth y ddeddf.

25. A yw y pergl hwn yn hanfodol gynhenid yn y gyfundrefn Galfinaidd?

Nac ydyw, mewn un modd: y mae athrawiaeth ei phrif ysgriftenwyr a'i seintiau yn gynhyrfydd angerddol i sancteiddrwydd personol. Canys, (1) hwy a wnant gydymffurfiaid mewnol â Christ yn wrthddrych yngais dibaid, cyrhaeddiad yr hwn, er hynny, a selir yn unig yn awr angau; ac yn (2) hwy a ystyriant fod y ddawn o sancteiddiad tragwyddol yng Nghrist yn gymhell-ydd i ddiolchgaredd anfeidrol, ac i'r hunan-ddarostyngiad llwyr, yn y bywyd presennol.

26. Beth oeddynt olygiadau yr Arminiaid neu y Gwrthdystwyr?

(1) Hwya a ddysgent y gellir cadw y ddeddf trwy gariad yn yr hyn a gyfrifir gan Dduw yn gyflawniad perffaith, gan y llinierir llymder manylaf y ddeddf yn y cyfarnod grâs. (2) Mai cwrswethrediad beunyddiol yw sancteiddhâd yn yr hwn y gwanycha pechod ac yr ymgryfhâ y natur newydd. (3) Bu iddynt adael y cwestiwn o waredigaeth derfynol oddiwrth bechod cynhenid (*inbred sin*),—sef pa un ai yn flaenorol i awr angau, neu ynte yn angau yn unig y cymerai hynny le,—heb benderfynu arno.

27. Y'mha fodd y troisant eu hathrawiaeth yn erbyn Eglwys Rhufen?

Tra yn cytuno â Rhufen ddarfod i'r cyfarnod newydd waredu dynion oddiwrth lymder y ddeddf berffaith, pa un bynnag ai fel amod er iechydwrhaeth ai ynte fel safon dichonadwy i ymgyraedd ato, hwya a wrthwynebant Rufen trwy haeru mai cyfrifiad trugarog y rhaid fod perffeithrwydd Cristionogol ar y goreu, a chan hynny fod unrhyw haeddiant uwchlaw dyletswydd orchymynedig yn beth anichonadwy.

28. Y'mha fodd y bu iddynt ei ddefnyddio yn erbyn y Calfiniaid, eu gwrthwynebwyr agosaf?

Gan gytuno â hwya mai Crist, a dim ond Crist yn unig yw unig sail ein derbyniad, a'n sancteiddhâd, hwya a haerent yngwrthwyneb iddynt mai swyddogaeth yr Yspryd Glân yw argraffu delw yr Arglwydd ar yr enaid, a gweithredu ynddo gyfiawnder cydffurfiol â'r eiddo Ef, a'r hwn fel y cyfryw sy' dderbyniol.

29. Pa agweddiadau o'r athrawiaeth Arminiaidd ar y pwngc penodol hwn a ymddanghosasant mewn amserau diweddaf?

Cyfeiriasai y rhain yn bennaf at yr ystyr yn yr hon y tybid y lliniarid y ddeddf mewn modd grasol, fel safon perffeithrwydd. (1) Daliai yr Arminiaid fod y ddeddf foesol wreiddiol yn cael ei dilëoli gan *gyfraith Crist* neu *trwy ddeddf ffydd* (Gal. vi. 2; Rhuf. iii. 27): gan nad yw mwyach yn amod presennol na dyfodol derbyniad; er y parhâ fyth, fel y mae yn gynhwysedig mewn cariad, yn rheol dyletswydd. (2) Ond gwnaed y gosodiad gan laweroedd, yn enwedig gan ddiwinyddion ysgol Oberlin yn

America, nad oes yr un ddeddf foesol yn rwymedig ar ddyn ond y sydd o fewn gallu y deiliad syrthiedig ohoni : nad yw y ddeddf wedi ei gwednewid mewn modd trugarog yng Nghrist, ond mai ei chymhwyso wnaed, mewn cyfiawnder noeth, at wendid dynol. (3) Darfu i'r athrawiaeth Wesleyaidd osgoi y cyfeiliornad olaf hwn trwy ddysgu, nid iselhâd y ddeddf, ond math neulltuol o ufudd-dod a gyfrifir yn berffeithrwydd : Perffeithrwydd Cristionogol sydd gyflawniad perffaith o amodau yr Efengyl.

30. Y'mha berthynas â hyn y saif golygiadau y Crynwyr o barthed i berffeithiad gwaith grâs?

Eu hathrawiaeth hwy, cyfuniad yw o Gyfriniaeth ac Arminiaeth. Dengys y brawddegau a ganlyn o Ddiffyniad Barclay pa mor uchel yw, a pha agosach i'r un Fethodistaidd Wesleyaidd nac unrhyw un arall. "Er y barnwn felly am y gweithredoedd goreu a gyflawnir gan ddyn, gan ymdrechu ohono fod yn gydffurfiedig â'r ddeddf allanol yn ei nerth ei hun, a thrwy ei ewyllys ei hun, eto ni a gredwn fod y cyfryw weithredoedd ag a ddeillia yn naturiol o'r enedigaeth ysprydol hon, a flurfiad Crist ynom, yn bur a sanctaidd, megis y gwreiddyn o'r hwn y tarddant ; gan hynny derbynir hwy gan Dduw, gan ein cyfiawnhau ni ynddynt, a'n gwobrwyo erddynt yn Ei Râd Râs Ei Hun." Y mae y waredigaeth a weithredir ERDDOM ac YNOM fel "rhâd-rodd Duw, yn abl i wrthweithio, gorchfygu, a diwreiddio yr hâd drygionus â'r hwn yr ydym yn naturiol, megis yn y Cwmp, wedi ein lefeinio." Ar brydiau, fodd bynnag, fe linierir y traethiad grymus hwn.

31. Beth, yn fwyaf neulltuol, ydynt y prif elfennau yn nysgeidiaeth Methodistiaeth Wesleyaidd ar berffeithrwydd Cristionogol?

Gellir eu traethu oreu yng ngeiriau John Wesley : y rhai y rhaid eu dyfynnu, gan yr honnir yn gyffredin fod yr athrawiaeth o Berffeithrwydd Cristionogol yn un o neulltuolion Methodistiaeth Wesleyaidd.

(1) Parthed cyflawniad perffaith o'r ddeddf : "Ffydd yn gweithredu neu yn cael ei bywiogi gan gariad yw yr oll a gais Duw gan ddyn. Efe a osododd (nid cywirdeb, ond) cariad yn lle perffeithrwydd anglyaidd." Cariad perffaith at Dduw a dyn wedi ei dywallt ar léd yn y galon gan yr Yspryd Glân, yw yr oll o

ddeddf a'r oll o ufudd-dod deddf—y ddau fel eu gilydd: hyn ar gyfiawnder Cristionogol.

(2) Parthed rhyddhâd oddiwrth bechod yn y natur. Ystyrir hwn fel bywyd perffaith yr ail-enedigaeth ym marwolaeth yr hen ddyn neu bechod cynhennid (*inbred sin*). “Mewn cyffelyb fodd gall fod yn marweiddio i bechod am beth amser; eto, nid yw yn farw i bechod, hyd onid ysgarrer pechod o'i enaid, a'r foment honno y mae efe yn byw bywyd cyflawn cariad,” “y foment y peidia pechod a bod,” neu “pan, ar ol llwyr argyhoeddiad o bechod cynhennid, trwy argyhoeddiad llawer dyfnach, a chliriach na'r un a brofodd cyn y cyfiawnhâd, ac ar ol iddo brofi marweiddiad graddol ohono, efe a brofa farwolaeth hollol i bechod, ac adnewyddiad hollol yng nghariad â delw Duw.” Hyn ar y Fabolaeth Gristionogol.

(3) Parthed perthynas hyn a'n sancteiddrwydd: “Fe gymhwysir y term SANCTEIDDRWYDD yn barhaus gan St. Paul at bawb ar a gyfiawnhâwyd; anfynych os byth y golyga wrth y term hwn yn unig ‘waredigaeth oddiwrth bob pechod;’ o ganlyniad, nid priodol ei ddefnyddio yn yr ystyr honno heb ychwanegu y geiriau CWBL, neu GYFLAWN, neu y cyffelyb.” Hyn am sancteiddhâd Cristionogol.

32. Beth yw y brif egwyddor yn y ddysgeidiaeth ar y cyfan?

(1) “Cariad pur yn teyrnasu yn unig yn y galon a'r fuchedd: dyma yw yr oll o berffeithrwydd Ysgrythyrol.” Ond gosodir allan gariad yn ddieithriad fel egni diffino pob gweithredoedd da.

(2) Mai gwaith yr Yspryd yn unig, yn y credadyn yw perffeithrwydd; ond dynoda ei gyd-weithrediad mwyaf egnïol yntau: parthed y blaenaf trwy ftydd yn unig ei derbynnir, ac am hynny gellir ei roddi yn ddiatreg, “mewn moment;” parthed yr olaf, fe ragflaenorir ac fe ddilynir y foment honno gan waith graddol.

33. Beth a ddysgwn wrth adolygu yr holl bwngc?

Nad oes yr un athrawiaeth gyson am Berffeithrwydd Cristionogol ar nad anrhydedda rinwedd yr Iawn, a chymhwysiad yr Yspryd ohono fel ag i ddysgu y posibilrwydd o iechydwrïaeth gyflawn oddiwrth bechod trigfewnol ac adferiad perffaith i ddelfw Duw: mewn gair cwbl-gyflawniad ym muchedd dyn *yn y cnawd*,

o'r holl fwriadau hynny, er mwyn y rhai y bu i *ddirgelwch duwioldeb ymddangos yn y cnawd* (Gal. ii. 20; 1 Tim. iii. 16).

34. A ddichon fod cwyp oddiwrth y fath gyflwr a hwn?

Dichon : Yn gymaint ag mai nid gwaredigaeth yw oddiwrth wendid a themtasiwn a llawer o ganlyniadau pechod gwreiddiol yr hiliogaeth, oddiwrth yr hwn fel ei bechod cynhennid ei hun, y gellir achub y credadyn. Ond arweinïa hyn at bwngc y bennod nesaf.

35. Pa atebïad ellir ei roddi i bob gwrthddadl yn erbyn yr athrawiaeth hon?

Eiddo St. Petr : *Sancteiddiuch yn eich calonau Grist megis Arglwydd* (1 Petr. iii. 15, 16). Os sancteiddir Ef yn berffaith yn yr yspïd mewnol, bydd iddo Yntau berffaith sancteiddio ein *hymarweddiad da* ninnau *yngh Nghrist* yn y byd allanol. Y mae y sawl a wrthwynebant yr athrawiaeth hon fel **PERFFEITHYDDIAETH** yn taflu sarhâd ar air a leinw y Testament Newydd.

36. Eithr onid oes ocheliad yn ofynnol parthed defnyddiad y gair gan y sawl a goleddant y wir athrawiaeth?

(1) Nis gellir adgofio yn rhy fynych fod i'r gair amrywiaeth mawr o gymhwysiadau yn y Testament Newydd; a chan hynny, nas dylid ei ddefnyddio heb gyfeiriad penodol at yr ystyr ei defnyddir.

(2) Gair yw, megis ei defnyddir gan y Cristion unigol am dano ei hun, mwy cyfaddas i nodi ei uchelgais na'r cyrhaeddiad profsedig ohono.

(3) Eithr ni theifl hyn amheuaeth, ar un cyfrif, ar bosibl-rwydd y cyrhaeddiad hwnnw.

PENNOD V.

Gyflwr Prawf yr Gfengyl.**1. Beth yw y pwngc a awgrymir gan y pennawd hwn?**

Yr ymfyniad parthed daliad (*tenure*) bendithion y Cyfamod Cristionogol.

2. Ar ba eiriau arweiniol y dibynna y pwngc?

Ar Sicrwydd, Prawf a Pharhâd: fel ar wahân ac yn gyfunedig.

3. Gosodwch i lawr yr athrawiaeth sydd yn ffrwyth y cyfuniad o'r termau hyn?

Y cyflêir bendithion y cyfamod Cristionogol i gredinwyr megis mewn cyflwr o brawf, gyda llawn sicrwydd o'r mwynhâd ohonynt tra a chyhyd y byddont hwy yn fyddlawn i amodau eu cyfraniad.

4. Onid yw yr ystyr a gyfllea y naill o'r ddau derm cyntaf yn cau allan eiddo y llall?

Nac ydyw ond eu hiawn-ddeall. Fe ellir yn wir dehongli y Sicrwydd yn y fath ystyr fel ag i gau allan y syniad o brawf (*test*) yn y bywyd presennol a ddilynir gan gymeradwyaeth yn y farn. A gellir gosod y fath bwys ar brawf fel mai prin yr addefir unrhyw sicrwydd y tu yma i'r farn. Ein dyletswydd ni yw gwneud i bob un ohonynt ychwanegu at, cadarnhau ac amddiffyn y llall. Yn y cyfryw fodd yn unig y cyrhaeddwn olwg gyflawn ar yr oll.

5. Onid ellir eu cysoni trwy yr athrawiaeth o barhâd terfynol?*

Parhâd sydd râs a berthyn i'r cyflwr prawf; a'r hwn fel y cyfryw a gefnogir gan sicrwydd. Ni chynhwysir y ddawn o barhâd terfynol yn unman yn y cyfamod grâs.

6. A yw rhediad y Testament Newydd yn cyfuno y sicrwydd a'r prawf yn y fath fodd fel ag i gyflawnhau yr osodaeth hon?

Nis canfyddir hynny ond yn unig wrth archwilio y freinlen ei hun, yr hon a weinyddir gan yr Yspryd Glân.

* Gair arall, ond llai cywir, a ddefnyddir yw "parhâd diamodol."—T.J.P.

7. Onid cymhwysu y cyfamod, yn hytrach na'i wein- yddu y mae yr Ysryd Glan?

Nage: nid yw y term cymhwysu yn gweddu yn briodol i'r modd y gwneir credinwyr yn gyfranogion o'i ddarpariaethau. Gweinydda yr Ysryd gyfamod neu destament a gadarnhâwyd un waith am byth yng waed Crist; ac Efe a wna hyn yn unol â thermau neu amodau, trwy y rhai fel gweinyddwr ewyllys yr Arglwydd, y mae Efe Ei Hun yn rhwymedig yn y cyngor prynedigol. *Ni lefara Efe am dano Ei Hun* (Ioan xvi. 13).

§ 1. Y Gsflwr Prawf.

1. Beth yw prawf yn gyffredin?

Treial moesol a ddibenna mewn cyflwr sefydlog ac arhosol, naill o gymeradwyaeth neu o wrthodedigaeth.

2. Pa mor bell y llywodraetha y ddeddf brawf-osodol hon ddeliadau Duw â dyn?

Canfuwyd eisoes y gorwedda wrth wraidd hanes dynoliaeth; a dengys yr holl Ysgrhythur y parhâ fyth, er o dan amodau newyddion a thra neulltuol. Ym Mharadwys, y prawf ydoedd y treial ar ffyddlondeb dyn i'r da; yr awrhon treial yw ar ei ffyddlondeb i râs a weithreda ar ei natur ef ei hun er ei ddychwelyd oddiwrth ddrwg.

3. Eithr oni ddarfu i'r Cyfamod Grâs ddiddymu prawf?

(1) Y mae hyd yn oed y meddylddrych o gyfamod, fel trefniant o eiddo iechydwriaeth Ddwyfol, yn tybio amodau ar ran dyn; ac y mae amodau yn tybio prawf. Er mai trwy râs yn unig y gellir cyflawni yr amodau, amodau ydynt wedi'r cyfan.

(2) Nid athrwiaeth datguddiad mohoni ddarfod i'r Gwaredwr ymgymeryd â, a sicrhau iechydwriaeth rhan o'r hiliogaeth, yr hon a gynrychiola ddynoliaeth fel pe yn cael treial newydd o'r tu allan i'r ardd. Darfu i'r Creawdwr *wneuthur o un bob cenedl o ddynion . . . fel y ceisient Dduw* (Act. xvii. 26—31); dynoda yr oll a ddilyna yn ymadrodd yr apostol brawf eang a chyffredinol.

4. A ddefnyddir y gair prawf yn benodol yn yr Ysgrhythur?

Gorwedda y meddylddrych ohono dan y gair treial neu brawf neu demtasiwn, y'nghyd a'r oll a berthyn iddo. (1) O du Dduw y

W

mae gennym y cyfryw eiriau a chwilio (*try*) neu demtio, ymryson, gorchymyn, cyd-ddwyn, addewid, bygwth, barnu, cospi a gwobrwyo. (2) O du dyn, ufudd-dod, gwrthryfel, dewis da neu ddrwg, temtio Duw, plygu i, neu dristâu Ei Yspryd Ef, cydwybod, a hunan-farnedigaeth. Hyn oll geir-lechres prawf yw: megis y mae wedi ei apwyntio gan Dduw, a'i ategu gan ddyn.

5. Sut y gallwn olrhain llinellau prawf dynol?

(1) Yn apeliadau cyntaf trugaredd, y rhai a osodant dan brawf yr ewyllys ddirgelaid ag sydd eisoes o dan ddylanwad grâs rhagarweiniol, ac a lefarant wrth ddyn fel bôd cyfrifol: yma y ceir dirgelwch dyfnaf prawf.

(2) Yng nghwrs bywyd ar ol y derbyniad neu y gwrthodiad o drugaredd; y naill a'r llall o ba rai a symir i fyny mewn un brawddeg. *Profwch chwychwi eich hunain, a ydych yn y ffydd; holwch eich hunain. Neu oni wyddoch am danoch eich hunain, fod Crist ynoch, oddieithr, yn wir, i chwi fod yn wrthodedig* (2 Cor. xiii. 5). Yr unig wrthodedigaeth yw ddarfod ein profi a'n cael yn brin.

(3) Canlyniadau y farn ddiweddaf fydd ysgariad rhwng dau gymeriad a ffurfiwyd yn y fuchedd bresennol.

6. Pa effaith sydd gan Gyfamod yr Efengyl ar brawf dyn?

(1) Yn ei pherthynas â'r holl hiliogaeth fe ymddirieda ein flydd yn NYN-GAREDD Duw, *Cariad Duw . . . tuag at ddyn* (Titus iii. 4); y mae grâs yn teyrnasu yr awrhon dros y byd, a bydd iddo ei farnu mewn perffaith gyfiawnder. Y mae pob cenedl wedi ac yn bod dan eu prawf fyth.

(2) Ca pob dyn gymorth dirgelaid oddiwrth y grâs hwnnw sydd o'i blaid. Nid yn unig yn ddilynol i'r ail-enedigaeth, ond yn flaenorol i hynny hefyd y mae *Duw drosom* (Rhuf. viii. 31); yr hyn sydd wirionedd dirgeledig, ond un tra graslawn a dyls.

(3) Dygir y'mlaen y prawf Cristionogol priodol o dan ddylanwad neulltuol yr Yspryd trigfewnol, yr Hwn a wna fod rhan y Cristion yn un arbrawf (test) parhaus o rasusau, a ddisgyblir, a gyfnerthir, ac a berffeithir trwy y prawf ohonynt.

7. Beth yw swm y cyfan?

Fod pawb yn y bywyd hwn ar eu prawf am dragwyddoldeb; mai yr arbrawf yn awr yw, nid pa un a fydd i ni ymgadw oddi-

wrth y pren, ond pa un a fydd i ni fwyta a byw, ac fod grâs yn teyrnasu yn y modd mwyaf effeithiol dros yr holl brawf.

8. Ond a adewir yr oll i ddyfarniad y dydd mawr?

Felly y gwneir, mewn un ystyr; ond yn y cyfamser gwneir darpariaeth er sicrwydd presennol fod y prawf dan gwrs o arweiniad diogel tuag at ganlyniadau terfynol.

§ 2. Sicrwydd.

1. Beth yw tystiolaeth gyffredinol y Testament Newydd ar y pwngc hwn?

Mynegir am y ragorfraint Gristionogol mai eiddo LLAWN SICRWYDD FFYLD ydyw, a ddatgenir yn yspryd ac yn iaith HYDER, neu y rhyddid o arfer hyfdra : geiriau cyd-berthynasol.

2. Pa fodd y cysylltir y meddylldrychau hyn?

Danghosir *llawn-sicrwydd* neu *gyflawnder* (plêrophorîa) *ffydd* mewn *llawn-hyder* (parrhêsia) *i fyned i mewn i'r cysegr* (Heb. x. 22, 19). Ond gellir golygu y ffydd hon ym mherthynas a'i gwrthddrych presennol, fel un, sydd adnabyddedig : yna *llawn sicrwydd deall* ydyw ; a danghosir hi mewn *hyfder mawr yn y ffydd sydd yng Nghrist Iesu* (1 Tim iii. 13). Yn ei pherthynas a'i gwrthddrych dyfodol, *llawn sicrwydd gobaith hyd y diwedd ydyw* (Heb. vi. 11) ; a danghosir hi mewn peidio a bwrw ymaith ein hyder presennol *fel y byddo hyder gennym ac na chywilyddiom ger Ei fron Ef yn Ei ddyfodiad* (1 Ioan ii. 28).

3. Sut y gallwn ymdrin â sicrwydd yn ddiwinyddol?

Trwy ystyried yng nghyntaf ei sail wrthddrychol, ac yna yn ei brofiad deihadol.

4. Beth a olygir wrth sicrwydd gwrthddrychol?

Tra ei cyfyngir yma at fendithion iechydwrïaeth bersonol, cyfeiria at yr ymrwymïadau allanol a sefydlog a roddir gan Dduw i ffydd ymorffwys arnynt.

5. Y'mha le y mae y rhain i'w cael?

(1) Yn adgyfodiad Crist, yn y pen draw : *Ac am iddo Ei gyfodi Ef o feirw . . . y dywedodd fel hyn, Rhoddaf i chwi sicr drugareddau Dafydd* (Act. xiii. 34). *Efe a gyfodwyd i'n cyfiawnhau ni* (Rhuf. iv. 25). (2) Y mae yr Eglwys Gristionogol, ynghyd a'i moddion grâs, a'i hordinhadau seliadol, yn dystiol-

aeth barhâol o ewyllys da y nefoedd yn y byd. (3) Yn enwedig y mae Gair Duw gyda'i addewidion aneirif yn y sicrwydd Dwyfol a sefydlog i ddyn.

6. Pa mor bell y mae'r sicrwydd allanol hwn yn ddigonol?

Nis collir neb a ymddiriedo yn ddyfalbarhâol yn yr ymrwymadau mawrion hyn; ond rhyngodd fodd i Dduw roddi sicrwydd mewnol cyferbyniol: *fel y gallem gael cysur* (anogaeth) *cryf* (Heb. vi. 18).

7. Beth yw y berthynas fanol rhwng y rhain?

Y mae pob sicrwydd mewnol yn seiliedig ar yr un allanol; ond y mae yr un mewnol yn un penodol a digyfrwng; ac mewn profiad Cristionogol cyflawn rhaid yw cyfuno y ddau.

8. Pwy yw Gweithredydd y sicrwydd mewnol hwn?

Yr Yspryd Glân, yr *Hwn a roddes Duw i'r hwn sydd yn ufuddhâu iddo Ef* (Act. v. 32), i'r sawl a *seliwyd â Glân Yspryd yr addewid* (Eph. i. 13). Y ddawn hon sydd ynnom ni yn sêl sicrhâol: y'mherthynas â Duw mai Eie iddo Ef ydym; y'mherthynas â ni ein hunain, y gwyddom arnom ein hunain mai Ei eiddo Ef ydym.

9. Sut y mae Efe yn sêl sicrhâol?

Yng nghyntaf, Efe yw y sêl sicrhâol o'n hundeb â Christ ac o'n buddiant ynddo Ef yn gyffredinol; ac yna Efe yw y sêl sicrhâol o bob perthynas benodol o eiddo ein rhagorfraint gyffredin. Pa fodd bynnag, fe gyfunir yr oll o'r rhain yn gyffredin.

10. Sut y mae Efe yn sêl sicrhâol ein hiechydwrriaeth yng Nghrist yn gyffredinol?

Profiad cyntaf fydd yw dyfodfa i'r *grâs hwn, yn yr hwn yr ydym yn sefyll* (Rhuf. v. 2), trwy dderbyniad personol o'r Efengyl a'r Gwaredwr: o hyn yn gyffredin yr Yspryd yw y sêl; daw y gair i ni *yn yr Yspryd Glân, a chyda sicrwydd mawr* (1 Thes. i. 5). *Ni all neb ddywedyd, Iesu sydd Arglwydd, ond yn yr Yspryd Glân* (1 Cor. xiii. 3).

11. Beth yw y sicrwydd yn ei berthynas â'r rhagorfreintiau neualltuol yn bersonol a gwahaniaethol?

(1) Efe yw y Tyst o'n derbyniad fel gwedi ein cyfiawnhâu *Nid oes gan hynny yn awr ddim damnedigaeth i'r rhai sydd yng*

Nghrist Iesu. Canys deddf Yspryd y bywyd yng Nghrist Iesu am rhyddhâodd i oddiwrth ddeddf pechod a marwolaeth (Rhuf. viii. 1, 2). Efe a lefara wrth y gydwybod eiriau neulltuol ein Harglwydd Ei Hun,—*Maddewyd i ti dy bechodau* (Luc vii. 48). Nid oes destun i'w gael am dystiolaeth yr Yspryd o faddeuant.

(2) Efe yw y tyst o'n mabolaeth : gan gadarnhau ohono Ef dystiolaeth ein hyspryd ail-enedig ni ; *Y mae yr Yspryd Ei Hun yn cyd-dystiolaethu a'n hyspryd ni, ein bod ni yn blant i Dduw* (Rhuf. viii. 16). Y mae *yspryd* ein *mabwysiad* ni (Rhuf. viii. 15), fel MEIBION, yn cadarnhau ein cri ailenedig fel PLANT. Am hynny, gallwn ddarlenn *Yspryd mabwysiad*.

(3) Efe yw sêl dawel ein sancteiddhâd trwy Ei breswlyd mewnol : *Chwi a seliwyd â Glân Yspryd yr addewid . . . hyd bryniad purcas Duw Ei Hun* (Eph. i. 13, 14).

12. Ai mathau gwahanol o sicrwydd yw y rhain?

Felly eu disgrifir yn yr Ysgrhythur. Eithr rhêd yr oll ohonynt i'r un profiad cyffredin, yr hwn y mynegir mai hyn yw, *fel y gwypom y pethau a rid-roddir i ni gan Dduw* (1 Cor. ii. 12).

13. Pa nodweddion ereill o eiddo sicrwydd ellir eu henwi?

Mai perswadiad mewnol cyflawn ydyw o iechydwrïaeth bersonol trwy Grist, ac yng Nghrist ; fod yn y sicrwydd hwn ddatguddiad goruwchnaturiol i ffydd o'i gwrthddrych presennol ; mai yr Yspryd Glân yw a'i gweithreda yn yr enaid, wrth gredu neu ar ol hynny ; mai rhagorffaint gyffredin credinwyr yw ; ei fod fodd bynnag, gan nad yw yn amod er iechydwrïaeth, yn wanhaniaethol oddiwrth ffydd achubol. Gwahanol agweddau yw y rhain y rhaid eu cyfuno a'u cysoni.

14. Beth yw cyflwr yr enaid yn apsenoldeb sicrwydd?

Y mae wedi eu gau i fyny i ymrwymïadau (*pledges*) allanol Duw, gan ddisgwyl ohono am y dystiolaeth fewnol ; gorffwysa ffydd fel ymddiriedaeth seml ar air Duw yn unig, ac y mae yn cadw ; dilynir hi gan sicrwydd, gan yr hwn ei pherffeithir hi, er nad yn ebrwydd bob amser.

15. Eithr oni ddywedir fod ffydd ei hun yn dystiolaeth o bethau ni welir?

Dyna yw ei pherffeithder fel rheolydd mawr bywyd ar y ffordd i dragwyddoldeb. *Ffydd yw sicrwydd o'r pethau yr ydys yn eu*

gobeithio, neu hi sydd yn rhoi *sylwedd* iddynt gan eu gwneuthur yn ffaith i obaith; hi yw *y prawf o bethau ni welir*, yr arbrofiad mewnol ohonynt i'r enaid trwy ddatguddiad goruwchnaturiol (Heb. xi. 1).

16. Onid gorchwyl tra anhawdd yw ysgaru ffydd gadwedigol oddiwrth sicrwydd?

Er anhawsed, rhaid yw cadw at y gwahaniaeth. Fe roddir sicrwydd i ffydd o angenrheidrwydd fod Crist yn Waredwr; ond gall ei hymddiriedaeth bersonol hi vnddo Ef fod yn ei symlwrwydd yn anturiaeth (*venture*) noeth o eiddo'r enaid.—*Bendigedig yw y rhai ni welsant, ac a gredasant* (Ioan xx. 29).

17. Onid hyn yw y gwahaniaeth rhwng sicrwydd ffydd a sicrwydd gobaith?

Nage: yr unig wahaniaeth rhwng y rhain yw yr un parthed y mwynhad presennol a'r mwynhad tragwyddol o fendithion y cyfamod; y mae ffydd yn sicr yr awrhon, y mae gobaith yn sicr am y dyfodol.

18. Beth sydd i'w ddeall wrth alw y dystiolaeth hon yn ddigyfrwng?

(1) Ni a'i gwahaniaethwn trwy hyn oddiwrth y dystiolaeth anuniongyrchol a ddug yr Yspryd ym moddion allanol grâs. Efe a ddaw trwyddynt hwy i gyffyrddiad personol âg yspryd y credadyn; ac Efe a weithreda sicrwydd iddo, gydag ef, ac ynddo.

(2) Gwanhanaethir hi hefyd oddiwrth y dystiolaeth anuniongyrchol a ddug Efe trwy ffrwythau y natur newydd a welir yn y fuchedd.

19. A elwir y dystiolaeth hon o galon a buchedd gyfnewidiedig yn dystiolaeth yr Yspryd?

Gelwir hi yn gyffredin yr eiddom ni ein hunain: *Yr hwn a dderbyniodd Ei dystiolaeth Ef, a seliodd hyn, mai geirwir yw Duw* (Ioan iii. 33). Hyn yw tystiolaeth ein cydwybod, neu ein hymwybyddiaeth foesol ein hunain ein bod mewn cyflwr o râs: *Os ein calon ni'n condemnia, y mae gennym hyder ar Dduw. Canys ein gorfoledd ni yw hyn, tystiolaeth ein cydwybod, mai mewn sanctridd rwydd a phurdeb duwiol . . .* (1 Ioan iii. 21; 2 Cor. i. 12). Yma, fe ddefnyddia yr apostol, am dano ei hun o leiaf, yr unrhyw air (*kaúchêsis*) ag a ddefnyddia pan yn llefaru am dystiolaeth yr

Yspryd: *Eithr gorfoleddu yr ydym hefyd yn Nuw, trwy ein Harglwydd Iesu Grist, trwy yr Hwn yr awrhon y derbyniasom y cymod* (Rhuf. v. 11).

20. Beth yw rhediad cyffredin y Testament Newydd am gyffredinolrwydd y rhagorffaint hon?

(1) Datgenir y'mhobman mai rhagorffaint cyffredin y cyflwr o rās yw: nid un a estynnir i'r sawl sydd wedi cyrraedd safle uchel mewn duwioldeb; nac un i'w cheisio chwaith fel profiad uwchraddol. Dywed St. Paul, gan lefaru ohono megis yn y llys Cyfryngol: *A nyni gan hynny, wedi ein cyfiawnhau trwy ffydd, y mae gennym heddwch â Duw trwy ein Harglwydd Iesu Grist. Trwy yr Hwn hefyd y mae i ni ddysfodfa trwy ffydd i'r grās hwn, yn yr hwn yr ydym yn sefyll; ac yn gorfoleddu dan obaith gogoniant Duw* (Rhuf. v. 1, 2).

(2) Yn y deml hefyd, ni a ddarllennwn am yr un hyder tawel o sicrwydd. *Am hynny, frodyr, gan fod i ni hyder i fyned i mewn . . . neshawn â chalon gywir, mewn llawn hyder ffydd* (Heb. x. 19, 22). Yr ydym yn MYNED I MEWN i'r unrhyw gyflwr sicr o rās: pa un bynag a'i fel cyfiawnder a'i sancteiddhad.

(3) Ond yn bennaf fel plant i Dduw y mae y dystiolaeth yn eiddom, yn fewnol, yn barhâol ac yn gyffredinol: *A hon yw y dystiolaeth, roddi o Dduw i ni fywyd tragwyddol, a'r bywyd hwn sydd yn Ei Fab Ef. Yr hwn y mae y Mab ganddo, y mae y bywyd ganddo.* A dywedir am yr hwn sydd yn credu, *Y mae ganddo y dystiolaeth ynddo ei hun* (1 Ioan v. 10—12).

21. Beth yw neulltuolrwydd yr ymadrodd diweddaf hwn?

Mai tystiolaeth derfynol yr Ysgrhythur yw i'r sicrwydd hwn.

§ 3. Am Barhâd mewn Grās.

1. Beth yw safle y gair parhâd yng ngweinyddiad yr Yspryd?

A siarad yn fanwl, perthyn y mae i foesau y bywyd Cristionogol. Ond cyflwynir ef yma i ddynodi y grās neulltuol hwnnw a roddir yn ernes i'r Cristion yn ei stâd o brawf.

2. Beth yw sail neu ffynhonnell y grās hwn?

Megis ei gweinyddir gan yr Yspryd, ei sail yw digonolrwydd darpariaeth iawnol yr Efengyl; eiriolaeth ac Ewyllys Crist;

megis mai ei sail yn enaid y credadyn yw preswyliaid mewnol ac ac effeithiol yr Yspryd Ei Hun.

3. Oni atega y tri hyn gyda'u gilydd yr holl athrawiaeth o barthed terfynol angenrheidiol?

Diau y gwnant, yn eu pherthynas â chredinwyr ffyddlawn, y rhai ydynt ffyddloniaid (*pistoî*) yn y ddwy ystyr o'r gair: *y galwedig ac etholedig a ffyddlawn* (Dat. xvii. 14). Y mae y tri term hyn nid yn unig yn gyd-berthynasol: ond y maent yn gynhyddol hefyd.

4. Pa berthynas neulltuol sy' rhwng eiriolaeth ein Harglwydd â hyn?

(1) Efe a ddatgana Ei ewyllys, a'i ddymuniad, y ddau, ar fod i'w Dad eu *cadw hwynt rhag yr un drwg* (Ioan xvii. 15), sef y rhai a ystyria Efe a roddasid iddo fel Ei eiddo Ei Hun: *yr hyn a roddaist i mi* (ad 24). Cynhwysa y geiriau hyn fod y cyfryw eiddo, er wedi eu rhoddi iddo Ef, yn gofyn amddiffyniad neulltuol ac y gallesid ei golli.

(2) Ar ol yr esgyniad y mae ein Harglwydd *yn erfyn trosom ni* (Rhuf. viii. 26—35). Y mae Efe Ei Hun yn eiriol yn erbyn pob gelyn a ddichon ein *gwahanu ni oddiwrth gariad Crist*; a'r atebiad i'w eiriolaeth Ef yw *gras yn gymhorth cyfamserol* (Heb. iv. 16). Ond fe'n hanogir *na dderbynioch ràs Duw yn ofer* (2 Cor. vi. 1); am hynny y mae y diddanwch effeithiol a ddiogelir yn dystiolaeth ynddo ei hun i'n cyflwr o brawf, ac i'n hiechydwrïaeth amodol.

(3) Ffrwyth eiriolaeth ein Harglwydd yw y dawn o breswyliaid mewnol yr Yspryd: *Chwi a seliwyd â Glan Yspryd yr addewid . . . hyd brynedigaeth pwrcas Duw Ei Hun* (Eph. i. 13, 14); eithr nid yw *eis*=hyd, yma fodd bynnag, yn ddolen nas gellir ei thorri.

5. A all cariad y Gwaredwr at yr eiddo Ei Hun gael ei faeddu a'i siomi?

Efe Ei Hun sy'n dywedyd: *Od erys un ynnof Fi, efe a daftwyd allan megis cangen ac a wywodd* (Ioan xv. 16). Ac anhawdd yw dehongli Ei wylofain Ef am Judas amgen nag fel cydnabyddiaeth ei fod yn wrthodedig, hynny yw, yn wrthodedig gwedi prawf. *Ni chollwyd un ohonynt, ond mab y golledigaeth* (Ioan xvii. 12).

6. A ellir maeddu gallu yr Yspryd gan yspryd dyn ?

Ni a ddarllennwn y gellir ei dristâu, ei ddiffoddi, chwenychu yn ei erbyn; sefyllfaoedd o wrthwynebiad. Nid ydys byth yn gwadu y gellir ei drechu yn derfynol trwy gyndynrwydd parhâol, ac awgrymir hynny yn amlwg ddigon mewn rhai ymadroddion : megis y'ngeiriau St. Judas wrth Gristionogion syrthiedig *heb fod yr Yspryd ganddynt* (Jud. 19 ad.).

7. Pa ddadl Ysgrythyrol a geir dros sicrwydd amodol o iechydwriaeth derfynol ?

Holl rediad anogaethau yr Ysgrythur, cymerer un esiampI nodweddiadol yn engraifft. Fe rybuddia Gair Duw fel hyn : *Edrychwch, frodyr, na bo un amser yn neb ohonoch galon ddrwg anghrediniaeth, gan syrthio ymaith oddiwrth y Duw byw, eithr cynghorwch eich gilydd bob dydd, tra y gelwir hi Heddyw ; fel na chaleder neb ohonoch trwy dwyll pechod ; canys fe a'n gwnaed yn gyfranogion o Grist, os daliwn yn ddiogel, ddechreuad ein hyder yn sicr hyd y diwedd.* Yr os gyda phwyslais (Heb. iii. 12—14).

8. Y'mha fodd y mae yr esiampI hon yn nodweddiadol ?

(1) Fel esiampI rybuddiol i Gristionogion, hi a rydd bwys arbennig ar wrthodiad personau unigol, tra y cadwyd y genedl fel cyfangorff : y mae corff Crist, yr hwn yw yr Eglwys yn hollol ddiogel, ond golygir iechydwriaeth bersonol fel o dan brawf.

(2) Dedy argraff ddofn ar HEDDYW sefyllfa prawf.

(3) Llefara am syrthiad ymaith oddiwrth y Duw byw : hyn yw marwolaeth enaid a fuasai fyw yn Nuw.

(4) Disgrifia bechod yn y canlyniadau ohono—fel calediad, a gwrthodiad.

(5) Datgana yn bendant yr hawlia undeb â Christ yn dragwyddol ar fod i hyder sicrwydd gael ei ddal yn sicr hyd y diwedd.

Fel hyn, caiff holl elfennau ein hathrawiaeth—prawf, sicrwydd, a pharhâd amodol—eu datganiad cryfaf yn yr ymadrodd hwn, engraifft o lawer ereill.

9. Eithr onid oes ardderchog lu o ymadroddion a redant i gyfeiriad arall ?

Oes, yn y ddau Destament, a rhaid yw peidio a'u hyspeilio o'u hystyr y'mhlaid unrhyw athrawiaeth.

10. Sut y mae cysoni y cyfeiriadau gwrthgyferbyniol hyn?

Trwy gofio y pwyntiau canlynol :—

(1) Fod yr holl Eglwys sydd wedi ei *pherffeithio yn un* (Ioan xvii. 23) yn bresennol bob amser mewn datguddiad, megis pe wedi ei chadw eisoes *ym mwriad Duw*.

(2) Yr edrycha un ran o'r tystiolaethau ar y cyflawniad fel pe yn rhagwybyddus i Dduw eisoes; tra yr anerchir ni gan y rhan arall fel rhai svdd yn gweithio allan ein hiechydwrriaeth. Am y flaenaf:—*Y rhai a ragwynebu a ragluniodd Efe hefyd i fod yn gydffurf a delw Ei Fab Ef. . . A'r rhai a ragluniodd Efe, y rhai hynny hefyd a alwodd Efe; a'r rhai a alwodd Efe, y rhai hynny hefyd a gyfiawnhaodd Efe; a'r rhai a gyfiawnhaodd Efe, y rhai hynny hefyd a ogoneddodd Efe* (Rhuf. viii. 29, 30). Am yr olaf, ceir cadwen gyferbyniol o rinweddau yn y rhai ein hanogir i arfer pob diwydrwydd er gwneuthur *ein galwedigaeth a'n helhol-edigaeth yn sicr; canys tra fyddoch yn gwneuthur y pethau hyn, ni lithruch chwi ddim byth* (2 Pet. i. 10). Rhaid yma yw cysoni St. Paul a St. Petr.

(3) Fod dirgelwch trefn y cymod uwchlaw ein galluoedd ni; ond ei bod, er hynny, yn gwbl o fewn cylch ein dyletswydd ymarferol.

§ 4. Ymdriniaeth Hanesiol.

1. Beth yw perthynas diwinyddiaeth hanesiol â phrif dermau y bennod hon?

Y maent wedi eu cyd-gyfuno dan ddwy agwedd dra gwa-hanol; ac amrywiant yn ol y syniadau a goleddir parthed natur y cyfamod grâs yng Nghrist.

2. Gwahaniaethwch y ddwy?

(1) Yn ol y naill, bu i'r cyfamod prynedigol rhwng y Tad a'r Mab fel Cyfryngwr, a'r Ysryd Glân fel Gweinyddwr, warantu iechydwrriaeth nifer penodol o ddisgynyddion Adda: ar yr egwyddor hon cŷll prawf ei gyflawn ystyr, sicrwydd pan ei cyr-haeddir sicrhâd o iechydwrriaeth yw, a gwarantir parhâd yn derfynol.

(2) Yn ol y llall, â Christ y mae y cyfamod, fel Gwaredwr yr hiliogaeth; ac, yn gymaint nad achubir yr holl hiliogaeth, prawf yr oll yw safon-brawf (*test*) pob un, i iechydwrriaeth bresennol y

perthyna sicrwydd, a pharhâd sydd râs neu rinwedd o eiddo crefydd ar yr hwn y dibynna derbyniad terfynol, a siarad yn ddynol, fel amod.

3. Pa un o'r golygiadau hyn a gafodd y flaenoriaeth mewn hanes Cristionogol?

Yr olaf. Cyn amser Awstin nid oedd i'r blaenaf, fel y gwelwyd, ddatganiad croyw. Er amser Awstin, ond yn enwedig er adeg adfywiad Rhagarfaethiad gan Calfin, ac enwedig oll y Ddiwinyddiaeth Gyfamodol a darddodd allan o'i gyfundrefn ef, y ddwy olygwedd hyn am y Cyfamod Cristionogol sydd wedi llywodraethu a rhannu opiniwn diwinyddol ar y pyngciau hyn. Y mae y ddadl. serch hynny, yn graddol wanhâu.

4. A yw Rhagarfaethwyr yn seilio eu golygiadau am brawf, sicrwydd, a pharhâd yn gwbl ar anghyfnewidioldeb y cyfamod prynedigol?

Dyna yw eu hamddiffynfa: yng ngoleuni eu argyhoeddiad ar y pwngc hwn y dehonglant yr holl Ysgrythur. Rhydd rhai ymadroddion ategiad iddynt; ac ereill a ballant yn hynny a wŷyr ganddynt i ufudd-dod, neu a roddir i fyny nes cael arnynt lewyrch y dyfodol.

5. Eithr onid Penarglwyddiaeth Ddiamodol Duw yw eu noddfa derfynol?

Gellir dweud mai dyna yw, er yr ymgeidw llawer rhag y fath ymadrodd. Tybir y cynrychiolir ewyllys Duw o'r hon nis rhydd unrhyw gyfrif, gan y Tad, cyngor yr Hwn yr ymgysmododd y Mab i'w gyflawni, am yr hyn, fel gwobrwyr, y rhoddasid iddo ran o ddynolryw gan y Tad. Â yr Yspryd Glân i mewn i'r cyfamod fel ei Weinyyddwr dyfodol ar ran y Tad a'r Mab—y ddau. Wedi i'r cyfamod hwn gael ei ganiatâu, neu ei gymeryd yn ganiatâol, nid oes angen prawf pellach ar barhâd terfynol y saint: rhaid a dylid cysoni yr Ysgrythyrau âg ef.

6. Pa le y ceir y sail Ysgrythyrol dybiedig i hyn?

Yma eto, ni ddibynna y derbyniad Rhagarfaethol o'r Efengyl yu gymaint ar rannau penigol o'r Ysgrythur ag a wna ar holl hanes a dirgelwch trefn cadwedigaeth, yr hon a olygir fel gwaredigaeth weithredol y rhai yr ymgysmododd y Gwaredwr â'u lle trwy ddirprwyaeth iawnol, gan ddioddef ohono Ef yn eu lle gospedigaeth a mellidith y ddeddf, a'r Hwn yn eu lle hwynt a anrhydeddodd y

ddeddf honno trwy ufudd-dod. Unwaith y meddiennir y meddwl gan y cyfryw syniad, yna efe a gaiff hefyd fod y gair datguddiedig yn llawn ohono.

7. Onid oes adrannau arbennig?

Fe ddyfynnir geiriau ein Hiachawdwr: *Yr hyn oll y mae y Tad yn ei roddi i mi a ddaw ataf Fi* (Ioan vi. 37). Eithr Efe a ychwanega, *Pob un gan hynny a glywodd gan y Tad, ac a ddysgodd sydd yn dyfod ataf Fi* (Ioan vi. 45), ac y'mhellach, Efe a alara dros un a roddasid iddo, am ddarfod ei golli, fel *mab y golledigaeth* (Ioan vii. 12).

8. Onid oes atebiad mwy uniongyrchol?

Oes : fe gyfeirir yn yr holl adrannau hynny o'r Ysgrhythur a draethant am etifeddiaeth a meddiannau yr Iachawdwr, at y rhan honno o ddynolryw y rhagwelir eu cadwedigaeth : iechydwrriaeth y rhai sydd yr awrhon yn ffaith bresennol i Hollwybodaeth ; ond gwneir hynny heb unrhyw gyfeiriad o angenrheidrwydd at fwriad rhagarfaethol.

9. Pa fodd yr effeithia y golygiad hwn am gyfamod tragywyddol ar yr athrawiaeth o brawf yn enwedig?

Nid yn llwybr prawf y cedwir gwaredigion yr Arglwydd. Gwedi i brawf yr Adda cyntaf droi yn fethiant o dan y cyfamod gweithredoedd tybiedig, ymgwymerodd yr Ail Adda â'r prawf Ei Hun, gan ddyfod ohono yn Feichniydd dros yr eiddo : eiddo Ef, mewn gwirionedd oedd y prawf (*test*) nid yr eiddynt hwy.

10. Oni chaniata y gyfundrefn hon unrhyw brawf i'r saint?

Gwna : rhoddir prawf ar eu gweithredoedd hwy eu hunain, a cheir hwy yn brin, a gwrthodir ac anghymeradwyir hwynt, yng ngolwg Duw, ac yn eu golwg eu hunain ; ac, y'mhellach, gall ffrwyth y prawf yn eu hachos hwy benderfynu eu safle berthynasol yng ngwobrwy y gogoniant.

11. A wna hyn gyflawnder â'r gyfundrefn?

Nid hollol : canys maentumir ei holl drefniant o brawf ar y tir fod y saint yn rhagarfaethedig i'r moddion yn ogystal ag i'r amcan. Y'mhellach, honnir gan ei diffynwyr mai yr amodau hyn eu hunain, ar y rhai y gosodwn gymaint pwys, ydynt wir

rasusau y freinlen. Er engraffft, amodau ydynt edifeirwch a ffydd yn ddiau; ond grâs yn unig yw a'u rhydd hwynt, yn, gyda, ac yn ddilydol i'r enedigaeth newydd.

12. Pa ddylanwad penodol a garia dros yr athrawiaeth o sicrwydd?

Gesyd y prif bwys ar sicrwydd gwrthddrychol cadernid y cyfamod prynedigol. Sicrwydd personol deiliadol sydd râs neulltuol, i'w geisio a'i gael; ond yr hwn pan ei derbynier, sydd sicrwydd am byth.

13. Beth ellir ei ddweud am hyn?

Y cyfynga yn ormodol, ar y naill law, fendith a wneir yn y Testament Newydd yn ragorfraint gyffredin; tra ar y llaw arall y mawrhâ yn ormodol y ragorfraint honno, trwy ei gwneud i gynnwys yr hyder o barhâd terfynol.

14. Yna, beth yw ei dysgeidiaeth fanol parthed parhâd terfynol?

Nas gellir colli neb o'r sawl y bu Crist farw drostynt: gan eu bod yn ordeiniedig nid yn unig i fywyd tragwyddol, ond hefyd i'r cyfryw wylidwraeth a dyfalwch yn eu cyflwr prawf ag a arweinia iddo.

15. A yw y pwynt olaf hwn yn hanfodol i ragarfaethiad?

Defnyddir llawer arno mewn dadl, a mwy fyth ym mywydau difrifol y rhai a'i defnyddiant; ond nid yw yn hanfodol, canys y mae Crist wedi *cael i ni dragwyddol rhyddhad* (Heb. ix. 12). Gall yr hwn sydd wedi adeiladu ar y sylfaen weled ei holl adeiladaeth yn llosgi, *eithr efe ei hun a fydd cadwedig, eto felly megis trwy dân* (1 Cor. iii. 12). Y mae efe wedi *ei ordeinio i fywyd tragwyddol* (Act. xiii. 48): am y sawl y dywedodd ein Harglwydd, *Pr ydwyf Fi yn rhoddi iddynt fywyd tragwyddol, ac ni chyfrgollant byth* (Ioan x. 28).

16. A ellir gwrthsefyll y pedwarawd hwn o adnodau?

Na ellir; y rhain ydynt y brif angor dragwyddol yn *treiddio i'r hyn sydd o'r tu fewn i'r llen i bawb sydd yn parhau yn y ffydd, wedi eich seilio a'ch sicrhau, ac heb eich symud oddiwrth obaith yr Efengyl* (Heb. vi. 19; Col. i. 23). Ond, gellir eu gwyr-droi i raddau peryglus.

(1) O berthynas i'r gyntaf, nid yw y brynedigaeth dragwyddol, yn unrhyw fodd yn gyfyngedig : ac nis gall fod, canys ychwanega St. Ioan, wrth lefaru ohono yn benodol am yr Eiriolwr, dros ei bobl, y rhai a allasent fod yn pechu, mai *Efe yw yr Iawn dros ein pechodau ni, ac nid dros yr eiddom ni yn unig, eithr dros bechodau yr holl fyd* (1 Ioan ii. 1, 2).

(2) O berthynas i'r ail, llefaru y mae St. Paul am y gauathrawon hynny, a adeiladant ar yr unig sylfaen adeiladaeth ddarfodedig.

(3) Y rhai a ordeiniwyd (*tetagnénoi*) i fywyd tragwyddol ydynt y rhai oeddynt ar y pryd hwnnw wedi eu trefnu neu eu darparu ar ei gyfer. Nid yw rhagordeiniad neu rhagarfaethiad i fywyd, yn feddylddrych ysgrythyrol : nyni a ragordeinir yn unig i *fod yn gyd-ffurfiedig a delw Ei Fab Ef* (Rhuf. viii. 29), a hynny nid yn y dyfodol yn unig, er mai y pryd hwnnw yn bennaf.

(4) Ychwanega ein Hiachawdwr, *ac ni ddwg neb hwynt allan o'm llaw I* (Ioan x. 28 ; vi. 66). Nid yw yn dywedyd nas gallent ei adael a pheidio a'i ganlyn Ef mwyach. Ac nis gallai, canys yn yr unig alegori arall o'i eiddo, sef yr un, am y winwydden, yr hon sydd gysylltiedig âg alegori y defaid, Efe a ddywed : *Onid erys un ynof Fi, efc a daflwyd allan megis cangen, ac a uywodd* (Ioan xv. 6). Rhaid yw peidio a gwahanu Ioan x. a'r xv.

17. Ar ba ymadroddion ereill y dibynna y ddamcaniaeth hon am yr Efengyl ?

Gellir crybwyll tri dosparth, y rhai a gyfeiriant at y tri chyflwr o gyfiawnhâd, ail-enedigaeth, a sancteiddhâd, pob un fel eu gilydd.

(1) O barthed i gyfiawnhâd dragwyddol ac angenrheidiol : *y rhai a alwodd Efe, y rhai hynny hefyd a gyfiawnhâodd Efe, a'r rhai a gyfiawnhâodd Efe, y rhai hynny hefyd a ogoneddodd Efe* (Rhuf. viii. 30).

(2) O barthed i fywyd newydd nad yw byth i'w fforffedu : *Wedi eich hail-eni, nid o hâd llygredig, eithr anllygredig* (1 Petr i. 23).

(3) O barthed i sancteiddhâd dihalog i Dduw : *Trwy yr hon cwyllys yr ydym ni wedi ein sancteiddio, trwy offrymiad corff Iesu Grist umwaith* (Heb. x. 10).

18. Sut y gellir gwrthwynebu y tystiolaethau hyn ?

Nid oes angen eu gwrthwynebu : hwynt-hwy ydynt gadernid

crefydd. Y rhai hyn ydynt y gogoneddus bethau a ddywedir am yr Eglwys, a pherthynant i bob un sydd yn ffyddlawn. Nid yw cyfiawnhâd yr ymadrodd cyntaf, fodd bynnag, wedi'r cyfan ond un ddolen mewn cadwen o ddigwyddiadau yr edrychir yn ol arnynt megis o'r dyfodol sefydledig. Y fath yw y bywyd aninystradwy fel y cyfryw mewn cyferbyniad i holl ogoniant y cnawd: ni ddywedir yn unlle nas gall y byw ddyfod ddwywaith yn farw. Y sancteiddhâd tragwyddol hwn, rhan y *rhai sanctaidd* yw, y rhai a fyddant *sanctaidd eto*. Cyfeirio y mae yr *unwaith* at offrymiad Corff yr Arglwydd, ac nid at ei rinwedd ynom ni (1 Petr. i. 24; Jud. 12; Dat. xxii. 11; Heb. x. 10).

19. Onid yw y golygiad cywir am ein tair athrawiaeth dan sylw yn perthyn i gyfundrefnau ereill amgen na'r rhai rhagarfaethol?

Yn ddiamheuol: y mae gwirionedd y cyflwr prawf yn arbrawf (*test*) ar bron pob damcaniaeth Gristionogol.

20. Y'mha fodd, er engraifft y dylanwada ar sacramentariaeth?

Tuedda y gyfundrefn honno i raddau nid bychan, yn y llawn ddadblygiad ohoni, i ysgafnhau baich cysegredig cyfrifoldeb personol; a'i pherygl yw, y'mhob ffurf ohoni, lleihau yr ymdeimlad o ddifrifoldeb anrhaethol a berthyn i'r cyflwr prawf.

21. Onid oes berygl gwrth-gyferbyniol?

Oes; eiddo y sawl a wadant athrawiaeth sicrwydd, gan ei senni fel penboethni: gan wneuthur ohonynt yr oll o ddisgyblaeth grefyddol bywyd yn rhyw ddisgwyliad ofnadwy am ddedfryd derfynol. *Canys nyni yn yr Yspryd trwy ffydd ydym yn disgwyl gobaith cyfiawnder* (Gal. v. 5): er defnyddiad gochelgar, y nodir hyn ar y naill ochr. *Llawenhewch yn yr Arglwydd yn wastadol* (Phil. iv. 4). Hyn yw y cyferbyniad tangnefeddus yr ochr arall.

22. Beth yw gogwydd ein hathrawiaeth o berthynas i'r damcaniaethau am y dyfodol?

(1) Y mae y golygiad cywir am brawf, gan gymeryd i mewn ei holl ystyr, yn anghyson ag unrhyw arbrawf (*test*) moesol yn y cyflwr canolog (*intermediate state*): er mai dydd y farn yw y terfyniad arno, y mae felly yn unig fel yr amlyga yn derfynol

ganlyniadau y prawf a wnaed mewn amser : *Canys apwyntiwyd i ddynion farw unwaith, ac wedi hynny bod barn* (Heb. ix. 37).

(2) Fe ellid cysoni dilëad y gwrthodedigion âg un ystyr o wrthodedigaeth; ond nid gyda llawn ystyr barn yn yr hon *y derbynia pob un y pethau a wnaethpwyd yn y corff, yn ol yr hyn a wnaeth* (2 Cor. v. 10).

(3) Nid yw adferiad cyffredinol yn gyson â'n hathrawiaeth; am y byddai i brawf, yn ol unrhyw ddehongliad o'r ddamcaniaeth hyf honno, gael ei orthrechu gan anfeidrol räs.

23. Eithr pa gyfeiliornad diwinyddol y mae dysgeidiaeth yr Ysgrythur yn ei wrthwynebu gadarnaf?

Antinomiaeth, ddamcaniaethol ac ymarferol.

24. Y'mha fodd ei gwrthwynebir yn effeithiol gan ein hathrawiaeth?

Trwy argymell Moesau Cristionogol fel Moes-ddysg y Drefn Brynedigol.

PENNOD VI.

**Moesau Cristionogol, neu Foesddysg y
Prynedigaeth.**

1. Beth a ddeallwn wrth foesau Cristionogol?

Ymarweddiad bywyd yn ol yr egwyddorion sy'n gynhwysedig yn efengyl Iesu Grist, yr Hwn fel Mab Ymgawdloedig Duw, yw y Deddfroddwr Goruchel.

2. Paham y cyflwynir y pwngc hwn ger bron o dan weinyddiad yr Yspryd?

Oblegid mai o'r cyflwr hwnnw o rās i'r hwn y cyflwynir credinwyr gan yr Yspryd Glân y tardd y bywyd moesol newydd allan. Ni a welsom eisoes beth yw y cyflwr hwnnw o rās, y'nghyd a'i gymeriad profiannol (*probationary*); y mae yn aros i ni ystyried beth yw y bywyd newydd, fel ffrwyth y prynedigaeth, a pha fodd ynddo y rheoleiddir ac y cyflewnir yn llwyddianus y prawf Cristionogol.

3. Ai dyna a feddylir wrth yr ail bennawd, sef Moesddysg y Prynedigaeth?

Tardd y geiriau Ethigau (*Ethics*), a moesau, y naill o'r Roeg *ethos*, a'r llall o'r Lladin *mos*, a dynodant yr arferiad moesol, neu fucheddol. Ond y mae eu cysylltiad â phrynedigaeth yn cynnwys dau beth: (1) yr ymarweddion hyn ydynt y bywyd newydd fel y mae yn seiliedig ar egwyddorion sylfaenol ein prynedigaeth yng Nghrist yn gyffredinol; yn (2) hwy ydynt y bywyd newydd fel y tardd oddiar y prynedigaeth fel profiad personol.

4. Onid ydym trwy hyn yn cyfyngu cylch moesau yn ormodol?

Dim o gwbl: canys (1) y mae y prynedigaeth yn gyffredinol yn ei effaith ar ddynolryw, a chan hynny gellir cysylltu â hi foesau yn eu hystyr eangaf; ac yn (2) fe ddarpara prynedigaeth neu waredigaeth bersonol y sawl a'i derbynïa i arddangos moesolrwydd yn ei holl gylchoedd, ac nis gedy un ohonynt heb ei noddi â gorchymynion.

5. Pa fodd y gellir egluro y pwngc, yn y cyfryw olygwedd?

Trwy ystyried yn y lle blaenaf egwyddorion penigol cyfundrefn foesol Cristionogaeth. Ar ol gwneuthur hyn gallwn gymeryd i fyny y cymhwysiad o'r cyfryw egwyddorion yn eu perthynas â chymeriad personol, ac mewn perthynas â bywyd y werin Gristionogol : hynny yw, Moesddysg Gymhwysiadol.

I.

**Egwyddorion Moesddysg Gristionogol
fel y cyfrwm.**

1. Pa rai ydynt ein prif byngclau yma?

Yn y lle blaenaf rhwymir ni gan ein teyrngarwch i dalu gwarogaeth i'r Deddfroddwr Newydd ; yna gallwn efrydu Ei ddeddfwriaeth yn ei pherthynas âg athroniaeth foesol fel gwyddor ; ac yn olaf, gallwn nodi allan egwyddorion newydd deddf Gristionogol, fel y maent yn seiliedig ar yr efengyl.

**2. Onid oes anhawster rhagarweiniol yn y gair
Newydd, yn ei berthynas â moesolrwydd
tragwyddol a digyfnawid?**

Nac oes, ond ei iawn-ddeall. Un perthynasol yw y gair newydd, ac y mae iddo dair o ystyron mewn diwinyddiaeth ; yn y cysylltiad hwn cyflawniad yr hen ydyw ; dechreuad yw fel yn meddu ar holl rym datguddiad uwch ; ac y mae yn ddechreuad trefniant gwell. Yn yr ystyron hyn i gyd y mae y ddeddfwriaeth Gristionogol yn newydd.

§ 1. Iesu Grist y Deddfroddwr.

1. Beth ydyw ystyr gyflawn y gair deddfroddwr?

Y mae iddo ddwy ystyr. Y flaenaf a phennaf, yr ystyr o awdurdod goruchel yng ngosodiad deddf foesol. *Un gosodwr cyfraith sydd* (Iago iv. 12). Mewn ystyr is, dirprwywr, neu weinidog apwyntiedig i draddodi ac i osod mewn trefn amrywiol ordinhadau y Deddfroddwr goruchel hwnnw. *Oni roddes Moses i chwi y gyfraith?* (Ioan vii. 19).

2. Yn mha un o'r ddwy ystyr y mae ein Harglwydd yn ddeddfroddwr?

Yn y ddwy ystyr. Fel y Mab Tragwyddol, y mae ganddo awdurdod Dwyfol: *fel yr anrhydeddai pawb y Mab, fel y maent yn anrhydeddu y Tad* (Ioan v. 23). Fel yr Arglwydd Ymgawdoledig, y mae wedi ei osod *fel Mab dros Ei dy Ei Hun* (Heb. iii. 16) gydag uwchafiaeth dirprwyol. Yn y ddwy ystyr, fel y maent yn gyfunedig, Efe ydyw *ffynhonnell deddf: Gwrandawch arno Ef* (Matth. xvii. 5).

3. A sylwir gennym ar unrhyw wahaniaeth rhwng y rhain yn y Testament Newydd?

Dysgeidiaeth nodweddol yr Efengylau a'r Epistolau fel ei gilydd yw mai yr Arglwydd Iesu yn Ei Berson anwahanadwy, yw yr awdurdod terfynol. Nid ydynt yn gofyn y'mha ystyr.

4. Eithr onid oes berthynas neulltuol rhwng uchafiaeth ein Harglwydd mewn moesau, a'i waith cyfryngol?

Oes, yn ddiameu; megis y danghoswyd yn athrawiaeth y tair swydd. (1) Yn Ei berthynas Ef â ni: trwy Ei farwolaeth iawnol y mae condemniad y ddeddf wedi ei symud, a'r Yspryd wedi ei ddiogeli, er ein hufudd-dod newydd. (2) Ym mherthynas âg Ef Ei Hun: Efe a enillodd fel Duw-ddyn, awdurdod goruchel dros y byd a waredodd, yr hwn a wnaeth Efe yn deyrnas iddo Ei Hun.

5. Oni chyflwynir Ef i ni, serch hynny, fel yn gosod esiaml o ufudd-dod?

Gwneir: ond yn y mater hwn rhaid yw ini wahaniaethu yn ofalus.

(1) Gwnaethpwyd y Mab *dan y ddeddf* (Gal. iv. 4), fel y gwnaethpwyd Ef *yn felldith drosom ni* (Gal. iii. 13), ac fel y gwnaethpwyd Ef *yn gnawd* (Ioan i. 14), gan barhau ohono Ef o hyd yn y tair agwedd yn hanfodol Ddwylol. Duw ydoedd a ddaeth yn gnawd, yr Un Bendigedig ydoedd a ddygodd y groes, a'r Deddfroddwr uwchlaw deddf ydoedd a *ddysgodd ufudd-dod* (Heb. v. 8): hynny yw, yr hwn a ddysgodd, nid i ufuddhau, ond yr hyn a fwriadai ac a ofynnai Ei ufudd-dod dioddefus.

(2) Ei esiaml Ef perffaith gariad ydoedd at Dduw a dyn; yr hwn a ddanghoswyd yn Ei hunanaberth perffaith, ac i'r hwn yn

wir y cyfyngir ei gymeriad yn gyffredin fel y mae yn esiampl trwy yr holl Destament Newydd. Ond rhaid yw cofio mai cynllun (*hupódeigma*) goruchel ein hymngais uchaf yw Efe, yn hytrach nag esiampl ein crefydd mewn neulltuolion; CYNLLUN perffaith yn hytrach na SIAMPL perffaith (Ioan xiii. 15).

6. Beth oeddynt nodweddion deddfwriaeth ein Harglwydd?

Rhaid ei golygu ym mherthynas â deddf foisol yn gyffredinol, ac yn neullduol ym mherthynas y ffurf honno o'r ddeddf a fodolai eisoes y'mhlith y genedl Iuddewig.

7. Pa fodd y darfu iddo Ef ymddwyn tuag at y ddeddf Iuddewig?

Efe a'i anrhydeddodd ar bob pwynt megis petai Efe Ei Hunan yn weinidog yr enwaediad. Ond wrth ei anrhydeddu Efe a'i diddymodd hi fel deddf seremonïol, a gyflawnwyd ynddo Ef Ei Hunan, y sylwedd mawr; nid cyn ar ol y Pentecost, pa fodd bynnag y gwelwyd hyn yn eglur. Bu i ddeddfau gwladol yr hen ddwyflwyiaeth gael eu newid yn dawel i ddeddfau teyrnas newydd y nefoedd. Am y ddeddf foisol, megis y rhêd trwy ddeddfwriaeth Foesennaidd, ac y crynhoir hi yn y dengair, Efe a ddywedodd yn bendant: *Ni ddaethum i dorri, ond i gyflawni* (Matth. v. 17).

8. Beth ydoedd Ei berthynas Ef â deddf foisol yn gyffredinol?

Efe a ddaeth i'r byd er adfer dyn i ufudd-dod, yn *ddiwedd y ddeddf er cyfiawnder* (Rhuf. x. 4). Gellir dweud mai hyn ydoedd amcan terfynol Ei holl waith. Am hynny Ei athrawiaeth Ef yw sylfaen moesddysg; y mae athrawiaethau penigol y ffydd i gyd yn gyd-rwymedig â moesau; a moesau neu dduwioldeb yw eu coron a'u diben.

§ 2. Y Ddeddf Cristionogol a Moeseg.

1. Beth sydd i'w ddeall wrth foeseg ac athroniaeth foisol?

Y gangen honno o wybodaeth sydd a wnelo â natur ddynol fel y mae wedi ei chyfansoddi yn foisol; hynny yw, fel y mae yn atebol i ddeddf iawnder a bai.

2. Beth yw perthynas moesoldeb Cristionogol â hyn?

Yn gywir megis y perthyna diwinyddiaeth naturiol i ddat-guddiad goruwchnaturiol. Fe gydnebydd moeseg Gristionogol egwyddorion sylfaenol moesddysg naturiol ac adeilada arnynt, ond rhydd ei hathrawiaethau penigol hi gymhwysiadau newydd iddynt, y rhai a redant trwy holl gwmpas moesau.

3. A oes cymaint a chyfatebiaeth rhwng y ddwy?

Mwy na hynny; canys un ydynt yn hanfodol: crefydd naturiol y byd ydoedd sail ei athroniaeth foesol yn flaenorol i ddyfodiad Crist; a tra thebyg yw yr achos wedi bod byth er hynny.

4. Pa rai ydynt egwyddorion sylfaenol moeseg a dderbynnir gan ddeddfwriaeth Gristionogol?

Yr oll o'r cyfryw ag ydynt yn wirioneddol sylfaenol: megis y rhai a fynegir gan iaith gyffredinol dynolryw fel yn perthyn i'r syniadau o Ddyletswydd, Rhinwedd a'r Daioni Pennaf.

5. Pa fodd yr ymdrefid Cristionogaeth â'r syniad moesol cyntaf, sef dyletswydd?

Y mae y syniad o ddyletswydd—yr hwn a fynegir gan y geiriau rhwymedigaeth, iawnder, a bai, cydwybod, dylid a rhaid, deddf, barn, gwobr, a chosp,—yn aros yn ddigyfnawid; ond Cristionogaeth, neu yn hytrach datguddiad, yn unig yw a esyd sail rhwymedigaeth foesol.

6. Pa fodd y gellir cadarnhau hyn?

Y mae moeseg fel y mae yn anibynnol, wedi bod yr hyn ei gwnaed gan ei damcaniaethau ar y pwngc hwn. Daw un ddamcaniaeth o hyd i sail moesau, neu yr hyn sydd yn gwneud da yn dda, yn natur pethau, syniad gwag a diystyr. Arall yw y meddylddrych o iawnder, yr hwn sy'n cardota y cwestiwn; arall yn synwyr moesol deiliadol dynolryw, yr hwn a wedy safon digyfnawid; arall yn y meddylddrych o gymwynasgarwch, neu ddaioni yr oll, yr hyn yw Buddgeisiaeth (*Utilitarianism*), neu ddedwyddwch dan luaws o ffurfiau; arall yn egwyddor gyffredinol deddf dadblygiad, yr hon nad ofna Dduw yn Ei awdurdod, ac ni pharcha urddas dyn. Cyfyd Cristionogaeth uwchlaw yr oll o'r rhain.

7. Beth ynte yw ei dysgeidiaeth?

Y medda dyn, a grewyd yn nelw Duw, ar sail ei rwymedig-aeth fel creadur yn y natur Ddwylol, ac fel gweithredydd moesol yn yr ewyllys Ddwylol.

8 Y'mha wedd y cyflenwa Cristionogaeth, yn hyn o beth, ddiffygion moeseg?

Trwy ei thair athrawiaeth, sef y cwmp, y prynedigaeth, a'r farn dragwyddol: y gyntaf yn egluro pa fodd y gwybydd dyn ddyletswydd nas gall ei chyflawni; yr ail sut y gall ei gwybod a'i chyflawni; a'r drydedd, beth ydynt ganlyniadau ei gyfrifoldeb.

9. Pa fodd yr ymdrefid a'r ail syniad moesol, sef rhinwedd?

Trwy dderbyn yma hefyd, yr holl eiriadaeth, er engreiff, fel eu gwelir yn y prif rinweddau cyntefig a chyffredinol a ffurfiwyd i arferion o ddoethineb, dirwest, gwroldeb, a chyfiawnder. Ond arddengys Cristionogaeth wir seiliau ac egwyddorion rhinwedd, gan ei mawrygu hi y'mhob cylch.

10. Pa fodd y canfyddir hyn?

Mewn llauws o ffyrdd. Y syniad ardderchocaf am rinwedd ar wahân i ddatguddiad, ydoedd yr un Stoicaidd o ddarostyngiad y teimlad i reswm: yn ol Cristionogaeth, goruchafiaeth yr Yspryd Glân ydyw, yn cyd-ffurfio yr holl ddyn â sancteiddrwydd Duw. Y mae y pedwar brif rhinwedd wedi dyfod y tri grasusau diwinyddol o ffydd, gobaith a chariad. Safon rhinwedd yw perffeithrwydd y natur ddynol, megis ei canfyddir ym Mab Duw. A dygir y rinweddau hynny a ddisgrifir gan wyddoreg foesol yn anghyraeddadwy, gan Cristionogaeth o fewn cyrraedd dyn.

11. Y'mha fodd yr ymdrinnir a'r trydydd syniad, sef y *summum bonum*, neu y daioni pennaf?

Derbynia Cristionogaeth y darnodiad goraf o eiddo gwyddoriaeth foesol—o Aristotle i lawr hyd Kant: a dyna yw hwnnw, sef yr hyn a argeisir fel amcan ynddo ei hun, ac nid fel moddion i gyrraedd amcan. Ond danghosir mai daioni pennaf dyn yw, nid dedwyddwch, ond gwynfydedd,—GWYNFYDRDD YN NUW.

12. Y'mha ystyron ereill y cywira moesddysg Gristionogol y cyfundrefnau naturiol?

(1) Trwy ymdrin â'r pwngc fel rhywbeth mwy na phwngc eneidogol (*psychological*): hynny yw, nid yn unig fel efrydiaeth o

ffurfiad a chyfansoddiad yr enaid dynol fel y mae yn awr. Cyfeiliornodd lluwys o'r cyfundrefnau moesol goreu trwy cfrynu ohonynt arddangosion (*phenomena*) natur ddynol fel y maent ynddynt eu hunain, ac yn rhy anibynnol (*exclusively*).

(2) Trwy ei gyfyngu i'w wrthddrych priodol: perthynasau moesol dyn. Cytuna cyfundrefnau moesol cyntefig a diweddar trwy fyned rhagddynt ar yr egwyddor y rhaid cynnwys holl swm buddiannau a dyletswyddau dynol. Nid oes a wnelo hyn yma, ond yn anuniongyrchol a cheineg (*aesthetics*), rheitheg, cymdeithaseg, a gwleidyddiaeth.

(3) Trwy wneud i'r holl wyddor orffwys ar athrawiaeth Gristionogol; a dysgu pob moesau yn eu cysylltiad â threfn y prynedigaeth; ac fel hyn gyflwyno geiriadaeth hollol newydd yn ogystal ag eangu ar ystyr pob gair bron yn yr hen.

(4) Yn ddiweddar oll, trwy gymeryd y pwngc allan o gylch athroniaeth, yr hyn nad yw amgen nag ymofyniad am ddoethineb, a'i wneuthur yn gyfeiriadur y bywyd newydd yng Nghrist.

§ 3. Gwngddorion Newydd Moesoldeb Gristionogol.

1. Beth a olygir wrth yr egwyddorion sylfaenol hyn?

Nodweddion arweiniol penodol ydynt a ddygir i amlygrwydd gan ddeddfwriaeth Gristionogol.

2. Eu dwyn i amlygrwydd yn unig?

Prin y gellir dweud fod unrhyw rai ohonynt yn wirioneddol newydd; eithr, er eu bod yng nghudd (*latent*) mewn deddfwriaeth arall, yn hon yn unig y gosodir hwy yn ben.

3. Pa rai ydynt yr egwyddorion hyn?

Gellid eu symio i fyny mewn un gair, CARIAD, yr hwn ei hun sydd megis yn grynhodeb o bob deddf, a phob cyflawniad o ddeddf. Ond purion peth lyddai dosrannu hwn i dri meddyl-ddrych, a roddwyd i ni gan ein Harglwydd Ei Hun, a'i Apostolion: unoliaeth y ddeddf fel cariad; ysprydolrwydd y dehongliad ohoni; a rhyddid ei hufudd-dod.

Gariad a Deddf.

4. Y'mha ystyr y bu i'n Harglwydd gysylltu cariad â deddf?

(1) Trwy unoli ohono bob dyletswydd, hynny yw, yr oll o grefydd ymarferol, yng nghariad Duw. Efe, am y waith gyntaf,

a nododd y gorchymyn hwn a geir yn y gyfraith, fel y GORCHYMYN MAWR A'R UN CYNTAF (Matth. xxii. 38; Deut. vi. 5).

(2) Trwy gyfuno ohono â hwn *ail cyffelyb iddo*, yr hwn am y waith gyntaf yr hyspysodd Efe ei fod yn cynnwys holl dyletswydd dyn: *Car dy gymydog fel ti dy hun* (ad. 39).

(3) Trwy wneuthur ohono, fel hyn bob huran-garedd gwirioneddol, a chariad at gymydog yn un; a gosod ohono yr unedd hwnnw yng Nghariad Duw, yr hwn sy'n rhaid iddo fod *â'th holl galon, ac â'th holl enaid, ac â'th holl feddwl, ac â'th holl nerth* (Marc xii. 30). Rhaid yw i bob cariad arall fod yn gyfran o gariad Duw, a tharddu ohono.

5. Onid ydoedd hyn yn gynhwysedig yn yr hen ddeddf-wriaeth?

Yr oedd y gorchymynion yno, ond nid yn gyfunedig, nac fel yn grynhodeb o bob dyletswydd; *yn* (nid yn unig *ek* ond *en*) *y ddau orchymyn hyn yr hongia yr holl gyfraith, a'r prophwydi* (Matth. xxii. 40).

6. Beth ydoedd effaith hyn ar ddysgeidiaeth ddiwedd-arach?

Yr awr y llefarodd ein Harglwydd fel hyn ydoedd yr argyfwng mwyaf gogoneddus yn hanes moesau; a theinlir ei ddylanwad trwy yr holl Destament Newydd: telir teyrnged i gariad gan bob un o Apostolion ein Harglwydd fel y cyfuniad o bob rhwymedigaeth.

7. Pa fodd y mae St. Paul yn talu ei deyrnged?

(1) *Diwedd y gorchymyn yw cariad*, megis y mae *Crist yn ddiwedd y ddeddf* (1 Tim. i. 5; Rhuf. x. 4).

(2) Yn ei emyn i gariad efe a ddengys mai cariad yw yr oll o grefydd; yn nacâol, hebddi, *nid wyf fi ddim*, ac yn gadarnhâol, *y mwyaf o'r rhai hyn yw cariad* (1 Cor. xiii. 2, 13).

(3) Gyda chyfeiriad arbennig at y cymydog, efe a ddywed, *Am hynny cyflawnder y gyfraith yw cariad* (Rhuf. xiii. 10); *a rhwymyn perffeithrwydd* (Col. iii. 14).

8. Pa fodd St. Petr?

Nid mor bendant. Ond megis y gwna efe ffydd yn ddechreuad, neu *arche*, felly y gwna efe gariad yn ddiben (*telos*) crefydd, *ac at garedigrwydd—brawdol* GARIAD (2 Pet. i. 7).

9. Beth yw tystiolaeth St. Iago ?

Efe a eilw gariad yn *gyfraith frenhinol* (Iago ii. 8), gyda chyfeiriad, er hynny at ail orchymyn ein Harglwydd, am yr hwn yr ychwanega Efe, *os cyflawni yr ydych da yr ydych yn gwneuthur (teleite, gair mawr yw hwn).*

10. A pha fodd y coronir y cyfan gan St. Ioan ?

Dim ond efe ei hun sydd yn gwneud yr oll o grefydd yn gwbl gariad; nid ei chyfeirio, fel ereill, at y cymydog: *Duw cariad yw; a'r hwn sydd yn aros mewn cariad, sydd yn aros yn Nuw, a Duw ynddo yntau. Eithr y mae perffaith gariad yn bwrw allan ofn* (1 Ioan iv. 16—18).

11. A dybia hyn oll fod cariad wedi cymeryd lle deddf ?

Dim o gwbl: nid llyncu, neu ddileu yw symio i fyny.

12. Y'mha ystyr arall y mae cariad yn undeb y ddeddf ?

Yn yr ystyr mai cariad yw y cyflawnydd yn ogystal a'r cyflawniad ohoni.

13. Pa fodd y mae yn gyflawnydd ?

(1) Cariad yw yr egwyddor gryfaf yn ein natur: fel y mae yn ail-enedig y mae yn *gweithio trwy gariad* (Gal. v. 6).

(2) Fel ymhyfrydiad yn Nuw a diolchgarwch am waredigaeth, atebiad yw i gariad Duw. *Yr ydym ni yn ei garu Ef am iddo Ef yn gyntaf ein caru ni* (1 Ioan iv. 19).

(3) Cariad yw gwarcheidwad y ddeddf, eiddigus o'i hanrhydedd. *Mor gu gennyf Dy gyfraith Di!* (Psalm cxix. 97).

(4) Cariad yw dehonglydd y gyfraith y lle na lefara mewn gorchymynion: yn *helaeth o wybodaeth a phob synwyr* (dirnad-aeth) (Phil. i. 9).

(5) Cariad yw y dyfarnydd anffaeledig mewn achosion o gydwybod. *Hi a weithiodd weithred dda a'naf Fi* (Matth. xxvi. 10).

14. Pa effaith a garia yr holl athrawiaeth ar foesddysg Gristionogol ?

Os mai cariad yw undeb y ddeddf a'i chyflawnder, yna (1) nid oes raid i ni fethu mewn ufudd-dod; ac yn (2) nis gallwn byth a myned uwchlaw ei hawliai hi mewn gweithredoedd o dra-rhagoriaeth. Sefydli'r y ddau hyn gan yr ymadrodd, *ac od oes un gorchymyn arall* (Rhuf. xiii. 9), ond ei iawn ddeall.

Ysprydolrwydd Deßongliad.

15. Beth a ellir ei ddeall wrth hyn yn gyffredin?

O barthed i'r ddeddf ei hun, fod i'w holl orchymynion gymhwysiad eangach na'r llythyren; ac am y cyflawnydd y gorffwysa yr ufudd-dod yn y bwriad.

16. Pa fodd y rhoddes yr Arglwydd amlygrwydd i hyn?

Trwy Ei ddysgeidiaeth; ond yn neulltuol yn y bregeth ar y mynydd. Yn y rhan flaenaf ohoni, dygir allan yr ystyr ysprydol, megis, er engreiff, fod y gwaharddiadau i lofruddiaeth a godineb yn cyrraedd at bob ffurf o ddigofaint a chwant. Yn yr ail ran, dehonglir ac eglurir y llygad syml. Eangrwydd y gyfraith ac ufudd-dod y galon ydynt ddau feddylddrych arweiniol yr holl breg-th (Matth. v. 22; vi. 22).

17. A ellir galw y dehongliad ysprydol yn egwyddor newydd o eiddo y ddeddfwriaeth Gristionogol?

Dim ar un cyfrif. Fe osodid pwys arno gan y foesoldeb baganaidd oreu. Defnyddiodd deddfwriaeth Foesennaidd hyd yn oed yr un geiriau ag sydd wedi eu dysfynnu er gosod allan nodwedd Cristionogaeth. *A'r Arglwydd dy Dduw a enwaeda dy galon, a chalon dy hâd, i garu yr Arglwydd dy Dduw a'th holl galon, ac âth holl enaid, er mwyn cael ohonot fyw. Ac eto y gair sydd agos iawn atynt, yn dy enau, ac yn dy galon, i'w wneuthur ef* (Deut. xxx. 6, 14).

18. Oni chyfeiriai yr ymadroddion hyn rhagddynt at yr efengyl?

Gwnelent: ond yr oedd iddynt eu cymhwysiad ar y ffordd. Y mae moesddysg y psalmydd a'r proffwyd yn dwyn nôd uchaf ysprydoliaeth. *Dy orchymyn Di sydd dra eang! Cuddiais dy ymadroddion yn fy nghalon!* (Ps. cxix. 96, 11).

19. Beth, ynte, a olyga ragoriaeth yr efengyl, fel gweinidogaeth yr Yspryd?

Diau mai nodwedd yr hen gyfamod ydoedd fod ei ddeddfwriaeth yn *weinidogaeth angau*, wedi ei hysgrifenu, a'i hargraffu ar gerrig, ac yn y llythyren; tra mai *gweinidogaeth yr Yspryd* yw y cyfamod newydd (2 Cor. iii. 7, 6). Dwg yr olaf gydag ef yr ystyr ysprydol yng Nghrist o'r hyn oedd y llythyren gysgodol ym

Moses; ac hefyd o allu ysprydol yr Ysryd Glân, o'r Hwn yn unig y dichon y gwir ufudd-dod darddu.

20. Pa ffurf a gymer yr egwyddor yn y rhannau diweddfaf o'r Testament Newydd?

Y mae wedi ei chyssylltu yn fwy agos âg athrawiaethau cyflawn ddadblygedig yr adenedigaeth, a phreswylad mewnol yr Ysryd. Edrychir ar y ddeddf fel yn cael ei mynegu i'r dyn mewnol ysprydol, *yr hwn sydd ysprydol sydd yn barnu pob peth* (1 Cor. ii. 15). Y mae yn ysgrifenedig *AR eu calon* (Heb. viii. 10). Ac ufuddheir iddi o'r *galon* (Rhuf. vi. 17).

21. Pa fodd ynte y gallwn fynegi y cymhwysiad o'r egwyddor hon mewn deddfwriaeth Gristionogol?

(1) Yn nehongliad cyfraith foesol yr Hen Destament yn gyffredin, a'r deng air deddf yn arbennig: i lythyren pob gair o'r hon y mae yn rhaid rhoddi ystyr eang ac ysprydol.

(2) Yn nehongliad gorchymynion ein Harglwydd Ei Hun: er engreiff, y cyfryw ohonynt ag a fwriadwyd ar gyfer cyflwr trawsfudol (*transitional*), megis *Gwerth yr hyn oll sydd gennyt!* (Luc xviii. 22).

(3) Yng nghymwysiad pob gorchymyn yn gyffredinol, yr hwn gan fod iddo lythyren, felly hefyd y rhaid fod iddo ystyr lawer eangach na'r llythyren.

22. Beth ddylid gochel rhagddo yma?

(1) Gochelyd rhag anghofio byth y llythyren, tra y telir sylw i'r ystyr ysprydol; (2) gochelyd rhag anghofio byth yr ystyr ysprydol, tra y telir sylw i'r llythyren.

Diwedd a Deddf.

23. Beth yw perthynas y ddau air hyn?

A'u cymeryd gyda'u gilydd, hwy a ddynodant y gwirionedd mawr a ddysgodd deddfwriaeth Gristionogol gyntaf, mai perffaith ufudd-dod sydd berffaith ryddid.

24. Parthed y ddeddf ei hun, neu ufudd-dod i'r ddeddf?

Parthed yr olaf y'mlaenaf a phennaf: perffaith ufudd-dod sydd anymwybodolrwydd o ddeddf, yr hon sydd y'ng holl mewn cariad.

25. Pa fodd y gall hyn fod?

Y prif brawf yw y brif eglureb: bu i gariad perffaith ein Harglwydd tuag at Dduw a dyn gael ei fynegu yn **RHAID** yr ufudd-dod perffeithiaf. *Rhaid i mi fod yng nghylch y pethau a berthyn i'm Tad* (Luc ii. 49). Ond perffaith reidrwydd ynddo Ef ydoedd perffaith ryddid.

26. A gymhwysa Efe hyn atom ni, fel ein Hathraw moesol?

Efe a addawa yn rasol ein gwneud yn gyfranogion o'i ryddid Ef Ei Hun. *Os gan hynny y Mab a'ch rhyddha chwi, rhyddion a fyddwch yn wir* (Ioan viii. 36). Eto, *Os câr neb fi, efe a geidw Fy ngair* (Ioan xiv. 23). Ac eto, *Os gan yr Yspryd y'ch arweinir, nid ydych dan y ddeddf* (Gal. v. 18).

27. Pa fodd y mae y gair rhyddid yn gymhwysadwy at y ddeddf ei hun fel yn allanol?

Dyna gwestiwn mwy anhawdd, ac un y rhaid ei drafod gyda gofal, er gochelyd eithafion gwrthgyferbyniol.

28. Pa rai ydynt y ddau eithafion?

Un yw yr hyn a ellir ei alw yn Phariseaeth, a'r llall Antinomiaeth: y ffordd oreu i sicrhau beth yw ystyr rhyddid Cristionogol oddiwrth ddeddf yw ei ystyried yn ei berthynas â'r rhain.

29. Beth yw y blaenaf?

Ni a'i galwn yn Phariseaeth, am ddarfod i'n Harglwydd wneud y Phariseaid ei gynrychiolwyr. Gellir ei alw yn ddeddfoldeb, neu ddeddfyddiaeth; a golyga fod crefydd yn gynhwysedig, nid mewn cariad, ond mewn ufudd-dod i orchymyn allanol.

30. Beth yw rhyddid Cristionogol, fel y diogela ni rhag hyn?

Ymlawenhâ mewn peidio a bod mwy dan y ddeddf fel deddf sydd yn condemnio. Ac ymlawenhâ mewn bod dan ddylanwad Yspryd cariad wrth ufuddhâu i'w gorchymynion.

31. Beth yw yr olaf, sef Antinomiaeth?

Yn athrawiaethol, deil fod Crist wedi cyflawni y ddeddf mewn modd dirprwyol yn ogystal a dioddef ohono ei chospedig-aeth; a chan hynny, nad oes gan gredinwyr ddim i'w wneuthur

a deddf. Yn ymarferol camddefnyddia ei rhyddid hyd at benrhyddid. *Y rhai hyn gelynion croes Crist ydynt* (Phil. iii. 18).

32. Beth yw rhyddid Cristionogol, fel y diogela rhag hyn?

Ei arwyddair yw yr athrawiaeth mai yr efengyl yw *perffaith gyfraith rhyddid* (Iago i. 25); perffeithrwydd yr hon yw fod ei rhyddid, *dan ddeddf i Grist* (1 Cor. ix. 21); ac mai ei deddf yw *deddf frenhinol cariad* (Iago ii. 8).

33. Onid oes gymhwysiadau ereill o'r un egwyddor?

Oes, y mae yna ddau. (1) Parthed pethau amhenodol; (2) Parthed gosodiad cwyllysgar deddfau ar hunan. Yn yr holl bethau hyn y mae y Cristion yn rhydd i fod yn ddeddf iddo ef ei hun.

§ 4. Gorfgoriad Moesddysg Cristionogol.

1. Beth a olygir wrth hyn?

Yr ystyriaeth o'r ymchwil, pa mor bell, ac y'mha fodd yr arfaetha Cristionogaeth gorff cyfundrefnol o reolau moesol; cyffelyb er engreift i eiddo y trefniant Lefiticaidd.

2. A pha atebiad cyffredinol ellir ei roddi i'r ymofyniad?

Gellir ateb trwy ddweud gan mai Un Deddf-Roddwr sydd, mai yr unrhyw fu Ei foddau trwy holl gwrs datguddiad: fe ddysgir moesau Cristionogol ar y cyfan yn union megis y dysgid y rhai Iddewig.

3. A yw hyn yn llythyrennol gywir?

(1) Llefardodd Jehofah rai deddfau tragwyddol ym Mhum Llyfr Moses, gan eu symio i fyny i gariad perffaith ato Ef Ei Hun. Cyfeiria Jehofah y Testament Newydd, sef ein Harglwydd, at y Deg Gorchymyn fel llwybr bywyd, gan roddi ohono amlygrwydd, fodd bynnag, i'r dehongliad ysprydol hwnnw sydd mewn gwirionedd yn ddehongliad o'r hyn yw cariad.

(2) Rhoddasid deddfau, tra meithion, a gyfeirient at y ddwyflywiaeth; diddyma ein Harglwydd y cyfryw, ond hynny, er gosod yn eu lle ddeddfau Ei deyrnas: y rhai ydynt yn bennaf, er nad yn gyfangwbl y gorchymynion hynny a reoleiddiant gymundeb yr eglwys.

(3) Fe ymgyfaddasa moesau y ddau Destament eu hunain yn ol fel y cyfvd amgylchiadau. Ni a ganfyddwn yr unrhyw gyfundrefn foesol raddol-ddadblygol; o ddeddfwriaeth batriarchaidd i'r lefiiaidd, ac o'r lefiiaidd i'r broffwydol yn yr Hen Destament; ac o Efengyl i Actau, ac o Actau i Epistolau yn y Newydd. Y mae y gyfatebiaeth bron yn berffaith.

4. Gan hynny, a ydyw deddfwriaeth foesol, a safon moesau yn yr Hen Destament yr un âg eiddo y Newydd?

Ydyw: gan wneud goddefiad (1) i'r egwyddorion mawrion y cyfeiriwyd atynt eisoes; ac yn (2) i'r cyfaddasiad neulltuol o luaws o gyfreithiau, *nad oeddynt dda* (Ezec. xx. 25),—nad oeddynt yn barhaus dda—i galon-galedwch y bobl; a chan gofio y'mhellach yn (3) y cofnodir lluaws o weithredoedd yn hanes yr hynafiaid yn syml felly, eithr nas cymeradwyir mo honynt.

5. Pa fodd yr effeithia hyn ar y deng air deddf?

Ysgrifenydd y gorchymyn—Y DENG AIR DEDDF—yn wreiddiol ar ddwy lêch garreg; eithr y mae yn ysgrifenedig yn awr ar *lechau cnawdol y galon* (2 Cor. iii. 3). Gwedi hynny, ysgrifenydd ef yn y Llyfr; ac yno y saif fyth, yr un yn y Testament Newydd a'r Hen; er nad yw yn y naill na'r llall, a siarad yn fanol, yn gorfforiad (*code*) o bob dyletswydd. Cofiadur ydyw, am byth, o amrywiol rywmedigaethau; eithr y mae yn anigonol fel sylfaen cyfundrefn foesol Gristionogol.

6. Pa arwyddion o gyfundrefn a geir?

Fe gyflwynir moesau yn unol âg amrywiaeth eang o egwyddorion. Heblaw y dynodiadau a roddwyd yn barod, gallwn nodi:—

(1) Y cynhwysa ymadroddion ein Harglwydd ddefnyddiau anhysbyddadwy cyfundrefn briodol o ddyletswyddau dynol.

(2) Cysyllta yr apostolion âg arddanghosiad o bob athrawiaeth yr agwedd ymarferol a moesol ohoni; ac felly trefniad eu cyfundrefn athrawiaethol yw trefniad eu moesddysg.

(3) Perthyna i bob epistol ei adran foesegol; a hynny gan fwyaf mewn trefn fanol, fel y gellir gweled yn niwedd yr Epistol at y Rhufeiniaid; ond weithiau cydwëir y cymhwysiad ymarferol drwyddo.

(4) Perthyna i bob ysgrifenydd, yn ddieithriad, ei drefn ei hun o roddi crynhodeb o hanfodolion moesddysg; naill a'i trwy osod gerbron ddrygau a rhinweddau gwrthgyferbyniol, ffrwythau y cnawd a ffrwythau yr Yspryd; neu trwy gyflwyno adolygiad dros foesau a hawlr y'mhob perthynas o eiddo bywyd; neu trwy dynnu darluniau perffaith o ragoriaeth foesol gyffredinol.

II.

Moesddysg Gymhwysiadol.

1. Beth a ddynodir gan y gair hwn?

Dosparthiad cyfundrefnol o foesau Cristionogol, fel y maent yn gymhwysiad at fywyd o'r egwyddorion a osodwyd eisoes i lawr.

2. Pa ddeddf a ddylai lywodraethu y dosparthiad?

Yr un a esyd allan oreu gymesuredd a chyflawnder perffaith y gyfundrefn Gristionogol. Nis gellir gwneud hyn trwy gyfrif amrywiol rinweddau crefydd fel y safant yn gyferbyniol i'r drygau sydd yng ngwrthwyneb; na thrwy edrych yn syml ar yr amrywiol gysylltiadau yn y rhai y saif dyn yn ei berthynas â bodau a gwrthddrychau ereill. Gellir golygu Cristionogaeth fel disgyblaeth foesol sydd, a'i thuedd at ffurfio cymeriad personol mewn cysondeb â'r cyflwr o râs: hyn ddylai fod ein hadraniad cyntaf. Gellir ei golygu hefyd fel yn sancteiddio pob perthynas: hyn ddylai fod yr ail.

3. A ellir cadw y rhain yn gwbl ar wahan?

Hwy a ymdoddant i'w gilydd o angenrheidrwydd: fe ffurfir y cymeriad personol ynghanol cysylltiadau Cristionogol; a rhoddir ffurf i gysylltiadau Cristionogol gan gymeriad personol. Ond ceir gweled y gellir dal yn deg at y gwahaniaethiad.

I. Moesau y Person Unigol: neu Gym- eriad Personol.

1. Darnodwch yn fanwl beth a olygir wrth hyn?

Dylanwad yr efengyl ar galon a buchedd pob dyn a ddygir o dan ei chyflawn allu hi, megis ei tywysir gan Yspryd Sanctaidd adenedigaeth ac adnewyddiad.

2. Sut y gellir darostwng hyn i gyfundrefn?

Trwy ei gysoni â gweinyddiad yr Yspryd o räs yr efengyl. Ni a ganfuasom eisoes y gweinyddir gräs rhagfynedol a arweinia i gyflwr o iechydwrïaeth: nid yw moesddysg hyn yn dyfod i mewn yma: ymdriniwyd â hwynt eisoes. Y mae y cyflwr gräs priodol, fel bywyd newydd cyfiawnder a sancteiddrwydd yn rhoddi dosparthiad triphlyg amlwg yr hwn sydd yn gyflawn. Yn ychwanegol at y rhain, fe gyflwyna yr athrawiaeth o brawf yn y bywyd hwn ar gyfer yr hwn a ddaw ddosparth arall o rwymedigaethau moesol a gyflawna y cyfan.

3. Oni fydd i ni gerdded dros yr un tir ddwywaith?

Dyna yw perygl ein trefniant. Ond rhaid yw cofio nad oes a wnelom yn awr ond â dyletswydd Gristionogol fel cydweithrediad dyn â'r Yspryd Glân; a hynny yn unig mewn esponiad dosrannol byr.

§ 1. Moesau Gysfiawnder.**1. Sut y gellir golygu y rhain yn gyffredinol?**

Fel yn cynnwys grasusau a dyletswyddau ufudd-dod cyffredinol i ddeddf Duw.

2. A ellir gwahaniaethu rhwng y grasusau â'r dyletswyddau?

Un ydynt mewn gwirionedd; ond, a'u hystyried fel dyletswyddau, fe a ellir eu cyflawni yn allanol, o ba herwydd y maent yn gysylltiedig â moesddysg berthynasol. Â'r egwyddor fewnol y mae a wnelom ni yn fwyaf neulltuol yn awr: hynny yw, yspryd ufudd-dod a chywirdeb fel y ffurfia gymeriad uniawn.

3. Y'mha fodd y gellir edrych ar yspryd ufudd-dod?

Fel yn weithredol a goddefol: sef ufudd-dod ac ymostyngiad.

(1) I'r blaenaf y perthyna wneuthur ewyllys Duw, yr hyn hefyd a elwir yn wneuthur cyfiawnder. Yr arferiad yw o roddi i fyny yr ewyllys, anrhydeddu llythyren ac yspryd y gyfraith, ac ufuddhau trwy gymhorth Dwyfol räs i bob gorchymyn gwybyddus costied a gostio (Ioan iii. 7).

(2) I'r olaf y perthyna ymostyngiad i'r goruchwyliaethau Dwyfol, y rhaid ydynt ewyllys Duw yn ddatganedig mwen

gweithred ; ymroddiad i arweiniad Duw ; ac ymostyngiad idd Ei ewyllys mewn gorthrymderau arbennig.

4. Beth yw urddas neulltuol y grâs hwn?

Gellir dweud ei fod uwchlaw pob un arall yn grynhodeb o'r oll o grefydd. Hwn ydoedd meddylddrych perffaith y cyfundrefnau goreu o'r tu allan i ddatguddiad, yn enwedig yn y Dwyrain, lle serch hynny, y bu iddo ddirywio i dyngهدfen. Hwn ydoedd nôd amlycaf crefydd yn yr Hen Destament ; a gweddi gyntaf Cristionogaeth yw *Gwneir Dy ewyllys* ! Gwneir hi gennym, ac arnom, ac ynnom (Matth vi. 10).

5. Beth yw Ei nodwedd Gristionogol arbenigol?

Gwaith prynedigol Crist yw sail ein cyfiawnder ger bron Duw (1 Cor. i. 30). Efe Ei Hun yw cynllun a safon ein cyfiawnder mewnol ni, *fel y mae Efe yn gyfiawn* (1 Ioan iii. 3—7) ; Iddo Ef yn ogystal a thrwyddo Ef y cyflwynir holl ufudd-dod cyfiawnder : *Pa bethau bynnag yr wyf yn eu gorchymyn i chwi* (Ioan xv. 14). *Gwnewch bob peth yn enw yr Arglwydd Iesu* (Col. iii. 17). Pwyslais ar BOB PETH.

6. Y'mha wedd y gellir ystyried yspryd ffyddlondeb?

Fel dyletswydd Gristionogol ag sydd yn gyflawniad ffyddlawn o ymddiriedaeth : egwyddor o foesau personol a ymdeifl dros gylch eang, a'r hon a esgeulusir yn ormodol.

7. Beth ydynt ei hamrywiol agweddau mewn Cristionogaeth?

(1) Edrychir ar grefydd fel ffyddlondeb yn y cyflwr prawf cyffredinol : a chredinwyr neu y ffyddloniaid (*hoi pistoi*) yw Cristionogion.

(2) Arglwydd yw Crist yr Hwn a esyd ymddiriedaeth i ofal pob Cristion : yn gyffredinol drosto ei hun, ac yn arbenigol dros ereill yn yr hyn a elwir mewn iaith ddiweddar yn alwad (*vocation*).

(3) Ffyddlondeb yn y lleiaf a'r mwyaf, yw holl ymarweddiad crefydd (Luc xvi. 10).

(4) Rhoddiad i fyny yr ymddiriedaeth yw marwolaeth, a'r farn yw yr ymholiad a wneir i'n hymddygiad yn y cyflawniad ohoni.

8. A oes wahaniaeth rhwng galwad gyffredinol a galwad neuilltuol?

Galwad neu alwedigaeth yw a ddefnyddir am yr efengyl yn gyffredinol, lleferir am ymddiriedacthau penigol yn hytrach fel goruchwyliaeth (*stewardship*).

9. Y'mha wedd y cyflwynir gerbron yr oruchwyliaeth gyffredinol?

Yr ydym ni fel gweision yn oruchwylwyr hefyd (Luc xii. 42, 43), a chynhwysa yr oruchwyliaeth ein doniau naturiol a chyrhaeddedig. Y mae *nid ydych yn eiddoch eich hunain* yn cyrraedd at bawb: ac y mae *Gogoneddwch Dduw yn eich corff*, yn awgrymu fod ein iechyd corfforol yn rhan o'r ymddiriedaeth (1 Cor. vi. 19, 20). Dengys dameg y goruchwylwr anghyfiawn fod cyfoeth felly (Luc xvi. 9, 10, 13), ac y mae dwy ddameg y *deg punt* a rannwyd yn gytartal, a'r saith *talent* a rannwyd yn anghyfartal *pob un yn ol ei allu ei hun*, yn estyn y ddeddf at bob math o gynysgaethau neuilltuol (Luc xix. 13; Matth. xxv. 15).

10. Beth ydynt ddyletswyddau goruchwyllydd?

(1) Ffyddlondeb yn yr yspryd. Am yr isaf o bob goruchwylwr llefara yr apostol ar iddynt *ddangos pob ffyddlondeb da* (Titus ii. 10): yr unig râs a elwir yn dda: ac ar yr achlysur hwn yn unig, hyd nes y canmolir y *gwas da a ffyddlawn* gan yr Arglwydd a'r Barnwr goruchel (Matth. xxv. 23).

(2) Yn yr oruchwyliaeth Gristionogol, llygad syml, gan gadw hunan bob amser yn iswasanaethgar i fuddiannau y meistr: *Ni ddichon un gwas wasanaethu dau arglwydd* (Luc xvi. 13).

(3) Cydwybodolrwydd; hynny yw, pryder am fod yn *ffyddlawn yn y lleiaf* (Luc xvi. 13), a hyfforddiad y gydwybod yn ol hynny.

11. Beth gan hynny yw hyfforddiad y gydwybod?

Yr arferiad o fyw yn y fath fodd, fel ag i beidio a bod byth yn ymwybodol o esgeuluso yr hyn sydd iawn. *Ac yn hyn yr ydwyf fi fy hun yn ymarfer, i gael cydwybod ddirwystr* (Act. xxiv. 16). Nid hyfforddi ei hunan i wybod yr hyn sydd iawn, ond i'w wneuthur yn wastadol, a thrwy hynny gadw yr ymwybyddiaeth yn glir.

§ 2 Moesau pr Ail-enedigaeth.

1. Y'mha wedd gyffredinol y gellir edrych ar y rhain?

Fel y dyletswyddau gofynnol er cynnal i fyny y bywyd

newydd; fel grasusau y bywyd hwnnw sydd i'w gwrteithio; ac fel rhwymedigaethau disgynedig (*entailed*) trwy ymdrech â gweddillion y drwg, yr hyn yn ol moesddysg yr ail-enedigaeth yw marwolaeth ysprydol.

2. A yw cynhالياeth y bywyd newydd yn dibynnu ar gyflawniad unrhyw ddyletswydd o eiddo yr ail-enedig?

Y mae yna dri amod moesol i'w nodi:

(1) Daw undeb â Christ yn un parhaol, eithr nid heb ein cydweithrediad ni: *Arhoswch ynof Fi a Mi ynoch chwi* (Ioan xv. 4).

(2) Yr ymarferiad â'r cyfryw foddion o räs ag ydynt yn faeth i'r bywyd newydd: gweddi yn gyffredin, ond gwrandawriad y gair yn enwedig, myfyrio arno, cymundeb â'r Arglwydd yn y swper sanctaidd, ac yn yr holl ymarweddiad.

(3) Anogir y sawl sydd yn Byw yn yr *Yspryd*, yr Hwn yw Yspryd y bywyd, i *RODIO hefyd yn yr Yspryd* (Gal. v. 25; Rhuf. viii. 2).

3. Pa rai ydynt rasmusau y bywyd newydd?

Nid oes odid i nodwedd yn perthyn i grefydd ar na pherthyna mewn rhyw ystyr i'r rhain; ond ac edrych arnynt yn benodol moesau yr ad-enedigaeth ydynt yn syml ac yn unig, gymeriad Crist fel ei ffurfir yn y fuchedd, a'r moddion er cyrraedd y cyfryw amcan.

4. Sut y gellir ymdrin â hyn yn foesegol?

Yn oddefol, fel adlewyrchiad o'i ddelw Ef, ac yn weithredol fel efelychiad o'i esiampl Ef.

5. A ellir galw y blaenaf yn ddyletswydd?

Cynhwysa moesddysg Gristionogol ragddarpariad y galon ynghyd â'i dymuniadau angerddol am berffaith debygrwydd i'r Iesu; *Ni a newidir i'r unrhyw ddelw megis oddiwrth yr Arghwydd, yr Yspryd* (2 Cor. iii. 18); eithr y mae llawer o'n crefydd yn gynhwysedig, nid mewn peidio ag atal neu rwystro, eithr ym meithriniad, cwrseithrediaidau y cyfryw drawsffurfiad.

6. O dan ba agweddion y gosodir gerbron efelychiad yr Iesu?

(1) Cymeriad yr Arglwydd yw ein safon a'n cynllun, at yr

hwn, fel rhagoriaeth Ddwylol, ar ffurf ddynol, yr ydym ni i ymgynraedd ato.

(2) Eithr nid oes i gwrsweithrediadau a gweithredoedd personol ein bywyd crefyddol esiampl ynddo Ef, *yr Hwn nid adnabu bechod* (2 Cor. v. 21).

7. Y'mha fodd yr amlygir i'r byd rasmusau y mab-wysiad?

Trwy gadw i fynu urddas *plant difeys i Dduw yng nghanol cenhedlaeth ddrygionus a throfaus* (Phil ii. 15): sef yr egwyddor foesol a amcana at rodio yn deilwng o'n rhagluniad *i fod yn un ffurf a dehw Ei Fab Ef* (Rhuf. viii. 22).

8. Beth yw perthynas moesau mabol a'r ymdrech fewnol?

Y mae yn un dra phwysig, a threiddia trwy y Testament Newydd fel buddugoliaeth raddol y natur ail-enedig dros weddillion pechod. Rhwng yr hen ddyn a'r dyn newydd y mae yr ymdrechfa, rhwng y cnawd a'r Yspryd.

9. A ellir mynegi perthynas fanylach y rhain?

(1) Yn y flaenaf edrychir ar Grist fel ein bywyd; a pherthyna y moesau i'n *cymdeithas* ni *â'i ddioddefiadau Ef*, a'i adgyfodiad Ef (Phil. iii. 10, 11). Yn yr olaf, edrychir ar Yspryd Crist fel ein bywyd, a pherthyna y moesau i'n *harweiniad gan yr Yspryd* (Gal. v. 18).

(2) Dengys y ddwy mai egwyddor aruchel moesddysg Gristionogol yw ymdrech hyd fuddugoliaeth, mewn undeb â Christ ein Pen.

(3) Dysgir moesau y ddwy gan Paul, fel y gwrthgyferbyniol o ddrygau a rhinweddau; y blaenaf fel *gweithredoedd y cnawd*, y rhai a groeshoeliwyd gan y sawl *sydd yn eiddo Crist*. Dysgir am yr olaf mai *ffrwyth yr Yspryd* yw (Gal. v. 19, 22). Y mae y ddwy restr yn grynghodeb cyflawn o'r dosparth hwn o foesau.

10. Pa rai ydynt y grasusau a'r dyletswyddau perthynol i'n cymdeithas â'r groes?

Hunanymwadiad hollol ac arferiadol, neu ymwrthodiad â hunan pechod. (1) Croeshoeliad y cnawd gyda'i serch goddefol a'i chwantau gweithredol; ein dyletswydd Gristionogol ydyw casau a rhoddi i farwolaeth yr holl hunan hwn o eiddo yr hen ddyn. (2) Marweiddiad hunan mewn tueddiadau personol at

ddrwg. *Marwhawch gan hynny, eich haelodau y rhai sydd ar y ddaear* (Col. iii. 5, 9). (3) Y mae gan y sawl a *ddiosgasant yr hen ddyn* unwaith am byth, i ymladd er hynny, yn erbyn y cnawd nad yw eto wedi ei lwyr ddinystrio.

11. Pa rai ydynt y moesau is-raddol a godant yma?

Y ddyletswydd o hunan-ddisgyblaeth grefyddol: Ymataliad, ympryd, hunan-ymholiad, hunan-lywodraethiad, meithriniad ysprydolrwydd meddwl, neu ddarostyngiad beunyddiol y meddwl cnawdol, trwy yr ymwadiad arbennig hwnnw ohono tuag at yr hwn y mae hunan-lywodraethiad yn gynhorthwy.

12. Beth yw neulltuolrwydd y dosparth hwn o foesau?

Y maent yn gwbl Gristionogol: yn tarddu oddiar undeb â Christ yn Ei ddioddefaint a'i adgyfodiad. Yr oedd moesddysg oreu yr hynafiaid yn dyrchafu hunan-lywodraeth a buddugoliaeth y natur uchaf dros yr isaf; ond Cristionogaeth yn unig sydd yn datguddio dirgelwch yr hen ddyn a groeshoelir o'n mewn, a'r dyn newydd a adgyfodir i fywyd perffaith. Y mae yr ymdrech fewnol hon, yn ei pherthynas â chroes Christ a'i adgyfodiad Ef yn ddatguddiad newydd mewn moesau: medda le eang yn y Testament Newydd, ac yng nghalon pob Cristion o ddifrif.

§ 5. Moesau Sancteiddsâd.

1. Beth yw cylch y gangen hon?

Cynhwysa gadwraeth yspryd ymgysegriad, a'r ymwrthodiad o bopeth sy'n anghyson âg ef: meithriniad yspryd defosiynol, a'r ymarferiad ohono y'mhob cyflawniad priodol; a'r ymgais dibaid am undeb perffaith â Duw.

2. Y'mha ystyr y mae ymgysegriad yn ddyletswydd foesol?

Fe ddechreuwa crefydd gydag ymgyflwyniad hunan i Dduw; ein rhwymedigaeth ydyw cyfrif ein hunain ynghyda'r oll a feddwn a'r oll ag ydym yn eiddo iddo Ef, ac nid yn eiddom ein hunain; gan adnewyddu ohonom yr ymgyflwyniad yn barhaus, a hynny gyda difrifoldeb dwfn ar amserau penodedig (Rhuf. vi. 17, 13: xii. 1; 1 Cor. vi. 19).

3. Beth sydd yn canlyn oddiwrth hyn?

Yr egwyddor mai yr hyn raid fod yn amcan terfynol bywyd yw *gogoniant Duw* (1 Cor. vi. 20), yr hyn sydd yn feddylddrych

Cristionogol neulltuol, ac yn arwyddair moesddysg sancteiddhâd. Medda ystyr nacâol, sef trefniad pob gweithred yn y fath fodd fel y bydd i ogoniant sancteiddrwydd Duw ddisgleirio trwom ni (1 Cor. x. 31; 1 Petr iv. 11).

4. Beth yw ystyr yr ymwrthodiad gofynnol?

Yn bennaf oll, ymwrthodiad â phechod a hunan; yn israddol, ymwrthodiad â Satan a'r byd.

(1) Ymwrthodiad â phechod; oblegid sancteiddrwydd i'r Arglwydd sydd ysgariad oddiwrth bechod, fel amhured: *oddiwrth bob halogrwydd cnawd ac yspryd*, cnawdol ac ysprydol (2 Cor. vii. 1). Ymwrthodiad â hunan (2 Cor. iv. 4): ni chaniata y ddeddf Gristionogol i hunan fod yn amcan terfynol yn hyd yn oed y weithred leiaf mewn bywyd (Eph. ii. 2).

(2) Gan mai Satan yw *duw y byd hwn*, y byd *drwg presennol*, rhaid yw ymwrthod âg ef, ei wrthwynebu a'i herio (Gal. i. 4; Iago i. 7).

5. Eglurwch y cysylltiad sydd rhwng sancteiddhâd a defosiwn?

Golyga y gair defosiwn ymgyflwyniad i arall, hynny yw i Dduw: a chan mai Duw yw gwrthddrych gwastadol addoliad, a'i wrthddrych y'mhob peth, daw defosiwn i arwyddocâu ymarferion addoliad.

6. A pheth a gynhwysa y rhain?

Hwy a olygant, fel y perthynant i ddyletswydd bersonol, fod y galon yn deml yn yr hon y sancteiddir Duw: Duw y Drindod Sanctaidd, yn y Mab. Cynhwysant hefyd yspryd parch neu barchedig ofn, ymwneud rheolaidd â phresenoldeb Duw, a myfyrdod achlysurol ar Ei berffeithderau; cydnabyddiaeth arferol a diolchgarwch achlysurol; yspryd gweddi rheolaidd a chyflawniadau achlysurol o addoliad. Trwy hyn, y cyrhaeddir undeb â Duw, yr hyn yw rhagorfraint uchaf yr yspryd crëedig; neu yn hytrach, trwy hyn y cadarnhêir yr undeb hwnnw am byth.

7. A yw hyn yn dihyysbyddu cynnwys moesol sancteiddhâd?

Nis gellir ei ddihysbyddu. Nid oes râs o eiddo yr enaid, na dyletswydd o eiddo bywyd ar nad yw i'w sancteiddio ar yr

allor. Cynhwysa moesau sancteiddhâd holl swm y bywyd a'r gweithrediadau fel y mae yr enaid *yn aros yn Nuw* (1 Ioan iv. 16), ac fel mae *yn Nuw y gwnaed* ei weithredoedd ef (Ioan iii. 21).

§ 4. Moesau y Gysylltwr Grawf.

1. Beth yw cylch y dosparth hwn?

Y dyletswyddau a'r grasusau, a gysylltant amser â thra-gwyddoldeb, y byd hwn a'r byd a ddaw. Rhoddir cyfleustra ini yn y fan hon i gyflwyno i sylw pob egwyddor foesol neu orchymyn na chrybwyllwyd mohonynt eisoes, fel yn perthyn i'r cymeriad personol.

2. Y'mha fodd y gellir eu dosparthu?

Y mae gennym y dyletswyddau hynny a godant oddiar (1) ein perygl presennol; (2) oddiar seiliau ein hyder; (3) oddiar iawn-syniad o'r berthynas rhwng y bywyd hwn, a'r hwn a ddaw; (4) oddiar gyfrifoldeb y farn; ac yn (5) oddiar y cymeriad gofynnol er cael derbyniad i'r nefoedd.

2. Pa ddyletswyddau ydynt a gyfyd oddiar ein perygl?

Hwy a berthynant i ddau ddosparth yn tarddu oddiar un egwyddor gyffredin o ocheliad ysprydol. (1) O barthed i'r perygl mewnol, gwan-obaith, y mae adgofio fod y galon yn dwyllodrus, yn dirgymell hunan-ymholiad arferol, neu i ymchwil- iad gofalus o gymhellion mewnol, a gogwyddiadau mewnol at ddrwg. Megis y daw y perygl o'r tu allan, daw hwn i fod yn wylidwriaeth, a nododd ein Harglwydd a'r pwyslais dwfn *Gwylwch a gweddiwch*; yr hyn a olyga fod yn efiro, ac yn ochelgar (Matth. xxvi. 40; 1 Cor. xvi. 13; 1 Petr v. 8).

4. Pa rai ydynt foesau hyder?

Y maent mor amlwg a moesau ofn, ac yn eu diogeli rhag myned i eithafion.

(1) Wrth eu gwraidd y mae ymogoneddiad ac ymlawenhâd yn yr Arglwydd; y blaenaf yn wrthddrychol ynddo Ef; yr olaf yn ddeiliadol, ynom ni ein hunain (1 Cor. i. 31; Phil iv. 4).

(2) Barn gywir am ein gelynion: eu nerth a'u gwendid. Effeithia hyn yr egni a'r gwroldeb hwnnw y sonia y Testament Newydd gymaint am dano (Eph. vi. 10—18; Iago iv. 7; 1 Cor. xvi. 13).

(3) Grym penderfyniad : *lhwyrfrydedd* (pwrpas) *calon* (Act. xi. 23). Hyn yw y gwarchae rhag petrusder gormodol, a gwan-grediniaeth afiachus yr hwn a ddadblyga i bruddglwyfedd (1 Cor. ix. 26, 27).

(4) Fe geir gobaith hefyd, fel rhinwedd a dyletswydd, y ddau, mewn moesddysg gyffredinol, ond yn y grefydd Gristionogol y disgleiria hi yn ardderchog (Rhuf. viii. 24, 25). Gobaith mewn ystyr ddeiliadol sydd ddisgwyliad bywiog am ddaioni dyfodol ; a Christ yw *ein gobaith*, yn wrthddrychol (1 Tim. i. 1). Y mae *gobeithio yn berffaith* (1 Petr i. 13) yn ddyletswydd ; y mae yn râs hefyd, *amynedd eich gobaith* (1 Tim. i. 1—3) ; ac *ni chywilyddia* (Rhuf. v. 5).

(5) Amynedd, i'r hwn y mae dwy ffurf, sef y gallu i oddef tan bwysau ; a dyfalbarhâd yngwyneb anhawster. Cynhwysa yr olaf amynedd gyda hunan ; diogela y ddau rhag ofn gormodol (Rhuf. v. 3 ; ii. 7).

5. Pa fodd yr ymdrinnir â moesau y berthynas a fodola rhwng amser a thragwyddoldeb ?

Hwy a godant mewn amrywiaeth mawr trwy yr holl Ysgrythur, yn enwedig y Testament Newydd ; gan ymddangos ohonynt fel egwyddorion ymarweddiad, fel dyletswyddau pendant, ac fel y grasusau uchaf.

(1) Gosodir i lawr gan ein Harglwydd yr arferiad cynefin o bwyso tragwyddoldeb yn gyferbyniol âg amser fel egwyddor sylfaenol reoleiddiol, ac hyd yn oed fel y cymhellydd yn yr oll o grefydd (Luc ix. 25). Ac nid oes ddyletswydd foesol mwy eangdreiddiol na'r un a olyga fywyd fel pererindod : yr hon ar y naill law, a ddiystyra, neu ni châr y byd yr awn trwyddo, a'r hon ar y llaw arall, a amcana am y nefoedd fel ein gwir gartrefle, a'n gwladwriaeth barhâus (1 Ioan ii. 15 ; Phil. iii. 20).

(2) Mewn canlyniad, y grasusau crefyddol sydd i'w meithrin ydynt farweiddiad i'r byd presennol, a nefol-frydedd. Y rhain ydynt uchelgais beunyddiol a chwbl-hâd ardderchocaf y cymeriad Cristionogol perffaith.

6. Pa olygwedd sydd i'w chymeryd ar foesau y farn ddyfodol ?

(1) Hwy a'n dysgant i ystyried y ffurfiwn i ni ein hunain gymeriad a *wneir yn amlwg* y pryd hwnnw (2 Cor. v. 10). (2)

Hwy a osodant arnom y ddyletswydd o feddwl, llefaru a gweithredu, fel rhai a roddant gyfrif am bob gweithred, gair a meddwl. (3) Hwy a ddygant y cyfrif dyfodol hwnnw i mewn i hunan-farnedigaeth arferol y bywyd presennol (Iago ii. 12).

7. Sut y gallwn, yn ddiweddaf, gysylltu y moesau hyn â'r rhai a ragflaenasant?

Gan mai swm yr oll yw sefydliad cymeriad perffaith, a chan mai cylch prawf yw y bywyd hwn ar gyfer yr hwn a ddaw, eglur yw, y rhaid golygu pob agwedd arall ar foesau yng ngoleuni tragwyddoldeb.

II. Moesau Perthynasol.

1. Pa fodd yr edrycha yr Ysgrythur ar berthynas moesau personol a moesau perthynasol?

Fe gyfunir cymeriad personol, a chyflawniad dyletswydd tuag at arall yn wastad: y mae yna adweithiad parhaus o'r ddwy ochr: ac nis gallwn ddirnad am unrhyw räs o eiddo crefydd fewnol ag sydd yn gwbl amherthynasol i rwymedigaeth allanol.

2. Beth yw agweddiad arbennig hyn mewn Cristionogaeth?

Hi a edrycha ar bob dyn fel corff i'r hwn y mae Crist yn Ben; ac ar bob dyn fel aelod o'r corff cyfunol i'r hwn y mae Crist yn Ben (1 Cor. xi. 3; 1 Col. i. 18). Am hynny y mae y gair ADEILADAETH (*'oikodomê*) yn air newydd a gynhwysa yr oll o grefydd yn fewnol ac yn allanol.

3. Pa ddosparthiad a awgrymir gan y Testament Newydd?

Ni cheir i'n harwain grynnodeb moesegol o gwbl; eithr dengys ymchwiliad manwl nas gadewir unrhyw gymhwysiaidau o ddyletswydd ar nas cyffyrddir â hwynt. Edrychir ar foesau perthynasol yn (1) fel rhwymeb (*bond*) rhwymedigaeth i ddynolryw fel y cyfryw; (2) fel y nawseiddiant y bywyd teuluaidd; fel y rheoleiddiant drefniadau cyffredin a chymdeithasol yn gyffredinol; (4) yn fwy anuniongyrchol fel y dylanwadant ar wleidyddiaeth; ac yn (5) fel y deuant o hyd i faes arbennig yng nghymundeb yr eglwys.

§ 1. *Moesau ein Dynoliaeth Gristionogol.*

1. Pa fodd yr ymddrinnir â'r rhain mewn deddfwriaeth Gristionogol?

Mewn yspryd eangach a mwy urddasol nag yn unrhyw gyfundrefn foesol arall (1) Fe fodolai yn wastadol yn y gyfundrefn uchaf o'r tu allan i Gristionogaeth naill ai, megis yn achos Iddewiaeth, rhyw naws esgymunol (*exclusiveness*) yn yr ymdeimlad tuag at ddyn cyffredinol, neu ynte, megis yn achos Budwaeth, israddoldeb dwfn yn y cymhellydd cynhyrfiol. (2) Cristionogaeth yn unig yw a seilia y moesau cyffredinol hyn ar unoliaeth yr hiliogaeth yn y cwymp ac yn y prynedigaeth.

2. Beth yw tra-rhagoriaeth y ddeddf Gristionogol?

Y seilia hi bob dyletswydd tuag at ddyn yn gymaint ar gariad ag ar gyfiawnder: yr hyn yn y cyfuniad ohono yw perffeithrwydd ei dysgeidiaeth.

3. Sut y canfyddir hyn?

Cariad yn yr hwn a gyflawna y ddyletswydd sydd wir gariad Duw yn y dyn at ddyn; a chydnebydd cyfiawnder, gan ystyried ohoni wrthddrych y ddyletswydd, fod ganddo berffaith hawl i gariad.

4. Y'mha fodd yr arnodir cariad fel yn gyffredinol?

Trwy ail orchymyn ein Harglwydd *cyffelyb* i'r cyntaf (Matth. xxii. 39); trwy ei ddehongliad catholig Ef o'r cymydog, a'i gariad diderfyn Ef yn safon i'r eiddom ni (1 Ioan iii. 16); trwy osod o St. Petr gariad uwchlaw caredigrwydd brawdol (2 Petr i. 7); a thrwy ddisgrifiad arbennig St. Paul o gariad Dwysol, cynllun yr eiddom ni, fel *dyngaredd*, ac fel *cyflawnder y gyfraith* (Titus iii. 4; Rhuf. xiii. 10).

5. Pa rai ydynt raddegau cariad cyffredinol?

Fel y dymuna ddaioni pawb, caredigrwydd yw, fel yr arfera ddaioni i bawb, haelioni yw; fel datganiad o gariad anherfynol, hunan-aberth yw; a chan fyned ohono rhagddo trwy hir-oddefgarwch neu fawr-frydigrwydd, trugaredd, neu dosturi, neu gydymdeimlad, sylw y rhai sydd ar bechod a thrueni dynion, disgynna at y caredigrwydd a'r moesgarwch hynny a bâr i gariad dreiddio trwy gyd-gyfeillach arterol bywyd.

6. Beth yw cyfiawnder cyffredinol?

Y rhwymedigaeth i barchu hawliau pob dyn, ac yn yr ystyr eangaf i dalu i bawb *yr hyn sy' ddyledus* (Rhuf. xiii. 7).

7. Oddiwrth ba beth ei gwahaniaethir fel y mae'n gyffredinol?

(1) Oddiwrth gyfiawnder llywodraethol a gweiniadol Duw, ac (2) oddiwrth gyfiawnder llywodraethol a gweiniadol deddf ddynol.

8. Beth a gynhwysa fel y mae yn gyffredinol?

Rhoddiad gan ddyn i ddyn bob hawl ddynol. Y mae gan ddyn hawl ynddo ef ei hun, ac y mae cyfiawnder yn gwahardd caethwasiaeth: y mae ganddo hawl i'w feddianau, ac y mae cyfiawnder, mewn yspryd a gweithred yn gwahardd pob lladrdd; y mae ganddo hawl i'w gymeriad, ac amddiffynna ef yn erbyn enllib pendant, ac athrod negyddol: y mae ganddo hawl i'w urddas megis y crewyd ef yn nelw Duw, a chyfiawnder yw sydd yn dywedyd *Perchuch bawb* (1 Pet. ii. 17).

9. Beth yw neulltuolrwydd aruchel moesau Cristionogol yn hyn?

Fod cariad a chyfiawnder yn gyd-wëedig ynddynt. Ystyria cariad ei holl swyddau ei hun fel hawl pob dyn; ac erys hi yn ddehonglydd rhyddfrydig o'r hawliau hynny.

§ 2. Moesau y Bymwys Teuluol.

1. Pa fodd yr ymdrinnir â'r rhain yn gyffredinol?

Edrychir ar y teulu drwy yr Ysgrythur fel sylfaen pob cymdeithas, yr un yn gyffredin yw ei foesau dan bob goruchwyliaeth; ond yn hyn, fel y'mhob adran arall, y mae Cristionogaeth wedi argraffu ei chymeriad neulltuol ei hun, a dyrchafa i berffeithrwydd yr hyn a fuasai yn amherffaith.

2. Beth yw ystyr Gristionogol y teulu?

Disgrifir Cristionogaeth fel tylwyth neu deulu, ac fel teml Duw: cyd-dodda y ddau feddylddrych i'w gilydd. Am hynny, Cristionogion ydynt *oikeioi* (*teulu*) Duw a'r ffydd (Eph. ii. 19). Ond megis y mae pob Cristion yn deml, tra mai pawb oll ydynt y deml, felly hefyd tra mai pawb oll yw y teulu y mae pob teulu yn gyfryw: o dan benteulu aelodau yr hwn ydynt y gŵr a'r wraig, plant, meistr neu feistres gwasanaethwyr (*oikétai*), a chaethweision (*douloi*).

3. Beth yw ei rwymedigaeth?

Yr un ag y'mhob oes. Fe ddelir y penteulu yn gyfrifol am addoliad Duw gartref, am iachusrwydd y teulu yn y fydd, a'i ufudd-dod i'r gyfraith Ddwyfol: hynny yw, am gynhaliad i fyny addoliad teuluol, pen y tŷ, tad y teulu sy'n gyfrifol. Gall mai gwraig fydd y pen: at wraig weddw yr ysgrifennwyd y llythyr ardderchocaf ar grefydd deuluaid (Ioan ii.).

4. Ai hyn yw ystyr yr eglwys yn y teulu?

Y mae crefydd gynulliadol a chrefydd deuluol, fel rheol yn hollol wahanol. Eithr o dan amgylchiadau penodol, megis yn achos Philemon, gellid crynhoi ynghyd deulu er mwynhau ordinâdau eglwysig a bod yr un fath ag eglwys (Philem. ii.).

5. Y'mha ystyr y maent mor wahanol?

(1) Gwna crefydd deuluaid heb y weinidogaeth, yr ordinâdau, y cyfarfodydd cyhoeddus a'r rwymedigaeth o ledaenu yr efengyl. (2) Ond y mae yn rhaid iddi wrth air Duw a gweddi; gall hyn fod yn syml ddigon, dim ond darllen pennod, ac adrodd Gweddi yr Arglwydd; neu gall fod yn wasanaeth dra chyflawn; ond ni ddylid byth ai ystyried yn ddianghenraid, ac ni ddylid ystyried y gwneir i fwrdd âg ef gan addoliad cyhoeddus y gynulleidfa.

6. Beth ydynt foesau Cristionogol y cyflwr priodasol?

(1) Darfu i'n Harglwydd osod Ei sêl ar unwreiciaeth fel sefydliad gwreiddiol y Creawdwr (Marc x. 6).

(2) Rhydd St. Paul yr anrhydedd uchaf sy' ddichonadwy i'r ystâd hon, trwy ei gwneud yn arwydd-lun, ac yn eglurheb ar yr undeb sydd rhwng *Crist a'r Eglwys* yr hon yw *Gwraig yr Oen* (Eph. v. 32; Dat. xxi. 9).

(3) Gan hynny, y mae y gŵr a'r wraig Gristionogol yn *gyd-etifeddion o râs y bywyd* (1 Pet. iii. 7); y mae yr undeb cydrhngddynt yn un *ddihalogedig* ynddo ei hun (Heb. xiii. 4), a rhaid yw ei gadw yn ddihalog.

(4) Y mae yn anatodadwy yn ei natur (Marc x. 9); nid yw ysgariaeth yn oddefol o dan y ddeddfwriaeth newydd, oddigerth mewn achosion o anffyddlondeb priodasol, ac enciliad (Matth. xix. 9); a dylai y wraig wrthodedig aros heb briodi (1 Cor. vii. 15, 11).

7. Beth ydynt foesau y berthynas rieniol a mabol?

Rhyddheir y rhain oddiwrth rai deddfwriaethau llym o eiddo y gyfraith Iddewig ar y naill law; ar y llaw arall yn gyffredin gyda phob perthynas, eithr gyda phwys neulltuol, hwy a ddyrchafir ac a sancteiddir *yn yr Arglwydd* (Eph. vi. 1).

(1) Dysgir rhieni i ystyried eu hiliogaeth yn *sanctaid* (1 Cor. vii. 14); hynny yw, eu bod megis trwy eu genedigaeth-fraint yn eiddo i'r Gwaredwyr mewn ystyr arbennig, o'r hyn y mae eu bedydd yn arwydd a sêl; cynghorir y rhieni hefyd i'w hyfforddi hwynt *yn addysg ac athrawiaeth yr Arglwydd* (Eph. vi. 4).

(2) Dysgir plant i ufuddhau i'w rhieni *y'mhob peth* Col. iii. 20; Eph. vi. 1), ac mewn amser priodol i *dalw y pwyth* iddynt (1 Tim. v. 4). Yn yr ymadrodd hwn y mae *yn yr Arglwydd* yn neulltuol arwyddocaol oddiwrth esiampl berffaith yr Arglwydd Ei Hun yn ei ddeuddegfed mlwydd oed (Luc ii. 51).

§ 3. Moesau Gymdeithasol, Masnachol a Gwladol.

1. Beth yw cylch neu gynnwys y rhain?

A siarad yn fanwl, nid edwyn Cristionogaeth unrhyw gysylltiadau cymdeithasol ar nad ydynt yn gyd-gorfforedig a chymdeithas yr eglwys. Hi a gysegra yn anuniongyrchol gymrodoriaeth mewn celf a gwyddor a nifer afrifed o drefniadau gwareiddiol. Ond hi a gydnebydd drafnidiaeth mewn ystyr fwy uniongyrchol yn sefydliad Dwyfol, gan gysegru ei hegwyddorion a'u dyrchafu i gylch cyffredinol bywyd sancteiddiedig. Yr un peth ellir ei ddweud am gymdeithas ddinesig a gwladol yn ei holl adrannau a'i changennau.

2. Ai anuniongyrchol yn unig ynte yw dylanwad moesau Cristionogol ar y rhain i gyd?

Anuniongyrchol yn yr ystyr hon, sef mai surdoes yw y ddeddf Cristionogol, a dreiddia trwy bopeth, cwrsweithrediad dylanwad yr hwn, sy'n ddistaw a dirgelaidd. Ond i'r graddau yr ynilla Cristionogaeth awdurdod, a pha le bynnag y llywodraetha hi, fe ddaw dylanwad ei moesau yn uniongyrchol ac amlwg. Yn y cyfamser fe erys, a rhaid i ddysgeidiaeth uchaf Cristionogaeth aros am byth, i gymdeithas y byd hwn, yn ddim amgen na delfryd.

3. Rhoddwch rai engreiffitiau o hyn.

(1) Fe hawlia perthynas yr eglwys a'r byd, ei chymdeithasau, a'i ffyrdd o fyw, fod i ddisgyblion yr Iesu gario eu crefydd i bob man : gan fod o honynt *yn nghanol cenhedlaeth ddrygionus a thro-fâs . . . yn ddiargyhoedd a diniwed*, ac yn *disgleirio megis goleuadau yn y byd* (Phil. ii. 15). Ni chaniateir iddynt hwy *fyned allan o'r byd* (1 Cor. v. 10).

(2) Ymosodwyd ac ymosodir ar luaws o ddrygau cymdeithasol a gwladol trwy ddylanwad anuniongyrchol moesau Cristionogol, megis caethwasiaeth, rhyfel, a rhai chwareuon cyhoeddus amhriodol.

(3) Nid oes yr un ffurf o lywodraeth nad yw dylanwad Cristionogaeth wedi ei threiddio yn anuniongyrchol : y dylanwad hwnnw a ddisgrifir ac a argymhellir gan yr apostolion (Matth. xxii. 21 ; 1 Cor. v. 10).

4. Beth a olygir wrth fod moesau Cristionogol yn aros fel delfrydau ?

Y dylai holl gyfraith Crist fod yn ben o fewn i'r eglwys Gristionogol : y corfforiad llythyrennol o'r hon yw y bregeth ar y mynydd ; a rhaid cau allan gasgliad cyfoeth, llwon cyfreithiol ac ereill, a dial y'mhob ffurf. Eithr hyd onis ffurfir cymdeithas yn ol y ddeddf Gristionogol y mae yn anhawdd cymhwyso y safon hwn. Yr oedd y Gwaredwr a'i apostolion yn byw mewn cymdeithas nas gallai oddef y gorchymynion hyn : a chydymffurfient â'r safon is, er engraifft, trwy ymostwng i wneud llw.

5. A ellir profi neu egluro hyn trwy engreiffitiau nes atom ?

Ar y naill law, condemnia St. Paul yn erwin yr arferiad o *ymgyfreithio*, yn enwedig ger *bron y rhai digred* (1 Cor. vi. 6). Eithr ar y llaw arall, bu iddo ef ei hun apelio at Cæsar, a chafodd nawdd ac awdurdod ei Arglwydd dros ymwrthod o hono i ddadleu ger bron rhai digred (Act. xxvi. 11 ; Luc xii. 12).

6. Sut y mae hyn yn gymhwysadwy at foesau trafniadaeth ?

Rhag-dybir trafniadaeth fel un o sylfaeni cymdeithas. Ond gofynna, er ei llwyddiant a'i pherffeithiant, gymhwysiad arbenig, neu ddehongliad cyfaddasedig o rai o orchymynion Cristionogaeth.

7. Beth, er engraifft, am gymundeb eiddo ?

Nid ufudd-dod i orchymyn ydoedd hyn, ond dawn neulltuol, fel pe bae, o eiddo yr eglwys foreuol; hanes yr hwn a red rhagddo ar ol hyny yn y cyfryngau arferol.

8. Beth yw osgo deddfwriaeth ar y pwngc hwn ?

Difynol yn gyffredin, gan rybuddio o honi yn erbyn casglu trysorau fel y cyfryw, ac ar wahan i angenrheidiau cyfalaf, neu ddarpariaeth briodol dros y teulu (Matth. vi. 19). Rhydd le amlwg hefyd i elusen: *Rhoddi i'r hwn y mae angen arno* (Eph. iv. 28). Pa mor eang y cymhwysiad a ganiata hyn a welir yn nameg ein Harglwydd am y Goruchwyliwr Anghyfiawn; yn lletygarwch Gaius; ac yng nghysegriad cyfoeth Cristionogol y'mhob oes (Luc xvi. ; 2 Ioan). Eithr nis ceir yn unman, fodd bynnag, yn fwy difrifol nag yng nghyngor St. Paul i Timotheus (1 Tim. vi. 9, 10, 17, 19). Yno, ni a gawn yr ochr rybuddiol yng nghyntaf, ac yna yr un anogaethol o feddiannu cyfoeth : yn y naill ymddengys fel pe yn beth amhosibl i fod yn gyfoethog ac yn Gristion; yn y llall fe ddiogelir cyfoeth, a gwneir ef yn fuddiol i wasanaeth Gristionogol; ac fel hyn, cyflenwa y naill ymadrodd ddiffyg y llall.

9 Pa fodd y mae yn gymhwysadwy at gymdeithas wleidyddol ?

(1) Fe gydnebydd Cristinogaeth yn y modd croywaf am yr *awdurdodau y sydd mai gan Dduw y maent wedi eu hordeinio* (Rhuf. xiii. 1). Cyd-raddola ein Harglwydd mewn ystyr neulltuol awdurdod Dwyfol a dynol: *Telwch chwithau yr eiddo Cæsar i Cæsar, a'r eiddo Duw i Dduw* (Matth. xxii. 21). Ac felly hefyd Ei apostol: *Ofnwch Dduw. Anrhydeddwch y brenin* (1 Pet. ii. 17).

(2) Am hynny argymhellir y'mhobman y ddyletswydd o weddio dros y llywodraeth a'i gweinyddiaeth, i barchu y deddfau, talu teyrnged, a byw bywyd dinesig heddychol (1 Tim. ii. 1, 2; Rhuf. xiii. 1—7).

10. A ddywedir dim y'mhellach parthed perthynas yr eglwys â'r wladwriaeth ?

Dim fel cyngor, a dim ond ychydig mewn proffwydoliaeth. Deddfwriaeth y Testament Newydd i Gristionogion y mae, fel aelodau a deiliaid teyrnas Crist, yr hon *nid yw o'r byd hwn* (Ioan xviii. 36). Ac ni awgryma y crybwylladau proffwydol byth

pa un bynnag ai eiddo yr Hen Destament neu'r Newydd, gyfuniad yr Eglwys a'r wladwriaeth.

11. Y'mha fodd y llefarant hwy am dani?

(1) Fe ragfynegir yn yr Ysgrythur gyntefig, lle y ceir yr eglwys a'r wladwriaeth yn un yn y Ddwyslywiaeth, y bydd i frenhinoedd a chenhedloedd ddwyn eu hadnoddion a'u trysorau i Eglwys Crist, neu y bydd iddynt ei gwrthwynebu hi, ac y malurir hwynt (Esai. xlix. 23; lx. 3, 17; Hag. ii. 7; Ps. ii. 9).

(2) Yn Llyfr y Datguddiad fe raghysbysir cyfathrach rhwng y gallu tymhorol a'r un ysprydol fel un o ffurfiad yr Anghrist (Dat. xiii. 4); tra, y dywedir yn yr un broffwydoliaeth, *Aeth teyrnasoedd y byd yn eiddo ein Harglwydd ni, a'i Grist Ef* (Dat. xi. 15).

(3) Ond cymerir yn ganiatâol drwy'r holl Ysgrythur y rhaid i Gristionogaeth roddi ffurf, yn raddol, i bob sefydliad cymdeithasol, tra yn gwbl ar wahân oddiwrth unrhyw un o'i ffurfiau.

12. Y'mha fodd y gallwn dybio sylweddoliad o'r delfryd hwn?

Trwy gydnybuddiaeth genedlaethol o'r grefydd Gristionogol; megis ei danghosir mewn parch deddfwriaethol i ddeddfau Crist, mewn ategiad egwyddorion Cristionogol mewn addysg; mewn parch cyhoeddus i enw Duw fel noddydd pob awdurdod, ac yn niffyniad y Ffydd yn ei gwaith rhydd ac anibynnol.

13. Pa fodd yr eglurwyd hyn yn hanes Crêd?

Trwy fethiant unwedd, y'mron, i iawndrefnu,—pa un bynnag ai mewn damcaniaeth ai ymarferiad—y berthynas rhwng teyrnasoedd y byd hwn a theyrnas Crist.

14. Lle y gallwn olrhain y methiantau hyn?

Yn hanesiol, trwy holl lygriadau Crêd. Y mae y rhain yn yr egwyddor ohonynt wedi arddangos dwy ffurf gyffredinol, gyda chymedroliad, o'r un cyfeiliornad o gymysgu y ddau awdurdod cyfochrog. (1) Naill ai fe wnaed yr ochr ysprydol yn ben, megis yn Rhufen, tra'r gallu tymhorol yn israddol iddo; neu yn (2) darfu i'r gallu tymhorol nawddogi a rhoddi cyfeiriad i'r un ysprydol, megis yn y Dwyrain, ac mewn Erastiaeth Brotestanaidd,* pa un bynnag ai Lutheraidd ai Anglicanaidd. Arweinir ni gan y dehongliad cywir at yr athrawiaeth am yr Eglwys.

* Gwel Nodiad LIII.

PENNOD VII.

Yr Eglwys Gristionogol.

1. Paham y cyflwynir y pwngc hwn yma?

Oblegid mai yr Eglwys yw y cylch yn y hwn y gweinydda yr Yspryd holl swyddau Crist. Ar y cyfrif hwn ymddengys mai gwell f'ai ei osod dan weinyddiad y prynedigaeth na rhoddi iddo le rhy amlwg ac anibynnol.

2. Beth yw cylch y pyngciau dan y pennawd hwn?

Y'nghyntaf rhaid i ni efrydu sefydliad yr Eglwys, y'nghyd â'i harwyddnodau neu briodoleddau, fel corff neu sefydliad corfforedig; yna ei hystyried fel teml, neu gylch o addoliad; ac yn ddiweddaf, nodi allan ei pherthynas â'r byd, megis y'i darperir ganddi ar gyfer y deyrnas derfynol.

I.

Yr Eglwys a'i Harwyddnodau.

§ 1. Ei Sefydliad.

1. Pa dystiolaeth a hyfforddia yr Efengylau dros ddarfod i'n Harglwydd fwriadu sefydlu cymdeithas neu gymundeb?

Cymer y profion o hyn ffurf deirplyg:

(1) Efe a lefara ddarfod iddo ddyfod i osod i fyny *deyrnas Dduw*, neu *deyrnas nefoedd*, neu *Fy nheyrnas* (Matth. vii. 33; iii. 2; Ioan xviii. 36).

(2) Efe a'i galwodd hi ddwywaith yn Eglwys; y'nghyntaf, yn ei chyffredinolrwydd, *Adeiladaf fy Eglwys* (Matth. xvi. 18), ac yna yn ei nodwedd gynulleidfâol, *Dywed i'r Eglwys* (xviii. 17).

(3) Ar derfyn Ei weinidogaeth darfu iddo Ef ordeinio sefydliadau a ddynodant neu a hawliant drefniant parhâus.

2. Pa bryd y sefydlwyd yr Eglwys yn weithredol?

Ar ddydd y Pentecost. (1) Dyna'r pryd y daeth y deyrnas mewn gallu (Matth. xvi. 28); (2) dechreuodd yr Eglwys fel

Z

cynulliad ar, ac oddiamgylch enw yr Iesu; (3) dyna'r pryd y gwelir y weinidogaeth a'r gair a'r ordinhâd yn gyfunedig gyntaf. Dechreuodd trefniant dan yr Yspryd Glân, ac â rhagddo yn ebrwydd yn yr adroddiad.

Beth yw perthynas teyrnas ac Eglwys?

Cyfeiria teyrnas yn hytrach at awdurdod Crist ei Brenin; yr Eglwys at y deiliaid ohoni, casgledig allan o'r byd (*ek, kálô*): megis yr oedd y bobl gyntefig yn byw o dan Ddwyf-lywiaeth, felly ninnau o dan Grist-lywiaeth; ac megis y gelwid hwy y gynulleidfâ, felly y gelwir ninnau yr Eglwys. Un yw y deyrnas, ac yn dyfod yn wastadol: gall yr Eglwys fod yn lluaws yn yr un Eglwys, yr hon sydd wedi dyfod.

§ 2. Ei Harwyddnodau neu Briodoleddau.

1. Beth a olygir yma wrth arwyddnodau yr Eglwys?

Priodoleddau penodol a'i darnoda fel y corff, Pen yr hwn yw Crist, gan ddynodi ei pherthynas âg amser a thragwyddoldeb, â'r nefoedd ac â'r byd.

2. A ddynoda hyn fod yr Eglwys yn Ddwyfol ac yn ddynol fel ei Phen?

Y mae y gyfatebiaeth yn amlwg, fel mai Ei gorff Ef yw hi; ond, fel pob cyfatebiaeth arall, rhaid yw peidio a'i gwasgu yn rhy bell. Ond ei chymhwyso yn ofalus, bydd yn ddefnyddiol ar bob pwynt o efrydiaeth ar yr Eglwys, i'r hon yn wastadol y mae dwy agwedd, sef y nefol a'r ddaearol.

3. Beth yw yr arwyddnod cyntaf a eglura hyn?

Yr arwyddnod o unoliaeth: o barthed i hwn, y mae yr Eglwys yn un, ac eto yn amrywiol: gan fod ei hunedd ysprydol a nefol yn hanfodol gyd-rwymedig âg amrywiaeth o ffurfiau daearol.

4. Beth yw dysgeidiaeth yr Ysgrythur parthed unoliaeth?

(1) Mai corff y rhai cadwedig o ddynolryw *allan o bob llwyth, ac iaith, a phobl, a chenedl*, yw yr un Eglwys, mewn ystyr eang (Dat. v. 9).

(2) Mai un yw Eglwys Dduw dan wahanol oruchwyliaethau: yr un Batriarchaidd, yr un Iddewig, a'r un Gristionogol.

(3) Ond yn fwy priodol, mai un yw Eglwys Crist, yng nghyffesiad yr *un Arglwydd*: yr hyn yw yr *un bedydd* i enw y Drindod, yr hyn a wna *un corff*: a'r meddiant o'r Yspryd Glân mewn ymuniad â'r Pen, yr hyn a wna yr *un Yspryd* (Eph. iv. 3—6).

5. A pheth a ddysga parthed amrywiaeth?

(1) Llefara am eglwysi ar wahân, er yn unedig yn y gyffes gyffredin, yr addoliad, a disgyblaeth.

(2) Y mae'n ddistaw y'nghylch unfurfiaeth rheidiol, a hyfforddia wers trwy y cyfryw ddistawrwydd.

(3) Condemnir yn enwedig rwyg mewn yspryd, neu ymran-iaeth (*schism*), a rhwyg mewn athrawiaeth, neu heresi (1 Cor. i. 11; Gal. v. 19).

6. Pa fodd yr ymgyfuna yr unoliaeth a'r amrywiaeth?

Yn yr athrawiaeth ddiwinyddol ar y pwngc: gallwn lefaru am yr unrhyw Eglwys Crist fel un ac eto fel amryw. Gallwn gredu mewn ystyr foesol, yn yr undeb hanfodol, tra y canfyddwn lawer o amrywiaeth: a dyletswydd gyffredinol yw gochelyd pob rhwyg ar yr undeb, tra y rhaid lleihau, hyd ag y mae yn ddichon-adwy, yr amrywiaethau hynny a darddasant o'r gorffennol.

7. Beth yw yr arwyddnod, neu y briodoledd nesaf?

Sancteiddrwydd, i'r hyn yn y byd hwn, fodd bynnag, y perthyna amherffeithrwydd fel ei gyferbynnnydd angenrheidiol.

8. Eglurwch hyn yn llawnach?

O barthed i gymundeb dirgeledig y corff hwnnw, yr hwn yw *Ei gyflawnder Ef, yr Hwn sydd yn cyflawni oll yn oll* (Eph. i. 23), golygir ef mewn ystyr broffwydol fel yn ddidoledig oddiwrth y byd ac yn gyflwynedig heb frycheuyn. Ond, a lefaru am Eglwys Crist fel y mae ar y ddaear, y mae (1) yn weithredol sanctaidd mewn ystyr berthynasol, fel corff didoledig oddiwrth y byd yr awrhon, ac i gael ei ddioli am byth; ac yn (2) perthyna iddi fel cymdeithas sancteiddrwydd mewmol gwirioneddol, ond rhannol. Ni fydd y sancteiddrwydd perthynasol a'r un gwirioneddol yn un ac yn gwbl gyson hyd *amser y cynhauf*, pan y didolir y gwenith a'r efrau (Matth. xiii. 30).

9. Pa fodd y canfyddir hyn yn yr arwyddnod o weledigrwydd?

(1) Trefniant gweledig yw Eglwys y Testament Newydd wedi ei deffinio yn glir oddiwrth y byd, ac oddifewn iddi

hi ei hun. Ni ragorwyd arni erioed yn hyn o beth gan unrhyw gorfforiaeth.

(2) Y mae ar yr un pryd yn anweledig, neu ddirgeledig, neu ysprydol. *Yr Arglwydd a edwyn y rhai sydd eiddo Ef yn y ty mawr* (2 Tim. ii. 19, 20).

(3) Eithr ni chawn un amser ddatganiad croyw o'r gwahaniaeth. Y ddau gyferbyniad hyn o weledig ac anweledig ydynt y rhai mwyaf syml yn yr Ysgrythur, lle, fodd bynnag, y rhoddir mwy o amlygrwydd i'r blaenaf nag i'r olaf. A siarad yn fanwl, y deyrnas yn hytrach na'r Eglwys sy'n anweledig.

10. Pa fodd y'i canfyddir mewn catholigrwydd?

Fel arwyddnod ysgrythyrol dynoda catholigrwydd y syniad o gyffredinolrwydd: megis y mae yn wahaniaethedig oddiwrth yr Eglwys Iddewig, trwy gynnwys pob cenedl (Gal. i. 2); ac megis y mae yn wahaniaethedig oddiwrth eglwysi unigol mewn dinasoedd, a thalaethau, a gwledydd (Dat. i. 4).

11. Sut y mae apostolaidd yn arwyddnod ysgrythyrol?

Yr oedd Eglwys y Pentecost yn *parhau yn ddiysgog yn athrawiaeth yr apostolion, ac mewn cymdeithas*; ac fel *teulu Duw*, y mae wedi ei *goruwchadeiladu ar sail yr apostolion a'r proffwydi* (Act. ii. 42; Eph. ii. 19).

12. Beth a olygir wrth di-ddiffyg, a chynfnewidiol?

(1) Bydd i'r Eglwys weledig aros hyd ddyfodiad yr Arglwydd; *a phyrth Hades nis gorchfygant hi* (Matth. xvi. 18).

(2) Ond gall Eglwysi unigol gael eu chwalu, neu lygru ohonynt y ffydd, a chael eu symud o'u lle.

(3) Gan hynny, y mae y ddau gyferbyniad—yr Eglwys sefydlog a'r eglwysi cyfnewidiol—yn ysgrythyrol; ac o gryn bwysigrwydd er cerydd i ddallbleidiaeth ac er symud ymaith amheuaeth.

13. Sut y gellir haeru y datganiad milwriaethus a gorfol-eddus am yr un deiliad?

Y mae yr eglwys filwriaethus mewn ymdrechfa barhaus â gelynyion ei Phen, yn allanol ac yn fewnol. Fel y mae yn orfol-eddus, y mae yr unrhyw Eglwys yn un fuddugoliaethus ynddo Ef: y mae rhan ohoni eisoes yn mwynhau tangnefedd y fuddugoliaeth derfynol (2 Cor. ii. 14; Dat. vii. 14—17).

§ 3. *Ambriniaeth Hanesiol.*

1. **Beth fu arwyddocâd yr arwyddnodau hyn mewn hanesiaeth Eglwysig?**

Fe ddefnyddid y term er yn foreu i ddarnodi yr Eglwys wrth ei harwyddnodau o ragorfraint a rhagoriaeth. Ond daeth yn raddol i ddynodi y safonau wrth y rhai y gwahaniaethid y wir Eglwys oddiwrth yr un âu.

2. **Sut yr eglurir hyn gan y pedwar arwyddnod yn y credöau boreuol?**

Yng Nghredo yr Apostolion yr arwyddnodau ydynt "glân, catholig;" yng Nghredo Nicëa, "catholig;" yng Nghredo Caercystenyn, "un, catholig, apostolaidd." Y mae pob un yn briodoledd o ragoriaeth, ac yn arwyddair o wahaniaethiad oddiwrth ryw heresi o eiddo'r amseroedd hynny.

3. **Paham nas cyfyngwn ein hunain i'r rhain?**

Oblegid fod perthynasau yr Eglwys wedi newid yn fawr; ac fod y nodweddion ychwanegol wedi cyrraedd ohonynt gryn bwysigrwydd, yn enwedig er adeg y diwygiad. O amgylch yr arwyddnodau hyn y try bron pob gwrthddadl eglwysig.

4. **Pa wrthddadleuon a gyffyrddir â hwynt gan yr arwyddnod o unoliaeth?**

Y cwestiwn rhwng unoliaeth ac unfurfiaeth; a'r un rhwng unoliaeth ac ymraniadaeth.

(1) O barthed y blaenaf, y mae ewyllys yr Yspryd wedi ei hyspysu o'r dechreuad: un-ffurf allanol o Gristionogaeth nid oes wedi bod yn y byd er y canrifau boreuol. Cafwyd mai ofer ydoedd amcanu at unfurfiaeth cenedlaethol; nac hyd yn oed i ategu unfurfiaeth yn unrhyw le penodol. Pa mor ddymunol bynnag y gallai hynny ymddangos y mae unig Ben yr Eglwys wedi dyfod ohono yn Ben i Eglwysi amrywiol ac amryfath, gan ddefnyddio ohono Ef yr oll ohonynt er adeiladaeth y Saint, er diffyniad y Gwirionedd, ac er lledaeniad yr Efengyl.

(2) O barthed i'r olaf: y mae ymraniad yn ol y Testament Newydd yn bechod mawr; a chan hynny y mae torri ar unfurfiaeth yr Eglwys yn gamwri. Y mae yn ddyletswydd i ymddidoli oddiwrth Eglwys a fo wedi gwadu y ffydd; ond pa un bynnag ai personol ai cynulliadol fyddo yr ymddidoliad, ni ddylid ei

gymeryd ond fel y cam diweddaf, a chynhwysa gyfrifoldeb dwfn.

5. Pa fodd y mae hyn yn gymhwysadwy at wledydd Crêd diweddar?

Dengys cyflwr y grefydd Gristionogol nad oes wir unoliaeth yn bod, ond y cyfryw ag sydd ysprydol. Unffurfiaeth yw arwyddair yr hen gymundebau: serch hynny, cyfrifa y Dwyrain mai ymraniad (*schism*) yw Eglwys Rhufen; a chyfrifa Rhufen mai ymraniad yw pob corff ar nad ymostynga i gadair St. Petr. Y mae Eglwysi cenedlaethol yn seiliedig yn gyffredin ar yr egwyddor o esgymuniaeth neu gau allan bawb arall (*exclusiveness*), ond yn hwyr neu hwyrach fe'u gorfodir i ymwrthod â hi.

6. Pa fodd y mae yr arwyddnod o sancteiddrwydd* (glân) yn cynnwys gwrthddadl?

Yn bennaf ar y cwestiwn o ddisgyblaeth: prif egwyddor yr hwn y rhaid fod diogeliad purdeb mewnol yr Eglwys; ond ar yr un pryd, dylid cofio, y perthyna i'r Gymdeithas neu'r cymundeb fel y cyfryw sancteiddrwydd allanol a pherthynasol.

7. Beth yw effeithiau arbennig hyn ar hanes eglwysig?

Rhaid edrych ar y rhain yn gysylltiedig â'r arwyddnodau o weledigrwydd ac anweledigrwydd yr Eglwys:—

(1) Nid yw yr Eglwys weledig yn lân ar y goreu ond trwy gyfrifiad. Eithr dirywiwyd y gwirionedd hwn trwy wneuthur i undeb allanol â'r wladwriaeth fod yn ddigonol; trwy laesu disgyblaeth; a thrwy esgeuluso ategu yn briodol yr ordinhadau sanctaidd.

(2) Y mae yr Eglwys anweledig, yng Nghrist, wedi ei sancteiddio yn wirioneddol. Eithr dirywiwyd y gwirionedd hwn: gan y sawl y'mhob oes a wnaethant aelodaeth yn ddibynol ar brofiad a chyffesiad o adnewyddiad ysprydol; y rhai trwy hynny y darfu iddynt dynnu y llinell yn rhy fanol rhwng yr Eglwys a'r gynulleidfa.

8. Beth yw tarawiad hyn parthed y cymdeithasau penodol sydd yn yr Eglwys?

Bu y rhain o'r dechreuad yn noddfa rhag eglwys oedd yn rhy debyg i'r byd, gan gymeryd ohonynt ddau gyfeiriad: y naill sydd ymneulltuaeth i urddau crefyddol, gan ddilyn "cynghorion

* Gwel § 3. Cwestiwn 2.

perffeithrwydd ; ” y llall, a ffynna yn fwyaf penodol er gwawriad y Diwygiad Protestanaidd, sydd ymgais am gymundeb agosach a chyd-arolygiaeth (*mutual supervision*) mewn brodoriaethau gwirfoddol.

9. Beth fu cwrs cyffredinol y cymdeithasau mewnol hyn ?

Bu i rai ohonynt nychu ac edwino ymaith ; cafas rhai ohonynt oes hir ac iachus, megis yn yr Almaen ; ac yn ddiweddfaf oll, y mae rhai ohonynt wedi dyfod yn Eglwysi eu hunain, ar wahân. O'r dosparth diweddfaf hwn, y Cymdeithasau Methodist-aidd ydynt yr engreiffiau hynotaf yn hanes Crêd.

10. Sut yr hynotaf ?

Am ddarfod iddynt lwyddo i raddau helaeth i gyfuno holl hanfodion Eglwys Gristionogol a chymdeithas o fewn i'r Eglwys : a threfniad y Rhestr-gyfarfod yn ganolbwynt i'r olaf.

11. Y'mha fodd y cymhwyswyd yr arwyddnod o Gatholigrwydd ?

Defnyddid y gair Catholig yn y Credöau boreuol i ddynodi un corff cyffredinol yn wrthgyferbyniol i heresiâu a phleidiau rhanedig a neillduedig. Yr oedd iddo ar y pryd ystyr dda, gan yn wir mai ymraniadau oddiwrth y wir Eglwys oeddynt y cyrff a gynrychiolent y cyfeiliornadau hynny a gondemnid gan amrywiol erthyglau y credo. Eithr er ymwahaniad Eglwys y Dwyrain ac Eglwys y Gorllewin, nid oes yr un Eglwys gatholig weledig wedi bod mewn cynrychiolaeth allanol.

12. Beth yn y fan hon yw perthynas heresi a sism ?

Golyga y gair sism (*schisma*) raniad ac edrych arno yn ei berthynas â'r corff cyfunol, rhydd y gair heresi (*haïresis*) amlygrwydd i'r farn bersonol neu breifat a arweinia ati. Ond dengys hanes Cristionogaeth y dylid cymhwyso y geiriau yn ochelgar. Cam-ddefnyddiwyd hwy yn fwy braidd nag unrhyw eiriau.

13. Pa egwyddorion gocheliadol sy'n angenrheidiol ?

(1) Dylid cofio na chyfrifir sism i'r ffaith seml o ymwahaniad : gall y corff yr ymwahanwyd oddiwrtho fod y fath ag i wneud yr ymwahaniad yn angenrheidiol ; a rhoddwyd i gyrff ymwahanedig, a elwir yn sectau, sêl y boddlonrwydd Dwyfol ar eu hanes dilynol.

(2) Y mae y gair heresi yn un amhenodol o ran ystyr. Galwyd Cristionogaeth yn Heresi (Act. xxiv. 14); a'r unig ddefnydd safadwy o'r gair yn bresennol yw i arnodi y cyfryw gymundebau ag ydynt wedi ymadaw â hanfodolion athrawiaethol y Testament Newydd.

(3) Y mae pob Eglwys yn gyfrifol am gynnal i fyny yr athrawiaeth gatholig yn erbyn heresi, y'nghyda'r yspryd catholig yn erbyn sism.

14. Beth fu dylanwad yr arwyddnod o apostolaeth?

Ar y cyntaf arwyddnod ydoedd o Eglwysi sylfaenedig gan yr Apostolion, neu ar eu hawdurdod hwynt; yna daeth i fod yn arwyddnod ffyddlondeb i athrawiaeth apostolaidd. Ac at yr ystyr hon y ceidw.

15. Pa gyfeilliornadau a luskasant i fewn ar y pwynt hwn?

Yn bennaf, y cyfryw a sylfaenir ar olygiad cyfeiliornus am olyniant apostolaidd: sef y ddamcaniaeth honno: (1) Fod awdurdod yr apostolion wedi treiglo ohono i lawr ar hyd un linell olynol, trwy yr esgobion; (2) fod archesgobaeth St. Petr wedi treiglo ohoni ar hyd llinell olynol esgobion Rhufen; ac yn (3) nas gellir dod o hyd i'r wir Eglwys yn unman, amgen na'r lle y gellir olrhain yr olyniaeth hon, o leiaf yn y braslinelliad ohoni.

16. Beth yw yr effaith o hyn?

Cymysgedd ac ansicrwydd diderfyn. Megis ei cymhwysir gan Eglwys Rhufen, y mae yn cau allan o Grêd holl Eglwysi y Dwyrain yn flaenorol i'r Diwygiad Protestanaidd, a'r holl fyd Protestanaidd o hynny allan; megis ei cymhwysir gan gymundebau esgobol ereill, hi a dyr ymaith bob cymundeb an-esgobol, a gwna eu safle hwythau yn dra amheus, hyd yn oed ar eu hegwyddorion eu hunain.

17. Beth yw osgo yr erthygl "cymundeb y saint," ar holl bwngc yr arwyddnodau?

(1) Fel un o erthyglau y Ffydd, haera fod pawb Cristionogion gwirioneddol yn credu yn eu cymdeithas gyffredin â'r Drindod Sanctaidd yng Nghrist, â holl gymundeb y gwir gredinwyr yn y gorffennol a'r presennol, ar y ddaear ac yn y nefoedd; ac yn nilysrwydd unoliaeth dirgededig (*mystical*) er gwaethaf y gwahaniaethau lluosog a llydain.

(2) Fel cyffes o'r gyfryw Ffydd cynhwysa y cyfrifoldeb o ddefnyddio pob moddion i leihau y gwahaniaethau ac i hyrwyddo cariad brawdol : trwy arfer pob cyfle i gydweithredu yn lledaeniad teyrnas y Gwaredwr, yr hyn yw unig ddiben bodolaeth yr amryw- iol Eglwysi.

II.

Yr Eglwys fel Eplcŷ o Addoliad.

1. Beth a gynhwysa y pwngc hwn?

Addoliad y gynulleidfa; y moddion cyhoeddus, ac ordin- hadau grâs; a'r weinidogaeth Gristionogol.

2. Beth yw perthynas y rhain â'n dosparthiad ni o'r pwngc?

Cynhwysa y cyntaf holl wasanaeth defosiwn cyhoeddus, megis yr ymddyrchafa at Dduw; sylwa yn ail ar gymundeb dilynwyr Crist megis y derbyniant fendithion gan Dduw trwy gyfryngau apwyntiedig; a'r trydydd ar gynrychiolwyr swyddogol yr Eglwys Gristionogol yn y ddwy berthynas a nodwyd.

I. Addoliad y Gynulleidfa.

§ 1. Addoliad Gristionogol.

1. Beth ydynt brif nodweddion yr addoliad hwn?

Y ffurf uchaf ydyw o'r warogaeth gyhoeddus honno ag y mae Duw wedi ei derbyn y'mhob oes gan Ei bobl fel y cyfryw.

2. Y'mha fodd y gwahaniaethir addoliad Cristionogol fel yr uchaf?

(1) Megis ei cyflwynir i'r Tri-Un-Duw yn y datguddiad terfynol a roddes Efe ohono Ei Hun; (2) trwy y Cyfryngwr, yr Hwn yr awrhon sy'n gyflawn hyspysedig; (3) megis nid mwyach yn ddefodol, eithr yn gyson âg ysprydolrwydd perffeithiedig addoliad ei hun; ac yn (4), yn unol â'r amlygiad cyflawn o natur yr Eglwys, y mae bellach megis na bu erioed o'r blaen, yn addoliad cynulleidfäol.

3. Nodwch nodweddion hanfodol a chyffredin pob addoliad cyhoeddus?

(1) Addoli Duw Ei Hun, moli Ei berffeithderau a'i weith-

redoedd, diolchgarwch am Ei drugareddau: fel y deyrnged ddyledus i'r Goruchaf gan Ei bobl.

(2) Cyffes, gweddi, eiriolaeth: megis eu hawlir gan eu natur bechadurus eu hunain, eu angenrheidiau, a'u cariad cyffredinol.

(3) Cyd-gynulliad er offrymu y ddau.

4. A fu yr olaf hwn yn gyffredinol?

Do: ond gyda gwahaniaethau yn yr amrywiol oruchwyliaethau gyda golwg ar amserau penodol a lleoedd penodol, a defod yr addoliad.

5. Beth yw y ddeddf Gristionogol parthed lle?

Tra o dan yr hen oruchwyliaeth mai un man oedd i aberthu, lle y gallasai y gynulleidfa fel y cyfryw ymgynnull (Deut. xii. 1); yr ordeiniad yn bresennol yw, *canys lle mae dau neu dri wedi ymgynnull yn Fy Enw I, yno yr ydwyf yn eu canol hwynt* (Matth. xviii. 20).

6. A beth yw parthed amser addoli?

(1) Y mae y Sabboth yn gysegredig fyth fel dydd gorffwysfa ac addoliad: fel y dydd a neulltuwyd gan Dduw, ac *a unaethpwyd er mwyn dyn* (Marc ii. 27).

(2) Ond yn bresennol y mae y dydd hwn, megis hefyd y Swper a'r Eglwys ei hun wedi ei gymhwyso i Grist: *dydd yr Arglwydd* (Dat. i. 10); a'r hwn a gedwir fel y cyfryw o'r cynnulliad cyntaf ar ddydd Ei adgyfodiad Ef hyd yr awr hon.

(3) Yn yr oesau gynt apwyntid amserau a phrydiau ereill; eithr gadewir y rhain yn bresennol at ddoethineb y bobl eu hunain.

7. A beth yw parthed defodau?

Ychydig a ddywedir am hyn yn y Testament Newydd; y rheol yw, *Gwneler popeth yn weddaidd ac mawn trefn* (1 Cor. xiv. 40). Ni chafodd defodau y deml le o gwbl; a ffurfiwyd yr addoliad yn ol cynllun y synagog yn hytrach, sef gweddïau,—ffurf-weddïau neu fel arall; darllen yr Ysgrythur; a gair y cyngor.

§ 2. Ymbriniaeth Sanesiol.

1. Beth oeddynt ddirywiadau boreuaf addoliad?

Daeth yn raddol yn gydffurfiedig â gwasanaeth defodau aberthol, yr hwn, fel y cyfryw, a ddiddymasid gan yr Efengyl;

a llygrodd symledd y gwasanaeth crefyddol trwy ddefnyddio i ormodedd arwydd-luniau (*symbols*).

2. A yw defodaeth ac addoliad aberthol ynte yn gyfunedig?

Yr oedd bron yr oll o'r defodau cyntefig yn uniongyrchol neu yn anuniongyrchol gysylltiedig â gwasanaeth yr allor weledig: y mae yr allor Gristionogol yn anweledig. *Y mae gennym ni allor* (Heb. xiii. 10): ond yr Iesu yw ei hunig Offeiriad hi. Y mae defodaeth yn hanfodol i addoliad; ond gellir dweud yr arwyddoca defodaeth y math hwnnw o addoliad yr hwn yn ei gweinidogion, a'u gwisgoedd, ei harwyddluniau amrywiol hi, a'u dysgeidiaeth hwy sydd yn seiliedig ar aberthiad adnewyddol a pharhaus yr Hwn sydd wedi ei *offrymu un waith: un aberth dros bechodau yn dragywydd* (Heb. ix. 28; x. 12.)

3. Beth fu effaith yr egwyddor hon?

Daeth addoliad Cristionogol i fod yn weinidogaeth offeiriadol ger bron allor; collwyd golwg ar offeiriadaeth ysprydol yr holl gredinwyr; dibrisiwyd addoliad dirgelaid, teuluol a chymdeithasol; collwyd y weddi rydd yn ormodol yn y ffurfweddi; a gwnaed pregethiad y gair yn rhy is-raddol.

4. Sut yr ymddanghosodd y defnyddiad gormodol o arwyddluniau?

Y'mhob rhan o'r addoliad: yn y lle, yn y gwisgoedd gweinidogaethol, yn y llawen-wyliau, a'r côf-wyliau, yn oriau canonaid neu reolaidd addoliad, ac mewn seremonïau aneirif a lygrasant neu a enhuddasant symledd yr ordinadau.

5. Ond ai o un tu yn unig y mae y dirywiad wedi digwydd?

Nage: fe gariwyd symledd yn rhy bell y'mhob oes, yn enwedig mewn amserau diweddar. Ymwrthodwyd â gwahan-iaethau mewn amserau; a rhestrwyd y Sabboth Cristionogol, Dydd yr Arglwydd, gyda'r Sabboth Iuddewig, am yr hwn y dywed St. Paul mai *y syhuedd o Grist y mae* (Col. ii. 17). Edrychwyd yn rhy ysgafn ar y rwymedigaeth o gyd-gynulliad cyhoeddus, aberthwyd egwyddor bur addoliad, ar brydiau, i bregethu; a digwydda yn rhy fynych mai yr eithafion cyferbyniol i ddefodaeth ofergoelus yw diffyg parch.

II. *Moddion Grâs.*

1. *Beth yw ystyr eangaf y gair hwn?*

Dynoda, yn gyffredin, yr holl ordinhadau apwyntiedig, gan Dduw, trwy y rhai y derbyniwn fendithion Ei gyfamod Ef; o ganlyniad, y mae Gair Duw, gweddi flydd, ac addoliad, yn foddion grâs.

2. *A yw grâs yn gyfyngedig i'r rhain?*

Y mae yn bod râs cyffredinol, yr hwn a ddaw trwy y Cyfryngwr, Prif Gyfrwng grâs, i'r byd trwy yr Yspryd. Ond cyfeiria y term yn benodol yma at y cyfryngau apwyntiedig sydd wedi eu darparu yn yr Eglwys; megis y gair, gweddi undebol, a'r sacramentau, ar wahân ac yn gyfunedig.

3. *Y'mha ystyr y mae y gair yn un o'r moddion?*

(1) Y gair ysgrifenedig, yn gyhoeddus ac yn ddirgelaid, a hynny y'mhob goruchwyliaeth ydyw cyfrwng cymundeb â Duw. (2) Ond, yn yr Eglwys Gristionogol y gair yw a wneir yn gyfrwng argyhoeddiad, tröedigaeth, a sancteiddhâd: yn y sefydliad o hyfforddi a phregethu. (3) Nid oes foddion arall o râs, o unrhyw fath yn gyfrwng o râs heb y gair.

4. *Y'mha ystyr y mae gweddi yn foddion o râs?*

(1) Y mae hwn hefyd yn llwybr cyffredinol dynesiad at Dduw, a chaffaeliad bendith ganddo: ac heb weddi hefyd nid oes yr un moddion arall yn effeithiol. (2) Ond yn yr Eglwys Gristionogol y mae gweddi undebol yn sefydliad arbennig â'r hwn y cysyllta Duw fendithion Ei gyfamod.

5. *Ac y'mha ystyr y Sacramentau?*

Sefydliadau ydynt hwythau hefyd, megis pregethu a gweddi gyffredin, â'r rhai y mae grâs yr Efengyl yn gysylltiedig.

6. *Beth yw perthynas y gair, a gweddi, a'r Sacramentau?*

Gellid dweud (1) mai y gair yw sy'n dysgu am, ac yn addaw y grâs; (2) gweddi yw a'i cais ac a'i diogela trwy flydd; ac yn (3) y Sacramentau ydynt a'i cadarnhâ ac a'i selia trwy yr Yspryd.

III. **Y Sacramentau.**§ 1. **Yn Aegryfthrol.****1. Pa berthynas sydd cydrhwng y Sacramentau a'r Cyfamod Cristionogol?**

Hwy a ordeiniwyd gan Grist Ei Hun fel y byddent i'w bobl yr hyn a gysgodai y gyfraith i'r Iddewon, sef yn arwydd ac yn wystl o'i rās Ef.

2. A barodd y rhain droi o'r neulltu yr holl gysgodau seremonïol cyntefig?

Do; yn enwedig yr enwaediad, yr hwn ydoedd yr arwydd o dderbyniad i'r cyfamod; a'r pasg yr hwn ydoedd yn goftadwriaeth blynyddol o'i ragorfreintiau: cymerir lle y blaenaf gan y bedydd, a'r olaf gan Swper yr Arglwydd.

3. Gan hynny, fe ellir galw y rhain yn sefydliadau Cristionogaeth?

Yr unig sefydliadau parhaus, digyfnawid a chyffredinol: defodau syml y rhai sydd wedi eu sefydlu am byth; cadwraeth allanol y rhai ydynt arwyddnodau y broffes Gristionogol; a'r fendith fewnol sydd trwyddynt yn sicrwydd i ffydd o'r grās a arwyddocânt.

4. Pa eiriau ydynt a ddynodant y sicrwydd hwn?

ARWYDDION: Trwy y rhai yr hyspysa Duw Ei rās; a SELIAU trwy y rhai y gwystla Efe y grās hwnnw i'n ffydd ni.

5. A ydynt hwy, ynte, yn gyfryngau i rās?

Nid oes nac ordinhâd, na defod, na sefydliad o benodiad Duw heb ei rās priodol ei hun. Y mae pob gair Dwyfol a phob gweddi grediniol yn gyfryngau grās; ac y mae y Sacramentau hefyd trwy air Duw a gweddi ffyddiog yn foddion grās.

6. Eithr onid cofiaduron a gwystlon ydynt yn unig yn ol eu natur?

(1) Seliâu cyfamod ydynt: a'r sêl yw yr arwydd-enw (*signature*) Dwyfol y bydd i Dduw gyflawni Ei addewid yn ol termau ac amodau y cyfamod: ac yn (2) y sicrwydd mewnol argraffedig ar yr enaid Ei fod Ef yn ei chyflawni.

7. Beth yw perthynas dau sacrament y cyfamod grâs yng Nghrist?

Y mae yr ymadroddion diweddaf, YNG NGHRIST, yn atebiad. Hwy a seliant undeb y credadyn â Christ, a'r cyfranogiad ynddo Ef o holl ragorfreintiau y cyfamod: y naill yn sacrament o'r UNDEB cyntaf âg Ef, a'r llall o GYMUNDEB parhâus âg Ef.

§ 2. Ambriniaeth Santesiol.

1. Beth fu rhediad meddwl ar y pwngc hwn?

Bu iddo gymeryd dwy linell: gor-brisid y sacramentau gan y naill, a thanbrisid hwynt gan y llall, fel moddion o râs.

2. Beth yw hanes y flaenaf wedi bod?

(1) Y mae tuedd wedi ffynnu o'r amserau boreuaf i ystyried yr Eglwys fel cadwra dirgeledigaethau: o'r rhai y mae y bedydd yn nôd derbyniad, swper yr Arglwydd y dirgelwch dyfnaf, a holl athrawiaethau a seremonïau crefydd yn gorwedd cyd-rhyngddynt. Dynodai y ddau air,—Y Groeg, *mustêrion*, =dirgelwch, a'r Lladin, *sacramentum*, =ymrwymiad difrifol, ar y cyntaf bob dirgelwch datguddiedig, ond yn raddol cyfyngwyd hwy i'r ddau hyn.

(2) O radd i radd bu i'r meddylddrych hwn o Gristionogaeth sacramentaidd ymfurfio i luaws o sacramentau, fel ag i gyfarfod â holl ofynion natur ddynol: bedydd er cysegru genedigaeth; confirmasiwn rai mewn oedran pwyll; y cymun, meithriniad bywyd ysprydol; pennyd, er maddeuant pechod gweithredol; priodas, er cysegrïad y bywyd teuluaid; urddau, er cysegrïad yr Eglwys a'i hawdurdod; a'r eneiniad diweddaf, er cysegru yr ymadawïad âg amser a seliad terfynol y cyflwr prawf.

3. Beth ydoedd dylanwad y diwygiad ar y meddylddrych sacramentaidd?

(1) Dygwyd ef yn ol, yn raddol, at egwyddorion y Testament Newydd; yn raddol, canys cododd i fyny ar y dechreu gyd-gytundeb a ganiatâi fod pennyd ac urddau yn sacramentaidd er nad yn sacramentau.* Ymgyrchir at y gwahaniaethiad hwn fyth.

(2) Penderfynodd Cymanfa Trent ddarfod ordeinio y saith sacrament gan Grist fel unig gyfryngau grâs, er yn caniatáu y flaenoriaeth i'r Cymun.

* Gwel Nodiad LIV.

(3) Cadarnhaodd y safonau Protestanaidd i gyd o'r diwedd ddilysrwydd onid dau Sacrament yn unig; gan gyhoeddi ohonynt nad oedd yr un o'r pump ychwanegedig "wedi eu hordeinio gan Grist Ei Hun," am nad oes ynddynt "nac arwydd gweledig, na seremoni a ordeiniwyd gan Dduw."

4. A ddarfu i'r Diwygiad ddiddymu cysylltiad grâs â'r gweinyddiad o'r Sacramentau?

(1) Gwrthwynebodd yr athrawiaeth a adwaenir wrth yr ymadrodd "opus operatum,"* yr hon megis y'i gosodwyd i lawr gan yr Ysgolwyr, a ddynodai fod grâs cynhwynol yn y Sacramentau, yr hwn yn wastad a gyfrennir megis "gwaith a weithredwyd" trwyddynt: y'ng hyntaf, ar wahân i gydweithrediad angenrheidiol ffydd; yn ail, pan yr "*obex*" neu y rhwystr o bechod marwol yn apsenol; ac yn drydydd, pan mai "amcaniad" y gweinyddwr fyddo eiddo yr Eglwys.

(2) Ond myntumiwyd cysylltiad grâs a'r ddwy elfen † sacramentaidd gan holl gyffesiadau a dysgedigion y Diwygiad; er y coledid gwahanol olygiadau parthed y cysylltiad hwnnw, pa un bynnag ai y'ng hylch natur y grâs neu amser ei gyfraniad.

5. Y'mha fodd y gellir traethu y gwahaniaeth?

(1) Honnai y safonau Lutheraidd mai y ddau Sacrament ydynt y ddau brif gyfrwng o râs, er dechreuad ac er parhâd y bywyd newydd; ond y budd ohonynt, pa fodd bynnag, yn dibynnu ar ffydd.

6. Y'mha fodd yr ymdriniai yr Arminiaid â'r Sacramentau?

Megis yr oeddynt yn darddedig o'r gangen ddiwygiadol, teystyrient hwythau hefyd eu bod yn foddion o râs, y rhai ni chyfyngent ar un cyfrif i amser y defnyddiad ohonynt. Gosodai yr athrawiaeth Arminiaidd fwy o bwys nag a osodasid yn flaenorol ar eu perthynas â'r cyfamod, ac ar y rwymedigaeth, o'r ddwy ochr, sy'n gynhwysedig ynddo.

7. Pa fodd yr arddanghoswyd yr ail duedd?

(1) Cyfododd rhai o'r cyfrinwyr† uwchlaw pob moddion; a thra yr edrychent yn ddibwys ar yr eglwys weledig fel sefydliad, bu iddynt, wrth gwrs, ddibrisio neu or-ysprydoli y sacramentau.

* Gwel Nodiad LV. † Gwel Nodiad LVI.

‡ Y Bara a'r gwin.—T. J. P.

(2) Cantyddir ffurf eithafol o hyn mewn amserau diweddar yn y Crynwyr, a goledant y dybiaeth ddarvoud bwriadu y sacramentau i fod yn draws-fudol (*transitional*): gan fod defodau yn anghydweiddol â chrefydd ysprydol.

(3) Ond bu i Zwingli ddysgu mewn adeg foreuach, mai arwyddion yn unig ydynt, cysylltiedig â grâs yn unig trwy eu gweithrediad ar y meddwl duwiolfrydig. A'r dybiaeth hon yw yr un a goledir gan luaws fyth, a ystyriant yr arwyddion, mewn ffordd o siarad, yn gynrychioliadau darluniadol.

8. Beth yw dylanwad geiriadaeth sacramentaidd ar y pwngc?

(1) Ni chymhwysir y pedwar term DIRGELWCH, SACRAMENT, ARWYDD, a SEL yn arbennig at yr ordinhadau sanctaidd hyn. Ond ceir eu bod yn gyd-rwymedig â dysgeidiaeth yr Eglwys o'r dechreuad. (2) Dynoda'r dirgelwch fod y "grâs cuddiedig mewnol ac ysprydol" sydd o'r tu cefn i'r "arwydd allanol a gweledig" i'w olrhain yn ei effeithiau, ac nid i'w archwilio yn ei natur. Ceidw y gair sacrament ei ystyr wreiddiol o ymwystliad didor trwy yr hwn yr unir y ddwyblaid yn y cyfamod. (3) Rhaid yw peidio âg ysgaru yr arwydd â'r sêl: y mae arwydd Ddwyfol y grâs yn sêl Ddwyfol hefyd. Tardda y geiriau oddiwrth ddysgeidiaeth St. Paul y'ngghylch ffydd Abraham, yr hwn a dderbyniodd *arwydd (sêmeion) enwaediad*, megis *yn insel (sphragida)*, neu fel sicrwydd fod yn ei feddiant *gyfiawnder y ffydd yr hon oedd ganddo pan yr ydoedd efe yn y dienwaediad* (Rhuf. iv. 11).

IV. Bedydd.

§ 1. An y Testament Newydd.

1. Beth yw y bedydd Cristionogol?

Y ddefod a ordeiniwyd gan ein Harglwydd i fod yn arwydd derbyniad i'r Eglwys; a sêl yr undeb âg Ef Ei Hun, a chyfranogiad ym mendithion y cyfamod Cristionogol.

2. Beth ydyw ei hanes yn y Testament Newydd?

Y mae gennym un cofnodiad canolog o hanes ei sefydliad, a flaenorir gan ragddarpariadau penodol yn yr Efengylau, a'r rhai a ddilynir yn y llyfrau diweddarach gan lawer o gyfeiriadau eglurhâol at ei ystyr.

3. A yw bedydd ynte yn neilltuol i'r datguddiad Cristionogol?

Dim o'r fath: Y mae iddo hanes Hen Destamentaidd hefyd. Yr oedd ymolchi â dwfr yn rhan o ddefod y gyfraith. Ceir lluaws o gyfeiriadau ffugyrol at ei arwyddocâd dyfodol yn y Proffwydi; a'r tebygolrwydd yw y bedyddid proselytiaid o'r ddeuryw yn y cyfwng rhwng Iddewiaeth a Christionogaeth.

4. Beth ydoedd bedydd Ioan Fedyddiwr?

Yr oedd yn sefydliad arbennig: trwy yr hwn yr oedd y rhai a'i derbynai yn ymwystledig i edifeirwch ac i ddarparu am ddyfodiad Crist. *Bedydd Ioan* ydoedd ac i *edifeirwch* (Act. xix. 3; Matth. iii. 11).

5. Gan hyny nid hwn ydoedd ffurf gyntaf y bedydd Cristionogol?

Nage, mewn ystyr fanol: ni ddaethai yr awr i'r ddefod hon, eto, mwy na swper yr Arglwydd, oblegid yn (1) yr oedd yr Arglwydd Ei Hun yn lle yr holl ordinhadau; yn (2) am nad oedd yr Eglwys Gristionogol, i'r hon y bwriedid y rheolau hyn, wedi ei sefydlu eto.

6. Ond bedyddiai Ei ddisgyblion, trwy ganiatad yr Arglwydd?

Gwnelent, ond ar yr egwyddor honno yn unig fod yn rhaid i'r Iesu *gynyddu* (Ioan iii. 20), trwy ymddarostwng ohono i gyflawni pob gweinidogaeth rhagbarôtoawl ar gyfer ei waith dyfodol. *Yn awr*, meddai am Ei ddisgyblion Ei Hun, *yr ydych chiwi yn lân trwy y gair a leferais i wrthyh* (Ioan xv. 3).

7. Pa arwyddocâd sydd yng ngeiriau y sefydliad?

Gorchymyn ydoedd i fedyddio i *Enw y Tad, a'r Mab, a'r Ysryd Glân*; ac i *ddisgyblu yr holl genhedloedd* yn Enw yr Iesu, yr hyn yw unig ystyr bod yn ddisgybl (Matth. xxviii. 19, 20).

8. A yw y bedyddio yma yn blaenori y disgyblu?

Gadewir y drefn yn amhenodol. Ond gellir casglu:

(1) Gan nad beth a ddywedir i'r gwrthwyneb, y byddai i blant gael eu rhan o'r dechreu; y bedyddid hwynt mewn trefn i'w hyfforddiant dyfodol.

(2) Yn achos rhai mewn oed rhaid ystyried y blaenorai y ddisgybliad y bedydd, neu ei fod yn gydfynodol âg ef.

A A

(3) Y byddai i'r hyfforddiant i gadw *pob peth ar a orchymynais i chwi*, ddilyn fel diben yr oll (Matth. xxviii. 20).

9. Pa oleuni a deflir ar y bedydd gan y gadwraeth hanesiol ddilynol o hono?

Ni a welwn yr anrhydeddid ordinhâd ein Harglwydd yn wastadol, hyd yn oed ar ol profi eisoes y bendithion a selir ganddi; hefyd y bedyddid teuluoedd; ac mai y bedydd ydoedd yr arwydd adnabyddus cyffredinol o broffes Cristionogol.

10. A yw bedydd teuluoedd yn cynnwys bedydd plant o angenrheidrwydd?

Dyna yw y casgliad naturiol, ac ategir ef gan yr ystyriaethau pwysig a ganlyn:

(1) Estynnodd Cristionogaeth y cyfamod oddiwrth un genedl sanctaidd i bob cenedl.

(2) Dynodai yr enwaediad a'r pasg, y ddau, mewn modd arbennig gymeriad teuluol yr hen gyfamod.

(3) Ar ddydd mawr y traws-symudiad ni a gawn fod yr addewid *i chwi ac i'ch plant* (Act. iii. 39).

(4) Dywedir fod plant rhieni Cristionogol fel y cyfryw yn sanctaidd (1 Cor. vii. 14), hynny yw, fel y cysegrir hwynt yn arbennig i'r Drindod, a chan hynny i'w hyfforddi yn nisgyblaeth yr Arglwydd. Y ddefod o fedydd ydoedd y sêl ar hyn o angenrheidrwydd, ac nis darlennwn byth yr hyfforddid hwynt ar gyfer bedydd dilynol.

11. Pa fodd yr ymdrinia St. Paul â'r pwngc?

Fe gafodd ef ei hun ei fedyddio, er ddarhod iddo gael gweledigaeth o'r Iesu; ac er ei alwedigaeth arbennig fel apostol, efe a weinyddai y ddefod, er hynny, ar brydiau; ac er nad ydoedd efe wedi *ei anfon i fedyddio*, eto, danfonwyd ef i ddysgu beth yw ystyr bedydd yn gyflawnach nag unrhyw un arall (1 Cor. i. 17).

12. Pa fodd y gallwn ddangos y gyfryw ddysgeidiaeth?

Dan ddau bennawd: Ynghyntaf, o barthed i gredinwyr fel pleidiau i'r cyfamod, cyfeirir at fedydd fel adgofiedydd rhwymedigaethau; yn ail, o barthed i Dduw y cyfamod, cysylltir bedydd yn fanwl bob amser â bendithion y cyfamod, fel yn cael eu cyfleu gydag ef.

13. Rhoddwch engreifftiau o'r blaenaf?

Mewn atebiad i'r ymfyniad, *A drigwn ni yn wastad mewn pechod, fel yr amlhâo grâs?* (Rhuf. vi. 1); gofynai yr apostol drachefn, *Oni wyddoch chiwi, am gynifer o honom ag a fedyddiwyd i Grist Iesu, ein bedyddio ni i'w farwolaeth Ef?* (Rhuf. vi. 3). Gwna apeliad o'r fath hefyd at y Galatiaid, a chlywir ei sibwrdd ymhobman (Gal. iii. 27).

14. Rhoddwch engraifft o'r olaf?

Ystyrir ef (1) megis pe wedi bod ohono yn sêl yr undeb â Christ yn gyffredinol, yn Ei farwolaeth a'i fywyd: *Wedi eich cydgladdu âg Ef yn y bedydd, yn yr hwn hefyd y'ch cydgyfodwyd trwy ffydd* (Col. ii. 12).

(2) Fel sêl amrywiol fendithion y cyflwr Cristionogol. Fel sêl pardwn: *Bedyddier di, a golch ymaith dy bechodau*, yr hyn sy'n cyfateb i eiriau St. Petr, *Er maddeuant pechodau*. Fel sêl y bywyd newydd, *Chwychwi oll plant Duw ydych, trwy ffydd yng Nghrist Iesu, canys cynifer ohonoch ag a fedyddiwyd yng Nghrist a wisgasoch Grist*. Fel sêl sancteiddhâd, *Fel y sancteiddiai Efe hi, gwedi ohono ei glanhau hi trwy'r olchfa ddwfr â'r gair* (Act. xxii. 16; ii. 38; Gal. iii. 26, 27; Eph. v. 26). Y mae bedydd yn gysylltiedig â'r oll fel eu gilydd.

15. A ystyrir bydydd ynte fel cyfrwng cyfraniad y bendithion hyn?

Na wneir, ond fel y gwystl allanol a gweledig ddarford eu cyfrannu, y cyfrennir hwynt yn awr, neu y bydd iddynt gael eu cyfrannu. Nid oes yn bod ond un Cyfrwng o räs i ddyn; un Gweithredydd, sef Yspryd y Grâs; ac yn yr holl ymadroddion hynny a gyflwynant fedydd gerbron, y mae ffydd a'r gair yn gynhwysedig, naill ai yn gyffesedig neu yn awgrymedig felly.

16. Oni lefara St. Petr yn bendant am iechydwriaeth y bedydd?

Diau y dywed fod bedydd yn *gyffelyb ffugwr (ánitupon)* i ddwfr y diluw trwy yr hwn ychydig a achubwyd. Eithr yn yr arch yr achubwyd hwynt; ac ychwanega yr apostol ei gyfyngiad: *Sef bedydd, nid bwrw ymaith fudreddu y cnawd, eithr ymateb cydwybod dda tuag at Dduw* (1 Petr. iii. 20, 21).

17. Eithr oni ddarfu i'n Harglwydd roddi Ei dystiolaeth derfynol Ei Hun?

Oddieithr geni dyn o ddwfr ac o'r Yspryd, ni ddichon efe fyned i mewn i deyrnas Dduw. Dilys yw y cyfuna hyn y sêl a'r grâs, ond, ni ddeffinia rwymyn yr undeb. Trwy ychwanegu, Felly y mae pob un ar a aned o'r Yspryd, fe ddengys y Gwaredwr nad yw y rhwymyn yn anhepgorol ac yr hanfodol (Ioan iii. 5—8).

18. A gyfeiria Efe yn unrhyw fan arall at y cysylltiad hwn?

Gwna hynny ar derfyn Ei weinidogaeth: *Yr hwn a gredo ac a fedyddier a fydd cadwedig; eithr y neb ni chredo a gondemnir* (Marc xvi. 16).

19. Beth a ddysgwn ni oddiwrth hyn?

(1) Ni a nodwn yr un absenoldeb o fedydd yn yr ail frawddeg: nid yw y condemniad yn hanfodol gysylltiedig â diffyg bedyddio.

(2) Ni a welwn mai megis y lleferid am yr enedigaeth newydd yn nechreuad dysgeidiaeth ein Harglwydd ar y pwngc, felly hefyd y cyfunir iechydwrïaeth â bedydd ar ei therfyn.

§ 2. Ymbriniaeth Sanesiol.

1. Pa olion o gyfeilliornadau y tadau a ymddengys yn yr amserau boreuol?

(1) Cysylltid pardwn a'r bywyd newydd yn rhy agos â'r ddefod: yr hyn a arweiniodd i'w gohiriad mynych, rhag perygl colli am byth y fath ragorfreintiau mawrion.

(2) Bu i'r ddefod ei hun, gyda'i thoraeth seremonïau, gyd-redeg â'r lluaus ychwanegiadau ofergoelus a ychwanegwyd at yr athrawiaeth.

2. Beth ydoedd ei chysylltiad â'r hyfforddfa?

Neulltuwyd urdd o hyfforddwyr er egwyddori ymgeiswyr am fedydd, neu hyfforddiad, y rhai a dywysid trwy raddegau olynol a manwl i'r ragorfraint o gyflawn aelodaeth.

3. Pa fodd y cyd-weddai hyn â bedydd babanod?

Am yspaid hir rhai mewn oed oedd nifer lluosog o'r rhai a fedyddid; ac i gyfarfod â'r rhain yn arbenig yr oedd yr hyfforddfa. Ond y mae gennym dystiolaeth henafiaeth y

beddyddid babanod o'r dechreuad, yn ol yr "arferiad apostol-aidd."

4. A allwn ni olrhain confirmasiwn ynglyn âg ef?

Bu i symledd sefydliad ein Harglwydd gael ei ddirywio er yn fore iawn trwy eneiniad ac arddodiad dwylaw i arwyddo dawn yr Yspryd fel ychwanegiad at symudiad ymaith euogrwydd. Ond nis didolwyd hyn oddiwrth y bedydd gan eglwys y Dwyrain, nac ychwaith gan eglwys y Gorllewin, hyd nes sefydlu yr ail sacrament neu gonffirmasiwn.

5. A gytunai henafiaeth parthed y modd o fedyddio?

Yr arferiad boreuol a ffynnai ydoedd tansoddiad, ac felly y parhâ fyth yn y Dwyrain: tansoddiad deirgwaith. Ond tywalltiad neu daenelliad a ffynnodd yn ei le yn raddol yn y Gorllewin.

6. Beth ydynt yr amrywiol wahaniaethau o barthed i rinwedd yr ordinhâd hon?

(1) Penderfynwyd gan Eglwys y Canol-oesoedd a Chymanfa Trent y cymerir ymaith bechod y natur yn y bedydd: ond er hynny yr erys chwant neu danwydd y pechod sydd yn weddill; yr hwn sydd i'w orchfygu gan yr Yspryd Glân a roddir yn yr ail sacrament, sef confirmasiwn.

(2) Ymwrthododd Cyffesiau y Diwygiad â'r athrawiaeth hon o ychwanegiad angenrheidiol o gonffirmasiwn; a gwadent fod y chwant a erys yn weddill ar ol y bedydd yn ddibechod. Ond gwahaniaethent hefyd ar bwyntiau pwysig ereill.

7. Beth oeddynt eu prif wahaniaethau?

Daliai y Lutheriaid mai bedydd yw unig gyfrwng apwyntiedig grâs ail-enedigol. Daliai yr Eglwys Galfinaidd Ddiwygiedig fod y bedydd, yn achos yr etholedigion, yn cyfleu y grâs hwnnw yn ogystal a'i wystlo; ond y cyflea ef yn unig fel ardystiad allanol o waith dirgelaid yr Yspryd, a weithredir ar y pryd, neu yn ddilynol i hynny, yn ol amodau y cyfamod, a hynny i'w wir etifeddion.

8. Beth yw athrawiaeth Eglwys Loeger am fedydd?

Yn Erthygl xxvii. datgenir mai dyna yw, sef "arwydd o'r adgenhedliad neu'r ail-enedigaeth, trwy'r hyn, megis trwy offeryn, yr impir yn yr Eglwys y rhai a dderbyniant fedydd yn awn; yr arwyddir yn weledig ac y selir trwy'r Yspryd Glân, yr

addewidion am faddeuant pechodau, a'u mabwysiad i fod yn feibion i Dduw; y cadarnhêir Ffydd ac yr anghwanegir grâs, trwy rinwedd gweddi at Dduw."

9. Pwy oeddynt yr Ail-fedyddwyr?

Yr Ail-fedyddwyr oeddynt sect benboeth a gododd yn adeg y Diwygiad; gan ddaï ohonynt y'mhlith lluaus o ddaliadau chwyldroadol ereill anilysrwydd bedydd babanod. Rhaid eu gwahaniaethu oddiwrth y Bedyddwyr a godasant yn Lloeger yn yr eilfed-ganrif-ar-bymtheg, y rhai sydd wedi ymledaenu yn eang yn yr America.

10. Beth yw safle gyffredin y Bedyddwyr?

(1) Eu golygiad hwy am yr Eglwys Gristionogol yw. ei bod yn gynhwysedig o'r cyfryw a rydd dystiolaeth gredadwy o ffydd bersonol; (2) ni dderbyniant fel ymgeiswyr am fedydd ond proffeswyr crediniol yn unig; (3) gan hynny hwy a wrthodant fedydd babanod; ac yn (4) hwy a ystyriant mai tansoddiad mewn dwfr yw y ddefod ysgrythyrol.

11. Â pha resymau y cyfarfyddir yr egwyddorion hyn?

(1) Parhâd yw yr Eglwys Gristionogol o'r unig Eglwys a gynhwysai blant o'r dechreuad. Rhagflaenodd ein Harglwydd bob camddealltwriaeth trwy datgan mai *Eiddo y cyfryw rai yw teyrnas nefoedd* (Matth. xix. 14); o ganlyniad, nid yw yr apostolion un amser yn ordeinio y ddefod, ond yn ei chymeryd yn ganiatâol: yr holl genhedloedd yn cynnwys pob teulu. Am hynny, hwy a anerchant blant, ac a lefarant wrthynt, fel aelodau o'r Eglwys (Eph. vi).

(2) Y bedydd yw sêl ddiweddaf y cytamod Abrahamaid yn enwedig: sêl gyntaf yr hwn ydoedd yr enwaediad. Y bedydd yw *enwaediad Crist* (Col. ii. 10). Y rhai bedyddiedig ydynt yr *etifedion yn ol yr addewid* (Gal. iii. 29): sef yr addewid yr hon sydd i *chwi ac i'ch plant* (Act. iii. 39)

(3). O barthed i'r dull o fedyddio, nis gellir profi dim yn erbyn dilysrwydd tansoddiad: goddefir yr ystyr hon gan y gair gwreiddiol, a dynoda yn dra phriodol y meddylddrych arwyddlunol o fedyddio i CRIST, *wedi eich cyd-gladdu gydag Ef yn y bedydd* (Col. ii. 12). Eithr tra thebygol yw mai yr arferiad gwreiddiol ydoedd tywalltad neu daenellad: oddiwrth gyfateb-iaeth yr ymadroddion a ddeinyddir i ddynodi cymhwysiad gwaed

y taenelliad a thywalltiad yr Yspryd Glân; ac oddiwrth y ffaith ddarfod bedyddio tyrfâoedd.

12. A gynhwysa bedydd babanod y rhoddir iddynt y grâs sy'n seliedig yn yr ordinhâd?

Dilys yw, gan nad pa fendith a berthyn i'r derbyniad ohonynt gan Grist, fel yr eiddo'i Hun; neu i'r gydnabyddiaeth eu bod yn gynhwysedig yn y cyfamod, neu i'w derbyniad i'r Eglwys Gristionogol, a'u derbyniad i fabwysiad plant, ei bod wedi ei selio a'i roddi iddynt yn yr Yspryd Glân.

13. Ai hyn yw eu hail-enedigaeth fedyddiol?

Eu mabwysiad bedyddiol yw: ail-enedigaeth yw y cyfnewidiad a weithredir yn y natur pan y del Mab Duw yn allu bywyd newydd; ac o hwnnw, megis hefyd o gyfiawnder a phurdeb mewnol, y mae babanod anymwybodol yn analluog ohono.

14. A yw y fath wahaniaethiad yn ddiffynadwy?

Pwyser yr ystyriaethau canlynol. (1) Perthyna i holl fendithion ein cyflwr Cristionogol,—y bywyd newydd ynghyd â'i gyfiawnder a'i sancteiddrwydd,—eu harwyddocâd, neu eu hagwedd allanol a mewnol: yn achos mabanod nis gallwn ddyfalu ond am yr allanol yn unig. (2) Am hynny, fe a'u rhyddhêir hwynt yn eu bedydd oddiwrth y condemnïad sydd yn aros ar yr hiliogaeth, mabwysiedir hwynt i'r teulu Dwyfol, a sancteiddir hwynt neu cysegrir hwynt yn allanol.

15. Onid ellir dweud hynny am bob baban,—bedyddiedig ac anfedyddiedig?

(1) Haeri hyn fyddai dirymu y cyfamod Cristionogol, wrth amodau yr hwn y rhwymir ni gan Dduw, er nas rhwyma Efe Ei Hun. (2) Y'mhellach, y mae gwahaniaeth rhwng y grâs cyffredinol sy'n gyd-anedig (*connate*) â phlant prynedigol ac addewid arbennig y cyfamod hwnnw.

16. Ond, a ddichon plant anymwybodol gyfranogi o râs yn unrhyw fodd?

Gyn sicred ag y cyfranogant o'r pechod hwnnw sydd mewn angen am râs. Y mae yspryd *cerydd ac alhrawiaeth yr Arglwydd* (Eph. vi. 4) yn wystledig iddynt: sef Yspryd y grâs rhagfynedol, yr hwn nad yw mewn na rhai mewn oed na babanod, yn ail-enedigaeth gyflawn.

V. Swper yr Arglwydd.

§ 1. An Asgryfhrol.

1. Beth a olyga yr ordinhâd hon ?

Sefydliad yw a ordeiniwyd er cadwraeth barhâus, i fod yn adgoffhâd am y Gwaredwr, ac yn enwedig am Ei farwolaeth Ef, i fod yn sêl undeb personol a pharhâus Ei bobl âg Ef trwy ffydd, ac yn rhwymyn eu cymundeb â'u gilydd yn eu Harglwydd a'u Pen cyffredin.

2. Y'mha fodd y dynodir hyn gan yr enwau sydd arno ?

(1) Yr EUCHARIST—DIOLCH-WLEDD yw, fel adgoffhâd diolchgarol: oddiwrth weithred yr Arglwydd yn rhoddi diolch (1 Cor. xi. 24). Gellir sylwi parthed y ddau air *eucharistêsas* 'êklase—*Ac wedi iddo ddiolch, Efe a'i torrodd* (1 Cor. xi. 24), ddarhod i'r olaf roddi i'r sefydliad ei enw cyntaf yn yr Actau (ii. 42), y blaenaf yw a fabwysiedir gennym ni.

(2) Y CYMUNDEB yw: y *koinônia*—y *cymun*, neu *gyd-gyfrangiad yng ngwaed* ac *yng nghorff Crist* (1 Cor. x. 16).

(3) SWPER YR ARGLWYDD yw: hynny yw, gwledd gyffredin; *Pan fyddoch chiwi gan hynny yn dyfod yng nghyd i'r un lle* (1 Cor. xi. 20). Yr oedd cynullïadau hebddo; ond hwn ydoedd y cymundeb mwyaf cysegredig yn y cyd-gynullïad; am hynny y gelwid ef gan y Groegiaid yn *sunâxis*=y cyd-gynullïad.

3. Beth ydoedd perthynas y sefydliad â'r pasg ?

Canys ein pasg ni hefyd a aberthwyd, sef Crist (1 Cor. v. 7). Efe a ordeiniodd Ei wledd adgoffhâol ar derfyn y wledd gysgodol ddiweddaf; cadwodd ei *phiol y fendith* (1 Cor. x. 16); ond cynhwysai Ef fwy yn Ei Ddiolch-wledd nag a gynrychiolidd gan y ddefod gyntefig.

4. Pa oleuni a deifl ei hanes yn y Testament Newydd ?

Nid oes gennym ond ychydig gyfeiriadau; prinnach na'r rhai a wneir at yr ordinhâd arall; ond digon.

(1) Yn Llyfr yr Actau cyfeirir at yr arferiad cysegredig o'r ordinhâd fel peth tra chyffredin, yr hon, fel yr ymddengys, a weinyddid ar Ddydd yr Arglwydd; a chyda cyfeiriad at un weithred arwyddluniol nodedig, megis *toriad y bara* (Act. ii. 42)

(2) Gwneir cyfeiriad yn yr epistol cyntaf at y Corinthiaid yn yr arferiad cysegredig, er yn bennaf at y camarferiad ohono (1

Cor. x. 11). Yno, ni a gawn ei fod yn gysylltiedig â gwledd gyffredin flaenorol, yr Agapæ, y Cariad-wledd; mai gweddi o ddeisyfiad yn hytrach nag un o ymgysegriad a offrymid; mai y cyfranogiad ohono ydoedd sêl cyd-gymundeb yn aberth Crist; y gwna yr apostol wahaniaeth pendant rhwng ALLOR yr Iuddewon a BWRDD yr Arglwydd; ac fod hunan-ymholiad personol yn ofynnol, mewn trefn i'r neb a UNIAWN-FARNENT eu hunain fedru ohonynt UNIAWN-FARNU corff yr Arglwydd hefyd fel na fernid hwynt (1 Cor. x. 18, 21; xi. 29, 31).

5. Beth yw perthynas St. Ioan â'r ordinhâd hon?

Ni chofnoda na sefydliad yr ordinhâd hon na'r llall. Ond megis yn y drydedd bennod o'i Efengyl yr edrydd efe dystiolaeth uchel ein Harglwydd i wir ystyr y bedydd, felly hefyd yr edrydd efe yn y chweched bennod, Ei dystiolaeth Ef i wir ystyr y swper.

§ 2. Ymbriniaeth Sanesiol.

1. Beth oeddynt nodau cyntaf dadblygiad?

Yn yr oes ddilynol i eiddo yr apostolion, yr oedd athrawiaeth ac arferiadau yr ordinhâd hon yn ddilwgr. Ond ar ol hynny ymddanghosodd arwyddion y ffynnai tuedd i'w gwneuthur yn ddirgelwch canolog addoliad Cristionogol, ynghyd âg elfennau cyntaf y cyfeiliornadau hynny sydd wedi traws-sylweddoli holl fwriad ein Harglwydd yn y sefydliad ohoni.

2. Pa fodd y dechreuasant ymffurfio?

(1) Parthed yr aberth diolch-wleddol (*eucharistic*), newidiwyd ei nodwedd adgoffhâol yn raddol i adnewyddiad yr un offrm ar y groes.

(2) Ac yna o angenrheidrwydd bu i'r elfennau gael eu graddol newid i wir sylwedd yr offrm ei hun.

3. A gynhyddodd y dirywiad hwn yn ddirwysr?

Bu gwrthddadleu mawr yn y nawfed ganrif. Haerai Paschasius Radbertus* yn hŷf draws-sylweddidiad yr elfennau; am hynny y gelwir y cyfeiliornad hwn weithiau yn Paschasiaeth. Yn yr unfed-ganrif-ar-ddeg gwrth-dystiau Berengarius† ar y pwngc hwn. Ond yn y drydedd-ganrif-ar-ddeg, yng Nghyngor Latern-

* Gwel Nodiad LVII. † Gwel Nodiad LVIII.

aidd* 1215, cymerodd traws-sylweddiad ac aberth yr offeren† eu ffurfiau terfynol.

4. Beth a ddilynodd hyn?

Addoliad yr aberth (hostia, aberth), ynghyd a'r amrywiol seremonïau a barent droi bwrdd yr Arglwydd yn allor, a'i wledd adgoffhâol seml Ef yn seremoni o'r fath gywreiniaf. Offrymiad offerennau dros y meirw: megis y dirywiasid yr ordinhâd arall yn dra boreu gan y sawl a fynnent fedyddio dros y meirw.

5. A fu i Eglwysi Groeg gyd-fyned â hyn?

Do mewn hanfodolion; eithr ni ddarfu iddi gadw cwpan y cymun rhag y llêygwyr, a gweinyddai y cymun i blant.

6. Pa fodd y darnodir dirgelwch cuddiedig y traws-sylweddiad?

Ar y naill law, fe haerir mai dirgelwch anchwiliadwy yw, yn gymaint felly a'r ymgnawdoliad: daw y Crist cyflawn i fod o'r newydd fel yr offrymer Ef drachefn. Ar y llaw arall, cynygir yr eglurhâd a ganlyn i reswm: sef ddarfod i sylwedd y bara a'r gwin gilio ymaith, ond yr erys yr hyn sy'n ddigwyddiadol. ||

7. Beth ydoedd y gwrthdystiad Lutheraidd?

Gwrthodai fynych offrymiad yr un aberth, yn ogystal a thraws-sylweddiad yr elfennau. Ond pwysai ar wir bresenoldeb dynoliaeth ogoneddedig Crist yn a CHYDA ac o DAN yr elfennau: yr hwn y cyfranogid ohono yn llythyrennol, nid yn ysprydol, er da neu er drwg. Gelwir hyn yn gyd-sylweddiad, sef y gwir Grist GYDA sylwedd y bara.

8. Y'mha fodd yr ymdrinid â'r pwngc gan Calfin a'r Eglwys Ddiwygiedig?

Tra y cadwai Calfin y'mhell oddiwrth y dybiaeth Lutheraidd o gyfranogiad gweithredol yng nghorff gogoneddedig Crist megis yn bresennol GYDA'r elfennau, eto efe a ystyriai y wledd fel undeb arbenicaf yr enaid â'r Crist cyflawn yn y nefoedd trwy ffydd. A myntumiai Zuingli yn ddifrifol fod yna fendith sacramentaidd arbenig yn yr ymborthiad ysprydol.

9. Beth yw dysgeidiaeth y Gwir Bresenoldeb,‡ yr hyn yw arwyddair rhai?

Dysgeidiaeth ydyw a ddaeth i fôd fel rhywbeth cyd-rhwng

* Gwel Nodiad LIX. † Gwel Nodiad LX. ‡ Gwel Nodiad LXI.

|| H.Y., Eu agweddau gweledig.—T. J. P.

Traws-sylweddiad a Chyd-sylweddiad : gan ddysgu ohoni mai effaith y cysegriad offeiriadol yw dwyn yr Arglwydd i gysylltiad â'r elfennau mewn modd GWIRIONEDDOL (PRÆSENTIA REALIS); nid Ei fod Ef yn bresennol mewn ystyr ysprydol, a hynny i ffydd yn unig.

10. O wneud i ffwrdd â hyn, beth sydd yn swper yr Arglwydd yn rhagor na rhyw gyflawniad arall o addoliad unedig?

Y mae yna wir bresenoldeb gan yr Yspryd, yr hwn mewn modd arbennig a ddatguddia Crist fel Bara y Bywyd i ffydd y derbynnydd, gan ei sicrhau yn ebrwydd o'i gymundeb â bywyd ei Ben, ac adgyfnerthu ohono y bywyd hwnnw.

VI. **Y Gweinidogaeth Gristionogol.**

§ 1. **Y Gweinidogaeth.**

1. Pa gyfnewidiad a gyflwynwyd gan ein Harglwydd?

Efe a ddiddymodd yr offeiriadaeth aberthol, gan fod Ei Hunan yr unig aberth, a'r unig offeiriad; a bu effeithiau y cyfryw gyfnewidiad yn fawr iawn drwy yr holl sefydliad.

2. Beth oeddynt yr effeithiau?

Cyfnewidiwyd cymeriad y sefydliad yn gyfan-gwbl. Yr oedd un llwyth wedi cael ei neilltuo i'r swydd offeiriadol; nid oedd angen am hwnnw mwyach. Swyddogaethau ysprydol yn bennaf ydoedd eiddo swyddogion y cymundeb newydd i fod; ac yr oeddynt i gael eu galw yn bersonol gan yr Yspryd.

3. Sut y dynodir hyn gan y term gweinidogaeth?

Ni wna hynny yn fanwl, ynddo'i hun. Eithr defnyddiwyd ef gan yr Arglwydd i fynegi Ei wasanaeth Ef i ddynoliaeth; a hwn yw y gair mwyaf cynhwysfawr trwy'r holl Destament Newydd, gan gynnwys ohono bob swydd y bu i'r Yspryd alw gwŷr a gwragedd iddi, yn y cymundeb Cristionogol.

4. Pa fodd y gallwn olrhain hanes y weinidogaeth yn y Testament Newydd?

Megis y'mhopeth arall agorodd y digwyddiadau cwyllys Duw. Anfonodd ein Harglwydd allan y deg-a-thri'gain, gweinidogaeth y rhai a derfynai arno Ef Ei Hun. Efe a ddewisodd yr apostolion gan

eu cynysgaethu â chyflawn awdurdod. Diau ddarfod eu hyfforddi hwynt ganddo Ef Ei Hun yn ystod y deugain niwrnod; ar ol hynny hwy a gyfarwyddwyd gan yr Yspryd; ynghyntaf, i drefnu y ddiagoniaeth, yna i ordeinio henuriaid, yna i gynnull ynghyd y cyfryw henuriaid yn yr hyn ydoedd hedyn synodau dyfodol (Act. xv. 2; xx. 17). Gadawodd St. Paul ar ei ol dri o epistolau bugeiliol yn y rhai yr ymwedda y weinidogaeth Gristionogol i'w ffurf derfynol.

§ 2. *D Weinidogaeth Neilltuoel, neu Draws- symudol.*

1. Pa sail sydd i'r gwahaniaethiad hwn?

Y mae gennym dystiolaeth eglur ddarfod i'n Harglwydd trwy Ei Yspryd, yn ystod sefydliad cyntaf Cristionogaeth, gynysgaethu mewn modd neilltuoel bersonau neilltuoel i weinidogaethau na throsglwyddwyd mohonynt ganddynt, ac na pharhâwyd mohonynt yn yr Eglwys.

2. A oes unrhyw brawf fod y rhai'n yn symudol (*transitory*)?

Dim ond tystiolaeth ffaith. Ond cymharu y ddau ymadrodd yn y rhai yr ymdrinia St. Paul â'r pwngc hwn, ni a gawn i Dduw OSOD, i Grist RODDI, ac i'r Yspryd RANNU i bob un yr amrywiol swyddau o'r apostolaeth i lawr i'r rhai symlaf; ond fel mater o ffaith ni chyfrannwyd rhai ohonynt y'mhobman, ac mewn amser cyfaddas hwy a beidiasant (1 Cor. xii. 11, 28; Eph. xi. 12).

3. Pa ddoniau a roddasid i'r holl eglwys a beidiasant?

Y ddawn apostolaidd, a'r un broffwydol: y mae y ddwy hyn yn neilltuoel gysylltiedig, gan fod ohonynt yr unig rai sy'n gyffredin i'r ymadroddion a nodwyd. Cyfunir hwy deirgwaith yn yr epistol at yr Ephesiaid: hwynt hwy ynghyd ydynt y sylfaen, hwynt hwy ynghyd ydynt a dderbyniant ddatguddiad yr efengyl, ac ynghyd y rhoddir hwynt i'r eglwys. Ond cymharu yr ymadroddion hyn fe welir na fwriadwyd i'r swyddau hyn fod yn barhâol (Eph. ii. 20; iii. 5; iv. 11).

4. Beth oeddynt yr Apostolion?

Y deuddeng gŵr a ddewisodd yr Arglwydd ac a ddanfonodd Efe gydâg awdurdod a doniau arbennig i osod i lawr sylfaenu

eglwysi a chwblhau tystiolaeth ysprydoliaeth i'w berson a'i waith Ef Ei Hun.

5. Sut y cyflawnwyd eu swyddogaeth, a beth ydoedd ei hanes?

Danfonwyd y deuddeg yn bennaf at y deuddeg llwyth: gan ddiogeli y rhifedi trwy ddewis Matthias yn lle Judas (Act. i. 26). Yr oedd tri o'r rhain yn bennaf, ac o'r tri hyn, un ohonynt (Gal. i. 9): llafur y rhain yn unig a gofnodir. Dewiswyd Saul, wedi hynny Paul, gan yr Arglwydd Ei Hun, ar ol yr esgyniad, yn arbennig ar gyfer y byd Cenhedlig. Hwy a arferent awdurdod i'r eithaf fel cynrychiolwyr uniongyrchol eu Harglwydd (Gal. i. 8); ni adawsant olynwyr; a pharotôasant ar gyfer parhauster y weinidogaeth reolaidd cyn ymadael ohonynt â'r byd (Act. xiv. 23; 2 Tim. ii. 2).

6. A ddarfu iddynt gyflawni eu holl ddyletswyddau yn unigol?

Hwy a gadwasant eu hawdurdod a'u cyfrifoldeb apostolaidd; eithr trosglwyddasant rai o'u swyddogaethau. Ysgrifennodd mwy nag un yr Ysgrhythur Lân o dan eu nawdd; galwyd hyd yn oed Barnabas yn apostol (Act. xiv. 14); anfonwyd allan Timotheus a Titus o dan yr enw o Efengylwyr i gario y'mlaen waith yr apostol Paul (2 Tim. iv. 4, 5).

7. Oni roddwyd Efengylwyr i'r gynulleidfa?

Fe wnaed hynny; eithr nis gesyd St. Paul hwynt y'mhlith y swyddogion a osodasid. Swydd afreolaidd ydoedd; a arferid gan ddynion, y rhai er nad oeddynt wedi eu neulltuo i'r weinidogaeth, a bregethent y gair. Rhoddwyd yr enw yn ddiweddarach i bedwar ysgrifenydd yr Efengylau; ac y mae mewn arferiad cyffredin ar hyn o bryd ar y cyfryw a neulltûir i bregethu cenhadaethol: hynny yw, pregethu y tu allan i'r swydd fugeiliol, pa un bynnag ai ordeiniedig ai anordeiniedig.

8. Pa olygwedd ellir ei chymeryd o'r weinidogaeth draws-symudol?

Yr oedd yn gyfaddasol i amser y sylfaeniad: yr oedd gwyrtiau oddiwrth Dduw, ac awdurdod anghyffredin y'mhlith dynion yn angenrheidiol ar y cychwyniad. Ar ol hynny yr oedd yr Efengyl i dreiddio ohoni drwy'r byd fel lefain. Mewn

argyfyngau pwysig, fe godir dynion fyth mewn modd anghyffredin : yn eu hyspryd hwynt, eithr nid gyda'u henw hwynt.

§ 3. *Y Weinidogaeth Barêol.*

1. *Y'mha fodd y trefnwyd y weinidogaeth reolaidd?*

Trwy ordeiniad henuriaid i lywodraethu dros amgylchiadau ysprydol yr Eglwysi, ac apwyntiad diaconiaid i lywodraethu dros eu hamgylchiadau tymhorol.

2. *Beth oedd yn gyffredin i'r ddwy swydd hyn?*

Y cymhwyster gofynnol i'r ddwy swydd ydoedd bod yn iach yn y ffydd, a buchedd lân (1 Tim. iii. 1—9); hwy a ffurfient urddau gwahaniaethol gyda swyddogaethau gwahaniaethol; a chyfeirir at y ddwy fel eu gilydd fel yn cynrychioli yr Eglwys.

3. *Beth ydoedd y gwahaniaeth rhyngddynt?*

(1) Nid oedd swydd diacon wedi ei deffinio yn eglur; delid hi gan y ddeuryw (Rhuf. xvi. 1).

(2) Neulltuid yr henuriaid trwy arddodiad dwylaw; fe ddisgrifir eu gwaith yn dra llawn; ac ymddengys mai arnynt hwy yn bennaf y gorffwysai y cyfrifoldeb o reoli y gymdeithas.

4. *Beth ydoedd swydd yr henuriaid?*

Arolygiaeth fugeiliol dros y gynulleidfa yn y cyffredin; yn neulltuol, llywyddu dros y gwaith o addoli, pregethu a dysgu y gair, a gweinyddu disgyblaeth y cymundeb. Arnynt hwy y gorffwysai y cyfrifoldeb am hyn oll.

5. *Ond a gyfansoddent hwy un urdd ddiwahân?*

Un urdd oeddynt (Phil. i. 1): enwau ydynt brespyter ac esgob a ddefnyddir yn y Testament Newydd, pob un yn ei dro, am yr un swyddogaeth. Ac yn gyffelyb i hynny ni wahaniaethid rhwng athrawon a lywodraethwyr: disgrifia yr apostol gymhwys-terau y swyddau hyn yn y fath fodd fel ag i brofi yr hyn a ddywedir (1 Tim. iii).

6. *Y'mha fodd y neulltuid hwynt?*

Trwy arddodiad dwylaw yr henuriaeth (1 Tim. iv. 14); ac arddodiad dwylaw yr apostolion, tra hwynt eto yn fyw (Act. xiv. 23; Titus i. 5).

7. Pa gyfyngiadau a osodwyd ar eu gallu?

(1) Mynegir eu bod yn uniongyrchol gyfrifol i'r Arglwydd Ei Hun, eithr nid i unrhyw lŷs arall, byth (Heb. xiii. 17).

(2) Ond hwy a ddefnyddient y CYNORTHWYAU hynny a godasai yr Yspryd i fyny: mewn athrawiaethu, pregethu, cyng-hori, a llywodraethu (1 Cor. xii. 28).

(3) Cyfyngid hefyd ar eu gallu, trwy eu cymdeithas, gyfeillgar i raddau mwy neu lai, âg eglwysi ereill.

8. A oes gennym unrhyw dystiolaeth parthed y pwynt olaf hwn?

Treiddia trwy yr holl hanes apostolaidd (Act. xv. 2). Penderfynna yr apostolion a'r henuriaid byngciau cyffredin yn Jerusalem (Act. xx. 17). Gwysia St. Paul yr henuriaid neu yr esgobion i Miletus. A gwneir cyfeiriad parhâus at arferion yr eglwysi. Yn hyn oll rhoddir awgrymau o'r hyn, ar ol hynny, a ddaeth yn gymundeb o Eglwysi.

9. Oni cheir argoelion o gyfodiad graddol urdd uwch nag eiddo yr henaduriaid?

Y'mhob corff o henaduriaid fe roddid y lle blaenaf i un. Ymddengys y gelwir ef yn llyfr yr arwyddluniau yn *angel yr Eglwys* (Dat. ii. 1). Amlwg yw fod gan Timotheus a Titus awdurdod cyffelyb i'r apostolion. Ond am gyfodiad urdd gyda swyddogaethau a rhagorfreintiau megis y rhai a briodolwyd yn dra boreu i'r esgobion, nid oes gymaint ag arwydd ohono yn y Testament Newydd.

§ 4. Ymbriniaeth Sanesiol.**1. Beth yw cylch dadblygiad hanesiol yma?**

Yr amrywiol ddamcaniaethau parthed y weinidogaeth Gristionogol ydynt yr allwedd i holl hanes Crêd, yn ei chryfder ac yn ei gwendid, yn ei phurdeb ac yn ei dirywiad. Gorwedda y rhain hefyd wrth sail yr holl wahanol ffurfiau o lywodraeth eglwysig.

2. Sut y darfu i'r dadblygiad hwnnw fyned rhagddo ar y cyntaf?

(1) Edrychid ar y weinidogaeth er yn bur foreu fel rhan neu etifeddiaeth yr Arglwydd (*clerus*=rhan), cyffelyb i'r offeiriadaeth lefticaidd, yr hon a wahaniaethid oddiwrth y bobl, y gwŷr llëyg

(*laïkòs 'ànthròpos*), mewn bod ohoni yn urdd offeiriadol, neu eglwysig (*Ordo sacerdotalis* neu *Ecclesiasticus*).

(2) Yn ystod yr oes gyn-Nicëaidd daethai yr esgobaeth yn gyffredinol: yr esgob yn gynrychiolydd undeb. Trigai esgobion-gwledig (*CHOREPISCOPI*) o amgylch y trefydd, a'r pen-esgobion yn y prif ddinasoedd; a chynrychiolai yr holl synodau lleol undeb yr esgobaeth, yr hon hithau a gynrychiolai undeb yr eglwys: tra olyniant didor o esgobion o ddyddiau yr apostolion yn arwydd-nôd catholigrwydd.

(3) Arweiniodd hyn i gydnabyddiaeth cyffredinol, yn y bumed a'r chweched ganrif, mai esgob Rhufen, olynnydd St. Petr, ydoedd Canolwr terfynol, rhwymyn undeb, a ffynhonnell awdurdod i'r gyd-wladwriaeth Gristionogol.

3. A dderbyniwyd hyn erioed gan yr Eglwys gyffredinol?

Naddo erioed am un awr. Cadwodd eglwysi y Dwyrain eu hanibynnuaeth o dan eu patriarchiaid; a mynnant hyd y dydd hwn mai Eglwys Rhufen ydoedd y ffurf gyntaf o Anghydfurfiaeth.

4. Y'mha ystyr yr ydym i ddeall yr ymadrodd Arch-bendod eglwysig (*hierarchy*)?

Mewn dwy ystyr: (1) O fewn cylch y weinidogaeth ei hun yr oedd urddau uwch a rhai is: cynhwysai y rhai blaenaf ddiaconiaid, offeiriaid neu brespyteriaid, ac esgobion, ac i'r esgobion hyn yr oedd graddfa i fyny hyd at yr esgobion dinesig (*metropolitans*) ac esgobaeth Rhufen. (2) Fel y maent yn gysylltiedig â'r Wladwriaeth, fe gafodd swyddogion yr Eglwys, a chânt hyd yn hyn, safle fydol ac anrhydedd i fesur mwy neu lai.

5. A berthyna mynachiaeth i'r weinidogaeth?

Nid o angenrheidrwydd. Yr urddau mynachaidd oeddynt gyd-frodoriaethau o dan adduned arbenig: llëygwyr oeddynt yn bennaf ar y cyntaf; cyfansoddedig ar ol hynny o glerigwyr a llëygwyr; y clerigwyr oeddynt y mynachod rheolaidd, neu rai dan reol eu hurdd, megis y maent yn wahaniaethedig oddiwrth y mynachod cyffredin (*secular*) a weinidogaethent yn yr eglwys gyffredinol.

6. Y'mha fodd y darnodid neu yr arwydd-lunnid y gallu gweinidogaethol?

Fel gallu yr agoriadau (*POTESTAS CLAVIUM*), term o arferiad

cyffredin a gymerwyd oddiwrth eiriau ein Harglwydd wrth St. Petr (Matth. xvi. 18).

7. Sut yr oeddis yn deall hyn ?

Deallid ef gan rai, mewn amserau boreuol, fel yn cyfeirio at ragorfreintiau eglwysig, a ganiatëid neu a wrthodid ; deallid ef gan ereill fel dynodiad o awdurdod y gollyngdod offeiriadaidd (*priestly absolution*). Yn derfynol, pa fodd bynnag, cyfunwyd y rhain yn yr athrawiaeth sy'n sail i'r ddau sacrament dyfeisiedig o bennyd ac urddau.

8. Pa gyfnewidiadau a effeithiodd y Diwygliad Protestanaidd ?

Gwrthodwyd yr awdurdod pabaidd, neu lywodraeth y Pab ; diddymwyd yr urdd esgobaidd fel y cyfryw, er ddarfod cadw ato yn Eglwys Loeger ; rhoddwyd amlygrwydd i'r meddylddrych o offeiriadaeth gyffredinol yr eglwys, gan sylfaenu y weinidogaeth yn ddioedi ar apwyntiad yr Yspryd, a dirprwyad ei hawdurdod gan yr eglwys ; ac, yn ddiweddaf, cyfyngwyd gallu yr agoriadau i ddisgyblaeth yr eglwys a chyhoeddiad amodau iechydwrïaeth.

9. Beth ydoedd newyddbeth (*innovation*) arbennig Calfin ?

Yr oedd yr henaduriaeth neu brespyteriaeth wedi ei sefydlu yn ei pherthynas â llywodraethiad yr eglwysi, y'mhob llys o'r isaf i'r uchaf : o'r hyn y cyfododd y gyfundrefn Brespyteraidd. Ond cyflwynodd Calfin wahaniaethiad rhwng henaduriaid hyfforddiol ac henaduriaid llywodraethol ; gan seilio ohono y gwahaniaethiad hwn ar un ymadrodd yn bennaf : *Cyfrifer yr henuriaid sydd yn llywodraethu yn dda yn deilwng o barch dau-ddyblyg, yn enwedig y rhai sydd yn llafurio yn y gair ac yn yr athrawiaeth* (1 Tim. v. 17). Nid yw y gair *enwedig* yn gwarantu y fath wahaniaethiad o gwbl.

10. Sut yr oedd hyn yn newyddbeth ?

Yr oedd yr henuriaid ordeiniedig, am y rhai y dywedir eu bod yn *llywodraethu* (Heb. xiii. 7), yn gwbl neulltuedig oddiwrth ofalon bydol o'r dechreuad. Fe ordeinir yr henuriaid-llëygol diweddar, eithr nis neulltuir hwyt.

11. Sut y darfu i'r sefydliad gweinidogaethol gael ei gymedroli ?

Darfu i'r rhan fwyaf o'r cymundebau Protestanaidd gadw at y ddau urdd o henuriaid a diaconiaid, ond gyda rhyddid mawr yn yr eiriadaeth. Cadwodd Eglwys Loeger at urdd gwahanedig

B B

ac awdurdod yr esgobion ; gan wneuthur ohoni y ddiaconiaeth yn fwy uniongyrchol fugeiliol. Mabwysiadodd yr eglwys Luther-aidd y term cyntefig arolygwyr am fugeiliaid penodol ag oedd ganddynt ofal talaethau neu barthau ; er y defnyddiant y gair esgobion yn Scandinavia.

12. Pa dueddion i ddiddymu y weinidogaeth sydd ganfyddadwy ?

Bu i Gymdeithas y Cyfeillion, y Crynwyr, gymhwyso yr un egwyddor at hyn ag a gymhwysasant at yr eglwys a'r sacramentau : daliant na fwriadwyd odinhadau y Testament Newydd ond am dymor yn unig ; gan gyfyngu y weinidogaeth i alwad bersonol ddirgelaidd o eiddo yr Yspryd.

13. Pa dueddiadau a ganfyddwyd mewn amserau diweddar ?

Ymddanghosodd dau eithafion gwrthgyferbyniol yn ddiweddar. (1) Ymwrthyd y Brodyr,* fel eu gelwir, a chymundeb yr eglwys weledig bresennol yn unrhyw un o'i ffurfiau, gan wadu ohonynt ddwyfol awdurdod gweinidogaeth ordeiniedig ; (2) Y mae yr Eglwys Apostolaidd Gatholig † yn seiliedig ar y dybiaeth ddarfod i Dduw yn y dyddiau diweddar hyn adfer urddau y weinidogaeth symudol (*transitional*) ; megis apostolion, proffwydi, angelhon, ac hyd yn oed lefarwyr â thafodau.

14. Pa egwyddorion y dylem eu hategu ?

(1) Mai amlwg yw fod llywodraethiad yr eglwys gan henuriaid neu bresbyteriaid yn ordeiniad o eiddo Duw ; (2) fod y llëygwyr, trwy eu cynrychiolwyr a elwid yn wreiddiol yn ddiaconiaid, i ymuno â'r henuriaid y'mhob peth a berthyn i fyrdau (pethau allanol) yr eglwys ; (3) y rhoddir doniau yr Yspryd, nad ydynt wyrthiol mwyach, i'r ddau ddosparth fel eu gilydd er lles y llaweroedd.

III.

Yr Eglwys fel Trefniant ar gyfer y Bpô.

1. Pa byngciau a gyfyd dan y pennawd hwn ?

Fe gyfyd llauws o gryn bwysigrwydd ; megis cyfrifoldeb yr Eglwys fel cadwrfa, a diffynnydd y gwirionedd ; ei galwedig-

* Gwel Nodiad LXII. † Gwel Nodiad LXIII.

aeth genhadol; moddau ei lledaeniad; perthynas ei holl gymundebau â'u gilydd; a'u perthynas gyffredin â'r deyrnas am yr hon y darparant i gyd.

2. Y'mha fodd y mae yr Eglwys yn gadwrfa y gwirionedd?

Megis ddarfod *ymddiried i'r Iddewon am ymadroddion (oracau) Duw* (Rhuf. iii. 2); felly hefyd yr ymddiriedwyd y *Ffydd a rodded unwaith i'r saint* (Judas iii.). Gwrthddrychol ydyw y *Ffydd*, yn yr ymadrodd hwn, a dynoda y datguddiad Cristionogol; gair yw *saint* hefyd a ddynoda nid y rhai a sancteiddiwyd fel y cyfryw, ond y corff o gredinwyr proffesedig.

3. A pha fodd y mae cadw yr oracau ymddiriededig?

Pa le bynnag y ceir Eglwys Crist y mae ganddi yn ei meddiant yr Ysgrythyrau cyflawn fel ei hetifeddiaeth oreu; i fod iddi yn safon ffydd, yn hyfforddydd ei dyletswyddau a breinlen ei rhagorfreintiau. Swyddogaeth bwysig berthynol i'r cymundeb Cristionogol yw gwarchod ohono dros hyd yn oed destun yr Ysgrythyrau.

4. A yw diffyniad y ffydd yn gyfyngedig i hyn?

Y mae yn ddyletswydd ar bob Eglwys, yn ogystal a phob Cristion unigol, i amddiffyn y gwirionedd yn erbyn anghredinwyr; a thrwy ei llenyddiaeth a'i phulpud, i roddi rheswm am y gobaith Cristionogol (1 Petr iii. 15). Rhaid yw iddi wrthdystio yn erbyn heresiaau a phob heresi trwy ei chredöau a'i chyffesiadau ffydd.

5. Y'mha fodd y mae hanes yr Eglwys yn egluro y swyddogaeth hon?

Bu y credöau boreuol am oesau yn rhwymyn undeb, ac felly y parhânt, yn enwedig Credo'r Apostolion a Chredo Nicëa, yr unig ddau gredo gwir gatholig. Gwrthdystiadau neu ddiffyniadau, yn bennaf, ydynt y cyffesiadau diweddarach yn erbyn dirywiadau yr Eglwysi cyntefig; ac y maent i'w dal yn hytrach fel safonau rheoleiddiol.

6. Eithr oni ddengys y gwahaniaethau sy' rhwng y rhain nad yw Eglwys Crist wedi ateb ei diben?

Na wnant, ar un cyfrif: y mae yn aros gorff o wirionedd sydd yn gyffredin i'r oll ohonynt; ac ni wna y gwahaniaethau a

nodwyd amgen na phrofi mai nid ewyllys yr Arglwydd yw ar fod i'w Eglwys gael ei pherffeithio ar y ddaear : mewn geiriau ereill, nid yr amcan i ba un y cyfodwyd yr Eglwys yw sefydliad cyfundrefn athrawiaethol berffaith o wirionedd.

7. A ddatgenir diben yr Eglwys gan yr alwedigaeth genhadol ?

Hi a ddatgana y diben hwnnw gyn belled ag y mae y byd allanol yn y cwestiwn. Trefniantau ydynt Eglwysi gweledig er lledaeniad yr Efengyl, ac fel darpariaeth gogyfer â'r deyrnas derfynol.

8. A yw hanes yr Eglwys yn dyst o'i ffyddlondeb i hyn ?

Parhâodd gweithgarwch cenhadol Actau yr Apostolion yn ei burdeb yn ystod yr oesau boreuol ; fe aeth lledaeniad yr Efengyl rhagddo ar ol uniad yr Eglwys â'r wladwriaeth, ond yn ormodol o dan ddylanwadau bydol, am oesau. Ni fu yr unfedganrif-ar-bymtheg yn ddigon gofalus i gynnwys y ddyletswydd fawr hon o eiddo Crêd y'mhlith ei diwygiadau : eithr bu y ganrif ddiweddaf* yn dyst o adfywiad mawr yn y sêl genhadol.

9. Am hynny, gan fod y byd i'w ddychwelyd, pa rai ydynt y damcaniaethau Eglwysig parthed y moddion i effeithio hynny ?

Y maent yn amrywiol : y gwir yw fe berthyna i bob athrawiaeth am yr Eglwys ei hathrawiaeth genhadol arbennig. Nid yw y gyfundrefn Babaidd wedi gŵyro o gwbl oddiwrth yr amcan sefydlog o ddwyn pob cenedl dan warogaeth i gadair St. Petr. Ymlŷn rhai wrth y ddamcaniaeth genedlaethol neu diriogaethol : sef y bydd i ganghennau cenedlaethol o Grêd, o gyflawni ohonynt eu dyletswyddau, gartref ac mewn gwledydd tramor, beri fod Cristionogaeth, mewn amser cyfaddas, yn gyffredinol. Y syniad mwyaf cyffredinol yn yr oes hon yw y bydd i'r ffaith yr anfona cynifer o enwadau allan genhadaethau anibynnol, ennill y byd yn raddol i ufudd-dod ffydd.

10. Beth yw canlyniad y cyfan ?

Rhaid i ni fod ar ein gwyliadwraeth yn erbyn cyfeiliornadau gwrthgyferbyniol.

(1) Rhaid yw peidio a gor-brisio yr Eglwys fel sefydliad : ni fedda fel sefydliad unrhyw arwyddnodau o berffeithrwydd neu

* Y Bedwaredd-ganrif-ar-bymtheg.

barhauster; nid yw amgen na'r tŷ daearol o'r hwn yr ymgyfyd y tŷ ysprydol; ac oferedd hollol yw ceisio am gyfansoddiad eglwysig allanol, mawr neu fychan, a etyb yn gywir i'r meddyl-ddrych perffaith a osodir ger bron yn y Testament Newydd.

(2) Ar y llaw arall, yr Eglwys weledig yw yr offeryn a ddefnyddir gan ei Phen er cyflawni ohono Ei amcanion. Fe gymerir i fyny i gylch llywodraethiad yr Eglwys, er iechydwr-iaeth y byd, yr enwad symlaf a mwyaf dinôd ag sy'n seiliedig ar athrawiaeth sylfaenol y Drindod Sanctaidd, a'r gyfundrefn efengylaidd o wirionedd a orffwysa ar y Tri Phersonau Dwyfol.

(3) Yspryd y Crist yw Arglwydd a Rhoddwr bywyd,—organ-aidd ac Eglwysig; ac nis gallwn edrych oddicartref ar wledydd Crêd heb ein gorfodi i addef y geilw Ef i fod, ac y bywhâ, ac y defnyddia Efe gymundebau, y rhai sydd ganddynt yr unrhyw safon o apêi, ond a wahaniaethant mewn lluaws o faterion israddol.

(4) Y'mhob ystyriaeth o'r pwngc hwn, pa un bynnag ai yn ei berthynas â'n safle ni ein hunain, ai ynte fel athrawon i ereill, rhaid yw i ni gofio yn wastadol, mai yr un a'r unig wir Eglwys yw yr un honno a feddiennir gan Yspryd y Pen, ac sy'n un âg Ef.

LLYFR VII.

Y Pethau Diweddaf.

- I. MARWOLAETH A'R SEFYLLFA GANOL.
- II. AIL-DDYFODIAD CRIST: ADGYFODIAD A BARN.
- III. Y TERFYN, NEU DDIWEDD POB PETH.

LLYFR VII.

Y Pethau Dimebbaf.**Abagarmeiniad.****1. A yw y maes hwn yn un hollol newydd ?**

Nid yn hollol newydd; gan ddarfod ein cario eisoes i fyd arall gan luaws o athrawiaethau a dysgeidiaeth foisol Cristionogaeth. Ond fe erys rhai agweddau o'r dyfodol nad ystyriwyd mo honynt eto, y rhai a gynhwysir yn gyffredin dan eschatyddiaeth,* neu yr athrawiaeth am y pethau diweddaf.

2. Y'mha fodd yr edrychir ar y pyngciau hyn yn y Testament Newydd ?

Fel pethau a ddatguddiwyd yn arbennig; o'r pwysigrwydd mwyaf; a phethau a effeithiant yn barhaus ar y bywyd presennol.

3. Ond a ellir dweud ddarfod eu datguddio yn arbennig ?

Nid oes yn bod ddatguddiad eglurach yn yr Ysgrythur na'r un a ddadlenna y dyfodol: y mae i bob athrawiaeth Gristionogol yn ddiethriad ei chanlyniadau gosodedig yn y byd arall. Y mae prif wirioneddau y pethau diweddaf yn berffaith eglur.

4. O ba le ynte y cyfyd yr aneglurder a deimla pawb ?

Y'nghyntaf oddiwrth natur y pyngciau eu hunain, y rhai, er eu bod yn ddiâu yn ddatguddiedig, ydynt yn gyfryw ag sydd uwchlaw terfynau y deall dynol. Yn ail, y mae yr amserau a'r prydiau yn aneglur am resymau moesol: y mae yr ansicrwydd ohonynt yn un o'r prif elfennau yn eu heffaith moesol, ond ar yr un pryd, goblyga hwynt mewn math o amhenodolrwydd amheus.

5. Beth yw y rhagdrem a agorir gerbron yn y Testament Newydd ?

Amrywia mewn gwahânlol rannau: ar brydiau ymddengys fel pe ail-ddyfodiad Crist yn cynnwys yr oll; ar brydiau yr adgyfodiad a'r farn; ac ar brydiau y sefyllfa ddyfodol o ddedwyddwch.

* Gair tarddedig o'r Roeg *eschatos*=diweddaf. a *logia*=traethiad -h.y., traethiad ar y pethau diweddaf.—T.J.P.

6. Trwy gael ein harwain gan rediad datguddiad y Testament Newydd, pa ddadelfeniad ellir ei wneud ?

Y'nghyntaf, dyna sefyllfa ganol eneidiau ymadawedig ; yna, ail-ddyfodiad Crist, i adgyfodiad a barn ; ac yna diwedd y trefniant prunedigol.

7. Gyda pha ystyriaeth y dylem agoshâu at y fath bwngc ?

Trwy gyfyngu ein hunain yn hollol at ddatguddiad yr Ys-grythur. Lle mae hwnnw yn eglur, gyda hyder diofn ; a lle y palla i ni, yna gyda gochelgarwch dwfn ac ymostyngiad i fod yn anwybodus.

PENNOD I.

Y Sefyllfa Ganol.

1. Beth yw perthynas yr ymadrodd hwn â'r pwngc ?

Dynoda y meddylddrych o gyfwng rhwng amherffeithrwydd y bywyd presennol a pherffeithrwydd sefyllfa derfynol credinwyr a ddysgir yn y Testament Newydd.

2. Y'mha ffyrdd ereill y cyfeirir at y sefyllfa hon o eiddo dynion ?

Lleferir am dani yn gyffredin fel angau, sefyllfa y meirw, ac fel sefyllfa ganol y meirw. Egyr y tri chyfeiriad hyn yn eu perthynas â'u gilydd yr holl gwestiwn.

3. Eithr onis rhybuddir ni gan y gair sanctaidd i beido a gwneuthur hyn yn bwngc arbennig o athrawiaeth ?

Dilys yw y dywed wrthym ddarfod gosod *i ddynion farw un waith, ac wedi hynny fod barn* (Heb. ix. 27) ; ac am y cyfwng rhwng angau a barn, fe ymhelaethir yn fawr arno, a pherthyna iddo gysylltiadau moesol pwysig yn yr ysgrythyrau Cristionogol.

4. A oes yn bod lawer o ddatguddiad i'n harwain ?

Dichon nad oes yr un diriogaeth o ddiwinyddiaeth ar yr hon y tywelltir goleuni cliriach, pa un bynnag ai yn ei pherthynas â'r gorffennol ynte â'r dyfodol yr ystyriwn hi.

5. Eithr oni seiliwyd lluaws o gyfeilliornadau mawrion ar y tudalen hwn o ddatguddiad?

Am y rheswm hwnnw gan hynny, yn ogystal âg am ei bwysigrwydd ymarferol dwfn, y dylem efrydu yn ofalus destun yr ysgrythur.

§ 1. *Marwolaeth*.

1. Pa olygwedd a gymerwn yma ar farwolaeth?

Fel cyflwyniad i fydd arall, a chan hynny fel digwyddiad yn hanes dyn syrthiedig ac adferedig: ysgariad yr enaid oddiwrth y corff.

2. Oddiwrth ba ryw farwolaeth y gwahaniaethir hon?

(1) Oddiwrth ddiddymiad, yr hyn na olyga y Beibl byth wrth farwolaeth; (2) oddiwrth farwolaeth ysprydol, yr hyn sydd yn ysgariad yr enaid oddiwrth Dduw, ac yn anibynnol ar farwolaeth naturiol: *Yr hwn y mae y Mab ganddo y mae bywyd ganddo; a'r hwn nid yw y Mab ganddo nid oes ganddo fywyd* (1 Ioan v. 12), hynny yw, y mae'n ysprydol farw. Ac wrth gwrs yn (3) oddiwrth farwolaeth dragwyddol, yr hyn nid yw amgen na marwolaeth ysprydol heb obaith.

3. Beth yw perthynas y farwolaeth naturiol hon â phechod a phrynedigaeth?

Hon ydoedd yr amlygiad allanol gweledig cyntaf o effaith pechod (Rhuf. v. 12); a hi fydd effaith diweddaf pechod oddiwrth yr hwn y'n gwaredir: *y gelvn diweddaf a ddinystir* (1 Cor. xv. 26). Yn y cyfamser darfu i'n Hiachawdwr *ddiddymu angau, ac a ddug fywyd ac anllygredigaeth ('aphtharsian') i oleuni trwy yr efengyl* (2 Tim. i. 10).

4. Sut y gellir cysoni diddymiad angau â'r cyffredinolrwydd ohono?

(1) Dynoda y gair a ddefnyddir yma (megis ereill o'r un dosparth) ddirymiad neu negyddiad: am hynny y dywedir am gorff pechod, pechod ei hun, a gweithredoedd diafol, ddarod eu dinystrio neu eu diddymu neu eu dilëu (Rhuf. vi. 6; Heb. ix. 26; 1 Ioan iii. 8).

(2) Fe negyddir pechod y'mhob ystyr mewn gwirionedd fel dedfryd condemniad; a chynygir bywyd i bawb.

(3) A bydd i fywyd ac anllygredigaeth ar ol hyn beri ei anghofio fel cosp.

(4) Yn y cyfamser, y mae marwolaeth yn parhâu, a rhoddir iddo le yn nisgyblaeth dynolryw : fel hiliogaeth ac fel unigolion.

5. Sut y cysylltir yr athrawiaeth Gristionogol am farwolaeth âg anfarwoldeb ?

Y mae dau ymadrodd a ddefnyddir fel eu gilydd mewn cyfeiriad at adgyfodiad y corff, sef *anllygredigaeth* ac *anfarwoldeb* (1 Cor. xv. 53, 54). Nid oes dim a wnelo anfarwoldeb yr yspryd â'r athrawiaeth am farwolaeth. Llygredigaeth a marwoldeb sy' ddwy agwedd o'r un cyfnewidiad bodolaeth, yr hyn a dybia barhâd y fodolaeth.

6. A yw yr enaid, gan hynny, ar wahân i'r corff, yn naturiol anfarwol ?

Fe grëwyd dyn ar ddelw Duw, *gan yr Hwn yn unig y mae anfarwoldeb* (1 Tim. vi. 16).

7. Oni ddarfu i'n Hiachawdwr ddwyn yn ôl i ddyn fodolaeth fforffediedig ?

Nid dyna yw athrawiaeth yr Ysgrythur. Bu iddo Ef Ei Hun *brofi marwolaeth dros bob dyn* (Heb. ii. 9); a goddef ohono y farwolaeth oddiwrth yr hon y gwaredodd Efe nyni; marwolaeth naturiol fel ysgariad yr enaid a'r corff; marwolaeth ysprydol fel yr ymdeimlad o ysgariad yr enaid oddiwrth Dduw; ond nid fforffediad bodolaeth yn unrhyw ystyr.

8. Y'mha fodd y gwahaniaetha y datguddiad Cristionogol rhwng marwolaeth credinwyr ac eiddo ereill ?

(1) Trwy ymadroddion neulltuol : *esmwythdra* yw (2 Thes. i. 7), *huno* yn yr Iesu (1 Thes. iv. 14), ac *ymddatodiad* (ymadawiad) neu *farw* (2 Tim. iv. 6; ii. 11).

(2) Trwy ei wneuthur yn ddibeniad ac yn gwblhâd aberth gwirfoddol o hunan mewn undeb â'r Arglwydd; trwy yr hwn y gogoneddir Duw, yr enillir y fuddugoliaeth derfynol, ac y diddymir angau mewn gwirionedd : *A phwy bynnag sydd yn fyw, ac yn credu ynof Fi, ni bydd marw yn dragywydd* (Ioan xxi. 19). Am hynny, i ddydd Crist yn hytrach na marwolaeth y rhoddir amlygrwydd yn wastadol (1 Cor. xv. 55; Ioan xi. 26).

§ 2. Genrnas n Mermon.

1. A benoda y Testament Newydd le a chyflwr i'r ymadawedigion?

Gwna hynny mewn dwy ffordd: (1) trwy ddioli y meirw oddiwrth y byw; (2) trwy benodi lleoliad cyfatebol i gymeriad pob dosparth.

2. A oes unrhyw debygrwydd rhwng yr Hen Destament a'r Newydd yn hyn?

Fel y'mhob rhan arall o ddatguddiad, ni a gawn na chymerrir yr hen athrawiaeth ymaith ond y gweddnewidir ac y gogoneddir hi. Dysgir fod parhâd ar ol marwolaeth trwy gydol yr Ysgrythyrau cyntefig; ond ein Hiachawdwr *a ddug fywyd ac anlygredigaeth i oleuni trwy yr efengyl* (2 Tim. i. 10). Y mae Efe wedi taflu goleuni ar yr hyn oedd aneglur; goleuni digonol ar gyfer ein prawf presennol.

3. Beth ydoedd golygiad yr Hen Destament am y sefyllfa ddyfodol?

Ni a gawn fyd isod, neu danddaearol, *shol* drwyddo, lle y cydgynulla ysprydoedd allan o'r corff, iſlaw y bedd lle y gorwedda eu cyrff. Eithr hyd nes iddo Ef, yr Hwn yw ein Bywyd ni, ymddangos, rhyngodd fodd i Dduw gyfyngu y prawf crefyddol i fesur helaeth i'r byd presennol.

4. Beth ydoedd nodweddion y sefyllfa honno?

Golygir hi fel derbynle yr holl feirw (Job xxx. 23): gyda thrymwydd ysgafn o wahaniaeth rhwng da a drwg, ond heb y rhagolwg ddisglaer a gyflwynir gan y efengyl (Pre. xi. 9).

5. Y'mha fodd y cyfeirir at sefyllfa yr ymadawedigion yn yr Efengylau?

Fel parhâd o arddull yr Hen Destament: felly y mae yn nameg Lazarus (Luc xvi. 23). Ond cyfeirir at, a chadarnheir yr athrawiaeth Iddewig ddiweddarach o ddyraniad yn Hades rhwng y gehenna o dân a pharadwys dedwyddwch (Matth. xxiii. 15; Marc ix. 43; Luc xxiii. 43).

6. Pa gyfnewidiad a ddygwyd i mewn gan adgyfodiad ein Harglwydd?

O'r pryd hwnnw cyfnewidia'r eiriadaeth. Anfynych y defnyddir y termau hades, a gehenna, a pharadwys; er yr ategir eu gwirdeb yn Llyfr y Datguddiad (Dat. i. 18; xx. 14).

7. Beth yw pwys hyn ar ein geiriadaeth Gristionogol ddiweddar?

Ni sonia y Testament Newydd am fynediad i'r nefoedd, nac am ymchweliad y drygionus i uffern hyd ddydd y farn. Ac ar wahân i Lyfr y Datguddiad, ni ddeffinia yn eglur iawn y ddwy diriogaeth yn hades. O hyn fe gyfyd lle i ryw fesur o welliant yn ein geiriadaeth arferol; o leiaf yn y dehongliad a garia i'n meddyliau.

§ 3. Si Gŵmmeriad Sanofog.

1. Pa gyfeiliornadau a ddynodir gan yr ymadrodd hwn?

(1) Y cyfeiliornad o ystyried y cyflwyna angau i gyflwr perffaith; (2) yr un a'i gwna yn ddim ond arhos-fan yn unig i ddisgwyl dyfarniad, sy'n gwbl anhyspys.

2. Pa wrthwynebiad ysgrythyrol sydd yn erbyn edrych ar angau yn un o'r ddau oleu hyn?

(1) O barthed i'r blaenaf: fe gyll y datguddiad cyflawn o farn, y'nghyd a'r addewidion gogoneddus, a'r dynged ofnadwy a ddyddir o'r dydd hwnw allan,—fe gyll y rhain eu sylweddoldeb os tybiwn fod angau yn gyflwyniad uniongyrchol i'r gwynfyd terfynol. Fel rhai a achubwyd yr ydym yn *disgwyl y mabwysiad, sef, prynedigaeth ein corff* (Rhuf. viii. 23).

(2) O barthed i'r olaf: y mae datguddiad cyflawn y rhyddhâd a'r fuddugoliaeth fawr wrth farw, *O angau, pa le mae dy golyn?* (1 Cor. xv. 55), a'n bod yn *cartrefu gyda'r Arglwydd*, yn gwahardd y syniad fod y gwaredigion yn ansicr o'u dyfodol (2 Cor. v. 8).

3. Pa ryw welthgarwch neu gynnydd a ddynodir fel yn ddichonadwy neu yn debygol?

Gan yr ymwrthodwn â'r syniad o gwsg yr enaid, rhaid i ni gredu yr â ei feddyliau, ei deimladau, a'i ewyllysiau rhagddynt yn ol y cwrs a benderfynwyd mewn bywyd: hynny yw, y byddant yn agored i ddadblygiad. A gall fod, y bydd i'r hyn oedd ar fin bod yn ddarpariaeth anymwybodol er derbyn yr Efengyl, gael ei fywâu idd ei welthgarwch ymwybodol. Ond ar hyn, ceidw datguddiad ddistawrwydd.

4. Sut y gellir gwahaniaethu hyn oddiwrth brawf?

Y mae prawf yn ei berthynas â dyn yn gyfunedig a'r bywyd presennol, ei dreialon, ei gyfleusterau, a'i ddyletswyddau: a dyn

yn ei gyfanrwydd y mae a wnelo prawf, fel corff ac enaid a brynwyd gan Grist. Yn y farn fe amlygir dynion, *fel y derbynio pob un y pethau a wnaethpwyd yn y corff* (2 Cor. v. 10).

5. Beth yw dylanwad disgyniad Crist i Hades ar y pwngc hwn yn gyffredinol?

Tystiolaeth groyw ydyw ddarfod i Waredwr dynolryw gymeryd meddiant o diriogaeth y meirw. Efe yw *Arglwydd y byw a'r meirw* (Rhuf. xiv. 9). *Ac Efe a aeth ac a bregethodd i'r ysprydion yng ngharchar* (1 Petr iii. 19); ond beth ydoedd ei gyhoeddeb, nis gwyddom, ac ni charia y testun dyfynedig unrhyw athrawiaeth. Pa fodd bynnag, ni a wyddom gymaint a hyn, sef, fod tiriogaeth y meirw yng ngofal Cyfaill cyfiawn a thrugarog dynolryw.

6. A deifl Llyfr y Datguddiad unrhyw oleuni ar y sefyllfa ganolog?

Cryn lawer: canys er mai llyfr o weledigaethau ac arwyddluniau yw, fe geir sail i sylweddolrwydd trwyddo. Dysga fod y rhai ymadawedig mewn cyflwr o lawn weithgarwch, yn gwasanaethu yr Arglwydd *ddydd a nos yn ei deml* (Dat. vii. 15), megis hefyd y gwna eu *cyd-weision* a'u brodyr isod, gan ddisgwyl mewn amynedd a gobaith, a llefain ohonynt, *Pa hyd?* (Dat. vi. 11, 10; vii. 14, 17). Hwyl a *olchasant eu gynau*, ond yr Arglwydd yw eu *Bugail* fyth (Dat. xx. 11—13). Ni chyfeirir at sefyllfa yr anuwiolion ymadawedig; ond, y farn gyffredinol yw y terfyn at yr hwn yr arweinia pob rhagdrem o eiddo proffwydoliaeth.

§ 4. Ymddriniaeth Sonesiol.

1. Beth yw rhediad cyffredin meddwl dynol wedi bod ar y pwngc hwn?

Dengys chwedloniaeth bron pob cenedl olion crediniaeth ym mynediad yr enaid ar ol awr angau i gyflwr o weithgarwch heb y corff: naill ai i gyfres o drawsfudiadau, megis yn y Dwyrain; neu i farn uniongyrchol, megis yn y Gorllewin.

2. Pa ddamcaniaethau a berthyn yn enwedig i amseroedd Cristionogol?

Ymestynasant dros dair llinell arbenigol: gan olygu ohonynt y sefyllfa ganol fel un anymwybodol; neu fel cylch o ddisgybl-

aeth burdanaidd; neu fel parhâd o'r prawf boreuach a esgeuluswyd.

3. Beth yw ystyr y ddamcaniaeth fod yr enaid yng nghwsg hyd ddydd y farm?

Tarddodd hon oddiar olygiad materolaidd nas gall ddioli y dyn oddiwrth ei organiaeth corfforol. Gwers fawr y sefyllfa ganolog yw y gall dyn fodoli yn yr yspryd: nis gellir gwneud ymchwil a fyddai o unrhyw fudd i'r wisg gorfforol a briodolir yn ffugyrol gan yr Ysgrythur i'r rhai ymadawedig.

4. Sut y mae gwrthbrofi hyn?

Trwy ei anghysondeb ei hun: os yw'r enaid yng nghwsg, yna y mae mewn bodolaeth. Eithr gwrthwynebir ef gan holl rediad yr Ysgrythur, a lefara am *ysprydoedd y cyfiaw'n y rhai a berffeithiwyd* (Heb. xii. 23); gan gysylltu yr ymadrodd *apsennol o'r corff â chartrefu gyda'r Arglwydd* (2 Cor. v. 8).

5. Beth yw y ddogma am y purdan yn ei pherthynas â hyn?

Fe geir olion tra boreu yn y tadau o'r ddysgeidiaeth gyffredin y cwblhâ Cristionogion ymadawedig eu disgyblaeth sancteidhâol *megis trwy dân* (1 Cor. iii. 15); gan wrydroi ohonynt y testun dyfynedig ynghyd â rhai eraill. Ond rhannodd Ysgolwyr y canoloesoedd y diriogaeth ganol i lawer o drigfannau: megis LIMBUS, neu Dderbynlle i'r saint cyntefig; arall i blant anfeddyddiedig; arall i'r paganiaid; arall i Gristionogion amherffaith, sef y mwyafrif mawr. Yr un olaf hon yw y ddogma briodol: yr hon gyda'i massau a'i gweddiau cydfynedol dros y meirw ynghyd a'i phardynnau, nad oes warant drosti yn yr Ysgrythur.

6. Sut yr ategir y ddamcaniaeth o brawf mewn sefyllfa ganol gan ei diffynwyr?

Â hon yn llawer pellach na dogma y purdan, yr hwn sydd lwybr garw i'r nefoedd. Tybia y ddamcaniaeth dan sylw y pregethir yr efengyl o hyd yn y byd arall, er derbyniad neu wrthodiad ohoni: yn wir, y bydd i bob un dderbyn yn y farn ddiweddaf y pethau a wnaethpwyd yn yr yspryd didoledig, yn ogytal a'r *pethau a wnaethpwyd yn y corff* (2 Cor. v. 10).

7. Y'mha oleuni y gosodir hyn yn y Testament Newydd ?

Nid yn unig ni cheir ynddo adnod o blaid y cyfryw obaith; ond cauir ef allan ganddo. Diau yr ymddengys yr Arglwydd fel pe yn ei gefnogi mewn dau ymadrodd: yn yr *Ha fab, coffa!* yn Ei ddameg yn Luc (xvi. 25), ac yn yr ymadrodd *Arglwydd, pa bryd y'th welson?* yn Ei ddisgrifiad o'r farn (Matth. xxxv. 37). Ond yn y blaenaf y mae *gagendor mawr* wedi ei *sicrhau* (ad. 26); ac yn yr olaf, y rhai a dderbyniwyd ac a fuant anwybyddus ohono Ef, trigianwyr y ddaear mewn amser oeddynt.

8. Beth yw ein diogelwch ?

Dal gafael yn, a phregethu Efengyl *dydd ein iechydwriaeth* (2 Cor. vi. 2); gan adael ohonom y meirw, heb ddamcaniaethu nac yn eu cylch nac am ddirgelion eu tynged, i ofal eu Harglwydd hwy a'r eiddom ninnau.

PENNOD II.

Ail Ddyfodiad Crist: Adgysfodiad a Barn.

I.

Yr Ail Ddyfodiad.

§ 1. Un Adegysfodiad.

1. Pa sawl dyfodiad o eiddo Crist y sonnir am danynt?

Am ddau yn unig. Er nas digwydda yr ymadrodd "Ail ddyfodiad," fe gyfeirir, yn wastad, at ddychweliad yr Iesu fel digwyddiad arbennig a therfynol: yn hollol megis y cyfeirid at Ei ddyfodiad blaenaf Ef yn yr Hen Destament.

2. Sut ei disgrifir yn y Testament Newydd?

Gwneir hynny mewn amrywiaeth o ymadroddion y gellir eu dosparthu fel ymadroddion o ddanfoniad a dyfodiad, o ymddangosiad ac o bresenoliad, a phob un ohonynt yn rhoddi iddo nodwedd wahaniaethol; fe'i disgrifir hefyd gan y canlyniadau a'i dilyna, fel mai dydd yr Arglwydd yw yn terfynu yn adgyfodiad pawb a'r farn gyffredinol.

3. Beth yw addysg y termau danfoniadol?

(1) Mai dychweliad ein Harglwydd, *yr Hwn y mae yn rhaid i'r nef Ei dderbyn hyd amser adferiad pob peth yw dibeniad apwyntiedig Ei waith cyfryngol Ef o israddoldeb: fel yr anfono Efe Grist yr Hwn sydd wedi ei apwyntio i chwi, Iesu* (Act. iii. 20, 21). (2) Rhaid yw i hyn ddehongli y geiriau yn y rhai y lleterir am Ei ddyfodiad Ef: *Myfi a ddeuaf drachefn* (Ioan xiv. 3). *Yr Iesu Hwn a gymerwyd i fyny oddiwrthyhch i'r nef a ddaw felly yr un modd. Wele! y mae Efe yn dyfod ar y cymylau* (Act. i. 11; Dat. i. 7).

4. Y'mha ystyr y bydd yn ymddangosiad?

Y'nghyntaf, ni fydd Efe mwyach yn y byd anweledig, *Pan ymddanghoso Crist yr Hwn yw ein bywyd ni* (Col. iii. 4). Fe welir oddiwrth hyn mai y *parousia* yw, yr hyn, a siarad yn fanwl, yw Ei bresenoldeb gyda'i bobl, a ddilyna Ei ddyfodiad Ef. Yn

ail, fe wahaniaethir Ei ail ddyfodiad Ef mewn gogoniant oddi-wrth Ei ddyfodiad cyntaf mewn darostyngiad fel hyn: *Yr ydym ni yn edrych am ymddanghosiad gogoniant ein Duw mawr a'n Hachubwr Iesu Grist* (Titus ii. 13).

5. Pa bwys a roddir ar Ei ddydd Ef?

Cyfeiria at amser penodedig dyfodiad yr Arglwydd, fel *dydd yr Arglwydd* (1 Thes. v. 2); a dynoda hefyd, yn unol âg arferiad ysgrythyrol, ymddanghosiad mawreddog o'i Berson Ef a chwblhâd Ei waith. Defnyddir yr ymadrodd *Dydd yr Arglwydd* yn yr Hen Destament i ddynodi unrhyw amlygiad mawreddog o allu Jehofah, pa un bynnag ai mewn trugaredd neu farn (Zeph. i. 14; iii. 16); a dynoda *ddydd Iesu Grist*, Jehofah y Testament Newydd y'mhob lle yn arddanghosiad terfynol o'i gariad Ef a'i ddigofaint—y ddau: yn y farn, ac yn nherfyniad pob peth (Phil. i. 6),

6. A gyfyngir yr holl dermau hyn i un digwyddiad allanol a gweledig?

Fe ddefnyddir y ddau air “dyfodiad” ac “ymddanghosiad” weithiau i ddisgrifio presenoldeb yr Arglwydd trwy Ei Yspryd yn Ei Eglwys, ac yng nghalonau Ei bobl. *Minnau a'i caraf Ef, ac am hegluraf Fy Hun iddo. Nyni a ddeuwn ato. Nis gadawaf chwi yn amddifad; Mi a ddeuaf atoch chwi. Pan welodd Duw yn dda . . . i ddatguddio Ei Fab ynof fi* (Ioan xiv. 21, 23, 18; Gal. i. 15, 16). Ond y'mhob achos cyffelyb fe geir rhywbeth i ddynodi ei fod yn bersonol a mewnlol.

§ 2. Ymbriniaeth Sanesiol.

1. Pa gyfeilliornadau a godasant o barthed i ail ddyfodiad yr Arglwydd?

Dau ddosparth gwrthwynebol: ac i bob un ohonynt amryw ffurfiau. Y'nghyntaf, cafodd ei ysprydoli yn ormodol, megis petai yr oll wedi ei gyflawni yn Ei ddyfodiad ysprydol Ef ar ddydd y Pentecost, neu ar ddinystyr Jerusalem. Yn ail, cafodd ei anianoli yn ormodol gan y sawl a ddysgent deyrnasiad llythyrennol dros fil o flynyddoedd.

2. Sut y gallwn gyfarfod â'r dosparth blaenaf o ddehonglwyr?

Trwy nodi allan y pwyslais â pha un y llefara y Testament

Newydd y'ngghylch y digwyddiadau penodol sydd i ragflaenu dyfodiad yr Arglwydd : perthyna iddo ei *amserau priod*, fel cyflawniad lluaws o *amserau a phrydiau* llai amlwg (1 Tim. vi. 15 ; Act. i. 7). Nid oes dim yn amlycach na'i fod yn nodi allan un digwyddiad hanesiol penderfynedig.

3. Beth yw natur y cyfeillornad arall, a'r un pwysicaf?

Gelwir ef yn gyffredin yn Fil-flwyddiant, oddiwrth y dybiaeth o deyrnasiad gweledig Crist am *fil o flynyddoedd* (Dat. xx. 2—4) : Chiliaeth sydd ffurf Roegaidd ar yr un gair. Yn fwy penodol, Rhag-fil-flwyddiaeth ydyw : y RHAG yn dynodi fod ail ddyfodiad Crist a'r adgyfodiad cyntaf i flaenori y mil-flwyddiant, ac y dilynir ef gan drydydd dyfodiad ac ail adgyfodiad.

4. A ddarfu i'r oesau Cristionogol boreuol goleddu y golygiad hwn ?

(1) Gwnaed defnydd o'r dybiaeth gan y Cristionogion Iddewiaidd i ddehongli proffwydoliaeth ; (2) rhoddid derbynriad helaeth iddi gan luaws o'r tadau yn bersonol ; (3) gwrthwynebid hi yn egniol gan ddiwinyddion Caercystenyn ; (4) nid ymddanghodd yn y Tri Chredo (yr Apostolaidd, y Nicëaidd, a'r Athanasiaidd) ; nôd amlwg y rhai ydyw un dyfodiad personol ar derfyn pob peth ; (5) ar ol Cyngor Nicëa ciliodd o'r golwg, am dymor o leiaf, i'r hyn yr oedd llwyddiant tymhorol yr eglwysi yn gynorthwy.

5. Beth fu hanes dilynol yr athrawiaeth ?

Ar derfyn y fil-flwydd Gristionogol gyntaf cynhyrfwyd Gwledydd Crêd bron yn gyffredinol gan ddisgwyliad am ddiwedd y byd : yr hyn a ddengys pa mor ddwn ydoedd y gobaith mil-flwyddol. Ar ol y diwygiad Protestanaidd bu i'r Ail-fedyddwyr yn yr Almaen ddirywio y meddylddrych, megis y gwnaed hefyd gan benboethiaid y Weriniaeth yn Lloeger. Condemniwyd ef yn ddieithriad gan gyffesiâu yr eilfed-ganrif-ar-bymtheg. A gellir dweud am dano, mai megis yr oedd yn arwydd-nod Iddewiaeth yn yr oesau boreuol, felly hefyd yr oedd yn arwydd-nod o benboethni yn eglwys y canoloesoedd.

6. Eithr onid yw wedi cyrraedd ohono fwy o bwysigrwydd diwinyddol yn yr amserau diweddaf hyn ?

Do, y mae wedi treiddio i mewn, yn ystod y ganrif ddiweddaf hon, gyda mwy neu lai o wahanolrwydd, i ddysgeidiaeth lluaws o

gymundebau; ac o'r braidd nad yw wedi dyfod yn bwngc gwahaniaethol rhai ohonynt.

7. Gyda pha effaith ?

Mynych y darfu i'w goleddwyr ei wneuthur yn arwyddair i esgymunolaeth (*exclusiveness*): gan ddyrchafu i erthygl o ffydd y disgwyliad cynefin am ymddanghosiad yr Arglwydd i deyrnasu ar y ddaear. Rhoddodd godiad i ddehongliad anianol o'r proffwydoliaethau, yn enwedig eiddo yr Hen Destament, gan, trwy hynny, aflonyddu ar ffydd gyson Cristionogion yn unig ddyfodiad dyfodol yr Arglwydd i farn. Rhoddodd ddehongliad anaturiol ar y gyfres amseryddol seml o ddigwyddiadau y ragfynegir eu bod yn rhagddarparol i'r dyfodiad. Ac fel y canlyniad o hynny, tueddodd at niweidio gweithgarwch cenhadol y cyfryw eglwysi a goleddasant ei ddaliadau.

8. Beth yw y gyfres amseryddol honno ?

Dysgir ni, yn bendant, na chawn wybod *yr amserau a'r prydiau y rhai a osododd y Tad yn ei awdurdod ei Hun* (Act. i. 7). Yn negyddol, hyfforddir ni: yng

(1) *Y pregethir yr efengyl hon am y deyrnas, trwy yr holl fydd, er tystiolaeth i'r holl genhedloedd; ac yna y daw y diwedd* (Matth. xxiv. 14), ond nid cyn hynny.

(2) *Y dychwelir yr Iddewon ar ol dygiad i mewn y cenhedloedd, ac y bydd adfywiad mawr ar Gristionogaeth: y DIRGELWCH yw ddyfod caledrwydd o ran i Israel hyd oni ddél cyflawnder y Cenhedloedd i mewn* (Rhuf. xi. 25).

(3) *Y bydd yr adfywiad hwn dros Grêd, bywyd o feirw* (Rhuf. xi. 15), yn lledaeniad mil-flwyddol cyffredinol o'r efengyl, mewn cymhariaeth â'r hwn y gellir disgrifio yn ffugyrol gyflwr blaenorol y byd Cristionogol fel yn farw.

(4) *Y rhaid i wrthgiliad terfynol, ymddanghosiad diwedda'f yspryd anghrist, ym mherson rhyw anghrist anadnabyddus eto, ragflaenori dyfodiad yr Arglwydd* (2 Thes. i. 8).

9. Eithr onid oes rhai ymadroddion ysgrythyrol a dad-leuant yn gryf dros ddyfodiad Crist yn flaenorol i'r mil-flwyddiant.

Ceir rhai: y mae un yn enwedig yn llyfr y Datguddiad, yr hwn o'i ddehongli yn llythyrennol, heb ei gymharu âg ysgrythyrau ereill, a fyddai yn derfynol ar y pwngc (Dat. xx).

10. Sut y mae dehongli yr ymadrodd hwnnw?

Mewn cysondeb yn (1) a nodwedd arwydd-luniol yr holl lyfr; (2) âg athrawiaeth ein Harglwydd Ei Hun, yr Hwn mewn un a'r unrhyw ymadrodd, a lefara am adgyfodiad ysprydol a naturiol (Ioan v. 28, 29); (3) â rhediad yr holl Destament Newydd, yr hwn a lefara am un dyfodiad o eiddo yr Iachawdwr er adgyfodi a barnu dynion a phrynedigaeth Ei bobl.

II.

Yr Adgyfodiad.**1. Y'mha fodd yr ymdrinnir â'r adgyfodiad yn y Testament Newydd?**

Un o'r cyfryw bethau yw a wneir yn wrthddrychau datguddiad arbennig; cyflwynir ef i sylw gan ein Harglwydd a'i apostolion fel eu gilydd, a hynny fel dirgelwch newydd a therfynol. Fel dirgelwch: gan hynny, y'nghyntaf, yr oedd wedi ei hyspysu mewn rhan; ac yn ail, datguddiwyd ef yn gyflawn, a chyn belled ag y gall y meddwl dynol ei dderbyn, yn berffaith.

2. Onis datguddiwyd ef yn yr Hen Destament?

Fe geir llawys o ymadroddion, y rhai y'ngoleuni y Testament Newydd a ddatganant yr athrawiaeth (Esai. xxvi. 19; Hos. xiii. 14); a rhai a ddanghosir fel yn cynnwys rhagawgrymiadau ohono: megis y cyfryw y ceryddai yr Iesu y Saducëaid (Luc xx. 37, 36). Ond y mae gan Daniel rywbeth mwy na hedyn ohono: *Llawer o'r rhai sydd yn cysgu yn lluch y ddaear a ddeffrôant* (Dan. xii. 2).

3. Beth ydoedd y syniad derbyniedig yn nyddiau ein Harglwydd?

Yr oedd y Pharisëaid a'r Saducëaid yn ranedig ar hwn, fel ar byngciau ereill: apeliwyd gan yr Apostol Paul at y rhai blaenaf fel credinwyr yn yr adgyfodiad (Act. xxiii. 6—8). A datganodd Martha, hithau, fydd bendant yn y modd mwyaf hyderus. (Ioan xi. 24).

4. Pa fodd y nodir ef fei datguddiad newydd?

Cyflwynwyd ef i sylw gan y Gwarddwr fel RHYFEDDOD ARBENNIG o eiddo Ei ddysgeidiaeth; a chan St. Paul fel DIRGELWCH: a chyfeiria y ddau, y rhyfeddod a'r dirgelwch at y

datguddiadau cyflawnach o eiddo yr Arglwydd, a'i wasanaethwr Ef.

5. Nodwch elfennau arbennig yr athrawlaeth Gristionogol?

Ei chysylltiad â Pherson a gwaith Crist; â'r farn gyffredinol; ac â gogoneddiad perffaith y dyn cyflawn yng Nghrist.

§ 1. Grist a'r Adgyfodiad.

1. Sut y golygir y cysylltiad hwn?

Yr adgyfodiad, ffrwyth Iawn y Gwaredwr yw; gweithred o eiddo Ei awdurdod cyfryngol Ef; ac yn enwedig rhagorffaint sy'n ffrwyth undeb ag Ef Ei Hun.

2. Beth yw ei berthynas â'r Iawn?

Trwy Ei farwolaeth bu i'r Gwaredwr bwrcasu holl natur dyn. Arglwyddiaethodd marwolaeth arno Ef fel cynrychiolydd pechod dyn; profwyd pan yr adgyfododd nad oes i farwolaeth *arglwyddiaeth drosto Ef* (*kurieuēi*) *mwych*, eithr *fel kurieúsē*, = *yr arglwyddiaethai* (*Efe*) *dros y byw a'r meirw hefyd* (Rhuf. xiv. 9). Efe a *ddiddymodd angau* ar bob pwynt (2 Tim. i. 10).

3. Beth yw ei berthynas â'i awdurdod cyfryngol Ef?

(1) Efe a ddywedodd am Ei Ddwyfol-ddynol Berson: *Rhodduyd i mi bob awdurdod yn y nef ac ar y ddaear* (Matth. xxviii. 18). Un ymarferiad o'r gallu hwnnw yw adgyfodi y meirw: *Caiff pawb ar sydd yn y beddau glywed Ei leferydd Ef* (Ioan v. 28).

(2) Y mae adgyfodiad pob dyn yn gysylltiedig â'r farn ddiweddaf, yr amlygiad diweddaf o'i awdurdod Ef: *Am ei fod Ef yn Fab Dyn* y cyfyd Efe ddynion fel y barner hwynt (Ioan v. 27).

(3) Eithr nid yw yr adgyfodiad hwn idd ei gyfyngu i'r corff: *Y mae y Mab yn bywhau y rhai a fynno* (Ioan v. 21).

(4) Ar hwyrdydd Ei adgyfodiad Ef Ei Hun yr ymgymerodd ein Harglwydd â'i awdurdod. *Efe a anadlodd arnynt ac a ddywedodd wrthynt, Derbyniwch yr Yspryd Glân* (Ioan xx. 22): *Efe a anadlodd* (*enephúsēse*), yr un gair ag a gofnoda y ddawn gyntaf o fywyd i ddyn. Pa ystyr arall bynnag sydd i'r ymadroddion hyn, hwy a olygant gyfraniad bywyd yr adgyfodiad.

(5) Defnyddia St. Paul y gair mwyaf pendant sy' ddichon-
adwy i fynegu yr awdurdod cyfryngol a arferir yn yr adgyfodiad :
*Yn ol y nerthol weithrediad trwy yr hwn y dichon Efe ddar-
ostwng (hupotázai) pob peth iddo Ei Hun* (Phil. iii. 21).

4. A beth yw ei berthynas arbennig â'r undeb âg Ef Ei Hun?

Rhydd tôn dysgeidiaeth y Testament Newydd amlygrwydd
neulltuol i hyn. Megis y mae fod gan y Mab tragwyddol *fywyd
ynddo Ei Hun* (Ioan v. 26), felly y dywed y Mab ymgnawdoledig,
Myfi yw yr adgyfodiad a'r bywyd, i ddyn—(Ioan xi. 25, 26).
Hon yw yr engraifft fwyaf pendant o'r YDWYF. Trwy Ei undeb
Ef â'n hiliogaeth ni, darfu i ddynoliaeth dderbyn ohoni rin-
wedd yr adgyfodiad cyffredinol.

5. Sut y perthyna hyn, yn fwyaf neulltuol i'w bobl Ef?

Yr Iesu yw ffynhonnell, ernes a chynllun eu hadgyfodiad
hwynt.

6. Y'mha ystyr y mae Efe yn ffynhonnell?

Pâr undeb y credinwyr â'u Pen trwy ffydd fod Ei adgyfodiad
Ef yn eiddo iddynt hwy: hwy a wyddant yr awrhon, ac a gânt
wybod ar ol hyn *rym Ei adgyfodiad Ef* (Phil. iii. 10).

7. Y'mha ystyr y mae Efe yn ernes o hyn?

Digon yw clywed, *Canys byw wyf Fi, a byw fyddwch
chwithau hefyd* (Ioan xiv. 9). Yr ernes gyffredinol yw yr
Yspryd Glân; ac erchir ni gan St. Paul i gofio y bywiocëir ein
cyrff marwol ni *oherwydd Ei Yspryd Ef, yr Hwn sydd yn
trigo ynnoch*. Crist yw *Blaenffrwyth y rhai sy'n huno*; ac y
mae gennym ni *flaenffrwyth yr Yspryd*: y gair '*aparchê*'=
blaenffrwyth a ddefnyddir yn benodol am y ddau (Rhuf. viii.
11, 23; 1 Cor. xiv. 20).

8. Ac y'mha ystyr yn gynllun?

(1) Ni ddarfu i'n Harglwydd *welad llygredigaeth* na chorff nac
yspryd (Act. xiii. 37); noda hynyna gyfyngiad; nid yw Efe yn
gynllun y'mhob pwynt o'n hadgyfodiad ysprydol nac o'n had-
gyfodiad naturiol. (2) Eithr megis y mae Efe yn gynllun o'n
bywyd ysprydol perffaith, felly y mae Efe yn gynllun o'n
gogoneddiad corfforol: yr ydym ni wedi ein *rhaglunio i fod yr un*

ffurf â delw Ei Fab Ef: y Hun a lunia o'r newydd gorff ein darostyngiad NI, fel y cydfurfier ef â chorff Ei ogoniant EF (Rhuf. viii. 29; Phil. iii. 21).

§ 2. Adgyfodiad Dyn.

1. Pa rai ydynt feddylddrychau arweiniol yr athrawiaeth?

Y tri hyn: cyfodiad dyn drachefn yn ei gyfanrwydd; adgyfodiad y cnawd mewn trefn i'r gogoneddiad; ac adgyfodiad y meirw yn gyffredinol. Defnyddir y rhai'n i gyd yn eu hamrywiol berthynasau.

2. Sut y cyfeirir at adgyfodiad y cnawd?

Yn unig fel cyfodiad y corff ysprydol, trwy allu Dwyfol, offeryn gweithrediad yr yspryd yn dyfod yn enaid drachefn.

3. Pa ymadroddion a ddefnyddir am y cyfnewidiad?

(1) Parthed y gweithrediad Dwyfol, fe'i gelwir yn gyfnewidiad ail-adeiladol: *Yr hun a lunia o'r newydd gorff ein darostyngiad ni* (Phil. iii. 21). (2) Parthed yr effaith ohono, cyfnewidiad yw nad oes dim yn gyffelyb iddo ar y ddaear, er y cerydda St. Paul anghrediniaeth trwy gyfatebiaethau: y ffirwyth yw ymddanghosiad yr yspryd mewn corff o *anllygredigaeth* ac o *anfarwoldeb*, yr hwn nid yw mwyach yn *anianol* yn ei berthynas â phethau teimladol, ond yn *yspnydol* (1 Cor. xv. 53, 54).

4. A ddefnyddir yr ymadrodd am gyfnewidiad heb farw?

Na wneir, ond un hollol wahanol. *A ninnau a newidir* (1 Cor. xv. 52), hynny yw, ni fydd i'r genhedlaeth ddiweddaf, yr hon fydd byw ar ddyfodiad yr Arglwydd, fyned o dan adluniad o'r newydd, ond y cyfryw weddnewidiad ag yr aethai yr Arglwydd trwyddo ar y mynydd. Ond bydd y canlyniadau yr un; canys fe a.llunnir y meirw o'r newydd mewn trefn i fod ohonynt yn *gydfurf â chorff Ei ogoniant Ef* (Matth. xvii. 2; Phil. iii. 21).

5. A yw adgyfodiad y meirw yn cyflwyno i'n sylw feddylddrych arall?

Gesyd y pwys yn hytrach ar ddychweliad yr holl bersonoliaeth i fywyd; a dyma yw tôn gyffredinol yr ysgrythur. Fel engraifft o hyn, digon yw unig brif destun ein Harglwydd, *Ac y*

cyfyd y meirw Canys pawb sydd fyw iddo Ef (Luc xx. 37, 38).

6. Pa oleuni a deflir ar natur corff yr adgyfodiad ?

Dim : uwchlaw hyn (1) yn negyddol, na fydd yn farwol mwyach ; (2) yn gadarnhâol, ysprydol fydd,—organ yr yspryd mewn byd ysprydol.

§ 3. Ymbriniaeth Sonesiol.

1. Beth a fuant ddisgwyliadau dynolryw yn gyffredin ?

Nid oes dystiolaeth o'r tu allan i ddatguddiad ddarvoud i'r adgyfodiad erioed fod yn rhag-ddisgwyliad a ddarnodid yn glir y'mhlith dynion : er fod y modd y trinnid cyrff y meirw, yn enwedig y'mhlith yr Aifftiaid cyntefig, yn llawn o awgrymiadau.

2. A goleddid y ffydd hon gan Iddewiaeth ddiweddarach ?

Profa y llyfrau apocryffäidd y derbynnid hi ; a chymer y Testament Newydd yn ganiatâol y ffynnai crediniaeth gyffredinol y'mhlith yr Iddewon.

3. Sut yr ymfurflodd damcaniaeth yn yr eglwys foreuol ?

Haerai y sect Gnosticaidd *ddarvoud yr adgyfodiad eisoes* (2 Tim. ii. 18) : gwrthwynebid hwynt yn gryf gan un ran o'r eglwys foreuol, gan osod pwys ar adgyfodiad y cnawd yn llythyrennol, tra y coleddid yr olygwedd fwy ysprydol gan ran arall. Yr oedd y credöau boreuol yn rhanedig rhwng "adgyfodiad y CNAWD" ac "adgyfodiad y CORFF."

4. Beth ydoedd rhediad meddwl y canol-oesoedd ?

Mabwysiadai y mwyafrif o'r Ysgolwyr y dehongliad mwyaf llythyrennol : sef adgyfodiad manwl yr argraffiad diweddaf o'r corff megis y'i cyflwynwyd i'r bedd. Yr oedd eu mân ystrywiau dadleuol yn ddiddiwedd ; cafodd un ohonynt, fodd bynnag, oes hir, sef y bydd i'r holl saint gyfodi yn ol cynllun dyndod perffaith ein Gwaredwr, yn Ei ddegfed-mlwydd-ar-hugain-oed.

5. Ar ba ddamcaniaeth y cyfansoddwyd cyffesiâu y diwygiad ?

Gwnaed hynny gyda chysondeb cliriach o elfennau lythyrennol ac ysprydol yr athrawiaeth nag a gyrhaeddassid o'r blaen.

Serch hynny, cysylltai y Lutheriaid âg ef eu meddylddrych sylfaenol o gyfraniad trwy y cymun o gorffolaeth ogoneddedig ein Harglwydd: gan fod perthynas ddirgeledig rhwng Ei gorff ysprydol Ef â chorff y sefyllfa ganol a chorff yr adgyfodiad, y ddau.

6. Pa ddamcaniaethau fuant y rhai diweddaraf?

Gwnaethpwyd dau bwynt yn begynau er damcanu arnynt.

(1) Arweiniodd yr angenrheidrwydd tybiedig am ad-ffurfiad y corff maluriedig yn y ddaear i lawer o esponiadaeth anaturiol, a diystyrwch o ffeithiau anianol.

(2) Y mae y ddamcaniaeth y'nghylch yr hedyn a gedwir yn yr ymddatodiad cyffredinol, yn angau, wedi ymddadblygu ohoni mewn amrywiol foddau: tybiwyd fod yr hedyn hwnnw yng nghwsg hyd yr adgyfodiad, neu ei fod yn haner-gogoneddedig y'nghorff newyfrennol y sefyllfa ganol.

7. Beth ellir ei ddweud am y damcaniaethau hyn?

Eu bod mor afreidiol ag ydynt o ddiwerth. Bydd y dyn, sy'n gyffredin i'r enaid a'r corff, yr un; ond, gan mai crëadigaeth yw ei fywyd ysprydol, sef Mab Duw oddimewn iddo, felly hefyd y bydd ei gorff yn greadigaeth newydd.

8. Beth ellir ei ddweud am yr holl bwngc?

Gellir symio i fyny yr oll mewn un gwers fawr o eiddo ein Harglwydd ar y pwngc, a gofnodwyd deirgwaith.

(1) Efe a wahaniaetha rhwng *plant y byd hwn a phlant yr adgyfodiad*, y rhai ydynt *blant Duw*: megis hefyd y llefara St. Paul am ei ddisgwyliad yntau am yr *adgyfodiad oddiwrth y meirw*,—oddiwrth y rhelyw o'r meirw a adgyfodant (Phil. iii. 11).

(2) Efe a ddywed eu bod yn *gydstâd â'r angelion*; ac iddynt gyrff ysprydol nad oes gennym ni yr awrhon syniad am danynt.

(3) Efe a brofa y *cyfyd y meirw*, trwy ddangos nad yw yr Arglwydd *Dduw y meirw, ond y byw*; ac megis y mae Efe yn *Dduw Abraham, ac yn Dduw Isaac, ac yn Dduw Jacob*,—pob patriarch ar ei ben ei hun,—felly y cyfrifir pob un ohonynt yn ei gyfander personol, fel pe gwedi cyfodi ohono eisoes.

(4) Am hynny, fe erys hunandeb y personau, ond gyda chymaint gwahaniaeth yn y corff ag sydd rhwng *y byd hwn a'r byd hwnnw* (Luc xx. 34, 35).

III.

B Barn.

§ 1. B Barnwr.

1. Beth yw dysgeidiaeth derfynol yr Ysgrythur am y Barnwr ?

Ddarfod i'r Tad *roddi pob barn i'r Mab*, neu y Drindod Sanctaidd i'r Duw-ddyn (Ioan v. 22); tra yn (2) yr erys yn wirionedd fyth mai Duw yw *Barnwr pawb* (Heb. xii. 23). (3) Y ffordd i gysoni y rhain yw cofio mai Mab y dyn, y Barnwr, yw tragwyddol Fab Duw, yr Hwn yn unig oedd ddigonol i'r fath ddirprwyaeth.

2. A oes i natur ddynol yr Arglwydd berthynas arbennig â'r swydd hon ?

Dynoda yr Arglwydd hynny trwy ychwanegu ohono, *Am Ei fod yn Fab dyn* (Ioan v. 27). Nid yn gymaint, fodd bynnag, oblegid Ei dynerwch dynol arbennig, a'r ffaith ddarfod ymddiried tynged dynion yn gyfangwbl i'w ddwylaw Ei.

3. Beth yw perthynas arbennig y farn â pherson yr Arglwydd Ei Hun ?

(1) Cysyllta Ef Ei Hun hi drachefn â'r ymadrodd, *Fel yr anrhydeddai pawb y Mab* (Ioan v. 23): yr hyn yw Ei hunan-haerriad Ef Ei Hun; ac mewn cysondeb â'r unig gyfeiriad arall o'i eiddo at ogoniant Ei fawredd brenhinol, *Mab y dyn a ddaw yn Ei ogoniant . . .* ac Efe a *eistedd ar orsedd-faingc Ei ogoniant*. *Yna y dywed y Brenin !* (Matth. xxv. 31, 34).

(2) Oddiar hyn y cyfyd y toraeth disgrifiadau hynny o ddi-gwyddiadau ofnadwy y farn : a gyflwynir i sylw er dyrchafu, a gadael ohonynt argraff ar ein meddyliau; ac hefyd, er darlunio a gogoneddu mawredd y Barnwr.

4. Beth yw ei pherthynas â'i waith prynedigol ?

(1) Y farn gyffredinol fydd diffyniad yr Iawn : ni a ddarllennwn am *lid yr OEN* (Dat. vi. 16). Y mae cyfryngdod Ein Harglwydd wedi rhoddi cymeriad newydd i bechod a dychryn newydd i'r condemniad ohono (Heb. x. 26).

(2) Bydd i'r farn arddangos cyfiawnder Llywodraethwr moesol y byd, yr hwn er dechreuad pechod dyn a weinyddwyd ar sail y prynedigaeth.

(3) Y farn fydd y datganiad terfynol o'i ganlyniadau. *Efe a ymddengys eilwaith ar wahân i bechod*, heb iawn ar gyfer y gwrthodedigion, *er mwyn y rhai sydd yn Ei ddisgwyl Ef er iechydwrriaeth* (Heb. ix. 28).

5. Beth yw arwyddocâd dwfn yr ail bwynt?

Deliwyd â holl dyrfaoedd dynoliaeth fel rhai a brynwyd, trwy holl gydol eu hanes. Dyma fu dirgelwch gwaith yr Yspryd o'r tu allan i gylch datguddiad yn ogystal ag o'r tu fewn iddo, a bernir hwynt gyda chyfeiriad at y gyfryw lywodraeth. Yr unig waith y geilw ein Harglwydd Ei Hun yn *Fab y dyn*, yr Hwn a ddaw yn *Ei ogoniant*, yw pan y llefara Efe am dano Ei Hun fel Barnwr yr holl genhedloedd (Matth. xxv. 31, 32). Dywed St. Paul y bydd i *ddirgeloeidd dynion*,—fel y cyfryw—gael eu barnu yn ol fy *Efengyl i, trwy Iesu Grist* (Rhuf. ii. 16). Eithr nis gallwn dreiddio y tu hwnt. Cawn yr un apostol, gydag un agwedd o'r un pwngc o flaen ei feddwl, yn llefain, a dylem ninnau yn ostyngedig ymuno âg ef: *O! ddyfnder golud doethineb a gwybodaeth Duu! Mor anchwiliadwy yw Ei farnau Ef, a'i ffyrdd mor anolrheinadwy ydynt* (Rhuf. xi. 33).

§ 2. Y Barnedig.

1. Beth yw y dystiolaeth parthed eangder y Farn?

Y bydd un cyd-gynulliad o *ddynion, pob dyn, y byd, o bob cenedl, y ddaear, y byw a'r meirw, fychain a mawrion* (Rhuf. ii. 16; Act. xvii. 31; Rhuf. xiv. 10); y cyntaf a'r diweddaf, a'r unig gyd-gynulliad o ddynolryw.

2. Pa dystiolaeth a ddygir i'w nodwedd bersonol?

Ni a ddarllennwn yn yr Hen Destament,—*Duu a'th ddwg di i farn* (Eccl. xi. 9); ac yn y Testament Newydd, *yr Hwn a dâl i bob un yn ol ei weithredoedd* (Rhuf. ii. 6; Dat. xxii. 12). Cadarnhâ y gydwybod, yr hon nid yw amgen na'r farn fewnol bersonol sydd YR AWRHON, y dystiolaeth hon dros farn gyffredinol ac allanol, YR HON A FYDD.

3. Eithr a fernir y rhai gwaredigol a'r rhai cadwedig?

(1) Gellir dweud yr ä y credadyn dan ei ddedfryd yn y

bywyd presennol; y barna efe ei hun fel nas barner ef; na *ddaw efe i farn, eithr efe a aeth trwodd o farwolaeth i fywyd* (Ioan v. 24); ac yn y dydd mawr na wneir ond yn unig ei *arddangos* (2 Cor. v. 10). Ein syniad cyffredin yw y derbynia y saint eu dedfryd pan yr elont i bresenoldeb yr Arglwydd yn angau; ac y *barnant hwy y byd* gyda Christ yn hytrach na'u barnu ganddo Ef (1 Cor. vi. 2).

(2) Ond at gredinwyr y gwneir yr apeliadau grymusaf am y farn a ddaw; a rhaid yw cysoni yr oll a ddywedwyd â dilysrwydd eu dedfryd. Yn wir, dirgelwch cysegredig yr adgyfodiad fydd hyn, sef, nid yn unig y bydd i ni gael ein cyfodi drachefn, ond y bydd i holl gyflawniadau ein bywyd gyfodi drachefn gyda ni.

4. Sut y mae unrhyw farn ar Gristionogion yn gyson â'u hiechydwrriaeth?

Golyga barn yn eu hachos hwy ddiolliad. A chynrychiolir llawer o'r cyfryw ddiolliad megis rhwng Cristionogion, gwir a gau. Y'mhellach, cyn belled ag y golyga barn ad-daliad am y gorffennol, bydd hynny yn eu hachos hwy yn ddosraniad i'w priodol gylch, ac yn wobrwya priodol eu gweithredoedd da.

§ 3. Ggwybodaeth Gweinoddiad y Farn.

1. Pa egwyddorion a lywodraetha y Farn ddiweddaf?

(1) Yn gyffredin, a chyda golwg ar y Barnwr, rhaid cofio yn wastad y *gwna Barnydd yr holl ddaear iawnder* (Gen. xviii. 25): y farn fydd yr arddanghosiad terfynol o'r ddeddf honno sydd yn *sanctaid, ac yn gyfiawn ac yn dda* (Rhuf. vii. 12). Yng ngoleuni y gwirionedd hwn yn unig y gallwn ddynesu at ddirgeledigaethau ofnadwy y frawdle.

(2) Ond yn neulltuol, a chyda golwg ar y barnedig, fe a'n dysgir y bydd i'r farn gael ei rheoleiddio gan egwyddorion sefydlog penodol.

2. Y'mha ystyr y bydd i fesur rhagorfraint fod yn arbrawf?

Nid oes dim a ddatguddiwyd yn amlycach na'r ffaith y bydd i'r farn gymeryd i gyfrif raddau y goleuni a'r cyfleusterau a estynwyd mewn cyflwr o brawf. Bydd yn *esmwythach* i rai nag i ereill (Matth. xi. 24).

3. Sut y mae ffydd a gweithredoedd yn gysylltiedig â'r Farn ddiweddaf?

Fe gymhwysir y prawf-dwbl hwn at Gristionogion yn enwedig:

(1) Cyfunir hwynt gan *waith (eich) ffydd* (1 Thes. i. 3): gwneir i fyny yr holl gymeriad a'r bywyd o'r rhain megis achos ac effaith.

(2) Rhaid eu golygu ar wahân. Ar y naill law, y cwestiwn terfynol fydd y'ngylch ffydd yn yr Iesu, neu wrthodiad ohono Ef. Eithr, ar y llaw arall, bydd gweithredoedd da yn dystiolaeth o ffydd ddiffuant, a gweithredoedd drwg o anghrediniaeth ddi-amheul (Iago ii. 18; Matth. xii. 37).

4. Eithr oni fedd gweithredoedd da le helaeth y'mhob rhag-hysbysiad o ddydd barn?

Rhoddir iddynt le amlwg yn y ddau Destament: mor amlwg, gan nad pa mor uchel y dyrchafa hynny ryfeddod yr athrawiaeth, y rhaid ini gredu y rhydd y Barnwr nid yn unig *i bob un fel y byddo ei waith ef*, ond hefyd i bawb *yn ol eu gweithredoedd* (Dat. xxii. 12; xx. 12).

5. Beth fydd hunan-ddatguddiad y farn?

Yr argyhoeddiad terfynol a bâr i bawb sy'n gondemniedig gan Dduw fod yn hunan-gondemniedig; ac a rydd i'r rhai derbyniedig *hyder ddydd y farn* (1 Ioan iv. 17).

6. Beth yw perthynas condemniad â barn?

Golyga barn (*krisis*) ddiidoliad sy'n myned y'mlaen yn ol yr arbrawf (*test*) a osodir ar gymeriad; condemniad (*katacrisis*) ddiidoliad i gospedigaeth. Fel y mae condemniad yn gyffredinol, ac fel y mae pawb yn ddidoledig i gondemniad cyn eu didoli hwynt i fywyd, y mae i'r ddau air, i raddau helaeth, yr un ystyr.

7. Beth yw y condemniad terfynol?

Y ddedfryd, *Ewch oddiwrthyf, chwi rai melltiedig, i'r tân tragwyddol yr hwn a barotöwyd i ddiabol ac i'w angelion*. A rhoddir eglurhâd ar hyn gan y Barnwr Ei Hun: *A'r rhai hyn a ânt i gospedigaeth dragwyddol* (Matth. xxv. 41, 46).

8. Sut y mae dadansoddi yr adnod hon?

(1) Rhoddir y pwys ar yr ysgariad oddiwrth yr Arglwydd;

cospedigaeth pechod, fel pechod ei hun, ysgariad oddiwrth Dduw ydyw.

(2) Ond ychwanegir y dioddefaint ymwybodol : a ddatgenir mewn ffugwr ofnadwy, nas meiddir ei egluro i ffwydd.

(3) Rhoddir pwys ar ei barhâd tragwyddol : y mae yn dragwyddol megis y mae bywyd y cyfiawn, a chyfranogir ohono gan ddiabol a'i angelion, i'r rhai nid oes brynedigaeth.

9. Y'mha ystyr y bydd y Farn ddiweddaf yn gadarnhâd ar y gorffennol ?

Bydd y ddeddfryd ddiweddaf i'r rhai cadwedig ac i'r rhai colledig yn ddyfarniad y disgwyliid eisoes am dani: i'r rhai olaf hyn y mae *rhyw ddisgwyl ofnadwy am farnedigaeth*, ac am y rhai blaenaf y mae ganddynt *fywyd tragwyddol* eisoes, ac *nîs bernir hwynt* (Heb. x. 27; Ioan iii. 36, 18). Er nad yw yr adgyfodiad wedi cymeryd lle eisoes, y mae y farn mewn rhyw ystyr.

§ 4. Ymdriniaeth Sonesiol Dadleuaeth.

1. A ymddanghosodd y Farn ddiweddaf yng nghrefyddau dynolryw ?

Do mewn rhyw ffurf, bron yn gyffredinol ; ond heb unrhyw gyfeiriad at un cyfnod mawr rhagderfynedig.

2. Beth ydoedd fydd Iddewiaeth ddiweddar ?

Amhenodol ydoedd : oddigerth y disgwyliid y delai y Mesiah fel barnwr i amddiffyn Ei bobl Ei Hun, ac i gondemnio y cenhedloedd o'r tu allan i Iddewiaeth.

3. Sut yr amrywiodd opiniwn Cristionogol ar y pwngc ?

Rhodddwyd cydsyniad dwfn a chyffredinol yr eglwys i'r athrawiaeth a osodwyd i lawr eisoes. Ond ymddanghosodd hadau dau gyfeiliornad gwrthgyferbyniol yn foreu ; yn ogystal a thueddion i fabwysiadu damcaniaethau canolaidd o esmwythâd.

4. Pa rai ydynt y cyfeiliornadau gwrthgyferbyniol ?

Gelwir hwy mewn iaith ddiweddar yn ddamcaniaeth Adferiad neu Gyffredinolaeth, a damcaniaeth Diddymiad.

Adferiaeth a Diddymiaeth.

5. Pa fodd yr ymdriniant â chanlyniadau y Farn gyffredinol ?

(1) Gwâd y flaenaf y bydd yna ysgariad TRAGWYDDOL rhwng da a drwg : trwy yr hyn y cymerir ymaith y meddylddrych hanfodol o farn ; canys y mae pob enaid i gael ei adfer.

(2) Gwâd yr olaf y bydd yna YSGARIAD rhwng dau ddosparth i barhau ; canys tybir mai ystyr y condemniad yn fuan neu yn hwyr yw coll bodolaeth.

(3) Perthyna iddynt, serch hynny, rai egwyddorion cyffredin, a phwyntiau y gwahaniaethant yn hanfodol arnynt.

6. Pa egwyddorion sydd gyffredin i'r ddwy dybiaeth hyn ?

Hwy a ddadleuant y naill fel y llall (1) dros alltudiad pob drwg allan o'r bydysawd ; (2) dros yr anichonoldeb o gysoni cosp ddiddiwedd â'r perffeithderau Dwyfol ; (3) nas gall pechod creadur meidrol gael ei gospi yn anfeidrol ; (4) mai amcan y prynedigaeath yw dinystrio gweithredoedd diafol, a diddymu holl effeithiau pechod.

7. A gytunant hwy fel mater o ffaith ar yr holl bwyntiau hyn ?

Gwnânt : eithr hwy a gyrhaeddant yr un casgliadau oddiar gynseiliau gwahanol ; a thuedda y cymhariad o'r rhain ar unwaith i egluro ac i wrthateb y damcaniaethau hyn.

8. Sut y medrwn ateb eu haeriad cyffredin y rhaid diddymu drwg ?

Tra yn ddiau y darpara y ddwy ddamcaniaeth ar gyfer ddiddymu drwg, trwy yr hyn y rhoddir math o esmwythad i'r meddwl, nis gall yr un o'r ddwy esponio i fwrdd y ffaith fod pechod wedi bodoli. Y mae y parhâd o bechod gyn hawsed i'w dderbyn o leiaf ag yw y tarddiad ohono : nid oes yr un dadl yn erbyn y naill na'r llall.

9. Beth a ellir ei ddweud am eu hail egwyddor gyffredin ?

(1) Fe wesgir yr wrthddadl olygus hon yn erbyn yr athrawiaeth ysgrythyrol, gydag anghysondeb, gan y diddymwr, am y

D D

gwna efe y gosp dragwyddol yn gyfryw yn yr ystyr fwyaf hollol; a chan yr adferwr, gan yr addefa efe y defnyddir y bygythiad o gosp ddiderfyn er rhwystro y gosp honno ei hun.

(2) Yn fwy uniongyrchol, rhaid yw cofio fod holl drefniant prawf yn seiliedig ar dragwyddol ganlyniadau amser; ac fod yr oll a wyddom ni am ymwneud Duw â dyn yn y fuchedd bresennol, yn ein dysgu yr ymchwydda canlyniadau y drwg i anghyfartaledd anherfynol i'r achos tebygol ohono.

10. Eithr hwy a apeliant at y priodoleddau Dwyfol yn erbyn y parhâd o ddioddefaint?

(1) Dibyna y ddwy ar gariad a gallu Duw i roddi terfyn ar yr achosion o ddioddefaint. Ond cyll yr wrthddadl ei holl rym yngwyneb y ffaith ddarfod caniatâu i gystuddiau ddyfod i mewn.

(2) Gan Dduw Ei Hun yr esponnir ac y diffynnir Ei briodoleddau oraf: nis apelia Efe byth mewn datguddiad at na'i gariad na'i allu megis pe yr hawlient ddispeidiad ar ddrwg a dioddefaint.

11. Ai gwir hyn? Oni thraetha lluwys o ymadroddion mai diben yr iawn yw diddymiad drwg?

Nis gellir dyfynnu cymaint ag un ymadrodd sydd yn dwyn yn dëg y cyfryw ystyr.

(1) Amcan y prynedigaeth yw *dileu (bwrw ymaith) pechod* (Heb. ix. 26), *datod gweithredoedd diafol* (Ioan iii. 8), *ac fel yr achubid y byd trwyddo Ef* (Ioan iii. 17). Eithr ni a ganfyddwn mai ystyr yr ymadroddion hyn, o'u cysylltu a'r cyd-destun, yw dileu neu fwrw ymaith mewn ystyr Lefiticaidd trwy iawn, a datod trwy ddadymchwelyd gallu Satan.

(2) Y canlyniad yw *fel y byddo Duw oll yn oll* (1 Cor. xv. 28): Duw heb un cyfryngwr yn yr holl waredigion, am y rhai yn unig y llefara y bennod. Fe fydd y Cyfryngwr wedi *darostung*, neu *ddileu, pob pendefigaeth ac awdurdod a nerth* (1 Cor. xv. 24); y mae yr ymadrodd a ddefnyddir yma yn anghysor â dinistr syml, ar y naill law, ac âg achub-frydedd cyffredinol Duw, ar y llaw arall.

(3) Eto fe ddywedir am yr amcan a'r canlyniad, mai gwaith Crist yw y cymodiad gan Dduw o *bob peth iddo Ei Hun* (1 Col. i. 20); neu *grynhoi-ynglyd yng Nghrist y pethau sydd yn y nefodau, a'r pethau ar y ddaear* (Eph. i. 10). Dygir y nefoedd a'r ddaear i

gyd-gordiad yr eilwaith : nid trwy achubiaeth yspriedion aflan, *canys nid o'r angelion y cymer Efe afael*, ac nid Efe yw eu pen hwynt (Heb. ii. 16). Adsefydlir heddwch yn y bydysawd.

12. Y'mha beth y gwahaniaetha y damcaniaethau hyn yn hanfodol ?

(1) O barthed i amcan barn ad-daliadol (*retributive*); o barthed i natur prawf; o barthed i anfarwoldeb naturiol dyn; ac yn enwedig o barthed i ystyr yr ymadroddion digofaint, bywyd, marwolaeth, a dinistr. (2) Gwahaniaethau cyfaddefedig y damcanion hyn ydynt a hyrwydda y gwirionedd sy'n wrthwynebol i'r ddwy.

13. Sut y gwahaniaethant gyda golwg ar farn ad-daliadol ?

Myn y naill ddamcaniaeth mai diffyniad o ddeddf Duw yw pob cosp, a hynny hyd at ddinistr yr enaid a becho; mŷn y llall mai cerydd neu ddisgyblaeth yw pob cosp er iechydwrïaeth derfynol. Ond y mae cosp (*kólasís*) i'w gwahaniaethu bob amser oddiwrth gerydd (*paideía*); a hawlia y ddau ymadrodd fodolaeth y deiliad a'u teimla.

14. Sut y gwahaniaethant gyda golwg ar natur prawf ?

Haera y naill mai diwedd y prawf yw methiant Duw, yr Hwn a yrr allan o fodolaeth yr hyn sydd wrthodedig; gwâd y llall hanfod prawf, trwy gyflwyno gerbron anfeidrol allu trwy yr hwn yr achubir y gwrthodedig. Eithr dyna yw y gair difrifol, mai *yr hyn a hauo dyn, hynny hefyd a fêd efe* (Gal. vi. 7).

15. Sut y gwahaniaethant gyda golwg ar anfarwoldeb naturiol ?

Gwahaniaethant yn hanfodol; a'r gwir nid yw gan y naill na'r llall ohonynt.

(1) Haera y diddymwyr mai cael ei *wneud yn enaid byw yn unig* a wnaeth dyn; a darfod i Grist ddyfod modd y caffai credinwyr ynddo Ef anfarwoldeb (1 Cor. xv. 45). Eithr crëwyd dyn *ar ddelw Duw*, yn ogystal ag yn enaid byw (Gen. ii. 7; Gen. i. 27); a daeth Crist *i geisio ac i gadw yr hyn a gollasid*, ac nid i roddi iddynt natur ddynol arall (Luc xix. 10).

(2) Awgryma yr adferwyr, pa un bynnag a haerant hynny a'i peidio, mai dawn oddiwrth Dduw o fywyd ynddo Ef idd Ei holl greaduriaid deallgar yw anfarwoldeb, ac y rhaid ei ddiogelu iddynt yn rhyw fodd am byth: gan anghofio ohonynt nad yw

anfarwoldeb yn fywyd yn Nŵw o angenrheidrwydd. Ond arweinia hyn at y cwestiwn tra phwysig, a'r nesaf, sef yr un y'nghylch ystyr y termau arweiniol.

16. A pheth yw y gwahaniaeth rhyngddynt yma ?

(1) Cymysga y naill gyfundrefn athrawiaethol fywyd a bodolaeth, a marwolaeth a diddymiad ; tra y gwahaniaethir hwynt yn fanwl gan yr ysgrythur : am y dyn sy'n bodoli *y mae ganddo fywyd*, neu *nid oes ganddo fywyd*, yn ol *fel y mae y Mab ganddo*, neu nad yw *ganddo Fab Duw* (1 Ioan v. 12). Cymysga ddinistr, neu golledigaeth, a diddymiad ; tra mai at enaid byw y cymhwysir y gair cryfaf a ddefnyddiwyd erioed, *yr hwn a gollwyd ac a gafwyd* ('*apolôls 'ên* Luc xv. 32).

(2) Delia y gyfundrefn arall â'r un ymadroddion mewn modd yr un mor anysgrhythol. Hi a wâd ystyr ofnadwy marwolaeth a distryw, y ddau, a neultuolrwydd gwynfydus bywyd ac iechydwrïaeth. Megis y gwrthbrofa dameg y mab afradlon y ddamcaniaeth mai difodiant yw bod yn golledig, felly y gwrthbrofa yr ymadrodd tywyll am Judas y dybiaeth nad oes ddifodiant yn bod : *mab y golledigaeth* ('*apoléas*) ydoedd ef, a datganwyd am dano mai *Da fuasai i'r dyn hwnnw pe nas ganesid ef* (Ioan xvii. 12 ; Marc xiv. 21).

Gysiaethau Marieiddiol.

17. Beth ydynt y damcaniaethau canolog ?

Moddau o ddehongli y Farn, amcan y rhai yw lliniaru gerwinder yr hyn a eilw St. Paul yn *ofn yr Arghwydd* (2 Cor. v. 11). Bu rhai ohonynt yn anysgrhythol, ac y mae gan ereill ohonynt rhyw fesur o ategion ysgrythyrol.

18. Am ba rai ohonynt y gellir dweud eu bod yn anysgrhythol ?

(1) Am y cyfryw y'mhob oes a ddamcanasant o barthed i drefniant terfynol o râs a ddifuddia yr Iawn, gan ymorphwys mewn gwirionedd ar eiriolaeth Crist ar wahan i'w ddioddefaint prynedigol. Nid oes i'r fath ysgariad warant ysgrythyrol o gwbl.

(2) Am y cyfryw a wasgant yn rhy bell y gwahaniaeth rhwng barn coll (*damni*, o'r hwn y tardd damnedigaeth), a barn dioddefaint cospedigaethol : gan wneuthur y ddedfryd o alltud-

iaeth oddiwrth bresenoldeb Duw yn un yr ymostynga y colledig iddi mewn anobaith.

(3) Am y cyfryw a wahanant y natur ddynol yn nygiad y ddedfryd: golyga rhai yr yspryd yn golledig, tra'r dioddefydd yn ddarostyngedig i fodolaeth anifeilaidd yn unig; tybia ereill y diddymir y corff, ac y bydd i'r yspryd, o ganlyniad, ddioddef poenau anghorfforol yn unig.

(4) Am y cyfryw a olygant y sefyllfa ganol fel cylch i'r fath ddichoniadau o ddisgyblaeth drugarog, a barai drosglwyddo iddi hi mewn gwirionedd wir deyrnasiad, neu o leiaf deyrnasiad helaethaf grás.

19. Am ba rai ohonynt y gellir dweud fod ganddynt fesur o ategion ysgrythyrol?

Am yr oll o'r cyfryw a ddaliant ar yr *ychydig ffonnodion*, a'r *llawer ffonnod* (Luc xii. 47, 48); ar yr ystyriaeth Ddwyfol o'r cyfleusterau gafodd dynion; ar dystiolaeth y Gwaredwr am Ei gyfrifiad Ef o gyfiawnder i ffydd nas adwaenodd mo hono Ef erioed (Matth. xxv. 40); ar y pwyslais arbennig a roddir ar y *pechod i farwolaeth* (1 Ioan v. 16); ar y sicrwydd y darostyngir pob gwrthryfel trwy'r bydysawd (1 Cor. xv. 25); ac uwchlaw y cyfan, ar y gwirionedd tragwyddol sy'n rhaid i bawb ei dderbyn, nas goddef Gwaredwr dynion golli neb y gellir ei gadw.

PENNOD III.

§ Gyflawniad neu Ddiwedd pob peth.**1. Y'mha ystyr y rhaid i ni ddefnyddio yr ymadrodd hwn ?**

Y mae yna dri chyflawniad yn yr ysgrythur : diwedd darpariad y ddaear i ddyn ; diwedd y ddarpariaeth am Grist ; a diwedd pob peth. Y mae pob un o'r diwedddau hyn yn ddechreuad newydd : *telos* neu ddibeniad un trefniant yw '*archē*' neu ddechreuad un arall.

2. Beth a gyrhaedda ei gyflawniad neu ei ddiwedd gyda'r Farn ?

Y deyrnas gyfryngol neu fwriad achubol y Drindod Sanctaidd ; y greadigaeth yr hon a ddaw yn nefoedd newydd ac yn ddaear newydd ; ac eglwys berffeithiedig y saint gogoneddedig.

3. Pa fodd y cynhwysir y rhai hyn oll yn y cyflawniad ?

Oblegid cyn belled ag y mae hanes dynolryw yn y cwestiwn un ydyw y rhain oll ym mwriad tragwyddol Duw : *Canys ohono Ef, a thrwyddo Ef, ac iddo Ef y mae pob peth* (Rhuf. xi. 36).

§ 1. § Bwriad Acchubol.**1. Sut y gellir dweud y bydd i'r bwriad cadwedigol gael ei gyrraedd ?**

(1) Oblegid y cadarnhâ tystiolaeth unffurf yr ysgrythur yr egwyddor gyntaf o ffydd yn Nuw : sef y rhaid cyflawni yr hyn sydd yn fwriad Dwyfol. Ac yn (2) y lleferir am waith Crist yn wastad fel amcan terfynol cyflawnedig mewn amser.

2. Onid yw y methiant i achub pob dyn yn dymchwelyd yr amcan hwnnw ?

Tewi yw yr atebiad goreu yma. Ond fe ellir dweud fod dyn, fel hiliogaeth, wedi ei achub.

3. Beth yw perthynas hyn â theyrnas Crist ?

Y mae iechydwrïaeth yr hiliogaeth yn gysylltiedig â'r deyrnas mewn dwy ffordd ; (1) fel mai honno yw awdurdod cyfryngol Crist i ddarostwng pob gallu gwrthwynebol ; ac yn (2) fel mai hi yw arglwyddiaeth Crist dros yr hiliogaeth adferedig. Yn y ddwy ystyr hyn ei chyflawniad fydd ei diwedd : *Gwedi y rhoddo Efe y deyrnas i Dduw a'r Tad* (1 Cor. xv. 24).

4. Eithr onid yw hyn yn ddarostyngiad y Mab hefyd ?

Y mae y Mab yn ymgawdoledig, ac fel y Llywodraethwr Cyfryngol ymgawdoledig, *Efe a ddarostyngir i'r Hwn a ddarostyngodd bob peth iddo Ef* : hynny yw, Efe a gyflwyna yn swyddogol y brynedigaeth orffenedig, tra ac Efe fyth yn dragwyddol yn Fab israddol eto gogyfuwch : *fel y byddo Duw oll yn oll* (1 Cor. xv. 28).

§ 2. Y Nef Newydd a'r Ddaear Newydd.

1. Y'mha ystyr y mae hyn yn gyflawniad ?

Gwedi i'r nefoedd a'r ddaear sydd yr awrhon wasanaethu eu pwrpas, hwy a ddinistrir : hynny yw, hwy a newidir i gylch newydd, cyfaddasedig i dynged dragwyddol dynolryw. *A'r defnyddiau gan wir wres a doddant, a'r ddaear a'r gwaith a fyddo ynddi a losgir.* Fe gymer hyn le *oherwydd dyfodiad* (neu *bresenoldeb*) *dydd Duw ; a nefoedd newydd a daear newydd yr ydym ni yn eu disgwyl* (2 Petr. iii. 10—13).

2. Beth fydd y ddolen gydiol rhwng yr hen a'r newydd ?

Yr un ag sydd rhwng yr yspryd cnawdol a'r yspryd ailenedig, y corff anianol a'r corff ysprydol. Bydd i waith rhyfeddol dyn ar wyneb y ddaear gael ei ddinistrïo, bydd i'r ddaear ei hun, fel gwaith Duw, aros yr un, ond yr â dan gyfnewidiad trawsfurfiol, y cyfryw ag sy'n gynhwysedig yng ngeiriau yr Arglwydd : *yn yr adenedigaeth* (Matth. xix. 28). Yn gyson â hyn y rhaid dehongli yr ymadrodd, *Canys wele Fi yn creu nefoedd newydd a daear newydd* (Is. lxv. 17).

3. A ddatguddir yr athrawiaeth hon yn ddigonol eglur fel ag i lefaru mor bendant ?

Fe'i hyspysir yn y ddau Destament ; a hynny yn dra phendant ; nid fel mater o broffwydoliaeth yn unig, ond i gyrraedd amcanion ymarferol (Is. lxv. 17, 25).

4. Pa amcanion ydynt y rhain ?

I'n dysgu fod i greadigaeth Duw hanes dadblygol ar wahân i ddyn; y bydd i'r ddaear hon pa fodd bynnag, a'r nef uwchlaw iddi gyfranogi o dynged dyn; fod y bydysawd anianol yn gydrwymedig â'r bwriadau Dwyfol; ac y dylai trigolion y byd sydd yr awrhon fyw yn y fath fodd fel ag i ddarparu ar gyfer y ddaear newydd lle y mae cyflawnder yn cartrefu (2 Petr iii. 13).

5. Sut y cydwedda y trawssffurfiad hwn trwy dân â dysgeidiaeth gwyddoreg ?

O barthed i'r flaith o swyddogaeth tân, gwna gwyddoreg fwy na chydysynio. Ond am ogoneddiad natur,—*ei rhyddhad o gaethiwd llygredigaeth i ryddid gogoniant plant Duw* (Rhuf. viii. 21),—nid oes ganddi hi ddim i'w ddweud. Fe effeithir hynny gan weithredydd uwch na thân naturiol.

§ 3. Perffeithiad yr Eglwys.

1. Y'mha fodd yr edrychir ar y cyflawniad y'mherthynas â'r hiliogaeth ?

Y rhai cadwedig, *pobl* Dduw ydynt; y *briodasferch, gwraig yr Oen* (Dat. xxi. 2, 3, 9); un â Christ, a thrwyddo Ef un â'r Drindod Sanctaidd, wedi eu *perffeithio yn un* am byth (Ioan xvii. 21): *cyflawnder yr Hwn sydd yn cyflawni oll yn oll* (Eph. i. 23). Dyma y diben at yr hwn y mae crynhoad graddol eglwys pob cenhedlaeth wedi tueddu.

2. Paham y gelwir hyn yn gyflawniad yr hiliogaeth ?

Am mai hyn fydd diwedd hanes cyfryngol dynolryw. Dechreuodd hwnnw ym Mharadwys; a diwedda yno. *Y cenhedloedd a rodiant y'ngoleuni* y deml, yr hon yw y ddinas sanctaidd Jerusalem, a rhoddir iddynt *faint ym Mhren y Bywyd* (Dat. xxi. 24, 10; xxii. 14, 15; xxi. 8). Y mae y rhai colledig o blith dynoliaeth ODDIALLAN yn yr AIL FARWOLAETH. *Diwedd y rhai yw distryw* (Phil. iii. 19): dyna yw eu diwedd hwynt, eithr nid oes iddo le yn y cyflawniad fel y golygir ef gennym ni.

3. Oni chynhwysa y cyflawniad dynged y saint yn bersonol ?

Dim ond fel y maent yn aelodau o un corff cyfunol. Eithr perffeithrwydd yr oll fydd perffeithrwydd pob un.

4. Beth yn fwy neulltuol ydynt nodweddion sefyllfa dragwyddol y saint?

(1) Eu hundeb â Duw: *fel y byddont hwythau un ynom Ni*, yr hyn yw dyhead uchaf crefydd (Ioan xvii. 21). *Onid yr hun a gysylltir â'r Arglwydd un yspryd yw* (1 Cor. vi. 17): datgana hyn yn brin yr hyn y mae yr enaid sancteiddiedig a pherffeithiedig yn abl i'w fwynhâu mewn cymundeb perffaith â'r Drindod Lân.

(2) Perffeithrwydd uchaf natur grëedig: gwedi ei rhyddhau oddiwrth bob rhwystr ac atalfa, bydd i ymddadblygiad o holl alluoedd eu bodacth fyned rhagddo, yn y ffordd lydan, nid cul mwyach, a hynny i'r anherfynol (1 Cor. xiii. 8—10).

(3) Addoliad a gwasanaeth tragwyddol: yn yr hwn y daw diolchgarwch y gwaredigion o hyd i'w dragwyddol gylch er amlygu cariad at Dduw a'i greaduriaid ynddo Ef, yr hyn yw perffeithrwydd terfynol pob crefydd, pa un bynnag ai ar y ddaear neu yn y nefoedd: *He 'agápê 'oudépote pípiei*. **CARIAD BYTH NI CHWYMP YMAITH** (1 Cor. xiii. 8).

IDDO EF Y BYDDO Y GOGONIANT YN OES-OESOEDD.

AMEN.

NODIADAU.

GAN Y

Parch. T. J. Pritchard.

NODIADAU.

NODIAD I.

Y CREDOAU. T. D. 8.

1. *Gredo yr Apostolion.*

Y Credôau, o'r Lladin *Credo*=credaf, y gair cyntaf yng Nghredo yr Apostolion sydd gyffesiad o Ffydd, er arferiad cyhoeddus. Gall credo gynnwys dim ond hanfodolion crediniaeth, neu gall gynnwys cyfangorff diwinyddol. Cyfododd yr angenrheidrwydd am gredo oddiar y ffaith y ffynnai amrywiaeth barn y'nghylch y modd y dylid synio am, a datgan gwirionedd Cristionogol. Gallasai yr amrywiaeth barn hwn fod yn gymharol ddiwbwys, neu gallasai gyrraedd pwynt a barai fod undeb a diogelwch y cymundeb mewn perygl. Gallasai fod y gwirionedd mewn perygl o gael ei enhuddo, dros yspaid o amser o leiaf, er rhoddi ffordd i gyfeiliornad a andwyai tywyd corfforedig yr Eglwys, yn ogystal a bywyd ysprydol y person unigol. Gallasai amrywiaeth barn fodoli oddimewn i'r Eglwys, neu gallasai fodoli rhwng yr Eglwys a'r byd o'r tu allan iddi, parthed gwerth ei honiadau. Yn y naill achos a'r llall, dyletswydd yr Eglwys fyddai datgan y gwirionedd, a'i ategu gyda phob egni a dyfalwch, trwy arfer ei hawdurdod o'i blaidd,—awdurdod sydd yn eiddo iddi mewn rhan trwy ei chydysyniaeth fel cyfangorff, a thrwy ei safle swyddogol fel tyst ac ategydd y gwirionedd fel y mae yn yr Iesu.

Nid oes neb goleuedig ei feddwl, erbyn hyn, a fynnai ddarford i'r Gredo uchod gael ei chyfansoddi gan yr apostolion a'i chylwyno i'r Eglwys, fel yr honna y Babaeth; ond addefir y cynrychiola yn hytrach yr hyn a awdurdodwyd ganddynt hwy fel cyffes fedyddiol credinwyr yng Nghrist; ac y corffora y gwirioneddau hynny a ffynnai ac a goleddid yn yr Eglwys Gristionogol

yn nyddiau yr apostolion. Felly, er nad ellir cyfeirio at un awdwr penodol iddi, hi a ddatgana er hynny, yn ddilys ddigon, feddwl yr Eglwys mewn cynnod neulltuol o'i hanes.

Gellir olrhain Credo yr Apostolion yn ol yn ei ffurf orffenedig bresennol i ddechreu y chweched neu ddiwedd y bumed ganrif. Dengys ffeithiau hanes yr arferid ffurf berrach a hynach ohoni yn Eglwys Rhufain rhwng 250 a 460, yr hon hithau oedd gyfieithiedig o'r Roeg. Bu i'r Gredo hon, trwy ei symledd cynhwysfawr, ennill ffafr yr Eglwys gyffredinol. (Gwel *Schaff's Creeds*, cyf. ii., t.d. 47).

Y CREDO.

Credaf yn Nuw Dâd Holl-gyfoethog, Creawdwr Nef a Daear.

Ac yn Iesu Grist Ei Un Mab Ef, ein Harglwydd ni; yr Hwn a gaed trwy'r Yspryd Glân, a aned o Fair Wyrif; a ddioddefodd dan Bontius Pilatus, a groeshoeliwyd, a fu farw, ac a gladdwyd, a ddisgynnodd i Hades, y trydydd dydd y cyfododd o feirw; a esgynnodd i'r Nefoedd, ac y mae'n eistedd ar ddeheulaw Duw Dâd Holl-gyfoethog; oddiyno y daw i farnu byw a meirw.

Credaf yn yr Yspryd Glân; yr Eglwys Lân Gatholig; Cymun y Saint; maddeuant pechodau; adgyfodiad y cnawd, a'r bywyd tragwyddol. Amen.

2. Gredo Nicea.

Cynullwyd Cymanfa Nicea yn 325 o.c., gan Cystenyn Fawr. Yr oedd yn bresennol 318 o esgobion, yn cael eu harwain gan Hosius o Cordova, ac Athanasius o Alexandria.

Y CREDO.

Credwn mewn un Duw, y Tâd Hollalluog, gwneuthurwr pob peth, gweledig ac anweledig; ac mewn Un Iesu Grist, Mab Duw, Cenhedledig y Tâd, Uniganedig; sef yw hynny, o hanfod y Tâd, Duw o Dduw, Goleuni o Oleuni, Gwir Dduw o Wir Dduw; a genhedlwyd, nid a wnaed; o'r un a'r unrhyw sylwedd a'r Tâd; yr Hwn a wnaeth bob peth yn y nefoedd a'r ddaear; yr Hwn erom a throsom ni ddynion, ac er ein hiechydwrriaeth, a ddisgynnodd, a wisgodd gnawd, ac a ddaeth yn ddyn; a ddioddefodd, ac a adgyfododd y trydydd dydd, a esgynnodd i'r nefoedd, ac a ddaw i farnu y byw a'r meirw; ac yn yr Yspryd Glân. Ond pwy bynnag a ddywedo fod amser pryd nad ydoedd

Efe, ac nad ydoedd Ef cyn ei genhedlu, a darfod Ei wneuthur Ef o ddim, neu a dystiant Ei fod Ef o ryw sylwedd neu hanfod arall, neu fod Mab Duw wedi Ei greu, ac yn ansafadwy, neu gyfnewidiol, y mae yr Eglwys Gatholig yn ei gyhoeddi yn felltigatedig.

3. *Gredo Caer Cystenyn.*

Priodolir y Gredo hon yn gyffredin i Gymanfa a gynhaliwyd yn Nghaer-Cystenyn o.c. 381, dan nawdd Theodosius Fawr. Ond y mae Hort, a ddilynir yn hynny gan Adolph Harnack, yn gwadu yn bendant mai ffrwyth y Gymanfa honno ydoedd, a myn Harnack nad yw amgen nag ad-drefniad o gyffes fedyddiadol Eglwys Jerusalem, at yr hon yr ychwanegwyd arwyddeiriau pwysicaf Credo Nicea, a'r datganiadau am yr Yspryd Glân. Ac ä cyn belled a nodi allan ddarfod ei pherffeithio rhwng 362 a 373 o.c.; a mÿn ddarfod ei had-drefnu gan Cyril o Jerusalem 381—386. A chaniatáu fod Harnack yn gywir, nid yw hynny o gymaint pwys yn y pen draw, gan fod dysgeidiaeth y Credo yn un âg eiddo Cymanfa Gyffredinol Nicea 325. Ac y mae y sail gryfaf dros gredu ddarfod i gynnwys y Gredo hon gael y sylw pwysicaf yng Nghymanfa Caer-Cystenyn. Cymanfa ydoedd honno dra phwysig, hyd yn oed os rhaid addef nad ydoedd yn un gyffredinol, yn ol haeriad Hort ac Harnack. A chariodd ei phenderfyniadau ddylanwad dros Grêd ag sydd yn aros hyd heddyw. Yn ol un adroddiad yr oedd yno gynifer a 350 o esgobion, ac yn eu plith y ddau Gregory, o Nazianzen a Nyssa. Er yr adeg y cynhaliwyd Cymanfa Fawr Nicea yr oedd gwrthweithiad cryf wedi ei fagu yn erbyn penderfyniadau honno ar y pwngc o Berthynas Personau y Drindod, yn y ffurf o Ariaeth, a Hanner-Ariaeth. Am yspaid hir enillodd yr yspryd hwn y llaw drechaf yn yr Ymerodraeth, a chefnogid ef gan wreng a bonheddig: yr oedd yr uniawngredwyr yn y lleiafrif tebygol. Cynhyrwyd yr Eglwys i'r craidd gan yspryd dadleuaeth. Ac ni wnai ymyriad y gallu gwladol amgen na gyrru'r drwg yn waeth. Trefn y dydd ydoedd pleidiaeth, erledigaeth, esgymuniaeth, ac alltudiaeth. Arweinid y blaid union-gred gan ATHANASIUS, gŵr o gymeriad dilychwyn ac o allu diamheuol, yr hwn, ar ol blynyddau o brofiad a chariad at Grist, yn addfedrwydd oedran a lywodraethid onid gan un meddyl-ddrych mawr, fel y sylwa yr hanesydd Eglwysig Schaff, sef ydoedd hynny Tragwyddol Dduwdod Crist. Aberthodd yr oll i'w argyhoeddiad. Gwynebodd yr Ymerodraeth dan arfau gan ysprydol-

iaeth a'i cynhaliai yn *Athanasium contra mundum*=Athanasius yn erbyn y byd. Safodd yn dalog dros y gwir yn erbyn Cystenyn Amherawdwr, a'i Esgob Eusebius o Nicomedia, y rhai oeddynt Ariaid diamheuol. Diwedd hyn fu ei alltudiaeth gan Cystenyn. Ar ol adferiad byr, ail alltudiwyd ef gan Cystenyn II. Trôdd corff mawr Eglwys y Gorllewin o'i blaid gan goffeidio Credo Nicea. O 340 hyd 381 parhâodd y frwydr yn ei phoethder. Dadleuai yr uniongred dros yr *homo-ousion*=o'r unrhyw sylwedd; yr Ariaid dros yr *hetero-ousion*=o debyg sylwedd; a'r Hanner-Ariaid dros *homoi-ousios*=o gyffelyb sylwedd, a chynygid pob meddyginiaeth ddiwinyddol a ellid ei dyfalu, ond i ddim pwrpas debygid. Ond dechreuodd y rhod droi y'mhlaid yr homo-ousiaid ar ol esgyniad Julian i'r orsedd, 361; ac erbyn 363, trwy egni Athanasius a fuasai farw y'nghorff y flwyddyn honno, a chefnogaeth ddiwyro y ddau Gregory, yr oedd llanw Ariaeth yn dechreu treio. O dan deyrnasiad Theodosius Fawr fe enillwyd buddugoliaeth lawn ar y gelyn, ac ar gynulliad Cymanfa Caercystenyn 381, fe gadarnhawyd gwirioneddau mawrion Credo Nicea, a rhoddwyd amlygrwydd i'r gwirionedd o gydsylweddolrwydd yr Yspryd Glân a'r Tad a'r Mab. Ychwanegwyd yr ymadrodd *Filioque*=ac o'r Mab, at y Gredo hon gan Eglwys y Gorllewin, mewn Cymanfa a gynhaliwyd yn Toledo o.c. 589; yr hyn a brofodd yn un o brif achosion y rhwyg rhwng Eglwys y Dwyrain ac Eglwys y Gorllewin.

Y CREDO.

Credaf yn Un Duw, Tad Holl-alluog, Creawdwr Nef a daear, a phob peth, gweledig ac anweledig. Ac yn Un Iesu Grist, uniganedig Fab Duw, cenedledig gan y Tad cyn bod yr holl oesoedd, Duw o Dduw, Goleuni o Oleuni, Gwir Dduw o Wir Dduw, cenedledig nid gwneuthuredig, yn un hanfod a'r Tad; gan yr Hwn y gwnaethpwyd pob peth; yr Hwn erom ni ddynion, ac er ein hiechydwrriaeth a ddisgynodd o'r nefoedd, a ymgawd-olwyd gan yr Yspryd Glân o Fair Wyrif, ac a wnaethpwyd yn ddyn, ac a groeshoeliwyd hefyd drosom ni, o dan Pontius Pilatus. Efe a ddioddefodd, ac a gladdwyd, a'r trydydd dydd Efe a adgyfododd yn ol yr Ysgrythyrau, ac a esgynodd i'r nefoedd, ac y mae yn eistedd ar ddeheulaw'r Tad. Ac Efe a ddaw eilwaith mewn gogoniant i farnu y byw a'r meirw; ac ar Ei frenhiniaeth Ef ni bydd diwedd.

A chredaf yn yr Yspryd Glân, Arglwydd a Chyfrannydd Bywyd yr Hwn sydd yn deilliaw o'r Tad a'r Mab, yr Hwn y'ng hyd a'r Tad a'r Mab a gyd-addolir, ac a gyd-ogoneddir; yr Hwn a lefarodd trwy y Proffwydi. A chredaf mewn un Eglwys Gatholig ac Apostolaidd;—addefaf un Bedydd er maddeuant pechodau, ac edrychaf am adgyfodiad y meirw, a bywyd y byd sydd ar ddyfod. Amen.

4. Gredo Athanasius.

O ddiwedd yr wythfed ganrif, fe addefid yn gyffredin mai Athanasius ydoedd awdwr y Gredo a elwir ar ei enw, a ffynnodd y gred honno yn weddol gref hyd 1642, pryd yr ymosodwyd ar yr awduraeth dybiedig gan Gerhard Joh. Voss. Addefir gan ddysgedigion nad Athanasius ydoedd yr awdwr, gan nad pwy. Myn rhai mai Hilary o Arles (420—431); deil ereill na cheir rhith diamheuol ohoni cyn yr hyn a geir yn Cæsarius o Arles (503—543). Y mae dyfyniadau hwnnw ohoni yn brawf y'i defnyddid yn foreu. Prin y gellir dweud ei bod yn Gredo gyffredinol, fel yr honnir weithiau, am, fel un rheswm, nad oedd Eglwys Groeg yn gydnabyddus â hi hyd y fl. 1000, a gwrthodwyd hi yn ebrwydd gan yr Eglwys honno am y dysga ddeilliadaeth yr Yspryd o'r Tad a'r Mab. Y mae yn osodedig fod y Gredo hon i'w chanu bob mis yn Eglwys Loeger. Addefir er rhagorold ei chyfansoddiad, fod yr adrannau anathemaidd sydd ynddi yn tynnu llawer oddiwrth ei gwerth. (Gwel Schaff, *Creds of Christendom*. Cyf. I., t. d. 34, &c.)

Y CREDO.

Pwy bynnag a fynno fod yn gadwedig; o flaen pob dim rhaid iddo ofalu ar ddal ohono y Ffydd Gatholig.

Yr hon Ffydd onis credo pob dyn hi yn gyfan ac yn ddihalog, diameu y collir ef yn dragwyddol.

A'r Ffydd Gatholig yw hon, bod i ni addoli Un Duw yn Drindod, a'r Drindod yn Undod.

Nid cymysgu ohonom y Personau, na gwahanu y sylwedd.

Canys un Person sydd i'r Tad, arall i'r Mab, ac arall i'r Yspryd Glân.

Eithr Duwdod y Tad, a'r Mab, a'r Yspryd Glân sydd unrhyw: gogoniant gogyfuwch, mawrhydi go-gyd-tragwyddol.

Unrhyw yw'r Tad, unrhyw yw'r Mab, unrhyw yw'r Yspryd Glân.

Di-grëedig Dad, digrëedig Fab, digrëedig Yspryd Glân.

Anfuredig Dad, anfuredig Fab, anfuredig Yspryd Glân.

Tragwyddol Dad, tragwyddol Fab, tragwyddol Yspryd Glân.

Ac eto nid ydynt Dri tragwyddolion, onid un tragwyddol.

Ac fel nad ydynt Dri anfuredigion, na thri digrëedigion, onid Un digrëedig, ac Un anfuredig.

Felly yn gyffelyb, Holl-alluog yw y Tad, Holl-alluog yw y Mab, Holl-alluog yw'r Yspryd Glân.

Ac eto nid ydynt Dri Holl-alluogion, onid Un Holl-alluog.

Felly y Tad sy' Dduw, y Mab sy' Dduw, a'r Yspryd Glân sy' Dduw.

Ac eto nid ydynt Dri Duwiau, onid Un Duw.

Felly y Tad sydd Arglwydd, y Mab sydd Arglwydd, a'r Yspryd Glân sydd Arglwydd.

Ac eto nid ydynt Dri Arglwydd, namyn Un Arglwydd.

Canys fel y'n cymhellir trwy y gwirionedd Cristionogol i gyfaddef fod pob Person o hono Ei Hun yn Dduw ac yn Arglwydd.

Felly y'n gwaherddir gan y Grefydd Gatholig i ddywedyd fod Tri o Dduwiau, neu Dri o Arglwyddi.

Y Tad ni wnaethpwyd gan neb; nis crewyd, ac nis cenhedlwyd.

Y Mab y sydd o'r Tad yn unig, heb Ei wneuthur na'i greu; eithr wedi Ei genhedlu.

Yr Yspryd Glân sydd o'r Tad a'r Mab, heb ei wneuthur na'i greu, na'i genhedlu, eithr yn ddeilliaw.

Wrth hynny, Un Tad y sydd, nid tri Thad; Un Mab nid Tri Mab, Un Yspryd Glân nid Tri Yspryd Glân.

Ac yn y Drindod hon nid oes Un cynt na gwedi eu gilydd, nid oes Un mwy neu lai na'i gilydd.

Eithr yr holl Dri Phersonau ydynt ogyd-tragwyddol a gogyf-uwch.

Ac felly ym mhob peth fel y dywedwyd uchod, y mae yn rhaid i'r Undod yn Drindod, a'r Drindod yn Undod, gael eu haddoli.

Pwy bynnag gan hynny a fynno fod yn gadwedig, synied felly am y Drindod.

Y mae yn angenrheidiol hefyd er mwyn iechydwrïaeth dragwyddol, gredau o ddyn yn ffyddiog yn ymgawdoliad ein Harglwydd Iesu Grist.

Canys yr iawn Ffydd yw credu a chyffesu ohonom, fod ein Harglwydd ni Iesu Grist, Fab Duw, yn Dduw ac yn ddyn.

Duw o sylwedd y Tad wedi ei genhedlu er tragwyddoldeb, a dyn o sylwedd Ei Fam, wedi Ei eni yn y byd.

Perffaith Dduw, a pherffaith ddyn, o enaid rhesymol a dynol gnawd yn hanfod.

Gogyfuwch a'r Tad oblegid Ei Dduwdod, a llai na'r Tad oblegid Ei ddyndod.

Yr Hwn er Ei fod yn Dduw ac yn ddyn, er hynny, nid yw Efe ddau ond Un Crist.

Un, nid trwy ymchwelyd y Duwdod yn gnawd, ond gan gymeryd y dyndod at Dduw.

Un i gyd oll, nid gan gymysgu y sylwedd, ond trwy Undod Person.

Cansys fel y mae yr Enaid rhesymol a'r cnawd yn un Dyn, felly Duw a dyn sydd Un Crist.

Yr Hwn a ddiodeffodd er ein Hiechydwrïaeth ; a ddisgynnodd i Hades, a gyfododd y trydydd dydd o feirw.

Efe a esgynnodd i'r Nefoedd, ac y mae yn eistedd ar ddeheu-law'r Tad, Duw Holl-alluog : oddiyno y daw i Farnu Byw a Meirw.

Ac ar Ei ddyfodiad y cyfyd pob dyn yn eu cyrff eu hunain, ac a roddant gyfrif am eu gweithredoedd priod.

A'r rhai a wnaethant dda, a ânt i'r Bywyd Tragwyddol, a'r rhai a wnaethant ddrwg, i'r tân tragwyddol.

Hon yw'r Ffydd Gatholig, yr hon, pw y bynnag a'r nis credo yn ffyddiog, ni all efe fod yn gadwedig.

5. *Formulae Concordiae.* T. D. 10.

Y *Formulae Concordiae*, neu Gyffes y Cydgord, ydoedd y chweched a gyhoeddassid o'r Llyfrau Symbolaidd, fel y gelwid y Cyffesiâu hynny, gan yr Eglwys Lutheraidd. Amcanesid ef i'r perwyl o geisio sefydlu heddwch rhwng y diwinyddion Uchel-Lutheraidd a dilynwy'r Melancthon. Ar ol marwolaeth Luther, bu i'r dadleuon brwd ar natur pechod a grâs, cyfiawnhâd, a Swper yr Arglwydd, a phynciau ereill gyffroi yr Eglwys i'r fath raddau fel ag i beryglu ei heddwch os nad ei bywyd am ryw yspaid. Gwedi amryw geisiadau ofer at gyd-ddealltwriaeth bu i Wr Ethol neu Dywysog Sacsoni gyfryngu, a galwodd y'nghyd nifer o ddiwinyddion amlwg o'r ddwy blaid i ystyried y sefyllfa, ffrwyth yr hyn ydoedd cyhoeddi Llyfr Torgau, seiliedig ar *Swabian Concordia* Andriä 1573, a Chyffes Maulbronn 1575 ; a'r ddau yn

seiliedig ar Gyffes Augsburg, sef cyffes gyffredinol awdurdodedig gyntaf y blaid Brotestanaidd. Anfonwyd copi o Gyffes Torgau i holl dywysogion Protestanaidd yr Almaen. Cafodd adolygiad manwl; ac yna, o dan yr un nawdd, cyd-adolygwyd hi gan Chemnitz, Selnecker, a Chrystæus, ac ereill, y rhai a amcanent at gyd-ddealltwriaeth gyffredinol. Canlyniad hyn fu iddynt gyhoeddi Cyffes y Cydgord, ar ddydd dathliad hanner-canmlwydd Cyffes Augsburg, Mehefin 25, 1580. Parodd ei chyhoeddiad gryn gyffro; ond erys y gyffes hon hyd heddyw yn safon union-grededd yn yr Eglwys Lutheraidd.

NODIAD II.

Y PUM' PWNGC ARMINAIDD. T. D. 10.

Tra rhwng 1582 a 1587, a James Arminius ym Mhrif Ysgol Genefa, ystyrried mai efe ydoedd prif ddehonglydd cyfundrefn ddiwinyddol Calfin. Ar ei benodiad yn bregethwr i Amsterdam yn 1588, daeth yn gydnabyddus âg ysgrifeniadau Koornheert, lleygwr galluog, a ymosodai yn llym ar yr Eglwys Ddiwygiedig, yn enwedig ar athrawiaeth Calfin am Ragarfaethiad. Gwaddhodwyd Arminius i'w wrthwynebu. Yn ei ymchwil i'r pwngc yn ei wahanol agweddau, argyhoeddwyd ef o nerth rhesymau ei wrthwynebydd. Dyfnhaodd ei argyhoeddiad. Dechreuwyd ei ameu. Dygodd dwy bregeth o'i eiddo ar Rhuf. vii. 14, a Rhuf. xi. ei argyhoeddiad i'r amlwg. Ymosodwyd arno yn erwin ag aeth yn ddadl frwd. Cryfhâai ei argyhoeddiad yntau fod athrawiaeth Calfin am Ragarfaethiad a grâs yn groes i Air Duw, ac amddiffynnai ei argyhoeddiad gyda'r fath nerth fel y daethpwyd i edrych arno fel prif ddadleuydd y golygiadau newyddion. Yn nannedd ei amhoblogrwydd gan brif swyddogion yr ochr Galfin-aidd penodwyd ef, yn olynydd i Junius, i'r gadair ym Mhrif Ysgol Leyden yn 1603. Caed dadl boeth ar y pwngc yn 1608, a hynny dan nawdd Eglwysig, eithr gwelwyd fod cyd-ddealltwriaeth yn amhosibl ar y pryd. Bu farw Arminius yn y flwyddyn ddilynol. Ond yn ei farw enillodd Arminiaeth nerth. Diffynnid ei olygiadau gan Episcopiws a Grotius, a gafaelodd ei syniadau yng nghalon y werin. Yn 1610 anfonodd yr Arminiaid allan WRTHDYSTIAD, tanysgrifedig gan dros ddeugain o weinidogion, i dalaethau Holland a Gorllewin Friesland. Cynhyrfodd hon y holl wlad ben-bwy gilydd. Diwedd yr ymdrafodaeth fu i'r llywodraeth

godi yn erbyn y Gwrthdystwyr. Arferid eithafion o'r ddwy ochr. Galwyd y'nghyd SYNOD DORT (1618—1619). Un fawreddog y'mhob ystyr. Yr oedd yn bresennol ddirprwywyr o'r Almaen, Switzerland, a Lloeger. Diwedd yr ymdrafodaeth stormus fu cadarnhâd Cyffesiâu Heildelburgh a Belgium—dwy Gyffes eithafol Galfinaidd, a diswyddiad tua dau gant o weinidogion Arminaidd, ac alltudiad ereill. Hyfryd meddwl na ddarfu i'r ddirprwyaeth Brydeinig gyduno â'r cwrs eithafol hwn o ddiswyddiad ac alltudiaeth. Amlwg yw fod eu cydymdeimlad o du yr Arminiaid. A ganlyn yw y Pum Gosodaeth Gadarnhâol yn y Gwrthdystiad:—

ERTHYGL I. Ddarfod i Dduw benderfynu trwy fwriad trawgyddol a digyfnewid, yn Iesu Grist, Ei Fab Ef, cyn creadigaeth y byd, i achub yng Nghrist, er mwyn Crist, a thrwy Grist, allan o hîl syrthiedig a phechadurus dyn, y sawl, trwy râs yr Yspryd Glân, a gredant yn Ei Fab Hwn, Iesu Grist, ac a barhânt yn y ffydd hon, ac yn ufudd-dod ffydd trwy'r grâs hwn, hyd y diwedd; ac ar y llaw arall, i adael yr aniwgygiadwy a'r anghrediniol mewn pechod ac o dan ddigofant, ac i'w condemnio fel estroniaid oddiwrth Grist yn ol gair yr Efengyl yn Ioan iii. 16, ac yn ol adrannau ereill o'r Ysgrhythur.

ERTHYGL II. Ac yn gyson â hyn ddarfod i Iesu Grist, Gwaredwr y byd, farw dros bawb, a thros bob dyn, fel y bu iddo ddiogelu i bawb, trwy Ei farwolaeth ar y Groes, brynedigaeth a maddeuant pechodau: serch hynny, na fwynhêir maddeuant pechodau yn weithredol gan neb ond y credadyn yn unig, yn ol gair yr Efengyl yn Ioan iii. 16 a i Ioan ii. 2.

ERTHYGL III. Nad oes gan ddyn râs achubol ohono ei hun, nac o egni ei ewyllys rydd, yn gymaint nas gall efe ohono ei hun, yn ei gyflwr o wrthgiliad a phechod, na meddwl, nac ewyllysio, na gwneuthur dim ag sydd yn wir ddaionus (yr hyn yw gwaith arbennig ffydd achubol); ond ei bod yn angenrheidiol ei ail-eni o Dduw, yng Nghrist, trwy Ei Yspryd Glân Ef, a'i adnewyddu mewn deall, tueddiad neu ewyllys, ac y'mhob cynneddf o'i eiddo, fel yr iawn-synio, yr iawn-feddylio, yr iawn-ewyllysio efe, ac yr effeithio yr hyn sydd wir ddaionus yn ol geiriau Crist (Ioan xv. 5).

ERTHYGL IV. Mai y grâs hwn o eiddo Duw yw dechreuad, parhâd, a pherffeithiad pob daioni, a hynny hyd yn oed i'r

graddau hwn, nas gall yr ail-enedig ei hun, heb râs rhagfynedol neu gynorthwyol, cynhyrfiol, dilynol, a chyd-weithredol,—nas gall na meddwl, nac ewyllysio, na gwneuthur daioni, na gwrthsefyll temtasiwn i ddrwg, fel y rhaid priodoli pob gweithred neu symudiad y gellir eu dyfalu i râs Duw yng Nghrist. Ond o barthed i fodd gweithrediad y grâs hwn, nid yw yn anwrthwynebadwy, gan ei fod yn ysgrifenedig am laweroedd ddarfod iddynt wrthwynebu yr Yspryd Glân; Act. vii., ac mewn llawys o fannau ereill.

ERTHYGL V. Fod gan y sawl a gorfforwyd yng Nghrist trwy wir ffydd, trwy yr hyn y daethant yn gyfranogion o'i Yspryd bywyd-roddol Ef, lawn allu, trwy hynny, i ymdrechu yn erbyn Satan, pechod, y byd, a'u cnawd eu hunain, ac i ennill y fuddugoliaeth, ond ei fod yn gŵbl ddealedig y diogelir hyn oll trwy râs cynhorthwyol yr Yspryd Glân; ac fod Iesu Grist yn eu cynhorthwyo, trwy Ei Yspryd, y'mhob temtasiwn, gan estyn ohono Ei law iddynt; ac os ydynt yn barod i'r ornest, ac yn dymuno Ei gymorth Ef, heb fod ohonynt yn ddiegni, Efe a'u ceidw hwynt rhag syrthio, fel nas cam-arweinier hwynt trwy unrhyw ystryw neu allu o eiddo Satan, ac fel nas dwg neb hwynt allan o ddwyllaw Crist, Ioan x. 28. *Ni ddwg neb hwynt allan o'm llaw I.* Ond, gyda golwg ar a ddichon iddynt trwy fod yn esgeulus, ymwrthod â dechreuad cyntaf eu bywyd yng Nghrist, a throi yn ol drachefn i'r byd drwg presennol, a throi ymaith oddiwrth yr athrawiaeth lân a draddodwyd unwaith iddynt, colli cydwybod dda, a dyfod ohonynt yn ddi-râs, rhaid yw penderfynu hynny yn fwy neulltuol allan o'r Ysgrythyrau Sanctaidd, cyn y beiddiwn ni ein hunain eu dysgu gyda meddwl hollol berswadedig.

Gyda golwg ar yr adran olaf o Erthygl V., y mae yr Eglwys Wesleyaidd yn fwy pendant, a datgana farn groyw ar yr hyn y petrusir yn ei gylch yma. Ei datganiad diwydro ar y pwngc yw geiriau yr Arglwydd wrth y Proffwyd Ezeziel, xviii. 19—24.

Gwahaniaetha y Safonau Wesleyaidd hefyd oddiwrth ddysgeidiaeth y Gwrthdystwyr, yn yr hyn y bu iddynt ymadael â dysgeidiaeth gynarach Arminius. Gosodai y Gwrthdystwyr diweddaraf gryn bwys ar amhuredd corfforol ein natur, gan wadu presenoldeb pechod yn y llygredd a berthynai iddi; a phriodolent ormod allu i "ryddid cynwynol yr ewyllys ddynol," i gyd-weithredu o honi ei hun â deddf Duw. Deil y Safonau Wesleyaidd gyda'r

Arminiaeth buraf, gynaraf, a diweddaraf, nad erys dim gallu mewn dyn ohono ei hun, i droi at Dduw. Cydnebydd addefiad o'r fath gnewyllyn y pechod gwreiddiol fel peth mewnol, nad oes allu gan y dyn naturiol hyd yn oed i gydweithredu â'r dylanwad dwyfol. O rās y mae y cydweithrediad â gras. Fel hyn, diogela yr athrawiaeth Wesleyaidd ei hun am byth rhag Belagiaeth a Haner-Pelagiaeth. (Gwel Pope's *Compendium*. Cyf. II., t. d. 8o.)

NODIAD III.

DADBLYGIAD ATHRAWIAETH. T. D. 11.

Amhosibl yw peidio a chydabod yr egwyddor o ddadblygiad yn y ddau Destament. Datguddiad graddol-roddeidig yw hanes yr Hen Destament; ac eangiad ar y Datguddiad Perffaith yw hanes y Newydd. Diau mai syml ac amlinellol i'r eithaf ydoedd nodwedd dysgeidiaeth ddiwinyddol yr Eglwys ar y dechreu, trwy yr hyn yr achlysurwyd llawer o'r dadleuon boreuol yn ei hanes. Hawliai hynny ddatganiadau croywach a chyflawnach ar sail Crist a'r apostolion, a thrwy ei chyd-gorffori â'r cyfryw, fel dehongliad cydnaws âg ef, fe gydnabyddid yr egwyddor ddadblygol o orfodaeth. Caiff sylw amlwg mor foreu a dyddiau Irenæus a Tertullian. Ond teimlid anhawster i gydnabod dilysrwydd y cyfryw ychwanegiad. Canys o gydnabod digonolrwydd datguddiad, ar ol crynhoi y Canon Ysgrhythol, fel digonol a diogel reol ffydd ac ymarweddiad, pa beth yn rhagor a allesid ei ddisgwyl? Er hyn oll dadblygai athrawiaeth, a chydabyddai yr Eglwys ei naturioldeb a'i dilysrwydd. Ffrwyth naturiol bywyd y gwirionedd ydoedd dadblygiad, a'i ameu, neu ei rwystro oedd anichonadwy. Gwel yn helaethach ar Nodiad XIII.

NODIAD IV.

YR YSPRYD ECLECTAIDD. T. D. 4.

Yr Eclectiaid oeddynt ddosparth o feddylwyr Groegaidd, oeddynt yn byw y ganrif gyntaf a'r ail cyn Crist. Eu hegwyddor athronyddol ydoedd, fel y dynoda eu henw, dethol yr hyn a ystyrient hwy yn wirionedd allan o bob cyfundrefn arall, gan ei saernïo a'i gorffori yn eu damcanion eu hunain. Edrychid arnynt gyda dirmyg gan y gwir athronydd. Cymhwysir yr enw yn ei ystyr ddiwinyddol at y dosparth hwnnw na fẏn dderbyn dim sydd uwchlaw syniad rheswm digynorthwy.

NODIAD V.

CYFOSODIAETH A CHASGLIADAETH. T. D. 14.

Defnyddir y termau hyn mewn athroniaeth i osod allan y cwrs-weithrediad rhesymegol trwy yr hwn y deuir o hyd i wirionedd. Cyfosodaeth neu Ymchwiliadaeth (*Inductive Process*) yw y cwrs ymchwiliadol hwnnw a wneir i natur ac ansawdd gwrthddrychau a ffeithiau, trwy yr hyn y cesglir eu cyd-berthynas (1) â'u rhyw, ac yn (2) â rhywogaethau ac ansoddau ereill. Cerrir y'mlaen y cwrs hwn o ymchwil, ar y dybiaeth o sefydlogrwydd deddfau anian, neu gydberthynas ddigryfnawid achos ac effaith. Y mae felly yn seiliedig ar sylwadaeth, a pho fanylaf y sylw cywiraf y casgliad. Cychwyna cyfosodaeth oddiwrth un gwirionedd neilltuol nes dod o hyd i wirionedd cyffredinol cymhwysedig at yr holl ddosparth. Swydd casgliadaeth ar y llaw arall yw tynnu gwirionedd neilltuol—penderfynu deddf—oddiwrth wirionedd cyffredinol sydd adnabyddus eisoes. Swydd ymchwiliadaeth yw arwain at wirioneddau hollol newydd—estyn ein gwybodaeth oddiwrth yr hyn sy'n wrthddrych sylwadaeth at yr hyn sydd o'r tu hwnt i'n sylwadaeth. Swydd casgliadaeth yw cyfuno, a threfnu, a dad-blygu yr hyn sydd eisoes yn adnabyddus. Y modd casgliadol yw yr un a adwaenir mewn ystyr lac fel yr un Aristotlaidd, am y cychwyna allan oddiar egwyddorion cyntaf tybiedig, neu ddychymyglol, yr hyn a'i anghyfaddasa i fod yn sylfaen ddisigl gwirionedd,—o ddiffyg ymchwiliad i werth y sylfon. Gelwir y modd ymchwiliadol yn un Baconaidd, oddiwrth Bacon—tad yr *Inductive Process*, fel ei gelwir,—am fod y modd hwn yn sylfaenedig ar sylwadaeth a phrofiad, ac yn gyfuniad o'r ymchwiliadol a'r casgliadol, er diogelu y gwirionedd yr arweiniant iddo. Cwrs Aristotle ydoedd mewn bri i lawr hyd y canoloesoedd. A thyma arf dethol yr ysgolwyr i ymresymu allan athrawiaethau crefydd, hyd nes i Duns Scotius gymhwyso egwyddorion Bacon at ddiwinyddiaeth, a cheisio ohono sefydlu athrawiaethau datguddiad, nid ar awdurdod Eglwysig, ond ar wirionedd. Ffrwyth y ddadl rhyngddo ef a'r ysgolwyr fu gosod diwinyddiaeth Gristionogol ar safle wyddorol mor ddiamheuol ag unrhyw gangen arall o wybodaeth, a'i gwneud yn un a deilynga ei galw, nid oddiar fympwy, ond oddiar sail gadarn cyfosodaeth, yn Frenhines y Gwyddorau. "Wrth broffesu dilyn y cwrs ymchwiliadol," ebai y Dr. McCosh, "yr ydwyf yn defnyddio yr ymadrodd megis y gwnai Bacon i

raddau helaeth, gan ei osod i sefyll am yr holl gwrsweithrediad hwnnw a ddechreuwa gyda sylwi ar ffeithiau, a'r hwn a apelia yn derfynol at ffeithiau, gan sefydlu y ddeddf. Ond fe all elfen gasgliadol fod yn y cwrsweithrediad hwn, megis pan y tybiwn fod y ddeddf fel-ar-fel, hynny yw, dyfeisio tybiaeth gan ymchwilio i'r canlyniadau a'i dilynai, a hynny bob amser gyda'r amcan o brofi y canlyniadau hyn wrth ffeithiau, a mabwysiadu y ddeddf honno, pan yn unig y gall ddal y prawf." Y Prawf hwnnw yw y gwirionedd datguddiedig. (Gwel *Intuitions*, t. d. 3).

NODIAD Va.

MATEROLAETH. T. D. 24.

Materolaeth yw y ddamcaniaeth honno a fŷn wadu bodolaeth anibynnol yspryd, gan ddarostwng pob peth i ddim ond un sylwedd—sef mater. Gellir olrhain ei hanes mewn rhyw ffurf neu gilydd ohoni mor belled yn ol a dyddiau Epicurius, athronydd Groegaidd (270—341 C.C.). Y mae wedi derbyn nerth arbennig yn ystod y ganrif ddiweddaf trwy gymhwyso, neu yn hytrach gamgymhwyso, ati ffrwyth ymchwiliadau i Anianeg a Bywydeg. Honnir mai Hobbes (1586—1679) a ddarparodd y ffordd iddi yn Lloeger trwy ei ddysgeidiaeth mai y teimladrwydd yw sail gweithrediadau y meddwl. Cariodd athrawiaeth “meddyl-ddrychau cynhennid” Locke ddylanwad anuniongyrchol o'i phlaid, er nad ydoedd ef yn Faterolwr. Rhoddodd cyhoeddiad traethawd Hume ar “*Human Nature*” safle newydd i'r ddamcaniaeth, ac yn enwedig gyhoeddiad yr “Athroniaeth Bositifyddol” gan yr athronydd Ffrengig Comte. Taffodd y duwiad Priestley ei nawdd drosti, ac y mae yn deilwng o sylw ddarfod iddo ragflaenu trwy yr hyn a alwai yn *uni substancisme*, yr hyn a elwir yn y dyddiau presennol yn *monism*. Llifeiriodd materolaeth fel dylif dros yr Almaen. Ac y mae wedi cario dylanwad mawr yn Lloeger yn ystod y chwarter canrif diweddaf, yn enwedig trwy gefnogaeth y fath enwau a Tyndall, Huxley, Bain, a Spenser. Derbynnir eu haeriadau gan filoedd, a Haeckel, yr Almaenwr, yn ben eu câd. Fel crynhodeb o ddysgeidiaeth y Materolwr, nis gwyddom am ddim yn fwy i'r pwynt nag eiddo un o'i diffynwyr diweddar o'r Almaen. “Materolaeth,” ebe Berger, “yw athroniaeth y pum' synwyr. Ni addefa ddim ond ar dystiolaeth y teimladrwydd, a chan hynny gwedy fodolaeth yr enaid, Duw, a phopeth goruwch-

deimladol. Yn y ffurf ddiweddar ohoni, dysg gan mai mater yn unig ydyw y gwirioneddol a'r sylweddol, ei fod yn ddi-grëedig ac yn dragwyddol. Y mae wedi bodoli, a bodola am byth. Y mae mater yn aninystradwy, ac yn ei elfennau yn anghyfnewidiol. Y mae grym yn anysgaradwy oddiwrth fater. Ac yn y ddamcaniaeth nid oes fater heb rym, na grym heb fater. Ni fodola grym ohono ei hun; gan hynny nid oes rym yn bod i'r hwn y gellir priodoli creadigaeth mater. Y mae y greadigaeth fel y mae yn awr i'w phriodoli i ddadblygiad graddol dwy elfen, mater a grym, —dadblygiad a gerdd rhagddo trwy weithrediad deddfau sefydlog. Ffurfir yr organau iselaf y'nghyntaf, yna rhai uwch, hyd nes yr ymddengys dyn. Y mae pob bywyd, pa un bynnag ai anifeilaidd, llysieuaid, neu ysprydol, yn ddyledus i weithrediad anianol a grymusterau feryllol mewn mater. A chan na fodola yr un gallu ond y sydd mewn mater nis gall fod yr un Bod Dwyfol gyda gallu creadigol ganddo, nac ychwaith unrhyw enaid dynol crëedig." Eglur yw fod y fath gyfundrefn yn sarhâd digywilydd ar dystiolaeth y Datguddiad Goruwchnaturiol, ac yn broffesedig anuwaidd. Teifi Dduw oddiar orsedd y bydysawd, a lluchia goron gogoniant dyn oddiar ei ben, gan ei sarnu i safle "yr anifail a ddifethir." Amlwg yw oddiwrth osgo ddiweddar gwyddoreg, pa fodd bynnag, fod yn rhaid i'r ddamcaniaeth haerllug hon arafu ei chamrau. Nid yw gair diweddaf gwyddoriaeth wedi ei lefaru eto. Gall yr Eglwys barhau yn dawel. Barn ddiweddar Arglwydd Kelvin, un o brif wyddorwyr y byd, ydyw fod "profion anorchfygol gryf o fwriad deallus a daionus yn ganfyddadwy o'n hamgylch . . . a'n dysgant y dibynna pob peth byw ar y Creawdwr a'r Rheolwr Tragwyddol."

NODIAD VI.

DEISTIAETH. T. D. 25.

Cyfododd Deistiaeth yn Lloeger yn yr eilfed-ganrif-ar-bymtheg, fel ffrwyth anghydwlediad barn yn yr Eglwys Seisnig ar rai o brif byngciau datguddiad Cristionogol. Mynnir mai y prif amcan ar y cyntaf ydoedd ceisio tir canolog er cyfuno y pleidiau anghytun. Yr oedd dylanwad Bacon, Hobbes a Locke wedi darparu y ffordd eisoes tuag at symudiad o'r fath. Dysgasai Bacon mai profiad ydoedd safon gwybodaeth; Hobbes mai teimlad a rheswm, fel y maent yn gorfforedig yn y brenin, yw

mesur uchaf gwybodaeth ac awdurdod ; a Locke mai rheswm yw y dyfarnydd terfynol er penderfynu gwirionedd, ac hyd yn oed ystyr datguddiad.

Amrywiai dysgeidiaeth y Deistiaid yn fawr. Dosrennid hwy gan y Dr. Samuel Clark yn ei draethawd ar y pwngc i bedwar dosparth. (1) Y rhai a gredent yn Nuw fel Creawdwr y byd, ond a wadent Ragluniaeth. (2) Y rhai a addefent Ragluniaeth mewn pethau naturiol, ond ei gwadent yn y byd moesol. (3) Y rhai a goleddent syniadau am Dduw a Rhagluniaeth, ond a wadent sefyllfa ddyfodol, gan ddal fod marwolaeth yn rhoddi terfyn hollol ar ddyn. (4) Y rhai a gredent ym modolaeth Bod Goruchel a'i Ragluniaeth, y'nghyd â holl twymedigaethau crefydd naturiol, ond hynny gyn belled yn unig ag eu dysgir gan oleuni natur : hwy a wadent y datguddiad dwyfol.

Y cyntaf, a'r mwyaf nodedig, dichon o'r Deistiaid Seisnig ydoedd Arglwydd Herbert, o Churbury, neu Gastell Coch, ger y Trallwm, a Chymro o genedl (1581—1648). Yr oedd dysgeidiaeth Herbert yu fwy cymedrol nag eiddo ei gymrodorion. Dysgai bump o egwyddorion sylfaenol a fynnai a dderbynnid erioed y'mhobman. 1. Y Bôd o Dduw. 2. Y rwymedigaeth i addoli. 3. Bywyd rhinweddol. 4. Edifeirwch am bechod. 5. Gwobr a chosp, yn y byd hwn a'r hwn a ddaw. Haerai y cynhwysa y pum egwyddor hon yr oll sydd ofynol er iechydwriaeth, a hynny yn anibynnol ar ddatguddiad, yr hon a fynnai nad oedd yn angenrheidiol, er nad ydoedd yn beth amhosibl.

Cynrychiolid yr ysgol hon ymhellach gan Blount (1654—1693); Toland (1670—1722); Collins, un isel, eithafol (1676—1729); Iarll Shaftesbury (1671—1713); Woolaston (1669—1733); Tindal (1656—1733); Chubb (1679—1747); T. Morgan (m. 1743); Arglwydd Bolingbroke (1678—1751); a Hume (1711—1776). Buan iawn y canfyddwyd nad oedd "Crefydd Natur," fel ei gelwid, amgen na "Chrefydd heb Gristionogaeth," ac arweiniodd i benrhyddid ac anuwiaeth eithafol. Diffynnwyd Cristionogaeth yn ardderchog gan weithiau gorchestol Leslie a Leland, Grotius, Bentley, Ellis, Sherloek, Butler, a Paley. Ond addefir mai y diffyniad goreu, a'r hwn a laddodd ddylanwad Deistiaeth ydoedd toriad allan y Diwygiad Methodistaidd trwy offerynoliaeth Wesley a Whitfield.

NODIAD VIa.

POSITIFIAETH.

(Gwel ar Nodiad XXIV. T.D. 123).

NODIAD VII.

AGNOSTICIAETH. T. D. 34.

Defnyddiwyd y gair hwn, yn ei ystyr ddiweddar, gan y Proff. Huxley yn 1869, oddiwrth y gair Groeg a ddefnyddir yn Act. xvii. 23; a negyddol, a *gnosticos*=gwybodus, h.y., anwybodus, er gosod allan y cyflwr meddwl hwnnw nad yw na gwrth-Dduwaidd na Duwaidd; felly, cyflwr meddwl amhenodol gyda golwg ar y Bôd o Dduw. Ffurf bendant damcaniaeth yr Agnostic yw gwadu y posibilrwydd o unrhyw wybodaeth am Dduw. Gellir olrhain egwyddorion y ddamcaniaeth gyn belled yn ol a Hobbes a Locke, a Hume yn Lloeger, a Kant yn yr Almaen, yn enwedig yr olaf, yr hwn a ddysgai mai delweddol neu arddanghosiadol yn unig yw pob mater o wybodaeth. Cymerodd y syniad ffurf newydd dan nawdd Hamilton a Mansel, ond arweinia i'r un man; ac yn ngoleuni rhesymeg ddiwrthdro J. S. Mill, yr hwn a broffesai fod o'r un golygiad a Hamilton yn hyn o beth, cariodd allan ddamcaniaeth yr olaf i'w therfynau rhesymegol, a glaniwyd ef ar y draethell anffyddol dywell honno nad yw ein gwybodaeth am Dduw yn ddim ond casgliad—*inference a posteriori*—casgliad oddiwrth yr effaith at yr achos.

Dyna y llwybr a ddilyna Agnosticiaeth ddiweddar yn ol Huxley a Spenser, y rhai a fynnent nad yw gwybodaeth wirioneddol am Dduw yn beth dichonadwy. Os gofynnir Paham? Yr atebiad yw, nad yw yr hyn a elwir yn deimladrwydd, yn ewyllsiad, ac yn feddyliad yn ddim amgen na chyflyrau ar ymwybyddiaeth, yr hon hithau nid yw, meddynt hwy, amgen na chyflyrau olynol. Ac fod son am Fôd Dwyfol a feddiennir gan ymwybyddiaeth o'r fath yn wegi diystyr. Â'r ddysgeidiaeth hon y mae darnodiad Spenser o'r Egni Tragwyddol a fodola o'r tu cefn i arddanghosion natur yn gyson, er yn anghywir. "Y di-amodol," meddai, "yw yr hyn sydd uwchlaw, nid yn unig wybodaeth, ond hyd yn oed ddirnadaeth dyn." Gwedir gan Agnosticiaeth yr hunan personol sydd odditan pob cyflwr ymwybodol, ac o ganlyniad, darostyngir pob peth yn y bydysawd i ddim ond cyflwr ar ymwybyddiaeth.

NODIAD VIII.

TRADDODIAD. T. D. 61.

Cyfiëa ystyr wreiddiol y gair drosglwyddiad unrhyw beth o'r naill i'r llall. Ac yn y Testament Newydd defnyddir ef am hyfforddiadau llefaredig neu ysgrifenedig a drosglwyddwyd yn yr Eglwys ac a ddynodir wrth yr ymadrodd "traddodiadau dynion," neu "y tadau." Golyga hetyd ddysgeidiaeth lefaredig yr apostolion a'r tadau eglwysig a drosglwyddwyd i lawr o oes i oes, heb fod yn "Ysgrythur" briodol, nac yn gynhwysedig yn y Canon, eto yn meddu ar awdurdod diamheuol am y cynhwysai hyfforddiant ar faterion fydd a bywyd, a honnai awdurdod apostolaidd. Traddodiad ydoedd maen prawf yr Eglwys gyntefig i benderfynu honiadau athrawiaethol a threfnidol; canys nid oedd Canon yr Ysgrythur, wedi ei sefydlu eto. Geiriau llefaredig Crist a'i apostolion oeddynt fara bywyd dysgeidiaeth yr Eglwys, er yn ddiau fod ysgrifeniadau ar gael yma ac acw. Fel y cynyddai yr Eglwys ac y torrai allan heresiâu, fe apelid yn barhaus at Draddodiad. Ond gan yr amheuid dilysrwydd rhai traddodiadau, teimlid mai diogelach ydoedd apelio at dystiolaeth ysgrifeniadau dyls, disgynedig o'r cyfnod apostolaidd; ac ar eu corfforiad yn y Canon edrychid atynt fel yr awdurdod uchaf, a'r unig awdurdod, dros yr hyn a ddysgai Crist a'i apostolion, a rhoddodd yr Eglwys ei sêl ar y cyfryw fel unig a digonol Reol y Ffydd. Er hyn i gyd, yn nadl fawr yr Eglwys a'r Gnosticiaid, apeliai yr Eglwys yn ogystal a'i gwrthwynebwyr at draddodiad. Ond o herwydd y rhoddid dehongliad i'r traddodiad, pleidiol i'r ddwy blaid, y naill fel y llall, daethpwyd i deimlo y pwys o apelio at un safon terfynol a lefarai yn groyw. Dilynwyd hyn trwy i'r Tadau Eglwysig Tertullian a Irenæus ac ereill benderfynu sefyll wrth yr Ysgrythur. Canys er yr addefid henafiaeth llawer o'r hyn oedd draddodiad, collasid ymddiried mewn rhanau ereill, fel ag yr oedd yn rhaid ychwanegu at ganon ei werth, gyffredinolrwydd ei dderbyniad yn yr Eglwys; a diameu iddo brofi yn fantais ar ol hyn yn y ddadl Ariaidd. Yn Eglwys y Gorllewin rhoddwyd derbyniad parod i ganon Vincentus o Lirinum er penderfynu rhwng traddodiad gwir a gau. "Rhaid ini fod yn sicr y delir gennym yr hyn a gredir yn gyffredinol, y'mhob man, a chan bawb." "Rhaid i ni"—Eglwys Rhufain,—hi felly oedd i benderfynu beth sydd gyffredinol, &c. Cynyddodd pwysigrwydd traddodiad yn yr

Eglwys fel, yn Nghymanfa Nicea, 787, y sefydlwyd traddodiad, mewn egwyddor o leiaf, fel yn gyfwerth a'r Ysgrythur, fel erbyn y canoloesoedd yr honnid ysprydoliaeth gydredol i draddodiad ac Ysgrythur. Canys honnid mai llais yr Ysryd yn y Beibl ydoedd y naill, a'i lais yn yr Eglwys ydoedd y llall, a'r ddwy fel eu gilydd yn Rheol Ffydd ac ymarweddiad. Protest yn erbyn hyn ydoedd arwyddair mawr Protestaniaeth, sef mai y Beibl, a'r Beibl yn unig yw unig a digonol Reol Ffydd. Gwel ymhellach ar Nodiad XIII., t. d. 72.

NODIAD IX.

MAIMONIDES. T. D. 62.

Moses Maimonides ydoedd ddysgawdwr Iddewig enwog. Ganwyd ef yn Cordova, 1135. Cafodd fanteision addysg uwchraddol, a gwnaeth y goreu o honynt. Penodwyd ef yn Rabbi pan yn ddwy a deugain oed, ac ar ol hynny yn ben ar yr Eglwys Iddewig yn yr Aifft. Ysgrifennodd lawer o lyfrau tra phwysig, yn y rhai y dengys gydnabyddiaeth helaeth a dysgeidiaeth a defion ei genedl. Ysgrifennodd yn fanwl ar y ddawn Broffwydol, a dysgai fod gwahaniaeth rhwng ysprydoliaeth Moses ag eiddo y Proffwydi. Eb efe: "Ni phroffwydodd y Proffwydi yr un modd ag y darfu i Foses wneud, canys efe a broffwydasai yn uniongyrchol oddiwrth Duw, gan yr Hwn y derbyniasai efe, nid y broffwydoliaeth yn unig, eithr hyd yn oed y geiriau a'r brawddegau hefyd. Ac yn ddilynol i hynny, megis y clywsai, felly hefyd yr ysgrifenasai efe hwynt yn llyfr y gyfraith, a hynny yn hollol yn yr un geiriau a glywsai efe gan Dduw. Ond am y proffwydi ereill, hwy a welsent yn eu gweledigaethau y *peithau eu hunain* yr hyspysid hwy gan Dduw o'u plegid, a hwy a'u cyflwynent ac a'u traddodent yn eu geiriau eu hunain." Diau i syniadau Maimonides gario cryn ddylanwad yn ffurfiad y ddamcaniaeth am ysprydoliaeth eiriol. Y mae ei ddysgeidiaeth ar y pwngc mor gywrain ag ydyw o hynod.

NODIAD X.

YSPRYDOLIAETH. T. D. 64.

Ceir cryn nifer o ddamcaniaethau ar y pwngc o Ysprydoliaeth, lluaws o'r rhai a gydgyfranogant o'r hyn sydd gyffredin i'r oll, tra

yr erys rhyw nôd deol arnynt a bair anhawster i'w dosparthu gyda'u gilydd. Gwasanaetha rhai o'r nodau hyn fel pegynnau y gorffwysa damcaniaethau golygus arnynt. Er cyfleustra i'r efrdydd gellir nodi o blith y rhain y ddamcaniaeth o YSPRYDOLIAETH GYFLAWN, yr hon a ymddengys gydag ond ychydig wahaniaeth mewn amryw ffurfiau. Golyga fod yr ysgrifenywyr mor lwyr o dan ddylanwad yr Yspryd Glân fel ag i fod uwchlaw y posibilrwydd o gyfeiliorni mewn na ffaith, nac athrawiaeth, na barn; eu bod yn anffaeledig y'mhob pwynt o hanes, o wyddoneg, ac o ddaearyddiaeth a gofnodir yn eu cynyrchion. Ffurf ar y ddamcaniaeth eithafol hon yw y ddamcaniaeth o YSPRYDOLIAETH EIRIOL a ddysga fod pob gair yn ysprydoledig, mai eiddo yr Yspryd y cyfryw, a chan mai meddwl yr Yspryd sydd yn y geiriau nas gellir deol y meddwl oddiwrth y gair a'i cyflêa. Ffurf ar hon eto yw y ddamcaniaeth BEIRIANNOL, fel ei gelwir, sef fod yr ysgrifenywyr sanctaidd yn gwbl ddarostyngedig i'r dylanwad ysprydoledig, megis llong hwyliau o flaen y gwynt, neu ysgrifbin yn llaw ysgrifennydd, pryd yr hyffordd hwy y'mhob gair a ysgrifenasant. Nid oeddynt amgen na pheiriannau i ysgrifennu ac i siarad! Damcaniaeth arall dra phoblogaidd yw yr un a elwir y ddamcaniaeth ALLOFYDDOL (*Dynamical*), sef y gweithreda y dylanwad ysprydoledig yn a *thrwy* alluoedd naturiol yr ysgrifenywyr. Ffrwyth yr hyn yw diogeliad y gair datguddiedig drwy offerynoliaeth dynion y gweithredid arnynt yn gyson â deddfau eu natur. Gwahaniaethir y'mhellach rhwng gwahanol raddau o ysprydoliaeth, megis YSPRYDOLIAETH o AWGRYMIAD, sef datguddiad digyfrwng o'r hyn nad oedd wybyddus yn unrhyw ffordd arall; YSPRYDOLIAETH o DDYRCHAFIAD, yr hyn a olygai iawn-ddarpariad yr offerynau trwy ddyrchafiad eu galluoedd naturiol i bwynt o yni anghyraeddadwy ond trwy y cyfryw foddion; YSPRYDOLIAETH o GYFARWYDDID, sef cynysgaethiad yr ysgrifenywyr â gallu i iawn-ddewis ac i iawn-ddosparthu eu defnyddiau; ac YSPRYDOLIAETH AROLYGOL, wrth yr hyn y golygir y diogelid cynnyrch yr ysprydoliad hwn rhag cyfeiliornad. Amlwg yw mai y ddamcaniaeth a fabwysiedir gan yr awdwr hybarch yw yr un Allofyddol, yr hon, ar gyfrif y dedy i'r dwyfol a'r dynol eu lle priodol, sydd gyson â'i dysgeidiaeth ar faterion ereill; ac â hon y cytuna lluwys o ddiwinyddion amlycaf Ewrob.

NODIAD XI.

YR HOMOLOGOUMENA A'R ANTILEGOMENA.

T. D. 68.

Yr HOMOLOGOUMENA (Gr. *homologeîn*==i gytuno) sydd derm a ddefnyddiwyd, i ddechreu, gan yr hanesydd Eglwysig Eusebius, i ddynodi yr ysgrifeniadau hynny o eiddo y Testament Newydd y cytunnid yn gyffredinol eu bod yn ddilys, sef, y Pedair Efengyl, Tri-Epistol-ar-ddeg St. Paul, Epistol iaf St. Petr, ac Epistol iaf St. Ioan. Yr ANTILEGOMENA (*y rhai y dywedid yn eu herbyn*), "er eu bod yn dra adnabyddus, ac yn cael cymeradwyaeth gan luaws," oeddynt St. Iago, 2 St. Petr, 2 a 3 St. Ioan. Derbynnid Llyfr y Datguddiad fel yn ddilys gan rai, ac yn amheus gan ereill. Nid ydys yn golygu y gwrthodid yr Antilegomena, ond y ffynnai amheuaeth, neu yn hytrach betruster parthed eu gwerth, yr hyn a allasai godi fe ddichon oddiar y ffaith ddarfod ysgrifennu rhai o honynt at gymundebau Cristionogol yn gyffredinol, heb fod o honynt yn eiddo un Eglwys yn benodol; ereill at bersonau unigol. A chynhwysai Epistol Iago a Llyfr y Datguddiad olygiadau gwrthdarawol i'r syniadau a goleddid gan adrannau o'r Eglwys. Hyn, a'r ansicrwydd am eu hawduraeth apostolaidd, a barai na roddid iddynt yr un safte a'r rhelyw. Dyma y llyfrau a alwyd mewn amserau diweddarach yn Ail-Ganonaidd, am y cyfrifid eu hawdurdod o lai gwerth na'r Homologoumena. (Gwel y *Compendium*, Cyf. I., t. d. 200).

NODIAD XII.

RHESYMOLAETH. T. D. 72.

Rhed hanes y gair hwn yn ol cyn belled a chanol yr eilfed-ganrif-ar-bymtheg o leiaf. Cymhwyswyd ef yr adeg honno gan AMOS COMENIUS mewn traethawd o'i eiddo yn erbyn yr Ysgol Sosinaidd, a'r Deistiaid. Ymwedda Rhesymolaeth i amrywiol ffurfiau. Yn y ffurf Ddeistaidd gwedir y datguddiad goruwch-naturiol yn gyfan-gwbl, a honnir mai rheswm dynol yw sail a sylwedd yr oll a berthyn i ddyn ei wybod. Ceir ffurf arall, yr hon tra y cydnebydd y datguddiad Beiblaidd, a haera na chynhwysa ddim ag sydd uwchlaw dirnadaeth rheswm, yr hwn gan hynny sydd i fod yn ddyfarnydd terfynol ar werth ei gynhwysiad.

Fel y sylwa Dr. Pope: "Addefa Rhesymolaeth briodol uchafiaeth y Gair megis y'i rhodded gan Dduw er rheoleiddio athrawiaeth yr Eglwys, ond haera mai rheswm dynol sydd i fod yr unig ddyfarnydd ar ei ystyr . . . Y mae iddi amryw ffurfiau a darnodiadau, eithr y mae y rhain yn un mewn haeru mai cymhwysiad rheswm gonest a goleuedig yw yr oll a ofynna yr Ysgrythur pan y dysg athrawiaeth awdurdodedig, neu yr argymhella rwymedig-aeth foesol, neu yr addawa ragorfraint i obaith credinwyr. Rhydd y Rhesymolwr le rhy amlwg i reswm trwy ei wneud yn fesur y meddwl anfeidrol. Y mae hynny yn groes i holl rediad y Beibl, yr hwn tra yr anrhydedda reswm trwy ymresymu âg ef, trwy apelio at ei argyhoeddiadau a'i reddfau aninystradwy, a ddeffinia yn y modd mwyaf pendant derfynau ei diriogaeth (1 Cor. ii. 14). (Gwel y *Compendium*, Cyf. I., t. d. 209).

NODIAD XIII.

DADBLYGIAD ATHRAWIAETH. T. D. 72.

Y syniad Protestanaidd Efengylaidd ar y pwngc hwn yw y ffynna yn yr Eglwys Gristionogol, er oes yr apostolion hyd yr awrhon, yr hyn a elwir yn ddadblygiad athrawiaeth. Fod Cristionogaeth wrthddrychol, fel ei gelwir, yn gorfforedig yng Nghrist; ac fod ffeithiau, gwirioneddau, ac athrawiaethau diwinyddiaeth Gristionogol yn gynhwysedig mewn egwyddor yn y Testament Newydd, yr hwn gyda'r Hen Destament a ffurfia Reol ddigonol Ffydd.

Ffrwyth naturiol y Diwygiad Protestanaidd ydoedd dwyn i amlygrwydd wirioneddau sylfaenol yr Efengyl, y rhai a ategid â phroffion Ysgrythyrol. "At y Gair ac at y Dystiolaeth" ydoedd yr arwyddair. A chenadwri arbennig Protestaniaeth i'r oes honno ydoedd trwytho ei meddwl â diwinyddiaeth Feiblaidd. Dysgeidiaeth Y LLYFR ydoedd y graig yr adeiladai arni.

Effaith naturiol y fath honiad ydoedd esgoriad corff o Ddiwinyddiaeth y profesid oedd seiliedig ar Air Duw, ac yn gyson â dysgeidiaeth yr Eglwys Gyffredinol yn ei chyfnod dilwgr: cyn bod "traddodiadau dynion" wedi gosod eu nôd arni, a chyn bod "gwâg philosophi" yr ysgolwyr wedi ei thywyllu. Myntumid y dysgai Eglwys Rhufen fel athrawiaeth, gorff o ddsygeidiaeth nad oedd awdurdod drosto nac yng Ngair Duw, nac yn hanes yr Eglwys gyntefig. Haerai diwinyddion

F F

Eglwys Rhufen o'r ochr arall fod dysgeidiaeth y Diwygwyr yn ei phrif ddaliadau yn groes i Reol Ffydd, ac i ddysgeidiaeth yr Eglwys Gatholig drwy'r oesan. Ceisid ategu hyn trwy apelio at yr Ysgrythur, yn ol fel ei dehonglid "o'r Gadair," ac at lais traddodiad "ysgrifenedig a llefaredig," yr hwn yn ol yr un awdurdod a ystyrid yn derfynol. Yn wir, dyna ystyr penderfyniad Cynghorfa Trent yn 1546, "fod yn rhaid fod dwy ffynhonnell o wybodaeth Gristionogol, Ysgrythur a Thraddodiad, ac fod dehongliad yr Ysgrythur i gael ei reoleiddio gan draddodiad." Amcan y penderfyniad hwn ydoedd codi gwrthglawdd yn erbyn y syniad Protestanaidd,—nad oedd un traddodiad o werth ond cyn belled ag yr oedd yn gyson â Gair Duw. Dadleuid o'r ochr arall yn yspryd ymddangosiadol tég Vincent o Lirinum "y dylem fod yn sicr y delir gennym yr hyn a gredwyd y'mhobman bob amser, a chan bawb." Fel mater o ffaith fe osodid yr ochr amddiffynnol mor dég a golygus fel yr ystyriai llawer fod y rhesymau yn anwrthwynebadwy. Ond gyda chynnydd dysg, a chymhwysiad yr yspryd beirniadol at ddysgeidiaeth y Tadau Eglwysig,—dysgeidiaeth gyda llaw ag oedd yn dryfrith o lygriadau a ddygasid i mewn gan ysgriblwyr anwybodus a digydwylod, dechreuodd y fantol droi; ni allwyd eto ateb cyhuddiad Jerome yn erbyn Rufinus, ddarfod iddo lygru yn gywilyddus ysgrifeniadau Irenæus, yn ei gyfieithiad ohono.

Ffrwyth naturiol y rhyddid Protestanaidd a estynasid i'r werin ydoedd, gosod Pyngciau y Ffydd dan brawf, gerbron brawdle rheswm goleuedig a chydwybod mwy hyfforddedig y cyhoedd; a hynny gyda'r canlyniad anocheladwy y deffinnid hwy ac y bernid eu gwerth yn fynych yngoleuni unochrog rheswm noeth. Cafwyd yn fuan fod dysgeidiaeth rheswm, yn fynych, yn fwy peryglus i amcanion uchaf y fydd nag hyd yn oed ddogmataeth cydwybod Eglwysyddol. Esgorodd yr ymgyrch ar doraeth o gynnyrch a gynrychiolai feddyliau cryfaf y ddwy blaid. Cariwyd y ddadl mor bell nes lluchio yspryd y cyhoedd i orffwys yn ddiymgais ddigon yn rhandir anystyriaeth. Torrodd allan yspryd drwg anfoddogrwydd, a ddadblygodd yn fuan i chwerwedd yspryd anheilwng o'r materion pwysig yr ymdrefid â hwynt. Cynyddai pleidiau ac ymraniadau; yr oedd y byd Cristionogol yn ferw. Cynyrchodd hyn, drachefn, yspryd beirniadol, penderfynol, amcan yr hwn ydoedd gwyntillio casgliadau y ddadl, gyda'r canlyniad ddarfod i'r gwahanol bleidiau ddiwygio ac ail ddeffinio

gosodiadau eu blaenoriaid, er cyfateb i fleithiau hanes a beirn-iadaeth. Ffrwyth hyn, drachefn, ydoedd tirio y meddwl cyhoeddus ar draethellau peryglus Rhesymolaeth. Cymhwysiad o'r yspryd beirniadol hwn at byngciau crefydd, ac at hyd yn oed yr Ysgrythur, sydd wrth wraidd y toraeth di-ben-draw o ddysg-eidiaeth ddynol a berygla fywyd ysprydol yr Eglwys yn ein hoes ni. Y mae uniongredded, hithau, wedi arfer pob gewin a gïeuyn er cyfarfod â'r ymosodiadau hyn, gan dderbyn casgliadau diamheuol, a gwrthod damcanion tybiedig a gau. Ond pw ysydd i benderfynu beth sydd wir, a pheth sydd â'u? Fel y gwelir, ffrwyth hyn oll ydoedd cynyrchu argyhoeddiad yn y meddwl mai mater o dyfiant a dadblygiad yw athrawiaeth. Y'nghanol y fath dymhestl o groes-opiniynau nid rhyfedd mai dadl y meddwl ymofyngar dros wrthod dysgeidiaeth yr Eglwys yw nas gŵyr beth i'w gredu; nas gall fforddio i adeiladu ei obeithion ar dywod llithredig opiniynau ansfyddedig, y rhai, er mor anghyd-weddol â'u gilydd, a honnant eu bod yn seiliedig ar yr Ysgrythur Lân. Canlyniad y fath gŵyn, mewn lluaus o engreiffiau, fu gollwng gafaél ar hyd yn oed yr Ysgrythur.

Hyn oedd eginyn bywyd y ddamcaniaeth Resymoliaethol, fod dysgeidiaeth ansicr Cristionogaeth i roddi ffordd i un sicrach(?) athroniaeth, ac fod Rheswm i gymeryd lle y Beibl fel Rheol fydd ac ymarweddiad.

Dwyn allan drefn o'i câs meddyliol hwn oedd amcan Dr. Newman yn ysgrifennu ei draethawd bydgloodus ar "*Dadblygiad Athrawiaeth Gristionogol*" (1845). Ysgrifennwyd ef ychydig cyn croesi ohono i Rufen; yn wir y mae y traethawd yn *fap* teg o'r brif-ffordd a gerddodd nes cyrraedd ohono byrth y "ddinas dragwyddol." Ei ddamcaniaeth at yr hon y cyfeiria yr Awdwr, yw, y bodolai rhan fawr o athrawiaeth Gristionogol ar y cyntaf fel hedyn,—*germ*, neu egwyddor gyntaf; ddarfod gosod ym meddwl yr Eglwys yn unig feddylddrychau cynyrchiol, galluog o frwyth amrywiol, y fath nad oedd dim yn yr Ysgrythur, nac yn unrhyw fan arall, ar y pryd, a hyfforddiai sail i ddyfalu am y dadblygiad cyflawn ohono sydd wedi dilyn er hynny. Ond yr oedd y *germ* hwn i ymddadblygu. Ac er mai *germ* ydoedd, yr oedd yn ddigonol effeithiol i roi cychwyniad i dueddion ysprydol yr Eglwys; cynhyrfai ei serch, ei huchelgais, ei fydd a'i dyheadau crefyddol. Bu i'r rhain, mewn cwrs o amser, roddi cychwyniad i amrywiol opiniynau duwiolfrydig y'meddyliau

dynion, a chreu arferion a defosiynau penodol mewn addoliad crefyddol. Derbynnir hwy gyda gwrthwynebiad ar y cyntaf, ond cynyddant yn ddirgelaidd a sicr gan ennill tir. A dyma lle y daw i mewn awdurdod anffaeledig yr Eglwys, gan yr hon y mae gallu i ddeol y gwir oddiwrth y gau fel ffrwyth y dadblygiad hwn. I'r cyfryw syniadau a ddaliant y gwyntylliad, rhoddir iddynt awdurdod dwyfol, ac argymhellir hwy gan yr Eglwys, *Ex Cathedrá*, o'r gadair swyddol, fel materion o ffydd.

Tra yr eddyf Protestaniaeth lawer o'r hyn sydd gynhwysedig yn yr uchod, ni chydolyga ar awdurdod anffaeledig yr Eglwys i benderfynnu beth sydd yn wir bwngc o ffydd ac ymarweddiad. Addefa yr Eglwys Brotestanaidd y ffaith o ddadblygiad,—dadblygiad yn ol mesur sicrwydd llawn, eithr mai nid dadblygiad oddiwrth yr Ysgrythur yw, eithr yn hytrach un a duedda tuag ati. Gan nad pa faint a ddadblyga athrawiaeth, ni ddadblyga byth allan o'i hun-rywiaeth a'r *germ* Ysgrythyrol. Iaith pob gwir athrawiaeth y'mhob oes yw, "Canys ei hiliogaeth ef (y *germ*) ydym ni. Yr un yspryd bywyd, beunydd a byth, a gura y'nghalon athrawiaeth iachus, gan nad beth fydd y dehongliad ohoni gan y meddwl sydd anhyfforddedig yn nirgelion yr Yspryd.

NODIAD XIV.

VIA EMINENTIÆ, &c. T. D. 85.

Ceir diwinyddion y Diwygiad, a'r Canoloesau yn arbennig, yn eu hymgais i hyfforddio syniad clir am y perffeithderau Dwyfol, yn mabwysiadu rhyw drefniant meddyliol a rhesymegol er ymgodi ohonynt at yr Anfeidrol. Rhydd hynny gymorth i'r meddwl i ymgeisio at ddosparthiad o'r priodoledau Dwyfol, a bydd yr ennill yn rhywbeth, pe dim ond diogelu trefniant ac eglurder yn yr ymgais o synied yn ddeallus am fater sydd o angenrheidrwydd yn un dyrus ac anhawdd ei ddirnad. Dysgai Dionysius yr Areopagiad, un o feddylwyr cryfaf yr Eglwys foreuol, a ddilynwyd gan gewri meddyliol y canoloesau,—dysgai y deuir o hyd i syniadau addas am y perffeithderau Dwyfol yn y tair ffordd a nodwyd eisoes, sef (1) TRWY FAWRHAD: Hynny yw, sef trwy briodoli i'r natur Ddwyl y priodoledau, neu y perffeithderau uchaf a chyflawnaf, nid yn unig y gall y meddwl dynol eu dirnad ond y cyfryw befyd y mae y syniad am Dduw

yn eu hawlio, a'r natur Ddwyfol yn alluog ohonynt. Mewn gair, trwy ffurfio meddylddrych am Dduw fel y BÔD PERFFAITH. (2) TRWY NACÂD: neu trwy wadu i Dduw amherffeithderau y creadur. Er engraifft: nis gall Duw farw, na dioddef, na phechu. Defnyddir y llwybr negyddol er ceisio dod o hyd i'r perffeithderau Dwyfol trwy synio am Dduw yr hyn nad yw, yn hytrach na'r hyn yw. Felly, er fod yr ymresymiad yn negyddol o ran ffurf, y mae yn awgrymu gwirionedd pendant, cadarnhaol. Negyddol o ran ffurf yw y termau Anfarwoldeb, Anioddefedd, ac Amhechadurus, fel eu cymhwysir at Dduw; ond dynodant serch hynny ansoddau cadarnhaol y natur Ddwyfol. (3) TRWY ACHOSIAD. Sef trwy briodoli i Dduw, fel yr Achos Mawr Cyntaf, bob gweithrediad "rhinweddol a goddefol," pob effaith gweledig a chynrychedig yn y cydfyd, ac o'r tu allan iddo.

NODIAD XV.

Y CYNHEDDFAU DWYFOL. T. D. 85.

Sylwer fod gwahaniaeth pwysig rhwng y termau Perffeithder, Priodoledd, a Chynneddf, a gymhwysir gan ddiwinyddiaeth at yr Hanfod Dwyfol, a'r Drindod Sanctaidd. PERFFEITHDERAU a ddefnyddir i osod allan y nodweddion a briodolir gan Dduw iddo Ei Hun. PRIODOLEDDAU, y nodweddion a briodolir i Dduw gan ei creadur, trwy hyfforddiad datguddiedig. CYNHEDDFAU yw a ddefnyddir i osod allan berthynas fewnol a dirgeledig Personau y Drindod Lân.

1. Cynheddfau personol y Tad ydynt:—Nad yw genhedledig na deilliedig o neb na dim. Nad yw genhedledig na deilliedig ohono Ei Hun. Nad yw genhedledig o na'r Mab na'r Yspryd Glân. Efe yw Tad y Mab yr Hwn y darfu iddo Ef Ei genhedlu o dragwyddoldeb. Y mae yr Yspryd Glân yn deilliaw oddiwrtho o dragwyddoldeb, a'i Yspryd Ef ydyw. Felly y Tad yw y Cyntaf, nid mewn amser, ond mewn trefn a gweithrediad. Y Tad sydd yn anfon y Mab a'r Yspryd Glân, trwy y rhai y gweithreda Efe.

2. Cynheddfau Personol y Mab ydynt:—Efe yw Unig-anedig Fab y Tad o dragwyddoldeb, heb Ei wneuthur na'i greu, eithr wedi Ei genhedlu. Y mae yr Yspryd Glân yn Yspryd y Mab megis y mae yn Yspryd y Tad. Y Tad a ddanfonodd y Mab, yr Hwn a'i datguddiodd Yntau. Gweithreda y Mab fel y

Tad trwy yr Yspryd Glân. Gwaith arbennig y Mab yw darparu trefn iechydwrïaeth.

3. Cynheddfau Personol yr Yspryd Glân ydynt:—Yspryd y Tad a'r Mab ydyw: heb Ei wneuthur na'i greu, na'i genhedlu, eithr yn deilliaw o'r Tad a'r Mab o dragwyddoldeb. Nid y Tad yw, er yr Un Duw a'r Tad. Nid y Mab yw, er yr Un Duw a'r Mab. Anfonir yr Yspryd Glân gan y Tad a'r Mab, a thrwyddo Ef y gweithredant. Ac megis mai y Mab a ddarparodd ac a berffeithiodd trefn iechydwrïaeth, felly swyddogaeth arbennig yr Yspryd Glân yw cymhwyso y drefn hono, yn fewnol ac yn allanol.

NODIAD XVI.

YR ANAMODOL. T. D. 86.

Y darnodiad athronyddol o'r anamodol, neu y diamodol (*the absolute*) yw yr hyn a fodola ynddo ac ohono ei hun, heb unrhyw berthynas o angenrheidrwydd âg unrhyw fôd arall. Bodaeth yw, na chyfyngir arni gan unrhyw ddeddf o'r tu allan iddi ei hun. Dywed Dr. Pope, yn ei *Compendium*, Cyf. I., t. d. 291), fod "Yr Hanfod Dwyfol, neu yr Anamodol, wrth Ei ystyried ynddo Ei Hun yn unig, i synied am dano fel Yspryd pur na chyfyngir arno gan nac amser na lle, yn anibynnol ar bob bouaeth arall, heb wybod ynddo Ei Hunan Perffaith beth yw cyfnewidiad."

NODIAD XVII.

(Gwel Nodiad VII. T.D. 34.)

NODIAD XVIII.

YR ANUWIAD. T. D. 97.

Anuwiaeth, neu Atheistiaeth yn ei hystyr fanol, sydd wadiad o fodolaeth Duw Personol. Defnyddir y gair weithiau, mewn ystyr lac, i ddynodi coleddwyr syniadau gwrthwynebol i ddogmâu Eglwysig, ond y mae y cyfryw ddefnyddiad o'r gair yn amhriodol. Haerir nad yw y gair yn gymhwysadwy at ddiffynwyr cyfundrefnau athronyddol a gwyddorol, megis Oll-dduwiaeth, Materolaeth, Positifiaeth, ac Agnosticiaeth, ar y tir nad ydynt wrth-dduwaidd. Yn wir ceisiwyd noddi y rhai

diweddaf hyn dan gysgod gair newydd a fynnai ddynodi gwahan-iaeth rhyngddynt a'r anuwiaid trwy alw y nodwedd hwn o feddwl yn *atheous*=heb-dduwiaeth. Ei ddiffyg yw y glania y dosparth a gynrychiola yr un man yn union ag y gesyd y Beibl yr "ynfyd"—(Salm xiv. 1). Saif yr amheuwyr ar yr un tir yn y pen draw a'r anuwiad. Canys ameu Duw yw bod hebddo; nis gall dyn ameu yr hyn sydd yn feddiant ymwybodol iddo. Haerir gan rai fod anuwiaeth wirioneddol yn beth amhosibl. Dadleiai Victor Cousin hynny, "am fod bodolaeth Duw yn rhagdybiedig y'mhob haeriad. Os creda dyn yn ei fodolaeth ei hun, yna, rhaid iddo gredu yng ngallu y meddwl, a thyna yw Duw. Y mae pob meddyliaid yn rhagdybiad o ffydd naturiol yn Nuw." Cyfranoga yr Awdwr o'r un syniad. (Gwel y *Comp. of Christ. Theol.*, Cyf. I., t. d. 388.) Fod anuwiaeth hollol yn beth amhosibl i'r meddwl sydd wir, yn ddiau, mewn ystyr ddamcanol a rhesymegol, ond fel mater o ffaith ac ymarferiad, y mae yr haeriad yn agored i amheuaeth. Yn rhesymegol, rhaid addef Achos ac Egwyddor gyntaf. Eithr nid yw cydnabod hynny, o angenrheidrwydd yn gydnabyddiaeth o Dduw. Methwn a dirnad sut y gall yr hyn nad yw ond egwyddor resymegol ddansoddol fod yn ddim amgen na meddylldrych noeth,—ac nid meddylldrych yw Duw. Credai yr Agnostic Spenser yn yr "Egni tragwyddol" sydd o'r tu ol i ddelweddau ac ymddangosiadau anian, ond nid Duw oedd yr "anwybodadwy" hwn iddo Ef, ond fel y dywed un o'i ddisgyblion, "*force and matter etherialized. . . and sublimated.*" Nid yw Duw Dduw i neb yn ystyr Feiblaidd y gair, ond i'r sawl a'i sylweddola fel y cyfryw. Felly y mae y neb a wâd Dduw personol,—Dduw byw, yn anuwiad ymarferol.

NODIAD XIX.

GWYBODAETH REOLEIDDIOL. T. D. 98.

Cyfeiriad sydd yma at yr hyn a elwir gan Hamilton a Mansel yn "*Regulative Knowledge.*" Ystyr hynny ydyw nas gellir adnabod yr Anfeidrol fel Person, am fod person diamodol ac anfeidrol yn anrniadwy, ac o ganlyniad yn anwybodadwy. Ond y rhaid i ni gredu ynddo serch hynny, a chredu hefyd Ei fod yr hyn a ddatguddir yn yr Ysgrythur, yr hyn a gadarnhëir gan ein natur foesol. Ond nad ydym i feddwl fod hyd yn oed y dat-

guddiad Dwyfol yn ein dysgu yr hyn yw yr Anfeidrol ynddo Ei Hun, ond yn unig yr hyn a ewyllysia Efe i ni wybod am dano, a'r hyn a gynrychiola Efe Ei Hun yn y Gair, ac yn llyfr natur. Canys er na ddatguddia ein synhwyrâu bethau fel y maent i ni, ond fel yr ymddangosant yn unig, gellir ymgysuro wrth gofio fod yr ymddangosiadol yn fynegiant cywir o'r sylweddol. Mynnant gan hynny mai "rheoleiddiol" yw ein gwybodaeth, hynny yw, ei bod yn ddigonol gywir i reoleiddio ein meddwl a'n moes. Arweinia y fath ddamcaniaeth i ganlyniadau difrifol, canys os nad yw ein meddyliau am yr Anfeidrol yn gyson ac yn unwedd a'r gwirioneddol (*real*), y mae Awdwr ein galluoedd meddyliol yn ein gorfodi i gredu yr hyn nad yw wir. (Gwel y *Compendium*, Cyf. I., t. d. 245.)

NODIAD XX.

MONARCHIAETH. T. D. 100.

Monarchiaeth sydd enw a ddaeth i gylchrediad trwy ei ddefnyddio gan Tertullian i ddynodi heresi yr Unbenaethwyr (*Monarchians*), neu Undodwyr Cristionogol, yn yr ail ganrif. Eu daliad ydoedd uwchafiaeth y Tad yn y Drindod Sanctaidd yn wrthgyferbyniol i'r athrawiaeth uniongred a dysgai bersonoliaethau gwahaniaethol ond cyd-ogyfuwch.

Enillodd yr athrawiaeth am Berson yr Arglwydd Iesu Grist sylw boreu, yn enwedig y'mhlith y dosparth mwyaf meddylgar o'r Eglwys. Danghosai yr athrawiaeth Apostolaidd seml a dderbynasid yn dra chyffredinol hyd yn hyn arwyddion llygriad, dan ddylanwad dysgeidiaeth Philo, yr Iddew enwog, yr hwn yntau oedd wedi ei lyncu, megis amryw o'i gydoeswyr gan athroniaeth Plato. Hyd yn hyn, serch hynny, gwyddai yr Eglwys yn dda beth ydoedd gwerth crefyddol ei ffydd yn ei hunig Arglwydd, i'r Hwn y talai y warogaeth uchaf, gan ei addoli fel Duw. Yr oedd yr awr wedi dyfod pryd yr oedd yn rhaid i'r Eglwys ddefinio ei hathrawiaeth parthed perthynas Personau y Drindod, canys yr oedd dysgeidiaeth lluaws yn prysur ymrisial-eiddio i ffurfiau peryglus eisoes. Pa mor uniawngred bynnag ydoedd calon yr Eglwys, profodd yn dra boreu fod ei hymgais i gorffori ei chredo mewn termau cymeradwy gan reswm noeth yn beth agos i anichonadwy, os nad hollol felly ar rai pwyntiau. Yr oedd y pwys anochelgar a roddid ar berthynas y Tad, a'r

Mab, a'r Yspryd Glân wedi arwain lluwys eisoes i diriogaeth Tri-Dduwiaeth. Dilynwyd hynny gan ymrafaelion ac ymran-iadau. Y'nghanol y rhain y cododd yr Henadur PRAXEAS i amlygrwydd (o.c. 160—180) trwy wrthdystio ohono yn erbyn Tri-Dduwiaeth y ffydd Gatholig, ac yn ei sel arweiniwyd ef i'r eithafion gwrthgyferbyniol, trwy wadu ohono y gwahaniaethau personol yn y Drindod. Haerai fod Duw yn ddatguddiadwy trwy gyfrwng tri *prosôpa*—wynebau, neu weddau a gynrychiolir gan y Tad, a'r Mab, a'r Yspryd Glân. Myntumiai nad yw yr enwau hyn amgen na gwahanol foddau amlygiad yr Un Hanfod Dwyfol a Phersonol. Yn unol â hyn, dysgai mai y Tad ydoedd a ddaeth yn ddyn, yr Hwn yng Nghrist a ddioddefodd, ac a fu farw. Dilynwyd ef gan NOËTUS o Smyrna (o.c. 200). Yn nesaf cafodd yr heresi nawddogaeth y Pab CALIXTUS I., yr hwn yntau a'i cariodd i eithafion pellach fyth, trwy haeru ohono mai dim ond amlygwedd yn unig o'r Tad ydoedd Crist, ar ffurf dyn, o ba herwydd y gelwir yr heresi hon yn Dad-ddioddefaeth, neu Patripasiaeth, hynny yw, mai y Tad a ddioddefodd pan y bu Crist farw. Cyrhaeddodd yr heresi ei phwynt uchaf o ddad-blygiad yn nysgeidiaeth Sabellius, Henadur o Smyrna (o.c. 257), oddiwrth yr hwn y'i galwyd yn Sabeliaeth. Yr oedd dysgeidiaeth Sabellius wedi ei thrwytho â'r syniad Stoicaidd o bresen-oldeb y Logos neu y Rheswm Dwyfol yn y byd, fel ei enaid; moddau amlygiad yr hwn oedd trwy gyferbyniaeth o'r mynegiadol i'r distawol, o'r eangiadol i'r cyfyngiadol. Dysgai fod Duw Ei Hun yn anadnabyddus am byth, ond fel yr amlyga Efe Ei Hun yn y Tri Modd amlygol a rhannol, neu y Tair Goruchwyliaeth, fel y galwai efe hwynt, sef y Tad, a'r Mab, a'r Yspryd Glân. Mai y modd cyntaf hwn—y Tad—a lywodraethai yn ymarferol trwy ystod yr hen oruchwyliaeth Iddewig; yr ail fodd, y Mab, trwy ystod gweinidogaeth Crist; y trydydd, yr Yspryd Glân, trwy ystod yr oruchwyliaeth Gristionogol, ac yna ar ol y dirwyn-nir popeth i fyny y trydd yr oll yn ol i'w ddistawrwydd cyntefig, er cychwyn ar hyd yr un cylch o amlygiad drachefn. Gwelir wrth gymharu Monarchiaeth yn ei ffurf gyntefig â'r hyn ydoedd yn ei llawn dŵf, yr ymranna i ddwy ran, sef yr un ALLOFYDDOL (*Dynamic*), yr hon a esyd allan Dduwdod Crist fel gallu cyfran-edig iddo; a'r un FODDAWL (*Modalistic*), dysgeidiaeth yr hon yw mai Duw y Tad a ymgnewdolodd, gan hynny, mai MODD yn unig ar y Duwdod oedd yr ymgnewdoliad. Gwrthododd yr

Eglwys yr heresi hon yn gyfangwbl, yn enwedig yng Nghymanfa Nicea. Ceir arwyddion amlwg y lefeinir diwinyddiaeth ddiweddar â'r heresi hon, yn enwedig eiddo yr Almaenwr Schliermacher, a hyn yw osgo amlwg dysgeidiaeth yr Awdwr Americanaidd, y Dr. W. N. Clarke, yn ei athrawiaeth am y Drindod.

NODIAD XXI.

DEUOLAETH. T. D. 105.

Deuolaeth yw y ddamcaniaeth wrthgyferbyniol i un-sylweddaeth (*monism*), yr hon a ddarostynga yr oll y sydd i ddim ond un egwyddor sylfaenol. Ceisia deuolaeth roddi cyfrif am y sydd trwy ganiatáu dwy egwyddor hollol anibynnol a gwrthgyferbyniol, y rhai a amlygir mewn athroniaeth fel mater ac yspryd; mewn meddyleg fel corff ac enaid; mewn moeseg fel da a drwg; ac mewn diwinyddiaeth fel Duw a'r byd.

NODIAD XXII.

CONCURSUS. T. D. 119.

CONCURSUS=Cydweithrediad sydd air y gwnaed defnydd helaeth ohono gan yr ysgolwyr a'r diwinyddion Lutheraidd er ceisio esponio trwy ddamcaniaeth seiliedig ar y gair hwn y berthynas a fodola rhwng yr Achos terfynol, sef Duw, a'r hyn a elwir yn ail-achosion—neu yn achosion effeithiol. Cynygiwyd amryw ddamcaniaethau er cyfarfod â'r anhawster addefedig a gyfyd o geisio cysoni llywodraethiad y byd materol a moesol âg effeithiolrwydd ail achosion, a rhaid addef mai ffrwyth pob ymgais i esponio dirgelwch y terfyndir hwn rhwng gweithrediadau y Dwyfol a'r creadur yw gwneud t'wllwch yn d'wllach fyth. Darostyngid natur a dyn gan y ddamcaniaeth ddeistaidd i ddim ond peirianwaith a gerrir y'mlaen trwy weithrediad effeithiol deddfau sefydlog, a barasai yr Achosydd Mawr cyntaf i fod yn gynwynol ynddynt, gan eu gadael ar ol eu trefnu gyntaf i'w tynged eu hunain. Damcaniaeth arall—a fynnai briodoli pob gweithrediad anianyddol a moesol i weithrediad Achos cyntaf yn unig, ac nad yw pawb a phopeth amgen nag offerynnau trwy y rhai y gweithreda y Dwyfol. Wrth gwrs, arweiniai damcanion o'r fath yn uniongyrchol i Oll-Dduwiaeth neu reidiolaeth ddiam-

heuol. Cyflwynwyd damcaniaeth y *Concursus* i ddynodi Cyd-WEITHREDIAD yr Achos Cyntaf Dwyfol â gweithrediadau deddfau sefydlog i gynyrchu effeithiau penodol. Addefir hynny yng Ngair Duw. Ond pa fodd? Dysga damcaniaeth y *Concursus* mai Duw yw yr Achos Cyntaf; yr hwn a rydd i ail achosion y gallu i weithredu; mai yr Achos cyntaf hwn sydd yn cynhyrfu ac yn penderfynu gweithrediadau ail achosion, ac fod pob gweithrediad o'r eiddynt yn rhagbenderfynadwy. Wrth geisio osgoi un anhawster crëa rai ereill. Yn ol y *Concursus*, yr hyn sy'n digwydd sydd i *fod*, rhwymir yr ewyllys yn hualau rheidrwydd, a throsglwyddir y cyfrifoldeb am ddrwg a da y gweithredydd, yn y pen draw i Dduw, yr Achos Cyntaf! Diau mai nid dyna yw dysgeidiaeth datguddiad. Digon i ni yw gwybod fod y byd a'i gyflawnder, ei gynllun a'i ddeddfau, ei drefniant a'i gynhaliaeth, dan ofal y Rheolydd Perffaith, er y camgymhwysir ei ddeddfau yn fynych gan Ei greadur amherffaith.

NODIAD XXIII.

“ATHEISTIAETH RHESWM DALL.” T. D. 121.

Y syniad yw fod anghysonderau ymddanghosiadol trefn Rhag-luniaeth yn arwain rhai i afael y syniad deuolaidd o fodolaeth dwy egwyddor sydd yn dragwyddol wrthgyferbyniol i'w gilydd,— un yn dda a'r llall yn ddrwg, y rhai a fu, sydd ac a fydd yn anghymodadwy, yr hyn yw atheistiaeth rheswm dall, am nas cenfydd yr egwyddor ddisgyblaethol a ddygir i mewn i adfydau bywyd, ac na fyn gydnabod na bodolaeth na doethineb y Disgyblydd Mawr, llaw yr Hwn a lywia'r wialen.

NODIAD XXIV.

POSITIFIAETH. T. D. 123.

Positifiaeth yw yr enw a roddir i gyfundrefn athron-grefyddol Auguste Comte, a aned yn Montpellier, Ffraingc, 1798. Hanasai Comte o deulu Pabyddol. Danghosodd arwyddion bore o feddwl effro a chyrrhaeddiadau anghyffredin. Ond, ysywaith, gŵyrodod at y gâu yn gynnar, canys yr oedd yn atheist professedig pan yn bedair-ar-ddeg oed. Llanwai y swydd o broffeswr yn yr Ysgol Gelfyddydol pan yn un-ar-bymtheg oed. A chyn ei fod yn bump-ar-hugain yr oedd ei glod yn Ewropeaidd. Pan yn

bedair-ar-hugain oed efe a gyhoeddodd "Gynllun o'r Gweithiau angenrheidiol er ad-drefnu Cymdeithas," a dwy flynedd yn ddiweddarach, "Ystyriaethau ar y Gwyddorau a'r Doethowrion." Ystyrir y corfforir holl egwyddorion ei "*Philosophie Positive*" yn y ddau draethawd hyn. Cyhoeddodd ei "*Philosophie*" yn 1830—1842, a'i "*System*," &c., 1851—1854. Yr oedd ei gysylltiadau teuluol yn hollol anedwydd, gorweddai tlodi ac anhunedd, fel hunllef ar ei yspryd. Nid oedd ei gymeriad teuluol a phersonol amgen na "*Comedy of Errors*" o'r dechreu i'r diwedd. Nid oes ddadl nad oedd yn orffwyllog ar brydiau, canys amcanodd at hunan-laddiad ddwy waith. Ac yr oedd diwedd ei oes yn gyson â'i hanes blaenorol. Bu farw yn 1857. Nis gellir gwadu na chariodd ei gyfundrefn ddylanwad mawr dros feddwl Ewrob, ac y mae iddi luaws o ddisgyblion yn aros.

Egwyddorion sylfaenol y ddysgeidiaeth hon yw mai ffynhonnell pob gwybodaeth yw y synhwyrâu: nad yw meddwl ond ffurf ar fater, nad oes y fath beth yn bod ag effeithiau, nac achos cyntaf na therfynol, na Duw, nac enaid, nac anfarwoldeb; fod pob ymddanghosiyn yn ddarostyngedig i ddeddfau digyfnawid, ac mai swydd gwyddoriaeth yw cofnodi gweithrediadau olynol y deddfau hyn, a dim ond eu cofnodi; fod gweithrediadau y meddwl mor hollol anianyddol yn yr olyniant ohonynt, a gweithrediadau unrhyw ddeddfau ereill, ond y gofynnant fanylach sylw, er eu cofnodi yn gywir; ac os gellir trwy archwiliaeth ddigon manol sicrhau beth yw gwir ddeddf olyniant, y dylem allu rhagfynegu y dyfodol y'mhob cylch o wybodau gyda sicrwydd rhif a mesur.

Beth yw perthynas y ddamcaniaeth hon â chrefydd? Ei nod cychwynol yw yr â y meddwl dynol drwy "dair graddfa" ddadblygol olynol yn ei ymchwil am y gwirionedd cadarnhaol,—sef y raddfa Ddiwinyddol, yr un Uchaniadol, a'r un Bositifyddol neu Gadarnhâol. Dosrennir yr un Diwinyddol i dair rhan, sef y cyflwr eilun-ddewinaidd (*Fetishism*) yr hon, fel yr haera, yw y ffurf gyntaf ar athroniaeth ddiwinyddol, ac a olyga briodoliad ansoddau bywydol a deallol i bob math o wrthddrychau. Yr ail yw Aml-Dduwiaeth yn ei hamryfal ffurfiau, yr hon a ystyrir yn rîs ddyrchafol ar y raddfa. Yn drydydd Un-Dduwiaeth, wrth yr hyn y golyga Comte Iddewiaeth a Christionogaeth yn enwedig. Ystyrir mai Un-dduwiaeth yw y rîs uchaf ar y raddfa ddiwinyddol. Ond na ryfedder dim, canys "ffugiol" yw y raddfa hon

i gyd, yn ol yr Awdwr. Y raddfa ganol, fel y gwelir, yw yr un Uch-anianol, gwaith yr hon yw gwyntillio, beirniadu, a deoli; dangos geudeb y raddfa ddiwinyddol, gan wneud i fwrdd â chyfrin bethau y byd ysprydol, o Dduw i lawr i'r eilun symlaf, o'r archoffeiriad i'r dewin. Eto mynnir fod y raddfa ganol hon yn ddolen gydiol bwysig rhwng yr un ddiwinyddol a'r raddfa derfynol; ac wedi iddi gyflawni ei swydd trwy ysgubo oddiar y ffordd y duwiau a'r ysprydion, &c., cyflwyna i sylw y raddfa gadarnhaol (*positive*), yr hon mewn trefn hollol raddol yn ei gweithrediad fel y lleill, a'n tywys yn y diwedd i ororau rhewllyd anffyddiaeth broffesedig, gan ein gadael heb obaith ac heb Dduw yn y byd!

Er mor olygus y ddamcaniaeth, addefir gan wŷr o fri fod y "ddeddf fawreddog," gyda'r hon y cychwyna allan yn cael ei chlwyfo cyn pen y daith gan ei diffynnydd, er cyrraedd amcanion hunanol; a gosodir "*no thoroughfare*" ar rai o'r llwybrau y mynnai rodio ar hyd-ddynt. Beth yw y "ddeddf" hon mewn gwirionedd ond cymhwysiad o *Inductive Principle* Bacon at gylchoedd *etholedig*? Ac yn yr *etholedigaeth* hon y mae gwendid y ddamcaniaeth. Profa yn anffyddlaw'n i'w phroffes, am yr anwybyddia wir safle diwinyddiaeth, a hawliau uchaf natur ddynol. "Y mae ymddanghosiad afrifed meddwl, teimlad, ac ewyllys, yn gymaint ffeithiau ag yw at-dyniad, cyflyniaeth (*cohesion*), ac ysgogiad mymrynnol (*molecular motion*). Yr un ymwybyddiaeth a wiredda y ddau,—y naill fel yn perthyn i'r Myfi, a'r llall i'r Nid-myfi. Taera tystiolaeth cydwybod y torrir ar yr unoliaeth sydd rhwng y rhain; y cyd-redant hyd at bwynt penodol, ac yna yr ymwahanant, nid gan gymeryd dau lwybr, byd a fynno, canys fe erys gagendor anfesuradwy rhyngddynt. Byd sylweddol—gwirioneddol yw byd y syniadau, y dychymygion, y teimladau a'r cyffroadau, hollol ddigyfathrach â mater, a dylid delio âg ef fel y cyfryw. Causa Positifiaeth ei llygaid ar y ffaith gadarnhaol fod y byd delfrydol hwn yn llywodraethu y byd materol, ac nas llywodraethir mohono ganddo." (Gwel Pope's *Compendium*, Cyf. I., t. d. 395.) Y'mhellach, nid yw y gyfundrefn hon yn ffyddlon i'w "Chofnodiadau," canys tra y gwneir i fwrdd yn ei deddf ddadblygol a'r raddfa ddiwinyddol, try yn ol ati drachefn ar ol cyrraedd y *positive stage*, gan sefydlu "Crefydd Bositifyddol!" Gwna i fwrdd âg awdurdod, ond adsefydla yr ormes greulona. Dryllia allorau "Un-Dduwiaeth," ond crea dduw newydd, sef

Bywyd goreu,—“Bywyd cynlledig dynoliaeth,” yr hwn yn unig yw y Gwir Dduw. Crea obaith newydd,—anfarwoldeb,—yng nghof ein holynwyr ; a nefoedd newydd,—tragwyddol gwsg !

NODIAD XXV.

ACHOS CYNHENNID. (*IMMANENT CAUSE.*)

T. D. 123.

Achos Cynhennid, neu yr hyn a elwir gan ddiwinyddion Saesnig yn *IMMANENT CAUSE*, yw yr egwyddor ddeallol anghrëedig a dreiddia drwy holl gyrrau y cydfyd, i'r hon yr olrheinir gweithrediad yr hyn a elwir yn ail-achosion,—gallu ag sy'n hollbresennol y'mhob rhan o natur,—y'mhob temyg o ddefnydd y'mhob deddf, y'mhob dyn, y'mhob gweithrediad. Hon yn seml yw un o egwyddorion sylfaenol Oll-Dduwiaeth, gyda gwahaniaeth. Addefa Oll-Dduwiaeth holl-dreiddioldeb y gallu hwn trwy y bydysawd, ond mŷn wadu ei fod yn weithredydd personol. Ffurf ar natur yw achos cynhennid Oll-Dduwiaeth. Llywodraethwr natur yw achos cynhennid Un-Dduwiaeth. Y mae y gwahanieth yn un anherfynol. Arweinia y blaenaf at dynghedfen ddall, yr olaf at Reolydd deallol a moesol. Hawlir achos cynhennid gan yr athrawiaeth am Ragluniaeth, ond gwahaniaetha yn fawr oddiwrth un Oll-Dduwiaeth. “Megis y pâr y Creawdwr fod y cyd-fyd yn offeryn trwy yr hwn y cyflawna Efe Ei fwriadau, Efe a wylia dros ei weithrediadau, ac y mae Efe yn ddigyfrwng bresennol i'w holl weithrediadau a'i ddadblygiadau. . . . Y presenoldeb hwn o eiddo y Tragwyddol sydd wrth wraidd bodaeth grëedig yw yr hyn a elwir gan athroniaeth yn achos cynhennid, neu fewn-breswylad Duw, megis yn gyferbyniol i, neu yn gyfunedig âg uch-breswylad (*transcendency*). . . . Y mae Duw yn bresennol y'mhob peth, yng ngweithrediad pob grym anianyddol, ac yng ngweithrediad yr hyn sydd uwchlaw grym anianyddol, sef bywyd, yn y bywyd hwnnw sydd gan ddyn yn helaethach na'r anifail a ddifethir, y'mhob ysgogiad o eiddo meddwl rhydd dyn sy'n darddiad i'w feddyliau,—fel ACHOS CYNTAF: nid y cyntaf mewn trefn o flaenoriaeth yn unig, ond y cyntaf hefyd mewn trefn o effeithiolrwydd. Hyn yw Ei wir Fewn-breswylad gwirioneddol. Ond y mae Duw yn bresennol trwy AIL-ACHOSION, i weithrediad y rhai fel deddfau sefydlog

natur anianyddol,—y trosglwyddodd Efe y bydysawd,—hyn yw Ei wir Uch-breswyliaid. (Gwel y *Compendium of Christian Theology*, Cyf. I., t. d. 439.) “Wrth Fewn-breswyliaid,” ebe Dr. W. N. Clarke, “y golygir Ei fod (Duw) y’mhob man, ac yn bresennol yn wastad yn y bydysawd, nad yw Efe byth yn apsenol oddiwrtho, byth yn ddidoleddig oddiwrth ei fywyd. Wrth Ei Uch-breswyliaid y golygir, nid (fel ei cynrychiolir weithiau) Ei fod o’r tu allan i’r greadigaeth, ac yn ei harolygu fry ac uwchlaw iddi, eithr nad yw gauedig ynddi, nas cyfyngir mohono ganddi, nad yw ofynnol iddo Ef yn yr oll ag yw i’w chynnal a’i threfnu. Wrth y ddau gyda’u gilydd y golygir Ei fod Ef yn Yspryd rhydd, yn preswyllo yn y greadigaeth, ond uwchlaw iddi,—yn preswyllo ynddi megis y mae Efe yn wastad yn y greadigaeth, ac yn preswyllo uwchlaw iddi, megis y mae Efe yn wastad yn anibynnol ar ei therfynau hi, ac yn abl i weithredu arni. . . . Y mae y naill syniad yn angenrheidiol i’r llall. Uch-breswyliaid heb Fewn-breswyliaid a roddai ini Ddeistiaeth oer a diffwrwyth; Mewn-breswyliaid heb Uch-breswyliaid a roddai ini Oll-Dduwiaeth dynghedfennol a pharlysol. Eithr nid yw y naill heb y llall; cyd-fodola y ddwy yn Nuw.” (*Outlines of Christian Theology*, t. d. 130.)

NODIAD XXVI.

DELFYRDIAETH. T. D. 125.

Y mae Delfrydiaeth (*Idealism*) wedi ymweddu i amrywiol ffurfiau o ddyddiau yr Esgob Berkeley i lawr hyd yr awr bresennol. A chan nad pa faint o wahaniaeth sydd rhwng dysgeidiaeth ochelgar yr Esgob ag eiddo Delfrydwyr eithafol diweddar, arweinia i’r un canlyniadau, yn y pen draw. Haeriad Delfrydiaeth yw mai dim ond meddylddrychau (*ideas*) yn unig yw gwrth-ddrychau allanol canfyddiad, felly nad oes gennym wybodaeth uniongyrchol o’r gwrthddrychol,—mai dim ond argraffiadau yw y cyfan. Dadl y delfrydydd, gan hynny, yw mai yr oll yr ydys yn sicr ohono ydyw y syniad neu y teimlad a gynrychir gan ymddanghosiion, o’r hwn y mae dyn yn ymwybodol; felly, nas gellir profi i sicrwydd fodolaeth unrhyw sylwedd o’r tu cefn i’r ymddanghosiion a effeithiant ar ein synhwyrau. Arweinia y ffurf eithafol o’r ddamcaniaeth, fel ei dysgir gan athronyddion yr Almaen, i anuwiaeth hollol. Gesyd Lewes allan nodweddion

hon yn darawiadol: "Yr wyf," ebai, "yn gweled coeden; dywed yr eneidegwr cyffredin wrthyf fod tri pheth yn dybiedig yn y ffaith welediadol hon, sef coeden, delw o honi, a meddwl a ymsymia am y ddelw honno. Dywed Fichte wrthyf mai dim ond myfi yn unig sy'n bodoli. Y goeden, a'r ddelw ohoni, yr un ydynt, sef dullweddiad o fy meddwl i. Dyma yw *Delfrydiaeth ddeiliadol*. Dywed Schelling wrthyf fod y goeden a'r myfi (*Ego*) neu yr hunan, yn fodolaethau cyfartal sylweddol, neu ddelfrydol (*ideal*); eithr nad ydynt yn ddim llai nag amlygiadau (*manifestations*) o'r hollol, yr anfeidrol, a'r diamodol. Dyma yw *Delfrydiaeth wrthddrychol*. Ond dywed Hegel wrthyf fod yr eglurhadau hyn i gyd yn dwyllodrus. Yr unig beth sydd yn bodoli yn wirioneddol (yn y ffaith welediadol hon) yw y syniad neu y berthynas. Nid yw yr *Ego*, a'r goeden, amgen na dau derm y berthynas, i'r hon y maent yn ddyledus am eu dilysrwydd. Dyma yw *Delfrydiaeth hollol*. Yn ol hon, nid oes yn bod na meddwl na mater, nef na daear, Duw na dyn."—*Biographical History of Philosophy*, Cyf. IV., t. d. 209. Fel y sylwa y Dr. Pope, syrth y fath ddysgeidiaeth i'r llawr ger bron y dystiolaeth ddarfod i'r greadigaeth faterol gael ei ffurfio cyn bod unrhyw greadur i dderbyn ei hargraffiadau; ac y mae Genesis yn cadarnhau greddf gyffredinol dyn yn y gwirioneddol, ac yn y sylwedd sydd o'r tu hwnt i ymddanghosion mater. Ac â hyn y cytuna dysgeidiaeth oreu gwyddoriaeth ddiweddar.

Priodol adgofio y darlennnydd y cymhwysir y gair Delfrydiaeth at y cyfundrefnau athronyddol hynny a addefant fodolaeth wirioneddol mater a meddwl, y rhai sy'n sylfaenedig ar egwyddorion cyntaf ymwybyddiaeth.

NODIAD XXVII.

SPINOZA. T. D. 125.

Hannai Baruch, neu Benedict Spinoza, o deulu Iddewig. Ganwyd ef yn 1632, yn Amsterdam, lle y ciliasai ei deulu rhag erledigaeth crefyddol a godasai yn Portugal. Danghosodd yn fore ei fod wedi ei gynysgaethu â galluoedd meddwl uwchraddol, ac â barn anibynnol. Ar ol astudio Rabiniaeth, troes ei feddwl at athroniaeth. Daeth dan ddylanwad Descartes, firwyth yr hyn ydoedd iddo droi ei gefn ar draddodiadau ei dadau. Gwnaed pob ymgais i'w gadw dan ddylanwad y Synagog, ond profodd yr

oll—ac hyd yn oed gerydd a chynigiad llwgr-wobrwyon yr un mor aneffeithiol. Esgymunwyd ef o'r Synagog yn bump-argugain oed, dan felldith deirplyg ei drâs. Cafodd lawer o'i erlid o le i le, eithr cafodd nawddogaeth ereill, a chododd i fri. Bu farw yn yr oedran cynarol o bedair-a-deugain. Cyhoeddodd amryw weithiau pwysig—y pennaf o'r rhai yw ei "*Foesau*." Y gyfundrefn Oll-Dduwaidd fwyaf cyson a gyhoeddwyd erioed, fel yr honna rhai. Egwyddor arweiniol ei ddysgeidiaeth yw fod yr oll y sydd yn ddarostyngedig i Un Sylwedd angenrheidiol,—yr unig fodaeth sylweddol, yr hon a gynhwysa yr oll y sydd, ac o'r hon nid yw pobpeth a welir, a phob bôd arall, neu weithrediad namyn moddau yn unig. "Canys," ebai, "pa beth bynnag y sydd, yn Nuw y mae; ac heb Dduw nis gall dim fod, ac nis gall dim fod yn ddirnadwy." Myn nas gellir dirnad y sylwedd hwn ond trwy gyfrwng priodoledau aneirif, "pob un o'r rhai a ddynodant hanfod tragwyddol ac anfeidrol," ond ei fod yn ddirnadol i ni trwy ddwy brif briodoled—sef *meddwl* ac *eangder*. Amcan defnyddiad y ddwy "*briodoled*" hyn yn ddiau ydoedd i osod allan y ffaith o fodolaeth angenrheidiol yr Un Sylwedd hanfodol, yr hwn nis gellir dirnad am dano fel yn ddifôd. Trwy egni dadansoddol—a thrwy eu diosg o'u priodoledau, fe a ellir dirnad pethau ereill fel yn ddifôd,—haul, daear, &c. Ond nis gellir dirnad am y fath beth a ddiddymdra. Wrth geisio synied am ddiddymdra—fe erys dau beth ar ol er gwaethaf y cwbl—y *meddwl* ymsyniol a *lle*. Fe erys y meddwl a lle, gan hynny, fel syniadau angenrheidiol. Nis gellir eu difodi. Ond ffurf ar feddwl, ebe Spinoza, yw *yr oll*, felly nid yw y person unigol, fwy na'r pethau a welir, ond un o foddau y Sylwedd tragwyddol. Y mae yn canlyn nad yw "da" a "drwg" yn ddim byd cadarnhaol—dim ond moddau ar yr ewyllys Ddwyfol; felly gwneir i ffwrdd â chyfrifoldeb yn llwyr.

Tra y dyry Spinoza syniad ardderchog am y presenoldeb Dwyfol, Oll-dreiddiol a leinw y greadigaeth, a'r oll sydd ynddi, y mae yn ymarferol wadu bodolaeth Duw personol, a rhyddid, gan arwain i dyngedfen ddiamheuol. Nid yw pobpeth i Spinoza ond amlygiad yn unig o'r un sylwedd diamodol, yr hwn yn y pen draw nid yw amgen na Bodaeth noeth.

NODIADAU XXVIII. A XXIX.

Y REATUS CULPÆ A'R REATUS PÆNÆ.

T. D. 132.

Cynhwysa euogrwydd ddwy elfen, sef (1) y REATUS CULPÆ=Euogrwydd y bai, yr hyn a olyga fod y gweithredydd yn ymwybodol mai efe a gyflawnodd y trosedd, ac o ganlyniad yn ymwybodol ei fod ar fai. Efe a wŷr mai efe ei hun yw y gweithredydd a'r achosydd o'i ddrwg. Yn (2) yr elfen arall yw, y REATUS PÆNÆ=Euogrwydd y gosp. "Myfi a'i gwnaeth" yn y cyntaf; "Rhaid i mi fod yn atebol am dano" yn yr ail. Darnodir euogrwydd weithiau fel dim ond rhwymedigaeth i ddioddef y gosp. Y mae hynny yn wir cyn belled ag y darnoda y cyflwr meddwl hwnnw sy'n dilyn camwedd, ac yn ffrwyth naturiol iddo. Ond y mae euogrwydd ynddo ei hun yn blaenori y ffrwyth ohono. Sylwa y Dr. W. N. Clarke yn dra phriodol ar hyn, "Euogrwydd," meddai, "yw y beuswydd personol sydd yn dilyn y cyflawniad o bechod. Y mae yn gynhwysedig yn y ffaith mai y person dan sylw yw cyflawnydd y weithred, ac ar yr hwn y gorffwysa y bai, ac ar yr hwn y rhaid iddo orffwys. Y fath, er engraifft, yw euogrwydd am lofruddiaeth. Nid rhwymedigaeth i ddioddef cosp yn unig ydyw, y mae hwnnw yn syniad camarweiniol, ac yn un tra israddol. Amcan prawf (*trial*) yn llŷs y drwg-weithredwyr yw sicrhau pa un ai yw y cyhuddedig yn euog, hynny yw, ai efe yw y dyn a gyflawnodd y weithred ddrwg mewn cwestiwn. Os mai ë, yna y mae y rhwymedigaeth i ddioddef yn dilyn, ond nid yw yn unrhywiol âg euogrwydd." (*Outlines of Christian Theology*, t. d. 246.

NODIAD XXX.

Y SYNIAD OLL-DDUWAIDD A'R UN DEUOLAIDD
AM BECHOD. T. D. 153.

Yn ol Oll-Dduwiaeth, cyfyngiad y natur feidrol yw pechod,—damcaniaeth yr hon, yn y pen draw a ddiddyma bechod fel y cyfryw yn gyfan-gwbl, canys soddri y syniad o bechod yn y dybiaeth gyffredinol o ddadblygiad angenrheidiol natur pethau, yr hyn yw Duw, yr Unig Sylwedd tragwyddol, yr Hwn a ymddadblyga yn y ddeufodd o feddwl a mater. Ni oddefa y ddamcan-

iaeth hon y fath beth a chreadur, yn yr ystyr fanol o'r gair, gan nad yw yr oll y sydd ond amrywiol weddau ar yr Un Bôd sylwedol. Nid yw y creadur terfynol ond terfynol mewn amlygiad ymddanghosiadol yn unig, yn ystod pa gyflwr y mae yn ddarostyngol i gyfyngiad, yr hyn yw pechod! Felly, nid edwyn Oll-Dduwiaeth na phechod na rhwymedigaeth foesol; ni chydnebydd ond yn unig yr angenrheidrwydd tragwyddol o gyflawni (trwy agweddau o ddrwg uch-ddansoddol—*metaphysical evil*)—tynged amserol y peth a elwir yn greadur, trwy gyfres o gyfyngiadau a elwir yn bechod, a'r hyn yn y pen draw nid yw amgen na chyfyngiad mewn amser ar yr Unig Fôd! (Gwel y *Compendium*, Cyf. II., t. d. 22.)

Y syniad Deulaidd ydoedd y bodola dwy egwyddor angenrheidiol o dda a drwg yn y cydfyd,—dan yspryd personol, anibynnol yn eu harglwyddiaeth, y rhai sydd mewn ymgyrch barhâus, a'r rhai y gelwir ar bob creadur i ddewis cydrhyngddynt. Ar yr egwyddor hon yr oedd y grefydd Bersiaidd gynt yn sylfaenedig, ac ymddanghosodd gyda gwahaniaethau pwysig yn naliadau y Gnosticiaid a'r Manicheaid. Myn yr Awdwr fod tuedd yn y grefydd Bersiaidd, er gwaethaf ei deuoliaeth, i ymgodi at yr Un Hanfod Tragwyddol sydd o'r tu ol i'r ddwy egwyddor hyn, yn yr hwn yn y diwedd yr ymgyfarfyddant mewn cymod, ac fod ynddi awgrymiadau mai trwy weithred o eiddo Ei ewylls y syrthiodd Ahriman (yr egwyddor ddrwg), megis Satan. Yr hyn sydd yn ynganiad distaw o argyhoeddiad dwfn rheswm y bodola Un, ac y rhaid i Un Perffaith fodoli, a chan nad beth yw ffynhonnell y drwg, ei fod yn hollol feius, ac yn wrthdarawol i'r hyn y gŵyr dyn sy'n iawn, neu mai y gwaethaf yw pechod, yr hwn sy'n dragwyddol wrthdarawol i'r gwell. (Gwel Pope's *Compendium*, &c., Cyf. II., t. d. 21—22.)

NODIAD XXXI.

Y ZEND. T. D. 153.

Y ZEND ydoedd hen grefydd Persia gynt, a'r hon, erbyn hyn, ni phroffesir mohoni ond gan uifer gymharol fychan yn Persia, ac yng Ngorllewin India gan ddisgynyddion y rhai a ymsefydlasant yno trwy ffoi ohonynt rhag yr erledigaethau Mahometanaidd yn y seithfed ganrif, o.c. Y ZEND priodol, neu y ZEND-AVESTA, ydynt lyfrau cysegredig y sect grefyddol hon, yn y rhai y

corfforir dysgeidiaeth ei phrif broffwyd ZOROASTER, mewn hanes, moes, llywod-ddysg, emynnau a gweddïau, &c., &c. Ni wyddis ond y nesaf peth i ddim am Zoroaster, heblaw y blodeuai yng nghyfnod cyn-hanesiol yr amherodraeth Iranëaidd a derfynodd tua 550 c.c., yn adeg sylfaeniad teyrnas y Mediaid a'r Persiaid. Diau ddarfod i Zoroaster ddysgu a chadarnhau crefydd llawer mwy ysprydol nag a ffynnai yn y tir cyn ei oes ef, gan osod ohono bwys arbennig ar foes uchel. Corffora y Zend y ddysgeidiaeth a ganlyn:—1. Unoliaeth dragwyddol Duw, yr Hwn sydd cyn pobpeth, ac yn yr Hwn y mae pobpeth yn bod. 2. Fod y bydysawd yn grëedig; felly y creadur, yr hwn a erys am byth ar wahân i'r Creawdwr. 3. Fod y greadigaeth yn gyfansoddedig o yspryd a mater; mai sylwedd marw yw mater, analluog o na drwg na da; fod yr yspryd yn alluog o'r naill a'r llall. Y ffynna trefniant ysprydol, yr hwn sy' ddeublyg, mai ORMUZD (yr Haul Mawr) yw ffynhonnell y goleuni a'r daionus, ac mai Efe yw Llywodraethwr tragwyddol ysprydoedd y rhai da; ac y teyrnasa AHRIMAN (llywodraethwr y tywyllwch) dros y drwg a'r ysprydion drwg, tra y pery amser. 4. Fod dyn yn gyfansoddedig o gorff ac enaid. 5. Fod cerydd yn aros yr euog, a gwobr y cyfiawn. 6. Fod y cerydd hwn i wellhau y drwg moesol, o'r hwn y tardd, tra yn y fuchedd bresennol, ac fod y wobwr yn dragwyddol. 7. Mai Duw sydd yn dwyn y'mlaen lywodraethiad y byd moesol. 8. Y gofala Duw felly am ddyn megis y datguddia Efe Ei ewyllys iddo, yr hon sydd gorfforedig yn y ZEND.

NODIAD XXXII.

MANICHĒAETH. T. D. 153.

Manichëaeth ydoedd y Gyfundrefn Grefyddol sylfaenedig ar ddysgeidiaeth MANES neu MANICHÆRUS, a aned yn Persia 215 o.c. Dechreuodd Manes,—tra nad oedd eto ond ieuangc,—i ymgyfaddasu tuag at fod yn arweinydd crefyddol, a theithiodd cryn lawer i'r perwyl o ymgynabyddu â chrefyddau gwahanol bobloedd. Ymddengys mai sylfaen ei ddygeidiaeth ydoedd y ddamcaniaeth ddeuolaidd Bersiaidd, er y corffora yn ei gyfundrefn gymysgfa o egwyddorion Persiaidd, Gnosticaidd, a Braminaidd. Daliai fod y byd yn faes ymgyrch i ddau allu gwrthgyferbyniol, sef y da a'r drwg, yr olaf yn cael ei gynrychioli

gan y tywyllwch, a'r blaenaf gan y goleuni; mai gwaith y gallu da yw yr enaid, a'r hwn yn wir sydd gyfran ohono; fod y corff yn darddedig o'r drwg, yr hwn a ddaliasai ac a gaethiwasai rai rhannau o'r goleuni. Y gallu da; y goleuni hwn, yw Duw, ac y mae yn berson; y mae yr egwyddor ddrwg hefyd yn bersonoliaeth, eithr nid yw Dduw. Gwaith y Gwaredwr yw rhyddhau y da o'i garchar, yr hwn yw y corff llygredig.

Yn ol y ddamcaniaeth hon, nid yw drwg moesol amgen na drwg naturiol neu anianol, sef llygiad yr enaid trwy ei gymundeb â'r corff materol. Gwedir drwg moesol, a phriodolir pechod i un o amodau angenrheidiol bywyd trwy ymyriad mater â'r enaid a'i alluoedd.

Cariodd Manichëaeth ddylanwad mawr am hir amser dros luaws o feddyliau, a phrofodd yn un o rwystrau pennaf Cristionogaeth, er nad yn broffesedig felly. Diau fod ei chysondeb drwyddi draw wedi bod yn hudoliaeth i lawer ei hanwesu; yn wir bu hyd yn oed Awstin dan eu dylanwad am dymor.

Tra yr eddyf y drwg, ni rydd y cyfrif priodol am dano. Myn ei fod yn gyfansoddiadol; felly rhaid iddo barhâu. Y mae mor angenrheidiol ag yw cysylltiad corff âg enaid. Hefyd, gwedy ansawdd foesol pechod. Gwedy Benarglwyddiaeth Duw, trwy ganiatau gallu arall anibynnol arno. Gwedy gyfrifoldeb dyn, trwy wneud pechod yn ffrwyth naturiol cysylltiad corff ac enaid; yr hyn sydd yn groes i ymwybyddiaeth y dyn ei hun, ac i dystiolaeth ddiamwys yr Ysgrythur Lân.

NODIAD XXXIII.

Y NATUR ANIANAIDD. T. D. 153.

Cyfranoga y ddamcaniaeth mai natur anianaidd (*sensuous nature*) y dyn sydd yn cyfrif am bechod, cryn lawer o'r hyn sydd gyffredin i Fanichëaeth, ac awgryma darddiad Gnosticaidd. Gwreiddyn y drwg, yn ol hon, yw yr ymrysonfa barhaus sydd rhwng y cnawd a'r yspryd; a mlyn fod goruchafiaeth y blaenaf dros yr olaf yn gyfrif am darddiad a natur pob pechod. Damcaniaeth y canoloesoedd ydoedd y cedwid yn ol y duedd bechadurus trwy ddawn goruwchnaturiol o gyfiawnder, yr hwn, o'i atal, a ryddhiai ac a osodai mewn gweithrediad chwant bechadurus y cnawd. Yr esponiad mwyaf llafurfawr ar y ddamcaniaeth yw eiddo yr Almaenwr Schleiermacher, yr hwn a esyd

yr ymwybyddiaeth o Dduw sydd yn y dyn yn wrth-gyferbyniol i'r hunan-ymwybyddiaeth yn ei pherthynas â'r byd. Yn ol y bwriad Dwyfol yr oedd y cnawd, neu yr ymwybodaeth o hunan yn y byd, i gael ei dwyn trwy ddadblygiad i berffaith ymstyngiad i'r ymwybodaeth o Dduw. Rhwystrowyd y dadblygiad hwn gan y cwmp; a'r wybodaeth o fethiant yn hyn yw yr ymdeimlad o euogrwydd, neu bechod. Ond yng Nghrist, y Dyn Perffaith, y mae yr ymwybodaeth o Dduw yn berffaith lywodraethol, a daw felly ynom ninnau trwy gymundeb âg Ef. Damcaniaeth fwy cyffredinol ar yr un egwyddor, ac un fwy rhesymol yw a sieryd am bechod yn syml fel ffrwyth roddiad i fyny yr ewyllys ar doriad gwawr cyntaf cyfrifoldeb ymwybodol, i lywodraeth y gwrthddrychau anianol hynny a gais ei hudo ar drothwy cyntaf bywyd, trwy yr hyn y diogela y fantais o apeliad cyntaf. Ond nis ceir y fath beth a chyfrifiad pechod i'r cnawd yn holl air yr Ysgrhythur. Pa wendid bynnag a briodolir i'r cnawd,—yr hyn a wneir yn fynych, dysgeidiaeth glir y Gair Dwyfol yw mai ffrwyth pechod yw hynny. Camddefnyddiad rhyddid gan yr ewyllys grëedig, yw yr unig esponiad ar bechod, sy'n foddhâol i reswm ac Ysgrhythur. Er hynny dylid cofio bob amser y perthyna i ANWIREDD ddirgelwch anesponiadwy. (Gwel y *Compendium*, Cyf. II., t. d. 25).

NODIAD XXXIV.

Y DDADL BELAGIAIDD. T. D. 154.

Prif arweinydd y ddadl Belagiaidd ydoedd Fynach Prydeinig o'r enw PELAGIUS, neu MORGAN; canys nid yw y cyntaf ond ffurf Ladinaidd yr enw Prydeinig, yn ol arferiad y dyddiau hynny. Ni wyddis ond y nesaf peth i ddim am ei faboed, ond mŷn traddodiad ddarfod ei eni yr un dydd a blwyddyn a'i gyd-oeswr enwog AWSTIN,—o Hippo, yr hyn a gymerodd le ar y 13eg o Tachwedd, o.c. 353. Ac y mae hyn yn gyson ddigon â'i addefiad o ddynesiad henaint pan y cyhoeddodd efe ei Esponiad ar yr Epistol at y Rhufeiniaid yn o.c. 404. Pa bryd y dechreuodd drigiannu yn Rhufen, ni wyddis, ond cawn ef yno yn sefydledig yn 404, ac yno yr ysgrifennodd efe ei Esponiad ar Epistolau Paul, y'nghyd âg amryw lythyrau pwysig. Cynhyddai ei ddyllanwad yn fawr y'mhlith pob dosparth, ar gyfrif ei ddysg a'i gymeriad uchel, ond cynhyrfwyd yr Eglwys i'w sail gan ei olygiadau am bechod a grâs. Cafodd ategydd galluog i'w syniadau

yn Cœlestius, gŵr o'r Iwerddon, yr hwn oedd yn Rhufen ar y pryd. Yn o.c. 410, blwyddyn darostyngiad Rhufen gan Attila y Gothiad, gwynebodd y ddau ar Affrica, lle y cyfarfyddodd Pelagius âg Awstin. Parodd eu syniadau gryn gyffro yn Eglwys Affrica, yr hyn a ddibennodd yn esgymuniad Cœlestius. Yn y cyfamser aethai Pelagius i Balestina, a rhoddwyd derbyniad rhyglyddol iddo gan yr Esgob Ioan o Jerusalem. Trwy ddygiad allan draethawd AWSTIN ar "Ddrwg-haeddiant Pechod," chwythwyd tân y ddadl yn fflam. Dilynwyd hwnnw gan JEROME, mewn "Cyd-ymddiddan yn erbyn Pelagiaeth," traethiad gwan, mewn yspryd eithafol afrywiog. Ac ofnwn pe cymerasid yspryd y "Sanct" ac yspryd yr "Heretic" yn safon uniongrededd, y gwrthdröid y ddedfryd am danynt. Gwedi blynyddau o ymfrwydro ac ymddadleu, condemnwyd Pelagiaeth yn ffurfiol yng Nghymanfa Carthage yn o.c. 418. Collir golwg ar Pelagius ar ol 420, ond cafodd ef a Cœlestius ddiffynnydd cadarn yn yr Esgob Italaidd Julian. Cafodd Pelagiaeth afael cryf ar yr hen Eglwys Brydeinig, a chydag anhawster y gwrthsefid hi, hyd nes ei chondemnio yn Synod Fawr Llan-Ddewi-Brefi, o.c. 519.

Maen-clô y gyfundrefn hon yw mai mesur cyfrifoldeb yw gallu cyfatebol. Dysga mai gweithred anibynnol ewyllys y person unigol yw trosedd; ddarfod creu Adda yn farwol; nad effeithiodd ei drosedd ond arno ef ei hun yn unig; y genir ei ddisgynyddion yn yr un cyflwr diniwed ag y crëwyd yntau; mai ffrwyth esiampl ddrwg yw pechod yn yr hiliogaeth; gan hynny, am fod dynion yn dyfod i'r byd yn rhydd oddiwrth effeithiau pechod Adda, neu heb y pechod gwreiddiol, ac fod ganddynt lawn rhyddid ewyllys i gyflawni yr hyn a ofynna Duw, y gallant, ac yn wir y gwna rhai fyw yn ddibechod; mai arwydd o'u cysegriad i Dduw yn unig yw bedydd plant, ac nid arwydd o lanhâd oddiwrth bechod, gan nad ydynt eto yn alluog i ddewis. Canys yn ol Cœlestius, "Nid o naturiaeth ond o ddewisiad," y mae pechod. Ni olyga grâs yn ol y ddysgeidiaeth hon angen na thuaddiad yr enaid, ac osgo y natur at y da: deddf Duw fel y cymhellydd i'r naill a'r llall, y'nghyd â dysgeidiaeth ac esiampl Crist. Nis addefa o gwbl y fath beth a grâs *mewnol* fel dawn dwyfol er puro y natur lygredig.

NODIAD XXXV.

SYNERGIAETH. T. D. 157.

Synergiaeth sydd air tarddedig o'r Roeg—*syn*, y'nghyd, ac *ergein* gweithredu,=cydweithrediad. Daeth y gair i sylw arbennig trwy ei ddefnyddiad gan MELANCHTHON a'i ddisgyblion er gosod allan gydweithrediad y dynol â'r Dwyfol, neu yr ewyllys ddynol âg Yspryd Duw yn nhroedigaeth pechadur. Angenrhaid ydoedd yr addefiad hwn er ceisio bod yn gyson wrth ddal at ryddid yr ewyllys, a'r cynygiad o iechydwriaeth gyffredinol. Dysgai yr Eglwys Lutheraidd ar y cyntaf, a Luther a Melanchthon yn bennaf, yr athrawiaeth o lwyr lygredigaeth y natur, a chwbl anallu yr ewyllys tuag at unrhyw ddaioni. Haerai Luther nas gallai dyn "fwy na cholofn o halen" ymgeisio at ddim ysprydol; a thystiai Melanchthon "fod pob peth a ddigwydda yn digwydd o angenrheidrwydd, yn ol rhagarfaethiad ddwyfol," hynny yw fel y sylwa un, "bradwriaeth Judas yn ogystal a throedigaeth Paul." Gwnelid dyn yn greadur cwbl oddefol, a'i iechydwriaeth yn gyfangwbl o ras penarglwyddiaethol Duw, trwy yr hwn, o'i ewyllys da, yr achubai Efe rai, ac ataliad o'r hwn oddiwrth ereill a barai eu bod yn wrthodedig—yn golledig. Amlwg yw yr arweiniai hyn yn anocheladwy i ragluniad diamodol i fywyd tragwyddol ar y naill law, ac i golledigaeth dragwyddol ar y llaw arall. Mewn gair, i reidrwydd a thyngedfen, a Duw, o ganlyniad, yn achosydd terfynol pechod ei greadur! "Grâs," ebai Awstin, syniad yr hwn a goleddid,—“Grâs sy'n blaenori; dilyn, ac nid arwain mae'r ewyllys. . . . O Dduw mae'r gweithrediad a'r cyd-weithrediad. Dawn a roddir yw grâs, a gweithreda yn anwrthwynebadwy ac yn anorchfygadwy—*operans indeclinabiliter et insuperabiliter*.” Nid rhyfedd yr haerai Pelagius na olygai y geiriau hyn amgen na “Thynged dan yr enw grâs.” Â hyn y cydolygai Melanchthon ar gyhoeddiad Corff Diwinyddol cyntaf yr Eglwys Ddiwygiedig, sef ei “*Loci Communes*,” &c., 1521. Ond yn y cyfamser, ac yn enwedig yn ystod y ddadl fawr ar y Sacramentau, 1534, aethai dan argyhoeddiad dwfn fod ei safle yn y “*Loci*” yn aniffynadwy, ac yn ei ail-argraffiad ohono yn 1538, rhydd le amlwg i Synergiaeth, gan hawlio ohono gydweithrediad yr Yspryd, y Gair, a'r ewyllys ddynol mewn troedigaeth. Mabwysiaada Arminiaeth Wesleyaidd dir canol rhwng y golygiad hwn a'r un Pelagiaidd. Cyhuddir hi weithiau

o fod yn hanner-Pelagiaidd o'r herwydd, eithr yn gwbl ddisail. Canys trwy ei hathrawiaeth o rās rhagfynedol, hi a gydnebydd mai o rās y mae y cyfan; grās Duw yw bywyd, gwreiddyn, rhuddyn, canghenau a ffrwyth y bywyd ysprydol; am hynny y mae yn wrthwyneb i Belagiaeth; ond dysg mai gras yw sy'n gynygiedig i bawb, a'r hwn y gellir ei wrthwynebu a'i ddiffodd, trwy yr hyn yr osgōa Awstinaeth, a'i rhagluniaethiad diamodol. "Deil fod yna gyflwr o natur, megis y mae yn wahaniaethedig oddiwrth gyflwr o rās a chyflwr o ogoneddiad, ac mai cyflwr o rās yw y cyflwr natur hwn,—grās rhagfynedol, yr hwn sy'n wasgaredig dros y byd, ac a ymwna â holl blant dynion: y grās hwn nid gweddillion y cwmp mohono, ond cyn belled ag y mae felly yn effaith a dawn y prunedigaeth. Deil mae rhagfynedol yw y grās neulltuol hwn o oleuni ac argyhoeddiad, edifeirwch a flydd, yn yr ystyr honno yn unig ag y syrth yn fyr o adenedigaeth; ac y llifeiria rhagddo i'r bywyd ailenedigol. Honna, gan hynny, y damcaniaeth o RAS PARHAOL ym mherthynas â'r rhai cadwedig. Ond yn yr athrawiaeth hon nid yr un grās yw pob grās yn y ffrwyth ohono, er mai yr un yw yr oll yn y bwriad dwyfol." (Gwel Pope's *Compendium*, Cyf. II., t. d. 390.) Gwelir gan hynny fod cryn wahaniaeth rhwng GRAS RHAGFYNEDEL, yn ol y syniad Arminaid ohono, a'r hyn a elwir yn "RAS CYFFREDINOL," gan y diwinyddion Calфинаidd. Nid yw yr olaf amgen na dylanwad cyffredinol yr Yspryd, cyffredin i bawb, a gwahaniaethir ef yn fawr oddiwrth y "GRAS EFFEITHIOL," yr hwn yn y cyfamod prunedigol "a sicrheir i bawb a roddwyd i'r Mab fel ei etifeddiaeth." Nid yw effeithiol i neb arall! Paham? Ai am nad yw Duw yn ewyllysio hynny? Dyna fyddai dyngedfen. Ai am nad ewyllysia dyn? Os felly, dewisiad y gwrthdrysych sydd i benderfynu ei dynged. Amcan terfynol pob ffurf ar rās Duw yw iechydwrriaeth dyn.

NODIAD XXXVI.

UWCH-GWYMPYDDIAETH AC IS-GWYMPYDDIAETH.

T. D. 171.

UWCH-GWYMPYDDIAETH,—Supra-lapsariaeth (o'r Lladin, *supra*, uwch, a *lapsus*, cwmp), yw y syniad Awstinaidd a Chalfinaidd am ragluniaethiad. Dysga "ddarfod i Dduw mewn trefn i arddangos Ei rās a'i gyfiawnder, ddewis o blith dynion

oeddynt i gael eu creu, nifer benodol i fod yn "llestri trugaredd," ac ereill i fod yn "llestri digofaint." Yn y drefn o feddwl y mae etholedigaeth a gwrthodedigaeth yn rhagflaen- orol i'r bwriad i greu ac i ganiatau y cwmp. Creadigaeth sydd mewn trefn i brynedigaeth. Crea Duw rai er eu cadw, ac ereill i'w colli; . . . tybia fod dynion fel y maent yn ddigwmp neu yn gyn-gwmpedig, yn wrthddrychau etholedigaeth i fywyd tragwyddol, a rhagordeiniad i farwolaeth dragwyddol." (Gwel HODGE, *System. Theol.*, Cyf. II., t. d. 316.) Yn ol hyn, fel y sylwa DR. A. A. HODGE,—yn *Bannau Diwinyddiaeth*, t. d. 222, "trefn yr arfaethau fyddai:—1. O bob dynion a allent ddyfod i fodolaeth arfaethodd Duw y'nghyntaf iechydwrriaeth rhai, a damnedigaeth ereill, er Ei ogoniant Ei Hun fel diben. 2. Efe a arfaethodd fel moddion i ateb y diben hwnnw greu y rhai hynny oeddynt yn barod wedi eu hethol, neu wedi eu gwrthod. 3. Efe a arfaethodd iddynt syrthio. 4. Efe a arfaethodd ddarparu iechydwrriaeth i'r etholedigion."

IS-GWYMPYDDIAETH,—neu fel ei gelwir weithiau, Ol-gwmpyddiaeth,=*Infra-lapsariaeth* (o *infra*, is neu ol, a *lapsus*, cwmp), sydd gymedroliad ar yr uchod. Yn ol y golygiad hwn "darfu i Dduw, er Ei ogoniant Ei Hun, arfaethu creu y byd, caniatau y cwmp, ethol o blith lluaus yr hil golledig dyrfa afrifed i fod yn llestri trugaredd, anfon Ei Fab Ei Hun i'w prynu, gan fyned o hono heibio i'r rhelyw, eu gadael i ganlyniadau cyfiawn eu pechod, a darparu o hono iechydwrriaeth i'r etholedigion." Gwelir y cysylltir y cwmp yn hon â'r caniatâd, yn lle â'r rhagordeiniad. Ond fel y sylwa DR. POPE, "Â yr addefiad hwn y'mhell tuag at ddarostwng Awstinaeth. Ymwrthyd â Phenarglwyddiaeth ddiamodol, yr hon nis gall gydsedfyll â dim ond yn unig ganiatâd i syrthio; datodir yr holl gyfundrefn pan y tynnir ymaith rwybau haiarnaid Penarglwyddiaeth." (*Comp.*, Cyf. II., t. d. 99.) Nid yw hon amgen nag ymgais methodig at glirio cymeriad Duw am greu creadur i'w ddamnio.

NODIAD XXXVII.

YR HERESIAU PARTHED DILYSRWYDD DWY
NATUR Y GWAREDWR. T. D. 179.

"Amrywiol y cyfeiliornadau Gnosticaidd yn fawr, ond cydunent yn gyffredin trwy wneud Duwdd Crist yn ddim ond

dyliad allan (*emanation*), a'r dyndod yn ddim ond ymrithiad o ddyn. Nid ydoedd y dwyfol ynddo ond *ÆON*=Oes-gylch, a'r dynol nid ydoedd gorff materol, ond rhith eneidol neu wybrennol, nad oedd a wnelo â Sylwedd y Wyrif. Am hynny, galwyd yr hereticiaid hyn yn *DOCETIAID* (o *dokein*=ymddangosiad neu rithiad). Yn y ffurf foreuaf o Ddocetiaeth, sef eiddo *CERINTHUS*, a gondemnir gan St. Ioan, yr oedd gan y Dyn Iesu wir gorff, ar yr hwn y disgynnodd y Crist yn Ei fedydd, i aros gydag Ef hyd Ei farwolaeth. Am hynny y dodir y pwyslais ar yr osodaeth Apostolaidd ddyfod Crist *yn y cnawd* (1 Ioan iv. 3): nid yn rhith cnawd. . . . Priodolai yr athrawiaeth am Berson Crist a goleddid gan *ARIUS*, Prespyter o Alexandria, ddechreuad i'r Fabolaeth Ddwyfol, trwy ewyllys Duw cyn bod nac amser na byd: yr oedd y Mab '*en pote 'hote o'uk 'en*=pryd nad oedd dim, a'i genhedlu a gafodd, nid tarddu, ond o ewyllys (Duw). Efe ydoedd y Creadur Cyntaf, er yn wahaniaethadwy oddiwrth y greadigaeth fel y Cyfryngwr rhwng Duw a hi. Rhydd Credo Nicea (o.c. 325) yn ei gosodiadau diffynol yr esponiad goreu ar yr heresi a gondemniat: *CENEDLEDIG NID GWNEUTHUREDIG; O'R UN SYLWEDD A'R TAD*. Daeth y term *Homooúision*—*O'R UN SYLWEDD*—yn arwyddair uniongrededd megis ei cynrychiolid gan Athanasius, a Chynghorfa Nicea. Lliniarwyd y term gan yr *HANNER-ARIAID* i *Homoioúision*, o *GYFFELYB SYLWEDD*. Y mae y gwahaniaeth rhwng y ddau air, er nas dynodir ond gan un lythyren, yn anherfynol mewn gwirionedd: nis gall un creadur fod mewn hanfod yn gyffelyb i Dduw. O Gynghorfa Nicea i lawr, ni ffynnodd un cymundeb o Ariaidd, nac un Credo Ariaidd, yn holl Gred.

Buan y profwyd fod yr *Homooúision*,—"o'r un sylwedd," mor bwysig i natur ddynol Crist ag i'w natur Ddwyfol. Diffynnodd *APOLLINARIS*, Esgob Laodicæa (o.c. 362) Ddwyfoldeb Crist yn y fath fodd fel ag i ddwyn ymaith ddilysrwydd Ei ddynod. Yr oedd y natur ddynol yn Nuw yn flaenorol i'r ymgnewdoliad, yr hon a ddygwyd gyda Christ o'r nefoedd. Ac nid oedd yr ymgnewdoliad amgen na'r ymgymeriad â chnawd ac enaid anianaid dyn. Parai y natur Ddwyfol fod yr yspryd dynol yn ddiangenrhaid; a Pherson Crist, cyfuniad ydoedd o Dduw a dwy elfen yn unig o eiddo natur ddynol. Fel hyn, fe ddiogelid y Gwir Dduw, ond nid gwir natur dyn. . . . Condemniwyd yr

athrawiaeth yn ffurfiol yn ail Gymanfa Gyffredinol Caercysteny, o.c. 381.

NESTORIUS ydoedd Batriarch Caercysteny (o.c. 428), a gwrthwynebydd gaugrededd. Cymerodd dramgwydd, fodd bynnag, wrth un o eiriau arferedig uniawngrededd a alwai y Wyrif yn FAM DUW (*Theotokos*). Meithrinasi ef yn Ysgol Ddiwinyddol Antiochia; fel Prespyter yn Antiochia coleddodd ddysgeidiaeth THEODORE o MOPSUESTIA—gwir sylfaenydd Nestoriaeth,—yr hwn a osodai bwys mawr ar undeb y Logos â dyn a anesid o Fair. Addefodd Nestorius i'w wrthwynebwyr fod y Wyrif yn FAM I GRIST, ond gwadai yr undeb personol, gan ddysgu o hono ddarfod i berffaith ddyn ddyfod yn organ neu offeryn i'r Logos, neu yn deml yn yr hon y trigai Efe. Tuedd—a dichon, dim ond tuedd—ei ddysgeidiaeth ydoedd cynrychioli Crist fel dau berson, unedig â rhwymyn nad oedd hanfodol wahanol i'r un a una Duw âg unrhyw organ arall arbenigol o eiddo Ei ewyllys Ef. Yn ol y ddamcaniaeth hon unolid y ddwy natur yn y Gwaredwr mewn math o undeb cymysglyd, '*asúgchulos sunápheia*, nid mewn un personoliaeth, eithr trwy ddim ond cysylltiad yn unig, eithr un o natur anarnodiadwy. Condemniwyd Nestorius yn ffurfiol yn y Drydedd Gymanfa Gyffredinol a gynhaliwyd yn Ephesus, o.c. 431. (Gwel *Pope's Compendium*, Cyf. II., t. d. 135—6.)

NODIAD XXXVIII.

EUTYCHÊAETH. T. D. 179.

Eutyches ydoedd Brespyter, neu Fynach o Caercysteny, yn y bumed ganrif. Gŵr digon anhyspys hyd nes iddo ac efe tua deg-a-thri-ugain oed, osod pwys eithafol ar ddatganiad Cyril, a fiseu farw o.c. 444, parthed yr “undeb mewn un person o'r Logos Dwyfol â dynol gnawd.” Cariodd Eutyches y syniad i'w eithafion, ac nis mynnai addef fod dim a berthynai i Grist ar ol yr yingnawdoliad yn amgen na Dwyfol. “Cyfaddefaf,” ebai, “fod ein Harglwydd, yn flaenorol i'r Undeb, yn meddu ar ddwy natur, '*ek dúo phuseôn* ; ond ar ol yr undeb ni chyffesaf ond un natur yn unig.” Dyma yw hanfod ei ddysgeidiaeth: un natur ac un Person yng Nghrist. “Y duedd yma eto, a dim ond tuedd dichon, ydoedd, nid soddi y Dwyfol yn y dynol, na'r dynol yn y Dwyfol, eithr sefydlu natur gyfansawdd (*composite*), nad

ydoedd na Duw na dyn." Condemniwyd ef mewn Cymanfa yn ei ddinas ei hun, Caercystenyn, o.c. 448.

NODIAD XXXIX.

"COMMUNICATIO IDIOMATUM." T. D. 195.

COMMUNICATIO IDIOMATUM=cyd-gymundeb priodoledau. Rhed y golygiad hwn yn ol mor fore a DIONYSIUS yr Areopagiad, disgybl, fel y mŷn rhai i'r Apostol Paul, ac yn ol Eusebius, Esgob cyntaf Athen. Gwnaed defnydd o'r syniad gan yr Amherawdwr Heraclitus yn ei ymgais i sefydlu ymgytundeb yn ystod y ddadl FNOTHELAIDD,—dadl yr Un-ewyllys (o.c. 633—680). Defnyddiai ef y syniad er gosod pwys ar y gwirionedd mawr mai *mia theandriké 'energía*=un gweithrediad Dwyfol-ddynol ydoedd pob cyflawniad o eiddo y Crist. Dwy natur yn wir, eithr Un Crist; a phob priodoledd a gweithrediad o'i eiddo yn perthyn i'r Un Person. Rhoddwyd ystyr wahanol i'r ymadrodd gan y diwinyddion Lutheraidd, a golyga briodoliad briodoledau y naill natur i'r llall; a hynny yn bennaf er diogeliad i'w damcaniaeth hanner Pabyddol am Swper yr Arglwydd. Mŷn y Lutheriaid fod pedwar math o gyd-gyfranogiad priodoledau yn rhesymegol bosibl. 1. Priodoliad priodoledau y naill natur neu'r llall i'r un person. 2. Briodoliad priodoledau y naill natur i'r llall. 3. Trosglwyddiad y priodoledau Dwyfol i'r natur ddynol. 4. Trosglwyddiad priodoledau y natur ddynol i'r natur Ddwyfol. Mabwysiadwyd y tair cyntaf yn Ffurf-reol y Cyd-gord, 1577, ond gwrthodwyd y bedwaredd am y tybid fod gosod y natur Ddwyfol ac anghyfnawdidiol o dan amodau cyfyngedig y natur ddynol yn sarhâd ar y Ddwyfol. Am hynny fe gyfyngwyd y cyfranogiad i'r natur ddynol, yr hon a lenwir drwy hynny â'r perffeithderau Dwyfol, er yr erys y Ddwyfol yr un. Canlyniad hyn ydoedd yr edrychent ar natur ddynol Crist fel yn hollalluog, hollwybodol, a hollbresennol, parth enaid a chorff. Rhy brin y gellir dweud fod golygiad o'r fath yn Ysgrhythyrol. Canys ymfoddolona yr Ysgrhythur ar yn unig "arddangos i lygad a ffydd yr Eglwys Un Gwaredwr, yr Hwn a unola ynddo Ei Hun briodoledau y natur Ddwyfol, a'r natur ddynol, gan dawel warafun i ni briodoli dim i'r dyndod a berthyn i'r Duwdod, na dim i'r Duwdod a berthyn i'r dyndod, ond yr hwn a'n hanoga i briodoli y ddau gylch o

briodoleddau i'r Un Person canolog a chyffredin iddynt." (Gwel Pope, *Person of Christ*, t. d. 29.)

NODIAD XL.

HOLL-BRESENOLAETH CRIST (*UBIQUITY*).

Holl-bresenolaeth (*ubiquity*) y Crist sydd athrawiaeth Luther-aidd er ceisio esponio y "gwir bresenoldeb" yn Sacrament Swper yr Arglwydd. Yn ol y Lutheriaid edrychir ar esgyniad Crist fel ymgymeriad Ei natur ddynol i lawm urddas a defnyddiad o'r holl briodoleddau Dwyfol. Y rhai yn nyddiau Ei gnawd a ewyllysiai eu cadw yn enhuddedig. Ar ol Ei ddyrchafiad yr oedd ganddo *holl gyflawnder y Duwdod yn gorfforol* (Col. ii. 9). A daeth Ei gorff i fod nid yn unig yn offeryn i'r priodoleddau hyn, ond Efe a'u meddiannau. Efe a aeth i mewn, nid i'r nef leol, ond i anfesuroldeb Duw. Nid y nef a'i derbyniodd Ef, ond Efe a dderbyniodd y nef: canys felly y cyfieithir yr ymadrodd, *yr Hwn yr oedd yn rhaid i'r nef Ei dderbyn* (Act. iii. 21), gan goleddwyr y golygiad hwn. . . . Am hynny medda enaid a chorff Crist hollbresenoldeb y Duwdod. Nid fodd bynnag, fod cnawd gweithredol y Gwaredwr yn lythyrennol ymestynedig i'r anherfynol, ond y rhydd yr Undeb Personol allu a gwybodaeth i'r Dyn Gogoneddedig, a chan hynny hollbresenoldeb hefyd. (Gwel y *Compendium*, Cyf. II., t. d. 192.) Trwy yr hollbresenoldeb hwn, honnir ei fod Ef yn wir bresenol, "yn, gyda, a thàn" yr elfennau yn y Cymun, er nad mewn ystyr "leol," a "chnawdol."

NODIAD XLI.

SOTERIOLAETH. T. D. 217.

Soteriolaeth, o'r Roeg, *sôlêr*, = Gwaredwr, a *legein*, = i lefaru, yw y gair a ddefnyddir gan ddiwinyddion i ddynodi yr athrawiaeth am yr Iechydwr iaeth trwy Iesu Grist; neu drefn yr Iechydwr iaeth fel y mae a wnelo yr ail Berson yn y Drindod â hi, a'r cymhwysiad ohoni gan yr Yspryd Glân. Cynhwysa y term yr hyn a olygir weithiau wrth "Y Gyfryngwriaeth." Gellir edrych ar Soteriolaeth fel yn wrthddrychol a deiliadol. Y

blaenaf yn golygu y gwaith Prynedigol megis ei cyflawnwyd un waith am byth gan Grist; a'r olaf Brynedigaeth fel ei gweinyddir gan yr Yspryd. Felly cynhwysa yn briodol y bwriad Dwyfol yn ei berthynas âg achubiaeth yr hiliogaeth; Person a Gwaith Cyfryngol yr Arglwydd Iesu Grist, a'r cymhwysiad, neu yn fwy priodol y gweinyddiad o'r Drefn Brynedigol gan yr Yspryd Glân, yn y dyn unigol, a'r Eglwys, a'r byd.

NODIAD XLII.

BODDLONRWYDD TRWY WEITHREDOEDD.

T. D. 260.

Dysgai rhai o'r Tadau Eglwysig boreuaf fod gweithredoedd da yn gyd-redol â ffydd yng nghyfiawnhâd pechadur, ac ystyr-ient fod yr hyn a alwent yn "foddlonrwydd," i'w argymhell er diogelu maddeuant am bechodau cyflawnedig ar ol y bedydd. Y mae y "boddlonrwydd" hwn yn gynhwysedig mewn dwyn pennyd; cyflawni gweithredoedd da yn gyffredinol; rhoddi elusen; a cheisio eiriolaeth seintiau. Arweiniai hyn yn naturiol i gyfeiliornadau ereill amlwg a gondemnir yr un mor groëw gan holl rediad Gair Duw.

NODIAD XLIII.

CYNGHORION PERFFEITHRWYDD. T. D. 260.

Gwahaniaetha Eglwys Rhufen rhwng gorchymyn a chyngor. Gorchymyn yw a erchir gan y ddeddf yn gyffredinol, ufudd-dod i'r hyn a sicrha wob, ac yn niffyg hynny cosp. Cyngor nid yw rwymedig ar neb, ond a gymeradwyir yn uchel gan Dduw, ac a ddiogela i'r sawl a'i dilyna lawer uwch gwobr nag ufudd-dod syml i'r hyn a orchymynnir gan y ddeddf. Y "Cynghorion" hyn, y mynnir fod Crist yn eu hannog, er diogelu perffeithrwydd ydynt, lw o weddwod, neu wryfydod, addunedau mynachaid, tlodi gwirfoddol, pererindod, a gwahaniaethau mewn bwydydd a dillad.

NODIAD XLIV.

MERITUM DE CONDIGNO. T. D. 260.

Ffynnai dau olygiad yn Eglwys Rhufen er yn foreu parthed yr athrawiaeth o gyfiawnhâd pechadur. Ategid syniadau AWSTIN

gan un dosparth, tueddai arall at eiddo Pelagius, a chryfhâodd y duedd olaf a nodwyd hyd y canol-oesoedd. Yn y cyfamser, bu i'r diwinydd galluog AQUINAS, wneud ymgais at glymu y pleidiau hyn trwy ddygiad i mewn i'w ddysgeidiaeth y gwahaniaethiad a elwir ganddo yn MERITUM DE CONDIGNO ET CONGRUI, h.y., Haeddiant o deilyngdod, a haeddiant o briodoldeb. Wrth yr olaf y golygir y medda gweithredoedd da, neu dueddiadau naturiol dyn tuag at Dduw, yn anibynnol ar räs cadwedigol, ac yn flaenorol i'r ail-enedigaeth trwy fedydd deilyngdod y gwel Duw yn briodol eu gwobrwyo trwy gynysgaethu y dyn â'r grâs pellach o fedydd, yr hyn a olyga, iddo ef, ail-enedigaeth, a'r hyn sydd i'r dyn yn *meritum de condigno* neu wir haeddiant, neu deilyngdod o fywyd tragwyddol. Amlwg yw fod y teilyngdod hwn o briodoldeb yn gyfystyrol â rhinwedd—rhinwedd personol,—yr hyn, yn ol y ddysgeidiaeth hon sy'n arwain i fywyd tragwyddol. Y mae y fath ddysgeidiaeth yn gwbl wrthwynebol i'r Gair, yr hwn ni chydnebydd na rhinwedd na theilyngdod yn neb ond YR HWN A OSODODD DUW YN IAWN. Canys fel y sy'iwa yr Awdwr (yn y *Comp. Cyf. II., t. d. 423*). “Gan nad pa mor *briodol*, neu gydweiddol bynnag â'r ffyddlondeb Dwyfol y gall fod cyfiawnhâd yr edifeiriol a ddwg gydag ef ragddarpariaeth briodol am y gyfryw fendith, nid oes i deilyngdod le o gwbl; canys y cymhwysiad rhagfynedol ei hun, o räs y mae.”

NODIAD XLV.

“FFURFIEDIG GAN GARIAD,” T. D. 261.

Athrawiaeth Eglwys Rhufen yw fod ffydd o ddau fath,—sef yr hyn a elwir ganddi yn (1) FIDES INFORMIS,—neu ffydd anffurfiedig neu amherffaith, wrth yr hyn y golygir—ffydd ddeallol neu grediniaeth yn nysgeidiaeth yr Eglwys; neu “wir ffydd y wir Eglwys,” fel ei gelwir: (2) FIDES FORMATA CHARITATE= Ffydd ffurfiedig gan gariad, wrth yr hyn y golygir ffydd ymddiriedol megis ei ffurfir hi gan gariad. Cariad felly yw hanfod y ffydd hon, yr hyn yn y pendraw yw RHINWEDD mewn diwyg arall. Er fod hyn yn gwbl gyson â dysgeidiaeth Rhufen am natur gweithredoedd da, pell iawn yw o fod yn gyson â thystiolaeth yr Ysgrhythur Lân. Pe hon yn gywir, “difuddid cyfiawnhâd o'r

oll ag sydd gyfreithiol (*forensic*) ynddi, a gwnelid hi yn "weithred anianyddol o eiddo Duw," yn gyfiawnhâd trwy ymlenwad y natur, yr hyn a barai y gwnelid y dyn yn gyfiawn yn lle yn anghyfiawn. . . . trwy yr hyn y traws-symudid dyn o gyflwr o bechod i gyflwr o gyfiawnder, yn rhinwedd yr hyn y dichon y cyfiawnedig *gyflawni gwaith* a roddai iddo hawl i fywyd tragwyddol." (Gwel Pope's *Comp. Christ. Theol.*, Cyf. II., t. d. 424.)

Gwir, fel yr addefa yr Eglwysi Protestanaidd, y ffynna cysylltiad anatodol rhwng ffydd a chariad. Eithr un o ffrwythau ffydd yw cariad; a thystiolaeth yr Apostol yw mai *trwy ffydd y cyfiawnheir dyn, heb weithredoedd y ddeddf; ac mai trwy râs yr ydych yn gadwedig trwy ffydd* (Rhuf. iii. 28; Eph. ii. 8).

NODIAD XLVA.

ANTINOMIAETH. T. D. 263.

ANTINOMIAETH sydd air tarddedig o'r Roeg *anti*=gwrth, a *nomos*, deddf; ac yn dynodi y dosparth hwnnw o gredinwyr sydd yn wrth-ddeddfol. Dysgir Antinomiaeth er yn foreu yn yr Eglwys Gristionogol, gan amryw bleidiau. Swm eu dysgeidiaeth yw, fod yr Efengyl wedi rhydd-hau credinwyr oddiwrth y rhwymedigaeth i'r ddeddf foesol yn ei gofynion manwl, yr hyn sydd wrth-droad pendant ar ddysgeidiaeth y Testament Newydd am berthynas ffydd a deddf. Tyfodd y cyfeiliornad hwn i'w rym trwy ei ategiad gan John Agricola, un o gydweithwyr Luther yn y Diwygiad Protestanaidd, yr hwn, trwy osod ohono bwys anyledus ar swyddogaeth ffydd yn y Cyfiawnhâd, yn wrthgyferbyniol i athrawiaeth gweithredoedd Eglwys Rhufen, a gariodd allan y meddylddrych i'w eithafion, gan ddal ohono, na ofynnai yr Efengyl am un amod amgen ffydd, a ffydd seml yn unig, er diogelu bywyd tragwyddol. Antinomiaeth yw osgo amlwg, rhai o'r Cyfrinwyr, a hyn yw eu diffyg. Â rhai Antinomiaid diweddarach mor bell a dysgu ddarfod i Grist, nid yn unig dalu dyled y pechadur, ond cyflawni y ddeddf drosto ac yn ei le hefyd: trwy yr hyn y diogelir am byth yr "etholedig rai." Perigl mawr Antinomiaeth yw, mai hanner-gwirionedd a ddysga. Anghofia fod i'r ddeddf berthynas newydd â dyn dan yr Efengyl. Y mae Crist ei Hun wedi ei hadsefydlu megis yn sefydliad Efengylaidd wrth yr hon y bernir y dyn a'r oll a berthyn i'w

■ ■

fywyd. Y mae fod y ddeddf yn *arghwyddiaethu ar ddyn tra fyddo byw*, yn cael ei gadarnhau am byth gan ddatganiad croyw y Crist, *Mi a ddeuthum nid i dorri, ond i gyflawni*.

NODIAD XLVI.

GOR-HAEDDIANT. T. D. 263.

Dysgeidiaeth Eglwys Rhufen yw y dichon y cyfiawnedig gyflawni nid yn unig yr hyn a orchymynnir gan y ddeddf, ond yr hyn hefyd sydd dros ben ac uwchlaw ei gofynion manwl, trwy gyflawniad o'r hyn a elwir yn "Gynghorion Perffeithrwydd" (Gwel Nodiad 43). Honnir y diogelir trwy y Gor-haeddiant neu y Gor-deilyngdod hwn fudd posibl i arall. Gwir fod Cymanfa Trent yn ddistaw ar y pwynt hwn, ac nas delir Gor-haeddiant fel erthygl o flydd yn Eglwys Rhufen; eithr nis gellir ameu am foment nad hyn yw gwir sail ei dysgeidiaeth am yr hyn a eilw yn *indulgences* neu *bardynnau*, yr hyn a olyga y rhoddir "pardwn" neu "ryddhad" oddiwrth euogrydd, a'r gosp ddyledus am bechod trwy'r iawn sy'n nhrysorau yr Eglwys!

NODIAD XLVII.

HANNER-PELAGIAETH. T. D. 273.

O ddyddiau AWIN i lawr, y mae amrywiaeth barn wedi ffynnu yn yr Eglwys gyda golwg ar ei syniadau parthed pechod, grâs, a rhagluniaethiad. Ond rhoddai Eglwys Rhufen ei nawdd i'w ddysgeidiaeth ef. Daliai AWIN lwyr lygriad y natur ddynol gan bechod, fel nas medr dyn ohono ei hun ar ddim daioni, ac nad yw gydweithredydd o gwbl â grâs Duw yn ei droedigaeth. O Benarglwyddiaeth ddiamodol Duw y mae y cyfan! Cariodd yr athrawiaeth hon ddylanwad neulltuol dros Eglwys y Gorllewin, yr hon a dalai warogaeth anherfynol bron i enw AWIN fel sant a diwinydd. Ond dechreuwyd teimlo cyn ei farw fod ei athrawiaeth eithafol lêm yn afresymol ac anysgrhythol i'r eithaf. Cyhuddasid ef yn gyhoeddus gan Fynachod Massilia o wrthdroi athrawiaeth yr Eglwys gyffredinol ar y pyngciau hyn. A dysgent y gall unrhyw ddyn fod yn gadwedig trwy flydd a bedydd (wrth yr hyn y golygent ail-enedigaeth), *os ewyllysiai*. Yn wir fod yr ewyllysiad i fod yn gadwedig yn blanedig yn natur dyn gan

Dduw Ei Hun. Y rhagdybia rhagluniaethiad diamodol naill ai wahaniaeth mewn natur ddynol, neu yr arweinia i reidrwydd tynghedfennol. Dysgent fod gan ddyn allu, ohono ei hun, i wneud yr oll a geisir gan Dduw,—a mwy. Hwyl a addefent effeithiau dirywiol pechod Adda ar yr hiliogaeth, trwy yr hyn y mae y corff yn ddarostyngedig i afiechyd a dioddefaint, a'r enaid yn *wanychedig*, fel nas gall gynhyddu ohono mewn dim daionus heb gymhorth Duw.

Cyhuddir hwyl o ddysgu fod tarddiad iechydwriaeth dyn ohono ei hun,—mai efe a geisia Dduw yng nghyntaf, yna y trŷ Duw ato yntau, gan estyn iddo rās; a thrwy y rhywbeth da hwn sy'n aros yn y dyn, y cyd-weithreda efe â grās Duw yn yr oll a berthyn i fywyd tragwyddol. Prif arweinwyr y ddysgeidiaeth hon oeddynt JOHN CASSIANUS, VINCENT O LERINS, a FAUSTUS O RHEGIUM, tri wŷr galluog, a dysgedig ddigon. Galwyd y syniadau a goledent wrth yr enw Hanner-Pelagiaeth. Ac er condemnio eu dysgeidiaeth yng Nghymanfa Valence, yn y chweched ganrif, parhaodd i gario cryn ddylanwad am oesau, ac nid yw wedi marw eto. (Gwel Nodiadau XXXIV. a XXXV.)

NODIAD XLVIII.

RHODD O YSPRYD TRWY'R YSPRYD. T. D. 274.

Cyfeiriad sydd gan yr Awdwr yma at y ddamcaniaeth seiliedig ar ddosraniad y natur ddynol i dair rhan, - CORFF, ENAID, ac YSPRYD. Yn ol y ddamcaniaeth hon nid oes i'r corff a'r enaid unrhyw werth moesol. Ni chynrychiolant yn unig ond y materol a'r anifeilaidd yn y dyn. Yr yspryd yn unig yw eisteddle y bywyd ysprydol, yr hwn sydd mewn cyflwr o ddi-ymadferthedd trwy y cwmp, ac yn farw i bob peth ysprydol. Yn ol y syniad seiliedig ar hyn, ail-enedigaeth sydd ymfywhâd yspryd y dyn ei hun fel ag i lywodraethu ohono y rhannau eneidol a chorfforol. Yn ol hyn y Goruchwylydd effeithiol yn yr adenedigaeth yw yspryd deffroedig y dyn ei hun, ac nid yr Yspryd Glân; ac nid yw ei ail-enedigaeth amgen na goruchafiaeth y Dwyfol dros y dynol, trwy yspryd y dyn ei hun. Tystiolaeth bendant Gair Duw ydyw, mai yr Yspryd Glân yw y Goruchwylydd (Ioan iii. 1—13; Titus iii. 5).

NODIAD XLIX.

EX OPERE OPERATA. T. D. 276.

Dysgeidiaeth Eglwys Rhufen yw y cynhwysa y Sacramentau y grâs a ddynodir ganddynt; fod y weithred sacramentaidd ynddi ei hun *ex opere operato*, yn rhinwedd y weithred, yn gynysgaethiad grâs i'r sawl nas rhwystra trwy fod yn euog o bechod marwol—sef yw hynny, balchder, cybydd-dod, anlladrwydd, digofaint, anghymedroldeb, cenfigen a segurdod. Ac er diogelu yr effaith honedig yr oll sydd ofynnol yw, yr amcana yr offeiriad a weinydda wneuthur yr hyn a ddysgir, ac y bwriedir ei ddysgu gan yr Eglwys. Nid yw bwysig beth yw cymeriad personol y gweinyddwr, ond gofalu fod yr amcan yn ddilys. Felly, y ddysgeidiaeth yw, y cyflêir y grâs gan y Sacrament, a hynny trwy werth cynwynol y weithred; ac y sicrhâ y weithred seml o'i dderbyniad effaith penodol ar y derbynnydd ohono. Cyhoedda Eglwys Rhufen ei melldith ar y neb a wado hyn, gan haeru fod ffydd yn addewidion Duw, yn unig, yn ddigonol er diogeli grâs.

Y mae yr Eglwys Lutheraidd yn un â Rhufen yn hyn o beth, er y gesyd honno bwys ar fod y derbynnydd yn meddu ar ffydd wirioneddol.

NODIAD L.

Y PERFFEITHEDIGION. T. D. 297.

Y PERFFEITHEDIGION sy' ddosparth crefyddol y gellir olrhain eu hanes gyn belled yn ol ag oes y Tadau, ac a fyynnent yn y canol oesoedd yn amryw o wledydd Ewrob. Mabwysiadasant y gair Ysgrythyrol *teleioi*=perffeithedigion, i ddynodi eu henw. Honnent ddarfod caniatâu iddynt fedydd cyflawn yr Yspryd Glân. Yn eu hyspryd a'u hymarferion yr oeddynt yn Antinomiaid ymarferol.

NODIAD LI.

Y CATHARISTIAID. T. D. 297.

Perthyn i'r un dosparth a'r Perffeithedigion yr oedd y CATHARISTIAID—neu y Puredigion. Hwy a hanasant o'r Eidal, gan gario ohonynt ddylanwad mawr yn Neheudir Ffraingc, lle yr adnabyddid hwy dan yr enw ALBIGENIAID. Ymwasgarasant

i Holland, ac yn y ddeuddegfed ganrif daethant i Loeger. Ni lwyddasant yn y wlad hon. Yr oeddynt yn bobl dra chrefyddol, ond eithafol iawn eu syniadau. Yr oedd eu syniad am bechod yn ddeulaidd, a choleddent y dŷb fod yr egwyddor ddrwg fel gallu, mor anibynnol a thragwyddol a'r da! Ffurf mwy lliniar-edig ar hyn ydoedd mai yr yspryd aflan ydoedd y gwreiddyn, yr hwn, er yn dda ar y cyntaf, a ymysgarodd oddiwrth Dduw trwy weithred o eiddo Ei ewyllys. Yr oedd eu disgyblaeth grefyddol yn erwin i'r eithaf. Dalient fod pob ewyllysiad ar nad oedd wrthwynebol i'r materol yn bechod, am hynny, hwy a arferent yr hunan-gosp lemaf, er dinystrio hunan y'mhob ffurf arno. Ni ddisgwyliid yr hunan-ddisgyblaeth eithafol hon ond gan y PURED-IGION yn unig, yr hwn oedd y gradd uchaf. Yr oedd disgyblaeth y CREDWYR (y gradd isaf) yn fwy cymedrol. Defnyddiwyd y gair PUREDIGION cyn hyn, a gwneir hynny eto, mewn ystyr ddirmygus am y sawl a honnant Berffeithrwydd Cristionogol. Cymhwysir y gair yn y gyfryw ystyr at yr Eglwys Wesleyaidd, eithr yn gwbl amhriodol. Gwir fod athrawiaeth PERFFEITH-RWYDD CRISTIONOGOL yn un a ategir gan yr Eglwys Wesleyaidd drwy'r byd. Ond nid perffeithrwydd hollol, fel eiddo Duw, na pherffeithrwydd angylaidd, ychwaith a honnir, eithr yng ngeiriau Wesley a esyd allan gnewyllyn yr athrawiaeth a ddysgir gan ei ddilynwyr. "Nid yw yn ddim uwch, nac yn ddim is na hyn,—cariad pur at Dduw a dyn; caru Duw a'n holl galon, a'n henaid, a'n cymydog fel ni ein hunain. Cariad yw, yn llywodraethu y galon a'r fuchedd, yn rhedeg trwy ein holl dymherau, geiriau a gweithredoedd." Y neb a ddysga hyn, ni wna amgen na phwysleisio dysgeidiaeth gyson y Ddau Destament.

NODIAD LII.

PECHODAU MADDEUOL. T. D. 297.

Gwahaniaetha Eglwys Rhufen rhwng yr hyn a eilw yn "bechodau marwol" a "péchodau maddeuol." Myn nad yw y chwantusrwydd a erys, fel gweddill y pechod gwreiddiol yn bechod ynddo ei hun, hyd nes i'r ewyllys gydsynio ág ef. Dysga nad yw pechodau o ddifffyg neu o wendid, i'r rhai ni chyfrifir ewyllysiad yn tynnu dim oddiwrth werth perffeithrwydd y cred-adyn yng ngolwg Duw. Diffyg mawr dysgeidiaeth Eglwys Rhufen ar y pwngc hwn yw, na esyd bwys digonol ar iaith

ddiamwys yr Ysgrythur parthed llwyr ryddhâd oddiwrth bechod—ac y rhydd bwys gormodol ar weithrediad cariad sancteiddhäol. Gedy wreiddyn pechod fel egwyddor heb ei ddileu, gan drwy hynny rwyddhau y ffordd er dysgu dogma y purdan—trwy yr hwn y mŷn y cyrhaeddir yr amcan mewn sefyllfa ddyfodol.

NODIAD LIII.

ERASTIAETH BROTESTANAIDD.

THOMAS ERASTUS, a aned yn Switzerland yn yr unfed-ganrif-ar-bymtheg, ydoedd feddyg profsedig, ac yn ysgolor clasurol a diwinydd gwyh. Disgybl ydoedd i'r enwog Zuingli, a chymerodd ran amlwg yn nadleuon diwinyddol ac Eglwysig y cyfnod. Daeth ei enw i fri trwy ei waith yn gwrthwynebu Calfiniaid Heidelbergh, a geisient sefydlu yn y wlad gyfansoddiad Eglwysig cwbl Henadurol, gyda disgyblaeth Eglwysig gyfatebol. Diwedd yr ymdrafodaeth fu diarddeliad Erastus, er iddo gael ei adsefydlu y'mhen pum' mlynedd. Bu farw yn 1589. Y'mhen chwe' mlynedd ar ol ei farwolaeth cyhoeddwyd ei brif waith, yn yr hwn y dadleua nad oes gan yr Eglwys fel y gyfryw unrhyw allu i ddeddfwriaethu, na gweinyddu na chosp na phennydd; ac nad oes hawl gan na Gweinidog na Diacon i weinyddu disgyblaeth, yr hyn, fel y myntumia, a berthyn i swydd yr Ynad gwladol. Sefydla ei ddadl ar yr honiad mai un o agweddau y Wladwriaeth yw yr Eglwys; a chan fod y Wladwriaeth yn Sefydliad Dwyfol, mai ei swydd hi fel y gyfryw, yw darparu ar gyfer holl anghenion y dyn, yn dymhorol ac ysprydol. Mai arni hi y gorffwysa y cyfrifoldeb o amddiffyn, a nawddogi a lledaenu y wir athrawiaeth, a gweinyddu disgyblaeth, Gan hynny, mai lle yr Eglwys yw cynnal yr Eglwys, penodi ei swyddogion, dehongli ei deddfau, ac arolygu ei gweinyddiaeth. O'r pryd hwnnw hyd yr awr hon fe adwaenir yr athrawiaeth o Bendod Eglwysig wrth yr enw ERASTIAETH. Y mae dadl Erastus yn deg, ond caniatâu ei sylfon. Y mae honno yn anghywir, canys y mae yr Eglwys gyn ddwyfoled fel Sefydliad ag yw y Wladwriaeth; a pherthyna i'r naill a'r llall i drefnu eu trafndiaeth fewnol yn anibynnol ar eu gilydd.

NODIAD LIV.

Y SACRAMENTAU.

Ychwanegir pump Sacrament gan Eglwys Rhufen, at y ddau a gydnabyddir gan yr Eglwys Brotestanaidd, sef Bedydd Esgob, P'ennyd, Urddau, Priodas, a'r Eneiniad Diweddaf. Eithr amlwg yw, er fod y rhain yn gyson â dysgeidiaeth yr Eglwys honno ar byngciau ereill, eu bod yn hollol amddifad o awdurdod Ysgrythyrol.

Tarddodd y Bedydd Esgob o ddefod henafol a elwid y CHRISM neu y SEL, trwy yr hyn, fel y dyfaldid, yr ychwanegid dawn yr Yspryd Glân at symudiad ymaith euogrwydd yn y bedydd, trwy arddodiad dwylaw. Ystyrrid mai rhagorfraint berthynol i Apostol, neu ar ol hynny Esgob, ydoedd yr arddodiad dwylaw. Yn amser Tertullian yr oedd y bedydd cyflawn yn gynhwysedig mewn tair gweithed,—sef y bedydd priodol, y Chrism, neu yr eneiniad, ac arddodiad dwylaw. Yng nghwrs amser ysgarwyd yr arddodiad, gan ei ystyried yn weithred briodol i'r Esgob yn unig; fel yn Synodau LYONS (1274), a FLORENCE (1439), y sefydlwyd arddodiad dwylaw gan yr Esgob, a Chonfirmasiwn, neu Fedydd Esgob, yn ail Sacrament Eglwys Rhufen. Digon yw dywedyd na sefydlwyd Sacrament o'r fath gan Grist.

Sefydlwyd PENNYD er cyfarfod â'r angen tybiedig o deilyngu boddlonrwydd i Dduw am bechodau cyflawnedig ar ol bedydd. Y'nglyn â phennyd y tarddodd cyffes yn yr Eglwys hon, yr hon sy'n ofynnol un waith yn y flwyddyn o leiaf. Fel Sacrament, gofynna am gystudd calon, neu edifeirwch, cyffesiad, a boddlonrwydd trwy weithredoedd. Tybia y boddlonrwydd hwn fod yr offeiriad yn farnwr, yr hwn, yn enw Duw, a esyd bennyd fel amod rhyddhâd tymhorol oddiwrth gospedigaeth pechod, yr hyn yn ei berthynas âg euogrwydd y gosp a'i ganlyniadau trawgyddol, a faddeuir er mwyn haeddiant Crist. Gellir gweini y penydiau hyn yn y bywyd hwn neu yn y Sefyllfa Ganol. Ar y ddogma hon y mae yn seiliedig athrawiaeth y PURDAN, a PHARDWN (*Indulgencies*). Pell yw hyn oddiwrth athrawiaeth seml y Testament Newydd.

URDDAU, neu ordeiniad gweinidogion, sydd eto yr un mor fympyol. Gwir, fel y sylwa Watson, fod ordeiniad yn orchymyn Apostolaidd, eithr ni ddynoda o'r herwydd ei fod yn weithred

Sacramentaidd, mwy nag unrhyw orchymyn cyffelyb, megis er engraifft, ddiarddoliad pechaduriaid cyndyn o'r Eglwys, yr hyn gyda llawn cymaint rheswm y gellid ei godi i safle Sacrament.

Gwnaed PRIODAS yn Sacrament ar y tir ansafadwy y cyfeiria yr Apostol Paul at gariad gŵr a gwraig, fel cysgod o gariad Crist at Ei Eglwys, yr hyn, meddai, sy' "Ddirgelwch mawr." Yn y "Vulgate," y Cyfieithiad Lladinaidd, cyfieithir y gair "Dirgelwch yn *Sacramentum*, ar yr hwn y gesyd yr Eglwys yn Rhufen y pwys, yn ei hymgais i brofi fod priodas yn Sacrament, heb gofio, neu heb ewyllysio cofio, mai at yr undeb dirgelaidd sydd rhwng Crist â'r credadyn y cyfeiria y "Dirgelwch." Sylwa Beza yn darawgar ar hyn, y gellid ar yr un tir edrych ar alwad y Cenhedloedd fel yr Wythfed Sacrament, am y geilw St. Paul hynny yn "Ddirgelwch" (Eph. i. 9), ac a gyfieithir yn y "Vulgate" yn *Sacramentum* (Gwel ar hyn, *Watson's Works*, Cyf. III., t. d. 383).

Gorffwysa yr ENEINIAD DIWEDDAF yn bennaf ar orchymyn St. Iago i eneiniad y clâf (Iago v. 14, 15). Ond eneiniad er adferiad y clâf ydoedd hwnnw, tra mai eneiniad yw y Sacrament honedig hwn, pan y mae pob gobaith adferiad ar ben.

Gorffwysa y gwir wahaniaeth rhwng Protestaniaeth a Phabyddiaeth ar y pwngc hwn yn hyn, mai Trysorfa Grâs yr Eglwys yw Sacrament yn ol dysgeidiaeth Rhufen. Tra mai dyna ydyw yn ol Protestaniaeth Efengylaidd, sef arwydd a sel cyfamodol; nid arwydd-luniau o'r Cyfamod Cristionogol yn unig, ond arddanghosiad a chymhwysiad ohonynt fel datganiad o ffydd gyhoeddus, a choffhâd diolchus. Tra nad oes i'r Sacramentau honedig hyn "nac arwydd gweledig na seremoni a ordeiniwyd gan Dduw," nac ychwaith ymrwymiad cyfamodol rhwng Duw â'i greadur, ordeiniedig gan Grist.

NODIAD LV.

"OPUS OPERATUM." T. D. 366.

Selia Eglwys Rhufen ragoriaeth Sacramentau y Testament Newydd ar yr Hen, ar y tir y cyflëant fendithion yr Efengyl. Yr oedd yr olaf yn effeithiol *ex opere operantis*=yn rhinwedd fydd y derbynydd, y mae effeithiolrwydd y Sacrament Cristionogol ar y llaw arall yn gorffwys *ex opere operato*=yn rhinwedd y weithred. (Gwel ar hyn Nodiad XLIX.)

NODIAD LVI.

Y CYFRINWYR.

Addefir dau ddosparth o Gyfrinwyr gan Hanesiaeth Eglwysig, sef y THEOPISTIAID a'r CYFRINWYR priodol. Pwngc mawr y blaenaf ydoedd gwybodaeth trwy ddal cymundeb â Duw trwy gyfrwng rheswm, neu y Logos. Prif nód yr ail ddosparth—y Cyfrinwyr Priodol yw bywyd ysprydol, purdeb, a gwynfydedd. Y maent yn un mewn rhoddi pwys ar gymundeb uniongyrchol yr enaid â Duw, ar wahân i foddion arferol grâs, trwy ymroddi ohonynt i gyflwr ymsonol a goddefol. Cydunant mewn rhoddi ystyr gyfriniol i athrawiaethau crefydd, ac i iaith yr Ysgrythur. Dywed Taylor (*Elements of Thought*) am y Theophistiaid, “nad oeddynt foddolawn ar na goleuni naturiol rheswm nag ar athrawiaethau syml yr Ysgrythur, megis eu deallir yn eu hystyr lythyr-ennol, eithr ymgeisiant am fath o oleuni mewnol goruwchnaturiol, tra rhagorach na phob goleuni arall, oddiwrth yr hwn yr honnant dderbyn ohonynt fath o athrawiaeth ddirgelaidd a dwyfol nas amlygir i neb ond etholedigion ffafredig y nefoedd.”

Ymddadblygodd Cyfriniaeth i amryw ffurfiau er dyddiau Dyonisius yr Areopagiad, tad honedig Cyfriniaeth Gristionogol, i lawr. Adfywiwyd hi trwy gyhoeddiad y *Theologia Germanica* yn Eglwys y Diwygiad; gwaith llawn o gyfriniaeth ddefosiynol. “Bu i bob cymundeb Protestanaidd gynrychiolwyr o gyfriniaeth wir a gau. Ymffurfiodd mewn rhai i Theophistiaeth dragoriannol (*transcendental*), a Jacob Behmen yn ben arnynt; yn ereill i anibynnuaeth benboeth ar ddatguddiad allanol, ac i ddifaterwch am gymdeithas gyffredin yn yr Eglwys; yn ereill i grefydd weledyddol (*visionary*), o ymsyniadaeth a theimladrwydd cyngreddfoll. Ond bu yr amlygiadau iachusaf ohoni yn warogaeth seml i gyfriniaeth bur y Testament Newydd; yn brotest yn erbyn dim ond ffurf allanol o dduwioldeb; ac yn fynegiant dilys o'r oll sy'n aruchel, ac uwchlaw y daearol mewn cymundeb â Duw.” (Gwel Pope's *Compendium*, &c., Cyf. I., t. d. 22.)

NODIAD LVII.

RADBERTUS. T. D. 377.

PASCHASIUS RADBERTUS, abad Corbie yn Picardy, ydoedd ysgrifenydd Eglwysig o fri yn y nawfed ganrif. Ei brif waith

ydoedd ei Draethawd ar "*Gorff a gwaed ein Harglwydd*," ac a gariodd ddylanwad a erys hyd heddyw. Yn flaenorol i hyn fe ffynnai dwy farn gyd-redol yn yr Eglwys parthed yr elfennau yn y Cymun. Ystyriai y naill blaid nad oedd yr elfennau amgen nag arwyddlun yn unig o gnawd a gwaed Crist, canfyddai y llall ynddynt yr hyn sy'n draws-sylweddoliad naturiol i wir gorff a gwaed Crist. Amcan profsedig Radbertus ydoedd cyfuno y ddau olygiad, ond addefir yn gyffredin y collir y syniad arwyddluniol yn yr un traws-sylweddol,--yr hyn a rydd i Rabertus safle anrhydeddus y'mhlith enwogion Eglwys Rhufen. Digaregodd y ffordd yn fore at un o wryadau amlycaf yr Eglwys Ladinaidd oddiwrth athrawiaeth y Testament Newydd. (Gwel Nodiad LX.)

NODIAD LVIII.

BERENGARIUS.

BERENGARIUS, o Tours, yn yr unfed-ganrif-ar-ddeg, ydoedd wrthwynebydd RADBERTUS ar draws-sylweddiad yr elfennau yn y Cymun, yr hyn a gondemniai i'r eithaf. Gosodai bwys ar y dylid gwahaniaethu rhwng yr arwyddocâd, *sacramentum*, a'r a arwyddocheir, *res sacramenti*. Cododd hyn storm aruthrol yn yr Eglwys, ac erlidiwyd, condemniwyd, a charcharwyd Berengarius druan. Gwir nas cymerwyd ei fywyd, ond pris ei ryddid ydoedd tynnu ei eiriau yn ol! Hynny a wnaeth, a Rhufen a orfu!

NODIAD LIX.

Y CYNGOR LATERANAIDD.

Dynoda y gair yr holl Gynghorau Eglwysig hynny a gynhelir yn y Lateran Basilica, yn Rhufen, yn enwedig y pump a gyd-nabyddir fel yn gyffredinol, 1123, 1139, 1179, 1215, a 1512. Rhed hanes y Palasdy ardderchog lle y cynhelir y Cynghorau hyn gyn belled yn ol a dyddiau yr Amherawdwr Nero. Cyfanddid ef y pryd hwnnw gan Plautius Lateranus, yr hwn trwy gymeryd ohono ran mewn teyrnfradwriaeth, y fforffediwyd ei eiddo.

NODIAD LX.

YR OFFEREN.

Yr Offeren, neu y Mass,—yr hwn, fel y tybir, a fenthycir oddiwrth *Ite Mâssa est* (yr wyf yn dy ollwng), datganiad arfer-

edig yn Eglwys y Gorllewin, yw yr enw a roddir i'r Cymun fel ei deallir ac ei harferir yn Eglwys Rhufen. Dynoda fel y cyfryw nid y Cymun syml megis ei herchir gan Grist a'i Apostolion, ond aberthiad Crist trwy weinyddiad yr offeiriad, dros y byw a'r meirw. Ceir hadau y cyfeiliornad hwn mor fore a dyddiau Cyprian. Cryfhâodd y syniad trwy ei amddiffyniad gan Radbertus; ac yn enwedig Aquinas, yr hwn, er y rhydd amlygrwydd i'r agwedd a'r meddylldrych Sacramentaidd yn y Cymun, a'i cyfyd yn ddios i safle aberth, gan ddysgu y buddioldeb o gadw y cwpan oddiwrth y bobl, am resymau plentynaidd ddigon. Er i'r Babaeth ddatgan fod yr oll sydd gynhwysedig yn athrawiaeth yr Offeren yn gyson â'r "wir athrawiaeth" mor fore a 1215, fe osododd Aquinas ei nód anileadwy ar y ddogma; ac yng Nghymanfa Trent, 1552, gosodir sel awdurdod Cadair St. Petr arni, trwy ddysgu y cynhwysir yn y Cymun, "yn ddilys a sylweddol, gorff a gwaed, y'nghyd âg enaid a dwyfoldeb ein Harglwydd Iesu Grist." Tröir "holl sylwedd y bara i gorff, a holl sylwedd y gwin i waed" Crist. Fod "yr holl Grist yn gynhwysedig y'mhob elfen, ac y'mhob rhan o'r elfennau, pan ar wahân." Mai prif ffrwyth y Cymun hwn yw maddeuant. Y dylid cymuno unwaith bob blwyddyn, a chyffesu yn flaenorol i hynny, gan y neb a feichir gan bechod marwol. Fel y canfyddir y mae cyfeiliornad y traws-sylweddian yn gydweedig â'r athrawiaeth gabledus hon, nad oes iddi rith o sail yn y Testament Newydd, a'r hon yr ymwrthd rheswm â hi fel hoced digywilydd.

NODIAD LXI.

Y GWIR-BRESENOLDEB. T. D. 378.

Y GWIR BRESENOLDEB, neu Bresenoldeb Sylweddol (*presentia realis*) Crist yn y Cymun yw y syniad Sacramentaidd a goleddir gan yr Eglwys Lutheraidd, a changen Uchel-Eglwysig Eglwys Loeger. Cymysgir y golygiad hwn weithiau â'r un Pabyddol o Draws-sylweddian,--eithr y mae gwahaniaeth amlwg rhyngddynt. Ymwrthodai Luther â'r syniad o Draws-sylweddian yr un mor bendant ag yr ymwrthodai â syniad Zuingli, yr hwn nas mynnai fod y Cymun yn ddim amgen nag adgoffhâd o farwolaeth Crist, ac o gyffesiad ffydd ohono. Dysgeidiaeth Luther a'r Eglwys Lutheraidd ydoedd fod Crist yn wirioneddol a

sylweddol bresennol yn yr elfennau, yr hyn sy'n dderbyniad adnewyddol ohono, trwy ffydd, gan bawb a gyfranogant yn deilwng o'r bara a'r gwin. Yng Nghyffes Augsburg (1530),—Cyffes Awdurdodedig yr Eglwys Lutheraidd, Erthygl X., ceir y datganiad canlynol:—"Y mae gwir gorff a gwaed Crist yn wir bresennol yn y ffurf o fara a gwin, pryd ei cyfrennir i, ac y cyfranogir ohono gan y neb a fwyty yn Swper yr Arglwydd. (III 13.)" Ceir datganiad pellach, cwbl gydweiddol, yn RHOL Y CYDGORD (1576), Erthygl VII.—"Yr ydym ni yn credu, yn dysgu ac yn cyffesu, fod corff a gwaed Crist yn wirioneddol a sylweddol bresennol yn Swper yr Arglwydd, a'u bod yn wirioneddol gyfranedig, ac y cyd-gyfranogir ohonynt gyda'r bara a'r gwin. (III. 137.)" Gelwir yr athrawiaeth hon weithiau yn gyd-sylweddol er gosod allan yr honiad o bresenoldeb Crist yn, *gyda*, a *than* yr elfennau, ac y mae yn gyd-gorfforedig âg athrawiaeth Luther am Holl-bresenolaeth Crist. Gwel Nodiad XL.

Delir yr un golygiad, gyda gwahaniaeth gan Uchel-Eglwyswyr. Honnant fod Crist yn wirioneddol a gwrthddrychol bresennol yn y Cymun ar ol cysegriad yr elfennau gan yr offeiriad. Gosodir pwys ar mai Presenoldeb Gwirioneddol (*presentia realis*) ydyw. Gesyd yr Uchel-Eglwyswr, y Parch. T. B. Strong (*Manual of Theology*, t. d. 388), bwys ar mai nid presenoldeb materol a chortfforol a feddylir, ac nas rhoddir cyfrif o'r modd y mae Crist yn Bresennol, mai yr oll a wneir yw haeru y ffaith. Gesyd bwys ar mai "Presenoldeb ysprydol" ydyw; ond beth yw gwir ystyr y fath wahaniaethiad, ni eglurir, i foddlonrwydd o leiaf. Y golygiad a fabwysiedir yn gyffiedin yn yr Eglwysi Protestanaidd Efengylaidd yw un Calfin, yr hwn a ddaliai yn wrthgyferbyniol i Zuingli, bresenoldeb goruwchnaturiol a bywydol Crist yn y Cymun, gan ddysgu ohono fod yr ordinhad yn gyfrwng neulltuol bendith ysprydol, ac yn wrthwynebol i Luther, gwadau bresenoldeb lleol Crist yn yr elfennau, gan osod ohono bwys ar mai y sawl a gyfranoga o'r elfennau trwy ffydd a dderbyniant Grist drwy hynny. Ar ddysegeidiaeth Calfin y mae Erthygl XXVIII. yn Eglwys Loeger yn seiliedig, a honno a ddynoda agosaf safle yr Eglwys Wesleyaidd ar y pwngc hwn.

NODIAD LXII.

Y BRODYR. T. D. 386.

Sect grefyddol yw y BRODYR, a gawsant eu cychwyniad ar waith cyn-offeiriad Pabaidd o'r enw Edward Cronin, yn crynhoi nifer o gyffelyb fryd at eu gilydd yn ninas Dublin, yr Iwerddon, yn 1827, i "dorri bara" bob bore Sabbath, ac i adeiladaeth grefyddol. Yn fuan ar ol hynny ymgynullwyd drachefn yn yr un ddinas, gan nifer ereill, â'r rhai yr ymunodd Cronin. Y'mhlith y rhai'n yr oedd J. N. Darby, gŵr o feddwl cun, a chrefyddol ei fryd, yr hwn a brofodd ei hun yn lled fuan yn brif yspryd y symudiad. Galwyd hwy gan y cyhoedd yn Darbiaid—ar ol enw Darby, wrth yr hwn eu hadwaenir eto yn America. Trwy ymweliad Darby â Plymouth, cafodd dderbyniad croesawgar gan luaws, a bu llwyddiant mawr ar ei ddaliadau. Elai ei genhadon allan i'r wlad, lle yr adwaenid hwy fel BRODYR o PLYMOUTH, wrth ba enw yr adwaenir y Sect yn y wlad hon. Meddylddrych arweiniol, a chychwynyl y Sect hon ydoedd "*ymgeisio at gadw undeb yr Yspryd*" y'ngwyneb ymraniadau Cred. Mabwysiasant fath o Galfiniaeth gymedrol ar rai o'r prif byngciau ond änt i eithafion yn eu syniadau am yr Eglwys a'i gweinidogaeth. Eu syniad yw fod derbyniad y Weinidogaeth swyddogol, fel cyfrwng rhwng Duw a dyn, yn anwybyddiad ar y ragorfraint a fwynheir gan bob credadyn i ddyfod at orsedd grâs. Er hynny fod gweinidogaethau i'w cael yng Ngair Duw, heb y rhai y byddai gwaith Crist yn amherffaith; ddarfod iddo ymddiried i ddyn air y cymod. Ond, nid swyddogaeth neulltuol ydyw hon, eithr ymarferiad yw o ddawn ysprydol arbennig,—rhywbeth dwyfol, am yr hon y mae y person a'i medd yn gyfrifol i Grist yn unig. Credant fod gan bob Cristion, yn ychwanegol at ddawn cyffredinol yr Yspryd, ddawn neulltuol hefyd. Credant yn nyfodiad cyn-mil-flwyddol Crist,—y *parousia*, ac y daw Efe i deyrnasu dros yr holl Eglwys yn bersonol, am fil o flynyddoedd, ac y daw drachefn i farnu y byd. Y maent yn syml odiaeth yn eu ffurf o addoliad, ac y mae yn eu plith rai o'r cymeriadau Cristionogol gloywaf. Perthyn i'r Brodyr yr oedd yr enwog a'r sanctiedig George Müller, ac y mae eu dysgeidiaeth am ailenedigaeth yn llanw pregethau D. L. Moody. Er hynny condemniant Sefydliadau Eglwysig o bob math. Atebiad digonol

iddynt, debygem, yw yr ymraniadau sydd yn eu plith eu hunain, a'u trefniant manwl, er nas honant hynny. Y ffaith yw, yr arferant y peth amlwg a gondemniant yn ereill. Heblaw hyn, amhosibl yw iddynt fod yn ddiesgus am eu cyfeiliornad yng ngwyneb dysgeidiaeth oleu yr Epistolau Bugeiliol.

NODIAD LXIII.

YR EGLWYS APOSTOLAIDD GATHOLIG.

T. D. 386.

YR EGLWYS APOSTOLAIDD GATHOLIG sydd Sect grefyddol sylfaenedig yn bennaf gan yr hynod EDWARD IRVING (1792—1834), a gelwir hwy weithiau yn Irvingiaid. Yr oedd Irving ar y pryd yn Weinidog Prespyteraidd yn yr Alban. Mynnai nifer o wŷr a gwragedd detholedig o'i Eglwys yn 1830, ddarfod iddynt gael eu cynysgaethu â "Doniau i lefaru â thafodau," tra y'nghyd ar lân yr afon Glwyd. Honnont ddarfod i hyn ddigwydd fwy nag unwaith, a darfod i Dduw hyspysu iddynt mai Ei ewyllys ydoedd adferiad y swydd Apostolaidd, yn ei llawn ystyr. Yn 1835, bu i ddeuddeg "Apostol" gael eu hethol "trwy ddynodiad Dwyfol." Trwy ymgysgu o'r deuddeg hyn yn "Goleg Apostolaidd," ymgymerasant â gofalu am holl Eglwys Dduw. Rhoddant gryn bwys ar ail-enedigaeth yn y bedydd, presenoldeb Ysprydol Crist yn y Cymun, yr Hwn ar ol cysegriad yr elfennau a dreiddia drwy y bara a'r gwin; rhoddant bwys neulltuol ar ail-ddyfodiad Crist. Y mae eu trefniant Eglwysig yn fath o gymysgfa Eclectaidd. Rhydd le amlwg i'r Credöau cyffredinol. Cynhwysir yn ei swyddogaeth Apostolion, Proffwydi, ac Efengylwyr, ar y rhai y mae gofalu yn gyffredinol am yr Eglwys; hefyd, Angylion (Esgobion), Henuriaid a Diaconiaid, swydd y rhai yw gofalu am gynulleidfaoedd neulltuol. Mae'r Sect hon yn ei ffurf-wasanaeth yn eithafol ddefodol—a dynwareda yr hyn a fŷn o eiddo yr Eglwys Iddewig, Eglwys Loeger, ac Eglwys Groeg. Bu dra llewyrchus yn Llundain a mannau ereill. Ond y mae ei nerth yn prysur ballu. Er ei holl rwysg, hynodir ei phroffeswyr â nodwedd uchel o ddefosiwn.

W. WILLIAMS A'I FAB, ARGRAPHWYR, TREFFYNNON.
